4. Cognitive/functional/word grammars: The common feature of this cluster of frameworks is that they do not recognize strict divisions between grammar/syntax, meaning and discourse functions.
5. Idiolectal competence: Within this notion, we should draw a distinction between what speakers know/believe about their grammar and how these beliefs are actually internally represented ('psychogrammar') as George (1990) has pointed out.

(2004, tt.105–6)

Nid bwriad y traethawd hwn yw creu canllawiau neu fframwaith gramadegol ar gyfer cyfnewid cod. Fodd bynnag, wrth fynd ati i ddadansoddi'r llenyddiaeth, byddaf yn casglu data ynglŷn â natur ramadegol y cyfnewid cod. Hynny yw,

byddaf yn nodi'n benodol beth yw pob esiampl o gyfnewid cod – enw, ansoddair, ymadrodd enwol, ac yn y blaen. Gellid defnyddio darganfyddiadau'r traethawd hwn, felly, er mwyn cymharu patrymau cyfnewid cod Cymraeg-Saesneg a Ffrangeg-Saesneg mewn llenyddiaeth ag astudiaethau gramadegol eraill o gyfnewid cod. Ceir mwy o fanylu ar y fethodoleg hon yn y bennod nesaf.

1.2.1 Categoriâu gramadegol

Isod, trafodir gwaith ysgolheigion eraill sydd wedi casglu data ar natur ramadegol esiamplau o gyfnewid cod. Yn debyg i fethodoleg y traethawd hwn, maent yn gwneud hyn mewn ffordd ddisgrifiadol, yn hytrach nag argymhellol. Nid ydynt yn ceisio creu rheolau neu ganllawiau ar gyfer gramadeg cyfnewid cod, ond yn dangos tueddiadau gramadegol eu corpora hwy. Wrth ddadansoddi'r cyfnewid cod yn ôl y patrymau gramadegol, gellir gweld a oes rhai mathau o eiriau'n cael eu cyfnewid yn fwy nag eraill. Er nad yw darganfyddiadau'r astudiaethau unigol hyn ond yn ddigonol i ddisgrifio'r corpora y maent yn seiliedig arnynt, drwy eu tynnu at ei gilydd ceir darlun cliriach o batrymau cyfnewid cod yn fwy eang.

Wrth ddadansoddi cyfnewid cod Sbaeneg-Saesneg, nodi Pfaff fod ei chorpws⁶ yn cynnwys y categorïau canlynol:

⁶ Disgrifia Pfaff ei chorpws fel 'an extensive corpus of conversational data from approximately 200 speakers of various ages and social backgrounds, recorded in a variety of social settings by bilingual participant-observer' (1979, t.294).

Single Lexical Items			Phrases			Clauses	
Noun	Verb	Adjective	Noun Phrase	Prepositional Phrase	Verbal Phrase	Coördinate & subordinate	Relative

Tabl 1: Categoriâu gramadegol Pfaff

(1979, t.293)

Gwelir bod Pfaff yn gwahaniaethu rhwng tri phrif fath gwahanol o gyfnewid cod: geiriau unigol, ymadroddion a chymalau. Amrywiaeth fach o gategoriâu sydd yn astudiaeth Pfaff yma o'i chymharu â chategoriâu rhai ysgolheigion y byddaf yn troi atynt maes o law. Fodd bynnag, gan fod y categorïau hyn wedi eu creu wrth ymateb i gorpws penodol, mae'n adlewyrchu'r tueddiadau yn y corpws arbennig hwnnw.

Wrth ddadansoddi sgwrs unigolion dwyieithog Sbaeneg-Saesneg o Puerto Rico, gwahaniaetha Poplack (1980) rhwng y categorïau canlynol. Gwelir bod Poplack wedi rhannu'r tabl isod yn ddwy ran: cyfnewid 'intra-sentential' – mewnfrawddegol, sef cyfnewid sy'n digwydd o fewn brawddeg – a chyfnewid 'extra-sentential' – rhyngfrawddegol, sef cyfnewid sy'n digwydd ar y ffin rhwng brawddegau.⁷ Mae hyn yn ymdebygu i Pfaff (1979) yn gwahaniaethu rhwng geiriau unigol, ymadroddion a chymalau, er nad yw gwahaniaethu Poplack yn mapio'n union ar fethodoleg Pfaff. Dyma'r categorïau sydd gan Poplack:

⁷ Gwelwyd eisoes bod Grosjean (1982) a Clyne (1987) yn gwahaniaethu rhwng y ddau fath hyn o gyfnewid cod – cyfnewid mewnfrawddegol a chyfnewid rhyngfrawddegol.

Syntactic Category of CS	
Intra-sentential	determiner (single) noun subject noun phrase object noun phrase auxiliary verb verb phrase independent clause subordinate (and relative) clause adjective predicate adjective adverb preposition phrases (prep, adj, advb, inf) conjunctions (sub-ordinate, coordinate, relative pronoun)
Extra-sentential	sentence filler interjection idiomatic expression quotation tag

Tabl 2: Categoriâu gramadegol Poplack

(1980, t.602)

Gwelir bod Poplack yn cynnwys sawl elfen o fewn cyfnewid rhyngfrawddegol – nid brawddegau cyfain yn unig. Mae hi hefyd yn cynnwys esiamplau eraill sy'n sefyll yn annibynnol o weddill y disgwrs – dyfyniadau, tagiau, ebychiadau, ac yn y blaen. Mae cynnwys dywediadau idiomatig yn ddiddorol; mae tueddiad i'w defnyddio'n unieithog, ac felly maent yn ymddwyn fel 'bound morphemes', gan nad oes tueddiad i gyfnewid o fewn y dywediadau idiomatig (Poplack 1980, t.586).⁸

Wrth ddadansoddi cyfnewid cod mewn dramâu Chicano, rhanna Pfaff a Chávez y cyfnewid rhwng y categorïau canlynol:

⁸ Ceir gan Poplack yr esiamplau 'cross my fingers [sic] and hope to die' a '*si Dios quiere y la virgen*' (1980, t.586).

Single Lexical Items	Appellations
	Substantives
	Verbs
	Adjectives
	Conjunctions
	Interjections
Phrases	
Sentences/Clauses	

Tabl 3: Categorïau Pfaff a Chavez

(1986, t.238)⁹

Gwelir eto fod hyd y cyfnewid yn bwysig yma, wrth i Pfaff a Chávez wahaniaethu rhwng geiriau unigol, ymadroddion a brawddegau neu gymalau.

Mae Bentahila a Davies (1995) yn gwahaniaethu rhwng y categorïau canlynol yn eu corpws o siaradwyr sy'n cyfnewid cod Arabeg-Ffrangeg:

- (1) for a whole clause
- (2) for a whole NP
- (3) for a whole PP
- (4) for adverb/AdvP
- (5) for filler/tag/parenthetical
- (6) within NP:
 - between Det and Det
 - between Det and N
 - between N and Adj
 - between N and possessive
- (7) for a conjunction alone
- (8) for a preposition alone
- (9) for a pronoun alone
- (10) within a verb (between bound and root morphemes)
- (11) other

Tabl 4: Categorïau gramadegol Bentahila a Davies

(1995, t.80)

Er nad yw Bentahila a Davies yn grwpio'r categorïau hyn o safbwynt eu hyd, gwelir eu bod yn cynnwys cymalau, ymadroddion, a geiriau unigol. Ceir hefyd gyfnewid morffemau, sef y cyfnewid sy'n digwydd 'o fewn berfau' – hynny yw, creu berf o air Ffrangeg gyda morffemau Arabeg (e.e. 'kajexecutiw' o'r ferf *executer* a 'jtransmiw' o'r ferf *transmettre* (1995, tt.83–4). Trafodir hyn ymhellach yn ddiweddarach yn y bennod.¹⁰

⁹ Nodir eu bod hefyd yn cyfrif sawl enw priod Sbaeneg neu Saesneg sydd ym mhob drama, gan fod enwau priod Sbaeneg yn chwarae rôl bwysig wrth farcio ethnigrwydd cymeriadau, yn enwedig mewn dramâu sy'n defnyddio'r Saesneg gan fwyaf, heb lawer o gyfnewid cod Saesneg-Sbaeneg.

¹⁰ Gweler t.25.

Mae Callahan (2004) hefyd yn casglu gwybodaeth ramadegol am gyfnewid cod, gan ddefnyddio corpws o nofelau Sbaeneg-Saesneg. Mae hi'n disgrifio'r categorïau gramadegol hyn fel 'syntactic categories':

<p>SINGLE LEXICAL ITEMS noun adjective adverb verb preposition conjunction interjection ['inc. vocatives, expletives, discourse markers, and some exclamations' (t.79)]</p>
<p>PHRASES NP AdjP AdvP VP PP</p>
<p>CLAUSES Independent (inc. coordinate) Subordinate</p>

Tabl 5: Categorïau gramadegol Callahan

(2004, t.48)¹¹

Yn nhabl 6 trosodd, gwelir yr holl gategorïau gramadegol a drafodwyd yn yr adran hon wedi eu gosod ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn amlygu unrhyw orgyffwrdd neu wahaniaeth barn. Nodir bod pedair o'r pum astudiaeth yn edrych ar gyfnewid cod Sbaeneg-Saesneg, tra bo Bentahila a Davies yn astudio cyfnewid cod Arabeg-Ffrangeg. Er bod gorgyffwrdd rhwng y categorïau, yn ddiddorol iawn gwelir nad ydynt yn cyfateb yn union. Defnyddir lliwiau yn y celloedd er mwyn dangos perthynas is-gategorïau, er enghraifft mae Poplack

¹¹ Nid oes sôn am frawddegau yn y tabl uchod. Mae hyn oherwydd eu bod yn cael eu hepgor o fod yn gyfnewid cod oherwydd methodoleg Callahan. Defnyddia Fframwaith Iaith Fatrics Myers-Scotton fel rhan o'i methodoleg, a gall testun gael mwy nag un iaith fatrics (2004, t.41). O'r herwydd, os oes brawddeg(au) Saesneg o fewn testun Sbaeneg, mae'r iaith fatrics wedi newid i'r Saesneg. Trafodir damcaniaeth Myers-Scotton yn ddiweddarach yn y bennod hon.

(1980) yn rhoi pymtheg is-gategori o fewn 'intrasentential', felly mae'r lliw glas yn dangos eu bod yn perthyn i'w gilydd.¹²

¹² Nodir hefyd fod categori 'for adverb/AdvP' Bentahila a Davies yn ymddangos ddwywaith, er mwyn cyfateb i gategorïau'r ysgolheigion eraill – nodir (1) a (2) yn y gell er mwyn dangos y dyblygiad.

Pfaff (1979)		Poplack (1980)		Pfaff a Chávez (1986)		Bentahila a Davies (1995)		Callahan (2004)	
Single lexical items	Noun	Intra-sentential	(single) noun	Single lexical items	Appellations		Single Lexical Items	Noun	
	Verb		Verb		Substantives				Verb
	Adjective		Adjective		Verbs				Adjective
				Predicate Adjective					
				Adverb			For adverb/AdvP (1)		Adverb
				Determiner					
				Auxiliary					
				Preposition			For a preposition alone		Preposition
							For a pronoun alone		
							For a conjunction alone		
			Conjunctions		Conjunctions			Conjunction	
Phrases	NP	Intra-sentential (parhad)	Subject noun phrase	Phrases	Phrases	For a whole NP	Phrases	NP	
			Object noun phrase						For a whole PP
	Phrases (prep, adj, advb, inf)					For adverb/AdvP (2)			AdjP
Verb phrase						AdvP			
VP						VP			
Clauses	Coördinate & Subordinate			Independent clause	Sentences/Clauses		For a whole clause	Clauses	Independent (inc coordinate)
	Relative			Subordinate (and relative) clause					Subordinate
			Extra-sentential	sentence					
				filler			For filler / tag / parenthetical		
				tag					
		interjection			Interjections			Interjection	
		idiomatic expression							
		quotation							
					Within NP:	between Det and Det			
						between Det and N			
						between N and Adj			
						between N and possessive			
						Within a verb			
						Other			

Tabl 6: Trosolwg o'r categorïau gramadegol

Er y gellid ystyried y system ramadeg fel system sy'n dilyn rheolau cadarn, gwelir bod yr ysgolheigion hyn yn dehongli'r categorïau ychydig yn wahanol. Gwelir Pfaff a Chávez yn grwpio brawddegau a chymalau gyda'i gilydd, a'u hastudiaeth hwy yw'r unig un nad yw'n gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o ymadroddion. Gwahaniaetha'r rhan fwyaf o'r ysgolheigion rhwng geiriau unigol, cymalau a brawddegau, ond mae Poplack yn rhannu'r categorïau rhwng rhai rhyngfrawddegol a mewnfrawddegol. Felly, er bod categorïau gramadegol yn llai goddrychol na meysydd eraill y byddaf yn eu trafod maes o law yn y bennod hon, gwelir eu bod eto'n llawn amrywiaeth.

Ond pam casglu data ar ramadeg cyfnewid yn y lle cyntaf? Wrth i ysgolheigion ddisgrifio'u corpora yn ôl eu gramadeg, gall ysgolheigion eraill gymharu nodweddion gramadegol cyfnewid cod pâr iaith gwahanol. Wrth gasglu'r darganfyddiadau hyn at ei gilydd, gellir deall cyfnewid cod ar lefel ryngwladol yn well. Ai'r un mathau o eiriau sy'n cael eu cyfnewid ym mhob pâr iaith? A oes un iaith yn cyfnewid mwy o adferfau nag ieithoedd eraill, er enghraifft? A oes mwy o gyfnewid morffemau mewn rhai ieithoedd? Wrth gymharu sefyllfa ieithyddol y gwahanol barau iaith hyn, gellir deall y math o amgylchiadau sy'n arwain at fath arbennig o gyfnewid cod.

1.2.2 Rheolau gramadegol

Maes arall o ramadeg sydd o ddiddordeb i nifer o ysgolheigion yw rheolau gramadegol. Fel y dywed Gardner-Chloros ac Edwards (2004, t.125), nid a oes gramadeg yn bodoli yw'r cwestiwn pwysig, ond *ar ba lefel* y mae'r ramadeg hon yn gweithio. Fel y dywed Joshi (1985, t.190), dim ond mewn cyfnewid cod mewnfrawddegol y mae gramadeg y ddwy iaith yn dod i gysylltiad clos – yn 'rhyngweithio', i ddefnyddio term Joshi. Rhaid cofio, wrth gwrs, fod y rheolau hyn yn rhai sy'n addas i ddisgrifio'r pâr iaith dan sylw yn unig. Hynny yw, efallai

nad yw rheol sydd wedi'i chreu wrth ddisgrifio corpws o gyfnewid Sbaeneg-Saesneg yn addas i ddisgrifio patrymau gramadegol cyfnewid Arabeg-Swedeg. Rhaid cofio bod nifer fawr o barau iaith posib yn y byd, a rhaid casglu neu ddefnyddio data sy'n cynrychioli'r parau iaith hyn, neu '[theoretical linguists] run the risk of developing and supporting powerful universal models which cannot be substantiated universally' (Clyne 1987, t.762).

Gwelir rhai ysgolheigion yn defnyddio'u corpws o siaradwyr yn cyfnewid cod er mwyn darganfod a yw rheolau gramadegol iaith₁ yn cael eu defnyddio wrth gyfnewid cod, er nad yw'r rheol yn bodoli yn iaith₂. Er enghraifft, mae Montes-Alcalá a Shin (2011) yn trafod a yw enwau sy'n eiriau benthyg Saesneg yn y Sbaeneg yn fenywaidd neu'n wrywaidd – gan gofio, wrth gwrs, bod cenedl ramadegol i enwau Sbaeneg, ond nad oes cenedl gan enwau Saesneg. Un ffordd hawdd o brofi cenedl enw yn y Sbaeneg yw edrych ar y fannod – sef *el*, *la*, *los*, *las*. Canlyniad eu hastudiaeth oedd mai'r tueddiad mwyaf cyffredin oedd i drin enwau benthyg fel enwau gwrywaidd,¹³ er bod nifer o enghreifftiau yn osgoi dynodi cenedl yn ogystal (e.e. osgoi defnyddio'r fannod) (2011, tt.130–1). Mae Jake, Myers-Scotton a Gross hefyd yn gweld bod enwau Saesneg mewn brawddegau Sbaeneg yn cael eu trin fel enwau gwrywaidd yn awtomatig (2002 t.82, dyfynnir yn Vasatka 2013, t.12).

Mae rhai ysgolheigion yn edrych ar drefn geiriau wrth gyfnewid cod. Er enghraifft, a yw cyfnewid cod Cymraeg-Saesneg yn dilyn patrwm brawddeg Gymraeg (VSO) neu Saesneg (SVO) (Deuchar 2006)? A yw ansoddeiriau'n dilyn yr enw y maent yn ei ddisgrifio, neu'n ei ragflaenu? Mae Perrot (2001; 1994) yn edrych yn benodol ar y defnydd o eiriau Saesneg fel 'back' a 'still' wrth

¹³ Hyd yn oed os mai benywaidd fyddai'r gair Sbaeneg cyfatebol (Montes-Alcalá a Shin 2011, t.131).

i siaradwyr Ffrangeg o Ganada gyfnewid cod. Sylwa Deuchar (2006, t.1994) fod rhegfeydd Saesneg sy'n cael eu defnyddio fel ansoddeiriau gan amlaf yn rhagflaenu'r enw (e.e. y blydi lle 'ma, y ffycin ddynas 'na). Fodd bynnag, noda nad yw hyn o reidrwydd yn torri rheolau cystrawennol y Gymraeg gan fod rhai ansoddeiriau yn y Gymraeg yn rhagflaenu'r enw, er enghraifft 'hen' neu 'unig'.

Aiff Myers-Scotton â'r astudiaeth o strwythur gramadegol ymhellach gan greu dwy ddamcaniaeth i ddisgrifio cyfnewid cod. Mae un, y *markedness model* (MM) (Scotton 1983), yn dweud bod y ddwy iaith un ai'n iaith farciedig (yr un na fyddech yn disgwyl i'r siaradwyr ei defnyddio yn y sefyllfa arbennig honno) neu'n anfarcedig (yr iaith y byddech yn disgwyl i'r siaradwr ei defnyddio). Enw'r ail ddamcaniaeth yw'r model Fframwaith Iaith Fatrics (Myers-Scotton 1993).

Dadleua Myers-Scotton fod y berthynas rhwng y ddwy iaith sy'n cael eu cyfnewid wastad yn un anghytwys, gydag un iaith yn darparu'r fframwaith (h.y. y strwythur a'r ramadeg, a'r rhan fwyaf o'r geiriau) ar gyfer darn o ddisgwrs. Mae'r iaith fatrics yn darparu'r '*system morphemes*' (e.e. y fannod, cysyllteiriau a.y.b.), tra bo geiriau unigol o'r iaith fewnosodedig yn cael eu mewnosod i'r fframwaith sy'n cael ei ddarparu gan yr iaith fatrics. Mae'r geiriau unigol hyn yn '*content morphemes*' – geiriau sy'n llawn ystyr, fel enwau neu ansoddeiriau, yn hytrach na'r geiriau bach fel y fannod sy'n bwysig ar gyfer gramadeg ond nid ar gyfer creu ystyr. Wrth ddechrau ar waith paratoi'r corpws a chasglu testunau, roedd yn amlwg (er yn argraffiadol) fod iaith fatrics y mwyafrif o'r testunau'n aros yn gyson, heblaw am y defnydd o sgwrs iaith₂ gan rai cymeriadau. O ddefnyddio'r Fframwaith Iaith Fatrics, ni fyddai'r ddeialog hon wedi cael ei hystyried yn gyfnewid cod. Ond mae'r defnydd o gymeriadau uniaith iaith₂ yn ychwanegu elfen ddwyieithog i'r testun, heb o reidrwydd roi'r ddwy iaith ar lefel gyfartal. Felly, gwelwyd bod damcaniaeth Myers-Scotton o ddefnydd

cyfyngedig yn yr achos hwn; er bod modd ei defnyddio i ddadansoddi llenyddiaeth, fel y gwna Callahan (2002), nid yw'n cael ei defnyddio ym mhob astudiaeth. Yn wir, mae Bentahila a Davies yn nodi bod y fframwaith yn gallu achosi cymhlethdod gan ei fod yn rhy hyblyg (2001). O'r herwydd, ni fyddaf yn defnyddio damcaniaethau Myers-Scotton er mwyn dadansoddi cyfnewid cod yn y corpws hwn.¹⁴

1.2.3 Benthycia neu gyfnewid?

Ceir nifer fawr o enghreifftiau o astudiaethau'n archwilio'r gwahaniaeth rhwng benthycia a chyfnewid cod. Mae'r gwahaniaeth hwn yn un pwysig gan mai'r hyn y mae ysgolheigion yn aml am ei astudio yw'r ieithwedd sy'n unigryw i unigolion dwyieithog (cyfnewid cod), yn hytrach na'r geiriau a fyddai'n ddealladwy i unigolion heb sgiliau dwyieithog (geiriau benthycig). Ond sut mae gwahaniaethu rhyngddynt? Efallai mai'r esboniad symlaf yw 'a loan word is a borrowing with a full time job' (Gardner-Chloros 1987 t.102 yn: Myers-Scotton 1993, t.176). Hynny yw, yr iaith yn fwy eang sy'n defnyddio gair benthycig, tra bo cyfnewid cod yn rhywbeth y mae'r unigolyn ei hun yn dewis ei ddefnyddio. Mae'r diagram canlynol gan Grosjean yn dangos y gwahaniaeth yn glir:

¹⁴ Nodir y gallai'r ddamcaniaeth hon fod yn fwy defnyddiol ar gyfer testunau sy'n rhoi'r ddwy iaith ar lefel gyfartal – e.e. drama gyda rhai prif gymeriadau sy'n defnyddio'r Gymraeg, a rhai sy'n uniaith Saesneg. Dyma a geir yn *A Good Clean Heart*, drama a ddadansoddir fel rhan o'r traethawd hwn. Fodd bynnag, gan mai dyma'r unig destun sy'n gwneud defnydd estynedig a chyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg fel rhan o'r cyfnewid cod, ni ddefnyddiwyd y Fframwaith Iaith Patrics yma. Gallai hyn fod yn astudiaeth ddiddorol at y dyfodol.

Code-switch



Borrowing



Ffigur 1: Diagram esboniadol Grosjean

(2010, t.58)

Gwelir bod gair benthyc yn cael ei weu i mewn i strwythur yr iaith arall, tra bo cyfnewid cod yn rhywbeth sy'n eistedd y tu allan i'r iaith.

Fodd bynnag, mae gwahaniaethu rhwng geiriau benthyc a chyfnewid cod yn gallu bod yn fater cymhleth. Mae Poplack a Sankoff (1984) yn defnyddio'r canllawiau isod er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfnewid a benthyc:

		borrowing	code-switching
no more than one word		+	-
adaption:	phonological	±/+	±/-
	morphological	+	-
	syntactic	+	-
frequent use		+	-
replaces own word		+	-
recognised as own word		+	-
semantic change		+	-

Tabl 7: Diagram Muysken – Benthyc vs Cyfnewid Cod
(diagram gan Muysken 1995, tt.190–1; Poplack & Sankoff 1984)

O'r tabl uchod, gwelir mai geiriau unigol yn unig yw'r geiriau benthyc, a bod addasiad ffonolegol, morffolegol a chystrawennol yn digwydd, yn ogystal â newid semantegol. Maent yn cael eu defnyddio'n aml ac yn cymryd lle'r gair gwreiddiol $laith_1$ ac yn cael eu cydnabod fel gair sy'n perthyn i $laith_1$. Gyda chyfnewid cod, gellir cael addasiad ffonolegol (wrth i'r cyfnewid cod ddechrau datblygu'n air benthyc) ond dyma'r unig nodwedd sy'n cael ei rhannu â gair benthyc.

Ceir rhai ysgolheigion megis Poplack a Sankoff (1984) yn dadlau bod angen cael integreiddio morffo-ffonolegol er mwyn i'r enghraifft fod yn air benthyc.

Fodd bynnag, mae Myers-Scotton (1993, t.21) yn anghytuno â hyn, gan

ddefnyddio'r term Ffrangeg 'rendez-vous' fel enghraifft. Nid oes ymdrech i integreiddio'r gair hwn i'r Saesneg, ond gan nad oes angen medru'r Ffrangeg i deall y term, gair benthyc yw'r esiampl hon yn sicr. Felly, dewisa Myers-Scotton gyfrif nifer yr enghreifftiau er mwyn gwahaniaethu rhwng benthyc a chyfnewid cod. Dywed:

I use three or more occurrences in different conversations in a corpus of a minimum of twenty hours of conversation as the mark of a B form. Admittedly, three is an arbitrary number. (1993, t.204)

Ceir ysgolheigion eraill, megis Callahan (2004), yn eithrio geiriau sy'n cael eu disgrifio ganddi fel 'cultural borrowings' yn gyfan gwbl. Y rheswm am hyn yw bod y geiriau'n rhai sy'n unigryw i'r iaith¹, efallai heb air cyfystyr iaith². Mae'n hawdd adnabod y geiriau hyn fel geiriau benthyc, ond nid ydynt yn cael eu heithrio o bob corpora. Er enghraifft, mae Vasatka (2013) yn cyfrif yr enghreifftiau o eiriau Sbaeneg sy'n bresennol mewn corpws o lyfrau plant, gan gynnwys geiriau sy'n ymwneud â bwyd. Er ei bod hi'n cyfaddef y byddai'r geiriau hyn yn rhai y byddai darllenwyr uniaith Saesneg yn eu deall, maent yn rhoi blas Sbaeneg i'r llyfrau, heb ddieithrio'r plant nad ydynt yn medru'r Sbaeneg.

Yn aml bydd ysgolheigion yn gwahaniaethu rhwng geiriau y byddai'r boblogaeth yn ehangach (h.y. siaradwyr nad ydynt yn ddwyieithog) yn eu deall er mwyn pennu a yw enghraifft yn air benthyc ai peidio. Yn amlwg, mewn cymdeithas ddwyieithog fel Cymru, mae'r dull hwn o wahaniaethu bron yn amhosib, gan fod mwyafrif y boblogaeth yn meddu ar sgiliau dwyieithog cryf. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, mae Deuchar (2006; 2005) yn dewis defnyddio Geiriadur Prifysgol Cymru (GPC) er mwyn gwahaniaethu rhwng geiriau benthyc a chyfnewid cod. Os yw gair wedi cael ei gynnwys yn y Geiriadur, mae'n arwydd ei fod wedi dod yn rhan o'r iaith Gymraeg. Er enghraifft, mae'r gair 'blydi' yn y

Geiriadur, ac er bod yr orgraff wedi newid o'r Saesneg '*bloody*', yr un ystyr sydd yma. Fodd bynnag, mae defnyddio'r dechneg hon yn gallu rhoi canlyniadau annisgwyl. Er enghraifft, mae geiriau fel 'twat' a 'wanc' neu 'wancer' yn GPC, ond nid yw geiriau fel 'ok' neu 'oce', 'ffyc' neu 'ffwc' wedi cael lle yn y Geiriadur eto, er eu bod yn cael eu defnyddio gan ystod eang o siaradwyr y Gymraeg. Yn amlwg, mae hyn yn nodwedd broblematic o ddefnyddio methodoleg Deuchar. Fodd bynnag, gan nad oes modd gwahaniaethu rhwng geiriau y byddai siaradwr uniaith Gymraeg yn eu deall neu'n methu eu deall, ac y byddai cyfrif enghreifftiau yn rhoi canlyniadau a fyddai'n amrywio'n fawr o gorpws i gorpws (ac o destun i destun), penderfynwyd mai dull Deuchar o ddefnyddio geiriadur fyddai'r dull gorau ar gyfer y traethawd hwn.

1.2.4 Gwahaniaethu rhwng mathau eraill o gyfnewid cod

Ar wahân i fenthyca, ceir mathau eraill o gyfnewid cod i wahaniaethu rhyngddynt. Mae sawl ysgolhaig yn gwahaniaethu rhwng cyfnewid cod (code switching) a chymysgu cod (code mixing) – fel y gwelwyd eisoes yn achos Jonsson (2005). Yn anffodus, nid yw'r diffiniadau o'r termau hyn yn gyson rhwng gwaith y gwahanol ysgolheigion. Mae Moyna (2008) yn defnyddio 'cymysgu cod' i ddisgrifio cyfnewid cod a geiriau benthyg, gan ddilyn defnydd Pfaff (1979) o'r termau hyn. Wrth ddisgrifio defnydd plant o ddwy iaith, gwahaniaetha Miesel (yn: Bentahila & Davies 1995) rhwng 'fusion', os nad yw'r plentyn yn wir ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng y ddwy iaith, a 'code mixing' os yw'r plentyn wedi anghofio neu os nad yw'n gwybod y term iaith₂. Defnyddia Miesel y term 'cyfnewid cod' i ddisgrifio oedolion yn defnyddio'u dwy iaith gyda'i gilydd yn bwrpasol. Mae McClure hefyd yn defnyddio 'code mixing' i ddisgrifio ffenomen debyg, sef os yw siaradwr yn methu canfod am ennyd y gair yn yr

iaith briodol (1981 yn: Montes-Alcalá 2001, t.201). Mae Deuchar yn defnyddio ‘cymysgu cod’ i ddisgrifio cyfnewid cod mewnfrawddegol, a defnyddia Bennett-Kastor (2008) ‘cymysgu cod’ i ddisgrifio cyfnewid mewnfrawddegol, tra bo ‘cyfnewid cod’ yn disgrifio cyfnewid rhyngfrawddegol.

Mae Auer yn gwahaniaethu rhwng cyfnewid cod sy’n eiledol (*alternational*) a chyfnewid sy’n fewnosodedig (*insertional*). Mewn cyfnewid cod eiledol, mae’r siaradwr yn symud yn ôl ac ymlaen rhwng y ddwy iaith yn gyson. Dyma’r esiampl a ddefnyddia Auer i egluro cyfnewid eiledol:

(3) (Preziosa Di Quinzio, 1992, quoted from Franceschini, 1998, p. 59f)

[Italian immigrants in Switzerland, Swiss German dialect and Italian (underlined); author’s transcription conventions]

p11: perché meinsch che se tu ti mangi emmentaler o se tu ti mangi una fontina isch au
‘because, you mean, if you eat Emmental cheese or if you eat Fontina cheese, there is also

en unterschied, oder? schlussendlich è sempre dentro lì però il gusto isch andersch.
there is also a difference, isn’t there? Actually, it’s still there, but the taste is different’

p6: è vero!
‘that’s right!’

Ffigur 2: Cyfnewid Eiledol Auer

(1999, tt.314–5)

Gwelir bod y siaradwyr yn symud yn ôl ac ymlaen rhwng y ddwy iaith yn hawdd; mae bron fel bod y ddwy iaith yn uno i greu iaith newydd – yn sicr dyma ddamcaniaeth Auer. Ar y llaw arall, mae cyfnewid mewnosodol yn berthynas lai cytbwys. Dyma esiamplau Auer o gyfnewid o’r fath:

(4) (from Bentahila & Davies, 1995, p. 83)

[younger generation of Moroccan speakers; French in italics; clause numbers added; authors' transcription conventions]

(1) hadu *les cousins* djali žajjin men *la France* w šandhum

'these (*the*) *cousins* of mine were coming from *France* and they had'

la voiture ...

'a car

(2) mša *la voiture* djal xali ...

with *the car* of my uncle

(3) merra *la*

one day *the*'

plage, merra žžebel, merra *la forêt*, kul merra w fin.

'*beach*, one day the mountains, one day *the forest*, every time somewhere different']

Ffigur 3: Cyfnewid Mewnosodol Auer

(1999, t.316)

Gwelir bod y siaradwyr hyn yn mewnosod rhai termau Ffrangeg mewn

brawddegau Arabeg. Nid ydynt yn plethu'r ddwy iaith â'i gilydd yn yr un modd

â'r siaradwyr yn yr esiampl gyntaf. Fel y dywed Deuchar, 'in the insertion

pattern, one language determines the overall structure into which constituents

from the other language are inserted' (2005, t.609).

Defnyddia Auer y termau hyn i drafod camau o gyfnewid cod, gan ddadlau bod

'continuum of language alternation phenomena [...] which spans out between

[three] prototypes' (1999, t.309). Mae'r cyntaf yn 'gyfnewid cod', sy'n broses

rhydd heb reolau pendant, a dim ond grŵp cymharol fychan a fyddai'n deall y

math hwn o ieithwedd (*locally meaningful*). Mae'r ail gam, sef cymysgu

ieithoedd (*language mixing*), yn fwy sefydlog, ac wedi dechrau datblygu rheolau

neu gyfyngiadau. Mae'r math hwn o ieithwedd yn un sy'n cael ei ddeall gan

grŵp mwy o siaradwyr. Disgrifia Auer y gwahaniaeth rhwng cyfnewid cod a

chymysgu cod fel a ganlyn:

The distinction between functional and (locally) non-functional language alternation is important for setting off code-switching against 'code-mixing'. In the latter case, the frequent variation between the two 'codes' has become a 'mode of interaction' in its own right, that is, a new code with 'rules' and regularities of its own. (2009, t.491)

Felly mae cymysgu cod yn fwy sefydlog, yn ôl Auer, ac nid yw'n broses mor

rhydd â chyfnewid cod. Mae'r cam olaf, *fused lects*, yn iaith newydd, mewn

gwirionedd, sydd wedi'i ffurfio o'r ddwy iaith. Mae'r rheolau yn yr iaith hon yn rhai cadarn iawn, heb unrhyw hyblygrwydd. Defnyddia Auer yr iaith Michif fel esiampl, sydd wedi'i chreu o'r Ffrangeg a'r iaith Cree. Yn ôl Auer, 'almost all nouns are said to be taken from French, while Cree provides most of the verbal structures (with the exception of the French copula)' (1999, t.322).

Caiff cyfnewid gair unigol neu gyfnewid enw unigol ei gyfrif fel cyfnewid llai cymhleth neu sy'n defnyddio llai o sgiliau ieithyddol y siaradwr. Gwahaniaetha Poplack rhwng cyfnewid mewnfrawddegol a chyfnewid llai 'clòs' (*intimate*). Er enghraifft, dyma gyfnewid mewnfrawddegol:

He was sitting down EN LA CAMA, MIRANDONOS PELEANDO, Y (in bed, watching us fighting and) really, I don't remember SI ÉL NOS SEPARO (if he separated us) or whatever, you know.

(Poplack 1980, t.589)

Esbonia Poplack, 'we refer to this as a more complex or "intimate" type, since a codeswitched segment, and those around it, must conform to the underlying syntactic rules of two languages which bridge constituents and link them together grammatically' (1980, t.589). Hynny yw, mae rheolau gramadegol cymhleth i'w dilyn wrth ddefnyddio cyfnewid cod o'r math hwn. Mae'r math arall o gyfnewid cod yn digwydd 'ar wahân' i weddill y frawddeg, fel petai, ac felly nid yw'n effeithio ar y ramadeg yn yr un ffordd. Mae'r enghreifftiau hyn yn cynnwys tagiau a chyfnewid enwau unigol, 'often heavily loaded in ethnic content and would be placed low on a scale of translatability' (1980, t.589) – hynny yw, maent yn eiriau sy'n llenwi bwlch geirfaol neu'n cario ystyr arbennig. Dadleua Poplack fod y ffaith mai enwau yw mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn atgyfnerthu ei phwynt – maent yn eiriau sy'n hawdd eu mewnosod mewn brawddeg heb orfod poeni'n ormodol am ramadeg.

Felly gwelir bod gwahanol fathau o gyfnewid cod i'w cael. Fel y dywed Gardner-Chloros 'clear-cut changes, such as the term "switching" implies, *may* occur in bilingual and bidialectal speech but they are only one of many possibilities" (2009, t.12). Efallai fod gwahaniaethu rhwng dau neu dri math gwahanol o gyfnewid cod yn rhy simplistig, ac y dylid ystyried cyfnewid cod yn fath o sbectrwm sy'n cynnwys sawl math gwahanol o ymddygiad ieithyddol. Fel yr esboniwyd eisoes, yn y traethawd hwn defnyddir y term 'cyfnewid cod' fel term cyffredinol, gan ddisgrifio'r gwahanol batrymau sydd i'w gweld yn y testunau, yn hytrach na'u labelu â themau penodol. Penderfynwyd y byddai'n ffordd o adlewyrchu'r ffaith mai sbectrwm yw cyfnewid cod.

1.2.5 Cyfyngiadau

Ffordd arall o ddisgrifio gramadeg cyfnewid cod yw llunio cyfres o gyfyngiadau.

Llunnir cyfyngiadau wrth ymateb i enghreifftiau o gyfnewid cod. Fel y dywed Alvarez-Cáccamo, 'the nature of "code-switching constraints", which work in terms of *tendencies* rather than categorical rules, does not seem different from the nature of stylistic co-occurrence constraints on monolingual speech' (1998, t.35). Maent felly yn fwy hyblyg na rheolau neu ganllawiau.

Yn erthygl Pfaff (1979), gwelir bod llawer llai o enghreifftiau o ferfau'n cael eu cyfnewid, ac o'r herwydd, mae Pfaff yn dadlau bod cyfnewid berfau'n fwy cymhleth na chyfnewid enwau – mae'n debyg oherwydd bod rhaid eu marcio ag amser. Fel y dywed Haugen, 'the centrality of the verb in the sentence supplements the fact that tense is an obligatory category in (at least) the Indo-European languages' (1973: dyfynnir yn Pfaff 1979, t.298). Â Pfaff ymhellach, gan ddisgrifio'r ffyrdd y mae'r defnydd o ferfau Sbaeneg a Saesneg yn wahanol o ran morffoleg a chystrawen. Er enghraifft, mae'r Sbaeneg yn gwahaniaethu rhwng mwy o gategoriâu amser a moddau gydag ôl-ddodiad berfol na'r

Saesneg, ac mae berfau Sbaeneg yn cytuno â'r person, ond nid yw berfau Saesneg ond yn cytuno yn y ferf afreolaidd 'bod' a'r ffurf trydydd person unigol mewn berfau eraill yn unig (1979, t.299).¹⁵ Fodd bynnag, gwêl Pfaff fod peth tebygrwydd rhwng gramadeg Saesneg a Sbaeneg: mae'r ddwy iaith yn defnyddio berfau cwmpasog (1979, t.299) megis ffurf y dyfodol: 'voy a cantar'; 'I'm going to sing'. Mae'r ffurf hon hefyd yn bodoli yn y Gymraeg, sef defnyddio'r ferf 'mynd' gyda'r arddodiad 'i', a'i dilyn â'r berfenw, er enghraifft 'dwi'n mynd i ganu'.

Dadleua Joshi na ellir cyfnwid 'closed class items' – gan gynnwys 'determiners, quantifiers, prepositions, tense morphemes, auxiliaries, complementizers, pronouns, etc.' (1985, t.191). Esbonia Azuma pam fod hyn:

Open class items are content words which can meaningfully stand alone, and thus they can be easily code-switched. On the other hand, closed-class items are function words which cannot meaningfully stand alone, and thus no code-switching results. (1998, t.117)

Hynny yw, mae'r 'closed-class items' yn rhai sy'n dibynnu ar y geiriau 'open-class' er mwyn gallu creu brawddeg sy'n ystyrlon, ac nid ydynt yn cario unrhyw ystyr ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, dadleua Gardner-Chloros (2009, t.31) fod *pob* gair yn gallu cael ei gyfnwid, o leiaf mewn theori, er ei bod yn cyfaddef mai enwau yw'r categori sy'n cael ei gyfnwid fwyaf.


Dadleua Myers-Scotton fod y ffaith nad yw'r Saesneg yn iaith gyflynol (*agglutinative*) – hynny yw, yn creu geiriau newydd o forffemau unigol – yn golygu ei bod hi'n llai tebygol bod morffemau unigol yn cael eu cyfnwid.

Trafoda Poplack hefyd y 'free morpheme constraint'; ni ellir creu geiriau newydd o forffemau o'r ddwy iaith. Er enghraifft, dywed nad yw'r ferf '*eatiendo*' – wedi ei

¹⁵ Cymherir y berfau isod – rhoddir y ferf Saesneg a'r ferf gyfatebol Sbaeneg:
To be: I am, you are, s/he is, we are, you are, they are // *Ser: soy, eres, es, somos, sois, son*
To run: I run, you run, s/he runs, we run, you run, they run // *Correr: corro, corres, corre, corremos, corréis, corren.*

ffurfio o'r ferf 'eat' a'r ôl-ddodiad berfol presennol '-iendo' (tebyg i '-ing' Saesneg) – yn bosib. Ymdebyga hyn i'r gwahaniaeth rhwng 'open class' a 'closed class items' Joshi – geiriau 'annibynnol' sydd fwyaf tebygol o gael eu cyfnewid, yn hytrach na'r geiriau sy'n gwneud llawer o'r gwaith gramadegol. Defnyddia Myers-Scotton y termau 'system and content morphemes' i ddisgrifio'r un math o eiriau. Mae 'system morphemes' yn cynnwys 'quantifiers, determiners and possessive adjectives' (Myers-Scotton 1995, t.240), tra bo 'content morphemes' yn cynnwys 'nouns, pronouns, and descriptive adjectives' (1995, t.241). Fodd bynnag, mae ysgolheigion eraill yn gweld cyfnewid morffemau yn eu corpora hwy, felly nid yw damcaniaeth Poplack yn dal dŵr ym mhob pâr iaith. Er enghraifft, mae Deuchar (2005), Gardner-Chloros ac Edwards (2004), Bentahila a Davies (1995), a Pfaff (1979) yn trafod siaradwyr yn creu berfau newydd o forffemau'r ddwy iaith (e.e. y berfau Cymraeg-Saesneg 'exercisio', 'squeekio' (Deuchar 2005, t.619)). Dywed Treffers-Daller (2001, t.78) fod cyfnewid mwy clòs – gan gynnwys cyfnewid morffolegol – yn ffenomenon sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd arbennig yn unig. Geiriau sy'n cael eu cyfnewid gyntaf, ond os oes digon o bwysau cymdeithasol, efallai y bydd morffemau unigol yn dechrau cael eu cyfnewid. Efallai mai o ganlyniad i'r ffenomenon hon y gwelir berfau cyfansawdd wedi'u ffurfio o forffemau o'r ddwy iaith mewn rhai parau iaith, ond nid mewn eraill.

Wrth ffurfio ei chyfyngiad cywerthedd, mae Poplack yn mynd ati i ddisgrifio cyfnewid cod yn ôl rheolau cystrawennol y ddwy iaith. Dywed nad yw cyfnewid cod ond yn bosib os nad yw'n torri rheolau cystrawennol yn un o'r ddwy iaith. Defnyddir y diagram hwn ganddi i esbonio ei damcaniaeth:



Ffigur 4: Cyfyngiad Cywerthedd Poplack

(1980, t.586)

Pan fydd cystrawen y ddwy iaith yn cytuno (y llinellau toredig), gall cyfnewid cod ddigwydd. Gwelir na ellir dweud ‘I dije him’ neu ‘Yo him dije’, gan y byddai hyn yn torri’r rheolau cystrawennol, ac yn creu datganiad sy’n lletchwith, os nad yn hollol ddisynnwyr.

1.3 Dadansoddi swyddogaeth cyfnewid cod

Mewn astudiaeth flaenorol (Orwig 2015), dechreuais ar y gwaith o ddatblygu methodoleg wreiddiol er mwyn dadansoddi cyfnewid cod. Yn debyg i’r ysgolheigion a drafodwyd eisoes sy’n dadansoddi gramadeg gan ddefnyddio categorïau, defnyddiwyd categorïau i ddisgrifio’r darnau o gyfnewid. Mae’r fethodoleg hon yn seiliedig ar waith ysgolheigion eraill ym maes ieithyddiaeth sy’n astudio cyfnewid cod. Yr hyn sy’n wreiddiol am y fethodoleg yw’r modd y cyfunir gwahanol feysydd dadansoddi. Astudiaeth Callahan (2004) yw un o’r ychydig astudiaethau sy’n cyfuno mwy nag un maes dadansoddi, gan gyfuno dadansoddiad gramadegol a dadansoddi ysgogiad/swyddogaeth cyfnewid cod. Mae Albakry a Hancock (2008) hefyd yn edrych ar fwy nag un maes, gan archwilio ysgogiad/swyddogaeth yn ogystal â sut mae’r enghreifftiau o gyfnewid cod yn cael eu rhannu rhwng penodau. Yn yr astudiaeth ar gyfer yr MPhil,

crëwyd methodoleg a oedd yn cyfuno chwe maes dadansoddi.¹⁶ Byddaf yn trafod manylion y fethodoleg hon a'r modd y datblygwyd hi ar gyfer yr astudiaeth bresennol yn ddiweddarach.¹⁷ Yn yr adran hon, dangosir categorïau gan ysgolheigion sy'n edrych ar ysgogiad/swyddogaeth cyfnewid cod. Ar ddiwedd yr adran, byddaf yn tynnu'r categorïau hyn at ei gilydd a'u trafod yn feirniadol.

Mae'r ysgolheigion a drafodir isod oll yn canolbwyntio ar ysgogiad neu swyddogaeth y cyfnewid.¹⁸ Defnyddiant restr o gategorïau i'w disgrifio, sy'n ddefnyddiol er mwyn dangos rhai ysgogiadau/swyddogaethau cyfnewid cod cyffredin, ond fel y mae Auer yn esbonio, gallant fod yn broblematic. Noda bedwar rheswm pam fod rhestrau'n broblematic: (1) cynigir rhestr o gategorïau gydag esiamplau, ond heb ymgymryd â gwaith dadansoddi; (2) tueddir i gymysgu *swyddogaeth* a ffurfiau cyfnewid cod;¹⁹ (3) er y rhoddir arwydd cychwynnol inni gan y rhestrau hyn, mae Auer yn amau a allant ddweud wrthym *pam* fod gan gyfnewid cod ystyr neu swyddogaeth arbennig, ac ni allant fyth fod yn rhestrau gorffenedig; (4) awgryma'r rhestrau mai'r un ystyr a geir pan yw'r cyfnewid yn mynd o laith₁ i laith₂ neu i'r cyfeiriad arall (1995, tt.120–1). Yn ogystal, fel y disgrifia Zentella, mae ceisio pennu ysgogiad/swyddogaeth cyfnewid cod yn dasg gymhleth: 'Pinpointing the purpose of each code switch is a task as fraught with difficulty as imputing the reasons for a monolingual's

¹⁶ Y mesydd dadansoddi oedd: Pennod; Adran o'r testun; Hyd; Dosbarth Gramadegol; Maes Semanteg; Ysgogiad/Swyddogaeth. Cyfrifwyd hefyd gymhareb ar gyfer pob testun, drwy rannu nifer yr enghreifftiau o gyfnewid cod â nifer y tudalennau.

¹⁷ Gweler adran 2.1 Adeiladu ar seiliau'r astudiaeth MPhil.

¹⁸ Nodir bod Auer yn cynnig rhestr o 'conversational loci in which switching is particularly frequent' (1995, t.120), er nad yw'n eu defnyddio i ddadansoddi corpws. Defnyddir y term 'loci sgyrsiol' gan Auer, ond er ei fod yn trafod safle cyfnewid cod yn hytrach nag ysgogiad/swyddogaeth, mae'r categorïau'n ymdebygu i gategorïau'r ysgolheigion eraill.

¹⁹ Noda *fillers* ac ebychiadau fel esiampl, gan nodi "interjection" and "filler" are names for linguistic structures, their conversational status and their function are another issue' (1995, tt.120–1).

choice of one synonym over another, and no complete accounting may ever be possible' (1997, t.99). Yn sicr, y peth pwysicaf i'w gofio yw nad oes modd i'r rhestrau hyn nodi *pob* ysgogiad/swyddogaeth ar gyfer cyfnewid cod. Fodd bynnag, er y gall dadansoddi categorïol fod yn broblematic, mae'n gallu bod o ddefnydd – yn enwedig o gofio y defnyddir y categorïau yn y traethawd hwn er mwyn dadansoddi corpws, gwaith a fydd yn dangos yr amrywiaeth o fewn categorïau.²⁰

Mae Gumperz ac Auer yn trafod cyfnewid cod sy'n digwydd ar lafar, gan roi'r categorïau canlynol inni. Gumperz ac Auer yw'r unig ddwy astudiaeth a drafodir yma sy'n dadansoddi iaith lafar yn unig. Penderfynwyd eu trafod gan eu bod yn dylanwadu ar ysgolheigion a drafodir maes o law, ond byddaf yn canolbwyntio ar astudiaethau o gyfnewid cod ysgrifenedig a llenyddol, gan mai corpws llenyddol a astudir yn yr ymchwil presennol. Penderfyna Gumperz ddefnyddio chwe chategori:

1. Quotations (yn cynnwys araith anuniongyrchol)
2. Addressee specification (h.y. newid pwy ydych am siarad â hwy)
3. Interjections (ebychiadau neu *fillers*)
4. Reiteration (yn union, neu â mân newidiadau; er mwyn egluro neu bwysleisio)
5. Message qualification (cystrawennau disgrifiadol)
6. Personalization vs Objectivization (agosáu neu bellhau)

(1982, tt.78–80)

Mae 'interjections' Gumperz yn cynnwys rhegfeydd a llwon, yn ogystal â 'vocal ticks' a 'fillers' e.e. 'so', 'like', 'you know?' Sylwadau yw 'message qualification' sy'n esbonio ymhellach, megis yr esiampl a roddir gan Gumperz:

The oldest one, *la grande la de once años*
(The big one who is eleven years old) (1982, t.79)

²⁰ Fel y noda Auer 'a more in-depth sequential study of, for example, reiterations would make it clear that this category subsumes a number of very different conversational structures' (1995, t.120).

Gydag agosáu/pellhau, mae'r siaradwr am greu pellter rhyngddo ef a'r hyn sy'n cael ei drafod, neu am greu agosatrwydd. Mae'n gwneud hyn drwy newid iaith (e.e. i osgoi tensiwn gan newid iaith er mwyn awgrymu nad yw'n cyhuddo neb (Gumperz 1982, t.80)). I droi at gategoriâu Auer, cynigia'r wyth categori canlynol inni fel esiamplau o'r mathau o gategoriâu y gellir eu defnyddio i ddadansoddi loci sgysiol:

- (i) *reported speech*
- (ii) *change of participant constellation*, particularly addressee selection – this includes the use of code-switching in order to include/exclude/marginalise co-participants or bystanders
- (iii) *parentheses or side-comments*
- (iv) *reiterations*, i.e. quasi-translations into the other language, for example for the purpose of putting emphasis on demands or requests, or for the purposes of clarification, or for attracting attention, e.g. in the regulation purposes of turn-taking (also called 'translations', 'repetitions' or 'recycling')
- (v) *change of activity type*, also called 'mode shift' or 'role shift'
- (vi) *topic shift*
- (vii) *puns, language play, shift of 'key'*
- (viii) *topicalisation, topic/comment structure.* (1995, t.120)

Trafod cyfnewid cod mewn deunydd ysgrifenedig (e.e. dyddiaduron, postiaid ar-lein) yw ffocws McClure (1998; 2001) a Montes-Alcalá (2001; 2007). Dyma'r categorïau a ddefnyddir gan McClure i ddadansoddi ei chorpws, sef detholiad o gylchgronau Sbaeneg a Mecsicanaidd:

- (I) lack of a good Spanish translation;
- (II) lack of a set Spanish word or phrase;
- (III) greater explicitness of the English form;
- (IV) desire to play with well-known English phrases;
- (V) emphasis through repetition;
- (VI) simple quotation;
- (VII) quotation to reproduce a style of of [sic] speech;
- (VIII) creation of a sarcastic, satirical, or ironic tone;
- (IX) creation of a sophisticated tone; and
- (X) creation of an erudite tone. (1998, t.134)

Gyda'r categori 'greater explicitness of the English form', mae geiriau cyfatebol yn bodoli yn y ddwy iaith, ond bod y siaradwr yn teimlo fod gwahaniaeth arwyddocâd rhyngddynt. Gall y siaradwr deimlo'i bod yn haws egluro'i hunan yn iaith₂ wrth drafod y pwnc arbennig hwnnw. Er enghraifft, dywed Grosjean y

byddai'n fwy tebygol o drafod seicoleg gyda'i fab yn y Saesneg er eu bod fel arfer yn siarad yn y Ffrangeg oherwydd eu bod yn fwy cyfarwydd a chyfforddus â'r derminoleg Saesneg (2010, tt.46–7). Gwelir bod llawer o orgyffwrdd yng nghategoriâu McClure o 1998, er enghraifft categorïau VIII-X sydd oll yn disgrifio creu tŷ arbennig. Ar gyfer dadansoddi ei chorpws o ddeunyddiau ysgrifenedig Asyrieg-Saesneg, megis fforymau ar-lein, posteri, pamffledi, a gwahoddiadau, defnyddiodd y pum categori canlynol:

1. Lexical Gaps (diffyg term cyfatebol i'r Saesneg yn Asyrieg)
2. Differences in connotations
3. Clarification (os teimla'r siaradwr nad yw'r gair Asyrieg yn ddigon eglur)
4. Emphasis
5. Switch of interlocutors (newid cyd-siaradwyr) (2001, tt.180–5)

Defnyddia Montes-Alcalá'r categorïau canlynol er mwyn dadansoddi ei dyddiaduron:

1. Direct quotes
2. Emphasis
3. Clarification or elaboration
4. Parenthetical comments
5. Idiomatic expressions (nodir bod modd eu cyfieithu, ond ei bod yn anodd cael yr union ystyr yn y Sbaeneg)²¹
6. Linguistic routines or clichés
7. Symmetric alternation (er mwyn cadw'r cyfnewid yn gytbwys)
8. Triggers (gair sy'n achosi'r geiriau sy'n dilyn/dod cynt i droi at yr un iaith)
9. Stylistic matters
10. Lexical need (diffyg gair cyfystyr, neu heb yr union ystyr) (2001, tt.198–210)

tra defnyddia'r categorïau isod ar gyfer dadansoddi blogiau sy'n defnyddio

cyfnewid cod:

²¹ Noda Montes-Alcalá fod y dywediad yn fwy tebygol o ymddangos yn y Sbaeneg os oedd y sefyllfa wedi digwydd mewn amgylchedd Sbaeneg. Tybia y byddai'r gwrthwyneb yn wir petai'r sefyllfa wedi digwydd yn y Saesneg (2001, t.204).

1. Lexical Items (diffyg gair cyfystyr; cysylltiad â deuddiwylliannedd y siaradwyr)
2. Triggered Switches
3. Quotes (uniongyrchol ac anuniongyrchol)
4. Elaboration
5. Tags (sef 'examples where code-switching obeys linguistic routines or idiomatic expressions' (t.168); mae yma eto gysylltiad â deuddiwylliannedd y siaradwr)
6. Emphatic ('foregrounding', weithiau'n ailadrodd hefyd)
7. Free (y swyddogaeth yn amwys, neu'n gyfuniad eclectig o'r categorïau eraill; gall fod yn swyddogaeth arddulliol) (2007, tt.167–9)

Esbonia Montes-Alcalá'r categori 'sylw mewn cromfach' gan nodi'r enghreifftiau isod, lle gwelir bod newid iaith i roi gwybodaeth ychwanegol:

Al rato nos quedamos solos, which was pretty cool, ya que hoy era uno de esos días que necesitabas hablar con alguien
 [Later we were left alone, which was pretty cool, since today was one of those days I needed to talk to someone]

Llegó Anne con su novio (what a freak!)
 [Anne arrived with her boyfriend (what a freak!)] (2001, t.202)

Trown nawr at astudiaethau o gyfnewid cod llenyddol (straeon byrion, nofelau, dramâu, cerddi). Dyma'r categorïau a ddefnyddir gan Callahan i ddadansoddi corpws o nofelau sy'n defnyddio cyfnewid cod Sbaeneg-Saesneg:

- (1) referential;
- (2) vocatives;
- (3) expletives (tabŵ, rhegfeydd neu fwytheiriau ar eu cyfer);
- (4) quotation;
- (5) commentary and repetition;
- (6) set phrases, tags, and exclamations;
- (7) discourse markers; and
- (8) directives. (2004, t.70)

Nodir bod gorchmynion (*directives*) yma yn ymdebygu i gategori 'newid rôl' Auer (1995). Esbonia Callahan ei bod yn trafod 'direct command' yn unig, yn y modd gorchmynnol neu'r modd dibynnol (2004, t.74).

Er mwyn dadansoddi'r nofel *Map of Love* gan Adhaf Souief, defnyddia Albakry a Hancock y categorïau hyn:

- (1) traditional honorific titles and terms of respect
- (2) references to customs and tradition (yn cynnwys dillad a bwyd)
- (3) historical references (trafod hanes 'without presupposing prior detailed knowledge' (t.227))
- (4) greetings and conversational formulas
- (5) inter-language dialectal variation (symud rhwng Arabeg safonol a'r amrywiaeth Eifftaidd)
- (6) translational transfer (defnyddio dywediad Arabeg yn y Saesneg)
(2008, tt.226–230)

Esbonia Albakry a Hancock fod trosglwyddo cyfieithiadol (*translational transfer*) yn ffordd o ddangos 'the characters are in fact speaking Arabic but using English words' (2008, t.230), sy'n fath o gyfnewid metaieithyddol. Yn eu corpws, gwelir enghreifftiau o ddywediadau ac idiomau Arabeg yn y Saesneg, megis "the son of a duck is no mean swimmer" (Souief 1999: dyfynnir yn Albakry & Hancock 2008, t.229).

Mewn astudiaeth o'r cyfnewid cod mewn nofelau Latino-Americanaidd, defnyddia Montes-Alcalá'r categorïau canlynol:

- (1) lexical need
- (2) clarification
- (3) stylistic
- (4) idiomatic expressions
- (5) emphasis
- (6) quotations
- (7) triggered switches
(2012, tt.74–5)

Ceir astudiaeth o gyfnewid cod mewn dramâu gan Jonsson, sy'n dadansoddi 'local functions of [code switching] in Chicano theater' (2005, t.134):

- (1) Quotations
- (2) Exclamations
- (3) Repetitions (for emphasis; for added meaning; instructional)
- (4) 'Gaps' (Spanish or Chicano words; hybrid Chicano words)
- (5) Word/language play
(2005, t.135)

Gwelir bod ei chategorïau'n cytuno â chategorïau'r ysgolheigion eraill a drafodwyd uchod wrth drafod nofelau a straeon byrion. Mae Montes-Alcalá yn dadansoddi cyfnewid cod mewn cerddi, nofelau a dramâu mewn dwy astudiaeth (2013b; 2015). Dyma'r categorïau a ddefnyddia ar gyfer y gwaith hwn:

- 1) Clarification/elaboration (ailadrodd gair, neu sylw mewn cromfachau i ymhelaethu)
- 2) Lexical need ('sometimes [...] due to a lack of an exact equivalent in the other language, a momentary gap in the lexicon, or simply a higher frequency of exposure of an item in a specific language' (t.223) – efallai bod modd cyfieithu, ond '[code switching] helps to portray and make more credible the bicultural atmosphere in which the actions take place' (t.223))
- 3) Emphatic/stylistic
- 4) Idioms/linguistic routines
- 5) Quotations
- 6) Triggered (2013b, tt.221–6)

Erbyn astudiaeth 2015, gwelir bod Montes-Alcalá wedi symleiddio'i chategorïau, gyda 'lexical need' nawr yn cynnwys idiomau a 'linguistic routines':

- 1) Quotations
- 2) Emphasis
- 3) Stylistic
- 4) Clarification/elaboration
- 5) Lexical/cultural need (yn cynnwys enwau ond hefyd idiomau, 'discourse markers' a 'linguistic routines')
- 6) Triggered switches (2015, tt.271–6)

Isod, ceir tabl sy'n dangos yr holl categorïau gwahanol a drafodwyd yn yr adran hon. Gwelir bod llawer o orgyffwrdd rhwng y categorïau, gydag un categori yng ngwaith un ysgolhaig yn cyfateb i dri chategori gwahanol yng ngwaith ysgolhaig arall. Yn y golofn bellaf ar y chwith (mewn llwyd), ceir rhestr ddethol o gategorïau ysgogiad/swyddogaeth sy'n symleiddio'r gorgyffwrdd hwn. Trown at y tabl hwn cyn trafod y categorïau'n fanylach:

	Llafar		Ysgrifenedig (nad yw'n llenyddol)				Llenyddol (nofelau, straeon byrion)			Dramâu	Cerddi, dramâu, nofelau	
	Gumperz 1982	Auer 1995	McClure 1998	McClure 2001	Montes-Alcalá 2001	Montes-Alcalá 2007	Callahan 2004	Albakry a Hancock 2008	Montes-Alcalá 2012	Jonsson 2005	Montes-Alcalá 2013b	Montes-Alcalá 2015
Dyfynnu	Dyfyniad (gan gynnwys sgwrs anuniongyrchol)	Sgwrs anuniongyrchol	Dyfyniad syml Dyfyniad i efelychu arddull o siarad	–	Dyfynnu	Dyfyniadau	Dyfynnu	–	Dyfyniadau	Dyfyniadau	Dyfyniadau	Dyfyniadau
Newid cyd-siaradwr	Dewis cyd-siaradwr	Newid cyd-sgwrsiwr	–	Newid cyd-sgwrsiwr	–	–	–	–	–	–	–	–
Ailadrodd / Egluro / Pwyslais	Ailadrodd (eglhurhad)	Ailadrodd	–	Eglurhad	Egluro/Ymhelaethu	Ymhelaethu	Sylwadaeth ac ailadrodd	–	Egluro / Ymhelaethu	Ailadrodd (Pwyslais; ystyr ychwanegol; cyfarwyddol)	Egluro / Ymhelaethu	Egluro / Ymhelaethu
			Pwyslais drwy ailadrodd	Pwyslais	Pwyslais	Pwysleisiol	–		Pwyslais		Pwyslais	Pwyslais
Strwythuro	Disgrifio neges	Strwythuro pwnc/sylwadau	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–
Agosáu/Pellhau	Agosáu neu bellhau	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–
Ebychiad	Ebychiad	–	–	–	–	–	Rhegfeydd a llwon	–	–	Ebychiad	–	–
Chwarae â geiriau	–	Geiriau mwys, chwarae â geiriau, newid cywair	Eisiau chwarae ag ymadrodd adnabyddus yn y Saesneg	–	–	–	–	–	–	Chwarae â geiriau/iaith	–	–
Newid Pwnc	–	Newid pwnc	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–
Newid rôl	–	Newid y math o weithgaredd (newid dull neu rôl)	–	–	–	–	Gorchmynion	–	–	–	–	–
Sylw mewn cromfachau	–	Sylw mewn cromfachau neu neilleb	–	–	Sylw mewn cromfachau	–	–	–	–	–	–	–
Bwlch geirfaol	–	–	Diffyg gair neu ymadrodd Sbaeneg	Llenwi bylchau geirfaol	Angen geirfaol	Eitemau Geirfaol	Bwlch geirfaol	Teitlau ac enwau o ran parch	Angen geirfaol	'Gapiau' (geiriau Sbaeneg a Chicano; geiriau hybrid)	Angen geirfaol	Angen geirfaol / diwylliannol
					Dywediadau Idiomatig							
			Diffyg cyfieithiad Sbaeneg		Arferion leithyddol a Clichés	Tagiau	Ymadroddion, tagiau, ebychiadau	Cyfarchion ac arferion sgysiol				
							Marcwyr disgwrs	Cyfeirio at draddodiad Cyfeirio at hanes				
Gwell eglurhad / gwahaniaeth arwyddocâd	–	–	Gwell eglurhad yn y Saesneg	Gwahaniaeth arwyddocâd	–	–	–	–	–	–	–	
Creu tôn arbennig	–	–	Creu tôn sarcastig/ddychanol / eironig	–	Materion Arddulliol	–	–	–	Arddull	–	Arddull	Arddull
			Creu tôn soffistigedig									
			Creu tôn wybodus									
Enynnol	–	–	–	–	Enynnol	Enynnol	–	–	Enynnol	–	Enynnol	Enynnol
Cydbwysedd	–	–	–	–	Eilededd er cytbwysedd	–	–	–	–	–	–	–
Rhydd	–	–	–	–	–	Rhydd	–	–	–	–	–	–
Amrywiaeth tafodieithol rhyngieithol	–	–	–	–	–	–	–	Amrywiaeth tafodieithol rhyngieithol	–	–	–	–
Trosglwyddiad cyfieithiadol	–	–	–	–	–	–	–	Trosglwyddiad cyfieithiadol	–	–	–	–

Tabl 8: Categoriâu dadansoddi Ysgogiad/Swyddogaeth – Crynodeb

Cyfunwyd rhai categorïau sy'n gorgyffwrdd, megis 'creu tôn arbennig' i ddisgrifio tri chategori gwahanol 'creu tôn' McClure (1998). Mae 'bwllch geirfaol' hefyd yn cynnwys nifer o gategoriâu. Yn 2001, roedd Montes-Alcalá yn gwahaniaethu rhwng 'angen geirfaol', 'dywediadau idiomatig' ac 'arferion ieithyddol a *clichés*'. Erbyn 2015, roedd wedi cyfuno'r categorïau hyn i greu 'angen geirfaol/diwylliannol'. Gwelir Callahan (2004) yn gwahaniaethu rhwng 'bwllch geirfaol', 'teitlau cyfarchol', 'ymadroddion, tagiau, ebychiadau' a 'marcwyr disgwrs'. Mae Albakry a Hancock hefyd yn gwahaniaethu rhwng sawl categori a all gyfateb i 'bwllch geirfaol'. Penderfynwyd bod 'gwell eglurhad' neu 'gwahaniaeth arwyddocâd' hefyd yn ymdebygu i 'bwllch geirfaol'. Fel yr esbonia Montes-Alcalá gall 'lexical/cultural need' gynnwys y defnydd o air/ymadrodd '[as a result] of a lack of an exact equivalent in the other language/culture, a momentary gap in the lexicon of the individual, or simply a higher frequency of exposure in a specific language/culture' (2015, t.274). Gan ddilyn ei hesiampl, penderfynwyd y byddai un categori – bwllch geirfaol – yn ddigonol er mwyn disgrifio'r ffenomen hon, gan mai'r un broses o ddiffyg neu wahaniaeth arwyddocâd sy'n ysgogi siaradwr i ddefnyddio gair unigol, teitl neu ddywediad idiomatig o iaith arall. Gwelir bod rhai categorïau eraill yn ymdebygu i'w gilydd. Yn Orwig (2015), defnyddiwyd 'creu effaith arbennig' i ddisgrifio creu tôn arbennig a materion arddulliol, gan gynnwys chwarae â geiriau (e.e. i greu hiwmor), gan mai mater arddulliol ydyw. Yn ogystal, mae 'sylv mewn cromfachau' (Auer 1995 a Montes-Alcalá 2001) yn fath o eglurhad,²² felly cyfunwyd ef â'r categori 'ailadrodd/egluro/pwyslais'. Mae 'newid pwnc' a 'newid rôl' (Auer 1995) neu 'gorchmynion' (Callahan 2004) yn ymdebygu i

²² Er bod Montes-Alcalá (2001) yn gwahaniaethu rhwng 'egluro/ymhelaethu' a 'sylv mewn cromfachau'.

agosáu/pellhau, gan fod rhoi gorchymyn mewn iaith arall yn ffordd o greu pellter awdurdodol rhwng y siaradwr sy'n rhoi'r gorchymyn a'r unigolyn sy'n ei dderbyn.

Tybiwyd y byddai rhai o'r categorïau yn amherthnasol ar gyfer dadansoddi llenyddiaeth. Er enghraifft, wrth fynd ati i wneud y gwaith dadansoddi ar gyfer yr MPhil, penderfynwyd y byddai'n annhebygol y byddai'r categori 'newid cyd-sgwrsiwr' yn berthnasol i'r corpws, gan nad oedd yn gategori yr oedd y mwyafrif o ysgolheigion yn ei ddefnyddio i ddisgrifio cyfnewid cod ysgrifenedig neu lenyddol.²³ Fodd bynnag, cafwyd enghraifft o ddefnyddio cyfnewid cod er mwyn newid cyd-siaradwr yng nghorpws yr astudiaeth MPhil, felly rhaid oedd ail-ychwanegu'r categori hwnnw (Orwig 2015, t.43). O'r herwydd, roeddwn yn ymwybodol y gallai sefyllfa debyg godi eto yn ystod y gwaith dadansoddi ar gyfer y traethawd hwn.

Wrth gwrs, rhaid cofio nad oes modd creu rhestr hysbyddol o'r *holl* ysgogiadau neu swyddogaethau sy'n achosi cyfnewid cod, fel y dadleuwyd eisoes gan Auer a Zentella. Yr hyn sy'n bosibl yw defnyddio cyfres o gategoriâu sy'n disgrifio'r mwyafrif o ysgogiadau/swyddogaethau. Nodir hefyd y gall mwy nag un ysgogiad/swyddogaeth berthyn i enghraifft benodol o gyfnewid cod (Montes-Alcalá 2015, t.270; Zentella 1997, t.99). Er enghraifft, gall y defnydd o regfeydd fel ansoddeiriau berthyn i ddau ysgogiad/swyddogaeth – y cyntaf yn fwch geirfaol, oherwydd bod diffyg rhegfeydd tebyg yn y Gymraeg/Ffrangeg a'r Saesneg, a'r ail i roi pwyslais, gan fod troi at y Saesneg yn tynnu sylw at y datganiad (Orwig 2015, tt.83–4).

²³ McClure 2001 yw'r eithriad, ac mae'r astudiaeth honno yn trafod fforymau ar-lein, posterï, pamffledi a gwahoddiadau, sy'n ddeunydd tra gwahanol i lenyddiaeth.

Felly, cywreinwyd y categorïau gan symleiddio'r rhai categorïau sy'n gorgyffwrdd a dileu'r categorïau hynny y tybiwyd y byddent yn amherthnasol i ddadansoddi'r corpws – megis categorïau nad oeddent yn ymddangos yng ngwaith mwy nag un ysgolhaig (e.e. rhai categorïau Albakry a Hancock) gan y tybiwyd eu bod yn rhy berthnasol i bâr iaith penodol. Crëwyd y rhestr ganlynol ar gyfer gwaith dadansoddi'r MPhil:

	Esboniad/Diffiniad
Agosáu/Pellhau	Mae'r siaradwr yn newid iaith er mwyn creu teimlad o bellter neu agosatrwydd (e.e. creu awdurdod er mwyn rhoi gorchymyn).
Ailadrodd/Egluro/Pwyslais	Ailadrodd yr hyn sy'n dod cynt, boed yn gyfieithiad neu'n aralleiriad, ac yn cynnwys ymhelaethiad. Gellir gwneud hyn er mwyn rhoi pwyslais.
Bwlch geirfaol	Os nad oes gair iaith ₁ yn bodoli, gall siaradwr dwyieithog ddefnyddio gair iaith ₂ . Er enghraifft, dywed Montes-Alcalá (2013a) y byddai'n dueddol o ddefnyddio'r gair 'brunch' gan nad oes gair cyfatebol yn y Sbaeneg. Yn ogystal, hyd yn oed os oes cyfieithiad yn bosib, gellid bod gwahaniaeth arwyddocâd; er enghraifft, yn y Gymraeg, mae gwahaniaeth cywair rhwng 'ydy o activali'n gwrando' ac 'ydy o wir yn gwrando'.
Creu effaith arbennig	Mae'r cyfnewid cod yn cael ei ddefnyddio er mwyn creu effaith arbennig e.e. tŷn soffistigedig, hiwmor. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys cyfnewid cod a ddefnyddir at ddiben cymeriadu.
Cyfeirio	Cyfeirio at ddeunydd arall e.e. llenyddiaeth Saesneg, deialog cymeriad arall, damcaniaethau athronyddol.
Cyfnewid enynnol	Mae'r darn hwn o gyfnewid cod yn cael ei ysgogi gan ddarn o gyfnewid sy'n ei ragflaenu neu'n ei ddilyn.
Dyfynnu	Dyfynnu person arall, neu ddyfynnu o destun arall.
Ebychiad	Yn cynnwys rhegfeydd a llwon.
Newid cyd-sgwrsiwr	Newid iaith er mwyn newid pwy sy'n rhan o'r sgwrs.

Tabl 9: Categorïau dadansoddi Ysgogiad/Swyddogaeth

Y rhestr o gategorïau yn y tabl uchod a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth flaenorol (Orwig 2015). Yn y bennod nesaf ar fethodoleg, trafodir yr esblygiad a oedd yn angenrheidiol cyn y gwaith codio ac yn ystod y gwaith hwnnw ar gyfer

yr ymchwil presennol. Rhaid cofio bod y categorïau hyn yn cael eu diwygio wrth godio; rhaid iddynt ymateb i'r data sy'n codi yn y corpws. Er enghraifft, dywed Callahan iddi greu'r categori 'gorchmynion' oherwydd bod sawl esiampl o gymeriadau'n newid iaith er mwyn rhoi gorchymyn (2004, t.74). Fel y trafodwyd eisoes, cafwyd sefyllfa debyg wrth daddansoddi ar gyfer yr MPhil, yn achos y categori 'newid cyd-sgwrsiwr'. Mae'n bur debyg, felly, y bydd esblygiad pellach wrth adeiladu ar yr MPhil, yn enwedig o gofio fy mod am ddadansoddi dramâu am y tro cyntaf. Gan fod y ddrama'n destun i'w wyllo a'i glywed yn bennaf, yn hytrach na'i ddarllen fel nofel, mae'n bosib y gwelir patrymau cyfnewid cod ychydig yn wahanol, yn enwedig gan na chafwyd astudiaeth debyg o ddramâu Cymraeg cyn hyn. Er hyn, mae Jonsson (2005) a Montes-Alcalá (2013b; 2015) yn dadansoddi dramâu, gan ddefnyddio categorïau tebyg i'r rhai a ddefnyddir i ddadansoddi nofelau a straeon byrion, felly mae'n bosibl y bydd y cyfnewid cod yn debyg mewn nofelau a dramâu.

1.4 Yr Astudiaeth MPhil (Orwig 2015)

Ar gyfer yr MPhil (Orwig 2015), dadansodwyd pedair nofel: *Cyw Dol* (Miall 1990); *Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau* (Owen 2006); *Moncton Mantra* (Leblanc 1997); a *Danse Noire* (Huston 2013). Dilynwyd esiampl ysgolheigion eraill, megis Callahan (2004) ac Albakry a Hancock (2008), gan gyfuno mwy nag un maes dadansoddi er mwyn cael darlun mwy cyflawn o batrymau cyfnewid cod llenyddol. Roedd y fethodoleg yn cynnwys chwe maes dadansoddi: Pennod; Adran o'r testun (e.e. naratif, deialog); Hyd; Dosbarth Gramadegol; Maes Semanteg; Ysgogiad/Swyddogaeth. Cyfrifwyd hefyd sawl enghraifft o gyfnewid cod oedd fesul tudalen ar gyfartaledd ym mhob testun. Manylir ymhellach ar y fethodoleg hon a sut y datblygwyd hi ar gyfer y ddoethuriaeth yn y bennod nesaf. Isod, trafodir rhai o brif ganfyddiadau'r astudiaeth MPhil.

1.4.1 Patrymau ieithyddol

O ganlyniadau'r gwaith dadansoddi ar gyfer yr MPhil, gwelwyd bod testunau Cymraeg yn cynnwys mwy o enghreifftiau o gyfnewid cod fesul tudalen ar gyfartaledd na'r testunau Ffrangeg. Awgrymwyd bod tuedd i ddefnyddio mwy o gyfnewid cod yn y Gymraeg, ond bod angen archwilio mwy o destunau er mwyn cael darlun cliriach. Dangoswyd bod dau brif fath o gyfnewid cod: y cyntaf yn portreadu idiolect unigolyn, a'r ail yn adlewyrchu dwyieithrwydd cymdeithas yn fwy eang.²⁴ Dadleuwyd bod testunau ar gyfer cynulleidfa nad yw'n gyfarwydd â chyfnewid cod neu sydd heb sgiliau dwyieithog cryf yn cyfyngu'r defnydd o gyfnewid cod i'r ddeialog er mwyn cadw'r naratif mewn iaith safonol, gan ei bod yn haws i'r darlennydd ei deall. Mae hyn yn cyd-fynd i raddau â damcaniaeth Lipski, sef bod tri math gwahanol o gyfnewid cod: y cyntaf yn rhoi 'blas' ar iaith arall drwy ddefnyddio ambell air yma ac acw drwy'r testun; yr ail yn defnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol, sydd yn llai cymhleth; a'r olaf yn defnyddio cyfnewid mewnfrawddegol, sy'n galw ar sgiliau dwyieithog cryf iawn gan yr awdur (1982, t.195). Awgrymwyd hefyd fod testunau yn y person cyntaf yn defnyddio mwy o gyfnewid cod. Gwelwyd patrwm gramadegol o gyfnewid cod a oedd yn gyson rhwng testunau ac ieithoedd gwahanol. Y pum categori Dosbarth Gramadegol a oedd yn cynnwys y nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod oedd (yn nhrefn y wyddor): ansoddair; brawddeg; cymal; enw; ac ymadrodd enwol. Gwelwyd elfennau cyffredin eraill yn y pedair nofel; trafodir y rhain isod.

²⁴ Nodweddion testunau a oedd yn defnyddio cyfnewid cod i bortreadu idiolect unigolyn: cyfnewid mewnfrawddegol, gyda mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn y naratif, a chyfran uchel o enghreifftiau yn perthyn i'r categori Ysgogiad/Swyddogaeth 'Bwlch geirfaol'. Nodweddion testunau a oedd yn defnyddio cyfnewid cod fel nodwedd o ieithwedd cymdeithas: cyfnewid rhyngfrawddegol, a hwnnw wedi ei neilltuo ar gyfer deialog uniaith Saesneg.

1.4.2 Elfennau Cyffredin

Yr unig feini prawf wrth ddewis testunau i'w dadansoddi oedd bod digon o gyfnewid cod ynddynt, a bod y cyfnewid cod yn cael ei ddefnyddio yn y naratif yn ogystal â'r ddeialog, sef y meini prawf a ddefnyddiwyd gan Montes-Alcalá (2015, t.269; 2013b, t.217; 2012, t.73). Er hyn, gwelwyd sawl thema gyffredin yn y testunau, felly awgrymwyd bod cydberthynas bosibl rhyngddynt a chyfnewid cod. Cofier mai dim ond pedair nofel oedd yn rhan o'r astudiaeth MPhil, felly mae'n bosib y bydd themâu gwahanol yn fwy amlwg mewn corpws mwy.

1.4.2.a Arddull

Mae'r nofelau'n cyflwyno arddull llif yr ymwybod, sy'n gweddu at yr ieithwedd anffurfiol sy'n cael ei chynnig gan gyfnewid cod. Defnyddir cymeriad o'r nofel fel adroddwr y stori, gyda phob un (heblaw *Danse Noire*) yn cyflwyno'r stori yn llais y person cyntaf, gyda'r prif gymeriad yn adrodd y stori. Awgrymwyd bod cysylltiad rhwng defnyddio llais cymeriad 'go iawn' sydd hefyd yn rhan o'r stori, yn hytrach nag adroddwr hollwybodol yn y trydydd person, a'r defnydd o gyfnewid cod. Mae hyn oherwydd fod ieithwedd anffurfiol a 'sathredig' yn gweddu i'r adroddwr-gymeriad hwn, ac yn rhoi mwy o rwydd hynt i'r awdur chwarae ag ieithwedd yn y naratif.²⁵

Tuedda awduron hefyd i ddefnyddio'r cysylltiad rhwng hunaniaeth ac ieithwedd arbennig er mwyn cymeriadu. Nid yw'r cysylltiad hwn yn unigryw i ddwyieithrwydd, wrth gwrs. Er enghraifft, defnyddia Islwyn Ffowc Elis

²⁵ Mae *Danse Noire* yn defnyddio'r cymeriad Paul i adrodd y stori. Mae Paul yn adrodd stori'r prif gymeriad, ei gariad Milo. Felly, er nad yw'r nofel yn llais y person cyntaf, mae llais yr adroddwr yn un personol, yn hytrach nag yn llais adroddwr hollwybodol. Fodd bynnag, nid yw Paul yn defnyddio llawer o gyfnewid cod, felly nid oes llawer o esiamplau o gyfnewid cod yn y naratif, yn wahanol i'r tair nofel arall a astudiwyd.

amrywiaeth o gyweiriau iaith²⁶ er mwyn ‘tanlinellu’r hyn sydd gan yr adroddwr i’w ddweud wrthym amdanynt’ (D. Williams 2005, t.17), gan ddangos yr hierarchiaeth sy’n bodoli rhwng y cymeriadau. Fel yr esbonia Daniel Williams, ‘ceir llais awdurdodol yr adroddwr – llais gwirionedd y nofel – yn dominyddu, gydag Edward a Harri Vaughan a’u Cymraeg cywir a chymen ar ris nesaf yr ysgol, a bratiaith broletaraidd Wil James ar ei gwaelod’ (2005, tt.17–18). Mae Black hefyd yn trafod techneg debyg pan ddywed ‘some writers (Austen is an obvious example) manipulate the language of their characters in such a way that the closer the character’s language to that of the narrator, the closer their agreement on significant moral and ideological matters’ (2006, t.63). Wrth ddefnyddio ieithweddau gwahanol yn y fath fodd, gall awdur atgyfnerthu’r disgrifiad y mae’n ei roi o’r cymeriadau, gan fanteisio ar ymatebion neu ragdybiaethau cyffredin at ieithweddau a fyddai’n debyg o gael eu rhannu gan y darlennydd. Fel y dywed Bakhtin, nid defnyddio’r idiolect arbennig hwn yn unig sy’n bwysig, ond cyfochri’r idiolect ag ieithweddau eraill:

For what matters here is not the mere presence of specific language styles, social dialects, and so forth, a presence established by purely linguistic criteria; what matters is the *dialogic angle* at which these styles and dialects are juxtaposed or counterposed in the work.

(1984, t.182)

Er enghraifft, gellir gwrthgyferbynnu naratif mewn iaith safonol â deialog mewn ieithwedd ansafonol, gan gynnwys y defnydd o gyfnewid cod, fel y gwelwyd yn *Danse Noire*. Gall awdur hefyd ddewis ychwanegu elfennau o’r cyfnewid cod i’r naratif, er mwyn codi’r ieithwedd honno i statws iaith lenyddol (Richard 2011).

²⁶ Rhaid dweud bod peth dylanwad dwyieithrwydd i’w gael yn ieithwedd rhai cymeriadau yn *Cysgod y Cryman*, megis Terrence a Sheila wrth iddynt efelychu ffilmiau Americanaidd gyda’u ‘Haia, baby!’, ‘Haia, kid’ (Elis 1953, t.35), ond unieithog yw tafodiaith y cymeriadau’n bennaf.

1.4.2.b Dealladwyedd iaith

Dywed Gauvin nad oes modd i awduron 'écrire une langue d'une manière monolingue'²⁷ mwyach (1999, t.17). Dywed fod pob awdur ffrancoffon yn chwarae gydag iaith:

engagés dans le jeu des langues, ces écrivains doivent créer leur propre langue d'écriture, et cela dans un contexte culturel multilingue, souvent affecté des signes de la diglossie. (1999, t.13)²⁸

Gall yr ymwybyddiaeth hon o amlieithrwydd y byd gael effaith ychydig yn annisgwyl, drwy ddileu nodweddion tafodieithol. Mae rhai awduron, megis yr awdur Siapaneaidd-Prydeinig Kazuo Ishiguro, yn osgoi defnyddio Saesneg idiomatig. Dadleua Buruma fod Ishiguro'n defnyddio'r ieithwedd hon gan ei bod yn haws i ddarllenwyr ail-iaith Saesneg ei deall (2003, t.20), ond mae Ishiguro ei hun yn credu ei bod yn nodwedd sy'n deillio o'r 'linguistic vigilance' oedd ganddo tra'n dysgu'r Saesneg fel plentyn (Lawson 2015).²⁹ Trafodwyd eisoes fod gwahaniaeth i'w weld ym mhatrymau cyfnewid cod gwaith a ysgrifennwyd ar gyfer cynulleidfa nad yw'n gyfarwydd â'r ieithwedd honno, neu nad yw'n hollol rugl yn y ddwy iaith. Tybiwyd bod y patrymau hyn yn ymgais gan yr awdur i gadw'r iaith yn ddealladwy i'r gynulleidfa ragdybiedig hon.

Gwelir felly fod dewis iaith yn bwysig iawn i awduron dwyieithog. Disgrifia Ngūgĩ wa Thiong'o sut mae dewis ieithyddol yn creu'r gynulleidfa: 'the choice of a language already pre-determines the answer to the most important question for producers of imaginative literature: For whom do I write? Who is my audience?' (1994, tt.53–4). Dim ond yr unigolion sy'n deall yr ieithwedd honno

²⁷ 'ysgrifennu iaith mewn ffordd unieithog'.

²⁸ 'wedi'u dal mewn gêm ieithyddol, mae'n rhaid i'r awduron hyn greu eu hiaith lenyddol eu hunain, a hynny mewn cyd-destun diwylliannol amlieithog, yn aml wedi'i effeithio gan arwyddion o ddeuglosia'.

²⁹ Symudodd Ishiguro i Loegr yn bum mlwydd oed, ond Siapanaeg yw'r iaith y mae'n ei defnyddio â'i rieni (Ishiguro 1986), er ei fod yn disgrifio'i Siapanaeg fel '[a] child's Japanese' (Lawson 2015).

a all fod yn gynulleidfa i'r testun.³⁰ Ond mae'r broblem yn fwy na dim ond *deall* yr iaith. Awgryma Boudreau, wrth drafod y nofel *Bloupe* (1993), y gallai darlennydd ffrancoffon nad yw'n gyfarwydd â'r ardal a'i thafodiaith gael trafferth deall y testun (1997, t.136; 1999, t.83). Fel y dywed Christine Jones (2006) wrth drafod llenyddiaeth mewn tafodiaith, gall defnyddio ieithwedd mor benodol gael canlyniadau cymysg. Efallai y bydd yr awdur yn creu teimlad o agosatrwydd rhwng y darlennydd a'r testun. Ond efallai y bydd yn dieithrio'r darlennydd, gan nad yw'n teimlo ei fod yn perthyn i'r grŵp sy'n meddu ar y dafodiaith arbennig honno.

1.4.2.c Hunaniaeth

Mae elfennau hunangofiannol yn bresennol yn y pedair nofel gan fod cysylltiad rhwng yr awdur a'r prif gymeriad (e.e. maent wedi'u magu yn yr un lle neu mae'r ddau'n symud i'r un ddinas).³¹ Mae'r cyfnewid cod yn ieithwedd bersonol i'r awdur (fel Llwyd Owen a thafodiaith Gymraeg Caerdydd), neu'n ieithwedd gyfarwydd i'r awdur (fel Nancy Huston a'r *joual*, tafodiaith Québec). Mae'r awduron yn teimlo'n gryf dros y rhyddid i ddefnyddio'r ieithwedd hon mewn llenyddiaeth, megis Leblanc yn ei gerdd 'éloge du chiac'.³² Gwelwyd bod Nancy Huston (fel un sy'n medru'r Ffrangeg, ond nad yw o deulu nac ardal ffrancoffon)

³⁰ Awgryma Leclerc fod y dewis o iaith hefyd yn cyfyngu ar y gynulleidfa academiaidd. Dywed nad yw testunau sy'n defnyddio tafodieithoedd *acadien* neu *franco-ontarien* yn cael eu hastudio'n fwy eang gan ysgolheigion ôl-drefedigaethedd gan eu bod yn defnyddio'r iaith leiafrifol fel prif iaith y testun ('parce qu'il intègre la langue dominante à une matrice vernaculaire plutôt que l'inverse, il soit demeuré dans une zone d'ombre, inexplorée, des études postcoloniales' ['oherwydd mae'n integreiddio'r iaith ddominyddol i fframwaith leol yn hytrach na'r gwrthwyneb, mae'n aros mewn maes yn y cysgod, heb ei archwilio, o astudiaethau ôl-drefedigaethol'] (Leclerc 2004, t.243)).

³¹ Er enghraifft, magwyd prif gymeriad *Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau* yng Nghaerdydd, fel yr awdur Llwyd Owen. Gwelir hefyd fod rhai cymeriadau'n mudo, fel yr awdur, er enghraifft fel *Moncton Mantra* (symud o Bouctouche i Moncton), neu *Cyw Dol* (symud o Ffestiniog i Gaerdydd).

³² 'Clodfori *chiac*'. *Chiac* yw tafodiaith arbennig Moncton, New Brunswick.

hefyd yn amddiffyn ei hawl i lenyddda mewn *joual*, gan ddweud 'si le joual est une langue, il faut que d'autres l'utilisent, pas seulement les natifs' (Boisvert 2013).³³

Mae'r pedair nofel yn perthyn i genre'r *Bildungsroman*, gyda'r prif gymeriad yn ceisio canfod ei le mewn cymdeithas a'i bwrpas mewn bywyd. Awgrymwyd bod cysylltiad rhwng ymholiad yr unigolyn i'w bwrpas mewn bywyd a chwarae ag iaith drwy gyfnewid cod – mae ansicrwydd y cymeriad ynglŷn â'i le mewn cymdeithas yn cael ei adlewyrchu yn ei arbrofi ieithyddol. Wrth drafod y nofel *Moncton Mantra*, dywed Richard:

Le lecteur apprend très vite que le narrateur cherche à préciser son identité, à trouver sa place dans le monde. Cette identité est inextricablement reliée à la notion de langue étant donné que le narrateur est écrivain. (1998, t.21)³⁴

Mae'r ymgais hon yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun Cymru a Chanada-ffrancoffon, gan eu bod yn hunaniaethau lleiafrifol. Dadleua Williams fod 'angen realaethau newydd [ar lenyddiaeth Gymraeg] wrth inni greu ac ail-greu Cymreictod' (2005, t.25), gan awgrymu efallai mai dyma'r rheswm pam fod nofelau megis *Dyn yr Eiliad* (2003), sy'n arbrofi ag iaith, wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n gweld adfywiad yn yr iaith Gymraeg. Drwy chwalu iaith a'i hail-greu mewn ffordd greadigol, mae'r awduron yn archwilio hunaniaeth bersonol ynghyd â hunaniaeth Gymraeg neu Ffrangeg-Ganadaidd, yn enwedig o ganlyniad i esblygiad yn y cymdeithasau hynny.

1.4.2.ch Lleoliad

Mae cyfnewid cod yn ieithwedd sy'n perthyn i leoliad penodol, neu i grŵp arbennig o bobl. Diddorol nodi nad yw'r nofelau'n defnyddio lleoliadau dychmygol neu amhenodol. Ategir at y gyfeiriadaeth leol (enwau strydoedd ac

³³ 'os yw *joual* yn iaith, mae'n rhaid i eraill ei defnyddio, nid y brodorion yn unig'.

³⁴ 'Buan y dysga'r darlennydd fod yr adroddwr yn ceisio egluro ei hunaniaeth, i ganfod ei le yn y byd. Mae cysylltiad annatod rhwng yr hunaniaeth hon a'r cysyniad o iaith gan fod yr adroddwr yn awdur.'

adeiladau) gyda'r cyfnewid cod, sy'n nodwedd o dafodiaith leol, megis defnydd Gérard Leblanc o'r *chiac*. Mae'r nofelau a astudiwyd ar gyfer yr MPhil hefyd yn rhai dinesig ar y cyfan.³⁵ Awgrymwyd efallai fod y ddinas yn lleoliad arbennig ar gyfer cyfnewid cod. Ystyrir y ddinas yn fwy amlddiwylliannol na chefn gwlad – er bod mudo i gefn gwlad yn ogystal â'r dinasoedd, wrth gwrs – ac yn wahanol i gefn gwlad, ni welir y dinasoedd yn aml fel 'cadarnleoedd' ieithyddol.

Awgrymwyd bod yr awduron felly wedi gwneud y penderfyniad i leoli'r nofel mewn dinas fel nad yw'r cyfnewid cod yn ymddangos fel *bygythiad* i ddyfodol yr iaith, ond yn hytrach fel amrywiaeth arbennig arni.

Dadleua Llwyd Owen ei fod yn dewis defnyddio cyfnewid cod yn ei destunau am ei fod yn teimlo bod y dewis hwn o iaith yn realistig o fewn cyd-destun Caerdydd. Dywed iddo orfod creu dinas ddychmygol er mwyn gallu cael cymeriadau o'r isfyd troseddol i siarad Cymraeg, sef Gerddi Hwyan.³⁶ Eto, gwelir cysylltiad â dadl Daniel Williams (2005) fod realaeth yn bwysig iawn i Gymru gan fod angen i awduron Cymraeg greu ac ail-greu Cymreictod wrth i'r gymdeithas newid, dadl sydd hefyd yn berthnasol i ieithoedd a hunaniaethau lleiafrifol eraill, megis yr hunaniaeth ffrancoffon yng Nghanada, yn enwedig y tu hwnt i Québec.

1.4.2.d Deuoliaeth

Trafodwyd eisoes fod y nofelau'n cynnwys elfennau o'r *Bildungsroman*, a'r cymeriadau'n ceisio canfod eu lle a'u pwrpas mewn bywyd. Yn ogystal, mae'r lleoliad dinesig yn bwysig i'r nofelau a astudiwyd ar gyfer yr MPhil. Yn gysylltiedig â'r ddwy thema hon mae deuoliaeth – deuoliaeth y cymeriadau a deuoliaeth y ddinas. Fel yr esbonia Glyn Jones:

³⁵ Er bod rhannau o *Danse Noire* (2013) hefyd yn digwydd yng nghefn gwlad Québec.

³⁶ Llwyd Owen, sgwrs wadd ym Mhrifysgol Caerdydd, 19/03/2014. Gerddi Hwyan yw lleoliad y nofelau: *Mr Blaidd* (2009), *Heulfan* (2012), *Taffia* (2016), *Pyrth Uffern* (2018).

Perthyn i lôn ddinesig nodweddion arbennig. Oes, mae ynnddi buteinio, rhegi, alcohol, cyffuriau, ond cofier mai amlwynebog yw pob dinas, a bod iddi ddiwylliant, cyfoeth, crefydd a chariad yn ogystal. (2008, t.36)

Yn sicr, ceir portread o 'buteinio, rhegi, alcohol [a ch]yffuriau' yn y nofelau, yn ogystal â thrafodaeth o bedoffilia mewn rhai o'r testunau. Mae yma gysylltiad ag ysgogiad/swyddogaeth cyfnewid cod, gan fod siaradwyr yn fwy tebygol o gyfeirio at bynciau tabŵ gan ddefnyddio laith₂ (Pavlenko 2008, tt.157–8). Rhaid craffu er mwyn gweld ochr dda'r ddinas yn y testunau, ond mae'n bresennol yn neuoliaeth y cymeriadau. Er bod Luc Swan yn y nofel *Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau* (2006), yn gymeriad atgas ar adegau, gwelir ef yn amddiffyn merched ifainc rhag grŵp o bedoffiliaid rhag iddynt ddiodeff yr un profiadau erchyll ag ef – er ei fod yn gwneud hyn drwy geisio llofruddio'r dynion hyn. Mae Milo *Danse Noire* (2013) yn gymeriad tebyg, yn gaeth i heroin ac wedi treulio cyfnod yn y carchar am ymosod ar ffrind, ond gwelir ochr annwyl iddo yn ei berthynas â'i gariad Paul a'i fab mabwysiedig. Mae'r frwydr fewnol hon gyda'r da a'r drwg yn eu cymeriadau'n ategu'r elfen *Bildungsroman* wrth iddynt ymdrechu i ganfod eu pwrpas a'u rôl mewn cymdeithas.

1.5 Cymru a Chanada

Mae'r isadran hon yn rhoi ychydig o gyd-destun hanesyddol ac ieithyddol

Cymru a Chanada, gan drafod rhai o'r themâu a'r cerrig milltir pwysicaf.

Dengys y drafodaeth hon y potensial sydd am gymhariaeth rhyngddynt, a

arweiniodd at ddewis trafod testunau o'r ddwy wlad. Bydd trafodaethau yn

ddiweddarach yn y traethawd, megis y drafodaeth ar hunaniaeth, yn cydio yn y

cyd-destun a drafodir yma. Archwilir hanes trefedigaethol yn benodol er mwyn

rhoi cefndir a chyd-destun oherwydd trafodir theori lenyddol ôl-drefedigaethol

mewn pennod ddiweddarach. Gan y tybir y bydd hanes Cymru yn fwy

cyfarwydd na hanes Canada, rhoddir mwy o gyd-destun am Ganada, yn y

gobaith y bydd y cefndir hwn o gymorth i ddeall amrywiaeth hunaniaethau Ffrangeg-Ganadaidd. Byddaf hefyd yn trafod y cyd-destun ieithyddol cyfoes er mwyn ceisio deall y sefyllfa ieithyddol yn y ddwy wlad. Nodir bod Cymru a Chanada ill dwy yn wledydd amlddiwylliannol sydd â mewnfudwyr o sawl gwlad, yn ogystal â phoblogaeth frodorol Canada. Er hyn, bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y Gymraeg, y Saesneg a'r Ffrangeg, gan mai dyma ffocws yr astudiaeth bresennol.

1.5.1 Canada

Cyn dyfodiad yr Ewropeaid yn yr unfed ganrif ar bymtheg,³⁷ roedd nifer o frodorion yn yr Amerig eisoes, sef y Cenhedloedd Brodorol (defnyddir y term *First Nations* yng Nghanada) a'r Inuit yng ngogledd y wlad. O ganlyniad i ddyfodiad yr Ewropeaid, ceir hefyd y 'Métis', sef hil gymysg o'r *First Nations* a'r gwladychwyr Ewropeaidd. Mae'r diwylliannau brodorol yn rhan bwysig o hanes Canada, ac mae'n wir iddynt ddioddef o ganlyniad i ddyfodiad yr Ewropeaid. Mae eu sefyllfa'n parhau i fod yn fregus hyd heddiw, gyda niferoedd sawl llwyth yn lleihau a'r gwahanol ieithoedd a siaredir ganddynt yn cael eu colli. Gan nad llenyddiaeth *First Nations* sydd dan sylw yn y traethawd hwn, ni thrafodir y *First Nations* mewn manylder, ond mae'n bwysig eu nodi gan fod ambell destun yn trafod themâu cysylltiedig.³⁸

³⁷ Ceir tystiolaeth bod y Llychlynwyr a oedd wedi coloneiddio'r Ynys Las tua mil o flynyddoedd yn ôl hefyd wedi cyrraedd Labrador a Newfoundland. John Cabot – Eidalwr oedd wedi symud i Loegr – oedd y cyntaf i fapio dwyrain Canada yn 1497. Ni ddechreuodd y gwladychiad Prydeinig tan 1610 (Government of Canada 2015).

³⁸ Am wybodaeth bellach am y *First Nations*, gweler, er enghraifft: *Canada's First Nations: A History Of Founding Peoples From Earliest Times* (Dickason & McNab 2009); *The Inconvenient Indian: A Curious Account of Native People in North America* (King 2012); *The Invasion Within: The Contest of Cultures in Colonial North America* (Axtell 1986).

Jacques Cartiers oedd y Ffrancwr cyntaf i gyrraedd yr Amerig,³⁹ gan ddarganfod Bae Gaspé yn 1534, er na sefydlwyd trefedigaeth Ffrengig yno tan yn ddiweddarach. Yn 1535 teithiodd i ardal dinas Montréal heddiw, a darganfod pentref brodorion la Hochelaga. Enwodd Cartier y bryn mawr yn 'Mont Royal', sef tarddiad enw'r ddinas. Cafwyd sawl ymgais i sefydlu trefedigaeth Ffrengig yn yr Amerig, ond bu sawl anhawster: aflonyddwch yn Ffrainc;⁴⁰ brwydro rhwng Ffrainc a Phrydain am dir; dewis lleoliadau anffafriol o ran dŵr a bwyd; a gaeafau caled Canada.⁴¹ Sefydlwyd sawl trefedigaeth yn ardal ddwyreiniol y wlad (o amgylch Québec ac Acadie), er i nifer o'r rhain fethu, ac i'r trefedigaethau newid dwylo rhwng Ffrainc a Phrydain yn dilyn rhyfel.⁴²

Y Ffrancwr cyntaf i ymsefydlu yng Ngogledd America ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg oedd yr *acadiens* (Boudreau 2013). Yr Acadie wreiddiol oedd ynys Nova Scotia, cyn lledu i ynys Sainte-Jean (Prince Edward Island heddiw) a rhan o New Brunswick.⁴³ Erbyn heddiw, nid oes ffiniau clir i Acadie gan mai *diaspora* ydyw. Ceir poblogaeth *acadien* yn New Brunswick, Nova Scotia, Prince Edward Island a rhan o Newfoundland a Labrador. Er bod yr *acadiens* yn dod o Ffrainc yn wreiddiol, nid oeddent mewn cysylltiad pellach â'u mamwlad; bach iawn oedd diddordeb Ffrainc mewn sefydlu trefedigaeth ar y pryd.⁴⁴ Gan nad oeddent mewn cysylltiad â Ffrainc, dechreusant ystyried eu hunain fel

³⁹ Cyfeiria Clarke at y ffaith fod peth tystiolaeth o bysgotwyr Basg yn pysgota yn y môr o amgylch dwyrain Canada cyn hyn, ond gan eu bod wedi enwi'r ynys yn 'Baccalaos' (gair Basg am benfras, sy'n dod o'r Sbaeneg neu'r Bortiwgaleg) mae'n amlwg nad profiad *Ffrengig* o'r Amerig sydd yma, ond profiad Basg (2015, t.193).

⁴⁰ Mae Rhyfeloedd Crefydd Ffrainc yn perthyn i'r cyfnod hwn. Huguenotiaid (Protestaniaid Ffrangeg) oedd nifer o'r Ffrancwyr cyntaf i fentro i'r Amerig, er mwyn ceisio creu cymdeithas fwy oddefgar.

⁴¹ Cymreodd y gwladychwyr cynnar yn ganiataol mai'r un hinsawdd fyddai ar yr un lledred yng Nghanada â hinsawdd fwynach Ewrop (Clarke 2015, t.201).

⁴² Am drafodaeth bellach o sefydlu Canada, gweler, er enghraifft: *A Short History of Canada* (Morton 2017); *The Penguin History of Canada* (Bothwell 2008).

⁴³ Gweler map o Ganada a'i thaleithiau yn Atodiad III: Mapiau o Ganada.

⁴⁴ Newidiodd hyn pan ddatblygodd Cardinal Richelieu ddiddordeb yng Nghanada oherwydd y fasnach ffwr (Brown 1944, t.27).

acadiens. Nid oeddent eisiau cymryd rhan mewn rhyfeloedd rhwng Prydain a Ffrainc, 'wishing only to be left alone' (Brown 1944, t.100). Daeth Acadie dan reolaeth Prydain yn dilyn cytundeb Utrecht 1713, ac yn 1755, wedi i'r *acadiens* wrthod teyrngarwch i Brydain (er eu bod yn fodlon tyngu llw i aros yn niwtral mewn rhyfel rhwng Prydain a Ffrainc), gorchmynnwyd iddynt gael eu hallgludo, digwyddiad y mae Clarke yn ei ddisgrifio fel puro ethnig (2015, t.191).⁴⁵

Anfonwyd yr *acadiens* ar draws y byd – i'r trefedigaethau eraill yn yr Amerig, yn ôl i Ffrainc neu i Brydain, gyda theuluoedd cyfan ar wasgar. Cymerwyd eu heiddo a llosgwyd eu cartrefi. Gwnaed hyn er mwyn 'nettoyer la nouvelle colonie anglaise de tout risque de résistance' (Laparra 2006, t.73).⁴⁶ Bu farw nifer mewn llongdrylliadau neu o newyn, a charcharwyd nifer fawr. Mae ansicrwydd ynglyn â faint o'r *acadiens* a gafodd eu hallgludo; amcangyfrifir rhwng 6,000 a 18,000.⁴⁷ Llwyddodd rhai i gyrraedd y dalaith Ffrengig yn Louisiana; dyma wreiddiau'r 'Cajun', sy'n tarddu o'r enw '*acadien*'. Fel y dywed Wrong, 'the Acadians were the victims of high politics. This simple people would hardly have been heard of in history but for their tragic fate' (1928, t.773). Hyd heddiw, mae'r *Grand Dérangement*,⁴⁸ fel y gelwir y cyfnod hwn o allgludo, yn aros yng nghof yr *acadiens*. Fe'i hystyrir gan nifer fel 'le point zéro de l'imaginaire acadien' (Clarke 2004, t.27).⁴⁹ Nid y tir yn unig a gollwyd; collwyd cof hefyd – ychydig iawn a wyddom am yr hyn a ddigwyddodd i'r *acadiens* am oddeutu canrif yn dilyn 1755 (Chiasson 2004, t.147). Mae'r *Grand*

⁴⁵ Dadleua Wrong nad o lywodraeth Prydain y daeth y gorchymyn hwn: '[Charles] Lawrence [Rhaglaw Prydeinig Nova Scotia] had no warrant from England to remove the Acadians' (1928, t.770).

⁴⁶ 'er mwyn gwaredu'r drefedigaeth Saesneg newydd o bob risg o wrthwynebiad'.

⁴⁷ Gwahanol amcangyfrifon: tua 12,600-18,000 wedi eu hallgludo rhwng 1755-1763 (Clarke 2015, t.191); poblogaeth Nova Scotia wedi lleihau o 8,200 i 1,200 (Brown 1944, t.101); 'only about seven thousand were taken and carried away' (Fosdick 1911, t.41); efallai tua 6,000-10,000 (Wrong 1928, t.782).

⁴⁸ Yr Alltudiad Mawr.

⁴⁹ '*ground zero* y dychymyg acadien'.

Dérangement a'i effaith ar yr *acadiens* yn thema mewn sawl testun *acadien* a ddadansoddir yn y traethawd hwn.⁵⁰

Wedi i'r trefedigaethau Ffrengig ddod o dan reolaeth Prydain, roedd statws ac iaith y *canadiens-français* o dan fygythiad (Saint 2013, t.169), a daeth y Ffrangeg yn iaith leiafrifol yng Nghanada. Ffurfiwyd y taleithiau (*provinces*) ar ôl cyfnodau o fewnfudo o sawl gwlad. Crëwyd New Brunswick, Nova Scotia, Ontario a Québec o dan y Conffederasiwn Canadaidd (1867). Crëwyd taleithiau eraill maes o law: Manitoba (1870), British Columbia (1871), Prince Edward Island (1873), Saskatchewan (1905), Alberta (1905) a Newfoundland a Labrador (1949). Ceir hefyd dair tiriogaeth (*territories*) – Northwest Territories, Yukon a Nunavut.⁵¹ Ceir cymunedau ffrancoffon ar draws Canada, gyda nifer o'r rhain o ganlyniad i fudo o Québec, megis mudo i Manitoba yn yr ail ganrif ar bymtheg (Rodriguez 1993, t.40) neu fudo i ardaloedd o Ontario, megis Sudbury, oherwydd datblygiad diwydiannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Moïse 2006, t.210). Mae Canada yn rhan o Gymanwlad Prydain,⁵² ac roedd y daith i fod yn wlad annibynnol yn broses gam wrth gam, yn hytrach na thrwy chwyldro (Brown 1944, t.260). Dim ond yn 1931 y datganwyd mai perthynas gydradd oedd rhwng Prydain a Chanada fel rhan o'r Gymanwlad, ond bu rhaid aros tan 1982 i Ganada ddod yn wlad hollol annibynnol – er bod Elizabeth II yn parhau i fod yn Frenhines ar Ganada.

⁵⁰Am wybodaeth bellach am y *Grand Dérangement*, gweler, er enghraifft, *The Acadian Diaspora: An Eighteenth-Century History* (Hodson 2017); *The Acadians: A People's History of Exile and Triumph* (Jobb 2005); *A Great and Noble Scheme: the tragic story of the expulsion of the French Acadians from their American Homeland* (Faragher 2005).

⁵¹ Mae gan y taleithiau eu pwerau cyfansoddiadol eu hunain, ond pŵer dirprwyedig o dan awdurdod Senedd Canada sydd gan y tiriogaethau. Fodd bynnag, mae proses o ddatganoli pwerau tebyg o'r taleithiau i'r trefedigaethau wedi bod ar droed ers 40 mlynedd (Government of Canada 2017a).

⁵² Er nad oes pŵer cyfreithiol/gwleidyddol gan y Gymanwlad erbyn hyn.

Fel y gwelwyd, mae'r boblogaeth Ffrangeg-Ganadaidd yn deillio o sawl cyfnod o fudo. Mae'r mudo'n gadael ei ôl ar yr iaith – mae'r Ffrangeg *acadien* yn cynnwys sawl nodwedd sy'n deillio o Ffrangeg yr ail ganrif ar bymtheg, ond nad yw'n bresennol yn Ffrangeg Ffrainc na Québec. Er bod y boblogaeth ffrancoffon ar wasgar drwy'r taleithiau, tan yn ddiweddar ni wahaniaethwyd rhwng y *franco-canadiens* a oedd yn byw yn Québec a'r rhai a oedd yn byw i'r gorllewin o'r *province mère*⁵³ (Hotte a Melançon, 2010, t. 30). Caed undod o fod yn rhan o leiafrif ffrancoffon mewn gwlad a oedd yn fwyafrifol angloffon. Fodd bynnag, yn ystod y 1960au, gwelwyd 'the social, economic, educational, and political transformation of Quebec' (Moss 2004, t.81), a elwir yn *Révolution Tranquille*.⁵⁴ Gwelwyd twf mewn cenedlaetholdeb yn Québec, a datblygodd hunaniaeth *québécois* ar wahân i'r *franco-canadiens* eraill. Cofier mai Québec yw'r unig dalaith sy'n fwyafrif ffrancoffon, felly roedd digwyddiadau'r *Révolution Tranquille* yn ffordd o geisio amddiffyn y gymdeithas hon rhag Seisnigeiddio. Tyfodd tensiwn rhwng Québec a'r *franco-canadiens* eraill, a'r llywodraeth ffederal yn ogystal, wrth i'r awydd am Québec annibynnol dyfu.⁵⁵ Ni leddfwyd y tensiwn hwn wrth i rai *québécois* ddisgrifio'r *franco-canadiens* tu hwnt i Québec fel 'dead ducks' neu '*cadavres encore chauds*'⁵⁶ (Moss 2004, t.81). Gadawyd y *franco-canadiens* 'feeling betrayed and rejected by their Québécois co-linguists' (Moss 2005, t.6). Cadarnhawyd hunaniaeth Québec fel talaith uniaith Ffrangeg yn 1977 gyda *Loi 101*, mesur iaith sy'n dynodi Ffrangeg fel unig iaith swyddogol Québec. Oherwydd hyn, 'Canadian Francophone populations residing outside Québec have been marginalised not only by the majority Anglophone

⁵³ 'Y fam-dalaith' (sef Québec).

⁵⁴ Y Chwyldro Tawel.

⁵⁵ Cafwyd dwy refferendwm ar sofraniaeth Québec maes o law (1980 a 1995) – 'na' fu'r canlyniad yn y ddau achos.

⁵⁶ 'Celanedd sydd yn dal yn gynnes.'

population, but also by Québécois' (Merkle 2010, t.70). Mae'r hollt hwn rhwng Québec a'r *hors Québec*⁵⁷ yn golygu bod y ddwy gymuned – yn enwedig pobl ifainc – yn colli adnabod ar ei gilydd (Morency 2008, t.27). Gwelir enghraifft o hyn yn y ffilm *Pis nous autres dans tout ça?* (Germain 2008), gyda thîm y ffilm ddogfen yn ninas Québec ar gyfer *fête nationale du Québec*⁵⁸ yn chwifio baneri *franco-ontariens*,⁵⁹ baner nad oedd yn adnabyddus i'r cyhoedd yr oeddent yn eu cyfarfod ar y stryd – er iddynt dderbyn croeso, yn wahanol i'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl.⁶⁰ Gwelir sawl sgwrs yn y ffilm sy'n nodweddiadol o'r tensiwn sydd rhwng y gymuned *québécois* a gweddiill y *franco-canadiens* oherwydd awydd sawl *québécois* i weld Québec rydd a fyddai'n "homeland' for all Canadian francophones' (Thomas 1997, t.339).

Oherwydd 'métamorphose identitaire' (Morency 2009, t.148)⁶¹ y *québécois*, rhaid oedd i'r *franco-canadiens* greu hunaniaeth wahanol iddynt eu hunain, a newidiodd y gymuned yn sylweddol yn ystod y 1960au-70au (Hotte a Melançon, 2010, t. 49). Erbyn heddiw, mae'r term *franco-canadien* fel disgrifiad o hunaniaeth bersonol wedi dyddio (Boissonneault 2004, t.166), a'r ganran o bobl sy'n disgrifio'u hunain fel *franco-canadien* wedi lleihau yn gyson ers y 1960au (Marcel Martel 2004 yn Morency 2009, t.163). Roedd gan yr *acadiens* hunaniaeth gref eisoes, ond roedd rhaid datblygu hunaniaeth y cymunedau

⁵⁷ Y tu allan i Québec.

⁵⁸ Dathlir *fête nationale du Québec* ar yr un dyddiad â *fête Saint-Jean-Baptiste*, nawddsant y *franco-canadiens*. Newidwyd dyddiad *fête nationale du Québec* yn 1977. Er ei fod yn cael ei ddathlu fel diwrnod y *franco-canadiens* gan y boblogaeth ffrancoffon y tu hwnt i Québec, yn Québec mae'n ddatiliad o Québec yn unig, ac nid o'r gymuned ffrancoffon ehangach.

⁵⁹ Mae sawl baner arbennig ar gyfer cymunedau ffrancoffon; ceir hefyd faner ar gyfer cymuned *franco-canadien* Canada gyfan.

⁶⁰ Dangosa'r ffilm ganllawiau a gyhoeddwyd gan Ddinas Québec a'r heddlu yn datgan: « les seuls drapeaux tolérés par les participants sont habituellement les drapeaux du Québec et les drapeaux noir[s] anarchiste[s] des patriotes » ["yr unig faneri sydd fel arfer yn cael eu croesawu gan y mynychwyr yw baneri Québec a baneri du anarchaidd y *patriotes*"] (Germain 2008).

⁶¹ 'metamorffosis hunaniaeth'.

ffrancoffon eraill.⁶² Mae hunaniaethau'r *francos* modern yn fwy tebygol o fod yn ddwyieithog a seciwlar yn hytrach nag uniaith ffrancoffon a Chatholig fel yn y gorffennol (Moss 2004, tt.82–3). Y ffaith eu bod yn hollol ddwyieithog sy'n gwahaniaethu cymunedau ffrancoffon y tu hwnt i Québec a'r *québécois*, fel y dadleua Gaboury-Diallo am y *franco-manitobains* (2010, t.306). Maent yn falch o'u gallu dwyieithog ac mae'n rhan o'u hunaniaeth; gweler, er enghraifft, fyfyrwr yn disgrifio'i hun fel *anglo-fransaskois* yn astudiaeth Pilote a Canuel (2013, t.48).⁶³ Ond, fel y dywed Gérin-Lajoie, er bod pobl ifainc yn disgrifio'u hunaniaeth fel un ddwyieithog, nid yw hyn yn golygu eu bod yn gwrthod iaith na diwylliant ffrancoffon (2004, t.171) – yn hytrach, mae dwyieithrwydd yn rhan o'u hunaniaeth.

Wedi dweud hyn, mae hunaniaeth yn parhau i fod yn broblematic. Oherwydd maint y taleithiau, nid yw pob ffrancoffon yn yr un sefyllfa ieithyddol; fel y dywed Boudreau a Dubois am yr hunaniaeth *acadien*, camgymeriad fyddai tybio ei bod yn 'une unité homogène et unifiée' (1994, t.149).⁶⁴ Ceir rhai ardaloedd lle mae'r gyfradd o siaradwyr Ffrangeg yn uchel iawn, ac eraill lle mae'r ffrancoffon 'une minorité constamment menacée par l'assimilation' (Gaboury-Diallo 2010, t.291).⁶⁵ Er bod y Ffrangeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol ar lefel ffederal ers 1969, a bod angen i sefydliadau ffederal gyfathrebu yn y ddwy iaith (Government of Canada 2017b), nid yw'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol yn cynnwys llywodraethau taleithiol neu drefol, na busnesau preifat (Office of the Commissioner of Official Languages 2018). Mae gan y taleithiau bolisiau iaith amrywiol: mae Québec yn swyddogol uniaith Ffrangeg, a New Brunswick yw'r

⁶² Megis *franco-ontarien, franco-manitobain, fransaskois, franco-albertain, a franco-colombien*.

⁶³ Mae Marc Prescott, awdur un o'r testunau a ddadansoddir yn y traethawd hwn, yn defnyddio term hybrid tebyg i ddisgrifio'i hunaniaeth, sef "franco-bilingue" (Ouellet 2017, t.12).

⁶⁴ 'undod unffurf ac unedig'.

⁶⁵ 'lleiafrif sydd wastad o dan fygythiad o gael ei gymathu'.

unig dalaith sy'n swyddogol ddwyieithog (Mougeon et al. 2015).⁶⁶ Mae terminoleg hunaniaeth hefyd yn broblematic; term sy'n disgrifio'r gallu i siarad Ffrangeg yw 'ffrancoffon', 'ce n'est pas un mot qui nomme une communauté spécifique avec son passé, sa culture, ses intérêts communs' (Normand Renaud 2002, dyfynnir yn Boissonneault 2004, t.166).⁶⁷ Mae hyn hefyd yn wir am y term 'angloffon'.

Wrth gwrs, mae'r sefyllfa ieithyddol yng Nghanada yn wahanol i'r sefyllfa yng Nghymru mewn sawl ffordd. Mae ieithoedd swyddogol Canada ill dwy yn deillio o drefedigaethedd Ewropeaidd. Maent yn ieithoedd rhyngwladol sy'n cael eu siarad gan ddegau ar filiynau o bobl ar draws y byd, ac yn ieithoedd dominyddol a/neu'n rhai mwyafrifol mewn dwsinau o wledydd (Williams 2007b, t.15). Fodd bynnag, yng nghyd-destun Canada, yn enwedig y tu hwnt i Québec, mae'r Ffrangeg yn iaith lleiafrifol. Wrth edrych ar boblogaeth Canada heddiw, gwelir isod (Tabl 10) pa ganran o'r boblogaeth sy'n medru'r Ffrangeg (yn uniaith Ffrangeg neu'n ddwyieithog Ffrangeg-Saesneg).⁶⁸ Gwelir bod y ganran hon yn amrywio yn ôl talaith/tiriogaeth.

⁶⁶ Mae'r tair tiriogaeth (Northwest Territories, Nunavut a Yukon) yn rhoi statws i'r Ffrangeg a'r Saesneg, yn ogystal â rhai ieithoedd lleiafrifol. Mae gan bobl yn Ontario hawl i wasanaeth Ffrangeg mewn rhai ardaloedd yn unig, nid ar draws y dalaith. Nid oes hawl i ddisgwyl gwasanaeth yn y Ffrangeg i'r un graddau ym mhob ardal; gweler trafodaeth fer gan Diarmait Mac Giolla Chríost (2016, tt.78–9), yn ogystal â thrafodaeth gan Colin H. Williams am bolisiau iaith Canada (2013, tt.23–6).

⁶⁷ 'Nid yw'n air sy'n disgrifio cymuned benodol gyda'i gorffennol, ei diwylliant, ei diddordebau cyffredin'.

⁶⁸ Y gallu i gynnal sgwrs yn y Ffrangeg a nodir gan y Cyfrifiad.

Canada gyfan	29.8%
Newfoundland and Labrador	5.1%
Prince Edward Island	12.7%
Nova Scotia	10.5%
New Brunswick	42.5%
Québec	94.5%
Ontario	11.5%
Manitoba	8.7%
Saskatchewan	4.8%
Alberta	6.7%
British Columbia	6.9%
Yukon	14.0%
Northwest Territories	10.5%
Nunavut	4.4%
Canada, tu allan i Québec	10.3%

Tabl 10: Cyfradd o'r boblogaeth sy'n medru'r Ffrangeg (yn uniaith Ffrangeg neu'n ddwyieithog Ffrangeg-Saesneg)⁶⁹

Gwelir mai lleiafrif yw'r rhai sy'n medru'r Ffrangeg y tu allan i Québec; mae 29.8% o boblogaeth Canada yn medru'r Ffrangeg, ond mae'r ffigwr hwn yn disgyn i 10.3% os ydym yn eithrio poblogaeth Québec. Mae siaradwyr mamiaith Ffrangeg yn fwy tebygol o fod yn ddwyieithog – mae 46.2% ohonynt yn medru'r Saesneg o'i gymharu â 9.2% o siaradwyr mamiaith Saesneg sy'n medru'r Ffrangeg (Statistics Canada 2017a). Mae mwyafrif y siaradwyr mamiaith Ffrangeg yn Québec; mae 79.1% o boblogaeth Québec yn siarad Ffrangeg fel mamiaith, o'i gymharu â 4% y tu allan i Québec (Statistics Canada 2017b). Ar gyfartaledd, 21.4% o boblogaeth Canada sy'n siarad Ffrangeg fel mamiaith (yn unig neu gydag iaith arall) (Statistics Canada 2017b). Ceir hefyd siaradwyr uniaith Ffrangeg; mae 11.9% o boblogaeth Canada yn uniaith Ffrangeg, ond mae'r ffigwr yn cynyddu i 50% wrth edrych ar Québec yn unig (Statistics Canada 2017b). Dengys hyn fod y sefyllfa ieithyddol yn amrywio'n fawr rhwng ardaloedd, sy'n golygu bod profiadau'r *franco-canadiens* yn amrywiol iawn.

⁶⁹ Crëwyd o ddata Cyfrifiad 2016 gan Statistics Canada (Statistics Canada 2017c).

Er bod yr iaith o dan fygythiad, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes nifer fawr o siaradwyr Ffrangeg, mae'n amlwg bod yr iaith yn nodwedd bwysig o hunaniaeth *franco* yng Nghanada. Trafodwyd eisoes fod dwyieithrwydd yn bwysig i'r *francos* modern, yn enwedig y tu hwnt i Québec, ac mae'n amlwg bod y Ffrangeg yn allweddol. Noda Jean Babineau, er na fyddai'n anghytuno ag unigolyn angloffon a oedd am ddisgrifio'i hun fel *acadien*, 'c'est sûr que la langue a une grande partie à jouer dans le fait d'être acadien'.⁷⁰ Pwysleisia Joëlle Roy y berthynas sydd rhwng iaith a diwylliant, gan ddweud 'c'est indissociable, la langue et la culture',⁷¹ gan nodi fod diwylliant yn gwanhau wrth i'r iaith golli tir.⁷² Dengys hyn y berthynas glòs sydd rhwng iaith a diwylliant.

1.5.2 Cymru

Tybir bod cyd-destun hanesyddol Cymru yn fwy cyfarwydd i'r darlennydd na chyd-destun Canada, felly tynnir sylw yma at y prif gerrig milltir yn unig.⁷³ Dylid nodi na ddaeth Cymru gyfan o dan reolaeth Lloegr ar yr un pryd; roedd cestyll Normanaidd wedi'u codi yng Nghas-gwent, Trefynwy a Chaerllion erbyn 1086, pan '[dd]iffoddwyd teyrnas Gymreig Gwent' wedi iddi fodoli am bron i saith canrif (Davies 2007, t.95). Yn wir, nid rhyfel rhwng Cymru a Lloegr fel yr ydym yn eu hadnabod heddiw a fu rhwng Edward I a Llywelyn ein Llyw Olaf: roedd rhai o filwyr gorau Edward yn Gymry (Edwards 1922, t.55). Datgana Edwards: 'Conquered Wales may be divided into two parts—the Wales conquered by the Norman barons and the Wales conquered by the English king' (1922, t.58). Fel yr esbonia R.R. Davies, 'we may, if we wish, apply the label "colonial" to

⁷⁰ 'Mae'n sicr bod gan yr iaith ran fawr i'w chwarae yn y ffaith o fod yn *acadien*'. Cyfweiliad personol 27/05/2016.

⁷¹ 'Mae'n anwahanadwy, iaith a diwylliant'. Cyfweiliad personol 06/06/2016.

⁷² Trafoda hyn yng nghyd-destun diwylliant Cajun Louisiana – diwylliant ffrancoffon arall yng ngogledd America. Treuliodd Joëlle Roy gyfnod yn byw yn Louisiana.

⁷³ Am drafodaeth fanylach o hanes Cymru, gweler, er enghraifft: *Hanes Cymru* (Davies 2007); *The Story of Wales* (Gower 2013); *The Welsh Language: A history* (Davies 2014); *The Age of Conquest: Wales 1063-1415* (Davies 2006).

Glamorgan and Pembroke Society, for example, in the twelfth century; but we must defer its usage with respect to many other parts of Wales until the late thirteenth century' (1974, t.3). Mae'n amlwg o leoliad cestyll Edward I⁷⁴ mai yng ngogledd Cymru y canolbwyntiai Lloegr ei grym. Gwelir bod gwahaniaeth ym mhrofiad hanesyddol gwahanol ardaloedd o Gymru o'r safbwynt trefedigaethol a bod defnyddio'r gair 'trefedigaethol' i ddisgrifio hanes Cymru yn gallu bod yn broblematic.

Roedd y Deddfau Uno yn drobwynt yn hanes Cymru; 'cafodd Deddfau Uno Harri'r VIII effaith andwyol aruthrol ar Gymru, yn ieithyddol, yn ddiwylliannol, yn economaidd ac yn gymdeithasol' (Jones 1997, t.132). Yn dilyn 'Deddf Uno' 1536,⁷⁵ unwyd cyfraith Cymru a Lloegr, gan ddynodi'r Saesneg fel unig iaith y llysoedd (Davies 2007, tt.211–3). Yn ogystal, 'gwaharddwyd defnyddio'r Gymraeg ym mywyd cyhoeddus a swyddogol Cymru' (Jones 1997, t.138). Drwy wadu safle cydradd i'r Gymraeg, '[c]afodd effaith anuniongyrchol drwy ddiraddio a diystyru'r iaith a thrwy awgrymu ei bod yn fwy o rwystr nag o gymorth i'r Cymry allu cystadlu â'u cyd-ddinasyddion dan frenhiniaeth Lloegr' (Jones 1997, t.136). O'r cyfnod hwn, roedd medru'r Saesneg yn angenrheidiol er mwyn cadw safle cymdeithasol breintiedig.

Fodd bynnag, aeth sawl canrif heibio cyn i'r Gymraeg ddatblygu'n iaith lleiafrifol. Yn 1801, roedd 80% o boblogaeth Cymru'n medru'r Gymraeg (Darlington 1894 yn Jones 1997, t.334). Erbyn 1901, roedd 49.9% o boblogaeth Cymru'n medru'r Gymraeg, a 30.2% o'r rhain yn uniaith Gymraeg (Jones 1997, t.334). Yn 1911, 'am y tro cyntaf erioed, 'roedd Cymry Cymraeg yn lleiafrif yn eu gwlad

⁷⁴ Caernarfon, Biwmares, Conwy a Harlech, a chestyll cynharach yn Fflint, Rhuddlan, Aberystwyth a Llanfair-ym-Muallt.

⁷⁵ Defnyddiwyd y term 'Deddf Uno' i ddisgrifio'r broses am y tro cyntaf yn 1901 (Davies 2007, t.210).

eu hunain' (Jones 1997, t.328), gyda chanran siaradwyr y Gymraeg wedi gostwng i 43%. Gwelwyd y ffigwr hwn yn erydu'n raddol ar hyd y ganrif; erbyn 1981, dim ond 4.2% o'r boblogaeth a oedd yn uniaith Gymraeg, a 95.8% o'r rhai a oedd yn medru'r Gymraeg yn ddwyieithog (Jones 1997, t.334). Noda Jones, wrth i'r defnydd o Saesneg ddod yn norm mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac o fewn teuluoedd, 'cam bach wedyn oedd ystyried y Gymraeg yn elfen gwbl ddianghenraid ar gyfer bywyd cymdeithasol llawn' (1997, t.331). Gwelwyd y Gymraeg yn cilio'n gyflymach o'r ardaloedd diwydiannol – oherwydd y ddau Ryfel Byd, y dirwasgiad, ac wrth i gymdeithas gefnu ar grefydd (B. Thomas 1987 yn Jones 1997, t.435). Honna John Davies 'yn y tridegau gwasgwyd yr iaith allan o drwch cymunedau dwyrain y maes glo' (2007, t.530). Gwelir yma eto wahaniaeth rhwng y gwahanol ardaloedd o Gymru.

Yn debyg i Québec, cafwyd adfywiad mewn hunaniaeth wladgarol yng Nghymru yn y 1960au a'r 1970au. Methodd refferendwm 1979 ar ddatganoli i Gymru, cyn llwyddiant refferendwm 1997 i sefydlu'r Cynulliad, ac yn 2011 cafwyd refferendwm pellach i roi rhagor o hawliau deddfwriaethol i Gymru. Pasiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1967, cyn cael ei disodli gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn ôl Deddf 1993, 'dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal mewn busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru' (Williams 2007a, t.217). Disodlwyd Deddf Iaith 1993 gan Fesur y Gymraeg 2011, gan sefydlu Comisiynydd y Gymraeg a fyddai'n 'hybu'r Gymraeg a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio' (Comisiynydd y Gymraeg d.d.). Gwelir, felly, sut mae hawliau gwleidyddol ac ieithyddol Cymru wedi esblygu ers y 1960au. Dylid nodi bod gwahaniaeth rhwng polisïau iaith Cymru a Chanada, gan fod Mesur y Gymraeg – a'r Deddfau Iaith cyn hyn – yn rhoi statws i'r iaith ar lefel genedlaethol drwy Gymru, yn hytrach na'r amrywiaeth sydd i'w weld rhwng

polisiau taleithiol yng Nghanada. O'r herwydd, er bod amrywiaeth rhwng ardaloedd yn nifer y siaradwyr, yr un hawliau ieithyddol sydd i'w cael ar draws Cymru, 'implying [the Welsh language's] status as a national language' (Thomas 1997, t.339).

Heddiw, mae 19% o boblogaeth Cymru yn medru'r Gymraeg, canran sy'n amrywio rhwng ardaloedd o Gymru, gyda'r gyfradd uchaf yn Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

Cymru	19.0%
Ynys Môn	57.2%
Gwynedd	65.4%
Conwy	27.4%
Sir Ddinbych	24.6%
Sir y Fflint	13.2%
Wrecsam	12.9%
Powys	18.6%
Ceredigion	47.3%
Sir Benfro	19.2%
Sir Gaerfyrddin	43.9%
Abertawe	11.4%
Castell-nedd Port Talbot	15.3%
Pen-y-bont ar Ogwr	9.7%
Bro Morgannwg	10.8%
Caerdydd	11.1%
Rhondda, Cynon, Taf	12.3%
Merthyr Tudful	8.9%
Caerffili	11.2%
Blaenau Gwent	7.8%
Tor-faen	9.8%
Sir Fynwy	9.9%
Casnewydd	9.3%

Tabl 11: Siaradwyr Cymraeg fesul Awdurdod Lleol, Cyfrifiad 2011⁷⁶

Mae hunaniaeth yn broblematic yng Nghymru fel yng Nghanada, ac mae nifer o'r testunau llenyddol a astudir ar gyfer y traethawd hwn yn trafod y broblem hon. Ar y naill law, dadleua Simon Brooks fod yr iaith Saesneg yn dominyddu yng Nghymru, gan fod dwyieithrwydd yn 'galluogi'r di-Gymraeg i fyw [mewn

⁷⁶ Addaswyd o siart StatsCymru (Ystadegau'r Boblogaeth a'r Cyfrifiad Llywodraeth Cymru 2012a).

cymdogaethau Cymraeg] heb drafferthu dysgu Cymraeg' (2013, t.106) Disgrifia hyn fel 'fffenomen sy'n dilysu hawl Saesneg i'w lordio hi ar bob dim' (2013, t.105) gan '[g]reu marchnad ieithyddol ble mae mwy o werth yn perthyn i'r Saesneg na'r Gymraeg' (2013, t.117). Ar y llaw arall, dadleua Charlotte Williams mai'r iaith Gymraeg yw 'the most authentic marker of Welsh identity', er mai dim ond 20% o'r boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg (2005, t.223).⁷⁷ Gan fod gallu yn y Gymraeg yn faen prawf o Gymreictod ym marn Williams, esbonia 'the lack of language skills is felt to compromise some people's claim to Welshness' (2005, t.223). Gwelir bod y gymdeithas ddwyieithog yn gallu achosi problemau i'r rhai sy'n medru'r Gymraeg a'r rhai sy'n ddi-Gymraeg.

Gwelir felly fod Cymru a Chanada ill dwy mewn sefyllfaoedd tebyg. Er bod y Ffrangeg yn iaith wladwriaethol ac yn iaith swyddogol mewn nifer o wledydd, gwelwyd bod sefyllfa'r Ffrangeg yng Nghanada'n ymdebygu i sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru, gan eu bod ill dwy yn ieithoedd lleiafrifol ar lefel genedlaethol. Mae'r drafodaeth hon yn ddefnyddiol er mwyn fframio'r drafodaeth ar hunaniaeth a theori lenyddol ôl-drefedigaethol maes o law. Mae hunaniaeth yn rhywbeth goddrychol, ond mae digwyddiadau hanesyddol o gymorth er mwyn deall cyd-destun. Rhaid cofio hefyd fod digwyddiadau hanesyddol yn cael effaith ar hunaniaeth, ac ar lenyddiaeth. Fel yr eglura Grosjean, mae newid mewn hawliau ieithyddol yn gallu newid agwedd tuag at iaith (1982, t.122). Mae hyn yn golygu bod effaith hawliau ieithyddol yn ymestyn ymhellach na'r hawl ei hun, gan ei fod yn hybu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith honno. Er enghraifft, dadleua Jean Babineau fod byw mewn sefyllfa ieithyddol leiafrifol yn "*fragilisant*,"⁷⁸ ond wrth i'r Ffrangeg ennill tir – er enghraifft gyda sefydlu

⁷⁷ 20% o'r boblogaeth oedd yn medru'r Gymraeg yn 2005; erbyn Cyfrifiad 2011, roedd y ffigwr hwn wedi gostwng i 19%.

⁷⁸ 'Gwanychu' neu 'yn cael ei wneud yn wan'.

Université de Moncton, y brifysgol ffrancoffon fwyaf y tu allan i Québec (Université de Moncton d.d.) – “*ça défragilise*”.⁷⁹ Wrth drafod hanes a chyd-destun ieithyddol, gwelir y gwahaniaeth sy’n bodoli rhwng ardaloedd, rhywbeth sy’n gadael ei ôl ar hunaniaethau modern. Bydd y cyd-destun a ddarparwyd yma o gymorth i ddeall arwyddocâd rhai o themâu’r testunau a drafodir yn yr astudiaeth.

1.6 Casgliad

Yn y bennod hon, diffiniwyd beth yn union yw cyfnewid cod, a manylwyd ar ddarganfyddiadau a methodolegau astudiaethau blaenorol yn y maes, gan gynnwys canlyniadau f’astudiaeth MPhil (Orwig 2015). Archwiliwyd rhai agweddau gramadegol ar gyfnewid cod, gan gynnwys categorïau ar gyfer dadansoddi’r cyfnewid cod yn ramadegol. Trafodwyd hefyd ysgogiad neu swyddogaeth cyfnewid cod, yn ogystal â chategorïau dadansoddol. Er y nodwyd bod rhai anawsterau o safbwynt y defnydd o gategorïau – er enghraifft, mae’n anodd pennu *un* ysgogiad/swyddogaeth ar gyfer enghraifft o gyfnewid cod, ac mae’n amhosibl creu rhestr hysbyddol o’r *holl* resymau am gyfnewid cod – dangoswyd bod defnydd i’r fethodoleg hon, yn enwedig o ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach yn hytrach na chynnig rhai enghreifftiau’n unig. I gloi, darparwyd ychydig o gyd-destun hanesyddol a chymdeithasol ar gyfer Cymru a Chanada, yn y gobaith y bydd o gymorth ar gyfer y drafodaeth ddilynol. Mae’r traethawd hwn yn cynnig golwg wreiddiol ar gyfnewid cod drwy bontio meysydd ieithyddiaeth a beirniadaeth lenyddol, yn ogystal â’r cyfuniad o dair iaith a dwy ffurf lenyddol. Yn y bennod nesaf, trafodir y fethodoleg a ddefnyddir yn y traethawd hwn.

⁷⁹ “Mae’n dad-wanhau”. Cyfweiliad personol 27/05/2016.

2: Methodoleg

Pwrpas y bennod hon yw trafod methodoleg yr ymchwil presennol. Rhennir y drafodaeth yn bedair adran. Bydd yr adran gyntaf yn trafod sut y bydd yr astudiaeth hon yn adeiladu ar seiliau'r astudiaeth flaenorol (Orwig 2015). Yn ail, esbonnir sut yr aethpwyd ati i ddewis y testunau llenyddol sy'n ffurfio corpws y traethawd. Yna, manylir ar y fethodoleg arbennig a ddefnyddiwyd er mwyn dadansoddi'r testunau hyn, gan esbonio'r meysydd dadansoddi a'u categorïau. Yn olaf, trafodir y cyfweiliadau a gynhaliwyd ag awduron rhai o'r testunau.

2.1 Adeiladu ar seiliau'r astudiaeth MPhil

Fel rhan o'r astudiaeth MPhil, peilotwyd methodoleg newydd ar gorpws bychan er mwyn dangos bod potensial ar gyfer astudiaeth o'r math hwn. Corpws bach iawn a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith hwn – pedwar testun yn unig, a phob un yn nofel. Yn amlwg, wrth droi at astudiaeth newydd, y cam cyntaf oedd adeiladu corpws mwy. Yn ogystal, roeddwn am ychwanegu elfennau newydd i'r corpws hwn; roeddwn am astudio'r ddrama, oherwydd bod y ddrama yn destun i'w berfformio yn hytrach na'i ddarllen (yn wahanol i'r nofel). Oherwydd ei natur arbennig, yn byw mewn ennyd (*ephemeral*), tybid y gallwn weld patrymau gwahanol o gyfnewid cod.

Yn ail, roeddwn am astudio testunau Saesneg a oedd yn cyfnewid cod.

Oherwydd fod gan y testunau gynulleidfa ragdybiedig ychydig yn wahanol i destunau Cymraeg neu Ffrangeg, roedd yn gyfle i archwilio pwrpas defnyddio cyfnewid cod mewn testun lle nad yw pob darlennydd yn deall yr Iaith². Roedd hon yn ffordd o gynnwys testunau sy'n defnyddio cyfradd is o gyfnewid cod er mwyn astudio math arall o gyfnewid cod, ac er mwyn astudio sbectrwm gyflawn o gyfnewid cod. Mae'n amlwg bod cyfnewid cod o'r fath yn cael ei ddefnyddio at

ddiben arbennig, gan ei fod yn ffordd o ddieithrio darlennydd nad yw'n deall yr laith₂ (Gordon a Williams 1998, t.79). Ond, yn aml, nid yw'r awdur am ddieithrio'r darlennydd uniaith yn ormodol – dim ond tynnu sylw at y ffaith ei fod yn darllen am gymeriadau sy'n perthyn i fyd dwyieithog. O'r herwydd, defnyddir technegau arbennig i gynorthwyo darllenwyr nad ydynt yn deall yr laith₂, neu nad ydynt yn ddigon rhugl i ddeall cyfnewid cod. Gall awdur ddewis defnyddio cyfnewid cod i flaenoriaethu darllenwyr dwyieithog (Gordon a Williams 1998, t.87), neu ddewis peidio â darparu cymorth o'r fath, gweithred y mae Bohata'n ei disgrifio fel gweithred wleidyddol (2004, t.121). Bwriedir trafod y strategaethau hyn a'u harwyddocâd yn y traethawd hwn.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn, rhaid oedd mireinio'r fethodoleg; mae nodweddion arbennig y ddrama wedi golygu mân newidiadau, fel y trafodir yn ddiweddarach yn y bennod hon. Yn ogystal, yn ystod yr MPhil, gwelwyd potensial am astudiaeth fanylach o gyfnewid cod, ond bod angen mireinio'r fethodoleg er mwyn gwneud hyn. Yn gyntaf, gwelwyd sut yr oedd cyfnewid cod yn cael ei rannu rhwng y naratif a'r ddeialog yn y traethawd MPhil, ond gwelwyd nad oedd hyn yn ddigon manwl er mwyn cael darlun clir o sut yr oedd awdur yn defnyddio cyfnewid cod er mwyn cymeriadu. Addaswyd y fethodoleg felly er mwyn gwahaniaethu rhwng deialog y cymeriadau gwahanol, er mwyn cael darlun cliriach o'r idiolectau arbennig y mae'r awdur yn ei greu ar gyfer ei gymeriadau; trafodir hyn yn ddiweddarach yn y bennod hon. Yn ail, gwelwyd potensial i astudio sut y mae nodweddion gramadegol o'r laith₁ – megis cenedl a threiglo, nad ydynt yn nodweddion o'r iaith Saesneg – yn cael eu defnyddio mewn enghreifftiau o gyfnewid cod. Gallai hyn ddangos sut y mae cyfnewid cod yn cael ei integreiddio i'r laith₁. Er mwyn dadansoddi'r nodweddion hyn,

ychwanegwyd meysydd dadansoddi newydd i'r fethodoleg. Trafodir y rhain yn yr isadrannau isod.

Elfen arall sy'n newydd i'r PhD yw'r cyfweiliadau a gynhaliwyd â rhai o awduron y testunau a astudir. Wrth weithio ar yr MPhil, bûm yn ddigon ffodus i drafod fy ngwaith yn anffurfiol â Llwyd Owen, a'i holi am ei nofelau. Daeth i'r amlwg bod deialog ddiddorol i'w chael gydag awduron, ac y gellir deall cyfnewid cod mewn llenyddiaeth yn well o gael eu mewnbwn hwy. Yn sgil y cyfweiliadau, cafwyd mewnwleidiad i'r broses greadigol yn ogystal â syniad gwell o ba mor ymwybodol yw'r awduron o'u dewisiadau wrth gyfnewid cod. Yn aml, nid ydynt (fel nifer o siaradwyr dwyieithog) yn ymwybodol iawn o'r cyfnewid cod; maent yn ei ddefnyddio mewn ffordd "naturiol" heb feddwl am y rheolau a'r cyfyngiadau sy'n rheoli'r ieithwedd honno, gan eu bod yn gweithio ar lefel yr isymwybod. Yn y cyfweiliadau, holais yr awduron am eu cefndir ieithyddol (h.y. pryd a sut y dysgasant y ddwy iaith), sut y penderfynasant ddefnyddio cyfnewid cod yn eu testunau, ac a oedd unrhyw reolau neu ganllawiau arbennig ganddynt wrth ddefnyddio'r geiriau Saesneg. Manylir ar fethodoleg y cyfweiliadau tua diwedd y bennod hon.⁸⁰

Ym mhennod 1, trafodwyd rhai o nodweddion cyffredin y nofelau a astudiwyd ar gyfer yr MPhil, sef yr elfennau hunangofiannol, y lleoliad dinesig, y pynciau tywyll (megis cam-drin cyffuriau a phuteinio), ac elfennau o'r *Bildungsroman*. Awgrymwyd cydberthynas bosibl, gan na cheisiwyd dewis testunau tebyg yn fwriadol; ond rhaid cofio mai dim ond pedair nofel a oedd yn y corpws hwnnw. Gwelwyd bod y nofelau oll yn defnyddio cyfnewid cod i farcio hunaniaeth, a bod hyn yn arbennig o berthnasol i'r cyd-destun ôl-drefedigaethol. Fel y dywed

⁸⁰ Gweler t.107.

Carter, 'language is not a neutral entity' (1997, t.12) – mae dewis iaith ynghlwm wrth neges yr awdur. Er enghraifft, disgrifia Major y dewis i ysgrifennu mewn *journal* fel 'un geste politique' (1977, t.43),⁸¹ ac ymgais gan yr awdur i wahaniaethu ei destunau o destunau Ffrangeg o'r Métropole. Drwy greu astudiaeth sy'n pontio'r ieithyddol a'r llenyddol, gellir taflu golau newydd ar destunau sy'n deillio o gymdeithasau dwyieithog, ac effaith y cymdeithasau hynny ar lenyddiaeth.

Wrth gwrs, mae hunaniaeth ddwyieithog yn fater cymhleth gan mai hunaniaeth ddeublyg yw hi – os nad yn fwy cymhleth na hynny, hyd yn oed. I ddefnyddio term Gérin a Boudreau (2007, t.173), ceir 'kaléidoscope identitaire'⁸² mewn cymdeithas ddwyieithog. Mae Cymru a Chanada, fel cymdeithasau dwyieithog, lle mae'r iaith yn lleiafrifol a'r ganran o siaradwyr yn amrywio rhwng ardaloedd, yn sicr yn ffitio'r disgrifiad hwn. Awgrymwyd bod chwarae ag iaith drwy gyfnewid cod yn dechreg ar gyfer trafod yr hunaniaeth gymhleth, y 'multiplicité identitaire'⁸³ sydd, yn ôl Lemmens (2003), yn elfen sy'n gyffredin i sawl testun ôl-drefedigaethol o Ganada. Yn ogystal, gan eu bod yn wledydd sydd mewn perthynas â Phrydain oherwydd eu gorffennol trefedigaethol, mae'r cysylltiad â diwylliant arall yn ychwanegu at y caleidosgop hwn. Oherwydd cyfyngiadau hyd ac amser yr MPhil, ni chafwyd cyfle i archwilio'r thema hon, ond mae'r astudiaeth bresennol yn gyfle i archwilio themâu ôl-drefedigaethol yn y testunau yn ogystal â'r cyfnewid cod.

Trafodwyd eisoes y gall cyfnewid cod chwarae rôl bwysig wrth geisio cyfathrebu hunaniaeth, 'wrth inni greu ac ail-greu Cymreictod' (D. Williams 2005, t.25).

⁸¹ 'ystym gwleidyddol'.

⁸² 'caleidosgop o hunaniaeth'

⁸³ 'lluosogrwydd hunaniaeth'

Mae hyn yn arbennig o berthnasol i nofelau fel *Dyn yr Eiliad* sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n gweld adfywiad yn y Gymraeg (2005, tt.25–6). Pwysleisia Christine Jones fod 'dyfodol ein hiaith i raddau helaeth [yn dibynnu] ar ddatblygiad y gymdeithas ddwyieithog yr ydym bellach yn rhan ohoni' (2006, t.99). O beidio â dangos ieithwedd sy'n nodweddiadol o'r gymdeithas ddwyieithog hon – gan gynnwys cyfnewid cod – mae perygl dieithrio darllenwyr. Er enghraifft, trafoda Annette Boudreau faes llafur ysgolion yn New Brunswick gan nodi mai bach iawn o destunau *acadien* – a bron dim testunau sy'n dwyn ôl y Saesneg – sy'n cael eu hastudio, er bod yr ysgol yn swyddogol yn derbyn amrywiaethau ieithyddol lleol (2001, t.96). Mae hyn – yn ogystal â'r defnydd o restr geirfa gynorthwyol ar gyfer nofel *acadien*, ond nid ar gyfer nofel debyg o Ffrainc (Carole Boucher yn: Boudreau 2001, t.96)⁸⁴ – yn awgrym i'r disgyblion bod eu Ffrangeg hwy'n fratiaith ac yn annealladwy. Drwy beidio â chynnwys cymorth ieithyddol, gellir dangos nad yw'r darlennydd 'brodorol' yn eilradd i'r darlennydd nad yw'n perthyn i'r diwylliant hwnnw (Boudreau 2000, tt.174–5). Dengys hyn fod y defnydd o gyfnewid cod yn bwysig er mwyn dangos dilysrwydd a phwysigrwydd hunaniaethau lleiafrifol.

Felly, gyda'r newidiadau hyn mewn golwg, trown yn awr at nodau'r astudiaeth bresennol. Dyma'r cwestiynau ymchwil sy'n ffocws i'r astudiaeth:

1. Pa batrymau gwahanol o gyfnewid cod sydd i'w gweld yn y testunau, a sut mae'r patrymau gwahanol hyn yn cael eu defnyddio?
2. Beth yw pwrpas y defnydd o gyfnewid cod?
3. A oes nodweddion cyffredin i'r testunau sy'n defnyddio cyfnewid cod?
4. Beth yw'r agwedd tuag at gyfnewid cod?
5. A ddefnyddir technegau penodol er mwyn hybu dealltwriaeth darllenwyr nad ydynt yn rhugl yn y ddwy iaith?

⁸⁴ Mae'r ddwy nofel yn defnyddio iaith anffurfiol, boblogaidd, ond nid yw'r llyfr cwrs yn rhoi geirfa gynorthwyol ar gyfer y testun o Ffrainc.

Bydd canlyniadau'r dadansoddi'n galluogi cymhariaeth â chanfyddiadau ysgolheigion sy'n gweithio ar barau iaith gwahanol, er mwyn gweld a yw patrymau cyfnewid cod yn gyson rhwng ieithoedd, neu a oes gwahaniaethau i'w canfod. Er bod corpws y PhD yn fwy na'r MPhil (24 testun o'i gymharu â 4), mae'n wir y byddai angen corpws llawer mwy eang er mwyn bod yn wirioneddol gynrychiadol, ond mae'n fan cychwyn addawol.

2.2 Y Testunau

Er mwyn dadansoddi cyfnewid cod mewn testunau llenyddol, rhaid penderfynu ar gorpws o waith i'w ddadansoddi. Ceir sawl dull gwahanol o ddewis a dethol testunau er mwyn ffurfio corpws o'r fath. Gellir canolbwyntio ar un awdur yn unig, megis ymchwil Jonsson (2005) ar ddetholiad o ddramâu gan Cherríe Moraga. Gellir gosod cyfres o gyfyngiadau, fel y gwnaeth Callahan (2004), er mwyn ceisio cael cydbwysedd yn y corpws. Yn ei chorpws, ceir testunau sy'n nodweddiadol o'r hyn sydd ar gael ar y farchnad Americanaidd (testunau â chyfradd isel o gyfnewid cod), yn ogystal â thestunau sy'n cynnwys cyfradd uwch o gyfnewid cod er mwyn cynnal dadansoddiad cystrawennol. Mae'r corpws hwn hefyd yn cynnwys mwy nag un testun gan yr un awdur (2004, t.26).⁸⁵ Mae Montes-Alcalá yn defnyddio dull mwy hyblyg, fel yr esbonia:

the only criterion for choosing these specific authors and novels was the simultaneous use of both Spanish and English in their narratives [...] the selection of texts and authors does not intend to be comprehensive nor representative of canonical US-Latino novelists by any means but rather a sample of bilingual fiction.
(2012, t.73)

Ceir sawl astudiaeth o gyfnewid cod mewn llenyddiaeth ganddi, a dwy ohonynt yn cynnwys mwy nag un testun gan un awdur.⁸⁶

⁸⁵ Ond nid mwy na dau gan un awdur; mae 32 testun yn y corpws, gan 24 awdur.

⁸⁶ Mae un corpws wedi'i ffurfio o 17 testun gan bedwar awdur (Montes-Alcalá 2013b, t.217) a chorpws arall wedi'i ffurfio o 43 testun gan 11 awdur (Montes-Alcalá 2015, t.269). Mae'r ddau gorpws yn gyfuniad o gerddi, dramâu a nofelau.

Ar gyfer y traethawd hwn, penderfynwyd y dylid dadansoddi nofelau a dramâu, a'r rheiny'n destunau sy'n defnyddio cyfnewid cod Ffrangeg-Saesneg, Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Ffrangeg/Cymraeg. Mewn astudiaeth flaenorol (Orwig 2015), dilynwyd meini prawf Montes-Alcalá er mwyn dewis testunau – sef mai'r unig beth angenrheidiol yw bod cyfnewid cod yn bresennol yn y naratif yn ogystal â'r ddeialog, heb gyfyngiadau pellach. Fodd bynnag, ar gyfer yr astudiaeth hon, roedd angen meini prawf ychwanegol er mwyn cael dadansoddiad manylach o amrywiaeth ieithyddol wrth gyfnewid cod. Yn gyntaf, rwyf wedi cynnwys testunau sydd wedi'u lleoli yng nghefn gwlad, yn hytrach nag astudio testunau dinesig yn unig. Yn ogystal, nid wyf wedi canolbwyntio ar un ardal benodol, nac ar un awdur penodol. Er mwyn cael cynrychioliad da o dueddiadau cyfnewid cod yn gyffredinol, dewiswyd sampl o destunau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwahanol, gan awduron o ardaloedd gwahanol.⁸⁷ Gwnaed ymdrech hefyd i gynnwys awduron benywaidd yn ogystal ag awduron gwrywaidd.⁸⁸ Gan mai astudio cyfnewid cod llenyddol yw'r bwriad, dim ond testunau ffuglennol a gynhwysir yn y corpws.⁸⁹ Gan nad oeddwn am gael darlun o esblygiad cyfnewid cod dros gyfnod o amser, penderfynwyd canolbwyntio ar y cyfnod diweddar yn unig; nid wyf wedi cynnwys testunau a gyhoeddwyd cyn y 1980au. Dyma'r unig ganllawiau a ddilynwyd wrth ddewis y testunau, ac nid edrychwyd am destunau tebyg yn fwriadol – er enghraifft,

⁸⁷ Nodir bod rhai testunau yn digwydd yn yr un lleoliad (e.e. mae *Y Ddyled* a *Llwyth* wedi'u lleoli yng Nghaerdydd), neu gan yr un awdur (nofel a drama gan France Daigle).

⁸⁸ Nid oes consensws a oes gwahaniaeth rhwng y ffordd y mae dynion a menywod yn cyfnewid cod, er bod rhai astudiaethau, megis Poplack (1980) a Treffers-Daller (1992) wedi canfod gwahaniaeth (Gardner-Chloros 2009, tt.82–3).

⁸⁹ Ystyriwyd rhai testunau eraill ar gyfer y corpws. Penderfynwyd bod yr elfen hunangofiannol yn rhy flaenllaw yn *Out of Winter* (2014) Carol Lee, er bod defnydd diddorol o eiriau Cymraeg yn y testun Saesneg. Roedd y ddrama *Sgint* (2012) Bethan Marlow yn gwneud defnydd mawr o gyfnewid cod, ond roedd y ffaith ei bod yn ddrama *verbatim* – sef drama sy'n defnyddio cyfweiliadau â phobl go iawn, cyn eu golygu a'u cyfod i greu testun – yn golygu bod y broses o greu'r ddrama'n wahanol iawn i awdur yn creu testun ffuglennol o'r newydd. O'r herwydd, penderfynwyd peidio â'i chynnwys yn y corpws hwn, er yn sicr y byddai'n faes astudiaeth ffrwythlon at y dyfodol.

testunau sy'n trafod yr un themâu neu'n defnyddio arddull debyg. Y canllaw pwysicaf oedd bod digon o gyfnewid cod yn digwydd yn y testun er mwyn cael digon o ddata i'w ddadansoddi.

Ceir 24 testun yn y corpws, sef 12 nofel a 12 drama, neu wyth testun fesul prif iaith destunol; gweler y tabl isod.⁹⁰

	Dramâu	Nofelau	
Testunau Cymraeg	4	4	8
Testunau Ffrangeg	4	4	8
Testunau Saesneg	4	4	8
	12	12	24

Tabl 12: Corpws – ffurfiau ac ieithoedd

Trafodir y testunau Saesneg sy'n defnyddio cyfnewid cod Cymraeg neu Ffrangeg gyda'i gilydd gan fod y patrymau cyfnewid cod ynddynt yn bur debyg. Dewiswyd corpws o 24 testun er mwyn sicrhau y byddai'r gwaith codio – gwaith manwl sy'n cymryd llawer o amser – yn gallu cael ei gwblhau o fewn cyfyngiadau amser y ddoethuriaeth, gydag amser i gwblhau ymchwil ar theori lenyddol yn ogystal â'r gwaith ieithyddol hwn. O safbwynt nifer testunau, mae'r corpws hwn yn cymharu'n ffaithiol â maint corpora Montes-Alcalá (2013b; 2015) a Callahan (2004),⁹¹ er bod eu corpora'n cynnwys testunau byr (e.e. cerddi, straeon byrion) yn ogystal. Noda Callahan fod 2,954 tudalen yn ei chorpws; mae 4,631 yn y corpws hwn. Felly, mae'r corpws hwn o faint sylweddol sy'n cynnig cydbwysedd o ran ffurf lenyddol ac ieithoedd, fel y gwelir yn y tabl uchod.

⁹⁰ Sef Cymraeg, Ffrangeg a Saesneg. Testunau Cymraeg – cyfnewid cod Cymraeg-Saesneg; testunau Ffrangeg – cyfnewid cod Ffrangeg-Saesneg; testunau Saesneg – cyfnewid cod Saesneg-Cymraeg neu Saesneg-Ffrangeg.

⁹¹ Mae corpora Montes-Alcalá yn cynnwys cerddi, dramâu a nofel (13 cerdd, 3 drama, 1 nofel (2013b); 34 cerdd, 6 drama, 3 nofel (2015)). Mae corpws Callahan yn cynnwys 30 testun: 18 stori fer a 12 nofel/*novella* (2004, t.25). Mae'r tri chorpws hwn yn cynnwys testunau sy'n defnyddio cyfnewid cod Sbaeneg-Saesneg.

Isod, ceir gwybodaeth am y testunau a'r awduron, gan ganolbwyntio ar leoliad, oherwydd mai'r wybodaeth honno – ynghyd â phresenoldeb cyfnewid cod yn y testun – a oedd yn bwysig wrth ddewis testunau. Ceir gwybodaeth bellach am gynnwys y testunau yn y penodau sy'n dilyn. Rhennir y tablau isod rhwng ffurf ac iaith y testunau (e.e. nofelau Ffrangeg).

Y nofelau Cymraeg

	<i>Awdur</i>	<i>Prif leoliad(au) y testun</i>
<i>Dyn yr Eiliad</i> (2003) Owen Martell	Magwyd ym Mhontneddfechan, Cwm Nedd. Fel plentyn, dywed ei fod yn 'siarad Cymraeg gartre gan amlaf' (Martell 2003, t.37). Mae wedi treulio cyfnodau'n byw yng Nghaerdydd a Pharis.	Dowlais a Chaerdydd.
<i>Martha, Jac a Sianco</i> (2004) Caryl Lewis	Magwyd yn Aberaeron, ac mae'n dal i fyw yng Ngheredigion.	Fferm deuluol yng Ngheredigion.
<i>Lladd Duw</i> (2010) Dewi Prysor	Brodor o Gwm Prysor ger Trawsfynydd. Cymraeg oedd unig iaith yr aelwyd, a'r iaith oedd yn ei amgylchynu. ⁹² Bellach yn byw ym Mlaenau Ffestiniog, er wedi treulio cyfnod yng Nghaerdydd. ⁹³	Gogledd Cymru wledig – tref arfordirol ddychmygol o'r enw Gilfach.
<i>Y Ddyled</i> (2014) Llwyd Owen	Magwyd yng Nghaerdydd lle mae'n byw o hyd. Magwyd ef ar aelwyd Gymraeg, a dywed na chlywodd lawer o Saesneg cyn mynychu'r ysgol gynradd. ⁹⁴	Caerdydd.

Dyn yr Eiliad yw ail nofel Owen Martell sydd hefyd yn gweithio fel cyfieithydd ac yn gyd-olygydd y cyfnodolyn *O'r Pedwar Gwynt*. Mae Caryl Lewis yn awdur

⁹² Cyfweiliad personol dros e-bost (01/12/2017). Noda ei fod wedi dysgu'r Saesneg yn yr ysgol gynradd, 'trwy gyfrwng y Gymraeg', ac mai prif iaith yr ysgol oedd y Gymraeg, gyda mwyafrif helaeth y disgyblion yn dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith yn ogystal.

⁹³ Cyfweiliad personol dros e-bost (01/12/2017).

⁹⁴ Cyfweiliad personol 15/04/2016. Mewn cyfweiliad, nododd Llwyd ei fod yn ymwybodol fod ieithoedd eraill yn bodoli cyn mynychu'r ysgol gynradd, gan fod eu cymdogion ar y stryd yn cynnwys Cymry di-Gymraeg, Eidalwyr ac Iraciaid, ond ei fod ef wedi 'byw mewn bybl [Cymraeg] am chwech mlynedd cynta' ei fywyd.

nofelau a straeon byrion i oedolion a phlant, yn ogystal ag ysgrifennu ar gyfer y teledu a'r llwyfan. Enillodd *Martha Jac a Sianco* wobwr Llyfr y Flwyddyn yn 2005. Bardd ac awdur yw Dewi Prysor, a *Lladd Duw* yw ei bedwaredd nofel. Ers ei nofel gyntaf yn 2006, mae Llwyd Owen wedi cyhoeddi un-ar-ddeg nofel, gyda'r diweddaraf, *Pyrth Uffern*, wedi'i chyhoeddi yn 2018. *Y Ddyled* yw ei nawfed nofel.

Y nofelau Ffrangeg

	<i>Awdur</i>	<i>Prif leoliad(au) y testun</i>
<i>Volkswagen Blues</i> (1984) Jacques Poulin	Ganed yn Québec; dychwelodd yno wedi cyfnod ym Mharis.	Taith o Québec i San Francisco.
<i>Bloupe</i> (1993) Jean Babineau	Brodor o Moncton; wedi treulio cyfnodau yn Toronto, Boston, Montréal ac Acadieville. ⁹⁵ Byw ym Moncton heddiw. Magwyd ef ar aelwyd Ffrangeg, a dywed iddo ddysgu'r Saesneg fel plentyn 'par osmose'. ⁹⁶	Moncton, NB – cymeriadau'n dychwelyd yno o Boston, UDA.
<i>Xman est back en Huronie</i> (2011) Joëlle Roy	Daw o Témiscamingue, ON yn wreiddiol; treuliodd gyfnod yn Louisiana, UDA, cyn symud i Lafontaine, ON. ⁹⁷ Magwyd ar aelwyd Ffrangeg, a dysgodd y Saesneg yn yr ysgol. ⁹⁸	Ardal Huronie, ar benrhyn Penetanguishene, ON (Ile mae trefi Lafontaine a Midland).
<i>Pour Sûr</i> (2013) France Daigle	Ganed yn Dieppe, ger Moncton, ⁹⁹ lle mae wedi byw drwy ei bywyd, namyn blwyddyn yn Toronto a Montreal. ¹⁰⁰ Magwyd hi ar aelwyd Ffrangeg. ¹⁰¹ Mewn cyfweiliad, pan holwyd sut y dysgodd Saesneg, nododd bod dywediad yn ardal Moncton: 'l'anglais, on ne l'apprend pas, on l'attrappe'. ¹⁰²	Moncton ac ardaloedd eraill o New Brunswick.

⁹⁵ Cyfweiliad personol 27/05/2016.

⁹⁶ 'Trwy osmosis'. Cyfweiliad personol 27/05/2016.

⁹⁷ Cyfweiliad personol 06/06/2016.

⁹⁸ Cyfweiliad personol 06/06/2016.

⁹⁹ Er bod Dieppe a Moncton yn agos iawn, ill dau yn rhan o'r *Greater Moncton Area*, nododd France Daigle fod gan Dieppe ei hunaniaeth ei hun, er efallai na fyddai'r gwahaniaeth hwn yn hysbys i bobl nad oeddent o'r ardal. Cyfweiliad personol 26/05/2016.

¹⁰⁰ Cyfweiliad personol 26/05/2016.

¹⁰¹ Cyfweiliad personol 26/05/2016.

¹⁰² 'Y Saesneg, ni ddysgir hi, fe ddalir hi.' Cyfweiliad personol 26/05/2016.

Mae Jacques Poulin wedi cyhoeddi nifer o nofelau, ac yn parhau i gyhoeddi hyd heddiw. *Volkswagen Blues* yw ei chweched nofel ac mae'r prif gymeriad, Jack Waterman, yn ymddangos mewn nofelau eraill. *Bloupe* yw nofel gyntaf Jean Babineau sydd wedi cyhoeddi dwy nofel ers hynny. Enillodd ddoethuriaeth yn 2016, sy'n rhannol seiliedig ar nofel newydd (*Infini*). Bu'r nofel *Xman est back en Huronie* yn sail i ddoethuriaeth yr awdures a chantores Joëlle Roy; dyma'i nofel gyntaf. *Pour Sûr* yw unfed nofel ar ddeg France Daigle, ac enillodd y wobr *Gouverneur général* yn 2012.

Y nofelau Saesneg

	Awdur	Prif leoliad(au) y testun
<i>Bones to Ashes</i> (2007) Kathy Reichs	O Chicago'n wreiddiol; nawr yn rhannu ei hamser rhwng Montréal a Charlotte, North Carolina. Mae Reichs yn rhugl ei Ffrangeg; mae'n debyg iddi ddysgu fel oedolyn. ¹⁰³	Montréal, ¹⁰⁴ a theithio o gwmpas Québec a New Brunswick. Mae lleoliad Acadie yn arbennig o bwysig i'r nofel hon.
<i>Submarine</i> (2008) Joe Dunthorne	O Abertawe yn wreiddiol, ond mae bellach yn byw yn Llundain (Diss 2018). Mae'n aneglur i ba raddau mae Dunthorne yn medru'r Gymraeg. ¹⁰⁵	Abertawe a'r cyffiniau.
<i>New Tab</i> (2013) Guillaume Morissette	Yn wreiddiol o Jonquière, Québec, wedi symud i Montréal (Boulager 2016). Ffrangeg yw ei famiaith, er ei fod yn byw yn y Saesneg i raddau helaeth (Morissette 2014).	Y prif gymeriad wedi symud i Montréal o ddinas Québec.

¹⁰³ Gweler cyfweiliad â Reichs yn y Ffrangeg (Reichs 2014).

¹⁰⁴ Mae'r gyfres hefyd wedi'i lleoli yn Charlotte, North Carolina, ond nid yw'r lleoliad hwn yn flaenllaw yn *Bones to Ashes*. Mae Reichs yn nodi ei bod hi a'i chymeriad yn rhannu CV (Templeton 2008), gan eu bod yn rhannu eu hamser rhwng dwy swydd – yn darlithio mewn prifysgol yn Charlotte, ac yn gweithio fel anthropolegydd fforensig yn ymchwilio troseddau ym Montréal.

¹⁰⁵ Mynychodd ysgol cyfrwng Saesneg Yr Olchfa, Abertawe (Williams 2018), ond mae'n debyg y byddai wedi derbyn gwersi Cymraeg tra yn yr ysgol.

<p><i>Pigeon</i> (2016) Alys Conran</p>	<p>Yn wreiddiol o Fangor, wedi byw yng Nghaeredin a Barcelona, heddiw yn byw ym Methesda. Magwyd hi'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg 'chydig bach ar ôl y Saesneg', a chafodd ei haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.¹⁰⁶</p>	<p>Pentref chwarelyddol yng Ngogledd Cymru (tebyg i Fethesda).</p>
---	---	--

Mae Kathy Reichs yn awdures nifer fawr o nofelau trosedd, gan gynnwys cyfres am yr anthropolegydd fforensig Temperance Brennan, sy'n tynnu ar brofiadau Reichs yn ei swydd fel anthropolegydd fforensig. *Submarine* yw nofel gyntaf Joe Dunthorne: fe'i datblygwyd fel rhan o brosiect ym Mhrifysgol East Anglia (Williams 2016). Nofel gynaf Morisette yw *New Tab*; Ffrangeg yw mamiaith yr awdur, ond ei fod yn ysgrifennu yn y Saesneg. Mae Alys Conran wedi cyhoeddi straeon byrion, ond *Pigeon* yw ei nofel gyntaf. Mae'n siarad Cymraeg ers yn blentyn – er ei bod yn dweud iddi ddysgu'r Saesneg ychydig cyn y Gymraeg, cafodd ei haddysg drwy'r Gymraeg¹⁰⁷ – ac mae'n llenyddu yn y Saesneg yn bennaf, er ei bod hefyd yn ysgrifennu yn y Gymraeg.¹⁰⁸

¹⁰⁶ Cyfweiliad personol 13/10/2017. Nododd hefyd fod ei mam wedi dysgu'r Gymraeg, ac wedi gwneud llawer o ymdrech i drosglwyddo'r Gymraeg i'w phlant.

¹⁰⁷ Cyfweiliad personol 13/10/2017.

¹⁰⁸ Er enghraifft y stori fer 'Magu Emyr' yn y gyfrol *O! Mam Bach* (2017).

Y dramâu Cymraeg

	<i>Awdur</i>	<i>Prif leoliad(au) y testun</i>
<i>Sundance</i> (2002) Aled Jones Williams	Ganed ger Caernarfon; ar ôl gadael ei yrfa fel offeiriad, treuliodd gyfnod yn gweithio yn Lerpwl. Mae'n byw ym Mhorthmadog heddiw.	Lleoliad anhysbys. Tafodiaith Gogledd Cymru sydd gan y cymeriadau.
<i>Wal</i> (2006) Aled Jones Williams		
<i>Llwyth</i> (2010) Dafydd James	Yn wreiddiol o'r Bont-faen, bellach yn byw yng Nghaerdydd (Owen 2018). Dywed iddo gael ei fagu'n ddwyieithog (James d.d.).	Caerdydd.
<i>A Good Clean Heart</i> (2016) Alun Saunders	O Gastell Nedd yn wreiddiol; bellach yn byw yng Nghaerdydd. ¹⁰⁹ Nododd mai Cymraeg yw ei iaith gyntaf, er ei fod yn credu iddo ddysgu Gymraeg a'r Saesneg 'law yn llaw', ac y siaradwyd y ddwy iaith gartref. ¹¹⁰	Mae'r ddrama yn dechrau yng Nghaerfyrddin cyn i'r prif gymeriad fynd i Lundain i gyfarfod â'i frawd.

Mae Aled Jones Williams wedi ysgrifennu nifer o ddramâu yn ogystal â nofelau a cherddi. Enillodd Goron yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2002. Mae Dafydd James yn awdur, cyfansoddwr a pherfformiwr, gan weithio yn y Gymraeg a'r Saesneg. *A Good Clean Heart* yw drama gyntaf Alun Saunders ar ei ben ei hun. Gweithiodd fel actor am nifer o flynyddoedd cyn troi at ysgrifennu; bellach, mae'n ysgrifennu'n llawn-amser, ar gyfer y llwyfan a'r teledu.¹¹¹ Nodir bod y ddrama'n cael ei disgrifio fel drama 'ddwyieithog'. Fod bynnag, heb y defnydd o uwchdeitlau,¹¹² mae angen bod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg i ddeall y testun. O'r herwydd, trafodir *A Good Clean Heart* gyda'r dramâu Cymraeg.

¹⁰⁹ Cyfweiliad personol 07/06/2017.

¹¹⁰ Cyfweiliad personol 07/06/2017. Nododd hefyd fod ei fam yn siarad y Gymraeg yn rhugl, a bod ei dad wedi dysgu Cymraeg pan oedd Alun yn blentyn.

¹¹¹ Cyfweiliad personol 07/06/2017.

¹¹² Defnyddiwyd uwchdeitlau, yn ogystal â thafllunio ar gefnlen y llwyfan. Nodir nad oes cymorth ieithyddol yn rhan o'r testun. Mae fersiwn uniaith Saesneg wedi'i gyhoeddi gyda'r sgript hwn, sy'n dangos nad oes modd deall y testun heb yr uwchdeitlau hyn.

Y dramâu Ffrangeg

	<i>Awdur</i>	<i>Prif leoliad(au) y testun</i>
<i>Le Chien</i> (1987) Jean Marc Dalpé	Ganed yn Ottawa, ac mae wedi treulio cyfnod yn byw yn Sudbury, ON a Montréal (Nutting 2013).	Carafán ar gyrion pentref dienw yng ngogledd Ontario.
<i>Moncton Sable</i> (heb ei chyhoeddi) ¹¹³ France Daigle	Ganed yn Dieppe, ac mae bellach yn byw ym Moncton. ¹¹⁴	Enwir strydoedd ym Moncton, ond gofod swreal sydd ar y llwyfan.
<i>Bullshit</i> (2001) Marc Prescott	Ganed ym Mantioba, ac mae bellach yn byw yn Saint-Boniface, Manitoba (Dienw 2016).	Tref ddychmygol Sansregret, Ontario.
<i>Laurie, ou la vie de galerie</i> (2013) Herménégilde Chiasson	Daw o Saint-Simon, NB yn wreiddiol, ac mae bellach yn byw ym Moncton.	Ardal anhysbys yn Acadie – mae'n debyg mai yng ngogledd-ddwyrain New Brunswick ydyw.

Le Chien yw drama gyntaf Dalpé ar ei ben ei hun, ond mae wedi ysgrifennu nifer o ddrâmâu ers hyn. Drama gyntaf Daigle yw *Moncton Sable*, un o bedair drama a ysgrifennodd ar gyfer y grŵp Moncton Sable.¹¹⁵ Diddorol nodi mai dyma'r tro cyntaf iddi ddefnyddio *chiac* mewn llenyddiaeth, er ei bod wedi cyhoeddi sawl nofel cyn hyn. Mae Marc Prescott wedi cyhoeddi nifer o ddrâmâu, yn ogystal â'u cyfieithu a'u cyfarwyddo. Mae Herménégilde Chiasson yn fardd, dramodydd, cyfarwyddwr ac artist ac mae ganddo ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth; treuliodd gyfnod fel *Lieutenant-Gouverneur* New Brunswick (2003-2009).

¹¹³ Llwyfannwyd gyntaf yn 1997.

¹¹⁴ Gweler t.75 am fanylion pellach am gefndir France Daigle.

¹¹⁵ Y dramâu eraill yw: '*Craie*', '*Foin*' a '*Bric-à-Brac*'. Nid ydynt wedi'u cyhoeddi.

Y dramâu Saesneg

	<i>Awdur</i>	<i>Prif lleoliad(au) y testun</i>
<i>Beautiful Deeds/De beaux gestes</i> (1996) Marie-Lynn Hammond	Ganed ym Montréal, i dad angloffon a mam ffrancoffon (Schwartz 1988, t.64); teithiodd yn eang yn ei phlentyndod oherwydd gwaith ei thad yn yr RCAF. Saesneg oedd iaith yr aelwyd, gan nad oedd ei thad yn medru'r Ffrangeg. ¹¹⁶ Dysgodd Hammond y Ffrangeg yn gyntaf, ac roedd hi'n ddwyieithog erbyn iddi fod yn bedair oed (Schwartz 1988, t.64).	Ottawa a Montréal – ond trafodaeth o hunaniaeth ffrancoffon ac angloffon yw'r ffocws.
<i>Marriage of Convenience</i> (2001) Ian Rowlands	Daw o'r Porth, Cwm Rhondda yn wreiddiol; mae bellach yn byw yng Nghaerfyrddin (S4C 2016). Magwyd ef ar aelwyd Saesneg ei hiaith, a dysgodd y Gymraeg wrth fynychu ysgol cyfrwng Gymraeg (cyfweliad Ian Rowlands: S4C 2016). ¹¹⁷	Cwm Rhondda.
<i>Blood</i> (2013) Meg Braem	Daw o Victoria, BC yn wreiddiol, ond mae bellach yn byw yn Calgary, AB (Hunt 2010).	Nodir mai lleoliad y ddrama yw 'the Canadian prairie' (Bd 2), ardal eang sy'n cynnwys Alberta, Saskatchewan a Manitoba. Daw'r prif gymeriadau o Montréal.
<i>Tonypandemonium</i> (2013) Rachel Trezise	Ganed yng Nghwmparc, Cwm Rhondda, ac mae'n dal i fyw yng Nghwm Rhondda (Trezise d.d.).	Tonypandy a Phontypridd.

¹¹⁶ Mewn cyfweliad, nododd Marie-Lynn Hammond 'it didn't occur to [my father] that the language of the family should be anything other than English. Partly this was unconscious anglo arrogance, and partly the prevailing attitude of the time – the man was the head of the household, so his culture would naturally be dominant. My mother went along with that. She only spoke French to my sisters and me when he wasn't around' (Schwartz 1988, t.64).

¹¹⁷ Mewn cyfweliad, nododd Ian Rowlands mai canran fach iawn o blant Cwm Rhondda oedd yn derbyn addysg gyfrwng Cymraeg tra yr oedd ef yn yr ysgol, rhyw 1-2%. Oherwydd hynny, teimla fod y Gymraeg yn cael ei weld fel rhywbeth egsotig gan ran helaeth o boblogaeth Y Rhondda, ac nad oedd yn teimlo'n rhan o'r gymuned er iddo gael ei fagu ynddi. Dywed 'ces i'r Gymraeg yn rhodd [...] ond 'doedd gen i ddim cyd-destun ar gyfer yr iaith honno, so roedd rhaid imi adael. Roedd rhaid imi normaleiddio'r Gymraeg yn 'y mhrofiad personol i' (S4C 2016). Noda fod y gyfradd o blant yn Y Rhondda sy'n derbyn addysg gyfrwng Gymraeg wedi codi i tua traean heddiw, ac wrth i'r Llywodraeth geisio cyrraedd y nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd nifer o'r siaradwyr hynny'n dod o'r cymoedd, ac felly gallai'r ardal ddod yn fwyfwy dwyieithog (cyfweliad Ian Rowlands S4C 2016).

Beautiful Deeds yw drama gyntaf Marie-Lynn Hammond, sydd hefyd yn gerddor; mae hefyd yn ysgrifennu dramâu a sgrïptiau ffilm (BD/DBG 10-11). Yn ogystal â dramodydd, mae Ian Rowlands hefyd yn gyfarwyddwr theatr a chynhyrchydd teledu. Dechreuodd Meg Braem y ddrama *Blood* fel prosiect gradd meistr (University of Lethbridge 2013). Bellach, mae hi'n gweithio mewn addysg uwch yn ogystal â fel dramodydd. Mae Rachel Trezise wedi cyhoeddi nofelau, dramâu a nifer o straeon byrion; enillodd wobr Dylan Thomas yn 2006 am ei chyfrrol gyntaf o straeon byrion, *Fresh Apples* (2005).

2.3 Dadansoddi'r Testunau

Ceir sawl cam wrth fynd ati i ddadansoddi'r cyfnewid cod. Y cam cyntaf oedd cofnodi pob enghraifft o gyfnewid cod yn y testun. Trafodwyd eisoes fod sawl methodoleg er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfnewid cod a geiriau benthyg,¹¹⁸ ac mai'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y traethawd hwn yw methodoleg Deuchar (2005; 2006), sef defnyddio geiriadur. Os yw gair yn cael ei gofnodi yn y geiriadur, mae'n arwydd ei fod yn air benthyg ac nid yn gyfnewid cod, felly nid yw'n rhan o'r corpws.¹¹⁹ Gan fy mod yn astudio testunau o dair iaith, defnyddiwyd tri geiriadur:

- Testunau Cymraeg – *Geiriadur Prifysgol Cymru* (geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html)
- Testunau Ffrangeg – *Larousse* (larousse.fr)
- Testunau Saesneg – dictionary.com

Defnyddiwyd fersiwn ar-lein o'r tri geiriadur er mwyn hwyluso'r broses o wirio. Ar gyfer y testunau Saesneg, defnyddiwyd fersiwn ar-lein yr *Oxford English Dictionary* yn y lle cyntaf, ond gwelwyd bod y geiriadur hwn yn broblematic ar ddau gyfrif. Yn gyntaf, nid oedd yn gynrychiadol o eirfa a fyddai'n gyfarwydd i

¹¹⁸ Gweler trafodaeth lawn t.18.

¹¹⁹ Nodir bod rhai achosion lle mae'r gair ei hun yn ymddangos yn y geiriadur, ond nad yw'r ystyr yr un peth â'r hyn sydd yn y testun e.e. 'gwair' ar gyfer canabis. Gan nad yw'r ystyr hwn yn y geiriadur, mae'n cael ei gyfrif fel enghraifft o gyfnewid cod.

nifer o siaradwyr.¹²⁰ Yn ail, gwelwyd anghysondebau yn yr OED (e.e. mae'n cynnwys y gair 'nain' ond nid 'taid').¹²¹ Penderfynwyd y byddai dictionary.com yn ddewis da, yn enwedig gan ei fod yn defnyddio'r *Random House Unabridged Dictionary* fel 'main, proprietary source' ac yn cael ei ddiweddarau'n gyson gan dîm o eiriadurwyr gydag ychwanegiadau o 'trusted, established sources including American Heritage and Harper Collins' (dictionary.com d.d.).¹²²

Fel pob methodoleg, mae yma wendidau. Un gwendid yw bod geiriau annisgwyl wedi'u cofnodi ym mhob geiriadur. Er enghraifft, gwelwyd bod 'blacmêl' yn cael ei gofnodi yn GPC, 'garden-party' yn Larousse, a 'malgré lui' yn dictionary.com. Mae hefyd eiriau *nad* ydynt yn ymddangos yn y geiriadur. Er enghraifft, nid yw'r gair 'fuck' yn cael ei gofnodi yn GPC (dan unrhyw orgraff – e.e. 'ffyc', 'ffwc'), ond ceir nifer fawr o enghreifftiau yn y corpws o'r gair hwn neu eiriau sy'n tarddu o'r gair hwn.¹²³ Fel y trafodwyd eisoes, mae sawl ffordd o wahaniaethu rhwng cyfnewid cod a geiriau benthyg; er enghraifft, tra bo Deuchar yn defnyddio geiriadur, mae Myers-Scotton yn dewis cyfrif amllder gair yn y corpws.¹²⁴ O ddefnyddio techneg Myers-Scotton (1993, t.204) o gyfrif amllder gair, mae'n debyg y byddai'r gair 'fuck' yn cael ei gyfrif fel gair benthyg yn hytrach na chyfnewid cod. Wrth bwysu a mesur gwahanol dechnegau o wahaniaethu rhwng cyfnewid cod a geiriau benthyg ar gyfer y traethawd hwn, roedd hi'n

¹²⁰ Er enghraifft, ceir enghraifft o'r teitl Ffrangeg *maître* ar gyfer cyfreithiwr yn y nofel *Bones to Ashes*. Mae'r gair hwn wedi ei gynnwys yn yr OED, felly o ddefnyddio'r geiriadur hwn fel rhan o'r fethodoleg, gair benthyg sydd yma. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod esboniad o'r teitl *maître* yn y nofel yn dangos na fyddai'n derm cyfarwydd i nifer o ddarlennwyr.

¹²¹ Byddai hyn wedi effeithio ar fy nadansoddiad o'r nofel *Pigeon*.

¹²² Ers i fersiwn ar-lein GPC gael ei gyhoeddi yn 2004, mae erthyglau'n cael eu diweddarau a geiriau'n cael eu hychwanegu ar draws yr wyddor (Andrew Hawke, e-bost personol 17/09/2018); gweler y rhestr o eiriau a ychwanegwyd ers 2014 ar eu gwefan (Geiriadur Prifysgol Cymru 2018); diweddarwyd ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2018. Mae geiriadur larousse.fr yn cael ei ddiweddarau'n gyson, er y nodir mai'n flynyddol y ceir y diweddariad mwyaf (Larousse.fr, e-bost personol, 18/09/2018).

¹²³ Ceir trafodaeth bellach ar t.354.

¹²⁴ Gweler y drafodaeth lawn ar t.18.

amlyg mai defnyddio techneg Deuchar o wirio mewn geiriadur oedd y dechneg fwyaf effeithlon o safbwynt amser, a'r fwyaf trwyadl. Wrth ystyried y data, roedd techneg Myers-Scotton yn broblematic ar ddau gyfrif. Yn gyntaf, oherwydd nad yw'r corpws hwn wedi'i ffurfio o destunau y gellir eu mewnbynnu'n awtomatig,¹²⁵ byddai pennu geiriau benthg wrth gyfrif enghreifftiau yn llafurus, gan y byddai rhaid mewnbynnu pob enghraifft a allai fod yn gyfnewid cod *cyn* gallu dechrau eithrio geiriau benthg.¹²⁶ Yn ail, wrth gyfrif amlder defnydd, gallai'r data gael ei ogwyddo oherwydd bod enghraifft arbennig o gyfnewid cod yn codi dro ar ôl tro mewn un testun, ond heb godi o gwbl mewn testunau eraill.¹²⁷ Er mwyn osgoi'r problemau hyn, defnyddiwyd methodoleg Deuchar.

2.3.1 Amlygu cyfnewid cod

Mae nifer o'r testunau yn defnyddio technegau gwahanol er mwyn amlygu'r cyfnewid cod. Er bod hyn yn arwydd fod yr enghraifft yn gyfnewid cod, nid oedd hyn yn disodli'r fethodoleg y manylwyd arni uchod, sef defnyddio geiriadur.

Manylir ar y technegau amlygu hyn yn y tabl isod:

<i>Allwedd</i>	✓ Italeiddio	✗ Dim italeiddio	– Anghysondeb
	C – Cymraeg	Ff – Ffrangeg	S – Saesneg
	D – Drama		N – Nofel

	Testun	Italeiddio?	Sylwadau
DC	<i>Sundance</i>	–	Peth italeiddio, yn enwedig dyfyniadau, ond hefyd Cymreigio'r orgraff.
DC	<i>Wal</i>	✗	
DC	<i>Llwyth</i>	✗	
DC	<i>A Good Clean Heart</i>	✗	

¹²⁵ Rhaid oedd mewnbynnu pob enghraifft o gyfnewid cod i'r ddogfen Excel â llaw.

¹²⁶ Byddai'r dechneg hon yn gweithio'n well o allu cael data ar ffurf electronig, a gellid cyfrif amlder defnydd yn awtomatig.

¹²⁷ Rhaid cofio bod testun yn cael ei greu gan un awdur. Er y byddai un nofel yn cyfrannu llawer o ddata, ac yn cyfateb i oriau o sgwrsio ar lafar, mae'n debygol na fyddai'n cynnwys yr un amrywiaeth ag y gellid ei gael wrth recordio sgwrs nifer o gyfranogwyr gwahanol. O'r safbwynt hwn, mae defnyddio geiriadur yn fwy cynrychiadol o dueddiadau ieithyddol ehangach.

DFf	<i>Le Chien</i>	✗	
DFf	<i>Moncton Sable</i>	✗	
DFf	<i>Bullshit</i>	✓	
DFf	<i>Laurie</i>	✗	
DS	<i>Marriage of Convenience</i>	✗	
DS	BD/DBG	✓	
DS	<i>Blood</i>	✓	Nid yw teitlau (e.e. Monsieur, Docteur) yn cael eu hitaleiddio.
DS	<i>Tonypandemonium</i>	✗	
NC	<i>Dyn yr Eiliad</i>	✗	Defnyddir dyfynodau yn achos nifer o enghreifftiau (96 enghraifft, neu 14% o'r enghreifftiau).
NC	<i>Martha Jac a Sianco</i>	✓	
NC	<i>Lladd Duw</i>	✗	
NC	<i>Y Ddyled</i>	✗	
NFf	<i>Volkswagen Blues</i>	-	Italeiddio cyfnewid mewnfrawddegol. Dim italeiddio sgwrs.
NFf	<i>Bloupe</i>	✗	
NFf	<i>Xman</i>	✓	
NFf	<i>Pour Sûr</i>	✗	Defnyddir y tild (~) ar lafariaid er mwyn dangos yn glir pa eiriau sy'n cael eu hynganu yn ôl patrwm y Saesneg – rhywbeth sy'n bwysig yn <i>chiac</i> . ¹²⁸
NS	<i>Bones to Ashes</i>	✓	Dim italeiddio teitlau teuluol (e.e. grandpère)
NS	<i>Submarine</i>	✓	
NS	<i>New Tab</i>	-	Anghysondeb – un enghraifft o gyfnewid rhyngfrawddegol wedi'i hitaleiddio, ond dim italeiddio'r enghreifftiau eraill.
NS	<i>Pigeon</i>	✗	

Tabl 13: Technegau amlygu cyfnewid cod

Cysylltwyd â gweisg nifer o'r testunau hyn er mwyn holi ai polisi'r wasg oedd italeiddio'r enghreifftiau o gyfnewid cod neu ai dewis ydoedd ar ran yr awdur. Roedd yn bolisi gan ambell wasg, tra bo eraill yn defnyddio arddull wahanol yn dibynnu ar y testun a'r awdur. Nododd golygydd *Xman est back en Huronie* fod geiriau benthyg wedi bod yn broblematic; penderfynwyd italeiddio geiriau

¹²⁸ Cyfweiliad personol 26/05/2016. Esboniodd hefyd na fyddai'n defnyddio'r tild eto, gan ei fod yn edrych yn rhy debyg i'r Lladin neu'r Sbaeneg.

benthug yn ogystal â chyfnwid cod gan ei bod yn anodd gwahaniaethu rhyngddynt.¹²⁹

2.3.2 Meysydd Dadansoddi

Fel y trafodwyd eisoes, mae'r fethodoleg a ddefnyddir er mwyn dadansoddi'r testunau'n seiliedig ar astudiaeth beilot (Orwig 2015), lle datblygwyd methodoleg wreiddiol er mwyn dadansoddi cyfnwid cod mewn nofelau. Yn yr astudiaeth honno, defnyddiwyd chwe maes dadansoddi: Pennod; Adran o'r testun; Hyd; Dosbarth Gramadegol; Maes Semanteg; Ysgogiad/Swyddogaeth. Yn ogystal, cyfrifwyd cymhareb ar gyfer pob testun. Ar gyfer yr ymchwil presennol, adeiladwyd ar y fethodoleg flaenorol er mwyn ei gwneud yn fwy trylwyr, gan ychwanegu pum maes dadansoddi: Deialog cymeriadau; Cenedl; Y Fannod; Treiglo; Cytuno ansoddeiriau. Yn yr isadrannau sy'n dilyn, trafodir yr holl feysydd dadansoddi a'u categorïau, yn ogystal ag unrhyw ddiwygiadau a wnaethpwyd i'r fethodoleg yn dilyn yr astudiaeth beilot.

Cymhareb

Er nad yw 'cymhareb' yn faes dadansoddi fel y cyfryw (cyfrifiad a wneir ar ddiwedd y gwaith dadansoddi ydyw, yn hytrach na maes sy'n cynnwys categorïau dadansoddi), mae'n rhan bwysig o'r fethodoleg, gan ei fod yn ffordd o gymharu cyfradd cyfnwid cod mewn testunau o hyd amrywiol. Er enghraifft, ystyriwn fod gennym ddau destun â 50 enghraifft o gyfnwid cod yr un. Gellid tybio bod y testunau'n cynnwys cyfradd debyg o gyfnwid cod; ond rhaid cymryd hyd y testunau i ystyriaeth, sef pwrpas cyfrifo cymhareb ar gyfer testunau. Gwneir hyn drwy rannu cyfanswm yr enghreifftiau o gyfnwid cod â nifer y tudalennau. Byddai testun 100 tudalen o hyd gyda 50 enghraifft o

¹²⁹ E-bost personol, 09/11/2017.

gyfnewid cod yn rhoi cymhareb o 0.5, tra byddai testun 500 tudalen o hyd yn cynnwys 50 enghraifft yn rhoi cymhareb o 0.1. Gellir hefyd gyfrifo cymhareb ar gyfer is-adrannau (e.e. nofelau, dramâu Saesneg) er mwyn eu cymharu.

Pennod/Golygfa

Cofnodir ym mha bennod o nofel neu olygfa o ddrama y mae'r esiampl yn digwydd er mwyn dangos a oes cysylltiad rhwng digwyddiadau yn y plot a'r defnydd o gyfnewid cod.¹³⁰

Adran o'r Testun

Cofnodir ym mha adran o'r testun y mae'r esiampl yn digwydd, er enghraifft yn y naratif neu'r ddeialog. Roedd angen diwygio'r maes hwn ar gyfer yr astudiaeth bresennol gan fy mod yn dadansoddi dramâu am y tro cyntaf. Dyma'r categorïau sydd yn rhan o faes dadansoddi 'adran o'r testun'. Nid yw'r un adrannau'n codi yn y nofelau a'r dramâu; gellir gweld hyn yn y tabl isod:

	Nofelau	Dramâu
Canu	–	✓
Cyfarwyddiadau ¹³¹	–	✓
Deialog	✓	✓
Diagram	✓	–
Dyfynnu	✓	✓
Epigraff ¹³²	✓	✓
Monolog	–	✓
Naratif	✓	–
Teitl Pennod	✓	–

Tabl 14: Categorïau Adran o'r Testun

Gwahaniaethir rhwng 'deialog' a 'monolog' yn y dramâu er mwyn gweld a oedd gwahaniaeth yn ieithwedd y cymeriadau wrth siarad â chymeriad arall, neu wrth

¹³⁰ Nodir nad yw pob testun wedi'i rannu'n benodau neu'n olygfeydd gwahanol.

¹³¹ Wrth gwrs, nid yw'r gynulleidfa yn clywed y geiriau sy'n rhan o'r cyfarwyddiadau pan fyddant yn gwyllo'r ddrama. Fodd bynnag, mae'r dramâu yn cael eu dadansoddi fel testunau ysgrifenedig, ac mae sawl un ohonynt wedi'u cyhoeddi, felly mae'r awdur yn ymwybodol y bydd cynulleidfa o *ddarllenwyr* i'r testunau hyn. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y testun gan Marc Prescott, sy'n cynnwys sawl jôc yn y troednodiau ar gyfer darllenwyr (a fyddai'n anhysbys i wylwyr).

¹³² Mae 'epigraff' yn ddarn byr i agor testun, neu efallai i agor pennod. Er enghraifft, gellir diolch neu gyflwyno'r gyfrol i rywun gyda'r epigraff, neu ddefnyddio dyfyniad ar ddechrau'r gyfrol.

annerch y gynulleidfa. Mae hyn oherwydd y gall cyd-siaradwyr gael effaith ar eich ffordd o siarad, yn ôl theori ymgymhwyso iaith Giles, Coupland a Coupland (1991), a gallai awduron ddewis dangos hyn fel rhan o'r cymeriadu. Mae nifer o'r dramâu hefyd yn cynnwys caneuon, rhai'n uniaith laith₂ neu'n cynnwys penillion laith₁ ac laith₂.

Nodir y gall un enghraifft o gyfnewid cod berthyn i ddwy adran. Mae'r enghraifft isod yn ymestyn rhwng y ddeialog a'r naratif, ac felly'n perthyn i ddwy adran:

“Faint o stretch?” *Stretch?* Bellend! (Dd 104)
1 enghraifft o gyfnewid cod

Hyd

Cofnodir hyd yr esiampl gan wahaniaethu rhwng y pedwar categori canlynol:

Un gair
Llai na brawddeg
Brawddeg
Mwy na brawddeg

Tabl 15: Categorïau Hyd

Gwneir hyn er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfnewid mewnfrawddegol a chyfnewid rhyngfrawddegol – hynny yw, geiriau neu ymadroddion o'r laith₂ o fewn brawddeg laith₁, neu frawddegau cyfan o'r ddwy iaith yn rhan o'r testun. Mae cyfnewid o hyd un gair neu o hyd tudalen gyfan (e.e. deialog estynedig yn yr laith₂) yn cyfrif fel un esiampl yn unig.

Dosbarth Gramadegol

Cofnodir beth yw Dosbarth gramadegol yr esiampl, er enghraifft a yw'n enw, yn ansoddair, yn frawddeg a.y.b. Wrth gasglu'r data hwn, gellir darganfod beth yw tueddiadau cyfnewid cod Cymraeg-Saesneg, Ffrangeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg/Ffrangeg. Bydd hyn o ddefnydd wrth gymharu'r darganfyddiadau gyda gwaith ysgolheigion eraill ar barau iaith gwahanol, yn ogystal â chyda

damcaniaethau mwy haniaethol nad ydynt yn trafod pâr iaith arbennig (e.e. gramadegau cyfarwyddol). Isod, nodir yr holl gategorïau sy'n ymddangos yn y corpws hwn, yn nhrefn y wyddor.

acronym	cysylltair + cysylltair
adferf	ebychiad
adferf + adferf	ebychiad + adferf
adferf + cysylltair	ebychiad + ansoddair
adferf + ebychiad	ebychiad + cysylltair
ansoddair	ebychiad + enw
ansoddair + adferf	enw
ansoddair + brawddeg	enw + adferf
ansoddair + cysylltair	enw + berfenw
ansoddair + ebychiad	enw + brawddeg
ansoddair + enw	enw + cymal
ansoddair + ymadrodd adferfol	enw + cysylltair
ansoddair + ymadrodd ansoddeiriol	
ansoddair + ymadrodd berfol	enw + ebychiad
arddodiad	enw + ymadrodd adferfol
arddodiad + ymadrodd adferfol	enw + ymadrodd ansoddeiriol
berf	negydd
berf + cysylltair	rhagenw
berfenw	sain
berfenw + cysylltair	ymadrodd adferfol
berfenw + ebychiad	ymadrodd ansoddeiriol
brawddeg	ymadrodd ansoddeiriol + adferf
cyfarchiad	ymadrodd ansoddeiriol + cysylltair
cymal	ymadrodd arddodiadol
cymal + ebychiad	ymadrodd berfol
cysylltair	ymadrodd berfol + adferf
cysylltair + cysylltair	ymadrodd berfol + ebychiad
	ymadrodd enwol

Tabl 16: Categoriâu Dosbarth Gramadegol

Gwelir bod pob enghraifft o gyfnewid cod yn cael ei disgrifio yn ei chyfanrwydd (e.e. 'cysylltair + cysylltair', neu 'ymadrodd enwol' yn hytrach nag 'enw' ac 'ansoddair'). Gwnaed hyn er mwyn dangos gwir gymhlethdod cyfnewid cod.

Maes Semanteg

Mae'r Maes Semanteg yn ymwneud â phwnc y gair, hynny yw, a yw'r esiampyl yn ymwneud â dillad, bwyd, rhegfeydd, ac yn y blaen. Diwygiwyd y Maes

Dadansoddi hwn yn dilyn adborth ar yr astudiaeth flaenorol (Orwig 2015) er mwyn cynnwys y categori ‘amwys’. Teimlwyd bod nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod nad oeddent wir yn perthyn i bwnc arbennig, ond a oedd wedi’u cynnwys o fewn categorïau eraill. Byddai cynnwys y categori ‘amwys’ yn datrys hyn, ac yn dangos bod cyfnewid cod yn perthyn i bynciau annelwig ar adegau. Isod (Tabl 17), ceir rhestr o’r 80 categori Maes Semanteg, gydag esboniad ac enghraifft. Nodir bod modd i un enghraifft o gyfnewid cod berthyn i fwy nag un Maes Semanteg.

	<i>esboniad</i>	<i>enghraifft</i>
addysg	Geirfa sy’n ymwneud ag addysg, ac enwau Saesneg ar ysgolion. ¹³³ Mae’n cynnwys hefyd y geiriau Cymraeg am ryw y mae’r disgyblion yn holi eu hathro Cymraeg amdanynt yn <i>Submarine</i> .	“Cos ffon hedmasdyr ydy cansan’ (Sd45)
amwys	Nid yw’r geiriau hyn yn ymwneud ag unrhyw faes semanteg arbennig.	‘fi ‘di bod trw’r brechwast a’r canu and all that’ (AGCH4)
annog	Geirfa sy’n ymwneud ag annog – mae’n cynnwys nifer o ymadroddion gosod megis ‘come on’	‘Stay cool, Xman! C’est ta seule chance que ça marche!’ (X177) ¹³⁴
babi	Yn ymwneud â chyfarpar ar gyfer babanod.	‘Tri o blant yn sgrechen fel moch. / Ei buggy fel tanc yn mynnu tiriogaeth’ (LI2)
busnes	Geirfa sy’n ymwneud â busnesau a siopau, neu enwau busnesau Saesneg (ffuglennol). ¹³⁵	‘Y fallait que je m’excuse à la cashier de la pharmacie’ (BS216) ¹³⁶ ‘[...] dans les toilettes pis les fitting rôoms pis ça’ (PS593)
bwyd	Enwau bwydydd.	‘Tante Euphémine cooked us poutine râpée, fricot au poulet, tourtière ’ (BtA17) ¹³⁷
bygwth	Yn ymwneud â bygwth.	“Watsh ut, Pizza boi!” (LID21)
cân	Caneuon yn yr Iaith ₂ .	–

¹³³ Er enghraifft, mae Idris yn cyfeirio at Ysgol Uwchradd Caerdydd fel Cardiff High, yn hytrach na’r enw Cymraeg. Er ei fod yn enw priod, mae dewis fersiwn Saesneg yr enw yn ddewis bwriadol er mwyn cymeriadu Idris.

¹³⁴ “*Stay cool, Xman*. Dyma dy unig gyfle i hyn weithio.”

¹³⁵ Mae enwau priod yn cael eu heithrio o’r corpws fel rheol, ond mae enw ffuglennol yn ddewis creadigol gan yr awdur.

¹³⁶ “Mae’n rhaid imi ymddiheuro wrth *cashier* y fferyllfa”.

¹³⁷ Enwau bwydydd *acadien* traddodiadol.

cartref	Cyfarpar ar gyfer y cartref.	'...ar dressing table Mami.' (MJS168)
cenedl	Enwau gwledydd neu genhedloedd o bobl.	"Rhywle yn Holland ..." (Dd150)
cerddoriaeth	Geirfa sy'n ymwneud â cherddoriaeth. Nid yw'n cynnwys cyfeiriadaeth at ganeuon/bandiau; mae'r rhain yn rhan o'r categori 'cyfeiriadaeth'.	'Roedd e'n gallu gwneud y finger-picking yna yn ogystal â jyst chwarae cordiau' (DyE252)
colur	Geirfa'n ymwneud â cholur, gofal croen a.y.b.	'Ond pan welodd Jojo'r trugareddau mêt-yp – lip-gloss ac eyeliner ac ati [...]' (LID269) ¹³⁸
comedi	Geirfa'n ymwneud â chomedi (nid cyfnewid cod sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn hiwmor).	"C'est le set-up qui a besoin d'un peu de travail" (BS203) ¹³⁹
corff	Enwau ar rannau o'r corff, neu eiriau penodol ar gyfer disgrifio'r corff.	'Parfois la folie a ses raisons que la brain ne connaît pas' (Bp17) ¹⁴⁰ 'Roedd ei llygaid hi'n bloodshot ' (DyE205)
crefydd	Geirfa'n ymwneud â chrefydd neu ddiwyddiad ysbrydol.	"On Monday, le père Lemieux he comes to give le sacrament " (BD/DBG16)
cyfarchiad	Cyfarchiadau.	" Comment ça va? " (BtA25) ¹⁴¹
cyfarwyddiadau	Rhoddir cyfarwyddiadau AGCH yn y Saesneg.	–
cyfeiriadaeth	Cyfeiriadaeth at amryw o bynciau, yn cynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, athroniaeth. Gall hyn gynnwys enwau caneuon/testunau, neu eirfa'n ymwneud â'r genre. Yn <i>Pigeon</i> , mae hefyd yn cynnwys ailadrodd geiriau yn y naratif sy'n cyfeirio'n ôl at eiriau Cymraeg mewn deialog.	'fel HQ rhyw James Bond villain .' (LID289)
cyfieithu	Cyfieithu geiriau.	'Fy mhroblem i gyda hynny yw bod dychymyg... imagination ...' (Dd100)
cyffuriau	Geirfa'n ymwneud â chyffuriau. Grwpiwyd geirfa'n ymwneud ag ysmegu yma hefyd.	"Off pwy chi'n prynu'ch hash then, bois?" (Dd144)
Cymreigio berf Saesneg	Ychwanegu ôl-ddodiad berfol Cymraeg at air Saesneg.	'Gwin coch fel gwaed yn hemrejo hyd bob man' (Sd49)
Cymreigio dywediad Saesneg	<i>Calque</i> sy'n defnyddio dywediadau Saesneg wedi'u cyfieithu'n llythrennol.	'Fe allai e fod wedi troi deilen newydd ' (DyE43)

¹³⁸ Ceir 'mecyp' yn GPC, felly nid yw'n enghraifft o gyfnewid cod.

¹³⁹ "Y *set-up* sydd angen bach o waith."

¹⁴⁰ 'Weithiau mae gan wallgofrwydd ei resymau nad yw'r *brain* yn eu gwybod'.

¹⁴¹ "Sumai/Shwmae?"

Cymreigio term Saesneg	Defnyddio term Saesneg (gweler y diffiniad isod) ond gydag orgraff Gymreig, neu ddefnyddio gair Cymraeg ond gyda'r ystyr Saesneg. ¹⁴²	'Mae'r cyfan yn dod yn ôl i'r angen – pop-seicolegol yn sicr' (DyE104) 'Gwasgarodd Jojo'r gwair dros y baco yn y rislas' (LID221)
Cymreigio ymadrodd gosod	Fel uchod, ond gydag ymadrodd gosod (gweler y diffiniad isod).	'Wel, ma rhaid fi gwerthu seventeen o' nhw am fifteen quid each i breako even ' (Dd146)
chwarae â geiriau	Defnyddio cyfnewid cod er mwyn chwarae â geiriau.	'Dada: <i>Comic relief</i> special. Aneurin: Ges i comic relief unwaith – clown o Borthmadog' (LI11)
chwaraeon	Geirfa sy'n ymwneud â chwaraeon neu gyfarpar chwaraeon.	'une grosse slap-shot! ' (BS155) ¹⁴³
dawnsio	Geirfa'n ymwneud â dawnsio.	'But one night they had une danse carrée ' (BD/DBG23) ¹⁴⁴
dillad	Geirfa am ddillad, yn enwedig enwau ar ddillad.	'L'autre paire, c'est des dūngarees ' (PS522)
diod	Geirfa'n ymwneud â diodydd (mae nifer o'r enghreifftiau'n gysylltiedig ag alcohol).	'Tu bois un six-pack ou une douze' (L62) ¹⁴⁵
DIY	Geirfa'n ymwneud â gwelliannau yn y cartref	'J'ai jammé un screwdriver dans la gear box' (L86)
dyfynnu	Dyfynnu e.e. geiriau caneuon, cymeriadau sy'n siarad Saesneg. Mae hefyd yn cynnwys dyfynnu o ffynonellau ffuglennol e.e. arwyddion, llythyrau, ffurflenni.	–
dywediad Ffrangeg	Mae dywediad yn ymadrodd na ellir ei amrywio – dyma'r union eiriau i'w defnyddio. Ceir enghreifftiau lle na ellir deall y geiriau'n llythrennol.	'But marriage – c'est une autre paire de manches ' (BD/DBG 29) ¹⁴⁶
dywediad Saesneg		"Chi'n gwbod be ma nhw'n weud, Jac [...] Good fences make good neighbours. " (MJS58)
ebychiad	Ebychiadau, ac eithrio rhegfeydd. Mae hyn hefyd yn cynnwys synau sy'n defnyddio orgraff laith ₂ .	'But ych-y-fi , the smell of it' (T41) "O," I say. (P152)
emosiwn	Geirfa'n ymwneud ag emosiwn, neu i ddisgrifio emosiwn.	'Go with Max, he'll take good care of you [...] Je t'aime. ' (Bd112)
fferm	Geirfa'n ymwneud â bywyd fferm.	'Roedd llond y ca' o wŷn a defed, yn singlers ac yn ddyblers drwyddo draw.' (MJS103)

¹⁴² Hynny yw, ystyr nad yw'n cael ei restru yn GPC.

¹⁴³ 'slap-shot fawr!'

¹⁴⁴ *Square dance* yw 'danse carrée'

¹⁴⁵ "Ti'n yfed *six-pack* neu ddwsin."

¹⁴⁶ Yn llythrennol, 'mae'n bâr arall o lewys', sy'n golygu 'mae hynny'n hollol wahanol'.

Ffrangegeiddio berf Saesneg	Ychwanegu ôl-ddodiad berfol Ffrangeg at air Saesneg. Mae hefyd yn cynnwys ymadroddion berfol sy'n defnyddio ôl-ddodiad berfol Ffrangeg.	'On s'en va shopper à matin!' (C41) 'une gang de jeunes hangnait out ' (Bp76)
Ffrangegeiddio dywediad Saesneg	<i>Calque</i> sy'n defnyddio dywediadau Saesneg wedi'u cyfieithu'n llythrennol.	"mon père dit que le chat a mangé notre langue " (MS36) ¹⁴⁷
Ffrangegeiddio term Saesneg	Defnyddio term Saesneg (gweler y diffiniad isod) ond gydag orgraff Ffrengig.	'Moi, j'ai peur d'avoir été brâinwashée ' (PS656) ¹⁴⁸
Ffrangegeiddio ymadrodd gosod	Fel uchod, ond gydag ymadrodd gosod (gweler y diffiniad isod).	'Ça prend du guts pour en v'nir à ça' (L46) ¹⁴⁹
gair gwneud	Gair sydd wedi'i greu gan yr awdur; mae rhai yn gyfansoddeiriau.	'J' suis tannée de toutes leurs fuckaileries ' (Bp61) ¹⁵⁰ 'Ond beth am y gair 'gay' yn Cymraeg... gwrw... gwrw-thingy? ' (LI62)
geirfa arbenigol	Jargon sy'n gysylltiedig â maes neilltuol e.e. <i>typeface</i> , ffiseg.	'Y print plaen sans-serif ' (DyE146)
geiriau diwylliannol	Geiriau sy'n gysylltiedig neu'n symblu diwylliant neilltuol. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadaeth at ddiwyddiadau hanesyddol.	'Sometimes, because of my French accent betraying me, people liked to say " Enchanté " instead of "Nice to meet you". (NT47) 'Outraged at the North American tragedy her people call le Grand Déragement ' (BtA16)
gêm	Enwau gemau.	'ça fait comme des bûmper cãrs ' (PS705) ¹⁵¹
gofod	Geirfa ac enwau ar gyfer sêr, planedau a.y.b.	"Ti 'di clywad am Orion's Belt , do?" (LID156)
gwaith	Geirfa'n ymwneud â'r gweithle neu swyddi arbennig.	'in winter Calixte he has to go off to les chantiers ' (BD/DBG24) ¹⁵²
gwallt	Geirfa'n ymwneud â gwallt e.e. steil arbennig.	'Ddois di 'im â shefing crîm hefyd mwn? (W90)
gwleidyddiaeth	Geirfa'n ymwneud â gwleidyddiaeth.	"Neuthon ni ddim cwffio Hutlar er mwyn cael Nashonalusm yn fyw yn Grêt Brutan!" (LID301)

¹⁴⁷ "Mae fy nhad yn dweud bod y gath wedi bwyta'n tafodau" (dywediad Saesneg – 'the cat has got your tongue' – nad yw'n bodoli yn y Ffrangeg).

¹⁴⁸ 'Mae gen i ofn o fod yn *brainwashed*'.

¹⁴⁹ 'Mae'n cymryd *gyts* i gyrraedd hyn'.

¹⁵⁰ 'Dwi 'di cael hen ddigon o'u holl *fuckaileries* nhw'.

¹⁵¹ Mae fel *bumper cars*'.

¹⁵² *Lumber camps* yw *les chantiers*.

hiwmor	Cyfnewid cod yn cael ei ddefnyddio er mwyn gwneud jôc. ¹⁵³	[wrth geisio cael gwared â chorff, a thafu'r bysedd i'r llyn] "Geith y pysgod fyta rheina. Ffish ffigars! " (LID38)
iechyd	Termau'n ymwneud ag iechyd neu salwch.	Er pan oedd e'n grwt bach yn gwrando ar sŵn Farmer's Lung Dat [...] (MJS137)
lle	Enwau llefydd ac adeiladau yn yr iaith ₂ yn hytrach na'r iaith ₁ . ¹⁵⁴	"Es i i gnocio drysa top y stad a Stryd Gwenllian a Smith Street " (LID248)
lliw	Enwau lliwiau yn yr iaith ₂ .	'Le char était rouge. Ou peach .' (Bp190) ¹⁵⁵
llysenw	Llysenwau sy'n defnyddio'r iaith ₂ .	'une Indienne de 17 ans qui s'appelait Mini-Aku ou « Fallen Leaf ».' (VB232) ¹⁵⁶
modur	Enwau moduron neu eirfa'n ymwneud â moduron, neu fodd arall o drafnidiaeth. ¹⁵⁷	'un beau banana bike bleu' (BS107) ¹⁵⁸ 'i'r clôs lle oedd cerbyd 4x4 ' (MJS81)
natur	Geirfa'n ymwneud â natur.	'I [...] caught the soft scent of muguet . Lily of the Valley.' (BtA178)
odli	Defnydd o'r iaith ₂ er mwyn odl.	Poubelle: Une nuit brillante illumine le ciel . Angelique: Good night and sleep tight, my little Poubelle. (Bd34) ¹⁵⁹
onomatopoeia	Defnydd o onomatopoeia yn yr iaith ₂ .	'pis là slämmmm! ' (PS149)
pensaerniaeth	Geiriau'n ymwneud â phensaerniaeth.	'Roedd e'n gallu gweld rhan o'r skirting board y tu ôl i'r ffwrn.' (DyE134)

¹⁵³ Gellid dadlau nad yw 'hiwmor' o reidrwydd yn ymwneud â semanteg. Fodd bynnag, holl bwrpas y cyfnewid cod yn yr enghreifftiau hyn yw hiwmor. Mae'r defnydd o gyfnewid cod er mwyn hiwmor yn cael ei drafod gan nifer o ysgolheigion. Er enghraifft, gellir creu hiwmor wrth chwarae â synau neu eiriau o'r ddwy iaith (Montes-Alcalá 2015, t.273; Lamarre 2014; Stølen 1992). Ceir hefyd enghreifftiau lle mae'r jôc yn gweithio yn yr iaith₂ ond ddim yn yr iaith₁, fel y trafoda'r awdures *Chicana* Sandra Cisneros: 'you're not getting the chiste [joke] when you change them [expressions] back to Spanish, but in English they're funny' (Cisneros yn Cortés-Conde a Boxer 2002, t.140). Gellir hefyd ategu at hiwmor wrth ddefnyddio cyfnewid cod. Er enghraifft, mewn cyfweiliadau a gynhaliwyd am gomedi *stand up* yng Nghatalonia, trafoda'r cyfranogwyr mai'r hyn oedd yn arbennig am y comediwr Eugenio oedd ei ieithwedd; roedd yn cymysgu rhwng y Sbaeneg a'r Gatalaneg mewn ffordd lle nad oedd modd dweud ym mha iaith yr oedd yn siarad (Woolard 1988, t.57). Ceir hefyd drafodaeth gan Myfyr Prys o'r defnydd o gyfnewid cod ar gyfer hiwmor yn rhaglen Tudur Owen, gyda'r cyfnewid cod yn ategu at yr hiwmor, neu'n rhan annatod o'r hiwmor – heb y cyfnewid cod, ni fyddai jôc o gwbl yn bod, gan ei fod yn chwarae â geiriau o'r ddwy iaith (2016, tt.368–374). Mewn enghreifftiau lle mai unig bwrpas newid iaith yw er mwyn hiwmor – boed hynny'n ategu at hiwmor neu'n rhan annatod ohono – nodwyd y Maes Semanteg fel 'hiwmor'.

¹⁵⁴ Nid gwledydd – mae'r enghreifftiau hyn yn perthyn i'r categori 'cenedl'.

¹⁵⁵ 'Roedd y car yn goch. Neu *peach*'. [Nodir mai amrywiaeth tafodieithol Ffrangeg-Ganadaidd yw *char*].

¹⁵⁶ 'Merch Indiaidd, 17 mlwydd oed o'r enw Mini-Aku neu "Fallen Leaf"'.
¹⁵⁷ Ceir nifer fechan o enghreifftiau sy'n trafod maes awyr neu borthladd; grwpwyd hwy o dan y categori 'modur'.

¹⁵⁸ '*Banana Bike* glas, prydferth'.

¹⁵⁹ *Une nuit brillante illumine le ciel* – 'mae noson ddisglair yn goleuo'r awyr'.

rheg	Rhegfeydd yn yr laith ₂ .	'Ffyc. Off. Gad fi fod' (AGCH22)
rhifo	Rhifau, yn ogystal â geirfa'n ymwneud ag arian ac amser.	'ça me prend tout mon p'tit change... ' (L63) ¹⁶⁰
rhyw	Geirfa'n ymwneud â rhyw.	' Makin' love ma' nhw' (Sd41)
sarhau	Termau sarhaus.	'une squaw arrive une nuit pis...' (C35) ¹⁶¹
sefydliad llywodraethol	Enwau sefydliadau llywodraethol. Nid yw hyn yn cynnwys gofal iechyd, sy'n perthyn i'r categori 'iechyd'.	'wedi priodi mewn registry offis... ' (MJS120)
Seisnigo berf Ffrangeg	Ychwanegu ôl-ddodiad berfol Saesneg at air Cymraeg/Ffrangeg.	"We were parlay-voing , weren't we, An-dray?" (BtA158)
Seisnigo berf Gymraeg		' cwtching into my neck' (Sub170)
sgwrs	Sgwrs uniaith yn yr laith ₂ .	—
sillafu	Sillafu yn yr laith ₂ .	'Ma 'na enw yma 'fyd – 'j', 'r', 'g'. la 'fyd – Jê Âr Jî ' (LID202)
slang	Slang o'r laith ₂ .	'un mickey de Canadian Club' (C38)
tafodiaith	Geirfa sy'n perthyn i dafodiaith y cymeriadau.	" Crétaque. " (BtA326) ¹⁶²
technoleg	Geirfa'n ymwneud â thechnoleg.	'Joue avec son remote control. ' (Bp48) ¹⁶³
tegan	Geirfa'n ymwneud â theganau.	'[...] ers dyddiau'r Wendy house yn yr ardd' (DyE214)
teledu	Geirfa'n ymwneud â theledu neu raglenni teledu.	'ond cyn i Pos'man Pat a'i black an' white cat uffar' (Sd50)
term anwes	Termau annwyl yn yr laith ₂ .	' Pauvre Moïse ' (BD/DBG15) ¹⁶⁴
term cyfreithiol/torcyfraith	Termau'n ymwneud â'r gyfraith a thorcyfraith. ¹⁶⁵ Hefyd yn cynnwys termau'n ymwneud â cheisiadau cynllunio. [nodir – mae termau sy'n cyfeirio at yr heddlu (e.e. 'cops') wedi'u nodi fel 'sefydliad llywodraethol]	"Ti wedi mynd i tŷ person unknown i delifro pizzas' (LID100) 'Ond rhaid bod on your best behaviour i cael early release ' (Dd103)
term Cymraeg	Geiriau unigol sydd yn y categori hwn. Mae'n air sy'n anodd ei gyfieithu, gydag ystyr benodol yn yr laith ₂ , neu sy'n perthyn i gywair iaith gwahanol o gael ei gyfieithu.	'No, they're the crachach from the Welsh school, aren't they.' (MoC92)
term Ffrangeg		'but <i>Moïse lui</i> , he was seventy two!' (BD/DBG30) ¹⁶⁶
term Saesneg		'hyd yn oed os oedd gyda hi'r incentive ychwanegol o fod â thri bywyd dan ei rheolaeth' (DyE219)
teulu	Enwau ar gyfer aelodau o'r teulu.	'Since Nain died, there's been only me and Efa.' (P50)

¹⁶⁰ 'Mae hynny'n cymryd fy holl newid mân'.

¹⁶¹ 'Cyrhaeddodd *squaw* un noson, wedyn...'

¹⁶² Mae'r enghraifft hon hefyd yn perthyn i 'rheg', ond mae hefyd yn nodweddiadol o dafodiaith *acadien* y cymeriad Hippo.

¹⁶³ 'Chwarae gyda'i *remote control*'.

¹⁶⁴ 'Moïse druan'.

¹⁶⁵ Roedd y ddau gategori yma ar wahân yn wreiddiol, ond fe'u cyfunwyd ar ôl gweld bod llawer o orgyffwrdd rhyngdynt.

¹⁶⁶ Mae 'lui' yn rhagenw pwysleisiol trydydd person gwrywaidd.

tywydd	Geirfa'n ymwneud â'r tywydd.	'[...] sbïo drwy'r ffenest ar y niwl oer tu allan. " Ffrising ffog! " (LID53)
ymadrodd gosod	Yn debyg i 'term Saesneg', ond mai ymadroddion sydd dan sylw yma. Maent yn anodd eu cyfieithu, neu byddai'r cyfieithiad yn perthyn i gywair iaith gwahanol.	' middle of friggin nowhere Saskatchewan' (X53)

Tabl 17: Categoriâu Maes Semanteg

Ysgogiad/Swyddogaeth

Dyma'r maes dadansoddi sy'n cofnodi *pam* fod y cyfnewid cod yn digwydd;

cafwyd trafodaeth fanwl o'r cysyniad hwn, gan gynnwys gwaith ysgolheigion a

fu'n ddylanwad wrth greu'r categorïau isod.¹⁶⁷ Dyma dabl o'r categorïau

Ysgogiad/Swyddogaeth, ynghyd ag esboniad ohonynt:

Agosáu / pellhau	Creu teimlad o agosatrwydd neu ymdeimlad o bellter.
Ailadrodd / Egluro / Pwyslais	Ailadrodd gair – efallai er mwyn egluro ymhellach, neu er mwyn rhoi pwyslais.
Bwlch geirfaol	Nid oes gair cyfatebol yn bodoli yn yr iaith ₂ , neu mae'n perthyn i gywair iaith gwahanol (e.e. mae term cyfatebol Cymraeg, ond mae'n un ffurfiol iawn, felly defnyddir gair Saesneg yn y sefyllfa anffurfiol).
Creu effaith arbennig	Materion arddulliol e.e. coegni, hiwmor, chwarae â geiriau a.y.b. Hefyd yn cynnwys cyfnewid cod sy'n cael ei ddefnyddio er budd cymeriadu.
Cyfeirio	Newid iaith er mwyn cyfeirio at rywbeth e.e. defnyddio enw Saesneg am le, cyfeirio'n ôl at ymadrodd Saesneg a gafodd ei ddefnyddio eisoes gan gymeriad arall.
Cyfnewid enynnol	Enghraifft o gyfnewid sy'n cael ei achosi gan ddarn arall o gyfnewid.
Dyfynnu	Dyfynnu o ffynhonnell arall (e.e. cymeriad neu destun arall).
Ebychiad	Yn cynnwys rhegfeydd a llwon.
Er cydbwysedd	Mae'r cyfnewid cod yn cael ei ddefnyddio er mwyn creu cydbwysedd rhwng iaith ₁ ac iaith ₂ yn y testun.
Newid cyd-sgwrsiwr	Mae'r cymeriad yn newid cyd-sgwrsiwr drwy newid iaith – drwy gynnwys siaradwr arall, neu ei gau allan.

Tabl 18: Categoriâu Ysgogiad/Swyddogaeth

¹⁶⁷ Gweler t.28.

Ychwanegwyd y categori 'er cydbwysedd' wrth ddadansoddi'r nofel *Bloupe* gan fod nifer o'r enghreifftiau o gyfnewid cod fel petaent yn digwydd heb ysgogiad neu swyddogaeth benodol, heblaw am awydd yr awdur i greu testun dwyieithog. Pennwyd bod y cyfnewid cod yn cael ei ddefnyddio er mwyn creu cydbwysedd yn yr achosion hyn.

Fel y nodwyd eisoes, ychwanegwyd pum maes dadansoddi at y fethodoleg ers yr astudiaeth beilot: trafodir y rhain isod.

Deialog Cymeriadau

Gwelwyd bod angen mireinio'r fethodoleg er mwyn archwilio idolect cymeriadau unigol gan nad oedd modd dadansoddi deialog cymeriadau gyda methodoleg yr astudiaeth beilot (Orwig 2015, t.122). Mireiniwyd y fethodoleg fel bod modd didoli'r enghreifftiau hynny sy'n perthyn i'r ddeialog,¹⁶⁸ gan eu dadansoddi yn ôl pa gymeriad sy'n eu dweud. Mae hyn yn ein galluogi i weld pa gymeriadau sy'n cyfnewid cod fwyaf, ac yn dangos pa rôl y mae cyfnewid cod (neu ddiffyg cyfnewid cod) yn ei chwarae mewn cymeriadu.

Nodweddion Gramadegol

Ychwanegwyd pedwar maes dadansoddi er mwyn gallu trafod gramadeg cyfnewid cod yn fanylach. Pwrpas hyn yw dangos sut y gellir cymhwyso rheolau gramadegol at gyfnewid cod, a allai fod yn arwydd o integreiddiad.

Y Fannod

Didolir enwau ac ymadroddion enwol o'r corpws, a dadansoddi a yw'r fannod (Gymraeg neu Ffrangeg) y cael ei defnyddio gyda geiriau Saesneg. Mae

¹⁶⁸ Nodir y gellir cynnwys enghreifftiau o ddyfynnu, os yw'n dyfynnu deialog cymeriad. Er enghraifft, yn *Le Chien*, ceir golygfa lle mae Pa yn cofio noson geni ei ferch fabwysiedig, Céline (C 59-60). Wrth gofio, mae'n dyfynnu sgwrs y dyn a ddaeth â mam Céline at y drws – dyn di-enw a ddisgrifir fel 'un Indien'. Nodir hon fel enghraifft o ddeialog 'L'Indien' yn hytrach na deialog Pa.

defnydd o fannod laith₁ gydag enw neu ymadrodd enwol o'r laith₂ yn gallu bod yn arwydd o integreiddiad. Gwelir y categorïau isod:

diangen	Nid yw'r enghraifft angen bannod. Er enghraifft, efallai bod rhagenw'n cael ei ddefnyddio, neu mae bannod o'r laith ₂ yn rhan o ymadrodd enwol.
nac oes	Nid yw bannod yn cael ei defnyddio, er y byddai disgwyl bannod (e.e. 'Y stics ydio i fi, Jojo. Stics lle mae hics yn siarad iaith y stics (LID93).
oes	Mae bannod o'r laith ₁ yn cael ei defnyddio gyda'r cyfnewid cod laith ₂ .

Tabl 19: Categorïau Y Fannod

Rhaid nodi mai nodwedd ar ramadeg y Gymraeg yw'r ffaith nad oes bannod amhendant, yn wahanol i'r Ffrangeg a'r Saesneg ('une chaise', 'un chat', 'a cat'). Gan nad oes bannod amhendant yn y Gymraeg, nid yw'n hynod i weld enwau Cymraeg heb y fannod, yn wahanol i'r Ffrangeg. O'r herwydd, mae disgwyl y bydd y mwyafrif o enwau sy'n gyfnewid cod yn ei defnyddio oherwydd bod y fannod yn ofynnol yn y Ffrangeg, yn y mwyafrif o achosion.¹⁶⁹

Cenedl

Didolir enwau o'r corpws, gan nodi a oes cenedl yn cael ei marcio. Mae cenedl wrywaidd a benywaidd yn y Gymraeg a'r Ffrangeg, ond nid oes cenedl i eiriau Saesneg. Gweler y categorïau yn y tabl isod:

heb ei farcio	Nid oes cenedl wedi'i nodi ar gyfer yr enw Saesneg.
lluosog	Mae'r enw wedi'i farcio'n lluosog. Dangosir hwy ar wahân gan fod enwau lluosog yn niwtral yn y Gymraeg a'r Ffrangeg. Os yw'r enghraifft wedi'i ei farcio fel benywaidd lluosog, cofnodir ef fel 'benywaidd'. ¹⁷⁰
gwrywaidd	Mae'r enw wedi'i farcio'n wrywaidd.
benywaidd	Mae'r enw wedi'i farcio'n fenywaidd.

Tabl 20: Categorïau Cenedl

¹⁶⁹ Ceir rhai eithriadau, er enghraifft 'un rouleau de tück tãpe' (PS 690) – nid oes angen y fannod o flaen 'tück tãpe' oherwydd bod yr arddodiad 'de' yn cael ei ddefnyddio yma.

¹⁷⁰ Mae'r enghreifftiau sydd wedi'u nodi fel 'lluosog' yn y testunau Cymraeg yn dangos y lluosog yn unol â rheolau gramadegol y Saesneg – hynny yw, gyda –s. Fel y nodir yn *Gramadeg y Gymraeg*, 'nodweddu ffurfiau llafar anffurfiol sydd yn fenthyciadau o'r Saesneg y bydd y terfyniadau lluosog –s ac –ys fel rheol' (Thomas 1996, t.175). Gan fod y rheol hon yn gyfarwydd yn y Gymraeg, penderfynwyd ei defnyddio wrth ddadansoddi'r corpws hwn fel nad oedd yr enghreifftiau 'lluosog' yn golygu bod yr enghreifftiau 'heb eu marcio' yn ymddangos yn llawer uwch.

Mae sawl ffordd i farcio cenedl enwau. Yn y Ffrangeg, mae gan y fannod bendant dair ffurf – gwrywaidd, benywaidd a lluosog (*le, la, les*). Nid oes gwahaniaeth yn ffurf y fannod Gymraeg ar gyfer cenedl enwau, er ei bod yn achosi i enwau benywaidd unigol dreiglo'n feddal. Fodd bynnag, nid oedd modd dilyn y rheol hon er mwyn dirnad cenedl enwau gan nad yw rheolau treiglo'r Gymraeg yn cael eu defnyddio ar eiriau Saesneg gyda llawer o gysondeb, fel y gwelir yn yr adran nesaf. O'r herwydd, nid oedd diffyg treiglad meddal ar ôl y fannod yn cael ei gymryd fel arwydd fod enwau Saesneg yn wrywaidd.

Fel y Gymraeg, mae'r ffurf luosog Ffrangeg yn niwtral fel arfer – er bod gan ansoddeiriau Ffrangeg ffurf fenywaidd luosog.¹⁷¹ Mae pedair ffurf i'r ansoddair Ffrangeg. Edrychwn ar yr ansoddair 'gwyn': blanc (gwrywaidd – y ffurf gysefin); blanche (benywaidd); blancs (gwrywaidd lluosog); blanches (benywaidd lluosog).¹⁷² Felly, os oes ansoddair Ffrangeg yn cytuno â'r enw sy'n deillio o gyfnewid cod, gellir dirnad cenedl yr enw.¹⁷³

Mae sawl ffordd arall o ddirnad cenedl enw. Yn y Gymraeg, er enghraifft, gellir nodi rhifolyn â chenedl (e.e. dau, dwy), neu ddefnyddio rhagenw blaen y trydydd person unigol wrth ôl-gyfeirio (ei – sy'n ysgogi treiglad gwahanol i'r benywaidd neu'r gwrywaidd). Yn ogystal, mae ansoddair sy'n dilyn enw benywaidd unigol yn treiglo'n feddal, megis 'cath fach' neu 'cadair fach'. Yn y Ffrangeg, mae rhagenw yn cytuno gyda chenedl yr hyn sy'n cael ei berchnogi, ac nid gyda'r perchennog. Er enghraifft, petai dyn neu fenyw am ddweud 'fy mam' yn y Ffrangeg, 'ma mère' fyddai'n cael ei ddweud bob tro, oherwydd bod

¹⁷¹ e.e. *les chassures blanches*.

¹⁷² Nodir hefyd fod y ffurfiau hyn yn cael eu defnyddio'n eang, yn wahanol i'r arfer o gytuno ansoddeiriau mewn cyweiriau mwy ffurfiol o'r Gymraeg yn unig.

¹⁷³ Nodir, os yw enw'n cael ei farcio fel benywaidd lluosog, cofnodir ef fel 'benywaidd' yn hytrach na 'lluosog'. Ffurfiâu sy'n niwtral o ran cenedl sydd yn y categori 'lluosog'.

y rhagenw yn dangos y person cyntaf, ond yn cytuno mewn cenedl gyda'r hyn sy'n cael ei berchnogi.¹⁷⁴

Treiglo

Nodir a yw geiriau Saesneg yn cael eu treiglo yn y testunau Cymraeg. Dyma arwydd arall eu bod yn cael eu hintegreiddio i'r Gymraeg. Nodir hefyd a yw'r enghreifftiau'n torri rheolau treiglo'r Gymraeg er mwyn dangos pa ganran o'r amser yr oedd rheolau treiglo'n cael eu hanwybyddu gyda chyfnewid cod.

Nodir y categorïau isod:

dim	Mae'r enghraifft yn torri rheolau treiglo'r Gymraeg.
meddal	Ceir treigladd meddal yn yr enghraifft o gyfnewid cod.
trwynol	Ceir treigladd trwynol yn yr enghraifft o gyfnewid cod.
llaes	Ceir treigladd llaes yn yr enghraifft o gyfnewid cod.

Tabl 21: Categorïau Treiglo

Wrth edrych ar dreiglo, archwiliwyd y corpws am enghreifftiau o eiriau a oedd mewn sefyllfa a fyddai'n ysgogi treiglo mewn geiriau Cymraeg,¹⁷⁵ gan gofio nad yw pob llythyren yn treiglo.¹⁷⁶

Cytuno ansoddeiriau

Didolir enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n ansoddeiriau, gan nodi a ydynt yn cytuno â'r enw y maent yn ei ddisgrifio. Mae gan y Gymraeg a'r Ffrangeg reolau tebyg ynglŷn â chytuno ansoddeiriau yn ôl nifer a chenedl enw, ac nid oes rheolau cyffelyb yn y Saesneg.¹⁷⁷ Eto, dyma arwydd o reolau o'r laith₁ yn cael

¹⁷⁴ Er enghraifft, y rhagenwau meddiannol person cyntaf: 'mon' (ar gyfer eitemau gwrywaidd), 'ma' (benywaidd) 'mes' (eitemau lluosog).

¹⁷⁵ Er enghraifft, nodwyd a oedd enghraifft o gyfnewid cod yn dilyn 'am' yn treiglo'n feddal (os oedd yn dechrau â llythyren fyddai'n cymryd y treigladd meddal).

¹⁷⁶ Mae'r treigladdau yn effeithio ar y llythrennau isod:

Meddal: P, T, C, B, D, G, Ll, Rh, M

Trwynol: P, T, C, B, D, G

Llaes: P, T, C

¹⁷⁷ Er enghraifft, gellir ychwanegu 'e' at y ffurf gysefin, megis newid *petit* i *petite* er mwyn ei wneud yn fenywaidd. Nodir bod ansoddeiriau Ffrangeg heb ffurf fenywaidd benodol. Mae'r ansoddair *jaune* eisoes yn gorffen gydag 'e', felly nid oes ffurf fenywaidd o'r ansoddair hwn yn bosib. Cymhwyswyd y rheol hon at ganllawiau dadansoddi'r cyfnewid cod yn y gwaith ymchwil hwn.

eu defnyddio ar gyfnewid cod. Fel y noda Peter Wynn Thomas, er bod ffurfiau benywaidd a lluosog gan nifer o ansoddeiriau Cymraeg, mae tuedd i ddefnyddio'r ffurf gyffredinol yn hytrach na chytuno ansoddeiriau (1996, tt.199–203). Gellir disgwyl, felly, na welir nifer o enghreifftiau o gytuno ansoddeiriau Saesneg yn y testunau Cymraeg. Isod, dangosir categorïau'r maes dadansoddi hwn:

heb ei gytuno	Nid yw'r enghraifft wedi'i gytuno, er ei fod yn disgrifio enw lluosog a/neu fenywaidd, a byddai modd ei addasu i gytuno â'r enw hwn.
ffurf gysefin	Nid yw'r enghraifft wedi'i addasu gan ei fod yn disgrifio enw gwrywaidd, neu nad oes modd ei addasu i gytuno ag enw benywaidd a/neu lluosog.
lluosog	Addaswyd yr ansoddair i gytuno ag enw lluosog.
benywaidd	Addaswyd yr ansoddair i gytuno ag enw benywaidd.
benywaidd lluosog	Addaswyd yr ansoddair i gytuno ag enw benywaidd lluosog.

Tabl 22: Categorïau Cytuno Ansoddeiriau

2.3.3 Gwaith dadansoddi

Er mwyn dadansoddi'r testunau, defnyddiwyd meddalwedd Excel. Ar ddechrau'r PhD, mynychais nifer o gyrsiau ar feddalwedd Nvivo a SPSS. Mae Nvivo yn feddalwedd ar gyfer data ansoddol, tra bo SPSS ar gyfer data meintiol. Gan fod fy methodoleg ar gyfer y gwaith dadansoddi ieithyddol yn cyd-blethu meysydd dadansoddi meintiol ac ansoddol, ni fyddai Nvivo na SPSS yn gweddu ar gyfer yr holl waith dadansoddi. Mae rhai o'r meysydd dadansoddi, megis Hyd, yn gategoriadd – hynny yw, mae'r categorïau wedi'u pennu cyn mynd ati i ddadansoddi'r testun. Fodd bynnag, roedd rhaid i rai meysydd dadansoddi, megis Maes Semanteg, fod yn fwy hyblyg, a chael eu diweddar'u'n gyson yn ôl y data a oedd yn codi yn y testunau, gyda chategoriâu newydd yn cael eu creu drwy'r amser. O'r herwydd, penderfynwyd glynu at Excel oherwydd ei fod yn ddigon hyblyg i fy ngalluogi i ddadansoddi'r testunau gan ddefnyddio methodoleg gymysg.

Fel y soniwyd eisoes, y cam cyntaf oedd cofnodi pob enghraifft o gyfnewid cod sy'n codi yn y testunau, gan eu mewnbynnu i ddogfen Excel. Pwrpas y ddogfen hon oedd fy ngalluogi i greu tablau, er mwyn dangos sawl enghraifft sy'n perthyn i bob categori ym mhob maes dadansoddi. Gwelir sgrinlun isod (Ffigur 5) sy'n dangos esiampl o ddogfen Excel. Mae'r enghreifftiau'n cael eu nodi ym mhob rhes tra bo'r meysydd dadansoddi yn cael eu nodi ym mhob colofn.

Meysydd Dadansoddi: Pennod/Golygfa; Adran o'r Testun; Hyd; Dosbarth Gramadegol; Maes Semanteg (1 a 2); Ysgogiad/Swyddogaeth (1, 2 a 3); Cenedl; Treiglo; Cytuno ansoddeiriau; Y Fannod

	A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P
1	Per	Tud	CC	Adra	Hyd	DosbarthGram	Maessem	Maessemal	YsgogiadSwydd	Ysgogiad	Ysgogiad	nodia	cene	Treig	Cytui	y fan
92	5	58	ffwocio	naratif	un gair	berfenw	rheglrhyw	Cymreigio berf S	Bwlch geirfaol							
93	5	59	ddyfn-yddfu	naratif	un gair	berfenw	rhyw	Cymreigio term E	Bwlch geirfaol			dilyn 'wrth'		meddal		
94	5	59	white mans...reggae'	dyfynnu	llai na brawddeg	cymal	sgwrs		Dyfyniad							
95	5	59	the one and only'	dyfynnu	brawddeg	brawddeg	ymadrodd gosod		Dyfyniad							
96	5	60	fuck	deialog	un gair	ebychiad	rheg		Bwlch geirfaol	Ebychiad						
97	5	60	ID	deialog	un gair	acronym	term Saesneg		Bwlch geirfaol							
98	5	61	shit	deialog	un gair	ansoddair	rheg		Bwlch geirfaol							
99	5	61	bullshit	deialog	un gair	enw	rheg		Bwlch geirfaol			heb ei farcio				diangen
100	5	61	obviously	deialog	un gair	adferf	term Saesneg		Bwlch geirfaol							
101	5	62	ffwocio	naratif	un gair	berfenw	rheglrhyw	Cymreigio berf S	Bwlch geirfaol							
102	6	67	BJs	naratif	un gair	acronym	rhyw		Bwlch geirfaol							
103	6	68	sgwâr	naratif	un gair	ansoddair	slang		Bwlch geirfaol							
104	6	68	no way	deialog	llai na brawddeg	ymadrodd adferfol	ymadrodd gosod		Bwlch geirfaol							
105	6	68	gaylord	deialog	un gair	enw	sarhau		Bwlch geirfaol			heb ei farcio				diangen
106	6	70	extras	naratif	un gair	enw	term Saesneg		Bwlch geirfaol			lluosog				diangen
107	6	71	sgwâr	naratif	un gair	ansoddair	slang	Cymreigio term E	Bwlch geirfaol							
108	6	71	food poisoning probably, Sir	deialog	llai na brawddeg	cymal	amwys		Creu effaith arbennig							
109	6	71	complains	deialog	un gair	berfenw	Cymreigio berf Saesneg		Creu effaith arbennig							
110	6	71	guts	deialog	un gair	enw	amwys		Creu effaith arbennig			heb ei farcio				diangen
111	6	72	sic	naratif	un gair	ansoddair	corff		Bwlch geirfaol							
112	6	72	food poisoning	deialog	llai na brawddeg	ymadrodd enwol	corff		Cyfeirio			adleisio k	heb ei farcio			diangen
113	6	72	food poisoning	deialog	llai na brawddeg	ymadrodd enwol	corff		Cyfeirio			heb ei farcio				diangen
114	7	73	mojo	naratif	un gair	enw	slang		Bwlch geirfaol			heb ei farcio				diangen
115	7	75	selfies	naratif	un gair	enw	slang	technoleg	Bwlch geirfaol			lluosog				diangen
116	7	75	shit	deialog	un gair	ebychiad	rheg		Bwlch geirfaol	Ebychiad						
117	7	76	Bob Hope	naratif	llai na brawddeg	ymadrodd enwol	slang	cyffuriau	Bwlch geirfaol			heb ei farcio				diangen
118	7	77	ffyc all	naratif	llai na brawddeg	ymadrodd adferfol	rheg		Bwlch geirfaol			!! Orgraff fwy Gymraeg				
119	7	77	ffyc all	naratif	llai na brawddeg	ymadrodd adferfol	rheg		Bwlch geirfaol							
120	7	77	ganja	naratif	un gair	enw	slang	cyffuriau	Bwlch geirfaol			dilyn 'o'	heb ei far dim			diangen
121	7	78	this novel...just	dyfynnu	brawddeg	brawddeg										
122	7	79	PLAY	naratif	un gair	berf										
123	7	79	dirgrynnwr	naratif	un gair	enw						pinc yn d	heb ei farcio			diangen
124	7	79	seiborg	naratif	un gair	enw						heb ei farcio				diangen

Esiampl o gyfnewid cod: Dyfynnu o'r testun

Gwybodaeth Arall:
Rhif tudalen; Nodiadau

Ffigur 5: Codio – Dalen Excel Y Ddyled

Crëwyd dalen ychwanegol er mwyn dadansoddi deialog cymeriadau, gyda'r enghreifftiau o gyfnewid cod ar y rhesi fel uchod, ond gyda'r cymeriadau yn y colofnau yn hytrach na'r meysydd dadansoddi; gweler yr enghraifft isod:

A	B	C	D	E	F
Tud	dyf		épicier	Xman	Sarah
32	oh well	naratif			
32	no way!...hey Xman	naratif			
33	you gonna...well well well	deialog		2	1
33	saver	deialog		1	
33	poker face	deialog		1	
33	no way!	deialog		1	
33	god	deialog			1

Ffigur 6: Sgrinlun – dadansoddi deialog cymeriadau

Yr unig beth i'w nodi yw pa gymeriad sy'n defnyddio'r enghraifft o gyfnewid cod. Wrth gwrs, gall un enghraifft o gyfnewid cod fod yn rhan o ddeialog mwy nag un cymeriad, fel yr enghraifft isod o'r nofel Ffrangeg *Xman*:

- *You're gonna be o.k.?*
- *Oh yeah! They don't bother me. Actually, the tall one is quite sweet. Hubert, I think. Hubert Moreau*
- *Well, well, well, Tu parles français.*
- *Oui. Je suis française.* (X 33)

Yn y sgwrs hon rhwng Xavier a Sarah, dechreuau'r sgwrs yn y Saesneg nes i Xavier sylwi bod Sarah yn medru'r Ffrangeg. Un enghraifft o gyfnewid cod fyddai'r enghraifft uchod, o 'You're gonna be...' hyd at 'Well, well well' – ond ei bod yn perthyn i ddeialog Xavier a Sarah, fel a nodir yn y sgrinlun uchod.¹⁷⁸

Wedi cwblhau'r gwaith codio hwn, defnyddiwyd meddalwedd R Studio er mwyn dadansoddi'r data yn y dogfennau Excel. Defnyddiwyd R Studio oherwydd ei fod yn fy ngalluogi i ysgrifennu sgrïpt a fyddai'n awtomeiddio'r gwaith, gan greu histogramau a graffiau wrth redeg y sgrïpt. Mae hyn yn arbed llawer o waith o'i

¹⁷⁸ Nodir hefyd nad yw'r ffaith bod Sarah yn dweud yr enw 'Hubert Moreau' gydag ynganiad Ffrangeg (sydd i'w weld yn y diffyg italeiddio) yn cael ei gyfrif fel troi'n ôl at y Ffrangeg; hynny yw, fel diwedd yr enghraifft o gyfnewid cod. Diwedd yr enghraifft uchod yw 'well, well, well'. Pennwyd bod enwau priod yn gallu perthyn i un iaith neu'r llall wrth gyfnewid cod.

gymharu â'u creu â llaw, yn arbennig yn ystod y gwaith gwirio a dilysu data.¹⁷⁹


Crëwyd graffiau o'r tablau hyn; mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am y graffiau.

<i>Maes Dadansoddi</i>	<i>Nodiadau</i>	<i>Math o graff</i>
Cymhareb	Cyfanswm enghreifftiau wedi'i rannu â nifer y tudalennau.	Graff bar yn grwpio'r testunau gyda'i gilydd ym mhob isadran.
Pennod/Golygfa		Graff bar
Adran o'r Testun	Gall enghraifft berthyn i fwy nag un categori. O'r herwydd, bydd cyfanswm y canrannau yn fwy na 100%.	Graff bar
Hyd	Hyd yr enghraifft.	Graff cylch
Dosbarth Gramadegol		Tabl yn unig
Maes Semanteg	Gall enghraifft berthyn i fwy nag un categori. O'r herwydd, bydd cyfanswm y canrannau yn fwy na 100%.	Graff bar
Ysgogiad/Swyddogaeth	Gall enghraifft berthyn i fwy nag un categori. O'r herwydd, bydd cyfanswm y canrannau yn fwy na 100%.	Graff bar
Deialog Cymeriadau	Dim ond yr enghreifftiau hynny sy'n rhan o ddeialog cymeriadau sy'n rhan o'r graff hwn.	Graff bar
Y Fannod	Dim ond enwau ac ymadroddion enwol sy'n rhan o'r graff hwn.	Graff cylch
Cenedl	Dim ond enwau ac ymadroddion enwol sy'n rhan o'r graff hwn.	Graff cylch
Treiglo	Dim ond geiriau a fyddai'n gallu treiglo sy'n rhan o'r graff hwn.	Graff cylch
Cytuno ansoddeiriau	Dim ond ansoddeiriau sy'n rhan o'r graff hwn	Graff cylch

Tabl 23: Nodiadau ar graffiau

Er mwyn sicrhau bod y graffiau'n hawdd eu darllen, gellir grwpio rhai o'r categorïau â nifer fach o enghreifftiau at ei gilydd, fel yn yr enghraifft isod:

¹⁷⁹ Nodir bod angen creu tabl ar gyfer pob maes dadansoddi, gyda chanlyniadau codio pob testun a phob isadran (e.e. nofelau Cymraeg, dramâu Ffrangeg). Roedd hefyd angen creu 277 o graffiau.



Ffigur 7: Enghraifft – grwpio enghreifftiau mewn graff¹⁸⁰

Gwelir bod y graff uchod yn gliriach – heb grwpio'r categorïau 'eraill', byddai 58 categori i'w gosod ar yr echelin x, gan wneud y graff yn anodd ei ddarllen.¹⁸¹ Bydd manylion llawn y categorïau a nifer yr enghreifftiau i'w gweld yn y tablau yn Atodiad IV: Canlyniadau'r Codio.

2.4 Cyfweiliadau

Penderfynwyd y byddai cynnal cyfweiliadau gydag awduron yn ychwanegu haen arall at ein dealltwriaeth o gyfnewid cod. Un ysgolhaig sy'n defnyddio cyfweiliadau gydag awduron fel rhan o astudiaeth o gyfnewid cod yw Carla Jonsson. Cynhaliodd gyfarfodydd anffurfiol gyda phobl a oedd yn gysylltiedig â'r byd theatr Chicano (e.e. dramodwyr, cynhyrchwyr, actorion, ysgolheigion) (2005, tt.23–5).¹⁸² Esbonia 'the interviews make up a crucial link between my data and the Chicano community' (2005, t.24), gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r cyfweiliadau i gefnogi ei dadl ynglŷn â'r damcaniaethau y tu ôl i gyfnewid cod. Ers i Barthes ddatgan marwolaeth yr awdur yn ei ysgrif enwog *La mort de*

¹⁸⁰ Mae'r graff uchod yn dangos Maes Semanteg *Lladd Duw*.

¹⁸¹ Mae 'eraill' yma yn grwpio 39 categori, oll â llai na 34 enghraifft o gyfnewid cod.

¹⁸² Yn anffodus, ni chawn lawer o wybodaeth gan Jonsson am fethodoleg ei chyfweiliadau, namyn eu bod yn rhai anffurfiol, a'u bod yn werthfawr iddi o safbwynt ysgolheictod gan ei bod yn ymwybodol iawn ei bod hi'n gwneud yr ymchwil hwn o bersbectif rhywun a oedd yn dod o du allan i'r gymuned *Chicano*.

l'auteur (1984), nid yw beirniadaeth lenyddol yn dueddol o weld yr awdur fel awdurdod, ond yn hytrach yn ystyried y testun fel rhywbeth sy'n sefyll ar ei draed ei hun ac yn agored i ddehongliad. Fel y dadleua Barthes, 'l'unité d'un texte n'est pas dans son origine mais dans sa destination' (1984, t.66);¹⁸³ hynny yw, nid yr awdur sy'n berchen ar ystyr y testun, ond y darllenydd, gan mai ef neu hi'n sy'n darllen ac yn dehongli'r testun. Mae pwysigrwydd yr awdur yn pylu wrth i rôl y darllenydd gael ei phwysleisio; fel y dywed Barthes, 'la naissance du lecteur doit se payer de la mort de l'Auteur' (1984, t.67).¹⁸⁴ Er fy mod yn cytuno fod testunau'n sefyll ar eu pennau eu hunain, teimlaf fod trafodaeth o gyfnewid cod yn elwa o gael gwybodaeth gan yr awduron ynglŷn â'u cefndir a'r ymateb i'w gwaith. Roedd cyfweiliadau â'r awduron o Ganada o gymorth arbennig gan nad wyf yn rhan o'r gymdeithas honno. Pwysleisir nad y cyfweiliadau yw *prif* elfen y gwaith, ond ei fod yn cynnig gwybodaeth ychwanegol fel rhan o astudiaeth ehangach. Bydd yn cefnogi'r data a geir o ddadansoddi'r testunau, a gallai'r wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol wrth edrych ar rai theorïau, megis damcaniaeth Lipski ynglŷn â rhuglder awduron sy'n defnyddio mathau gwahanol o gyfnewid cod.

Wrth gwrs, mae rhai anfanteision i gynnal cyfweiliadau, sef cost – cost ariannol a'r gost o ran amser (Payne a Payne 2004, t.132) – ac mae perygl o anghofio neilltuo digon o amser ar ôl casglu'r data er mwyn ei ddadansoddi (Silverman 2010, t.193). Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod y gwaith codio yn broses gymhleth sy'n cymryd llawer o amser. Diolch i ysgoloriaeth gan y *Conseil International d'Études Canadiennes*, cefais gyfle i fynd i Ganada ar daith ymchwil, a olygai fod modd cyfweld â'r awduron o Ganada wyneb yn wyneb.

¹⁸³ 'nid yn ei darddiad y mae undod testun, ond yn ei gyrchfan'.

¹⁸⁴ 'pris genedigaeth y darllenydd yw marwolaeth Yr Awdur.'

Cyfwelwyd â: Jean Babineau, France Daigle, Joëlle Roy yng Nghanada. Yng Nghymru, cyfwelwyd â Llwyd Owen, Alun Saunders, Alys Conran a Dewi Prysor.¹⁸⁵ Anfonwyd neges at gyhoeddwr Jacques Poulin yn ogystal, ond ni chafwyd ymateb.¹⁸⁶ Gan mai elfen ychwanegol yw'r cyfweliadau, penderfynwyd cyfweld â sampl o awduron yn unig.

2.4.1 Cwestiynau

Mapiwyd y cwestiynau cyfweliad ar gwestiynau ymchwil y traethawd er mwyn sicrhau y byddent yn ysgogi atebion a fyddai'n cyd-fynd yn union ag amcanion y traethawd. O gwestiynau ymchwil yr astudiaeth hon, y prif rai y mae'n bosib mynd i'r afael â hwy yn y cyfweliadau yw:

- Pa mor debyg/annhebyg yw cyfnewid cod rhwng parau iaith gwahanol?
- Pa mor ymwybodol yw awduron o'u cyfnewid cod?
- Beth yw'r ymagweddau tuag at gyfnewid cod? (Agwedd yr awduron eu hunain, ac agwedd eraill tuag at eu gwaith)

O'r cwestiynau ymchwil hyn, crëwyd cyfres o gwestiynau gan holi'r awduron am eu cefndir, eu gyrfa lenyddol a'r ymateb a gawsant i'w gwaith. Penderfynwyd cynnal cyfweliadau lled-strwythuredig – golygai hyn fy mod yn creu rhestr o gwestiynau clir o flaen llaw, ond gyda rhyddid i newid cyfeiriad fel bo angen yn y cyfweliad. Dyma'r disgrifiad y mae Bryman yn ei roi o gyfweliadau lled-strwythedig:

¹⁸⁵ Cyfwelwyd â phawb wyneb-yn-wyneb, heblaw am Alys Conran (Skype) a Dewi Prysor (cyfweliad dros e-bost). Wrth gysylltu â'r awduron am y tro cyntaf, gofynnwyd iddynt a oeddent ar gael ar gyfer cyfweliad wyneb-yn-wyneb neu dros Skype. Oherwydd cyfyngiadau amser, dewisodd Dewi Prysor ateb y cwestiynau dros e-bost. Nid oedd modd llywio'r drafodaeth fel y gellir ei wneud mewn sgwrs, ond cafwyd atebion trylwyr iawn gan Prysor er hyn.

¹⁸⁶ Nododd Poulin mewn cyfweliad ei fod yn casáu'r bywyd llenyddol (e.e. darlleniadau cyhoeddus, cyfweliadau radio a theledu), heblaw'r gwaith ysgrifennu ei hun (Cyfweliad Jacques Poulin gan Régina Martel 1994; dyfynnir yn Sanaker 2010). Felly, efallai nad yw'n syndod na chafwyd ymateb i'r gwahoddiad am gyfweliad.

The researcher has a list of questions or fairly specific topics to be covered, often referred to as an interview guide, but the interviewee has a great deal of leeway in how to reply. Questions may not follow on exactly in the way outlined on the schedule. Questions that are not included in the guide may be asked as the interviewer picks up on things said by interviewees. But, by and large, all the questions will be asked and a similar wording will be used from interviewee to interviewee.

(2012, t.471)

Holwyd rhai cwestiynau craidd wrth bob awdur (e.e. pryd y dysgoch chi eich dwy iaith? Beth oedd y rheswm ichi ddechrau ysgrifennu?), ac fe grëwyd cwestiynau wedi'u teilwra ar gyfer pob awdur (e.e. cwestiynau penodol am y testun, unrhyw ddigwyddiad penodol a oedd yn ymwneud â derbynoldeb, megis ennill gwobr). Gwnaed ymdrech i greu cwestiynau agored a fyddai'n ysgogi ymatebion gyda gwybodaeth fwy cefndirol (Silverman 2010, tt.196–7). Gellir gweld y cwestiynau hyn yn Atodiad V – Cwestiynau'r Cyfweiliadau.

2.4.2 Techneg y cyfweiliadau

Nodwyd eisoes fod angen creu cwestiynau agored a fyddai'n ysgogi ymatebion.

Er enghraifft, dylid osgoi cwestiynau y gellir eu hateb gydag ie/na, ond yn hytrach gofyn *sut*. Rhaid i'r cyfwelydd greu teimlad o niwtraliaeth, lle mae rhyddid i'r person sy'n cael ei gyfweld siarad (Dörnyei 2007, t.141). Rhaid hefyd osgoi arwain yr atebwr wrth holi cwestiwn, er enghraifft drwy awgrymu bod ateb cywir neu anghywir e.e. 'you do, don't you', neu 'you don't..., do you?' (Keats 2000, t.41). Mae'n bwysig hefyd gwybod faint o fanylder sydd ei angen mewn atebion, er mwyn gwybod a yw hi'n amser symud ymlaen at y cwestiwn nesaf, neu a oes angen ysgogi ymateb pellach gan yr awdur (Wengraf 2001; Brinkmann a Kvale 2015). Ni ddylid brysio'r awduron i ymateb, ond rhoi amser o dawelwch iddynt ystyried eu hatebion (Wengraf 2001, t.128).

Yn ogystal â'r dewisiadau hyn, roedd angen dewis ym mha iaith y dylid cynnal y cyfweiliadau yng Nghanada. Penderfynwyd cyfweld â'r awduron yn y Ffrangeg

yn hytrach na'r Saesneg. Er fy mod yn rhugl yn y Ffrangeg, roeddwn yn ymwybodol bod risg i mi golli *nuance* neu gamddeall, neu i mi greu *nuance* ychwanegol yn y cwestiynau ar ddamwain, yn enwedig gan fod yr amrywiaeth Canadaidd o Ffrangeg yn fwy newydd i mi. Er hyn, roeddwn yn ymwybodol bod dewis ieithyddol y cyfwelydd yn gallu cael effaith ar yr atebion y mae'r person sy'n cael ei gyfweld yn fodlon eu rhoi (Keats 2000, t.42).¹⁸⁷ Fel yr esbonia Jonsson yn ei gwaith ymchwil ar y ddrama Chicano, roedd hi'n ymwybodol iawn ei bod yn dod o'r tu allan i'r gymuned Chicano, ac yn ddibynnol iawn ar y bobl yn y cyfweliadau er mwyn deall y gymuned honno (2005, t.24). Fel Jonsson a'r gymuned Chicano, nid wyf yn perthyn i'r gymuned Ffrangeg-Ganadaidd. Byddai defnyddio'r Ffrangeg – mamiaith yr awduron, a'r iaith iddynt ddewis ei defnyddio wrth lenyddda – yn fodd o ddangos fy niddordeb a'm hymrwymiad at y grŵp hwn.

Recordiwyd y cyfweliadau cyn eu trawsgrifio a'u dadansoddi gan ddefnyddio meddalwedd NVivo, meddalwedd a ddefnyddir yn aml i ddadansoddi cyfweliadau yn y Gwyddorau Cymdeithasol.

2.5 Crynodeb

Yn y bennod hon, manylwyd ar fethodoleg benodol yr ymchwil, gan drafod sut y mae'n adeiladu ar seiliau'r astudiaeth flaenorol (2015). Manylwyd yn benodol ar ddatblygiadau yn y fethodoleg a chwestiynau ymchwil yr astudiaeth bresennol. Yna, manylwyd ar y tair elfen sy'n rhan o'r fethodoleg hon. Yn gyntaf, trafodwyd sut yr aethpwyd ati i ddewis y testunau. Yn ail, manylwyd ar fethodoleg y gwaith dadansoddi, gan drafod y meysydd dadansoddi a'u categorïau. Yn olaf,

¹⁸⁷ Mae Keats yn canolbwyntio ar ffenomena amrywiaeth o fewn un iaith, megis idiom, hiwmor, cyffelybiaethau, slang, jargon a.y.b., ond mae'r cyngor hwn hefyd yn berthnasol i gyfweliadau lle y gellid cynnal y cyfweliad mewn ieithoedd gwahanol.

trafodwyd y cyfweiliadau, elfen gyflenwol i'r gwaith dadansoddi, sy'n darparu gwybodaeth gefndirol – am yr awdur, am y testunau, ac am unrhyw ymateb a gafwyd i'r cyfnewid cod.

Yn y penodau sy'n dilyn, trown at ganlyniadau'r gwaith codio a wnaethpwyd ar y testunau. Rhennir y drafodaeth yn saith pennod, gan rannu fesul iaith a ffurf; y bennod gyntaf yw 'nofelau Cymraeg'. Ar ôl trafod y nofelau, trown i drafod y dramâu. Dilynir y drefn ganlynol ym mhob pennod; Cymhareb, Golygfa/Pennod, Adran, Hyd, Dosbarth Gramadegol, Maes Semanteg, Ysgogiad/Swyddogaeth, Deialog cymeriadau, Nodweddion gramadegol. Am ragor o wybodaeth am y meysydd dadansoddi hyn a'u categorïau, cyfeirir yn ôl at y bennod hon ar fethodoleg. Bydd y bennod Trafodaeth yn dwyn y corpws cyfan at ei gilydd.

3: Y Nofelau Cymraeg

3.1 Crynodeb

***Dyn yr Eiliad* (2003) Owen Martell**

Nofel yw hon am dri ffrind – Daniel, Davies ac Anna. Mae Daniel, prif gymeriad ac awdur/adroddwr y stori, yn dychwelyd i Gaerdydd wedi marwolaeth Davies, i aros gyda'i ffrind a chariad Davies, Anna. Fel y dywed Kate Crockett, '[m]ae'n anodd llunio crynodeb o'r nofel gan nad ydi'r stori yn dilyn llinyn amseryddol [c]ronolegol' (2003, t.70). Gwna Jon Gower ymgais dda i grynhoi'r plot pan ddywed 'in substance it's a sort of emotional inquest – Daniel trying to piece together a man's life from the fragments of himself he's left behind in others' (2004, t.116).

Cymeriadau

Daniel	Prif gymeriad ac adroddwr y stori. Yn wreiddiol o Ddowlais, ond wedi symud i Gaerdydd er mwyn mynd i'r brifysgol, cyn symud i Reading i weithio fel athro. Mae'n ffrindiau gyda Davies er pan oeddent yn blant. Tra'i fod yn y brifysgol, Daniel sy'n cyfarfod ag Anna gyntaf cyn ei chyflwyno i Davies.
Davies	Er nad yw Davies yn gymeriad ym mhresennol y nofel, mae'n rhan ganolog ohoni – ei farwolaeth yw canolbwynt y stori, wrth i Daniel geisio dod i ddeall perthynas y tri; byddai bron modd ei ystyried fel prif gymeriad y nofel, er yn ei absenoldeb. Gwelwn ef fel cymeriad yn y golygfeydd o'r gorffennol.
Anna	Cariad Davies cyn ei farwolaeth, a ffrind Daniel. Mae Daniel a hi'n dechrau perthynas wedi iddo dychwelyd i Gaerdydd yn dilyn marwolaeth Davies.

Tabl 24: Cymeriadau *Dyn yr Eiliad*

Prin yw'r cymeriadau ymylol yn y nofel hon gan fod y nofel yn canolbwyntio ar y berthynas driongl sy'n bodoli rhwng y tri chymeriad. Mae ambell olygfa fer gyda mam Davies, rhieni Daniel a'i fam-gu ac unigolion yn y dafarn. Mae'r rhain yn gymysgedd o gymeriadau sy'n siarad Cymraeg a chymeriadau sy'n siarad Saesneg. Diddorol nodi nad oes sôn am unrhyw ffrindiau prifysgol eraill gan y tri, heblaw Rachel, cariad Daniel ar un adeg, cyn i'r berthynas raddol ddod i ben oherwydd bod Daniel yn teimlo mwy tuag at Anna nag at Rachel. Mae'n

cyfaddef '[p]an oedd hi'n fater o ddewis, doeddwn i jyst ddim eisiau gadael, a doeddwn i ddim eisiau i unrhyw beth – hyd yn oed y peth lleia – newid' (DyE 259).

Martha Jac a Sianco (2004) Caryl Lewis

Cawn hanes Martha a'i dau frawd sy'n byw ar fferm yng Ngheredigion. Fel y dywed Llinos Dafis, 'mae'r tri'n ddibriod, rywle rhwng yr hanner cant a'r deg a thrigain oed, ac yn ffermio'r Graig Ddu [sic] sydd o leiaf dair milltir o bobman heblaw'r eglwys a'r fynwent' (2005, t.259). Bu eu tad farw'n ifanc gan adael mam drahaus, sy'n dal i daflu cysgod dros y tri. Bu farw'r fam heb ewyllys, gan adael y tri i rannu'r ffarm, digwyddiad sy'n fwrn i'r tri: 'mae eu bywydau wedi crebachu, wedi troi'n hen surni chwerw sy'n tagu'r tri, yr un yn fodlon ildio, yr un yn barod i adael' (Reynolds 2004, t.26).

Cymeriadau

Martha	Unig chwaer y teulu, a'r plentyn canol; dynes ddirwgnach a chall. Mae hi'n famol iawn ac yn gofalu am bawb, yn enwedig am Sianco.
Jac	Y brawd hynaf, cymeriad hunanol sy'n fyr ei dymer ac yn gallu bod yn greulon.
Sianco	Y brawd ieuengaf; mae anabledd dysgu arno.
Judy	Cariad Jac, sy'n dod o Leeds yn wreiddiol. Nid yw'n siarad Cymraeg. Nid yw hi a Martha'n cyd-dynnu o gwbl.
Gwynfor	Dyn sy'n canlyn Martha ers blynyddoedd, er ei bod hi'n gwrthod ei briodi, gan y byddai'n rhaid iddi adael Graig-ddu.

Tabl 25: Cymeriadau *Martha Jac a Sianco*

Ceir sawl cymeriad ymylol sy'n nodweddu'r ardal, megis Wil, cymydog agosaf fferm Graig-ddu, Sam Fish sy'n gwerthu pysgod, a John Penbanc, sy'n cneifio iddynt. Mae'r mwyafrif yn medru'r Gymraeg, heblaw am rai nyrsys a doctoriaid yn yr ysbyty, a gweinyddes Caffi Eurwen.

Lladd Duw (2010) Dewi Prysor

Thriller o'r iawn ryw sydd yma; 'hyrddio tua'r diwedd mae *Lladd Duw* o'r

cychwyn cyntaf, bron, wrth i'r gorffennol – yn anorfod – gyrraedd stepen drws

Jojo a Didi' (Evans 2011, t.153). Cyfarfyddwn â dau frawd – Jojo a Didi – sy'n gorfod ffoi oddi wrth gangsters Serbaidd o Lundain, ac yn dewis cuddio yng Ngilfach – 'tref lan-môr yng ngogledd-orllewin Cymru [a] fu'n gartref i'r ddau yn ystod eu blynyddoedd cynnar' (2011, t.151). Ffoi o Gilfach am Lundain a wnaethant fel plant er mwyn dianc rhag y cam-drin yn y cartref plant, Llys Branwen. Wrth i'r gangsters chwilio amdanynt, mae Jojo a Didi yn ceisio delio â'u gorffennol, ailganfod eu lle mewn cymdeithas ac ailddechrau eu bywydau unwaith eto.

Cymeriadau

Jojo	Brawd mawr i Didi; er nad oes perthynas fiolegol rhwng y ddau, fe'u magwyd yn yr un cartref plant. Roedd yn gweithio fel <i>hitman</i> i gangsters yn Llundain, cyn iddo gael ei orchymyn i ladd Didi. Bu'r ddau yn ofalus iawn i beidio â siarad Cymraeg yng ngŵydd neb yn Llundain – ond cafodd y cysylltiad Cymraeg ei ddarganfod gan i Jojo adael llyfrau Cymraeg yn ei fflat ar ôl gorfod ffoi o Lundain ar frys.
Didi	Mae Didi wedi dioddef o broblemau â chyffuriau, ac wedi gweithio fel putain ers blynyddoedd. Mae'n gwadu ei fod yn hoyw, yn bennaf oherwydd y cam-drin erchyll a ddioddefodd yn Llys Branwen.
Nedw	Bachgen sy'n rhedeg busnes danfon pizzas yn Gilfach. Ar ddechrau'r nofel mae'n cael ei gyhuddo o losgi hen sinema'r Plaza i lawr, ac mae'n rhannu ei broblemau â Jojo.
Ceri	Mam Nedw, sy'n dechrau perthynas gyda Jojo. Mae hi'n ymladd yn ffyrnig yn erbyn 'Y Syndicet' sy'n difetha'r pentref – er enghraifft, drwy'r cynlluniau i droi'r hen Blaza yn 'lycshyri holide fflats' (LID 73).
Godfrey	Dyn cyfoethog sydd bellach yn ei saithdegau. Cynberchennog Llys Branwen a fu'n gyfrifol am gam-drin y plant, sy'n berchen ar sawl busnes arall yng Ngilfach; ef yw rheolwr 'Y Syndicet'.
Wil Broad ('Mochyn Budr')	Cyn-breswlydd yn y cartref plant gyda Jojo a Didi a oedd yn arfer cymryd rhan yn y cam-drin; mae'n dal i weithio ar ran Godfrey drwy ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn Adran Gynllunio'r Cyngor.
Dan Cocos	Ffrind i Ceri sy'n cydweithredu gyda hi yn ei hymgyrch yn erbyn troi'r Plaza yn fflatiau – er ei fod yn gweithio yn ei herbyn yn hytrach na'i helpu. Darganfyddwn mai mab Godfrey yw Dan, ac mai ei gariad tuag at Ceri sydd wedi'i hamddiffyn cyhyd.

Tabl 26: Cymeriadau *Lladd Duw*

Mae sawl cymeriad ymylol megis Gordon y Moron, Matt y barmon, ffrindiau Nedw – sydd oll yn siarad Cymraeg – a chymeriadau dienw megis y “chavs” (LID 291) ar y stryd yng Ngilfach a chwsmeriaid tafarn nad ydynt yn siarad Cymraeg. Yr unig gymeriadau nodedig nad ydynt yn siarad Cymraeg yw’r gangsters Serbaidd, Zlatko a Nebojsa.

***Y Ddyled* (2013) Llwyd Owen**

Nofel gan Llwyd Owen, sy’n llawn rhegfeydd, disgrifiadau amrwd, cyffuriau a rhyw. Stori sydd yma am gymeriad o’r enw Llwyd Owen, awdur sy’n cyhoeddi o dan yr enw ‘Floyd Ewens’ bellach, ac sydd hefyd yn frodor o Gaerdydd. Mae wedi gwahanu oddi wrth ei wraig, sy’n rhannu eu tŷ priodasol gyda’i hyfforddwraig bersonol tra bo Llwyd yn byw mewn sied ar waelod yr ardd. Mae’r nofel wedi cael ei phlethu o benodau sy’n symud rhwng y cyfnod presennol hwn a phlentyndod Llwyd bob yn ail. Y tri phrif gymeriad yw Llwyd a dau o’i ffrindiau ysgol, Daf ac Idris. Ffocws y nofel yw’r berthynas agos hon ac effaith bod yn ddyledus i rywun. Dywed Arwel Vittle, ‘maen nhw’n dweud nad yw dyddiau ysgol byth yn darfod ac yn sicr mae hynny’n wir yn achos prif gymeriad *Y Ddyled* wrth i gysgod o’r gorffennol ddychwelyd i’w fywyd i fynnu iawn am y ddyled’ (2014/15, t.77).

Cymeriadau

Llwyd Owen	Awdur sy’n dioddef o <i>writers block</i> . Ef sy’n adrodd y stori. Disgrifir ef fel ‘ <i>alter ego</i> ’ Llwyd Owen (Vittle 2014/15, t.77).
Daf	Ffrind gorau Llwyd yn yr ysgol. Mae’n dod o deulu cefnog sy’n siarad Cymraeg.
Idris	Bachgen newydd sy’n dod i’r ysgol; mae’n dod o gefndir llai cefnog na Daf a Llwyd, ac mae ei Gymraeg yn frith o wallau ac o fratiaith – er ei fod yn falch ei fod yn medru’r Gymraeg. Ym mhresennol y nofel, mae’n oedolyn sydd wedi treulio nifer o flynyddoedd yn y carchar, ac er ei fod yn gymharol rugl yn y Gymraeg, mae’n dangos ôl diffyg defnydd cyson o’r iaith.


Casi	Merch ifanc y mae Llwyd yn dechrau perthynas â hi heb sylweddoli ei bod hi o dan oed. Mae hi'n bygwth mynd â'r lluniau sydd ganddi at yr heddlu os nad yw'n rhoi arian i'w chadw'n dawl.
Lisa	Cyn-wraig Llwyd.

Tabl 27: Cymeriadau *Y Ddyled*

Ceir hefyd gymeriadau mwy ymylol, megis Jimmy, y gangster y mae Idris yn dwyn deg cilo o gocên oddi wrtho cyn ailgyfarfod â Llwyd. Nid yw ef na dau o'i weithwyr, Paki Dave a Sol, yn medru'r Gymraeg, er bod Doc¹⁸⁸ sy'n gweithio iddo yn medru'r Gymraeg.

3.2 Canlyniadau Codio'r Nofelau Cymraeg

3.2.1 Cymhareb



Ffigur 8: Cymhareb – Nofelau Cymraeg

Dangosir cymhareb y nofelau Cymraeg ar y llinell ddu. Cymhareb y nofelau Cymraeg yw 4.38 (5068 enghraifft / 1158 tudalen).¹⁸⁹ Gwelir bod gan *Lladd Duw* gymhareb uchel iawn, tra bo *Martha Jac a Sianco* yn disgyn ymhell o dan y gymhareb hon.

¹⁸⁸ Nodir bod y cymeriad hwn hefyd yn ymddangos yn y nofel *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau* (2006); mae wedi crwydro i dudalennau *Y Ddyled* yn rhinwedd ei swydd fel deliwr cyffuriau.

¹⁸⁹ Cymhareb y nofelau Cymraeg unigol:

Dyn yr Eiliad: 705 enghraifft/306 tudalen = 2.3

Martha Jac a Sianco: 225 enghraifft/186 tudalen = 1.21

Lladd Duw: 2862 enghraifft/381 tudalen = 7.51


Y Ddyled: 1276 enghraifft/285 tudalen = 4.48

3.2.2 Penodau

Yn amlwg, nid oes modd creu graff sy'n cyfuno penodau'r holl nofelau

Cymraeg, gan na fyddai'r graff hwn yn ystyrlon. Dangosir isod sut mae'r

cyfnewid cod yn y pedair nofel yn cael ei rannu rhwng penodau.



Ffigur 9: Penodau – *Dyn yr Eiliad*

Mae 28 pennod i gyd yn *Dyn yr Eiliad*, wedi'u rhannu rhwng pedair isadran o'r

nofel (*devotio moderna*; chwarae plant; y swigen; *dietrologia*). Mae ychydig o

gyfnewid cod ym mhob pennod, er bod llai o enghreifftiau mewn rhai penodau

nag eraill. Ac eithrio'r epigraff, y penodau gyda'r nifer leiaf o enghreifftiau yw

pennod 1.6 a 2.9, sydd ill dwy yn cynnwys 8 enghraifft yn unig o gyfnewid cod.

Mae pennod 1.6 yn gymysgfa o fyfyrnodau ar berthynas y tri, y weithred o

siarad, am alwad ffôn rhwng Anna a Daniel yn trafod iselder Davies, a'r ddau'n

ceisio deall rhesymeg Davies. Mae 2.9 yn trafod diwrnod angladd Davies, sydd

wythnos ar ôl ei farwolaeth – mae Anna a Daniel wedi dechrau perthynas erbyn


hyn, ond heb drafod y peth, ac yn osgoi ei gilydd cyn gadael ar gyfer yr

angladd. Isod, ceir tabl sy'n dangos y tair pennod sy'n cynnwys mwyafrif yr

enghreifftiau o gyfnewid cod, ynghyd â chrynodeb byr o'r bennod.

Pennod	Nifer	Crynodeb
3.4	54	Daniel yn cofio symud allan o'r tŷ oherwydd bod Anna'n disgwyl – y berthynas rhwng y tri yn anodd oherwydd nad yw Daniel wedi ymateb yn dda iawn i'r newyddion. Davies yn dawel – ansicr ai oherwydd newyddion Anna, ynteu ymateb Daniel. Galwad ffôn gan Davies yn ddiweddarach – Anna wedi colli'r babi.
2.7	52	Myfyrio ar y ffaith bod Davies wedi colli'i dad fel plentyn. Anna a Daniel yn cysgu gyda'i gilydd am y tro cyntaf. Cysgu'n hwyr; cael eu deffro gan yr heddlu. Damwain oedd achos marwolaeth Davies. Daniel yn flin gyda'r dyfarniad hwn, ond Anna'n ei dderbyn. Daniel yn mynd am dro.
2.4	45	Daniel yn codi i fynd i'r tŷ bach, Anna yn y gegin. Anna'n methu deall pam y bu Davies farw. Trafod ai hunanladdiad neu ddamwain oedd achos ei farwolaeth. Anna ddim eisiau cysgu yn ei hystafell; y ddau'n rhannu gwely'n lletchwith. Anna'n codi cyn Daniel.

Tabl 28: *Dyn yr Eiliad* – penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod



Ffigur 10: Penodau – *Martha Jac a Sianco*

Mae 35 pennod yn *Martha Jac a Sianco*, a'r nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod yn amrywio rhyngddynt. Ceir tair pennod heb unrhyw enghreifftiau o gyfnewid cod (pennod 10, 14 a 35). Mae'r tair pennod hon yn defnyddio meddyliau a theimladau Martha fel prif-ffocws wrth iddi ymweld â'r fynwent (pennod 10), clywed cnocio bygythiol ar ffenestri'r tŷ (pennod 14) ac yn dilyn angladd Jac a Sianco (pennod 35). Isod, ceir tabl yn crynhoi'r tair pennod sydd â'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod.

Pennod	Nifer	Crynodeb
31	23	Mae Jac yn yr ysbyty ar ôl ei strôc. Mae Martha'n dychwelyd adref, ac yn darganfod Judy yno – mae hi'n dweud wrth Martha sut iddi berswadio Jac i roi'r 4x4 newydd a rhan fawr o'u cynilon i Judy.
20	20	Mae llyfrau banc Jac wedi mynd ar goll – mae Martha'n ei berswadio mai Judy a'u cymrodd. Daw Judy i'r tŷ a dadlau gyda hwy. Sianco sydd wedi cymryd y llyfrau banc i'w cadw'n saff.
15	19	Trin hwrdd sydd â'i gyrn yn troi i mewn i'w ben. Mae piano Martha, anrheg gan Gwynfor, yn cael ei ddanfon i'r tŷ. Mae Jac a Judy yn gwneud hwyl am ben Martha'n dechrau dysgu canu'r piano. Mae Sianco – yn yr ychydig enghreifftiau ohono'n siarad – yn dweud wrth Judy “you're a bitch” (MJS 72).

Tabl 29: *Martha Jac a Sianco* – penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod


Oherwydd bod nifer fawr o benodau yn y nofel *Lladd Duw* (122 pennod) mae'r graff yn un anodd ei ddarllen, felly nid yw'n cael ei ddangos fel rhan o'r bennod hon. Gellir gweld y graff yn Atodiad IV (t.445). Rhennir y nofel yn dair isadran, sef 'Yr Hen Destament', 'Y Testament Newydd' a 'Datguddiad'. Ceir enghreifftiau o gyfnewid cod ym mhob pennod namyn dwy; pennod 37 (lle mae Jojo'n meddwl sut y mae ef a Didi yn ymateb i ddychwelyd i Gilfach), a phennod 53 (pan yw Ceri yn darganfod bod fandaliaid wedi difrodi cerrig beddi yn y fynwent). Ceir sawl pennod â nifer isel iawn o enghreifftiau – mae 32 pennod yn cynnwys 10 enghraifft neu lai o gyfnewid cod. Isod, ceir tabl sy'n dangos y pum pennod sy'n cynnwys y nifer fwyaf o enghreifftiau.¹⁹⁰

Pennod	Nifer	Crynodeb
22	67	Jojo'n darllen y papur newydd; trafod Gilfach gyda Johnny Lovell.
88	66	Didi'n trafod y Quayside Inn (sydd berchen i Godfrey) gyda Matt, y barmon. Siarad gyda phobl eraill yn y dafarn, cyn mynd i brynu colur – mae pawb heblaw Matt yn siarad Saesneg gyda Didi.
9	62	Rhoi corff Nebojsa (neu Cockeye, i roi ei lysenw) i mewn i'r biniau cynrhon a sylweddoli nad yw'r biniau'n ddigon dwfn i'r cynrhon gael gwared â'r corff yn gyfan gwbl.
98	62	Jojo'n mynd i nôl Didi o'r ysbyty ar ôl iddo biso ar ffens drydan. Trafod y ddamwain a beth maent eisiau ei brynu o'r siop.

¹⁹⁰ Trafodir pum pennod yn hytrach na thair gan fod tair pennod yn cynnwys 62 enghraifft o gyfnewid cod.

115	62	Jojo'n mynd â Wil Broad yn ôl i Lys Branwen, y cartref plant. Ei fygwth er mwyn cael gwybod pwy sy'n cynllwynio yn erbyn Ceri – cael gwybod bod Dan Cocos yn gweithio i Godfrey, a bod Godfrey yn dad i Dan. Wil yn dweud wrth Jojo bod y gangsters yn Llundain yn gwybod bod Jojo a Didi yn Gilfach. Jojo'n gorfodi Wil i gyd-ganu emyn cyn ei ladd.
-----	----	---

Tabl 30: *Lladd Duw* – penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod



Ffigur 11: Penodau – *Y Ddyled*






Mae 21 pennod yn *Y Ddyled*, gydag enghraifft o gyfnewid cod ym mhob pennod, ond mae'r nifer yn amrywio'n sylweddol. Isod, ceir tabl yn dangos y tair pennod lle ceir y nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod, ynghyd â chrynodeb o'r plot. Diddorol gweld mai tair pennod gyda'r cymeriadau yn eu harddegau ydynt, yn hytrach na fel oedolion.

Pennod	Nifer	Crynodeb
12 Rhyddid	200	Mae Daf a Llwyd newydd orffen eu harholiadau lefel A. Maent yn cwrdd ag Idris eto, sydd wedi treulio dwy flynedd mewn Sefydliad Troseddwyr Ifainc. Mae'n gwerthu pils ecstasi i'w ffrindiau, ac yn dweud wrth Llwyd a Daf am ei gynllun i fynd i brynu mwy o Amsterdam.
20 Dyled	169	Mae'r tri bachgen yn dychwelyd o Amsterdam. Mae Idris yn pasio tŷ Daf ac yn gweld ambiwlans y tu allan. Credant fod Daf wedi marw o ganlyniad i gymryd pils drwg – efallai pils Idris.
14 Dutch	154	Mae'r tri bachgen yn mynd i Amsterdam i brynu'r pils gan Dutch, ffrind Idris.

Tabl 31: *Y Ddyled* – penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod

Gwelir o'r graffiau uchod bod y nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod sydd mewn penodau yn dueddol o amrywio'n fawr ym mhob nofel, a rhai nofelau'n cynnwys penodau heb unrhyw enghreifftiau o gyfnewid cod.


3.2.3 Adran




Wrth grwpio data'r nofelau Cymraeg gyda'i gilydd (Ffigur 12), gwelir mai'r tueddiad cyffredinol yw defnyddio'r mwyafrif o gyfnewid cod yn y ddeialog (68%). Ond yn fwy na'r *tueddiad*, mae'r *gyfradd* yn hynod debyg rhwng tair o'r nofelau, sy'n annisgwyl. Wrth edrych ar y nofelau *Martha Jac a Sianco* (Ffigur 14), *Lladd Duw* (Ffigur 15) ac *Y Ddyled* (Ffigur 16), gwelir bod tua 75% o'r cyfnewid cod yn ymddangos fel rhan o'r ddeialog ac oddeutu 20-25% fel rhan o'r naratif. Wrth ystyried *Y Ddyled*, mae hyn yn dangos bod arddull yr awdur wedi newid yn sylweddol o'i gymharu â'i nofel gyntaf, *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau* (2006), a oedd yn defnyddio llawer mwy o gyfnewid cod yn y naratif (Orwig 2015). Awgrymwyd bod hyn a wnelo â'r ffaith bod ieithwedd y prif gymeriad mor ganolog i'r nofel hon. Awgrymir, felly, unai nad yw ieithwedd prif gymeriad *Y Ddyled* yn cario'r un pwysigrwydd, neu fod iaith y cymeriad Llwyd Owen yn fwy safonol o'i gymharu â Luc Swan, prif gymeriad *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau*.

Gwelir patrwm gwahanol yn *Dyn yr Eiliad* (Ffigur 13). Mae'r nofel hon ychydig yn anghyffredin gan fod cyn lleied o ddeialog ynddi. Dywed Kate Crockett, 'Does yma fawr o ddeialog yn y nofel, gyda Daniel ei hun yn cydnabod nad ydi'n dda am gofio sgysiau er mwyn eu cofnodi yn ei lyfrau nodiadau' (2003/4, t.71). Mae'r nodwedd hon yn cael ei hadlewyrchu yn y cyfnewid cod, gan fod 83% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn digwydd yn y naratif. Mae hyn yn wahanol iawn i'r patrwm sydd yn y tair nofel arall. Felly, er bod patrwm amlwg i'w weld mewn tair o'r nofelau (tri chwarter o'r cyfnewid cod yn ymddangos mewn deialog, a chwarter yn y naratif), nid dyma o reidrwydd y patrwm sydd i'w weld ym mhob nofel, gan fod *Dyn yr Eiliad* yn mynd yn groes i'r tueddiad cyffredinol hwn, gan ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn y naratif.


3.2.4 Hyd




Ffigur 17: Hyd – Nofelau Cymraeg




Ffigur 18: Hyd – *Dyn yr Eiliad*



Ffigur 19: Hyd – *Martha Jac a Sianco*



Ffigur 20: Hyd – *Lladd Duw*



Ffigur 21: Hyd – *Y Ddyled*

Gwelir bod y mwyafrif helaeth o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn y nofelau Cymraeg (Ffigur 17) yn gyfnewid mewnfrawddegol (86.3%). O edrych ar hyd yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Dyn yr Eiliad* (Ffigur 18), mae 73.8% ohonynt o hyd un gair a 96.1% yn gyfnewid mewnfrawddegol. Mae'r gyfradd hon yn uchel iawn o'i gymharu â'r nofelau Cymraeg eraill. Mewn astudiaeth flaenorol (Orwig 2015), dadleuwyd bod testunau sy'n defnyddio cyfnewid cod i bortreadu ieithwedd unigolyn yn defnyddio patrwm penodol o gyfnewid cod, sydd i'w weld mewn sawl maes dadansoddi. Mae'r patrwm hwn yn cynnwys: cyfnewid mewnfrawddegol (maes dadansoddi: hyd), a oedd yn rhan o'r naratif (maes dadansoddi: Adran) ac yn perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol' (maes dadansoddi: Ysgogiad/Swyddogaeth). Gwelwyd eisoes fod *Dyn yr Eiliad* yn defnyddio cyfradd uchel o gyfnewid cod yn y naratif o'i gymharu â'r nofelau eraill. Mae'r ffaith bod y gyfradd o gyfnewid mewnfrawddegol yn anghyffredin o uchel yn awgrymu ei fod yn ffitio'r patrwm ar gyfer portreadu ieithwedd unigolyn a welwyd yn Orwig (2015). Cawn weld a yw hyn yn wir yn y man wrth drafod meysydd dadansoddi eraill. Mae'r pedair nofel uchod yn dangos tueddiad i ddefnyddio cyfnewid cod mewnfrawddegol, er nid oll i'r un graddau â *Dyn yr Eiliad*.

Gellid tybio bod y defnydd o gyfnewid mewnfrawddegol yn ffitio'r patrwm a ddisgrifir uchod, sef defnyddio cyfnewid cod er mwyn portreadu ieithwedd cymeriad penodol. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai'r fethodoleg a ddefnyddir yma i ddynodi hyd enghraifft o gyfnewid cod gael effaith ar y canlyniadau. Un posibilrwydd yw bod y ddeialog yn cael ei nodi yma fel 'llai na brawddeg', oherwydd bod yr awdur yn ei nodi fel yr enghraifft isod:

“Yes, thank you ever so much,” medd y wraig.’ (LID 284)

Er mwyn sicrhau nad nodi deialog uniaith Saesneg fel rhan o frawddeg hwy yn y Gymraeg sy'n gyfrifol am y gyfradd uchel o gyfnewid mewnfrawddegol, gellir troi at y meysydd dadansoddi eraill er mwyn gwirio hyn. Er enghraifft, o edrych ar ganlyniadau'r maes dadansoddi 'Dosbarth Gramadegol', byddai nifer uchel o gymalau i'w gweld petai nifer uchel o enghreifftiau o ddeialog fel yr enghraifft uchod o *Lladd Duw*. Ond fel y gwelir yn y tabl sy'n dilyn, dim ond 335 enghraifft o 'cymal' a geir yn y nofelau Cymraeg (6.6%). Wrth edrych ar y Maes Semanteg, gwelir bod 9.2% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn perthyn i'r categori 'sgwrs' (sef sgwrs uniaith Saesneg). Felly, bydd angen edrych ar yr holl feysydd hyn er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfnewid cod i bortreadu ieithwedd unigolyn a chyfnewid cod i bortreadu cymdeithas.

3.2.5 Dosbarth Gramadegol

Ar gyfer y maes dadansoddi Dosbarth Gramadegol, dangosir y data ar ffurf tabl yn hytrach na chreu graff, gan ei fod yn haws ei ddarllen yn y ffurf honno. Amlygir y pum categori sy'n cynnwys y nifer fwyaf o enghreifftiau gyda chelloedd llwyd.

acronym	41	0.8%
adferf	216	4.3%
adferf + adferf	3	0.1%
adferf + cysylltair	1	0.0%
adferf + ebychiad	1	0.0%
ansoddair	725	14.3%
ansoddair + adferf	2	0.0%
ansoddair + ebychiad	1	0.0%
arddodiad	20	0.4%
berf	77	1.5%
berfenw	143	2.8%
berfenw + ebychiad	1	0.0%
brawddeg	620	12.2%
cymal	335	6.6%
cysylltair	47	0.9%
ebychiad	254	5.0%
ebychiad + ansoddair	3	0.1%

ebychiad + enw	1	0.0%
enw	1446	28.5%
enw + adferf	2	0.0%
enw + brawddeg	1	0.0%
enw + cysylltair	1	0.0%
enw + ebychiad	3	0.1%
enw + ymadrodd adferfol	2	0.0%
enw + ymadrodd ansoddeiriol	1	0.0%
rhagenw	4	0.1%
ymadrodd adferfol	85	1.7%
ymadrodd ansoddeiriol	146	2.9%
ymadrodd arddodiadol	2	0.0%
ymadrodd berfol	225	4.4%
ymadrodd berfol + adferf	1	0.0%
ymadrodd berfol + ebychiad	1	0.0%
ymadrodd enwol	657	13.0%

Tabl 32: Dosbarth Gramadegol – Nofelau Cymraeg

O'r tabl uchod, gwelir bod amrywiaeth fawr o ddsbarthiadau gramadegol posib.

Mae mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnwid yn y nofelau Cymraeg yn enwau.

Mae'r patrwm hwn yn cyfateb i awgrym Gardner-Chloros, sef mai enwau yw'r geiriau sydd fwyaf tebygol o gael eu cyfnwid (2009, t.31).

adferf	24	3.4%
ansoddair	167	23.7%
berf	37	5.2%
berfenw	3	0.4%
brawddeg	25	3.5%
cymal	29	4.1%
cysylltair	3	0.4%

ebychiad	29	4.1%
enw	263	37.3%
ymadrodd adferfol	2	0.3%
ymadrodd ansoddeiriol	15	2.1%
ymadrodd berfol	29	4.1%
ymadrodd enwol	79	11.2%

Tabl 33: Dosbarth Gramadegol – *Dyn yr Eiliad*

Gyda *Dyn yr Eiliad*, ceir 263 enghraifft sy'n perthyn i'r categori 'enw' (37.3%), a 167 enghraifft sy'n perthyn i'r categori 'ansoddair' (23.7%).

acronym	3	1.3%
adferf	11	4.9%
ansoddair	16	7.1%
arddodiad	16	7.1%
berf	1	0.4%
brawddeg	67	29.8%
cymal	23	10.2%

ebychiad	6	2.7%
enw	53	23.6%
enw + brawddeg	1	0.4%
ymadrodd adferfol	1	0.4%
ymadrodd berfol	3	1.3%
ymadrodd enwol	24	10.7%

Tabl 34: Dosbarth Gramadegol – *Martha Jac a Sianco*

Yn *Martha Jac a Sianco*, ceir 67 enghraifft o gyfnewid cod sy'n perthyn i'r categori 'brawddeg' (29.8%), a 53 sy'n perthyn i'r categori 'enw' (23.6%).

acronym	26	0.9%
adferf	139	4.9%
adferf + cysylltair	1	0.0%
adferf + ebychiad	1	0.0%
ansoddair	444	15.5%
ansoddair + adferf	1	0.0%
ansoddair + ebychiad	1	0.0%
arddodiad	2	0.1%
berf	22	0.8%
berfenw	107	3.7%
berfenw + ebychiad	1	0.0%
brawddeg	252	8.8%
cymal	120	4.2%
cysylltair	41	1.4%

ebychiad	168	5.9%
ebychiad + ansoddair	3	0.1%
ebychiad + enw	1	0.0%
enw	825	28.8%
enw + cysylltair	1	0.0%
enw + ebychiad	2	0.1%
enw + ymadrodd adferfol	1	0.0%
enw + ymadrodd ansoddeiriol	1	0.0%
ymadrodd adferfol	32	1.1%
ymadrodd ansoddeiriol	90	3.1%
ymadrodd berfol	129	4.5%
ymadrodd berfol + ebychiad	1	0.0%
ymadrodd enwol	450	15.7%

Tabl 35: Dosbarth Gramadegol – *Lladd Duw*

Mae'n amlwg o'r tabl uchod bod llawer mwy o amrywiaeth yn y gwahanol

Ddosbarthiadau Gramadegol yn *Lladd Duw* o'i gymharu â *Martha Jac a Sianco*, er enghraifft. Eto i gyd, sylwer bod yma debygrwydd, gyda 825 enghraifft yn enw (28.8%), 450 yn ymadrodd enwol (15.7%) a 444 yn ansoddair (15.5%).

acronym	12	0.9%
adferf	42	3.3%
adferf + adferf	3	0.2%
ansoddair	98	7.7%
ansoddair + adferf	1	0.1%
arddodiad	2	0.2%
berf	17	1.3%
berfenw	33	2.6%
brawddeg	276	21.6%
cymal	163	12.8%
cysylltair	3	0.2%
ebychiad	51	4.0%

enw	305	23.9%
enw + adferf	2	0.2%
enw + ebychiad	1	0.1%
enw + ymadrodd adferfol	1	0.1%
rhagenw	4	0.3%
ymadrodd adferfol	50	3.9%
ymadrodd ansoddeiriol	41	3.2%
ymadrodd arddodiadol	2	0.2%
ymadrodd berfol	64	5.0%
ymadrodd berfol + adferf	1	0.1%
ymadrodd enwol	104	8.2%

Tabl 36: Dosbarth Gramadegol – *Y Ddyled*

Yn debyg i *Lladd Duw*, gwelir bod yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn perthyn i


ystod eang o Ddosbarthiadau Gramadegol yn *Y Ddyled*. 'Enw' sydd â'r mwyaf

o enghreifftiau (305 enghraifft; 23.9%) a 'brawddeg' (276 enghraifft; 21.6%) yn ail iddo.

O'r tablau uchod, gellir gweld bod pob nofel yn cynnwys nifer uchel o enghreifftiau sy'n ansoddeiriau, enwau ac ymadroddion enwol. O amrywiaeth y categorïau yn y nofelau, gwelir y gellir defnyddio cyfnewid cod syml (megis *Dyn yr Eiliad* a *Martha Jac a Sianco*) neu fwy cymhleth (megis *Lladd Duw*). Er bod rhai nofelau'n defnyddio llai o amrywiaeth o Ddosbarthiadau Gramadegol, maent yn fwy cymhleth na'r patrwm a awgrymir gan Joshi (1985) sy'n awgrymu mai dim ond 'closed-class items' y gellir eu cyfnewid. Felly, ymddengys fod Gardner-Chloros yn gywir yn ei honiad bod modd cyfnewid pob gair, o leiaf mewn theori, er mai enw yw'r eitem sydd fwyaf tebygol o gael ei gyfnewid (2009, t.31).


3.2.6 Maes Semanteg

Ar gyfer y graffiau isod, er mwyn eu gwneud yn haws eu darllen, dangosir yr 19 categori â'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod, gan grwpio'r categorïau eraill at ei gilydd yn yr ugeinfed golofn ar y graff ('eraill'). Gellir gweld yr wybodaeth gyfan ar gyfer pob categori Maes Semanteg yn Atodiad IV (t.467).



Ffigur 22: Maes Semanteg – Nofelau Cymraeg


Gwelir mai'r tri chategori gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yn y nofelau Cymraeg yw: term Saesneg (994 enghraifft; 19.6%); rheg (872 enghraifft; 17.2%); ac amwys (508 enghraifft; 10%).¹⁹¹



Ffigur 23: Maes Semanteg – *Dyn yr Eiliad*


Mae 294 enghraifft (41.7%) yn perthyn i 'term Saesneg' yn *Dyn yr Eiliad*. Mae'r gyfradd hon yn uchel iawn. Fodd bynnag, mae hyn oherwydd arddull arbennig Owen Martell, neu arddull y cymeriad Daniel, fel 'awdur' y nofel. Fel y dywed Kate Crockett amdano, 'mae'n creu'r argraff rywsut nad oes yna air Cymraeg all ddisgrifio yn union yr hyn sydd ganddo dan sylw' (2003/4, t.71), a'r geiriau anodd-eu-cyfieithu hyn sy'n ffurfio'r categori 'term Saesneg'. Er enghraifft, gweler yr enghraifft ganlynol: 'dechrau siarad, mynd i gael diod, a, gyda forthrightness cymharol annodweddiadol, wedi trefnu cwrdd â hi un noson ar ddiwedd yr wythnos' (DyE 255). Mae hyn yn enghraifft o sut y gall arddull arbennig awdur gael effaith fawr ar y math o gyfnewid cod sy'n cael ei ddefnyddio yn y testun.

¹⁹¹ Gweler diffiniadau'r categorïau Maes Semanteg yn y bennod ar fethodoleg (t.88).



Ffigur 24: Maes Semanteg – *Martha Jac a Sianco*


Yn *Martha Jac a Sianco*, ceir 94 enghraifft (41.8%) o gyfnewid cod sy'n perthyn i'r categori 'sgwrs' (sef sgwrs uniaith Saesneg). Dyma ddangos effaith y cymeriad Judy, nad yw'n siarad Cymraeg, gan droi sgwrs rhyngddi â'r cymeriadau eraill i'r Saesneg. Mae'r ffaith bod mwyafrif yr enghreifftiau yn perthyn i'r categori 'sgwrs' yn awgrymu bod *Martha Jac a Sianco* yn defnyddio cyfnewid cod er mwyn portreadu arferion ieithyddol cymdeithas. Y categori nesaf ato o ran nifer enghreifftiau yw 'rheg', gyda 29 enghraifft (12.9%).



Ffigur 25: Maes Semanteg – *Lladd Duw*

Mae rhegfeydd Saesneg yn cael effaith fawr ar gyfnewid cod yn *Lladd Duw*, gyda 685 enghraifft (23.9%). Ceir 562 enghraifft sy'n perthyn i'r categori 'term Saesneg' (19.6%). Mae'n amlwg nad oes llawer o gymeriadau yn y nofel nad

ydynt yn medru'r Gymraeg, gan mai dim ond 129 o'r enghreifftiau sy'n perthyn i'r categori 'sgwrs' (4.5%), er bod sawl cymeriad ymylol di-Gymraeg, megis y gangsters Serbaidd o Lundain.



Ffigur 26: Maes Semanteg – Y Ddyled

Yn Y Ddyled, mae 335 enghraifft (26.3%) yn perthyn i'r categori 'amwys'; mae hyn oherwydd bod Idris yn defnyddio cyfnewid cod mewn ffordd arbennig iawn, gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion nad ydynt yn perthyn i unrhyw Faes Semanteg arbennig. Mae 232 enghraifft (18.2%) yn perthyn i'r categori 'sgwrs'.

O'r isadran hon, gwelir bod patrwm amrywiol i'w gael yn y nofelau, ond bod rhai meysydd sy'n ymddangos ym mhob nofel. Yn y tabl isod, dangosir y categorïau hyn, ynghyd â'r nifer o enghreifftiau sy'n ymddangos yn y nofelau Cymraeg.


Maent mewn trefn o'r uchaf i'r isaf o ran nifer enghreifftiau.

term Saesneg	994	bwyd	47
rheg	872	chwarae â geiriau	42
amwys	508	dyfynnu	41
sgwrs	469	dillad	33
ymadrodd gosod	348	gwallt	27
llysenw	180	dywediad Saesneg	27
rhifo	114	lle	21
sefydliad llywodraethol	108	cerddoriaeth	16
technoleg	103	iechyd	13
modur	93	natur	12

Tabl 37: Maes Semanteg – Categoriâu Cyffredin


Felly, er bod Maes Semanteg yn faes sy'n llawn amrywiaeth, mae yna rai categorïau – megis term Saesneg, rheg, amwys, neu ymadrodd gosod – sydd yn fwy tebygol o ysgogi cyfnewid cod gan eu bod yn ymddangos ym mhob un o'r pedair nofel Gymraeg.

3.2.7 Ysgogiad/Swyddogaeth




Ffigur 27: Ysgogiad/Swyddogaeth – Nofelau Cymraeg

Mae dros hanner yr enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n ymddangos yn y nofelau Cymraeg yn perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol' (2924 enghraifft), a 25.8% yn perthyn i 'Creu effaith arbennig' (1309 enghraifft).




Ffigur 28: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Dyn yr Eiliad*

Mae 76.6% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Dyn yr Eiliad* yn perthyn i 'Bwlch geirfaol', a 15.7% yn perthyn i 'Creu effaith arbennig'. Mae'r tueddiad hwn yn gyson â'r hyn a drafodwyd eisoes, sef mai portreadu ieithwedd unigolyn y mae *Dyn yr Eiliad*, gan ei fod yn ffafrio cyfnewid mewnfrawddegol, gyda mwyafrif yr enghreifftiau'n ymddangos yn y naratif, ac yn perthyn i'r categori Ysgogiad/Swyddogaeth 'Bwlch geirfaol'.




Ffigur 29: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Martha Jac a Sianco*

Gwelir fod 101 enghraifft (44.9%) yn perthyn i'r categori 'Dyfyniad' yn *Martha Jac a Sianco*. Mae hyn yn cynnwys yr enghreifftiau o sgwrs uniaith Saesneg, sydd eto'n dangos bod y nofel yn defnyddio cyfnewid cod er mwyn portreadu ieithwedd cymdeithas yn hytrach na phortreadu unigolyn. Mae 83 enghraifft (36.9%) yn perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol'.



Ffigur 30: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Lladd Duw*

Yn *Lladd Duw*, mae 60.1% o'r enghreifftiau yn perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol', 23.7% i 'Creu effaith arbennig' a 16.5% i 'Ailadrodd/egluro/pwyslais'.



Ffigur 31: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Y Ddyled*


Mae 45.5% o'r enghreifftiau yn *Y Ddyled* yn perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol', a 37.6% yn perthyn i 'Creu effaith arbennig'. Mae'r ieithwedd arbennig sy'n rhan o gymeriadu Idris yn perthyn i'r categori 'Creu effaith arbennig'.

Gwelir bod mwyafrif y nofelau yn cynnwys nifer o enghreifftiau sy'n perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol' (sef geiriau neu ymadroddion sy'n anodd eu cyfieithu), a 'Creu effaith arbennig' (sy'n cynnwys defnyddio cyfnewid cod er mwyn cymeriadu). Gwelir bod canlyniadau'r maes dadansoddi hwn yn cyd-fynd â'r patrymau o gyfnewid cod a awgrymwyd yn Orwig (2015, tt.170–1). Mae *Dyn yr Eiliad* yn defnyddio cyfradd uchel iawn o enghreifftiau sy'n perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol', sy'n cyd-fynd â phatrwm defnydd cyfnewid cod er mwyn portreadu ieithwedd unigolyn. Gwelir bod *Martha Jac a Sianco* yn cyd-fynd â

phatrwm defnydd cyfnewid cod er mwyn portreadu ieithwedd cymdeithas, gan fod y nofel yn cynnwys llawer o enghreifftiau sy'n perthyn i'r categori 'Dyfyniad'.


3.2.8 Deialog Cymeriadau

Eto, dyma faes dadansoddi nad oes modd ei ddwyn at ei gilydd i greu graff sy'n rhoi trosolwg o'r pedair nofel Gymraeg. Yn amlwg, nid yr un cymeriadau sy'n ymddangos yn y pedair nofel, felly nid oes modd dangos y data ar yr un graff. Trafodir y nofelau yn eu tro isod, gan gynnwys graffiau.



Ffigur 32: Deialog Cymeriadau – *Dyn yr Eiliad*

Wrth edrych ar sut mae cymeriadau *Dyn yr Eiliad* yn defnyddio cyfnewid cod fel rhan o'r ddeialog, mae'r canlyniad ychydig yn annisgwyl. Cymeriad Anna sy'n defnyddio mwyafrif yr enghreifftiau hyn – 53 enghraifft, neu 59% o'r holl enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n digwydd o fewn deialog cymeriad. Fodd bynnag, nid oes llawer o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y ddeialog yn gyffredinol – mae 12.6% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn y nofel yn ymddangos mewn deialog. O ystyried bod cymaint o gyfnewid cod yn y naratif, sy'n cael ei ' greu' gan Daniel (fel 'awdur'), roedd hi'n annisgwyl gweld nad oedd y cymeriad hwn yn defnyddio mwy o gyfnewid cod mewn deialog na'r cymeriadau eraill. Fodd bynnag, fel y dywed Crockett (2003/4, t.71), y naratif yw ffocws y nofel, felly nid oes llawer o ddeialog ynddi yn gyffredinol, ac mae'n debyg bod Daniel yn cofnodi deialog cymeriadau eraill yn fwy na'i ddeialog ef ei hun.




Ffigur 33: Deialog Cymeriadau – *Martha Jac a Sianco*

Jac yw'r cymeriad sydd â'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod yn ei ddeialog, gyda Judy'n ail iddo, a Martha'n drydydd â 37 enghraifft. Nid yw'n syndod bod deialog y cymeriad Judy yn cynnwys nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod – fel cymeriad nad yw'n medru'r Gymraeg, mae'r holl enghreifftiau o ddeialog Judy yn uniaith Saesneg. Hyd yn oed cyn cwblhau'r gwaith dadansoddi, ac ystyried y nofel yn argraffiadol yn unig, roedd hi'n amlwg bod cymeriadau Jac a Martha yn cyfnewid cod mewn ffyrdd gwahanol. Yn wir, byddwn wedi disgwyl y byddai Jac yn cyfnewid cod llawer mwy na Martha. Edrychwyd yn fwy manwl ar y cyfnewid er mwyn archwilio'r gwahaniaeth hwn.

Wrth graffu'n agosach, a chroesgyfeirio â meysydd dadansoddi eraill, gellir gweld bod deialog Jac yn defnyddio mwy o enghreifftiau mewnfrawddegol (50 o 57 enghraifft), tra bo Martha'n defnyddio mwy o gyfnewid rhyngfrawddegol (27 o 37 enghraifft). Wrth edrych ar y Maes Semanteg, gwelir bod mwyafrif enghreifftiau Martha yn perthyn i'r categori 'sgwrs', ond mai lleiafrif o enghreifftiau Jac sy'n perthyn i'r categori hwn.¹⁹² Mae hyn yn dangos bod cymeriad Martha yn defnyddio'r Saesneg er mwyn cyfathrebu â chymeriad nad yw'n medru'r Gymraeg. Ond rhan o idiolect arbennig Jac yn y Gymraeg yw'r cyfnewid cod, yn hytrach na'i fod yn troi'n hollol at y Saesneg er mwyn


¹⁹² Martha – 31 o 37 enghraifft. Jac – 8 o 57 enghraifft.

cyfathrebu â Judy. Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng cyfnewid cod Jac a Martha yn arwyddocaol. Fel cymeriadau sy'n dod o'r un lle, ac yn wir, yn rhannu'r un fagwraeth, o safbwynt sosioieithyddol byddem yn disgwyl iddynt rannu'r un ieithwedd. Ond nid dyma sydd i'w weld yn y dadansoddiad o'u cyfnewid cod. Nodwedd arall yw'r ffaith fod Jac yn rhegi llawer mwy na Martha. Awgryma hyn fod yr awdur yn defnyddio ieithwedd (sy'n cynnwys cyfnewid cod) er mwyn cymeriadu. Gwelir felly sut y gall awdur chwarae â chyfnewid cod – heb geisio adlewyrchu realiti – er mwyn cymeriadu.



Ffigur 34: Deialog Cymeriadau – *Lladd Duw*

Yn *Lladd Duw*, Jojo sy'n defnyddio'r mwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod fel rhan o'i ddeialog (604 enghraifft), gyda Didi yn ail iddo (513 enghraifft). Nedw sy'n dod wedyn (298 enghraifft), sydd i'w ddisgwyl gan ei fod yn fwy canolog i'r stori ac yn ymddangos drwy'r holl nofel.



Ffigur 35: Deialog Cymeriadau – *Y Ddyled*


Gwahaniaethwyd rhwng cymeriadau *Y Ddyled* fel plant ac fel oedolion er mwyn gweld a oedd gwahaniaeth yn eu hidiolectau. Idris yw'r cymeriad sy'n defnyddio'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau o gyfnewid cod, fel bachgen (431 enghraifft) ac fel oedolyn (178 enghraifft). Diddorol gweld bod amrywiaeth rhwng y gwahanol oedrannau, er bod angen nodi nad yw Idris fel oedolyn yn ymddangos tan bennod 9.

Wrth archwilio'r defnydd o gyfnewid cod mewn deialog cymeriadau, gwelir bod yr awduron yn amrywio'r cyfnewid cod er mwyn cymeriadu – er bod hyn yn dibynnu ar yr awdur. Nodir bod y ffaith nad yw pob cymeriad yn ymddangos drwy gydol pob nofel yn gallu cael effaith ar y data; y cymeriadau canolog sy'n fwy tebygol o roi'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod, yn rhinwedd y ffaith bod mwy o ddeialog ganddynt o'i gymharu â chymeriadau mwy ymylol. Er enghraifft, gwelwyd nad oedd Idris yr oedolyn yn ymddangos tan bron i hanner ffordd drwy *Y Ddyled* – gellid disgwyl y byddai'r nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod ganddo yn llawer uwch petasai'n ymddangos drwy'r nofel gyfan. Yn naturiol mewn nofel, mae rhai cymeriadau sy'n fwy canolog i'r stori nag eraill. Yn ddelfrydol, byddai ffordd o normaleiddio'r data er mwyn cydbwysu cymeriadau ymylol a chymeriadau canolog, fel y byddai modd dangos bod cymeriad yn defnyddio cyfradd uchel o gyfnewid cod er nad oes llawer o ddeialog ganddo/i yn y nofel. Ond nid yw'n glir sut y byddai gwneud hyn. Sut y byddai normaleiddio ar gyfer cymeriad sy'n ganolog i'r stori ond sydd heb lawer o ddeialog, megis Daniel yn *Dyn yr Eiliad*? Beth am gymeriadau sy'n medru'r Gymraeg ond sy'n cael eu dangos yn troi at y Saesneg fwy na heb, er mwyn cyfathrebu â chymeriadau di-Gymraeg? A'r cymeriadau di-Gymraeg eu hunain? Nid oes ateb hawdd i hyn, ac mae'n aneglur pa wybodaeth bellach y byddem yn ei gael o normaleiddio'r data. Yn ogystal, byddai'r normaleiddio hwn yn

anwybyddu beth a allai fod yn ddewis bwriadol ar ran yr awdur. Gellid penderfynu peidio â chynnwys cymeriad sy'n defnyddio llawer iawn o Saesneg yn ei ddeialog drwy'r nofel, am amryw o resymau – er mwyn defnyddio mwy o Gymraeg safonol yn y nofel, neu er mwyn rhoi mwy o effaith i idiolect y cymeriad. Oherwydd y rhesymau hyn, penderfynwyd nad oedd angen normaleiddio'r data ar gyfer deialog cymeriadau, er y cydnabyddir y gellid dadlau bod lle i wneud hyn.

3.2.9 Nodweddion Gramadegol


Er mwyn craffu'n agosach ar ramadeg cyfnewid cod, byddwn yn archwilio rhai o nodweddion gramadegol arbennig y Gymraeg a sut y maent yn cael eu defnyddio gyda chyfnewid cod. Mae tair elfen i'w harchwilio: y fannod, cenedl enwau, a threiglo. Isod, gwelir y tueddiadau yn y nofelau Cymraeg gyda'i gilydd. Cofier nad yw pob enghraifft o gyfnewid cod yn berthnasol i'r graffiau isod.¹⁹³



Ffigur 36: Nodweddion Gramadegol – Nofelau Cymraeg


¹⁹³ Enwau yn unig sy'n berthnasol i'r graff 'Y Fannod' a 'Cenedl', a geiriau sydd mewn sefyllfa i dreiglo sy'n berthnasol i 'Treiglo'. Cyfeirir at y bennod Methodoleg am wybodaeth bellach.

Wrth edrych ar y defnydd o'r fannod Gymraeg, fe'i defnyddir gyda 31.7% o'r enwau, a dim ond un enghraifft sydd o beidio â defnyddio'r fannod pan fyddai disgwyl ei defnyddio – pan mae Didi yn sôn am 'stics' yn hytrach nag 'y stics', sef rhywle yng nghanol nunlle (LID 93). Gyda chenedl enwau, mae'r rhan fwyaf o enghreifftiau heb farcio cenedl (64.4%), 30.1% wedi eu marcio'n lluosog, 5.1% wedi'u marcio'n wrywaidd a 0.4% wedi'u marcio'n fenywaidd. Mae hyn yn isel o'i gymharu â chyfradd cenedl enwau Cymraeg: yng nghorpws CEG, mae tua 64% o enwau yn wrywaidd, 30% yn fenywaidd, a 6% yn amhenodol (Hammond 2016, t.233). Felly, awgryma hyn fod y gyfradd cenedl enwau yn dilyn tuedd y Gymraeg (h.y. bod rhai enwau benywaidd, ond mwy o enwau gwrywaidd), er ein bod yn gweld cyfradd isel iawn o enwau benywaidd o'i gymharu â'r corpws CEG. Y tuedd mwyaf cyffredin yw peidio â nodi cenedl enw wrth gyfnewid cod. Efallai, wrth i'r geiriau hyn symud o fod yn gyfnewid cod i fod yn eiriau benthyg, y bydd defnyddio cenedl ar eu cyfer yn dod yn fwy cyffredin, ac y byddwn yn gweld y gyfradd o enwau gwrywaidd/benywaidd yn symud i adlewyrchu'r gyfradd yn y Gymraeg. Gwelir bod pob un o'r tri threigladd Cymraeg yn bresennol yn y corpws, ond y treigladd meddal sydd yn ymddangos fwyaf (59 enghraifft; 19.2%), sydd yn cyd-fynd â phatrwm treiglo yn yr iaith Gymraeg, er mai'r norm yw torri'r rheol dreiglo (241 enghraifft; 78.2%).



Ffigur 37: Nodweddion Gramadegol – *Dyn yr Eiliad*


Trown at nodweddion gramadegol y cyfnewid cod yn *Dyn yr Eiliad*. Mae modd defnyddio'r fannod Gymraeg gydag enwau Saesneg, er nad yw'r enghreifftiau hyn yn niferus iawn (32.4% o enwau'n defnyddio'r fannod). Nid oes enghraifft o enw'n cael ei farcio'n fenywaidd, ond mae 33 enghraifft o enw'n cael ei farcio'n wrywaidd. Dim ond y treigladd meddal a welir yn y nofel hon, a dim ond dwy enghraifft o hyn hefyd. Ceir ychydig o dorri rheolau treiglo'r Gymraeg, (74 enghraifft, neu 97.4%), er mai dim ond 76 enghraifft o eiriau y byddai angen eu treiglo oedd yn y nofel, neu 11% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn y nofel gyfan.



Ffigur 38: Nodweddion Gramadegol – *Martha Jac a Sianco*

O edrych ar *Martha Jac a Sianco*, rhagflaenir 51.9% o'r enwau gan y fannod Gymraeg, sy'n uwch na'r pedair nofel arall. Mae hyn yn dangos bod yr enwau sy'n deillio o gyfnewid cod wedi'u hintegreiddio'n dda i gystrawen y Gymraeg. Gyda chenedl enwau, dim ond un enghraifft sydd o farcio enw'n fenywaidd, 3 yn wrywaidd, 21 yn lluosog a 51 heb eu marcio. Wrth gyfeirio at y cerbyd '4x4', defnyddir 'ei benthycyca',¹⁹⁴ gan dreiglo yn dilyn y rhagenw benywaidd unigol. Ceir wyth enghraifft arall o'r enw '4x4', ond nid yw'r rhain wedi'u marcio â chenedl. Dim ond pum enghraifft a geir o air sydd mewn sefyllfa a fyddai'n ysgogi treiglo; mae un yn treiglo'n feddal, tra bo'r pedair enghraifft arall yn torri'r rheol. Yn wahanol i'r fannod, dyma arwydd *nad* yw'r cyfenwid cod wedi'i integreiddio i'r Gymraeg i raddau fel bod modd eu treiglo.

¹⁹⁴ 'Doedd Judy ddim wedi dod â'r 4x4 yn ôl ers iddi ei benthycyca a doedd dim sôn amdani ers strôc Jac' (MJS 162).




Ffigur 39: Nodweddion Gramadegol – *Lladd Duw*

Yn *Lladd Duw*, mae 31.3% o enwau yn defnyddio'r fannod Gymraeg. Dim ond 5.6% o'r enwau sydd wedi'u marcio'n wrywaidd (5%) neu'n fenywaidd (0.6%). Yn ddiddorol, ceir ychydig o anghysondeb wrth graffu ar genedl enwau. Mae'r ymadrodd 'warrior princess' yn cael ei ddilyn gan 'bach' yn hytrach na 'fach',¹⁹⁵ sy'n awgrymu mai enw gwrywaidd sydd dan sylw.¹⁹⁶ Ceir hefyd anghysondeb gyda'r gair 'tôc';¹⁹⁷ mae un enghraifft heb ei farcio, un wedi'i farcio'n fenywaidd, a dwy enghraifft wedi'u marcio fel gwrywaidd. Mae anghysondeb cenedl yr enw hwn yn awgrymu nad yw wedi'i integreiddio i'r iaith Gymraeg eto; wrth iddo gael ei integreiddio'n well, dylai cenedl yr enw sefydlogi. Wrth edrych ar y defnydd o dreiglo, mae 43 enghraifft o'r treigladd meddal, a dim ond un enghraifft o dreigladd llaes, a 73.5% yn torri'r rheol dreiglo.

¹⁹⁵ 'dau ddyn diarth efo Cockney accents yn yfed efo'n warrior princess bach ni yn y Bryn nos Sul dwytha' (LID 319).

¹⁹⁶ Er bod y diffyg treigladd yma yn arwydd mai enw gwrywaidd sydd dan sylw, nodir y gallai hyn fod yn nodwedd dafodieithol. Er enghraifft, mae Thomas a Gathercole yn awgrymu bod yr ansoddair 'bach' yn gwrthsefyll treiglo mewn tafodieithoedd yng ngogledd Cymru (2005, t.2237). Er hyn, nodir yr enghraifft yma fel arwydd o enw gwrywaidd, er mwyn cadw methodoleg y traethawd yn gyson.

¹⁹⁷ Er enghraifft, 'Difarodd gymryd y tôc bach hwnnw o'r sgync gafodd Didi gan Nedw' (LID134).



Ffigur 40: Nodweddion Gramadegol – Y Ddyled

Yn *Y Ddyled*, mae 28.6% o'r enwau sy'n gyfnewid cod yn defnyddio'r fannod Gymraeg. Gan amlaf, mae'r awdur yn osgoi marcio cenedl enwau, ond mae 1.6% yn cael eu marcio fel rhai gwrywaidd. Ceir enghreifftiau o'r tri threigladd yn bresennol yn y nofel hon, yn wahanol i'r nofelau eraill, gyda 13 enghraifft o'r treigladd meddal, 5 enghraifft o'r treigladd trwynol, 2 enghraifft o'r treigladd llaes, a 41 enghraifft o dorri rheol treiglo. Mae'r ffaith bod mwy o enghreifftiau o'r treigladd meddal na'r treigladd llaes a thrwynol yn adlewyrchu tueddiadau'r Gymraeg yn gyffredinol, gan fod y treigladd meddal yn effeithio ar fwy o llythrennau,¹⁹⁸ a bod mwy o reolau gramadegol yn ysgogi'r treigladd meddal.

Gwelir bod y defnydd o nodweddion gramadegol y Gymraeg yn amrywio yn ôl awdur, ond bod modd defnyddio rheolau gramadegol y Gymraeg ar enghreifftiau o gyfnewid cod. Mae modd treiglo a rhoi cenedl i gyfnewid cod, ond mae anghysondeb yn hyn o beth, a'r tueddiad yw torri'r rheol dreiglo ac

¹⁹⁸ Mae'r treigladdau yn effeithio ar y llythrennau isod:
 Meddal: P, T, C, B, D, G, LI, Rh, M
 Trwynol: P, T, C, B, D, G
 Llaes: P, T, C

osgoi marcio cenedl. Awgrymir, felly, er bod arwyddion o integreiddiad cyfnewid cod i'r iaith Gymraeg, nad yw eto'n integreiddiad llawn.

3.3 Casgliadau

Wrth edrych ar y nofelau Cymraeg, gwelir y ddau batrwm defnydd o gyfnewid cod a awgrymwyd yn Orwig (2015, tt.170–1). Mae *Dyn yr Eiliad* yn ffitio'r patrwm defnydd ar gyfer testunau sy'n adlewyrchu ieithwedd unigolyn: ceir cyfnewid mewnfrawddegol, gyda chyfradd uchel o enghreifftiau'n rhan o'r naratif, ac yn perthyn i'r categori Ysgogiad/Swyddogaeth 'Bwlch geirfaol'. Mae *Martha Jac a Sianco* yn cyd-fynd â'r patrwm defnydd ar gyfer testunau sy'n adlewyrchu ieithwedd cymdeithas: mae cyfradd uchel o enghreifftiau yn y ddeialog, sy'n perthyn i'r categori Ysgogiad/Swyddogaeth 'Dyfyniad' ac i'r categori Maes Semanteg 'sgwrs'.¹⁹⁹ Mae'r nofelau *Lladd Duw* ac *Y Ddyled* yn syrthio rhwng dwy stôl, gan nad ydynt yn dangos tueddiadau mor gryf â *Dyn yr Eiliad* a *Martha Jac a Sianco*.

Gwelir bod tair o'r pedair nofel yn defnyddio cyfradd debyg iawn o gyfnewid mewnfrawddegol (tua tri chwarter) a rhyngfrawddegol (tua chwarter), a oedd yn annisgwyl. Diddorol fydd gweld ai cyd-ddigwyddiad yw hynny, neu a fydd patrwm tebyg yn cael ei amlygu yn nhestunau eraill y corpws. Wrth edrych ar Dosbarth Gramadegol, mae pob nofel yn cynnwys cyfradd uchel o enwau, ansoddeiriau ac ymadroddion enwol, ac mae amrywiaeth eang o gategoriâu mewn sawl nofel. Mae hyn yn dangos bod awgrym Gardner-Chloros (2009) yn gywir, mai enwau sydd fwyaf tebygol o gael eu cyfnewid, ond bod modd cyfnewid unrhyw air. Mae amrywiaeth eang iawn o gategoriâu ar gyfer y maes dadansoddi Maes Semanteg, ond mae rhai categorïau, megis 'term Saesneg',

¹⁹⁹ Yn Orwig (2015, t.171) nodir y gallai nofelau sy'n adlewyrchu ieithwedd cymdeithas ddefnyddio mwy o gyfnewid rhyngfrawddegol, ond nad yw pob nofel yn defnyddio'r patrwm hwn.

'rheg' ac 'ymadrodd gosod' yn fwy tebygol o ysgogi cyfnewid cod. Wrth edrych ar Ysgogiad/Swyddogaeth, mae nifer fawr o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol'.

Dadleuir bod arwyddion o integreiddiad i'w gweld wrth edrych ar Nodweddion Gramadegol, oherwydd y gwelir nodweddion o ramadeg y Gymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfnewid cod. Gwelir y fannod Gymraeg yn cael ei defnyddio gydag enwau Saesneg, cenedl yn cael ei roi i enwau Saesneg, a geiriau Saesneg yn cael eu treiglo. Fodd bynnag, nid yw defnydd y rheolau hyn yn gyson; y tueddiad mwyaf yw osgoi defnyddio cenedl neu'r fannod, a thorri rheolau treiglo. Os bydd integreiddiad pellach, mae'n debygol y gwelwn y rheolau hyn yn cael eu defnyddio'n fwy cyson.

4: Y Nofelau Ffrangeg

4.1 Crynodeb

***Volkswagen Blues* (1984) Jacques Poulin**

Yn y nofel hon, cawn hanes Jack Waterman sy'n teithio ar draws Gogledd

America er mwyn chwilio am ei frawd. Ar ddechrau'r siwrnai, mae'n cyfarfod â merch *Métisse*,²⁰⁰ la Grande Sauterelle, sy'n penderfynu teithio gydag ef.

Maent yn teithio o Gaspé, Québec i San Francisco, gan ymweld â nifer o

ddinasoedd a thrafod hanes y cyfandir ar y daith. Cymherir y nofel yn aml ag

On the Road gan Jack Kerouac, er nad yw'r awdur ei hun yn gweld tebygrwydd rhyngddynt (Côté 1999, t.86).

Cymeriadau

Jack Waterman	Awdur o ddinas Québec sy'n penderfynu teithio'r UDA i chwilio am ei frawd, Théo, nad yw wedi'i weld ers dros bymtheg mlynedd. Mae Jack newydd droi'n 40 mlwydd oed ar ddechrau'r nofel.
la Grande Sauterelle / Pitsémine ²⁰¹	Mae hi'n bodio pan yw Jack yn ei chyfarfod. Mae ganddi gath sy'n ei dilyn i bob man. Mae hi'n gwybod llawer am hanes y Cenhedloedd Brodorol a dyfodiad y dynion gwyn i America. Mae ei hunaniaeth yn gymhleth, fel Métisse – mae ei thad yn ddyn gwyn, a'i mam yn <i>Montagnaise</i> , Cenedl Frodorol o ardal yn Québec (VB 28-9) – ac mae hi'n trafod y cymhlethdod hwn yn ystod y nofel.

Tabl 38: Cymeriadau *Volkswagen Blues*

Oherwydd bod y ddau gymeriad yn teithio ar draws yr Unol Daleithiau, nid yw'r cymeriadau y maent yn eu cyfarfod yn ymddangos mewn mwy nag un bennod.

Cyfarfyddwn â nifer fawr o gymeriadau, nifer yn uniaith Saesneg, ond sawl un yn medru'r Ffrangeg – er ei bod hi'n amlwg yn ail iaith iddynt, a'r awdur yn

defnyddio cyfnewid cod er mwyn cymeriadau yn hyn o beth. Disgrifir Ffrangeg

²⁰⁰ Hil gymysg *First Nations* a Chawcasiad.

²⁰¹ Diffinir 'sauterelle' fel 'menyw neu ferch esgyrnog' (Larousse d.d.) – ystyr 'la Grande Sauterelle', felly, yw 'y ferch dal esgyrnog'. Ei henw yn yr iaith montagnais yw 'Pitsémine' (VB 42). Mae'n ddiddorol nad 'Jack Waterman' yw enw iawn y prif gymeriad, chwaith, ond enw a roddwyd iddo gan ei frawd Théo (VB 42). Mae'n arwyddocaol bod y ddau yn defnyddio ffugenwau. Ceir trafodaeth ar arwyddocâd newid enwau yn ddiweddarach yn y traethawd (10: Theori lenyddol).

un o'r cymeriadau hyn fel a ganlyn: 'son français était correct, mais il hésitait parfois, au milieu d'une phrase, comme s'il préparait dans sa tête les mots dont il allait se servir' (VB 250).²⁰² Mae'r vagabond yn ei ddisgrifio ei hun gan ddefnyddio geiriau Saesneg: 'je suis un *rambler*, et vous pouvez même dire que je suis un *tramp*, dit-il, mais je ne suis pas un *bum*' (VB 260).²⁰³

***Bloupe* (1993) Jean Babineau**

Mae'r nofel hon, a ddisgrifir fel '[un] roman "chiac" où s'exhibe une écriture éclatée et "postmoderne"' (Bruce 2007, t.29),²⁰⁴ yn nofel swreal iawn. Mae'r nofel yn plethu agweddau mwy realistig (mae'r prif gymeriad, Bloop, yn bostmon sydd â diddordeb mewn ysgrifennu ac yn dad i ddau o blant) gyda'r swreal, golygfeydd ffantasi a breuddwydion. Mae darllen y nofel hon yn brofiad arbennig, fel petai'r naratif ar wasgar, heb linydd storïol penodol na syniad pendant o gronoleg. Mae'r arddull hon yn ansefydlogi'r darlennydd; drwy gyd-blethu elfennau realaidd a swrealiaidd, heb gysyniad pendant o amser na phlot i'w dilyn, rhaid darllen yn ofalus er mwyn ceisio dilyn y nofel. Ceir trafodaeth ar ddefnyddio arddulliau sy'n ansefydlogi'r darlennydd yn ddiweddarach yn y traethawd (t.414).

Cymeriadau

Itso Snitso Bloop	Dyn sy'n gweithio i'r Canada Post, a chanddo ddiddordeb mawr mewn ysgrifennu ac addysg.
Ara Ella	Gwraig Bloop.
Dive Bouteille	Merch Ara a Bloop; nid bod dynol yw hi, ond potel.
Tilleul	Mab Ara a Bloop.
Hilda	Ffrind Dive.
A.L.	Pennaeth Bloop yn y gwaith.

Tabl 39: Cymeriadau *Bloupe*

²⁰² 'Roedd ei Ffrangeg yn gywir, ond roedd yn petruso weithiau, ar ganol brawddeg, fel petai'n paratoi yn ei ben y geiriau yr oedd am eu defnyddio'.

²⁰³ Dwi'n *rambler*, a gallech chi hyd yn oed ddweud fy mod i'n *tramp*, meddai, ond dydw i ddim yn *bum*'.

²⁰⁴ 'nofel *chiac* sy'n arddangos ysgrifennu toredig ac ôl-fodernaidd'.

Ceir hefyd nifer o gymeriadau ymylol, megis gyrrwr tacsî, cyfreithiwr, ceiropractydd a Siôn Corn, nad ydynt ond yn ymddangos mewn darnau byr o'r nofel.

***Xman est back en Huronie* (2011) Joëlle Roy**

Nofel sy'n trafod y profiad o fod yn *franco-ontarien* yn ardal Huronie. Bwriad yr awdur oedd defnyddio stori Xman i archwilio *francophonie*²⁰⁵ cenhedlaeth newydd o Ontariens, a beth y mae'r *francophonie* hwn yn ei olygu heddiw (Lessard 2011). Cyfeirir at y nofel hon fel 'Xman'.

Cymeriadau

Xman (Xavier)	Dyn ifanc 27 mlwydd oed sydd wedi symud yn ôl i Huronie o Toronto er mwyn dechrau swydd ac agor amgueddfa newydd <i>francophonie</i> yno.
Sarah	Cariad Xman. Mae hi'n gweithio yn Tim Hortons, lle mae hi'n cyfarfod Xman.
Willie	Hen ddyn y mae Xman yn cyfweld ag ef ar gyfer prosiect yr amgueddfa. Roedd yn arfer gweithio dros yr iaith Ffrangeg yn yr ardal. Mae ei iechyd yn wael. Daw Xman ac yntau'n ffrindiau da, gyda Xman yn helpu i ofalu amdano.
Mat	Ffrind gorau Xman.

Tabl 40: Cymeriadau *Xman*

Ceir hefyd lawer o gymeriadau ymylol, megis aelodau o deulu Xman, a'i gydweithwyr yn yr amgueddfa.

***Pour Sûr* (2013) France Daigle**

Mae France Daigle yn ail-ymweld â nifer o gymeriadau y mae hi wedi ysgrifennu amdanynt mewn nofelau cynharach. Bywyd teuluol Terry a Carmen yw prif ffocws y stori. Mae adeiladwaith hynod i'r nofel. Dywed Monika Boehringer:

²⁰⁵ Hynny yw, hunaniaeth sy'n perthyn i'r gallu i siarad Ffrangeg. Fel y dadleua Normand Renaud, er bod y term 'francophone' yn cael ei ddefnyddio er mwyn disgrifio hunaniaeth, mewn gwirionedd yr hyn y mae'r term yn ei ddisgrifio yw'r gallu i siarad Ffrangeg; nid yw'n derm ar gyfer disgrifio cenedl o bobl, gyda'i hanes a'i diwylliant ei hun (Renaud yn Boissonneault 2004, t.166).

il est basé sur le nombre 12³ ou 144 sujets narratifs multipliés par 12 fragments, une construction méticuleuse patiemment ouvragée pendant dix ans (2014, t.187) ²⁰⁶

Mae rhai o'r *fragments* hyn yn dangos golygfeydd o fywyd teulu Terry a

Carmen, ond mae eraill yn ymwneud â thoreth o bynciau eraill:


Parmi la multitude de sujets traités se trouvent outils, techniques, projets et travail; histoire, amour et vie des saints; statistiques, détails intéressants, inutiles ou plus ou moins utiles; divers personnages, dont Freud et Lacan, mais aussi ceux appelés « L'Autre » et « Le poète »; rêves, couleurs, chiffres et nombres; *La Bibliothèque idéale* et les ajouts à cette bibliothèque; étrangetés, nécessités ainsi que rumeurs, etc. Très nombreux sont les sujets consacrés à la langue, répertoriés sous diverses entrées telles que langues, expressions, proverbes, mots croisés, le *Scrabble*, typo[graphie] et le fabuleux « Fictionnaire », ce dictionnaire fictif qui contient des entrées en bonne et due forme – avec définition, emploi et exemples, ces derniers signé par « (Daigle) » (Boehringer 2014, tt.187–8) ²⁰⁷

Mae sbectrwm o ieithweddau'n cael eu defnyddio yn y *fragments* gwahanol, gan amrywio o'r cywair ffurfiol ac academaidd i'r cywair anffurfiol, llafar. Mae gwahaniaeth i'w weld yn y defnydd o gyfnewid cod yn ogystal. Trafodir cysylltiad pynciau'r *fragments* ag ieithweddau gwahanol ymhellach yn ddiweddarach yn y bennod (t.161).

Rhoddir rhif unigryw fel cyfeirnod i bob *fragment*. Gwelir enghraifft isod:

²⁰⁶ 'Mae'n seiliedig ar y rhif 12³ neu 144 pwnc naratif wedi'u lluosio gan 12 darn, adeiladwaith manwl wedi'i saernio'n amyneddgar dros ddeng mlynedd'.

²⁰⁷ 'Ymysg y nifer o bynciau a drafodir ceir offer, technegau, prosiectau a gwaith; hanes, cariad a bywyd y seintiau; ystadegau, manylion ddiddorol, anefnyddiol neu fwy neu lai defnyddiol; amryw gymeriadau, gan gynnwys Freud a Lacan, ond hefyd rai o'r enw "Yr Arall" ac "Y bardd"; breuddwydion, lliwiau, ffigyrau a rhifau; *Y Llyfrgell ddefnyddol* ac ychwanegiadau i'r llyfrgell hon; rhyfeddodau, anghenion yn ogystal â sibrydion ayb. Niferus iawn yw'r pynciau sy'n trafod iaith, rhestrau o dan gofnodion amrywiol megis ieithoedd, dywediadau, diarhebbion, croes-eiriau, *Scrabble*, teipograffi ['Typo' yw'r term yn y nofel], a'r 'Ffugiadur' gwych, y geiriadur ffug hwnnw sy'n cynnwys cofnodion yn ôl y drefn gywir – gyda diffiniad, defnydd ac esiamplau, a'r olaf wedi eu harwyddo gan "(Daigle)".'



Ffigur 41: *Fragments Pour Sûr*

Mae'r cyfeirnod (yma, 343.46.12) yn cynnwys tair elfen:

- Y rhif cyntaf (343) – pa *fragment* yn nhrefn y nofel. Mae'r rhifau hyn yn dilyn mewn trefn.
- Yr ail rif (46) – rhif thema – mae'r rhif 46 yn cyfateb i'r thema *la Bibliothèque idéale*, sydd hefyd wedi'i nodi o dan y rhif.
- Y trydydd rhif (12) – pa *fragment* (o'r cyfanswm o ddeuddeg) sy'n perthyn i'r thema. Nid yw'r *fragments* yn ymddangos yn y drefn un i ddeuddeg bob tro; tybir y gellid eu darllen yn y drefn un i ddeuddeg, petai'r darlennydd am wneud hynny.

Yn ôl France Daigle,²⁰⁸ daeth y syniad hwn oherwydd fe'i hysbrydolwyd gan lyfr gan Umberto Eco, a'r syniad o lyfr ar y we:

Toutes ces codes, les codes et comment en principe serait un livre mis à l'internet. Et il y aurait toujours deux choix dans chaque passage. Donc chacun pourrait le lire selon le choix qu'il fait à mesure.²⁰⁹

Dyma'r cysyniad sydd wrth wraidd ffurf y nofel, er mai nofel wedi'i hargraffu yw hi, yn hytrach na nofel ar y rhyngwrld. Trafodir y cysyniad o lèn ryngweithiol ymhellach yn y bennod olaf (gweler t.407).

²⁰⁸ Cyfweliad personol, 26/05/2016.

²⁰⁹ 'Yr holl godau hyn, y codau a sut, mewn egwyddor, y byddai llyfr wedi'i roi ar y rhyngwrld. A byddai wastad ddau ddewis ym mhob darn. Felly byddai pob un yn gallu ei ddarllen yn ôl y dewis y byddai'n ei wneud wrth fynd ymlaen'. France Daigle, cyfweliad personol, 26/05/2016.

Cymeriadau

Terry	Yn enedigol o Dieppe, dinas sydd nesaf at Moncton. ²¹⁰ Partner Carmen, ac yn dad i Étienne a Marianne. Mae'n rhedeg siop lyfrau, ac yn ceisio'i orau i ddefnyddio Ffrangeg mwy safonol yn ôl dymuniadau Carmen.
Carmen	Brodor o Moncton, rhedeg y bar 'Barbar'. Er ei bod hi wedi defnyddio <i>chiac</i> , wedi i hithau a Terry ddod yn rhieni, dangosir ei bod hi'n poeni mwy am ddefnyddio Ffrangeg cywir. Mae hi'n dweud wrth Terry, « C'est pas beau, un enfant qui parle chiac » (Daigle 2002, t.144). ²¹¹
Étienne	Yr hynaf o blant Terry a Carmen – tua 5 mlwydd oed.
Marianne	Merch Terry a Carmen, 2-3 blwydd oed. Mae llawer o drafod ar y ffaith ei bod hi'n hwyr yn dechrau siarad.
Zed	Ffrind gorau Terry. Mae'n mabwysiadu Chico, mab Shawn, hen ffrind Terry, ar ôl i hwnnw gael ei garcharu.
Chico	Mab mabwysiedig Zed, yn enedigol o Dieppe. Yr un oedran ag Étienne.
Pomme	Trydydd aelod 'y trio' o ffrindiau, gyda Terry a Zed.
Zablonski	Artist o Ffrainc sydd bellach wedi symud i Moncton.
Ludmilla	Ffrances, gwraig Zablonski.

Tabl 41: Cymeriadau *Pour sûr*

Yn y nofel hon, mae Daigle yn ailymweld â nifer o gymeriadau sydd wedi ymddangos mewn nofelau eraill ganddi. Er enghraifft, mae Terry a Carmen yn gymeriadau yn y nofelau *Pas Pire* (1998), *Un fin passage* (2001) a *Petites difficultés d'existence* (2002). Gwelir hwy mewn cyfnod diweddarach yn eu bywydau, wedi iddynt groesawu eu hail blentyn, Marianne.

Ceir hefyd gymeriadau mwy ymylol, megis Josse a Lisa M. sy'n ffrindiau i Carmen ac yn gweithio yn y Barbar, ac Élizabéth, meddyg yn yr ysbyty sy'n

²¹⁰ Er bod Dieppe yn ddinas ar wahân i Moncton, maent yn agos iawn – mae modd cerdded o stryd fawr Moncton i stryd fawr Dieppe mewn hanner awr, ac mae Dieppe yn rhan o'r *Greater Moncton Area*. Er eu bod yn agos iawn, mae'n amlwg o'r nofel bod ychydig o wahaniaeth rhwng hunaniaeth Dieppe a Moncton – yn enwedig wrth i Terry sôn am ei hunaniaeth ei hun, a'r defnydd o *chiac* a'r geiriau Saesneg. Nodir mai o Dieppe y daw France Daigle yn enedigol, er ei bod hithau nawr yn byw ym Moncton. Fel y dywed hi ei hunan 'aux gens d'ici [Moncton], je dis que je viens Dieppe, parce que ça fait une différence. Mais pour les gens d'ailleurs, ça fait pas de différence. Mais c'est sûr que dans les petits milieux, c'est différent' ['i'r bobl o fan hyn, dwi'n deud mod i'n dod o Dieppe, achos mae'n gwneud gwahaniaeth. Ond i bobl o lefydd eraill, does yna ddim gwahaniaeth. Ond mae'n sicr, mewn *milieux* bychain, mae'n wahanol'] (cyfweiliad personol, 26/05/2016). Wrth gymharu Dieppe a Moncton, gwelir bod cyfradd uwch o siaradwyr Ffrangeg yn Dieppe – 84% o'i gymharu â 49% (canran yn seiliedig ar ffigyrau Statistics Canada 2018). Yng nghymuned Riverview, sydd hefyd yn rhan o'r *Greater Moncton Area*, mae'r ganran hon yn disgyn i 27%. Dywed Lefebvre fod Moncton yn ddinas ddwyieithog, Dieppe yn ddinas ffrancoffon a Riverview yn ddinas angloffon (2006, t.79); felly, gwelir bod amrywiaeth ieithyddol rhwng y tair ardal hon, er eu bod yn rhan o *Grand Moncton*.

²¹¹ "Dydio ddim yn neis, plentyn sy'n siarad *chiac*".

gariad i Zed am ran o'r nofel ac yn fam feddydd i Marianne. Nodwedd anghyffredin o'r nofel hon yw'r myrdd o gymeriadau dienw sy'n cael eu portreadu. Diolch i hynodrwydd y ffurf, cawn gip sydyn ar sgysiau rhwng cymeriadau nad ydynt yn cael eu henwi, fel petai'r darlennydd yn clustfeinio ar sgwrs. Mae Daigle wedi gwneud defnydd mawr o gymeriadau dienw yn ei chwe nofel gyntaf, a hynny heb gyfeirio at leoliad penodol (Doyon-Goselin 2000).²¹² Yn fwy diweddar, mae'r awdur wedi dechrau trafod Moncton a'r bobl sy'n byw yno yn fwy penodol (Doyon-Goselin 2000).²¹³ Mewn gwirionedd, yr iaith *chiac* yw canolbwynt *Pour Sûr*, yn hytrach na'r cymeriadau eu hunain – dywed Bornais 'le chiac devient personnage central du roman'(2012, t.18).²¹⁴


²¹² Chwe nofel gyntaf France Daigle: *Sans jamais parler du vent* (1983); *Film d'amour et de dépendance; chef d'œuvre obscur* (1984); *Histoire de la maison qui brûle* (1985); *Variations en B et K* (1985); *L'été avant la mort* (1986); *La beauté de l'affaire* (1986).

²¹³ Yn benodol, yn y nofelau *Pas Pire* (1998), *Un fin passage* (2001), *Petites difficultés d'existence* (2002) a *Pour Sûr* (2011).

²¹⁴ 'Daw'r *chiac* yn gymeriad canolog yn y nofel'.

4.2 Canlyniadau Codio'r Nofelau Ffrangeg

4.2.1 Cymhareb




Ffigur 42: Cymhareb – Nofelau Ffrangeg

Cymhareb y nofelau Ffrangeg yw 2.25 (3346 enghraifft / 1489 tudalen).²¹⁵

Gwelir bod Cymhareb *Bloupe* dros ddwbl hyn, a *Volkswagen Blues* yn llawer is na'r gymhareb gyffredinol.

4.2.2 Penodau

Nid oes modd cymharu'r maes dadansoddi hwn rhwng nofelau mewn ffordd ystyrlon; trown felly at ganlyniadau *Volkswagen Blues*.



Ffigur 43: Penodau – *Volkswagen Blues*

²¹⁵ Cymhareb y nofelau Ffrangeg unigol:
Volkswagen Blues: 279 enghraifft / 314 tudalen = 0.89
Bloupe: 824 enghraifft / 172 tudalen = 4.79
Xman: 530 enghraifft / 281 tudalen = 1.89
Pour sûr: 1713 enghraifft / 722 tudalen = 2.37


Ceir pum pennod yn y nofel hon sydd heb unrhyw enghreifftiau (2, 4, 12, 27 a'r bennod olaf). Dim ond Jack a'r Grande Sauterelle sy'n ymddangos yn y penodau hyn, er bod golygfa ffantasi ym mhennod 4. Ar un olwg, mae hyn i'w weld yn rhesymegol gan eu bod yn siarad Ffrangeg gyda'i gilydd, ond mae'n ddiddorol nad oes unrhyw eiriau unigol o gyfnewid cod yn ymddangos yn y pum pennod hyn. Mae hyn yn dangos nad yw Jack a'r Grande Sauterelle yn defnyddio llawer o gyfnewid cod fel rhan o'u hidiolectau. Wrth groesgyfeirio rhwng Deialog Cymeriadau a Maes Semanteg, gwelir bod mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n rhan o ddeialog Jack yn perthyn i'r Maes Semanteg 'sgwrs' (37 o 47 enghraifft); mae'r un peth yn wir am ddeialog y Grande Sauterelle (45 o 59 enghraifft). Mae hyn yn cadarnhau nad yw'r cyfnewid cod yn cael ei ddefnyddio fel ieithwedd arbennig y ddau gymeriad, er bod ychydig o enghreifftiau o hyn. Prif bwrpas y cyfnewid cod yw dangos cymdeithas ddwyieithog – cymdeithas sy'n cynnwys cymeriadau uniaith Saesneg.

<i>Pennod</i>	<i>Nifer enghreifftiau</i>	<i>Crynodeb</i>
20 La Femme du "Bull Rider"	30	Mae'r ddau brif gymeriad yn cyfarfod â dynes sy'n briod â 'Bull Rider'. Mewn cyddigwyddiad llwyr, mae hi'n adnabod Théo – bron iddi gamgymryd Jack am ei frawd. Trafodant lle y gallai Théo fod nawr.
8 Un endroit bien tranquille	29	Mae'r ddau yn croesi'r ffin, ac yn siarad gyda'r <i>agent de douane</i> . ²¹⁶ Ânt i Detroit i weld murlun Diego Rivera, a cherdded y ddinas gyda'r nos, hyd nes i ddyn eu stopio a'u hanfon yn syth nôl i'w gwesty, gan esbonio bod y ddinas hon yn rhy beryglus i gerdded ynddi gyda'r nos.

²¹⁶ 'Swyddog Tollau Tramor a Chartref'.

6 Une discussion sur Étienne Brûlé	28	Cyrraedd Toronto, trafod Étienne Brûlé, anturiaethwr ac arwr Théo. Aros yn yr YMCA, la Grande Sauterelle yn gwisgo fel dyn er mwyn mynd i lawr y dynion. Edrych am wybodaeth am Théo yn y llyfrgell a swyddfa'r heddlu. Canfod gwybodaeth – anodd iawn mewn dinas mor fawr – a chymryd hyn fel arwydd da.
--	----	---

Tabl 42: *Volkswagen Blues* – penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod



Ffigur 44: Penodau – *Bloupe*

Mae'r nofel *Bloupe* wedi'i rhannu'n dair is-adran, sef 'Bloop!', 'Loop?', 'Bloupe', gan adlewyrchu'r broses drawsffurfiol y mae'r prif gymeriad yn mynd trwyddi yn ystod y nofel: newidir ei enw 'Itso Snitso Bloop' i 'Céça Bloupe',²¹⁷ sef Ffrangegeiddiad o'i enw.²¹⁸ Mae amrywiaeth fawr i'w gael yn nifer yr enghreifftiau o gyfnewid cod mewn penodau, er bod ychydig o gyfnewid ym mhob pennod. Y bennod gyda'r nifer uchaf o enghreifftiau yw'r bennod gyntaf,

²¹⁷ Yn ôl Clint Bruce, mae'r 'loop' yn adlewyrchu 'le trajet circulaire et répétitif auquel le condamné quotidiennement son métier de facteur' (2007, t.30) ('y siwrnau gylchol ac ailadroddus y mae ei swydd fel postmon yn ei gondemnio iddi o ddydd i ddydd').

²¹⁸ Ystyr 'Itso Snitso' yw 'it's so, isn't it so?'. Gellir cyfieithu hyn i'r Ffrangeg fel 'c'est ça, n'est-ce pas?'. Symleiddiwyd hwn i 'Céça' fel enw newydd y cymeriad Bloop. Gwelir hefyd fod ei gyfenw wedi'i Ffrangegeiddio, o 'Bloop' i 'Bloupe'. Mae addasu enwau yn ffenomen sy'n adnabyddus i'r *acadiens*, gyda theuluoedd yn addasu eu henwau, megis Leblanc yn dod yn White, Le Jeune yn Young, Benoit yn Bennett a Robichaud yn Robertshaw (White 1992, tt.15–7). Mae'n arwyddocaol mai Ffrangegeiddio'i enw y mae Bloop, yn hytrach na'i Seisnigeiddio. Yma, dangosir y cymeriad yn adennill ei hunaniaeth fel *acadien*. Ceir trafodaeth bellach am newid enw'r cymeriad Bloop yn y bennod olaf (10: Theori lenyddol).


gyda 144 enghraifft, a'r bennod gyda'r nifer isaf o enghreifftiau yw pennod 21, gyda dwy enghraifft yn unig.

<i>Pennod</i>	<i>Nifer enghreifftiau</i>
1 – L'idée vague d'une folie	144
11 – Récapitulation	125
10 – Une définition	65

Tabl 43: *Bloupe* – penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod

Ni roddir crynodeb yn y tabl uchod gan ei bod yn anodd crynhoi'r penodau.

Mae hyn oherwydd nad oes llinyn storiol pendant i'r nofel, ac mae'r naratif yn bytiog, gan neidio o un pwnc i un arall. Rhennir y penodau'n adrannau llai gan ddefnyddio arwyddion teipograffig, ac mae'r cysyniad o amser yn y nofel yn un amwys iawn. Fel yr eglurwyd, mae'r realistig a'r swreal wedi'u cydblethu, sy'n cymhlethu'r plot. Mae'r penodau'n amrywio o ran hyd, gyda rhai'n un dudalen yn unig o hyd (e.e. y bennod olaf), a rhai'n llawer hwy (mae'r bennod gyntaf yn 28 tudalen o hyd) – ond mae'r rhan fwyaf yn 4 tudalen o hyd (pymtheg pennod).



Mae *Xman* yn defnyddio ychydig o gyfnewid cod ym mhob pennod, gan rannu'r cyfnewid yn weddol gytbwys rhwng y penodau. Mae rhai o'r penodau'n

digwydd mewn cyfnod amhenodol, gyda Xman yn teithio ar y trê. ²¹⁹ Mae'r darlennydd yn ansicr a yw'r golygfeydd hyn yn perthyn i'r gorffennol neu'r dyfodol o'i gymharu â phrif linydd storïol y nofel. Mae mwyafrif y penodau'n ymwneud â'r prif linydd storïol hwn, sy'n perthyn i amser penodol yn ymwneud â hanes Xman yn dychwelyd i Huronie ac yn gweithio i'r amgueddfa. Adroddir y ddau linydd storïol yn y presennol, ac nid yw'n eglur tan ddiwedd y nofel bod y penodau ar y trê yn digwydd ar ôl yr hanes gyda'r amgueddfa.


<i>Rhif Pennod</i>	<i>Nifer enghreifftiau</i>	<i>Crynodeb</i>
3	39	Mae'n bedwar mis ers i Xman ddychwelyd i Huronie. Mae'n mynd i gael paned yn Tim Hortons, ac yn benthyg beiro gan ddwy fenyw sydd yno'n sgwrsio. ²²⁰ Mae'n cyfarfod â Sarah am y tro cyntaf.
7	37	Xman yn mynd am ginio gyda'i ffrind Mat, ac yn cyfarfod â hen ffrind ysgol. Cyfweiliad cyntaf am y <i>Patente</i> , ²²¹ gyda Victor Morin.
10	37	Monique a Xman yn cyfarfod i drafod gwaith. Sarah'n helpu Xman gyda gwaith prawf ddarllen.

Tabl 44: *Xman* – penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod

²¹⁹ Rhif y penodau hyn yw 1, 5, 9, 13, 17, 22, 24. Nid oes gwahaniaeth amlwg i'w weld rhwng y penodau hyn a'r penodau eraill o safbwynt y cyfnewid cod.

²²⁰ Nodir bod y ddau gymeriad hyn yn cael eu dangos yn siarad Ffrangeg â'i gilydd, ond yn troi at y Saesneg er mwyn siarad â Xavier, nad ydynt yn ei adnabod. Mae hyn yn dangos cymeriad ieithyddol yr ardal. Wrth edrych ar ffigurau Cyfrifiad 2011 ar y pwnc 'gwybodaeth o ieithoedd swyddogol', mae'r ganran o'r boblogaeth sy'n medru'r Ffrangeg yn amrywio'n fawr yn ôl ardal. O edrych ar Simcoe County (lle mae penrhyn Penetanguishene, lleoliad ardal Huronie yn nheith y nofel) yn ei gyfanrwydd, mae tua 7% o'r boblogaeth yn medru'r Ffrangeg, ond mae'r ganran hon yn amrywio rhwng ardaloedd gwahanol o Simcoe; 9% tref Midland, 19% *township* Tiny (sy'n cynnwys Lafontaine, lle mae Joëlle Roy yn byw), 21% tref Penetanguishene) (canran yn seiliedig ar ffigurau Statistics Canada 2018). Gan fod y Ffrangeg yn iaith leiafrifol yn yr ardal, yr iaith a ddefnyddir yn awtomatig â dieithriaid yw'r Saesneg.

²²¹ Enw arall ar *La Patente* oedd *l'Ordre de Jacques-Cartier*. Esbonnir yn y nofel ei bod yn gymdeithas gudd a ffurfiwyd yn 1926 yn Ottawa er mwyn amddiffyn hawliau'r ffrancoffon. Bwriad y mudiad oedd gwrthwynebu dylanwad y Seiri Rhyddion a'r Orenwyr, gan sicrhau presenoldeb ffrancoffon mewn mudiadau cyhoeddus yn gyntaf, yna yn y sector breifat (X 75).



Eto, mae *Pour Sûr* yn rhannu'r cyfnewid rhwng penodau mewn ffordd gytbwys.

<i>Rhif Pennod</i>	<i>Nifer enghreifftiau</i>
4	217
12	184
11	171

Tabl 45: *Pour Sûr* – penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod

Nid oes crynodeb wedi'i gynnwys ar gyfer y penodau gan fod adeiladwaith y penodau'n cymhlethu hyn. Soniwyd eisoes fod y nofel yn seiliedig ar y rhif 12³, gyda phob pennod yn cynnwys 144 darn. Mae'r *fragments* hyn yn golygu bod y penodau'n doredig iawn, gan symud o un pwnc i un arall gyda phob *fragment*. Nid oes undod o fewn pennod, gan nad yw'r *fragments* o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd – er bod undod i'w weld o fewn y themâu y mae'r *fragments* yn perthyn iddynt. Mae adeiladwaith arbennig y nofel yn golygu bod elfen ychwanegol i'w harchwilio ar gyfer *Pour Sûr*. Isod, ceir tabl yn dangos y deg thema gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod.

	<i>Enw'r thema</i>	<i>Disgrifiad</i>	<i>Nifer enghreifftiau</i>
25	Meurtre (‘Llofruddiaeth’)	Golygfeydd sy'n dangos y cymeriadau'n trafod y llofruddiaeth – Shawn, ffrind plentyndod i Terry, wedi lladd ei dad. Trafodir nid yn unig y llofruddiaeth, ond beth fydd yn digwydd i fab Shawn, Chico, ac i fam Shawn. Gwelir hefyd Terry a Carmen yn mynd i angladd y tad.	73
102	Le trio (‘Y triawd’)	Sgyrsiau rhwng Terry, Zed a Pomme.	68
85	La Bourse (‘Y farchnad stoc’)	Mae Terry wedi bod yn buddsoddi arian. Ceir golygfeydd ohono'n esbonio'r peth i Zed, yn ogystal â gwybodaeth am rai cwmnïau neu gynnyrch a fyddai'n ddefnyddiol wrth fuddsoddi arian.	63
15	Monologues non identifiés (‘Monologau dienw’)	Monologau'r cymeriadau nad ydynt yn cael eu henwi.	58
101	Duos (‘Deuawdau’)	Mae France Daigle yn mynd i gyfarfod â'r cymeriadau, am sgwrs un wrth un. Trafodir y broses ysgrifennu, ac o greu cymeriad.	51
22	Dialogues en vrac (‘Deialogau frith draflith’)	Pytiau o sgwrs rhwng cymeriadau nad ydynt yn cael eu henwi.	50
63	Terry et Zed (‘Terry a Zed’)	Amryw o sgyrsiau rhwng Terry a Zed	50
59	Savoirs (‘Gwybodaeth’)	Ffeithiau am amryw o bynciau, ond sawl un yn cyfeirio at golff.	48
37	Histoires d'animaux (‘Straeon anifeiliaid’)	Terry'n adrodd straeon wrth ei blant am anifeiliaid.	41
87	Le corps (‘Y corff’)	Trafod salwch ac afiechyd – cyfres o ffeithiau a golygfeydd gyda'r cymeriadau (e.e. 1028.87.5 ceiropractydd yn archwilio Marianne ar ôl iddi ddisgyn)	41

Tabl 46: *Pour Sûr – fragments* gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod






Gwelir bod nifer o'r *fragments* hyn yn cynnwys sgyrsiau, a nifer ohonynt yn cynnwys y cymeriad Terry. Diddorol nodi bod y thema gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau (*Meurtre*) yn bwnc sy'n gysylltiedig â chefnidir Terry yn Dieppe, ac felly'n peri i'r cymeriad ddefnyddio cyfnewid cod. Mae Terry'n ymwybodol iawn o hyn – wrth drafod y llofruddiaeth mewn un darn, mae'n cyfnewid cod yn gyson, cyn ymateb i syndod Carmen gan ddweud « Sörry, büt faullait que ça

sorte exactement dans ces mots-là » (PS 240).²²² Awgryma hyn fod y defnydd o gyfnewid cod mewn deialog yn ymgais gan yr awdur i adlewyrchu realiti. Nid yw 38 o'r 144 *fragment* yn cynnwys unrhyw enghreifftiau o gyfnewid cod.²²³ Er bod rhai o'r *fragments* hyn yn cynnwys deialog cymeriadau, mae'r rhan fwyaf yn trafod ffeithiau am feysydd arbenigol, megis teipograffeg neu ystadegau, ond mae hefyd rai sy'n dangos sgysiau â chymeriadau yn ogystal. Felly, gwelir bod trafodaeth o feysydd arbenigol yn llai tebygol o ysgogi cyfnewid cod o'i gymharu â deialog cymeriadau, er nid yw hyn yn sicrwydd. Mae hyn yn awgrymu fod cyfnewid cod yn rhywbeth sy'n perthyn i ddeialog cymeriadau, tra bo trafod meysydd arbenigol yn defnyddio *français standard*. Nid yw hyn o reidrwydd yn ddisgwyliedig, gan fod Grosjean yn awgrymu bod perthynas rhwng cyfnewid cod a thrafod pynciau arbenigol os yw'r ieithwedd hon yn fwy cyfarwydd yn yr Iaith₂ (2010, tt.46–7).

²²² "Sorry, but oedd rhaid iddo fo ddod allan exactly yn y geiria yna". Nodir bod Daigle yn defnyddio'r tild (~) uwch ben llafariad er mwyn awgrymu ynganiad Saesneg. Trafodir y defnydd o symbolau ac orgraff arbennig er mwyn amlygu cyfnewid cod yn y bennod Methodoleg (t.83).


²²³ 3 – Statistiques (ystadegau); 10 – Typo (teipograffi); 11 – Emprunts (benthyciadau); 12 – Structure (strwythur); 14 – Zablonksi; 21 - Détails plus ou moins utiles (manyllion mwy neu lai defnyddiol); 24 – Élizabeth; 32 – Problèmes d'examen (cwestiynau arholiad); 34 – Lacan; 39 – Freud par la bande (Freud yn anuniongyrchol); 42 – Tirage (argraffu); 46 – *La Bibliothèque idéale* (Y Llyfrgell Ddelfrydol); 55 – Haïkus; 57 – Photocopies; 58 – Prolongements (estyniadau); 61 – Sciences humaines (gwyddorau dynol); 62 – Sondages/hommes (arolygon/dynion); 66 – les vertus (rhinweddau); 70 – Erreurs (camgymeriadau); 71 – Intro broderie (cyflwyniad brodwaith); 72 – Équations (hafaliadau); 74 – Hans; 77 – Grammaire (gramadeg); 78 – Accidents (damweiniau); 80 – Cinquains (ffurf farddonol yw'r *cinquain*); 83 – Jouissance et couleur (pleser a lliwiau); 84 – Histoire (hanes); 90 – Lettres (llythrennau); 95 – Ajouts à *La Bibliothèque idéale* (ychwanegiadau ar Y Llyfrgell Ddelfrydol); 97 – les chiffres et les nombres (rhifau a ffigyrau); 118 – à propos du jaune (yngylch melyn); 120 – Fictionnaire (Ffugiadur); 132 – Lapsus (*Freudian slip*); 134 – Marianne; 136 – L'inavouable (y pechadur); 142 – Notes (nodiadau); 144 – Exergues (epigraffau).

4.2.3 Adran



Gwelir bod 64.9% o'r enghreifftiau o gyfnwid cod yn y nofelau Ffrangeg (Ffigur 47) yn digwydd fel rhan o ddeialog y cymeriadau, tra bo 30.7% yn rhan o'r naratif. Mae *Volkswagen Blues* (Ffigur 48) yn dilyn y tueddiad hwn: nodir ei fod yn cynnwys y categori 'diagram' gan fod y nofel yn cynnwys labeli ar ddiagram






yn y Saesneg – gwelir esiampl isod:



Ffigur 52: Volkswagen Blues – diagram

Ond nid yr un tueddiad (tua 60% deialog, 30% naratif) sydd i'w weld yn y nofelau eraill. Gwelir bod mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Bloupe* (Ffigur 49) yn y naratif (74.2%), a dim ond 15.9% yn rhan o'r ddeialog. Gwelir bod *Xman* (Ffigur 50) hefyd yn cynnwys mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn y naratif (56.8%). Mae'r nofel *Pour Sûr* (Ffigur 51) yn defnyddio mwyafrif helaeth yr enghreifftiau o gyfnewid cod fel rhan o'r ddeialog (96.2%), gyda dim ond 3% yn y naratif. Mae'r nofel hon yn cael effaith fawr ar y data oherwydd bod cymaint o enghreifftiau yn y nofel hon o gymharu â'r nofelau eraill. Felly, ni ddylid cymryd mai'r tueddiad cyffredinol mewn nofelau Ffrangeg yw defnyddio mwy o gyfnewid cod yn y ddeialog. Gwelir oddi wrth ganlyniadau dadansoddi *Xman* a *Bloupe* y gall nofelau ddefnyddio mwy o gyfnewid cod yn y naratif nag yn y ddeialog. Felly, mae'r ddau batrwm yn cael eu defnyddio, gan ddibynnu ar ddymuniadau'r awdur.

4.2.4 Hyd



Gwelir bod 76.7% o'r cyfnewid cod yn y nofelau Ffrangeeg (Ffigur 53) yn gyfnewid mewnfrawddegol, a dros hanner o hyd 'un gair'. Wrth edrych ar y

nofelau unigol, gwelir mai cyfnewid mewnfrawddegol sydd fwyaf cyffredin yno hefyd. Yn *Pour Sûr* (Ffigur 57), gwelir bod cyfnewid mewnfrawddegol ymhell ar y blaen (93.1%), gyda 68.8% o'r enghreifftiau hynny yn eiriau unigol. Mae'r nofel *Bloupe* (Ffigur 55) ychydig yn anghyffredin. Er mai cyfnewid o hyd un gair yw'r categori gyda'r mwyaf o enghreifftiau yn y nofel hon (30.9%), cyfnewid rhyngfrawddegol yn hytrach na chyfnewid mewnfrawddegol sydd fwyaf cyffredin (53.5%). Mae hyn ychydig yn anghyffredin oherwydd mewn astudiaeth flaenorol (Orwig 2015), gwelwyd bod nofel a oedd yn defnyddio'r gyfradd uchaf o gyfnewid cod fel rhan o'r naratif (fel y mae *Bloupe*, gyda 74.2% o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y naratif) fel arfer yn ffafrio cyfnewid mewnfrawddegol.

Felly, er bod y nofelau Ffrangeg yn dueddol o ddefnyddio mwy o gyfnewid mewnfrawddegol ar y cyfan, gwelir bod *Bloupe* yn mynd yn erbyn y tueddiad hwn. Gwelir bod *Pour Sûr* – fel nofel sy'n defnyddio cyfradd uchel iawn o gyfnewid cod yn y ddeialog (96.2%) a chyfnewid mewnfrawddegol (93.1%) – yn cyd-fynd â phatrwm defnydd cyfnewid cod fel rhan o ieithwedd unigolyn (Orwig 2015, tt.170–1). Fel yr awgryma Bornais (2012, t.18), *chiac* yw seren y nofel hon.

4.2.5 Dosbarth Gramadegol

Isod, ceir tabl sy'n dangos y cyfnewid cod yn y nofelau Ffrangeg yn ôl Dosbarth Gramadegol, sy'n dangos amrywiaeth eang o gategoriâu gwahanol. Amlygir y pum categori â'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod mewn llwyd.

acronym	1	0.0%
adferf	234	7.0%
adferf + cysylltair	5	0.1%
ansoddair	273	8.2%
ansoddair + cysylltair	1	0.0%
ansoddair + enw	1	0.0%
ansoddair + ymadrodd adferfol	2	0.1%
ansoddair + ymadrodd berfol	2	0.1%
arddodiad	28	0.8%
arddodiad + ymadrodd adferfol	1	0.0%
berf	229	6.8%
berf + cysylltair	3	0.1%
berfenw	118	3.5%
berfenw + cysylltair	1	0.0%
brawddeg	710	21.2%
cymal	103	3.1%
cymal + ebychiad	1	0.0%

cysylltair	140	4.2%
cysylltair + cysylltair	1	0.0%
ebychiad	130	3.9%
ebychiad + cysylltair	1	0.0%
enw	687	20.5%
enw + adferf	3	0.1%
enw + berfenw	1	0.0%
enw + cysylltair	2	0.1%
enw + ymadrodd adferfol	1	0.0%
rhagenw	10	0.3%
ymadrodd adferfol	129	3.9%
ymadrodd ansoddeiriol	60	1.8%
ymadrodd ansoddeiriol + adferf	1	0.0%
ymadrodd arddodiadol	1	0.0%
ymadrodd berfol	159	4.8%
ymadrodd berfol + adferf	1	0.0%
ymadrodd enwol	306	9.1%

Tabl 47: Dosbarth Gramadegol – Nofelau Ffrangeg

Mae enghreifftiau o'r pum categori sydd â'r mwyaf o enghreifftiau (adferf, ansoddair, brawddeg, enw, ymadrodd enwol) yn ymddangos ym mhob un o'r pedair nofel, er ei bod yn ddiddorol nodi mai'r chweched categori gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yw 'berf', gyda 229 enghraifft (6.8%), er na cheir enghreifftiau o'r categori hwn yn *Volkswagen Blues* o gwbl.

acronym	1	0.4%
adferf	2	0.7%
ansoddair	10	3.6%
brawddeg	76	27.2%
cymal	67	24.0%
cysylltair	3	1.1%

ebychiad	3	1.1%
enw	45	16.1%
rhagenw	3	1.1%
ymadrodd ansoddeiriol	4	1.4%
ymadrodd berfol	5	1.8%
ymadrodd enwol	60	21.5%

Tabl 48: Dosbarth Gramadegol – *Volkswagen Blues*

Wrth edrych ar *Volkswagen Blues*, gwelir bod 76 enghraifft yn perthyn i 'brawddeg' (27.2%), 67 enghraifft o 'cymal' (24%) a 60 enghraifft o 'ymadrodd enwol' (21.5%).

adferf	28	3.4%
ansoddair	42	5.1%
ansoddair + enw	1	0.1%
ansoddair + ymadrodd berfol	1	0.1%
arddodiad	2	0.2%
berf	29	3.5%
berfenw	17	2.1%
brawddeg	418	50.7%
cymal	23	2.8%
cysylltair	17	2.1%

ebychiad	22	2.7%
enw	121	14.7%
enw + berfenw	1	0.1%
enw + cysylltair	2	0.2%
ymadrodd adferfol	11	1.3%
ymadrodd ansoddeiriol	13	1.6%
ymadrodd ansoddeiriol + adferf	1	0.1%
ymadrodd berfol	26	3.2%
ymadrodd enwol	49	5.9%

Tabl 49: Dosbarth Gramadegol – *Bloupe*

Mae 50.7% o'r enghreifftiau yn *Bloupe* yn perthyn i'r Dosbarth Gramadegol 'brawddeg', 14.7% i'r categori 'enw', a 5.9% i'r categori 'ymadrodd enwol'.

adferf	4	0.8%
ansoddair	29	5.5%
berf	28	5.3%
berfenw	20	3.8%
brawddeg	129	24.3%
cymal	5	0.9%
cysylltair	14	2.6%

ebychiad	40	7.5%
enw	156	29.4%
ymadrodd adferfol	2	0.4%
ymadrodd ansoddeiriol	19	3.6%
ymadrodd berfol	14	2.6%
ymadrodd enwol	70	13.2%

Tabl 50: Dosbarth Gramadegol – *Xman*

Mae 29.4% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Xman* yn perthyn i'r categori 'enw', 24.3% i'r categori 'brawddeg' a 13.2% i'r categori 'ymadrodd enwol'.

adferf	200	11.7%
adferf + cysylltair	5	0.3%
ansoddair	192	11.2%
ansoddair + cysylltair	1	0.1%
ansoddair + ymadrodd adferfol	2	0.1%
ansoddair + ymadrodd berfol	1	0.1%
arddodiad	26	1.5%
arddodiad + ymadrodd adferfol	1	0.1%
berf	172	10.0%
berf + cysylltair	3	0.2%
berfenw	81	4.7%
berfenw + cysylltair	1	0.1%
brawddeg	87	5.1%
cymal	8	0.5%
cymal + ebychiad	1	0.1%

cysylltair	106	6.2%
cysylltair + cysylltair	1	0.1%
ebychiad	65	3.8%
ebychiad + cysylltair	1	0.1%
enw	365	21.3%
enw + adferf	3	0.2%
enw + ymadrodd adferfol	1	0.1%
rhagenw	7	0.4%
ymadrodd adferfol	116	6.8%
ymadrodd ansoddeiriol	24	1.4%
ymadrodd arddodiadol	1	0.1%
ymadrodd berfol	114	6.7%
ymadrodd berfol + adferf	1	0.1%
ymadrodd enwol	127	7.4%

Tabl 51: Dosbarth Gramadegol – *Pour Sûr*

Gwelir o'r tabl uchod mai'r tri chategori Dosbarth Gramadegol gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yw enw (365 enghraifft; 21.3%), adferf (200 enghraifft; 11.7%), ac ansoddair (192 enghraifft; 11.2%).


O'r graffiau uchod, gwelir bod rhai nofelau – megis *Pour Sûr* – yn defnyddio amrywiaeth eang o gategoriâu Dosbarth Gramadegol (29 categori i gyd), tra bo eraill – megis *Volkswagen Blues* – yn fwy ceidwadol yn hyn o beth (12 categori a geir yma).²²⁴ Mae'r ffaith bod llai o gategoriâu – a'r rhain yn rhai *open class* gan fwyaf (e.e. enwau, ansoddeiriau) (Joshi 1985)²²⁵ – yn dangos bod y cyfnewid cod yn *Volkswagen Blues* yn fwy syml na'r cyfnewid cod a geir mewn nofelau eraill, sy'n defnyddio amrywiaeth eang o gategoriâu Dosbarth Gramadegol, yn enwedig os ydynt yn defnyddio elfennau gramadegol sy'n anodd eu gweu i mewn i'r frawddeg, megis arddodiaid a chysyllteiriau. Dengys

²²⁴ Mae gan *Bloupe* 20 categori, ac *Xman* 13.

²²⁵ Gweler trafodaeth fanylach o theori Joshi ar t.15.


hyn amrywiaeth o gyfnwid cod yn y nofelau Ffrangeg, sy'n gymhleth neu'n syml o safbwynt gramadegol.

4.2.6 Maes Semanteg



Ffigur 58: Maes Semanteg – Nofelau Ffrangeg


Gwelir bod amrywiaeth eang o categorïau wrth edrych ar Faes Semanteg y nofelau Ffrangeg, gyda 57 categori i gyd. Mae mwyafrif yr enghreifftiau'n perthyn i'r categori 'term Saesneg' (821 enghraifft; 24.5%), ac 'amwys' (593 enghraifft; 17.7%).



Ffigur 59: Maes Semanteg – Volkswagen Blues


Y categori Maes Semanteg gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yn Volkswagen Blues yw 'sgwrs' (152 enghraifft; 54.5%). 'Dyfynnu' yw'r ail categori â'r nifer fwyaf o enghreifftiau, ond gyda nifer llawer llai o enghreifftiau (35 enghraifft;

12.5%). Mae hyn yn dangos yn glir iawn mai sgwrs uniaith Saesneg sy'n gyfrifol am y cyfnewid cod yn y nofel hon. Mae hyn yn ddisgwyliedig gan fod y prif gymeriadau – er eu bod yn siarad Ffrangeg gyda'i gilydd – yn teithio i'r Unol Daleithiau, ac yn cyfarfod â nifer o gymeriadau uniaith Saesneg, er bod rhai, megis y vagabond a Lisette, yn medru'r Ffrangeg. Er bod hyn yn ddisgwyliedig, wrth weld y data ar ffurf weledol, mae'n drawiadol.




Ffigur 60: Maes Semanteg – *Bloupe*

O'r graff uchod, gwelir mai'r categorïau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yn *Bloupe* yw 'amwys' (255 enghraifft; 30.9%), 'term Saesneg' (156 enghraifft; 18.9%), ac 'ymadrodd gosod' (99 enghraifft; 12%). Mae'r ffaith bod y categorï 'amwys' mor uchel yn adlewyrchu natur amhenodol y cyfnewid cod – mae'n cael ei ddefnyddio at ddiben arddulliol yn hytrach nag oherwydd bod trafod pwnc arbennig yn ysgogi'r defnydd o gyfnewid cod.



Ffigur 61: Maes Semanteg – *Xman*

Yn *Xman*, y tri chategori Maes Semanteg gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yw 'term Saesneg' (93 enghraifft; 17.5%), 'ymadrodd gosod' (70 enghraifft; 13.2%) ac 'amwys' (55 enghraifft; 10.4%).



Ffigur 62: Maes Semanteg – *Pour Sûr*

O'r graff uchod, gwelir mai'r categorïau Maes Semanteg gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yn *Pour Sûr* yw 'term Saesneg' (565 enghraifft; 33%), 'amwys' (274 enghraifft; 16%) a 'Ffrangegeiddio berf Saesneg' (244 enghraifft; 14.2%).

Yn yr isadran hon, gwelwyd bod patrwm amrywiol i'w gael yn y nofelau. Mae rhai nofelau yn defnyddio ystod eang iawn o gategoriâu gwahanol, megis *Pour Sûr*, tra bo eraill yn fwy cyfyngedig yn y mathau gwahanol o gategoriâu Maes


Semanteg y maent yn eu defnyddio, megis *Volkswagen Blues*. Mae rhai meysydd sy'n ymddangos ym mhob nofel; dangosir y categorïau hyn yn y tabl isod:

amwys	593
bwyd	88
cerddoriaeth	26
chwaraeon	46
cyfeiriadaeth	40
dillad	29
dyfynnu	87
modur	90
natur	28
sefydliad llywodraethol	14
sgwrs	273
term cyfreithiol/torcyfraith	28
term Saesneg	821
ymadrodd gosod	399

Tabl 52: Maes Semanteg – Categorïau Cyffredin

Gwelir felly, er bod Maes Semanteg yn faes sy'n llawn amrywiaeth, mae rhai categorïau sy'n fwy tebygol o ysgogi cyfnewid cod gan eu bod yn ymddangos ym mhob un o'r pedair nofel Ffrangeg. Diddorol nodi bod rhai o'r meysydd hyn yn feysydd sy'n ymwneud â phwnc neilltuol (e.e. bwyd, chwaraeon), tra bo eraill yn ffenomenau ieithyddol – megis 'sgwrs', 'term Saesneg', 'ymadrodd gosod'.


4.2.7 Ysgogiad/Swyddogaeth



Ffigur 63: Ysgogiad/Swyddogaeth – Nofelau Ffrangeg


Mae 42.2% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn y nofelau Ffrangeg yn perthyn i'r categori 'Creu effaith arbennig', 37.6% i 'Bwlch geirfaol' a 12.2% i 'Dyfyniad'.

Mae 'Creu effaith arbennig' yn disgrifio cyfnewid at ddiben arddulliol, er enghraifft er mwyn cymeriadu, yn hytrach nag oherwydd angen ieithyddol ('Bwlch geirfaol' fyddai hynny).



Ffigur 64: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Volkswagen Blues*


Mae mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Volkswagen Blues* yn perthyn i'r categori 'Dyfyniad' (65.9%), tra bo 23.3% yn perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol'. Fel y gwelwyd eisoes, sgwrs uniaith Saesneg yw mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn y nofel hon, felly mae'n ddisgwyliedig y byddai mwyafrif yr enghreifftiau yn y nofel yn perthyn i'r categori Ysgogiad/Swyddogaeth 'Dyfyniad'.



Ffigur 65: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Bloupe*


Mae mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Bloupe* wedi'u rhannu rhwng 'Creu effaith arbennig' (39.3%), 'Bwlch geirfaol' (34.2%) a 'Dyfyniad' (15.8%).

Ychwanegwyd y categori 'Er cydbwysedd' wrth godio *Bloupe*. Defnyddiwyd y categori 'symmetric alternation' gan Montes-Alcalá (2001, t.206) i ddisgrifio cyfnewid cod am yn ail er mwyn creu math o gydbwysedd ieithyddol yn y testun. O weld cymaint o enghreifftiau o gyfnewid nad oedd iddynt unrhyw Ysgogiad/Swyddogaeth penodol arall, ar wahân i greu testun sy'n defnyddio cymysgedd hafal o ddwy iaith, penderfynwyd y dylid ychwanegu'r categori 'Er cydbwysedd'. Ni welwyd y math hwn o gyfnewid yn y nofelau eraill.



Ffigur 66: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Xman*

Mae 43% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Xman* yn perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol', 36.8% i 'Creu effaith arbennig'.




Ffigur 67: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Pour Sûr*

Yn *Pour Sûr*, mae 50.6% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn perthyn i'r categori 'Creu effaith arbennig', a 39.9% i'r categori 'Bwlch geirfaol'.

O'r graffiau uchod, gwelir bod amrywiaeth yn Ysgogiad/Swyddogaeth cyfnewid cod y nofelau. Gwelir bod nifer o enghreifftiau o 'Bwlch geirfaol', sy'n adlewyrchu defnydd o gyfnewid cod oherwydd angen geirfaol, a nifer o enghreifftiau o 'Creu effaith arbennig', sy'n cyfateb i ddefnydd arddulliol o gyfnewid cod, er enghraifft er mwyn cymeriadu.


4.2.8 Deialog Cymeriadau

Dyma categori arall nad oes modd ei gymharu rhwng y nofelau mewn ffordd ystyrlon. Trown, felly, at graffiau'r nofelau unigol.




Ffigur 68: Deialog Cymeriadau – Volkswagen Blues

Gwelir mai'r Grande Sauterelle a Jack yw'r cymeriadau sy'n defnyddio'r mwyaf o gyfnewid cod yn eu deialog; nid yw hyn yn syndod, gan mai hwy yw'r unig gymeriadau sy'n ymddangos drwy'r nofel gyfan, gyda'r cymeriadau eraill yn ymddangos mewn un bennod yn unig.




Ffigur 69: Deialog Cymeriadau – *Bloupe*

O'r graff uchod, gwelir ei bod hi'n aml yn amwys yn *Bloupe* pa gymeriad sy'n siarad. Ar wahân i hyn, mae Bloop ei hun yn cyfrannu sawl enghraifft o gyfnewid cod. Ond ar y cyfan, nid oes nifer fawr o enghreifftiau yn ymddangos fel rhan o'r ddeialog – gwelwyd eisoes bod 74.2% o'r enghreifftiau yn y nofel hon yn rhan o'r naratif. Dengys hyn fod y pwyslais ar ddefnyddio'r cyfnewid cod yn y naratif yn hytrach nag ar ddangos y cyfnewid cod fel nodwedd o ddeialog cymeriadau.




Ffigur 70: Deialog Cymeriadau – *Xman*

Y prif gymeriad, Xman, sy'n defnyddio'r mwyaf o gyfnewid cod fel rhan o'i ddeialog, a'i gariad Sarah yn ail iddo. Mae hyn yn ddisgwyliedig i raddau, gan fod Xman yn brif gymeriad, yn ganolbwynt i'r nofel ac yn ymddangos ym mhob pennod. Ond mae hyn yn uchel iawn – 41% o'r enghreifftiau sy'n ymddangos yn y ddeialog, ac 18% o'r holl enghreifftiau sydd yn y nofel gyfan.



Ffigur 71: Deialog Cymeriadau – *Pour Sûr*

Gwelir bod nifer uchel o'r enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n ymddangos yn neialog cymeriadau'n perthyn i gymeriadau amwys. Heblaw am y categori 'amwys' hwn, Terry yw'r cymeriad sy'n defnyddio'r mwyafrif o gyfnewid cod – nid yw hynny'n syndod gan ei fod mor ganolog i'r stori, a hefyd yn ddefnyddiwr mawr o *chiac*. Mae'r awdur yn defnyddio deialog mewn ffordd ddiddorol yn y nofel hon, drwy ddefnyddio'r *fragments* er mwyn rhoi cip i'r darllenydd ar sgyrsiau'r cymeriadau amwys – nid yw'r cymeriadau yn yr olygfa honno yn cael eu henwi. Yn ogystal â'r cymeriadau dienw hyn, mae sawl enghraifft lle nad yw hi'n amlwg pa gymeriad sy'n siarad, er ein bod yn ymwybodol mai rhai o'r cymeriadau canolog ydynt. Mae'r awdur yn manteisio ar y confensiwn Ffrangeg o nodi deialog (gweler enghraifft isod), sy'n ei gwneud hi'n hawdd i'r awdur ysgrifennu deialog heb nodi pa gymeriad sy'n siarad. Gwelir esiampl isod o olygfa gyda'r *trio* (Pomme, Zed a Terry) – er bod y cymeriadau wedi'u henwi, gan fod y confensiwn Ffrangeg yn hwyluso nodi deialog heb nodi enw siaradwr, mae ansicrwydd pa un o'r tri sy'n dweud beth.



Ffigur 72: *Pour Sûr* – deialog

Wrth gwrs, er mai'r confensiwn yn y Gymraeg a'r Saesneg yw nodi deialog â dyfynodau dwbl, yn aml gan nodi pa gymeriad sy'n siarad, mae modd chwarae â'r confensiwn hwn. Er enghraifft, yng ngwaith Mihangel Morgan, gwelir ei fod yn defnyddio dyfynodau sengl yn hytrach na rhai dwbl yn y nofel *Pantglas* (2011), ac nid yw'n defnyddio dyfynodau o gwbl i nodi deialog yn *Melog* (1997) er ei fod yn nodi pa gymeriad sy'n siarad. Yn ei gasgliad o straeon byrion, *Saith Pechod Marwol* (1993), mae'n defnyddio'r confensiwn a ddefnyddir yn y Ffrangeg i nodi deialog. Gweler enghraifft isod:


- Daeth un o'r gweinyddion atynt o gornel y bwyty.
- Beth wyt ti'n mynd i'w gael, Wendy?
 - Dw i'n mynd i gael y cawl llyisiau i ddechrau ac omled a salad fel prif saig.
 - Dyna i gyd?
 - Ie. Oes gwahaniaeth 'da ti, Robyn? (Morgan 1993, t.78)

Felly, er mai yn y Ffrangeg y mae'r confensiwn hwn fwyaf cyffredin, mae modd defnyddio confensiwn tebyg yn y Gymraeg a'r Saesneg.

4.2.9 Nodweddion Gramadegol


Ar gyfer yr astudiaeth hon, aethpwyd ati i geisio craffu'n fwy manwl ar arferion gramadegol cyfnewid cod. Yn syml, a oedd nodweddion o ramadeg sy'n bodoli yn y Ffrangeg ond nid yn y Saesneg yn cael eu harddel wrth gyfnewid cod? Dadansoddwyd tri maes yn y testunau Ffrangeg, sef Y Fannod, Cenedl a Cytuno Ansoddeiriau.

Gyda'r graffiau isod, nodir nad ydynt yn cynnwys yr elfennau hynny o'r corpws nad ydynt yn berthnasol. Maent yn cael eu hepgor er mwyn gwneud y graff yn haws ei ddarllen. Er enghraifft, enwau yn unig sydd dan sylw yn y graffiau 'Cenedl' ac 'Y Fannod', a dim ond ansoddeiriau sydd yn y graffiau 'Cytuno ansoddeiriau'. Isod, ceir y graffiau ar gyfer y nofelau Ffrangeg gyda'i gilydd.




Ffigur 73: Nodweddion Gramadegol – Nofelau Ffrangeg

Mae mwyafrif yr enwau'n defnyddio'r fannod Ffrangeg (66.7%), a lleiafrif yn peidio â defnyddio'r fannod pan fyddai disgwyl ei defnyddio (0.8%). Gwelir bod mwyafrif yr enwau wedi'u marcio â chenedl (61.4%), gyda chyfradd eithaf cyfartal o enwau wedi'u marcio'n wrywaidd a benywaidd. Mae'r mwyafrif o ansoddeiriau unai yn eu ffurf gysefin (77.4%) neu heb eu cytuno (13.3%), er y ceir enghreifftiau o gytuno ansoddeiriau (9.4%).



Ffigur 74: Nodweddion Gramadegol – *Volkswagen Blues*


I droi at *Volkswagen Blues*, gwelir bod y mwyafrif o enwau'n cael eu rhagflaenu gan y fannod (65.7%). Gwelir bod y mwyafrif o enwau yn cael eu marcio'n wrywaidd (50%), ond bod modd eu marcio'n fenywaidd hefyd – er mai dim ond 4 enghraifft sydd yn y nofel hon. Nid oes unrhyw enghraifft o gytuno ansoddair sy'n deillio o gyfnewid cod.



Ffigur 75: Nodweddion Gramadegol – *Bloupe*

Yn *Bloupe*, gwelir eto bod mwyafrif yr enwau yn cael eu rhagflaenu gan y fannod (58.4%). O'r graff uchod, gwelir bod mwyafrif yr enwau yn cael eu

marcio â chenedl (58%), gyda chyfran eithaf cyfartal yn fenywaidd (28.7%) a gwrywaidd (29.3%). Mae hyn yn dilyn y patrwm sydd i'w weld yn y Ffrangeg yn gyffredinol (Hammond 2016, t.234).²²⁶ Mae rhai ansoddeiriau'n cael eu cytuno ag enwau benywaidd neu luosog, ond mae'r mwyafrif yn ymddangos yn eu ffurf gysefin (68.3%) neu'n gwrthsefyll rheolau cytuno'r Ffrangeg (14.6%).




Ffigur 76: Nodweddion Gramadegol – *Xman*

Gwelir eto bod y mwyafrif o enwau yn *Xman* yn cael eu rhagflaenu gan fannod (64.9%). Mae mwyafrif yr enwau wedi'u marcio'n wrywaidd (44.6%), er bod rhai wedi'u marcio'n fenywaidd hefyd (16.7%). Dim ond dau ansoddair sydd wedi'u cytuno, a hynny yn lluosog. Mae un o'r enghreifftiau hyn, 'smattes' (*smart*, clyfar) yn cytuno ag enw gwrywaidd lluosog (X 105). Ond mae'r enghraifft arall, 'ligits' (*legit*) yn cytuno â'r gair 'dépenses' (gwariant), sy'n enw benywaidd lluosog. Ceir ffurf fenywaidd lluosog ar gyfer nifer o ansoddeiriau Ffrangeg sy'n cymryd yr ôl-ddodiad '-es'.²²⁷

²²⁶ Mewn corpws Ffrangeg (Lexique380), gwelwyd bod 59% o enwau yn wrywaidd, a 41% yn fenywaidd.

²²⁷ Noder nad oes ffurf fenywaidd i *bob* ansoddair Ffrangeg; gweler trafodaeth lawn ar t.99.



Ffigur 77: Nodweddion Gramadegol – *Pour Sûr*

Eto yn *Pour Sûr*, mae mwyafrif yr enwau'n cael eu rhagflaenu gan fannod Ffrangeg (70.6%). Mae mwyafrif yr enwau wedi'u marcio â chenedl (64%), a'r mwyafrif wedi'u marcio'n fenywaidd (42.1%). Mae hyn yn gyfradd anghyffredin o uchel o enwau benywaidd; mae'r mwyafrif o enwau Ffrangeg yn wrywaidd (59% gwrywaidd, 41% benywaidd) (Hammond 2016, t.234). Esboniodd France Daigle fod defnyddio'r genedl fenywaidd wrth gyfnewid cod yn nodwedd o dafodiaith *chiac*, nodwedd nad yw'n cael ei rhannu â thafodieithoedd Ffrangeg-Ganadaidd eraill.²²⁸ Mae mwy o ansoddeiriau yn y nofel hon yn cael eu cytuno nag yn *Xman* (17 enghraifft), er mae'n debyg bod hyn yn rhannol oherwydd bod cynifer o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y nofel hon o'i chymharu â'r nofelau eraill, oherwydd ei hyd. Wrth edrych ar y ffigur fel canran, gwelir mai cyfradd isel o ansoddeiriau sy'n cael eu cytuno (8.4%). Nid yw mwyafrif yr ansoddeiriau yn cael eu cytuno, boed hynny wrth ymddangos yn eu ffurf gysefin (83.2%) neu wrth wrthsefyll rheolau cytuno ansoddeiriau'r Ffrangeg (8.4%).

²²⁸ Cyfweiliad personol, 26/05/2016.

O edrych ar y nofelau unigol, gwelir eu bod yn dueddol o farcio cenedl enw, ond bod y gyfran o enwau sy'n cael eu marcio – a'r gyfran o'r enwau benywaidd neu wrywaidd – yn amrywio rhwng nofelau. Mae *Bloupe* a *Pour Sûr* yn defnyddio cyfran uwch o enwau benywaidd na'r ddwy nofel arall, sy'n nodwedd o dafodiaith *chiac*, tafodiaith dinas Moncton, o'r lle y mae'r ddau awdur yn hanu. Dengys hyn fod y nofelau'n adlewyrchu tafodiaith benodol, boed hynny'n ddewis ymwybodol ar ran yr awduron, neu'n adlewyrchu eu hidiolectau personol. Mae cytuno ansoddeiriau hefyd yn amrywiol, a'r duedd yw peidio â'u cytuno, er bod modd gwneud. Mae'n ymddangos bod defnyddio'r fannod Ffrangeg gydag enw sy'n gyfnewid cod yn arfer eithaf cyson, gyda dim ond ambell i destun yn peidio ag arfer y fannod pan fyddai disgwyl gwneud hynny. Gwelir, felly, fod modd arddel rheolau gramadegol y Ffrangeg wrth gyfnewid cod, ond bod y rheolau hyn yn gyffredinol hyblyg, a bod tueddiad i'w torri mewn nifer o achosion.

4.3 Casgliadau

Yn yr adran hon, gwelwyd bod rhai nofelau Ffrangeg yn dueddol o ddefnyddio cyfnewid cod fel rhan o ddeialog y cymeriadau (*Pour Sûr*; *Volkswagen Blues*) ond bod rhai yn defnyddio mwy o gyfnewid cod yn y naratif (*Bloupe*; *Xman*). Maent yn dueddol o ffafrio cyfnewid mewnfrawddegol (76.7%), er bod *Bloupe* yn mynd yn erbyn y duedd hon. Mae amrywiaeth fawr i'w gweld yn y mathau gramadegol o eiriau sy'n cael eu defnyddio, gyda rhai nofelau'n defnyddio patrwm mwy syml nag eraill. Mae'r nofelau'n dueddol o ddefnyddio nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n enwau, brawddegau, ansoddeiriau ac ymadroddion enwol.

Ar y cyfan, gwelwyd bod dau patrwm i'w gael yn y nofelau. Mae *Volkswagen Blues* yn sicr yn defnyddio cyfnewid cod er mwyn dangos cymeriadau uniaith

Saesneg. Mae hyn yn cyd-fynd â phatrwm defnydd cyfnewid cod fel nodwedd o gymdeithas (Orwig 2015, tt.170–1): mae'r mwyafrif o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn y ddeialog (Adran), yn perthyn i'r categori sgwrs (Maes Semanteg) ac yn ddyfynnu (Ysgogiad/Swyddogaeth), er bod mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn gyfnewid mewnfrawddegol. Mae'r nofelau eraill yn defnyddio patrwm gwahanol o gyfnewid cod er mwyn adlewyrchu ieithwedd unigolyn. Gall y cyfnewid cod ymddangos fel rhan o'r ddeialog neu'r naratif (Adran), ac mae *Bloupe* yn ffafrio cyfnewid rhyngfrawddegol yn hytrach na mewnfrawddegol, felly nid yw'r patrwm yn hollol gyson â'r patrwm a awgrymwyd yn Orwig (2015, tt.170–1). Fodd bynnag, mae'r tair nofel yn defnyddio cyfradd uchel o enghreifftiau sy'n perthyn i'r categorïau Maes Semanteg 'term Saesneg', 'ymadrodd gosod' ac 'amwys', ac i'r categorïau Ysgogiad/Swyddogaeth 'Bwlch geirfaol' a 'Creu effaith arbennig'. Awgryma hyn mai ieithwedd arbennig sy'n benthg o'r Saesneg sydd dan sylw, boed oherwydd angen ieithyddol ('term Saesneg', 'Bwlch geirfaol') neu wrth gymeriadu ('Creu effaith arbennig'). Mae'r ffaith bod rheolau gramadegol y Ffrangeg hefyd yn cael eu cymhwyso i'r cyfnewid cod yn awgrymu bod y geiriau hyn wedi'u hintegreiddio i'r Ffrangeg (er bod hyn yn hyblyg ac yn amrywio o destun i destun), sydd eto'n arwydd mai adlewyrchu ieithwedd arbennig yr unigolion y mae'r cyfnewid cod yn y nofelau Ffrangeg ar y cyfan.

5: Y Nofelau Saesneg

Pwrpas y traethawd hwn yw astudio patrymau o gyfnewid cod, gan

ganolbwyntio ar destunau Cymreig a Ffrangeg-Ganadaidd. Ond yn fwy nag astudio cyfnewid Cymraeg-Saesneg a Ffrangeg-Saesneg, er mwyn cael darlun ehangach o'r defnydd o gyfnewid cod, penderfynwyd astudio cyfnewid cod Saesneg-Cymraeg a Saesneg-Ffrangeg. Sut y byddai testunau o'r math hwn – gyda chynulleidfa a fyddai'n debygol o gynnwys darllenwyr uniaith Saesneg – yn defnyddio cyfnewid cod? Mae awduron Cymraeg yn gwybod y bydd mwyafrif helaeth eu darllenwyr yn medru'r Saesneg,²²⁹ ac awduron Ffrangeg-Ganadaidd yn cyhoeddi ar gyfer poblogaeth Ffrangeg-Ganadaidd â chyfradd uchel o siaradwyr dwyieithog.²³⁰ Er y gall cynulleidfa'r testunau Saesneg hefyd gynnwys darllenwyr sy'n ddwyieithog, os yw'r awdur am apelio at gynulleidfa eang, rhaid i'r testun fod yn hygyrch i ddarllenwyr uniaith Saesneg.²³¹ A fydd patrymau gwahanol o gyfnewid cod i'w gweld yn y testunau hyn? A fydd technegau llenyddol gwahanol yn cael eu defnyddio i hybu dealltwriaeth darllenwyr?

Ar gyfer y nofelau Saesneg, dewiswyd dau destun o Gymru a dau destun o Ganada er mwyn cael cydbwysedd yn y corpws o destunau Cymreig a Ffrangeg-Ganadaidd. Beth a wyddom am gynulleidfaoedd y testunau hyn?

²²⁹ Mae rhai eithriadau, megis darllenwyr y Gymraeg o Batagonia, neu siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl eu Cymraeg ond nad ydynt yn medru'r Saesneg i'r un graddau. O ystyried darllenwyr y Gymraeg yng Nghymru, gellir disgwyl iddynt fod yn rhugl eu Saesneg.

²³⁰ Mae demograffig ieithyddol Canada yn newid o ardal i ardal. Yng Nghanada, mae 11.9% o'r boblogaeth yn uniaith Ffrangeg, ond mae'r ganran yn cynyddu i 50% wrth edrych ar Québec yn unig (Statistics Canada 2017b). Felly, mae gallu ieithyddol darllenwyr yn ddibynnol ar ardal, gyda'r boblogaeth ffrancoffon o'r tu allan i Québec yn fwy tebygol o fod yn medru'r Saesneg. Ceir trafodaeth bellach o allu ieithyddol yn ôl taleithiau Canada ar t.59 yn ogystal â mapiau yn Atodiad III.

²³¹ Er enghraifft, gwelir trafodaeth ar destun o'r fath gan Torres, sy'n trafod testunau Sbaeneg-Saesneg sy'n defnyddio 'sustained code-switching' a fyddai ond yn gallu cael eu darllen gan gynulleidfa ddwyieithog (2007, t.86), megis y nofel *Yo-yo Boeing!* (1998) gan yr awdures Giannina Braschi.

Mae *Submarine* a *Pigeon* yn nofelau cyntaf gan ddau awdur o Gymru. *New Tab* yw nofel gyntaf Guillaume Morissette,²³² ond degfed nofel Kathy Reichs yw *Bones to Ashes*. Mae Kathy Reichs yn awdur rhyngwladol, sydd wedi gwerthu chwe miliwn o lyfrau (Garratt 2017), a'i llyfrau wedi'u cyfieithu i dros ddeg ar hugain o ieithoedd (Hoggard 2006). Crëwyd addasiad ffilm o *Submarine* yn 2010 wedi'i chyfarwyddo gan Richard Ayoade, sy'n debygol o fod wedi ehangu cynulleidfa'r testun y tu hwnt i ffiniau Cymru. Mae'r ffaith bod *Submarine* a *Bones to Ashes* wedi'u cyhoeddi gan weisg sy'n rhan o Penguin Random House (gwasg ryngwladol)²³³ hefyd yn awgrymu bod cynulleidfa ehangach i'r nofelau hyn oherwydd bod y cyhoeddwr yn llawer mwy na chyhoeddwr *Pigeon* (Parthian) a *New Tab* (Véhicule Press). Wrth gyhoeddi ar gyfer cynulleidfa fwy rhyngwladol, y tu hwnt i Gymru neu gymunedau ffrancoffon Canada, mae'n fwy tebygol o gynnwys darllenwyr uniaith, heb unrhyw allu yn y Ffrangeg neu'r Gymraeg.

Oherwydd bod sgiliau ieithyddol cynulleidfa testunau Saesneg yn wahanol, roedd disgwyl y byddai'r nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y testunau yn llai nag yn y testunau Cymraeg neu Ffrangeg, ac yn wir, roedd y nifer hwn yn isel iawn mewn rhai o'r testunau. Fel y trafodwyd eisoes, nid yw enwau priod yn cael eu trin fel enghreifftiau o gyfnewid cod, er bod cyfeirio at enwau llefydd Cymraeg neu Ffrengig yn dechreg sy'n cael ei defnyddio i roi blas Cymreig neu Ffrangeg i destun. Er enghraifft, mae'r nofelau *Shifts* (1988) gan Christopher Meredith a *Resistance* (2007) gan Owen Sheers yn defnyddio enwau llefydd Cymraeg er mwyn rhoi blas i'r darlennydd o'r cyd-destun Cymreig. Ar gyfer yr astudiaeth hon, rhaid oedd cael enghreifftiau o gyfnewid cod, sef geiriau

²³² Cyhoeddodd gasgliad o straeon byrion a cherddi cyn hyn (*I Am My Own Betrayal* (2012)).

²³³ Cyhoeddwyd *Submarine* gan Penguin, tra cyhoeddwyd *Bones to Ashes* gan Arrow Books, sy'n rhan o'r grŵp Penguin Random House.

Cymraeg neu Ffrangeg, yn y testun. Isod ceir crynodeb o'r pedair nofel

Saesneg a ddewiswyd i fod yn rhan o'r corpws.

5.1 Crynodeb

***Bones to Ashes* (2007) Kathy Reichs**

Dyma ddegfed nofel y gyfres sy'n dilyn helyntion Temperance Brennan. Mae

ysgerbwdd yn cael ei anfon ati sy'n dod ag atgofion yn ôl am hen ffrind

plentyndod a aeth ar goll, gan agor achos sy'n cynnwys pornograffi'n ymwneud

â phlant, wrth i'r heddlu fynd ati i chwilio am sawl merch ifanc sydd ar goll.

Mae'r achos yn mynd â'r cymeriadau o Montréal i New Brunswick.

Cymeriadau

Temperance Brennan (Tempe)	Anthropolegydd fforensig sy'n rhannu ei hamser rhwng Charlotte, North Carolina a Montréal, Québec – yn debyg i Kathy Reichs ei hun. Yn y nofel hon, mae hi newydd ddychwelyd i Montréal.
Évangeline Landry	Merch 10 mlwydd oed pan yw Tempe yn ei chyfarfod – dwyflwydd yn hŷn na Tempe ei hun. Diflannodd Évangeline pan oedd hi'n 14 oed. Yn wreiddiol o Tracadie, New Brunswick, mae hi'n treulio'r hafau yn Pawleys Island i wella'i Saesneg ac i weithio. Mae hi'n siarad Ffrangeg fel iaith gyntaf, ac yn siarad â Tempe mewn Saesneg.
Hippolyte Gallant (Hippo)	Ditectif i'r uned 'cold cases' ²³⁴ sy'n wreiddiol o New Brunswick ac yn ddefnyddiwr mawr o'r <i>chiac</i> – mae Tempe'n ei chael yn anodd ei ddeall. ²³⁵ Disgrifir ef fel 'fluently bilingual' (BtA 34). Hippo sy'n dod â'r ysgerbwdd at Tempe.
Andrew Ryan	Lefftenant-ditectif i'r <i>Sûreté du Québec</i> oedd mewn perthynas gyda Tempe cyn dechrau'r nofel hon. Mae'n cydweithio gyda hi wrth iddo chwilio am nifer o ferched ifainc sydd ar goll.
Harry	Chwaer Tempe sy'n dod i aros ar ôl gwahanu oddi wrth ei gŵr.
Obéline	Chwaer Évangeline. Mae hi'n briod â Bastarache, dyn sy'n rhedeg bariau a <i>strip clubs</i> ac sydd o dan amheuaeth yn achos Andrew Ryan.
LaManche	Pennaeth Tempe – cyfarwyddwr yr adran feddygaeth-gyfreithiol yn LSJML. ²³⁶

Tabl 53: Cymeriadau *Bones to Ashes*

²³⁴ I roi ei enw llawn – *L'unité "Cold cases" du Service des enquêtes sur les crimes contre la personne de la Sûreté du Québec*.

²³⁵ Cyn darganfod mai o New Brunswick y daw Hippo, dywed 'Whatever its origin, Hippo's French was a mystery to my American ear' (BtA 33).

²³⁶ *Laboratoire de sciences judiciaires et de médecine légale*.

Ceir hefyd nifer fawr o gymeriadau ymylol fel rhan o'r achos (megis rhai o'r merched coll, gweithwyr yn y bariau sy'n berchen i Bastarache, dynion sy'n bygwth Tempe a'i chwaer) ac aelodau o'r heddlu (megis Solange, aelod o'r *Division des crimes technologiques*). Mae'r cymeriadau hyn yn gymysgedd o gymeriadau ffrancoffon ac angloffon, gyda'r awdur yn cynnwys enghreifftiau o gyfnewid cod metaieithyddol.²³⁷

***Submarine* (2008) Joe Dunthorne**

Nofel gyntaf Dunthorne, sydd wedi'i lleoli yn Abertawe. Dilynwn hynt Oliver

Tate wrth iddo wynebu digwyddiadau nodweddiadol o fachgen yn ei arddegau: cael cariad; ymdopi â diwedd y berthynas; ei brofiadau â'i ffrindiau; a'i berthynas â'i rieni sy'n mynd drwy gyfnod anodd yn eu priodas. Mae Oliver yn ymwybodol ei fod yn wahanol i blant eraill, er enghraifft gyda'i ddiddordeb mewn geiriau. Gwelwn hyn yn nheitlau'r penodau, megis 'Triskadekaphobia', 'Autarky', 'Shadoof' a 'Fastigium'. Mae ei resymeg yn wahanol i'r rhan fwyaf o bobl – er enghraifft, pan benderfyna y byddai hi'n syniad da i ladd ci Jordana, fel ei bod yn dysgu delio â galar cyn marwolaeth ei mam.

Cymeriadau

Oliver Tate	Bachgen pymtheg mlwydd oed. Mae'n treulio llawer o'i amser yn poeni am farwolaeth ac am berthynas ei rieni.
Jordana Bevan	Ffrind Oliver, yna ei gariad. Mae ei mam yn dioddef o dyfiant ar yr ymennydd ac yn mynd drwy driniaeth yn ystod y nofel.
Lloyd Tate	Tad Oliver. Mae'n arbenigwr ar hanes Cymru.
Jill Tate	Mam Oliver. Mae hi'n cyfarfod â'i chyn-gariad, Graham, sy'n effeithio ar ei pherthynas â Lloyd, ac yn achosi poen meddwl i Oliver.
Graham	Cariad Jill cyn iddi gyfarfod â Lloyd. Mae'n dysgu yoga a capoeira ac yn byw ym Mhort Eion.

²³⁷ Yn aml, nid yw'r iaith yn cael ei nodi'n amlwg. Er enghraifft, mewn un olygfa, ceir sgwrs rhwng y cymeriadau Tempe ac Obéline, wedi'i nodi yn y Saesneg, heb unrhyw arwydd ynddi o gyfnewid metaieithyddol (e.e. defnydd o eiryngau neu dagiau Ffrangeg, neu nodi 'she said in French', fel y gwneir mewn rhannau eraill o'r nofel). Ar ddiwedd y sgwrs, dywed Harry (nad yw'n siarad Ffrangeg), "You couldn't at least *try* English?" (BtA 174). Mae'r sylw hwn yn datgelu i'r darlennydd bod y sgwrs sy'n rhagflaenu wedi digwydd yn y Ffrangeg 'go iawn', ond iddi gael ei chofnodi yn y Saesneg yn y nofel.

Zoe Preece	Merch y mae Oliver a'i ffrindiau yn ei bwlio ar ddechrau'r nofel. Mae hi'n newid ysgol, ac mae Oliver yn ei chyfarfod eto tua diwedd y nofel, wedi newid yn llwyr.
------------	--

Tabl 54: Cymeriadau *Submarine*

Ceir hefyd nifer o gymeriadau mwy ymylol, megis Chips, ffrind Oliver, Dr Goddard y ffisiotherapydd, Geraint, ffrind tad Oliver, ffrindiau newydd Zoe a rhieni Jordana. Nid yw mwyafrif y cymeriadau yn cael eu dangos yn defnyddio'r Gymraeg, er bod y cymeriadau iau yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol – gwelwn Mr Llewellyn, eu hathro Cymraeg yn y nofel.

***New Tab* (2014) Guillaume Morissette**

Nofel gyntaf Morissette sy'n dilyn dyn ifanc ym Montréal a grŵp o ffrindiau.

Maent oll yn ddigyfeiriad, yn ei chael hi'n anodd i greu perthynas neu ddechrau gyrfa. Fe'u gwelwn yn mynychu partion di-rif ym Montréal, yn yfed yn drwm, ac yn arbrofi â chyffuriau. Er bod Thomas yn ffrancoffon, mae wedi troi at y Saesneg, ac yn llwyddo i fyw ei fywyd fwy neu lai heb y Ffrangeg. Er hyn, mae'r Ffrangeg yn dal i ymddangos yn y nofel, yn ogystal â sawl adran sy'n trafod dwyieithrwydd a bywyd ffrancoffon. Mae'r nofel yn llawn myfyrdod ar fywyd ac anallu Thomas i greu perthynas yn y byd go iawn tra bo'n or-ddibynnol ar ei fywyd ar-lein.

Cymeriadau

Thomas	Yn wreiddiol o ddinas Québec. Mae'n astudio cwrs ysgrifennu creadigol ym Mhrifysgol Concordia ²³⁸ ac yn gweithio i gwmni sy'n cynllunio gemau electronig. Mae'n dioddef o lesgedd (<i>ennui</i>), heb ddiddordeb mawr yn ei fywyd. Mae'n treulio rhan helaeth o'i fywyd ar-lein, yn mynychu partiön ym Montréal ac yn ysgrifennu nawr ac yn y man. Fel yr unig un o'i gyd-letywyr sy'n rhugl yn y Ffrangeg, ef sy'n gorfod delio â'r awdurdodau (e.e. yr heddlu, y cwmni trydan).
Shannon	Ffrind Thomas sy'n gwneud yr un cwrs ysgrifennu creadigol. Mae sôn ei bod wedi ceisio siarad Ffrangeg â Thomas ac mae hi'n mynnu "I speak French for real, though [...] Or at least better than that" (NT 21).
Ines	Merch y mae Thomas yn ei chyfarfod wrth edrych am rywle newydd i fyw. Mae'n symud i mewn gyda hi, Niklas, Brent, a Cristian. Dywed nad yw hi'n siarad llawer o Ffrangeg gan ei bod yn dod o Edmonton yn wreiddiol (NT 17-18).
Brent	Daw o Awstralia'n wreiddiol. Mae'n egotistaidd. Hoffai fod yn gyfarwyddwr, ond mae'n ffilmio priodasau a gwneud ambell fideo cerddoriaeth. Ef sy'n rhedeg y sinema awyr agored anghyfreithlon yn yr iard gefn.
Cristian	Mae ganddo berthynas anodd gyda'i fam; mae'n amharod i fenthyg arian ganddi nac i aros gyda hi, er ei bod yn byw yn ardal Hochelaga Montréal. Mae'n dragwyddol hwyr i'w swydd nes iddo gael y sac. Dywed Ines 'Cristian can speak some French, but he only really uses it at work' (NT 17).
Romy Nelson	Ffrind Shannon, merch y byddai Thomas yn hoffi dechrau perthynas â hi. Mae hi'n rhedeg <i>zine</i> ar ysgrifennu creadigol, ond mae'n dod i ben yn ystod y nofel. Dywed ei bod yn cael traferth cael swydd ym Montréal gan nad yw hi'n medru'r Ffrangeg (NT 72).
Niklas	Almaenwr ugain mlwydd oed sy'n byw yn y fflat tra bo Brent yn Ne America. Mae'n dychwelyd i'r Almaen yn ystod y nofel.

Tabl 55: Cymeriadau *New Tab*

Ceir nifer o gymeriadau mwy ymylol, megis pobl eraill yn y partiön a chydweithwyr Thomas. Mae'r cymeriad Pierre, landlord y fflat, yn ffrancoffon ac yn penderfynu delio â Thomas yn unig, mae'n debyg oherwydd mai ef yw'r unig un sy'n siarad Ffrangeg.

²³⁸ Nodir bod Concordia yn un o brifysgolion angloffon Montréal, sy'n arwydd pellach bod Thomas wedi cefnu ar y Ffrangeg. Dangosir nad yw rhai cymeriadau ffrancoffon yn deall pam iddo ddewis Concordia yn hytrach na phrifysgol ffrancoffon.

Pigeon (2016) Alys Conran

Nofel sydd wedi'i lleoli mewn ardal chwarelyddol yng Ngogledd Cymru, megis Bethesda neu Ddyffryn Nantlle. Dilynwn hanes y ffrindiau Pigeon ac Iola, a'r ddwy drosedd sy'n newid eu bywydau. Mae cariad mam Pigeon, Adrian, yn symud i fyw atynt – dyn cas sy'n llywodraethu dros y teulu ac yn curo Pigeon a'i fam. Gwelwn fod y sefyllfa gartref yn effeithio ar Pigeon, ac yn ei wthio i ymosod ar Gwyn. Yn dilyn hyn, mae Pigeon yn mynd i Sefydliad Troseddwyr Ifainc yn Lerpwl am ladd Adrian. Gwelwn ef yn dod yn ôl i Gymru ar ddiwedd ei gyfnod yno, wedi anghofio llawer o'i Gymraeg.

Cymeriadau

Pigeon	Bachgen ifanc. Mae'n amlwg yn fachgen clyfar – mae ganddo ddiddordeb mewn geiriau a daearyddiaeth – ond mae'n ddrwg, yn bennaf oherwydd ei sefyllfa gartref. Mae gormod o ddychymyg ganddo. Mae'n dweud wrth Iola bod Gwyn yn llofrudd bron fel jôc, ond mae'n dod i greu'r peth ei hun.
Iola	Ffrind gorau Pigeon. Cafodd ei magu gan ei Nain. Nawr, ei chwaer fawr, Efa, sy'n gofalu amdani.
Cher	Mae hi'n symud o Loegr gyda'i thad, Adrian. Mae arni ofn ei thad, ac mae ei chwaer yn ceisio'i pherswadio i symud ati i Fanceinion. Nid yw'n medru'r Gymraeg, hyd yn oed ar ôl byw yng Nghymru am nifer o flynyddoedd. Mae'r ddamwain â fan Gwyn a achoswyd gan Pigeon wedi cael effaith arni gan achosi anabledydd dysgu.
Efa	Chwaer fawr Iola sy'n gofalu amdani.
Mari, mam Pigeon	Gwraig weddw dawel, sy'n amlwg wedi cael bywyd caled. Mae'n gweithio fel gwniadreg. Ceir awgrym ei bod yn gweithio fel putain (P 161) a gwelwn ei chyflwr meddyliol yn gwaethygu yn ystod y nofel.
Adrian	Cariad mam Pigeon. Cyfeirir ato fel 'He' neu 'Him' yn y nofel.
Gwyn Gelataio	Dyn hufen iâ. Mab i rieni Eidalaid. Gwelwn ei fod yn ddihyder ei Gymraeg.
Elfyn	Dyn y mae Pigeon yn mynd i wneud cwrs codi wal sych gydag ef, ar argymhelliad y swyddog profiannaeth. Mae'n siarad Cymraeg â Pigeon.

Tabl 56: Cymeriadau *Pigeon*

Ceir nifer o gymeriadau ymylol, rhai'n siarad Cymraeg, rhai'n siarad Saesneg – er enghraifft, merched mewn siop, heddlu, menywod y capel a Dafydd, cariad

Efa. Mae hyn yn adlewyrchu cymysgedd ieithyddol yr ardal drwy gynnwys nifer o gymeriadau sy'n medru'r Gymraeg a chymeriadau uniaith Saesneg.

Cyn troi at ganlyniadau codio'r pedair nofel, dylem hefyd drafod gallu ieithyddol y pedwar awdur, gan fod hyn yn berthnasol i ddamcaniaeth Lipski ynghylch llenyddiaeth sy'n defnyddio cyfnewid cod (1982). Wrth edrych ar awduron y pedair nofel sydd dan sylw yn yr adran hon, gwelir bod eu gallu ieithyddol yn amrywio. Mae Guillaume Morissette yn siarad Ffrangeg fel mamiaith, er ei fod yn byw yn y Saesneg i raddau helaeth (Morissette 2014). Nid yw'n ysgrifennu ffuglen yn y Ffrangeg, er ei fod wedi cyhoeddi erthyglau yn y Ffrangeg.²³⁹ Mae Alys Conran yn gwbl rugl yn y Gymraeg, gan ddweud iddi siarad Cymraeg a Saesneg 'o'r dechrau' gyda'r Gymraeg 'dipyn bach ar ôl' y Saesneg; cafodd ei haddysg drwy'r Gymraeg, ond Saesneg oedd prif iaith yr aelwyd.²⁴⁰ Mae hi'n ysgrifennu'n bennaf yn y Saesneg, ond hefyd yn y Gymraeg,²⁴¹ er ei bod yn ystyried bod ei hysgrifennu yn y Gymraeg ychydig flynyddoedd y tu ôl i'w hysgrifennu yn y Saesneg.²⁴² Mae Kathy Reichs yn rhugl ei Ffrangeg,²⁴³ ac yn defnyddio'r Ffrangeg yn rhinwedd ei gwaith ym Montreal (Brioux d.d.), ond mae'n debyg iddi ddysgu fel oedolyn. Mae'n aneglur i ba raddau y mae Joe Dunthorne yn medru'r Gymraeg (os o gwbl). Mynychodd ysgol cyfrwng Saesneg Yr Olchfa, Abertawe (Williams 2018); mae'n debyg y byddai wedi derbyn ychydig o wersi Cymraeg yno.

²³⁹ Er enghraifft ysgrifau ar gyfer y cylchgrawn *Nouveau Projet*.

²⁴⁰ Roedd y Gymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd hefyd, ond i raddau llai. Roedd hi a'i chwaer yn rhugl yn y Gymraeg, ond yn dueddol o siarad Saesneg â'i gilydd. Cyfweliad personol 13/10/2017.

²⁴¹ Cyhoeddodd stori fer 'Magu Emyr' fel rhan o'r gyfrol *O! Mam Bach* (2017).


²⁴² Cyfweliad personol 13/10/2017.

²⁴³ Gweler cyfweliad Ffrangeg (Reichs 2014).

5.2 Canlyniadau Codio'r Nofelau Saesneg

Ar gyfer y nofelau hyn, y geiriau Cymraeg neu Ffrangeg a oedd yn cael eu codio. Dewiswyd dwy nofel Gymreig (*Submarine*; *Pigeon*) a dwy nofel Ffrengig (*Bones to Ashes*; *New Tab*). Anwybyddwyd unrhyw eiriau o ieithoedd eraill a oedd yn codi yn y testun yn ôl yr arfer.²⁴⁴

5.2.1 Cymhareb



Ffigur 78: Cymhareb – Nofelau Saesneg

Cymhareb cyfnewid cod y nofelau Saesneg yw 0.41 (466 enghraifft / 1138 tudalen).²⁴⁵ O edrych ar Ffigur 78 uchod, mae rhaniad clir i'w weld rhwng y nofelau. Mae dwy ohonynt (*Bones to Ashes* a *Pigeon*) yn defnyddio llawer mwy o gyfnewid cod o'u cymharu â'r ddwy nofel arall (*Submarine* a *New Tab*). Er bod y gymhareb ar gyfer *Bones to Ashes* a *Pigeon* yn gymharol uchel, mae'n llawer is nag ar gyfer y nofelau Ffrangeg (2.25) a'r nofelau Cymraeg (4.38). Rhaid cofio bod y nofelau Ffrangeg a Chymraeg hyn yn cael eu hysgrifennu ar gyfer cynulleidfa ddwyieithog (yn bennaf os nad yn unig).

²⁴⁴ Hynny yw, yr hyn sydd dan sylw yma yw cyfnewid Saesneg-Cymraeg a Saesneg-Ffrangeg.

²⁴⁵ Cymhareb y nofelau Saesneg unigol:

Bones to Ashes: 176 enghraifft / 439 tudalen = 0.4

Submarine: 10 enghraifft / 288 tudalen = 0.03

New Tab: 8 enghraifft / 157 tudalen = 0.05

Pigeon: 272 enghraifft / 254 tudalen = 1.07

Mae hyn yn wahanol i gynulleidfa'r testunau Saesneg, sy'n perthyn i sbectrwm ieithyddol ehangach. Wrth gwrs, gall y gynulleidfa hon gynnwys darllenwyr sy'n rhugl yn y ddwy iaith, ond gall hefyd gynnwys darllenwyr sy'n siarad ychydig o'r iaith₂ neu sy'n uniaith Saesneg. Felly, rhag dieithrio darlennydd uniaith, mae'n debygol bod awduron yn cadw cyfradd y cyfnewid cod yn is. Yn ogystal, mae'r awduron yn defnyddio sawl strategaeth er mwyn sicrhau bod y darlennydd uniaith yn deall y rhannau hynny o'r testun sydd yn y Ffrangeg neu'r Gymraeg. Weithiau mae'r geiriau yn cael eu cyfieithu yn eu cyfanrwydd, er enghraifft:

“*Frippe-moi l'chu.*” Roughly translated from *chiac*, “kiss my ass.” (BtA 332).²⁴⁶

Ar adegau eraill, dim ond un gair allweddol sy'n cael ei gyfieithu, fel y gwelir yma:

“*L'air conditionné est brisé.*”

On Hippo's tongue the word for broken came out “breezy.” Hardly.

(BtA 100)

Er bod modd ailadrodd yr union eiriau yn y Saesneg, strategaeth arall yw esbonio'r hyn a ddywedwyd. Gwelir esiampl o'r ddwy dechneg yn y darn a ganlyn:

“Ti'n yfed Pigeon?” Elfyn asks one day. *Do you drink, Pigeon?*

“Na,” says Pigeon.

“Na fin[n]a machgen i. Na finna. Hen beth gwael di alcohol. Difetha bywyda' a Difetha pobl,” says Elfyn.

Pigeon sits quietly, knowing Elfyn's right. Alcohol is a home-wrecker, a people-wrecker a medicine with terrible side-effects. (P 223)

Felly, hyd yn oed os nad yw'r darlennydd yn deall y Gymraeg, mae'n cael blas ohoni, ac nid oes perygl iddo beidio â deall y stori. Er hyn, mae'n gosod y darlennydd dwyieithog mewn sefyllfa freintiedig; y darlennydd hwnnw fydd yn deall gyntaf, tra bo'n rhaid i ddarlennydd uniaith aros am esboniad neu gyfieithiad (Gordon a Williams 1998; Bohata 2004).²⁴⁷ Gall yr esboniad, fel yr

²⁴⁶ Yn ôl Kasparian mai 'frippe-moi l'chu' (defnyddir yr orgraff 'fripe-moi l'tchu' ganddi) yn rheg sy'n perthyn i Ffrangeg *acadien* (2005, t.320).

²⁴⁷ Gweler trafodaeth fanylach ar y technegau hyn ym mhennod 10: Theori lenyddol.


enghraifft uchod, fod ychydig yn wahanol yn y Saesneg i'r hyn a ddywedwyd yn yr Iaith₂. Wrth gwrs, nid pob gair sy'n cael ei gyfieithu, yn enwedig y geiriau sy'n amlwg eu hystyr. Er enghraifft, gadewir nifer o regfeydd ac ebychiadau heb eu cyfieithu, gan adlewyrchu'r ffaith nad oes gair cyfatebol ar gael i'r cymeriad, sy'n troi at ei f/mamiaith yn naturiol yn y sefyllfa. Fel yr esbonia Pavlenko, er bod tueddiad gan siaradwyr dwyieithog i ddefnyddio rhegfeydd yn yr Iaith₂ gan eu bod yn cael eu gweld yn llai tabŵ na rhegfeydd yn yr Iaith₁, 'L1 swearwords and interjections may also "pop out" uncontrollably in moments of pain or frustration' (2008, t.159). Yn ogystal â dangos defnydd o gyfnewid cod sy'n adlewyrchu tueddiadau siaradwyr go iawn, mae'r geiriau hyn yn rhoi lliw i'r testun Saesneg.

Mae dwy ffordd o ddelio â chyfnewid cod mewn testun Saesneg, felly. Mae modd defnyddio'r ail iaith i roi lliw a blas i'r testun, ond gan ddefnyddio geiriau sy'n hawdd eu deall, a rhoi cyfieithiad neu esboniad yn ôl yr angen; gall hyn fod yn ailadroddus i'r darllenwyr sy'n deall y ddwy iaith. Ffordd arall yw cadw rhywfaint o'r ystyr yn ôl ar gyfer darllenwyr dwyieithog. Fel y dywed Torres am y testunau hyn, '[they] prioritize the bilingual reader and may cause instances of discomfort or annoyance to the monolingual reader. These strategies subvert the commodification of Spanish and gratify the bilingual, bicultural reader' (2007, t.78). Oherwydd eu gallu ieithyddol gwahanol, mae modd dadlau bod darllenwyr dwyieithog a darllenwyr uniaith yn cael profiadau gwahanol: 'monolingual readers of texts with many bilingual passages may come to understand that asymmetrical power relationships and cultural dissimilarity mean that readers will experience texts differently, depending on their social and cultural positionality' (2007, tt.91–2). Gellir defnyddio cymysgedd o'r technegau hyn o fewn un testun, fel y gwelir yn y testunau dan sylw yn yr

astudiaeth hon. Fodd bynnag, heblaw bod yr awdur am greu testun arbrofol iawn,²⁴⁸ rhaid sicrhau ei f/bod yn creu testun sy'n hygyrch i ddarllenwyr heb sgiliau dwyieithog cryf.

5.2.2 Penodau

Nid oes modd creu graff o'r pedair nofel gyda'i gilydd wrth gymharu penodau oherwydd bod nifer y penodau'n amrywio rhwng nofelau. Trown felly at graffiau o'r nofelau unigol:



Yn *Bones to Ashes*, gwelir bod y rhan fwyaf o'r penodau'n cynnwys o leiaf un enghraifft o gyfnwid cod, heblaw am chwe phennod.²⁴⁹ Mae'r tabl isod yn dangos y tair pennod â'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnwid cod.

²⁴⁸ Mae Torres yn trafod nofelau sy'n defnyddio 'sustained code-switching', lle mae rhaid i'r darllenwyr fod yn ddwyieithog er mwyn deall y testun. Noda bod y testunau hyn yn arbrofol iawn, ac wedi'u cyhoeddi gan gyhoeddwr academaidd yn hytrach na chyhoeddwr poblogaidd (2007, t.86).

²⁴⁹ Sef penodau 1, 6, 13, 29, 30, a 35.


<i>Pennod</i>	<i>Nifer enghreifftiau</i>	<i>Crynodeb</i>
3	23	Gwelwn Tempe yn teithio o Charlotte i Montréal. Mae hi'n derbyn galwad ffôn gan LaManche ynglŷn â'r gwaith fydd yn aros amdani'r bore canlynol. Y bore hwnnw â i'r gwaith, gan esbonio natur y gwaith, rhaniad yr heddlu ²⁵⁰ a'r adeilad. Mae'r achos sy'n aros amdani yn ymwneud â chyrff mam a merch sydd wedi'u canfod mewn tŷ tra bo'r tad yn eistedd i lawr grisiau yn chwarae gêm gyfrifiadurol.
2	14	Atgofion o blentyndod Tempe yn wyth mlwydd oed. Mae hi'n cyfarfod Évangeline am y tro cyntaf. Siarad am Acadie. Darllen y gerdd <i>Évangeline</i> – cerdd epig gan Henry Wadsworth Longfellow am <i>Le Grand Dérangement</i> . ²⁵¹ Rhaid i Évangeline gyfieithu i Tempe. Cadwnt mewn cysylltiad rhwng yr hafau drwy lythyron, ond mae Évangeline yn diflannu pan fo Tempe yn ddeuddeg oed. Â i holi ei theulu amdani, ond maent yn gwrthod dweud dim heblaw bod Évangeline a'i chwaer wedi gadael a'u bod yn beryglus.
38	13	Derbynia Tempe alwad ffôn gan Rob Potter, ieithydd fforensig, sydd wedi dadansoddi'r cerddi a allai fod wedi'u hysgrifennu gan Évangeline. Gwnaed hyn yn y gobaith o brofi pryd yn union y gallai Évangeline fod wedi marw. Mae darn o gerdd yn cyfeirio at drychineb 9/11, felly nid yw Évangeline wedi marw yn ei harddegau fel yr oedd Obéline wedi'i honni. Mae Tempe yn chwarae gêm gyda Cecile, gydag adran yn disgrifio'i dwyieithrwydd; nid yw Cecile yn ymwybodol o'r ffiniau rhwng y ddwy iaith. Mae'n ceisio cael gwybodaeth am Bastarache a'r bobl sy'n cipio'r merched.

Tabl 57: *Bones to Ashes* – penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnwid cod

Gwelir bod nifer o'r enghreifftiau yn dod o ddyfynnu enwau neu eiriau cymeriad, megis enwau'r sefydliadau ym Montréal a dinas Québec yn y Ffrangeg, a geiriau Évangeline fel merch a'i geiriau yn y cerddi yn y Ffrangeg.

²⁵⁰ Ceir dau fath o heddlu ym Montréal – yr SPVM a'r SQ. Yr SQ – *Sûreté du Québec* – yw'r heddlu taleithiol. Yr SPVM – *Service de police de la Ville de Montréal* – yw heddlu'r ddinas.

²⁵¹ *Le Grand Dérangement* (Y Dadleoliad Mawr) oedd pan orfu i'r *Acadiens* adael Acadie (ardal sydd heddiw yn cynnwys Nova Scotia, New Brunswick a Prince Edward Island) gan y Prydeinwyr. Ceir trafodaeth bellach o'r cyfnod hwn mewn hanes yn yr adran 1.5.1 Canada. Mae'r digwyddiad hwn yn elfen greiddiol o'r dychymyg *acadien* (Clarke 2004, t.27). Mae'n arwyddocaol bod digwyddiad hanesyddol sydd â goblygiadau cryf i'r hunaniaeth *acadien* yn cael ei drafod mor fanwl mewn testun sydd ar gyfer cynulleidfa angloffon.




Ffigur 80: Penodau – *Submarine*

O'r graff uchod, gwelir nad yw mwyafrif penodau *Submarine* yn cynnwys unrhyw enghreifftiau o gyfnwid cod. Dim ond dwy bennod sy'n cynnwys mwy nag un enghraifft o gyfnwid cod, felly dyma'r unig rai sydd wedi'u cynnwys yn y tabl crynodeb isod. Mae'r esiamplau sydd ynddynt yn bennaf yn esiamplau o Oliver yn dyfynnu cymeriadau eraill.

<i>Pennod</i>	<i>Nifer enghreifftiau</i>	<i>Crynodeb</i>
1.11 Shadoof	3	Mae Oliver wedi gwahodd Jordana draw am swper – mae'n gobeithio y bydd yn colli ei wryfydd heno. Ei uchelgais yw cael rhyw cyn iddo droi'n un-ar-bymtheg. Ceir adran yn trafod geirfa rhyw, gan gynnwys yr athro Cymraeg yn dweud bod siaradwyr Cymraeg yn defnyddio geiriau Saesneg fel arfer, ond yn rhoi termau hen ffasiwn iddynt ('llawes goch', 'coes fach'). Mae Oliver a Jordana yn cysgu gyda'i gilydd.
2.9 Botanical	2	Mae Oliver yn mynd i gyfarfod Jordana. Nid yw wedi bod mewn cysylltiad ers i'w mam fynd i'r ysbyty. Mae Oliver yn tybio bod peidio â chysylltu am fod yn dda i'w perthynas. Nodir bod Jordana 'sounds more Welshy today' (Sub 167). Mae Oli'n cael ei siomi bod Jordana yn meddal – 'she's been sensitized, turned gooey in the middle' (Sub 170).

Tabl 58: *Submarine* – penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnwid cod

Nid oes modd creu graff na thabl ar gyfer y nofel *New Tab* gan nad oes penodau yn y nofel hon. Trown felly at *Pigeon*.



Ffigur 81: Penodau – *Pigeon*

Gwelir o'r graff uchod bod y rhan fwyaf o benodau *Pigeon* yn cynnwys enghreifftiau o gyfnewid cod.²⁵² Yn y tabl isod, ceir crynodeb o'r penodau â'r nifer uchaf o enghreifftiau o gyfnewid cod.


<i>Pennod</i>	<i>Nifer enghreifftiau</i>	<i>Crynodeb</i>
9	51	lola ac Efa yn dawnsio o amgylch y gegin. Cofio Nain yn symud i fyw gyda hwy oherwydd salwch (ac yna marwolaeth) eu mam. Mae eu tad yn dioddef o iselder yn dilyn marwolaeth ei wraig, ac mae'n gadael y teulu. Wrth i Nain heneiddio, Efa sy'n edrych ar ôl lola. lola sy'n darganfod corff Nain wedi iddi farw.
5	38	Efa ac lola'n mynychu'r Capel, ond Efa'n peidio â mynychu ar ôl sylwadau snobyddlyd 'Antis' y Capel. Esbonia i lola nad yw'r 'Antis' yn hoff ohonynt gan nad oedd Nain wedi priodi pan gafodd hi eu tad. Er nad yw Efa'n mynychu, rhaid i lola fynd i'r Capel a'r Ysgol Sul. Mae Pigeon yn diflasu hebddi ac yn dechrau mynychu hefyd. Mae'r ddau yn camfihafio ac yn cael eu hanfon oddi yno, gan chwerthin wedi iddynt wneud i Anti Glenys regi.
40	23	lola'n mynd trwy hen bapurau Nain yn y tŷ a chanfod llun gyda'r wyneb wedi'i dorri allan – llun o'i thaid – a chardiau post ganddo. Dafydd (cariad Efa) yn bygwth lola – mae wedi siarad â mam Pigeon (sy'n dioddef o salwch meddwl), ac yn gwybod mai lola a laddodd Adrian, nid Pigeon.

Tabl 59: *Pigeon* – penodau gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod


²⁵² Mae 12 pennod heb unrhyw enghreifftiau o gyfnewid cod: 6, 8, 10, 16, 19, 20, 27, 29, 34, 35, 36, a 41.

Mae nifer o'r esiamplau o gyfnewid cod yn y penodau hyn yn ymwneud â theulu, megis trafod Taid a Nain lola. Ceir hefyd bytiau o sgysiau'n ymddangos yn y Gymraeg, yn enwedig gan Nain lola a'r 'Antis' yn y Capel. Mae'n ddiddorol bod y penodau ar ôl i Pigeon golli ei Gymraeg yn cynnwys nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod.²⁵³ Yn y penodau agoriadol, ef sy'n gyfrifol am nifer fawr o'r enghreifftiau o gyfnewid cod. Tybiwyd y byddai llawer llai o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y nofel ar ôl y pwynt hwn yn y stori, ond gwelir yn amlwg o ganlyniadau'r gwaith codio nad yw hyn yn wir.²⁵⁴


5.2.3 Adran



Ffigur 82: Adran – Nofelau Saesneg





Ffigur 83: Adran – *Bones to Ashes*



Ffigur 84: Adran – *Submarine*

²⁵³ Caiff Pigeon ei gyfweld gan yr heddlu ym mhennod 19; erbyn pennod 21 mae yn y Sefydliad Troseddwy'r Ifanc. Mae'n dychwelyd i'r pentref ym mhennod 25, ond nid yw'n ceisio siarad Cymraeg eto tan iddo gyfarfod ag Elfyn ym mhennod 38.






²⁵⁴ Mae 168 enghraifft o gyfnewid cod ym mhenodau 1-21, a 103 enghraifft ym mhenodau 22-47.



O edrych ar y nofelau Saesneg gyda'i gilydd (Ffigur 82), gwelir yr un gyfradd yn union o gyfnewid cod yn y ddeialog ag yn y naratif (45.7%). Gwelir bod *Bones to Ashes* a *Pigeon* yn defnyddio patrwm tebyg o gyfnewid cod. Yn *Bones to Ashes*, mae nifer o'r esiamplau sy'n rhan o'r naratif yn enwau priod ar gyfer enwau sefydliadau, er enghraifft enwau adrannau o'r heddlu. Mae *Submarine* a *New Tab* yn defnyddio cyfradd uchel o ddyfynnu (60% *Submarine*; 75% *New Tab*). Mae hyn yn atgyfnerthu'r ffaith nad yw'r laith₂ yn rhan o ieithwedd y prif gymeriadau. Yn *Submarine*, mae'r cyfnewid cod yn nodwedd o arwyddion neu gymeriadau eraill, megis yr athro Cymraeg, Mr Llewellyn. Yn *New Tab*, nid yw Thomas yn defnyddio llawer o gyfnewid cod er ei fod yn medru'r Ffrangeg, oherwydd ei fod wedi cefnu ar y Ffrangeg.

O'r graffiau uchod, gwelir bod y nofelau Saesneg sydd â chyfradd uwch o gyfnewid cod yn ei ddefnyddio yn y ddeialog ac yn y naratif, gyda chyfradd eithaf cyfartal rhwng y ddwy adran. Mae'r ddwy nofel sy'n defnyddio cyfradd is o gyfnewid cod o'i gymharu â'r ddwy nofel arall yn defnyddio'r cyfnewid cod mewn dyfyniadau.

5.2.4 Hyd



Gwelir bod y nofelau Saesneg (Ffigur 87) yn ffafrio cyfnewid mewnfrawddegol (82.6%), a 55.6% o'r rheiny yn eiriau unigol. Ar un wedd, mae hyn yn mynd yn erbyn damcaniaeth Lipski (1982). Yn ôl damcaniaeth Lipski, y math symlaf o

gyfnewid cod yw defnyddio ychydig o eiriau yma a thraw ('thrown in for flavor' yw esboniad Lipski (1982, t.195)); gelwir y math hwn o lenyddiaeth yn 'Math I'. O gofio mai dyma'r math symlaf o gyfnewid cod, gellid bod wedi disgwyl mai dyma'r math o gyfnewid cod a fyddai'n bresennol mewn testunau ar gyfer darllenwyr nad oes disgwyl iddynt fod yn ddwyieithog. O weld y gymhareb ar ddechrau'r adran hon, mae'n amlwg bod dau o'r testunau (*Bones to Ashes*; *Pigeon*) yn defnyddio mwy o gyfnewid cod na'r hyn a ddisgwylid o gyfnewid 'thrown in for flavor'. Ond mae Lipski yn dadlau mai'r math mwyaf syml wedyn (Math II) fyddai testun yn defnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol. Dim ond 17.4% o'r cyfnewid yn y nofelau Saesneg sy'n gyfnewid rhyngfrawddegol. Efallai bod y testunau mwy cymhleth hyn yn disgyn rhwng Math I a Math III Lipski, ond gan ddarparu cymorth ieithyddol i ddarllenwyr uniaith i ddeall y cyfnewid cod.

Cyfnewid mewnrawddegol yw mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Bones to Ashes* (75.5%) a *Pigeon* (86.4%). Nid oes unrhyw enghreifftiau o gyfnewid cod rhyngfrawddegol yn *Submarine*. Mae'n amlwg bod y testun hwn yn cyfateb i Math I Lipski (1982), gan fod cyn lleied o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y testun. Ceir un enghraifft o gyfnewid rhyngfrawddegol yn *New Tab*, er bod pob enghraifft arall yn gyfnewid o air unigol, sy'n annisgwyl. Fodd bynnag, nid yw'r enghraifft hon o gyfnewid rhyngfrawddegol yn eithrio'r testun rhag cyfateb i Math I Lipski (1982), gyda'r cyfnewid cod 'thrown in for flavor'. Mae hyn oherwydd nad oes angen i'r darllenydd ddeall y brawddegau. Yn yr olygfa dan sylw, mae Thomas yn cyfarfod ag Ines am y tro cyntaf; nid oedd Ines yn sicr a fyddai Thomas yn siarad Saesneg oherwydd ei gyfenw Ffrengig. Esbonia Ines wrtho nad yw hi'n medru'r Ffrangeg, heblaw am ychydig frawddegau.²⁵⁵

²⁵⁵ "I am from Edmonton originally, so I only know a few things. *Permettez-moi monsieur. Le petit gâteau. La mer Morte.*" "I am bilingual, so it should be fine," I said." (NT 17-8).

Felly, gwelwn fod dau o'r testunau yn cyfateb i Math I Lipski; ond mae *Bones to Ashes* a *Pigeon* yn wahanol. Nid oes angen bod yn rhugl o bell ffordd i ddarllen y testunau; er bod y gyfradd o gyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol yn ymdebygu i'r nofelau Cymraeg a Ffrangeg,²⁵⁶ darperir cymorth ieithyddol.

Efallai nad yw'r ffaith bod y nofelau Saesneg oll yn ffafrio cyfnewid mewnfrawddegol yn syndod. Gallai defnyddio brawddegau cyfan o'r iaith₂ ddieithrio darllenwyr uniaith Saesneg. Yn hytrach, maent yn defnyddio mwy o eiriau unigol neu ymadroddion o fewn brawddegau Saesneg, er mwyn rhoi blas Cymreig neu Ffrengig i'r gwaith. Mae'r cyfnewid yn amrywio'n fawr o ran lefel cymhlethdod, fel y gwelir yn yr adran nesaf.

5.2.5 Dosbarth Gramadegol

Isod, ceir tablau sy'n dangos y Dosbarth Gramadegol ar gyfer y nofelau Saesneg. Amlygir y pum categori gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau drwy roi'r rhesi hynny mewn llwyd. Ni wnaed hyn ar gyfer *Submarine* na *New Tab* gan nad oes pum categori Dosbarth Gramadegol ynddynt.

adferf	12	2.6%	ebychiad	20	4.3%
ansoddair	21	4.5%	enw	206	44.2%
berf	8	1.7%	rhagenw	2	0.4%
berfenw	1	0.2%	ymadrodd adferfol	1	0.2%
brawddeg	73	15.7%	ymadrodd ansoddeiriol	1	0.2%
cyfarchiad	1	0.2%	ymadrodd berfol	12	2.6%
cymal	51	10.9%	ymadrodd enwol	57	12.2%

Tabl 60: Dosbarth Gramadegol – Nofelau Saesneg

O'r tabl uchod, gwelir bod y nofelau Saesneg yn ffafrio 'ansoddair', 'brawddeg', 'cymal', 'enw' ac 'ymadrodd enwol'.

²⁵⁶ Gweler t.124 a t.165.

ansoddair	11	6.3%
berf	3	1.7%
berfenw	1	0.6%
brawddeg	35	19.9%
cymal	1	0.6%
ebychiad	15	8.5%

enw	55	31.3%
rhagenw	1	0.6%
ymadrodd adferfol	1	0.6%
ymadrodd berfol	6	3.4%
ymadrodd enwol	47	26.7%

Tabl 61: Dosbarth Gramadegol – *Bones to Ashes*

Mae un categori anghyffredin yn *Bones to Ashes*, sef ‘ebychiad’. Mae’r categori hwn yn cynnwys rhegfeydd sy’n rhan o’r ieithwedd Ffrangeg-Ganadaidd sy’n gysylltiedig â’r eglwys Gatholig.²⁵⁷ Ceir ebychiadau megis ‘Tabarnac’, ‘Moses’ a ‘pour l’amour du bon Dieu’.

berf	1	10.0%
enw	5	50.0%
ymadrodd berfol	1	10.0%
ymadrodd enwol	3	30.0%

Tabl 62: Dosbarth Gramadegol – *Submarine*

ansoddair	2	25.0%
brawddeg	1	12.5%
enw	5	62.5%

Tabl 63: Dosbarth Gramadegol – *New Tab*

O’r ddau dabl uchod, mae’n amlwg bod *Submarine* a *New Tab* yn defnyddio cyfnewid cod sy’n syml iawn o’r safbwynt gramadegol. Gwelir mai enwau yw mwyafrif yr enghreifftiau yn y ddwy nofel.

adferf	12	4.4%
ansoddair	8	2.9%
berf	4	1.5%
brawddeg	37	13.6%
cyfarchiad	1	0.4%
cymal	50	18.4%

ebychiad	5	1.8%
enw	141	51.8%
rhagenw	1	0.4%
ymadrodd ansoddeiriol	1	0.4%
ymadrodd berfol	5	1.8%
ymadrodd enwol	7	2.6%

Tabl 64: Dosbarth Gramadegol – *Pigeon*

Fel y tair nofel arall, enwau yw mwyafrif yr enghreifftiau yn *Pigeon*. Yn y tabl uchod, ceir ‘adferf’, sy’n edrych fel categori anghyffredin ar yr olwg gyntaf.


Fodd bynnag, o edrych ar yr esiamplau yn y nofel, gwelir mai geirynnau megis

²⁵⁷ Am drafodaeth o regfeydd *acadiens*, gweler erthygl Kasparian a Gérin (2005).

'ia', 'na' a 'falla' yw'r enghreifftiau hyn, sy'n ddi-os yn perthyn i eiriau mwyaf elfennol y Gymraeg ac felly'n gyfarwydd i ddarllenwydd a fyddai'n meddu ar Gymraeg sylfaenol. Felly, nid yw'r adferfau hyn mor ramadegol gymhleth ag ar yr olwg gyntaf.

Gwelir mai 'enw' yw'r unig categori sy'n ymddangos ym mhob un o'r pedair nofel. Mae hyn yn atgyfnerthu dadl Gardner-Chloros (2009) mai enwau yw'r eitem ramadegol fwyaf cyffredin i'w cyfnewid. Er bod y cyfnewid cod yn y nofelau Saesneg yn symlach o safbwynt gramadegol o'u cymharu â'r nofelau Cymraeg a Ffrangeg, mae amrywiaeth i'w gael, ac mae'n mynd ymhellach nag awgrym Joshi (1985) mai 'open-class items' yn unig a fyddai'n cael eu cyfnewid (e.e. enwau, ansoddeiriau) – er mai'r eitemau hynny sydd fwyaf cyffredin yma.


5.2.6 Maes Semanteg



Ffigur 92: Maes Semanteg – Nofelau Saesneg

Gwelir mai 'teulu' yw'r categori gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau (31.3%), sy'n arwyddocaol. Mae hyn yn ffordd o farcio hunaniaeth y cymeriadau, gan eu bod yn defnyddio termau penodol ar gyfer aelodau o'r teulu yn yr Iaith₂. Ymdebyga hyn i categori Albakry a Hancock 'traditional honorific titles and terms of respect' (2008, t.226), categori o gyfnewid cod y mae nifer o ysgolheigion yn ei ddarganfod yn eu corpora (López-Flores 2006; er enghraifft Keller 1976;

Callahan 2004). Y categori sy'n ail o ran nifer enghreifftiau yw 'sgwrs' (29.6%), sef sgwrs uniaith Iaith₂. Mae hyn yn arwyddocaol, gan ei fod yn dangos mai cymeriadau yn siarad Cymraeg/Ffrangeg 'pur' sydd wrth wraidd y cyfnewid cod, yn hytrach na bod cymeriadau yn creu ieithwedd newydd o gyfnewid cod, fel yr hyn a welwyd yn y nofelau Cymraeg a Ffrangeg.




Ffigur 93: Maes Semanteg – *Bones to Ashes*

Gwelir effaith lleoliad gwaith y prif gymeriad Tempe ym Montréal wrth weld cynifer o enghreifftiau yn perthyn i'r categorïau 'lle' (13.6%) a 'sefydliad llywodraethol' (9%).²⁵⁸ Gan fod yr achos yn canolbwyntio ar Québec ac Acadie, mae nifer o'r busnesau (ffuglennol) ag enwau Ffrangeg. Er bod enwau'r llefydd, y busnesau a'r sefydliadau hyn yn enwau priod – eitemau a fyddai fel arfer yn cael eu hepgor o'r corpws – penderfynwyd eu cynnwys gan y byddai dewis gan yr awdur rhwng rhoi'r enw Ffrangeg yn y testun neu gyfieithiad Saesneg. Mae hyn yn ddewis bwriadol ar ran yr awdur sy'n rhoi mwy o flas i'r darllynydd o fywyd ym Montréal. O edrych ar y categori 'rheg' (8.5%), gwelir effaith iaith gyntaf y cymeriadau ffrancoffon ar eu Saesneg. Er enghraifft, mae Hippo yn


²⁵⁸ Mae'r categori 'sefydliad llywodraethol' yn cynnwys cyfeiriadaeth at wyddoniaeth ffrensieg, sy'n rhan o waith y prif gymeriad. Cyn 2010, fel yng Nghanada, roedd gwyddoniaeth ffrensieg ym Mhrydain o dan reolaeth y llywodraeth, ond heddiw mae'n rhan o'r sector breifat Brydeinig. Er y gwahaniaeth hwn, gan fod yma gysylltiad amlwg â gwaith yr heddlu, mae enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n perthyn i waith gwyddoniaeth ffrensieg yn perthyn i'r categori 'sefydliad llywodraethol'.

debygol o regi yn y Ffrangeg, er enghraifft ‘crétaque’ neu ‘moses’. Dyma ffordd hawdd o ddangos hunaniaeth ffrancoffon cymeriad heb fentro dieithrio darllenwyr.




Ffigur 94: Maes Semanteg – *Submarine*

Yn *Submarine*, gwelir bod llawer o'r cyfnewid cod i'w wneud â'r diwylliant Cymreig sy'n rhan o fywyd Oliver, megis ei wersi Cymraeg yn yr ysgol a'r arwyddion dwyieithog. Fodd bynnag, nid yw'r rhan hon yn rhan fawr o'i fywyd, ac nid yw Oliver ei hun yn cael ei ddangos yn siarad Cymraeg. 'Tafodiaith' (30%) yw'r categori ar gyfer geiriau Cymraeg sy'n rhan o Saesneg Cymru, megis y gair 'cwtch', a'u gwreiddiau Cymraeg yn rhoi blas Cymreig i iaith y nofel. Er eu bod yn amlwg o darddiad Cymraeg, nid yw'r geiriau hyn wedi'u cofnodi yn y geiriadur Saesneg, ac felly yn ôl methodoleg y traethawd hwn, maent yn gyfnewid cod ac nid yn eiriau benthyg.



Ffigur 95: Maes Semanteg – *New Tab*

Mae nifer o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn *New Tab* yn ddyfynnu (62.5%), wrth i amryw o'r cymeriadau o amgylch Thomas siarad Ffrangeg. Eto, nid Thomas ei hun sy'n defnyddio'r cyfnewid cod, er ein bod yn ei weld yn siarad Ffrangeg â chymeriadau eraill mewn cyfnewid metaieithyddol.




Ffigur 96: Maes Semanteg – *Pigeon*

O'r graff uchod, gwelir mai termau sy'n cyfeirio at y teulu sy'n gyfrifol am fwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Pigeon* (125 enghraifft; 46%), sef 'Taid' a 'Nain' yn yr achos hwn. Mae hefyd nifer uchel o enghreifftiau sy'n perthyn i 'sgwrs' (42%), sef sgwrs uniaith Gymraeg, sy'n dangos mai'r cymeriadau yn sgwrsio mewn Cymraeg sy'n gyfrifol am gyfradd uchel o'r cyfnewid cod.

Wrth edrych ar y graffiau uchod, gwelir bod perthynas glir rhwng themâu neu ardal y nofelau a'r cyfnewid cod. Er enghraifft, mae *Pigeon* yn defnyddio'r Gymraeg mewn geirfa am y chwarel a'r teulu, tra bo *Bones to Ashes* yn


defnyddio'r Ffrangeg i gyfeirio at enw strydoedd ym Montréal ac enw sefydliadau. O edrych ar y Maes Semanteg, gwelir mai 'dyfynnu' yw'r unig categori sy'n ymddangos ar draws y pedair nofel, gyda 32 enghraifft (7%). Gwelir felly fod amrywiaeth fawr i'w chael yn y mathau o eiriau sy'n fwy tebygol o gael eu cyfnewid. Mae dau categori sy'n ymddangos mewn tair o'r pedair nofel, sef 'geiriau diwylliannol' ac 'amwys'. Awgryma hyn fod geiriau sy'n perthyn i'r categorïau hyn yn fwy tebygol o gael eu cyfnewid, er nad oes patrwm mor glir i'w weld yn y nofelau Saesneg o'u cymharu â'r nofelau Cymraeg a Ffrangeg.

5.2.7 Ysgogiad/Swyddogaeth



Ffigur 97: Ysgogiad/Swyddogaeth – Nofelau Saesneg

O'r graff uchod, gwelir bod cyfran uchel o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn perthyn i 'Dyfyniad' (38.2%). Mae hwn yn cynnwys dyfynnu arwyddion, ond hefyd yn cynnwys sgwrs uniaith laith₂ rhai o'r cymeriadau.




Ffigur 98: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Bones to Ashes*

Gwelir bod nifer o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Bones to Ashes* yn perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol' (31.8%) – byddai hwn yn cynnwys rhegfeydd y cymeriadau ffrancoffon, er enghraifft. Mae hyn yn ymdebygu i'r math o gyfnewid cod sydd i'w gael yn y testunau Cymraeg a Ffrangeg. Efallai bod hyn yn dangos dylanwad y ffaith bod y cymeriad *Tempe* yn medru (ac mae'r awdur yn ei dangos yn defnyddio) y Ffrangeg. Mae hyn yn wahanol i'r cymeriadau eraill, megis *Thomas* neu *Oliver* nad ydynt yn cael eu dangos yn siarad yr Iaith.²⁵⁹ Mae nifer o esiamplau *Bones to Ashes* yn perthyn i 'Dyfyniad' (26.1%) (e.e. wrth 'ddyfynnu' cymeriad sy'n cael sgwrs uniaith Ffrangeg) a 'Creu effaith arbennig' (23.3%) (e.e. wrth ddewis term Ffrangeg yn hytrach na'r Saesneg er mwyn rhoi blas Ffrangeg i'r darn, fel '*centre-ville*' yn hytrach na 'city centre' ar gyfer canol dinas Montréal).




Ffigur 99: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Submarine*



Ffigur 100: Ysgogiad/Swyddogaeth – *New Tab*

Eto, gwelir mai dyfyniadau yw mwyafrif yr esiamplau o gyfnewid cod yn *Submarine* (60%) a *New Tab* (75%). Mae llai o ystod o gategorïau Ysgogiad/Swyddogaeth, a dim enghreifftiau o 'Bwlch geirfaol', sy'n fwy nodweddiadol o gyfnewid cod mwy cymhleth.

²⁵⁹ Ceir rhai enghreifftiau o gyfnewid metaieithyddol gan *Thomas*, ond dim enghreifftiau o gyfnewid cod.




Ffigur 101: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Pigeon*

Gwelir bod ‘Dyfyniad’ yn cyfrif am 44.1% o’r enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Pigeon*. Mae hyn yn cynnwys yr enghreifftiau sy’n rhan o ddeialog y cymeriadau, gan fod yr awdur yn ‘dyfynnu’ cymeriad, mewn ffordd. Mae’r enghreifftiau sy’n perthyn i’r categori ‘Creu effaith arbennig’ yn cynnwys enghreifftiau o gyfnewid cod sy’n rhan o’r cymeriadau. Er enghraifft, pan yw *Pigeon* yn chwarae cowbois, dywed ‘Rho dy hands up or I’ll shoot!’ a ‘Rhedeg i ffwrdd on the count of three, neu dwi mynd i make mincemeat of you!’ (P 12). Mae’r enghreifftiau hyn, sy’n cydblethu’r Gymraeg a’r Saesneg, yn dangos bod *Pigeon* yn ceisio efelychu ffilmiau cowbois, ond oherwydd mai’r Gymraeg yw ei brif iaith, mae’n gosod yr ymadroddion hyn o fewn cystrawen Gymraeg.

Yn yr adran hon, gwelwyd bod ‘Dyfyniad’ yn gategori yr oedd nifer fawr o’r enghreifftiau o gyfnewid cod ym mhob testun yn perthyn iddo. Dim ond y testunau mwy cymhleth oedd yn cynnwys enghreifftiau a oedd yn perthyn i’r categori ‘Bwlch geirfaol’. Awgryma hyn fod y categori hwn yn perthyn i gyfnewid cod mwy cymhleth yn unig.


5.2.8 Deialog Cymeriadau

Eto, dyma faes dadansoddi nad oes modd cyfosod y data mewn ffordd ystyrlon oherwydd nad yr un cymeriadau sy’n ymddangos ym mhob nofel. Edrychwn felly ar y pedwar graff ar gyfer y nofelau unigol.



Ffigur 102: Deialog Cymeriadau – *Bones to Ashes*

Mae'r cymeriadau sy'n ymddangos yn y graff uchod yn siarad y Ffrangeg fel iaith gyntaf, heblaw am Temperance (sydd wedi dysgu ac yn rhugl) a Harry (nad yw prin yn medru'r Ffrangeg). Mae nifer ohonynt yn dod o New Brunswick yn ogystal.²⁶⁰ Gwelir yn amlwg effaith lleoli'r nofel ym Montréal a New Brunswick ar ieithwedd y nofel wrth i'r cymeriadau ddefnyddio eu mamiaith ar adegau (e.e. rhegfeydd, geiriau tafodieithol).




Ffigur 103: Deialog Cymeriadau – *Submarine*

Gwelir bod tri chymeriad yn y nofel sy'n defnyddio'r Gymraeg: yr athro Cymraeg, Geraint (ffrind tad Oliver) a Jordana. Mae Mr Llewellyn wedi'i gynnwys yma, er mai cael ei ddyfynnu gan Oliver y mae ef mewn gwirionedd, ond barnwyd bod angen dangos y gwahaniaeth hwn. Nid Oliver ei hun sy'n creu'r enghreifftiau hyn o gyfnewid cod; heb ei athro Cymraeg a'r dyfyniadau, ni fyddai'r geiriau Cymraeg hyn yn rhan o'r nofel.

²⁶⁰ Hippo, Obéline, Cecile/Claudine, Évangeline, Bastarache a Chong.

Nid oes graff Deialog Cymeriadau wedi'i greu ar gyfer *New Tab*. Dim ond dwy enghraifft sydd o gyfnewid cod mewn deialog – y cyntaf gan Ines, a'r ail gan ferch ddienw. Nid yw'r un ohonynt yn rhugl eu Ffrangeg; maent yn defnyddio ychydig eiriau o Ffrangeg oherwydd bod Thomas yn ffrancoffon, er nad yw'r cymeriad hwnnw'n defnyddio'r Ffrangeg â hwy.




Ffigur 104: Deialog Cymeriadau – *Pigeon*

O'r graff uchod, mae hi'n amlwg mai Pigeon ac Iola yw'r cymeriadau sy'n defnyddio'r mwyaf o Gymraeg yn eu deialog. Ar y naill law, nid yw hyn yn annisgwyl gan eu bod ill dau'n medru'r Gymraeg ac yn gymeriadau mor ganolog i'r nofel. Ar y llaw arall, mae'n annisgwyl bod Pigeon yn defnyddio mwy o Gymraeg nag Iola. Wedi bod yn y Sefydliad Troseddwr Ifainc yn Lerpwl, mae Pigeon yn anghofio'i Gymraeg, felly nid yw'n defnyddio'r Gymraeg eto tan iddo gyfarfod ag Elfyn (ym mhennod 38), pan yw'n dechrau magu hyder ac yn ymdrechu i geisio siarad Cymraeg eto. Gan nad yw Iola yn colli ei Chymraeg, byddem yn disgwyl i'r graff uchod adlewyrchu'r ffaith ei bod yn siarad Cymraeg drwy gydol y nofel tra bo Pigeon yn peidio â siarad Cymraeg am dros bymtheg pennod.²⁶¹ Felly, gwelir nad Pigeon yn unig sy'n gyfrifol am gyfnewid cod y nofel. Mae'n nodwedd ieithyddol sydd hefyd yn perthyn i Iola, ac i'r gymuned yn ehangach.

²⁶¹ Dyma oedd ymateb Alys Conran ei hun i'r graff uchod yn ogystal. Cyfweiliad personol 13/10/2017.

5.2.9 Nodweddion Gramadegol



O'r graffiau uchod, gwelir bod pob enghraifft o enw laith₂ yn cael ei ddefnyddio â bannod Saesneg lle bod disgwyl.²⁶² Nid oes unrhyw enghreifftiau yn *New Tab*, felly nid oes graff ar ei gyfer.

5.3 Casgliadau

Dengys y gwaith codio fod dau fath o gyfnewid cod ar gael i awduron y nofelau Saesneg, y cyntaf yn fwy syml, a'r ail yn gyfnewid mwy cymhleth. Ar y mwyaf

²⁶² Nid yw hyn yn cyfrif ymadroddion enwol sy'n defnyddio bannod o'r laith₂ gyda'r enw. Mae nifer o enghreifftiau o hyn yn y testunau sy'n defnyddio cyfnewid Saesneg-Ffrangeg (e.e. 'on a plane to *la Belle Province*' (BtA 155)).

syml, mae yno i roi blas yn unig. Defnyddir geirfa cyfarch syml, cyfeirio at arwyddion ac at enwau llefydd. Mae hyn yn cyfleu i ddarllenwyr uniaith Saesneg y gofod dwyieithog sy'n gefndir i'r nofel. Dadleuwyd bod dwy nofel (*Bones to Ashes* a *Pigeon*) yn defnyddio cyfnewid cod mwy cymhleth; defnyddiant gyfradd o gyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol sy'n ymdebygu i'r gyfradd a welwyd yn y nofelau Cymraeg a Ffrangeg. Mae'r categorïau Maes Semanteg ac Ysgogiad/Swyddogaeth yn dangos llawer mwy o amrywiaeth categorïol na'r testunau symlaf, ac yn cynnwys enghreifftiau sy'n perthyn i'r categori Ysgogiad/Swyddogaeth 'Bwlch geirfaol'. Felly, gall cyfnewid cod yn y nofelau Saesneg fod yn fwy cymhleth na'r disgwyl a chael ei ddefnyddio am amryw o resymau.

Mae'r cyfnewid cod syml hwn yn sicr yn perthyn i lenyddiaeth 'Math I' Lipski (1982), gyda'r geiriau yno i roi blas Cymreig/ffrancoffon i'r testun. Mae'r cyfnewid cod mwy cymhleth fel petai'n disgyn rhwng llenyddiaeth 'Math I' a 'Math III' Lipski, gan ei fod yn defnyddio cyfnewid mewnfrawddegol yn hytrach na rhyngfrawddegol, ond gyda'r gyfradd o esiamplau yn llawer uwch nag y byddem yn ei ddisgwyl gan destun 'Math I'. Er ei fod yn gyfnewid mwy cymhleth, mae'r cymorth ieithyddol sy'n cael ei gynnig i ddarllenydd uniaith yn sylweddol o'i gymharu â'r diffyg cymorth llwyr sydd i'w gael yn y nofelau Cymraeg a Ffrangeg (gan y byddai'r awduron yn disgwyl i fwyafrif eu darllenwyr fod yn ddwyieithog, yn wahanol i'r testunau Saesneg). O'r herwydd, ni ellir rhannu testunau'n dri math mor eglur ag y mae Lipski yn ei awgrymu yn ei ddamcaniaeth.

Yn ei ddamcaniaeth, mae Lipski yn cysylltu rhuglder yr awdur â'r cyfnewid cod. Dadleua fod rhai awduron (a darllenwyr) testunau Math I 'speak little or no Spanish' (1982, t.195). Wrth drafod testunau Math II, esbonia ei bod yn

amhosibl 'to establish the true bilingual competence of the writer [from such texts]', ond gan eu bod yn cadw'r ddwy iaith ar wahân, '[these texts are] most typical of the so-called "co-ordinate bilingual"' sydd wedi dysgu'r iaith² yn hwyrach yn eu bywydau. Mae testunau Math III yn nodweddiadol o "compound bilingual" sydd wedi dysgu'r ddwy iaith tua'r un pryd ac yn yr un cyd-destun (1982, t.195). Yn sicr, dim ond y siaradwyr dwyieithog mwyaf rhugl a allai ysgrifennu testunau Math III Lipski.²⁶³ Ond nid yw hyn yn golygu *na all* siaradwyr rhugl greu testunau Math I a II – rhywbeth y mae Lipski ei hun yn ei nodi. Wrth graffu ar amrywiaeth sgiliau ieithyddol awduron y pedair nofel a drafodwyd yn y bennod hon, gwelir nad yw eu rhuglder yn gymorth i ddarogan y math o gyfnewid cod sydd yn eu gwaith. Mae Guillaume Morissette a Joe Dunthorne yn defnyddio math tebyg iawn o gyfnewid cod yn eu nofelau, er bod eu sgiliau ieithyddol yn wahanol iawn. Mae Alys Conran a Kathy Reichs yn defnyddio cyfradd uwch o gyfnewid cod, gyda chyfradd uchel o gyfnewid mewnfrawddegol – ond, er bod y ddwy yn rhugl, mae un wedi dysgu fel plentyn a'r llall fel oedolyn. Rhaid ychwanegu manylyn at ddamcaniaeth Lipski, a chymryd rhuglder y darllenwyr i ystyriaeth yn fwy na rhuglder yr awdur. Fel y gwelir gyda *New Tab* a *Pigeon*, gall awdur y gellir ei ddisgrifio fel 'compound bilingual' ddewis creu testun sy'n apelio at ddarpar-ddarllenwyr nad ydynt yn rhugl yn y ddwy iaith. Defnyddir cyfnewid cod symlach rhag dieithrio'r darllenwyr hyn, yn ogystal â darparu cymorth ieithyddol er mwyn sicrhau y gallant ddilyn y stori.

²⁶³ A'u darllen, er i raddau llai – gellir cael gallu goddefol mewn iaith heb y rhuglder i allu ei siarad eich hunan. Er enghraifft, disgrifia Basham a Fathman (2008) 'latent speakers' a fagwyd wedi'u hamgylchynu gan yr iaith, ond na ddaethant yn siaradwyr o'r iaith honno.

6: Y Dramâu Cymraeg

6.1 Crynodeb

***Sundance (2002)*²⁶⁴ Aled Jones Williams**

Drama ar gyfer un cymeriad sydd yma, sef Sundance. Mae'n rhannu'r llwyfan gyda bath, ffrog briodas, set deledu, a chadair wag y mae'n siarad ac yn chwarae gwyddbwyll â hi yn ystod y ddrama. Nid oes manylion ynglŷn â'r cymeriad Sundance ar ddechrau'r ddrama, megis ei oedran neu ei wisg, ond mae'n amlwg fod colli ei fam tra oedd yn blentyn wedi cael effaith fawr arno. Mae ganddo obsesiwn â'i fam a marwolaeth; ceir awgrym bod salwch meddwl arno wrth iddo ddisgrifio golygfeydd ffantasiol, megis gweithwyr archfarchnad Pepco'n ymddwyn fel petaent mewn ffilm *Western* (Sd 51). Cyfeiria gweithwyr Pepco ato fel 'the brain dead bastard' (Sd 35) ar ôl iddo ddychmygu bod mewn brwydr yn yr archfarchnad.

***Wal (2006)*²⁶⁵ Aled Jones Williams**

Ceir yma ddau gymeriad, Alji ac Eddy, sydd wedi cael swyddi'n stripio wal yn ôl at y brics. Wrth iddynt weithio – neu ryw lun ar weithio – maent yn siarad. Gyda'r ddeuawd a'r thema absŵrd sy'n perthyn i waith Aled Jones Williams, mae yma adlais amlwg o *Waiting for Godot*. Yn debyg i'r ddrama honno, nid oes llinyn storiol na diwedd glo cadarn, dim ond myfyrdod ar natur bywyd.

Cymeriadau

MUDANDOD	Y peth yna ar ôl i rywun farw.
WAL	Andros o hen wal fawr, gyntefig, yn haenau o bapur wedi eu rhwygo ac yn hongian.
CORPORAL ALJI	Pedwar degau cynnar. Amdano mae cot fyddin fawr â streips corporal ar y llewys. Esgidiau a throwsus soldiwyr. Y got wedi ei botymu. Mae'n amlwg nad oes ganddo gryd na fest o dan y got, dim ond ei noethni.

²⁶⁴ Perfformiwyd gyntaf yn 1999 (Sd 25).

²⁶⁵ Perfformiwyd gyntaf yn 1999 (W 85).

PLAIN EDDY	Tri degau hwyr. Amdano mae trowsus pinc llachar. Crys piws. Cot ddu bitsh ddrudfawr. Hen bâr o esgidiau am ei draed. Y got wedi ei botymu i'r top.
------------	---

Tabl 65: Cymeriadau *Wa*²⁶⁶

Mae'r tabl uchod yn dyfynnu o nodiadau ar ddechrau'r ddrama (W 85). Mae'n drawiadol mai 'mudandod' ac 'wal' a nodir fel cymeriadau gyntaf, er mai Alji ac Eddy yw'r cymeriadau o gig a gwaed. Mae'r ffaith eu bod yn cael eu rhestru cyn y ddau gymeriad dynol yn arwyddocaol o effaith y ddwy elfen hon ar y ddrama, gan awgrymu eu bod yn bwysicach na'r ddau ddyn. Eto, gwelir cysylltiad â'r abswrdd oherwydd y pwyslais ar dawelwch, neu fudandod.

***Llwyth* (2010)²⁶⁷ Dafydd James**

Drama am grŵp o ddynion hoyw ar noson allan yng Nghaerdydd. Mae Aneurin yn dychwelyd i Gaerdydd o Lundain, a'r ffrindiau'n mynd ar noson allan. Ceir yma fyfyrion ar berthyn a phwysigrwydd teulu a ffrindiau.

Cymeriadau

Aneurin	Prif gymeriad y ddrama, sy'n actio fel adroddwr yn ogystal. Mae'n awdur (neu'n <i>temp</i> , yn ôl Dada), ac wrthi'n ysgrifennu nofel sy'n addasiad o stori'r Gododdin. Mae'n amharod cael perthynas sefydlog, ac yn hoff o syfrdanu ei ffrindiau gyda straeon am ei fywyd yn Llundain.
Dada	Mae'n hŷn na'r dynion eraill, ac yn ymddwyn yn dadol ar adegau.
Rhys	Ffrind gorau Aneurin, er eu bod yn dadlau. Athro mathemateg.
Gareth	Cariad Rhys. Mae'n dysgu Cymraeg. Dim ond yn ddiweddar y mae wedi sylweddoli ei fod yn hoyw – Rhys yw ei sboner cyntaf. Mae hyn yn achosi tensiwn, yn enwedig wrth iddynt gyfarfod â chymeriadau sy'n perthyn i'w fywyd blaenorol.
Gavin	Bachgen yn ei ardegau y mae'r grŵp yn ei gyfarfod yn ystod y nos. Mae Aneurin yn cymryd yn ganiataol ei fod dros un-ar-bymtheg gan ei fod yn cyfeirio at Rhys fel cyn-athro – ond wedi symud dosbarth y mae Gavin, a dim ond pymtheg mlwydd oed ydyw.

Tabl 66: Cymeriadau *Llwyth*

²⁶⁶ Geiriau Aled Jones Williams (W 85).

²⁶⁷ Perfformiwyd gyntaf yn 2010 (LI ii).

Gwelwn hefyd gymeriadau ymylol, megis Duncan a Darren (ffrindiau rygbi Gareth), Clare (cyn-gariad Gareth) a Mam Aneurin.

***A Good Clean Heart (2016)*²⁶⁸ Alun Saunders**

Drama i ddau actor sy'n adrodd hanes brodyr ac yn cwestiynu hunaniaeth a pherthyn. Ar ei ben-blwydd mae Hefin – a gafodd ei fabwysiadu – yn darganfod bod ganddo frawd yn Llundain. Mae'n teithio o Gaerfyrddin er mwyn ei gyfarfod.

Cymeriadau

Hefin	Bachgen deunaw oed. Mae'n chwaraewr rygbi brwd. Mae'n gwybod eisoes iddo gael ei fabwysiadu, ond dim ond ar ei ben-blwydd yn ddeunaw mae'n darganfod fod ganddo frawd.
Jaycen (Jay)	Hanner brawd i Hefin drwy eu mam – mae ef bum mlynedd yn hŷn na Hefin. Mae newydd gael ei ryddhau o'r carchar, ac yn gorfod gwisgo tag.
Reann	Mam fiolegol y ddau. Mae hi'n teimlo'n euog am y ffaith iddi beidio â gallu magu ei dau fab.
Ros	Mam fabwysiadu Hefin. Mae hi'n gyrru i Lundain i nôl Hefin.
Raymande (Ray)	Cariad Reann. Nid yw ef a Jay yn cyd-dynnu'n dda iawn.
Gwilym	Tad mabwysiadu Hefin a gŵr Ros. Mae wedi dysgu Cymraeg. ²⁶⁹

Tabl 67: Cymeriadau AGCH


Cawn hefyd rai cymeriadau ymylol, megis Ynyr (ffrind Hefin), disgyblion eraill yn y dosbarth a Mr Browne, hen ddyn y mae Jay yn ei adnabod. Cyfeirir at y ddrama hon gyda'r byrfodd AGCH.

²⁶⁸ Perfformiwyd y fersiwn wreiddiol o'r ddrama yn *The Other Room* (theatr yn nhafarn Porters, Caerdydd) yn 2015. Aildrafftwyd y ddrama ar gyfer slot yn *Fringe* Caeredin (a oedd yn slot byrrach na slot *The Other Room*); perfformiwyd y fersiwn hon gyntaf yn 2016 (AGCH iv-v).

²⁶⁹ Er nad yw hyn yn amlwg yn y ddrama, mae awgrym o hyn yn agwedd Hefin tuag at ei dad. Dywedodd Alun Saunders fod yna 'ddewis bach yn *subconscious* o sut mae e'n cael y ddadl yna gyda'i dad e, a defnyddio'r iaith [...] fel rhoi ei dad e lawr ychydig [...] profi rhyw fath o bwyt – annheg iawn – i'w dad e, sydd wedi treulio blynyddoedd yn dysgu Cymraeg er mwyn ei fab' (cyfweiliad personol 07/06/17). Gwelir yr agwedd yn ymateb Hefin mewn un olygfa; ar ôl i'w dad ddweud wrtho i beidio â 'bod mor haerllug' (AGCH 11), mae Hefin yn ymateb 'Big word, Gwilym' (ibid.). Gwelir yma enghraifft o sut y gall iaith cymeriad adlewyrchu emosiwn, drwy d dangos bod Hefin yn troi at y Saesneg er mwyn creu pellter oddi wrth ei dad.

6.2 Canlyniadau Codio'r Dramâu Cymraeg

6.2.1 Cymhareb



Ffigur 109: Cymhareb – Dramâu Cymraeg

Gwelir bod cymhareb y dramâu Cymraeg yn 5.03 (1292 enghraifft / 257

tudalen).²⁷⁰ Ar y cyfan, mae cymharebau'r pedair drama'n eithaf tebyg, er mai

Sundance sydd â'r gymhareb uchaf (6.83).

6.2.2 Golygfeydd

Dadansoddwyd hefyd sut yr oedd y cyfnewid cod yn cael ei rannu rhwng

golygfeydd, yn debyg i ddadansoddi'r nofelau yn ôl penodau – er mwyn gweld a

oes cysylltiad rhwng y cyfnewid cod a digwyddiadau yn y plot. Ni chrëwyd graff

ar gyfer *Wal* na *Sundance* oherwydd mai dramâu un olygfa ydynt.


²⁷⁰ Cymhareb y dramâu unigol:

Sundance – 164 enghraifft / 24 tudalen = 6.83

Wal – 87 enghraifft / 21 tudalen = 4.14

Llwyth – 787 enghraifft / 150 tudalen = 5.25


AGCH – 254 enghraifft / 62 tudalen = 4.10



Ffigur 110: Golygfeydd – *Llwyth*

Golygfa	Nifer	Crynodeb
5	208	Cyrhaedda'r criw Club X, Charles Street. Yno maent yn cyfarfod â Gavin am y tro cyntaf – un o gyn-ddisgyblion Rhys. Mae'n trafod <i>musicals</i> a'r Gymraeg gyda Dada. Mae Rhys a Gareth yn ffræo gan fod Gareth eisiau mynd i barti ei ffrindiau rygbi, ond nid yw Rhys yn cyd-dynnu â hwy. Caiff Aneurin weledigaeth o'i fam fel Margaret Williams. Mae Gavin yn gwirioni fod Aneurin yn awdur ac yn byw yn Llundain.
6	135	Â Gareth a Rhys i barti, ac Aneurin a Gavin yn ôl i fflat Dada. Mae ffrindiau Gareth yn gwneud jôcs am y ffaith ei fod yn hoyw ac yn tynnu ar Rhys, felly gedy'r ddau'r parti. Mae Aneurin wedi ysgrifennu cerdd am ei ffrindiau a'r profiad o fod yn ddyn hoyw Cymraeg; mae am ei chyflwyno ar gyfer cystadleuaeth y Goron.
2	114	Cyrhaedda Aneurin fflat Dada gyda Rhys – mae pawb arall yno'n barod. Maent yn yfed ac yn gwyllo'r teledu wrth siarad. Mae Aneurin yn ysgrifennu nofel a ddisgrifir fel 'A queer transhistorical love story for the <i>Dr Who</i> generation' (LI 15-16) sy'n seiliedig ar y Gododdin. Maent yn cymryd cocên a phenderfynu mynd allan.

Tabl 68: *Llwyth* – golygfeydd gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnwied cod








Ffigur 111: Golygfeydd – AGCH

Golygfa	Nifer	Crynodeb
4	44	Mae Hefin yn yr ysgol, yn dilyn ffræ gyda'i rieni am fodolaeth ei frawd. Mae'n colli ei dymer yn y dosbarth Cymraeg; daw ei dad i'w nôl o'r ysgol. Cyrhaedda Jay adref ar ôl cyfnod yn y carchar, gan sefyll wrth y drws, yn ddrwgdybus o sut fydd ei fam; nid yw'n credu ei bod hi wedi ymdopi â'i absenoldeb yn dda.
10	39	Mae Reann yn cymryd cyffuriau, a Hefin yn eu trio am y tro cyntaf; mae Ray, ei chariad, yn dadlau â hi am y peth. Mae Ros yn ffonio Hefin eto ac eto, ond mae'n anwybyddu'r ffôn, cyn ei hateb o'r diwedd.
9	39	Cyrhaedda Hefin a Jay'r fflat, a Jay'n tacluso. Trafodant y Gymraeg a'r geiriau benthyc Saesneg sy'n gyfarwydd i Jay. Siaradant am eu plentyndod; nid yw Hefin yn cofio dim. Daw Reann yn ôl i'r fflat yn ddirybudd, a Hefin yn cael sioc o sylweddoli ei fod yn edrych fel rhywun. Nid yw Reann yn sylweddoli pwy yw Hefin. Chwaraeant gêm karaoke, <i>Sing Star</i> , gan ganu 'Bonkers' Dizzee Rascal, ²⁷¹ cyn i Hefin a Reann ganu deuawd 'I Got You Babe', ac i Hefin gyflwyno'i hun fel 'Kevin', ei enw gwreiddiol.

Tabl 69: AGCH – golygfeydd gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnwid cod

²⁷¹ Gyda Hefin yn rapio cyfieithiad Cymraeg ynghyd â'r geiriau Saesneg gwreiddiol (AGCH 41-2).

6.2.3 Adran



Gwahaniaethir rhwng pedair adran wahanol: cyfarwyddiadau,²⁷² deialog, dyfynnu (os yw'r cymeriad yn dyfynnu, e.e. o ffilm) a monolog (os yw'r cymeriad yn siarad ag ef ei hun neu gyda'r gynulleidfa).²⁷³ Penderfynwyd bod angen gwahaniaethu rhwng deialog a monolog oherwydd bod gwahaniaeth i'w weld yn

²⁷² Mae cyfarwyddiadau AGCH oll yn y Saesneg gan fod Jay wedi'i bortreadu gan actor nad oedd yn medru'r Gymraeg. Roedd hyn yn wir am gynhyrchiad *The Other Room* yn 2015 (gyda Dorian Simpson fel Jay) a chynhyrchiad *Neontopia* yn 2016 (gydag Oliver Wellington fel Jay) (AGCH iv-v).

²⁷³ Mae *Sundance* yn fonolog yn ei chyfanrwydd. 'Monolog' a nodwyd ar gyfer geiriau Sundance ei hun, ond mae'n dyfynnu o sgysiau gydag amryw o gymeriadau eraill, megis ei fodryb neu weithwyr Pepco. Nodwyd yr enghreifftiau hyn fel 'dyfynnu' yn hytrach na 'deialog' gan mai Sundance sy'n adrodd y geiriau.

y testunau. Mae *Sundance* yn fonolog yn ei chyfanrwydd, wrth gwrs, ond mae rhai o'r dramâu eraill yn defnyddio monolog yn ogystal, ac mae gwahaniaeth i'w weld rhwng y monolog a'r ddeialog yn y dramâu hyn. Mae Aneurin *Llwyth* yn defnyddio Cymraeg mwy ffurfiol yn ei fonologau, a monologau Hefin AGCH yn fwy tebygol o fod yn Gymraeg.²⁷⁴ Gan eu bod yn siarad â'r gynulleidfa, yn hytrach na chyda chymeriadau eraill, gallai hyn gael effaith ar y cyfnewid cod. Fel y gwelir o'r graff uchod, mae mwyafrif y cyfnewid cod yn y dramâu Cymraeg yn digwydd fel rhan o'r ddeialog (73.9%).

Gwelir bod mwyafrif y cyfnewid cod yn *Wal* a *Llwyth* yn digwydd yn y ddeialog (90.8%; 94.3%), a chyfran uchel o enghreifftiau yn AGCH hefyd (52.8%). Mae'r mwyafrif o'r cyfnewid cod yn *Sundance* ac AGCH yn digwydd fel rhan o fonolog (60.4%; 74%). Mae'r ffaith bod yr enghreifftiau hyn yn ymddangos mewn monolog yn dangos bod y cyfnewid cod yn rhan o idiolect y cymeriadau. Gwahaniaethir rhwng monologau'r cymeriadau a'u deialog yn AGCH²⁷⁵ oherwydd gall ieithwedd cymeriad gael ei effeithio gan gymeriadau eraill. Yn ôl theori ymgymhwysio iaith, gall siaradwr ddewis (yn isymwybodol ai peidio) newid ei ffordd o siarad er mwyn ymdebygu i'w gyd-siaradwyr, sy'n adlewyrchu 'a speakers' or a group's need (often unconscious) for social integration or identification with another' (Giles et al. 1991, t.18). Mae nifer uchel o enghreifftiau yn ddyfynnu yn *Sundance* (37.8%). Mae hyn oherwydd bod

²⁷⁴ Mae llawer o'i ddeialog yn y Saesneg oherwydd bod nifer o gymeriadau di-Gymraeg yn y ddrama.

²⁷⁵ Nodir mai dim ond dau actor sydd yn y cynhyrchiad, ond mae deialog gan gymeriadau eraill wedi'i weu i mewn i'r sgript, gydag actorion Hefin a Jay yn adrodd eu geiriau. Nodir yr holl esiamplau hyn fel 'deialog'. Gwelir enghraifft isod:

Jay: "You was such a happy child," she goes. I'm, like,

What? What's this now?

(AGCH 50)

Mae geiriau Reann wedi eu nodi gan ddyfynodau (""), monolog Jay mewn ffont normal, a'i ddeialog ef mewn italig. Nodir y rheolau fformatio hyn ar ddechrau'r ddrama (AGCH vii).

Sundance yn dyfynnu cymeriadau megis cwsmeriaid a gweithwyr yr archfarchnad, yn ogystal â dyfyniadau o ffilmiau *Western*.

Gwahaniaethwyd rhwng deialog y cymeriadau a monologau Aneurin wrth y gynulleidfa yn *Llwyth*. Mae Aneurin yn ymddwyn fel corws, yn agor neu'n cau golygfeydd gan gyfeirio neillebau at y gynulleidfa nad ydynt fel petaent yn cael eu clywed gan y cymeriadau eraill, er eu bod yn plethu i mewn i'r ddeialog, megis yr esiampl isod:

Aneurin: Ac at y bar â ni cyn i chwarae droi'n...
Gareth: Bitter, please, and a...
Dada: Alla'i ga'l gin, darling? (LI 27)

Cyfradd isel iawn o'r cyfnewid cod sy'n ymddangos yn y monologau (6%).

Awgryma hyn fod y monologau mewn iaith fwy safonol na deialog y cymeriadau. Mae mwyafrif y cyfnewid cod yn digwydd yn y ddeialog (94.3%); cawn weld o'r adran ar ddeialog cymeriadau a yw Aneurin yn defnyddio mwy o gyfnewid cod yn ei ddeialog.

Mae'r ffaith bod cyfradd uchel o gyfnewid cod mewn monolog yn AGCH (74%) ychydig yn annisgwyl. Rhaid i Hefin gyfnewid cod mewn llawer o'r ddeialog oherwydd ei fod yn siarad â chymeriadau di-Gymraeg gan fwyaf. Felly sut nad yw'r rhan fwyaf o'r cyfnewid cod yn cael ei gynnwys yn y ddeialog? Un esboniad posib yw y gall enghreifftiau o gyfnewid cod fod o hyd amrywiol iawn; bydd sgwrs hir uniaith Saesneg yn cael ei chyfrif fel un enghraifft o gyfnewid cod, fel y bydd un gair Saesneg mewn brawddeg Gymraeg yn cael ei gyfrif fel un enghraifft.²⁷⁶ Er hyn, mae'n arwyddocaol bod nifer uchel iawn o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y monologau gan mai dim ond monologau Hefin a all gynnwys cyfnewid cod.²⁷⁷ Felly, gwelir bod ieithwedd benodol gan Hefin, sef

²⁷⁶ Gweler y drafodaeth ar t.87.

²⁷⁷ Bydd rhai Jay yn uniaith Saesneg – heblaw am yr olygfa olaf, pan yw'n dysgu'r Gymraeg.






tafodiaith sy'n gwneud defnydd helaeth o gyfnewid cod. Cymherir, er enghraifft, fonologau Aneurin yn *Llwyth*, sy'n gwneud defnydd o Gymraeg safonol, heb lawer o gyfnewid cod. Mae arddull lafar AGCH yn rhannol gyfrifol am hyn. Mae'r cymeriad Jay yn siarad mewn cywair anffurfiol, naturiol, gyda rhai geiriau wedi'u hysgrifennu'n ffonetig, megis yr enghraifft ganlynol:

As I'm standin' there I realise somethin' – you only really smell the smell
of other people's houses don'tcha? (AGCH 13)

Mae ieithwedd Hefin, felly, yn perthyn i gywair iaith anffurfiol tebyg i un Jay – ond gan fod Hefin yn medru'r Gymraeg, mae'n gywair sy'n cynnwys cyfnewid cod Cymraeg-Saesneg. Ond mae hefyd wahaniaeth mawr yng nghymeriadau Hefin ac Aneurin. Bachgen ysgol deunaw mlwydd oed yw Hefin, tra bo Aneurin yn awdur yn ei dridegau. Byddai gan gymeriad felly fwy o allu i amrywio ei ieithwedd, ac i chwarae â chyweiriau mwy llenyddol na chymeriad fel Hefin. Dyma sydd i'w weld yn y gwahaniaeth rhwng monologau'r ddwy ddrama.

Yr adran â'r gyfradd uchaf o enghreifftiau o gyfnewid cod yw'r ddeialog, sy'n dangos bod sgwrs cymeriadau'n fwy tebygol o ddefnyddio cyfnewid cod; gwelwyd y tueddiad hwn yn y nofelau Cymraeg yn ogystal. Mewn astudiaeth o'r nofel *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau* (2006), awgrymwyd ei bod yn fwy derbyniol i awdur ddefnyddio cyfnewid cod yn neialog cymeriadau yn hytrach nag yn y naratif, gan nad yw'n gymaint o fygythiad i safon yr iaith (Orwig 2017, tt.177–8). Efallai bod modd i ddramodydd ddefnyddio'r monolog mewn ffordd debyg i'r naratif, drwy ddefnyddio Cymraeg mwy safonol er mwyn fframio deialog sy'n defnyddio cyfnewid cod. Wrth gwrs, un opsiwn posib yw hwn. Nid pob drama sy'n defnyddio monolog a deialog gyda'i gilydd, felly diddorol fyddai astudio mwy o ddramâu er mwyn ymchwilio'r ddamcaniaeth hon ymhellach.

6.2.4 Hyd



Gwelir bod mwyafrif y cyfnewid cod yn y dramâu Cymraeg (Ffigur 117) yn gyfnewid rhyngfrawddegol (55.8%). Mae *Wal* (Ffigur 119) a *Sundance* (Ffigur 118) yn defnyddio cyfnewid mewnfrawddegol (75.8%; 59.1%), a nifer uchel o'r enghreifftiau hynny yn eiriau unigol, sy'n mynd yn erbyn y tueddiad cyffredinol o ystyried y dramâu Cymraeg gyda'i gilydd. Mae mwyafrif y cyfnewid cod yn *Llwyth* (Ffigur 120) yn gyfnewid rhyngfrawddegol (54.4%), a mwyafrif yr enghreifftiau o hyd mwy na brawddeg (29.5%). Cyfnewid rhyngfrawddegol yw mwyafrif y cyfnewid cod yn AGCH (80.3%) (Ffigur 121). Mae'r gyfradd hon yn uchel iawn. Tybir bod yma gysylltiad â'r ffaith mai sgwrs uniaith Saesneg sy'n gyfrifol am nifer o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn y ddrama, a'r sgwrsiau hyn yn fwy tebygol o fod yn gyfnewid rhyngfrawddegol. Gwelir dylanwad amlwg cymeriadau nad ydynt yn rhugl eu Cymraeg ar *Llwyth* ac AGCH. Mae Gareth yn *Llwyth* yn dysgu Cymraeg, ond gan nad yw'n rhugl, mae llawer o'r sgwrs gydag ef yn troi at y Saesneg, er bod Rhys yn annog y cymeriadau eraill i siarad Cymraeg ag ef.²⁷⁸ Mae Jay yn AGCH yn ddi-Gymraeg (tan yr olygfa olaf), felly mae'r sgwrs gydag ef yn uniaith Saesneg, yn ogystal â'i fonologau.

Gwelir bod rhaniad rhwng y pedair drama, gan fod *Wal* a *Sundance* yn ffafrio cyfnewid mewnfrawddegol sy'n ymdebygu i'r patrwm a welir yn y nofelau yn y tair iaith.²⁷⁹ Awgryma hyn fod patrwm ieithyddol gwahanol i'w weld mewn cyfnewid cod yn y ddrama. Fodd bynnag, rhaid cofio bod AGCH yn cynnwys cyfradd uchel iawn o gyfnewid rhyngfrawddegol – 80.3%. O'r herwydd, mae'n cael effaith fawr ar y rhan hon o'r corpws, yn enwedig o gofio bod *Wal* a *Sundance* – dramâu sy'n ffafrio cyfnewid mewnfrawddegol – yn ddramâu byrrach sy'n cynnwys llai o enghreifftiau o gyfnewid cod. Mae *Wal* a *Sundance*

²⁷⁸ 'Siarada Gymraeg 'da fe, Aneurin, ma' isie i fe ymarfer' (LI 12).

²⁷⁹ Gweler t.124, t.165. t.203.

yn cyfrannu 251 enghraifft at y corpws, tra bo *Llwyth* ac *AGCH* yn cyfrannu 1,041 enghraifft; mae'r anghydbwysedd yn amlwg. Nid yw hyn o reidrwydd yn broblematic, gan fod testunau'n amrywio o ran hyd yn naturiol, ond mae'n rhywbeth i'w gofio wrth lunio damcaniaethau yn seiliedig ar ystadegau'r corpws hwn.

6.2.5 Dosbarth Gramadegol

acronym	7	0.5%	ebychiad	29	2.2%
adferf	24	1.9%	enw	145	11.2%
ansoddair	131	10.1%	enw + adferf	2	0.2%
ansoddair + brawddeg	6	0.5%	enw + cymal	1	0.1%
ansoddair + cysylltair	2	0.2%	enw + ebychiad	1	0.1%
ansoddair + ymadrodd ansoddeiriol	1	0.1%	negydd	1	0.1%
arddodiad	2	0.2%	rhagenw	2	0.2%
berf	10	0.8%	ymadrodd adferfol	9	0.7%
berfenw	32	2.5%	ymadrodd ansoddeiriol	14	1.1%
brawddeg	696	53.9%	ymadrodd arddodiadol	3	0.2%
cymal	51	3.9%	ymadrodd berfol	18	1.4%
cysylltair	4	0.3%	ymadrodd enwol	101	7.8%

Tabl 70: Dosbarth Gramadegol – *Dramâu Cymraeg*

Y pum categori â'r nifer fwyaf o enghreifftiau yw ansoddair, brawddeg, cymal, enw, ac ymadrodd enwol. Mae mwyafrif yr enghreifftiau'n perthyn i'r categori brawddeg (53.9%), sy'n cyd-fynd â'r patrwm a welwyd uchod, gyda mwyafrif y cyfnewid cod yn gyfnewid rhyngfrawddegol. Isod, ceir y tablau ar gyfer y dramâu unigol:

ansoddair	14	8.5%	enw	34	20.7%
berf	4	2.4%	rhagenw	2	1.2%
berfenw	10	6.1%	ymadrodd adferfol	1	0.6%
brawddeg	67	40.9%	ymadrodd berfol	5	3.0%
cymal	1	0.6%	ymadrodd enwol	23	14.0%
ebychiad	3	1.8%			

Tabl 71: Dosbarth Gramadegol – *Sundance*

Yn *Sundance*, y categori gyda'r mwyafrif o enghreifftiau yw 'brawddeg'. Er mai cyfnewid mewnfrawddegol yw'r rhan fwyaf o'r cyfnewid yn y ddrama hon, mae

arddull arbennig gan y cymeriad Sundance. Mae'n hoff iawn o ddyfynnu – o ffilmiau *Western* a chymeriadau eraill, megis staff archfarchnad Pepco. Mae'r enghreifftiau hyn yn dueddol o fod yn frawddegau llawn, felly o ganlyniad, mae'r categori 'brawddeg' yn cynnwys nifer uchel o enghreifftiau.

acronym	2	2.3%	ebychiad	1	1.1%
ansoddair	13	14.9%	enw	26	29.9%
brawddeg	20	23.0%	yadrodd enwol	25	28.7%

Tabl 72: Dosbarth Gramadegol – *Wal*

Gwelir llai o amrywiaeth yng nghategoriâu *Wal* na *Sundance*.²⁸⁰ Y ddau gategori gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yw 'enw' ac 'ymadrodd enwol'.

acronym	5	0.6%	ebychiad	23	2.9%
adferf	18	2.3%	enw	77	9.8%
ansoddair	90	11.4%	enw + adferf	2	0.3%
ansoddair + brawddeg	6	0.8%	enw + cymal	1	0.1%
ansoddair + cysylltair	2	0.3%	enw + ebychiad	1	0.1%
ansoddair + ymadrodd ansoddeiriol	1	0.1%	negydd	1	0.1%
arddodiad	2	0.3%	ymadrodd adferfol	7	0.9%
berf	3	0.4%	ymadrodd ansoddeiriol	13	1.7%
berfenw	18	2.3%	ymadrodd arddodiadol	3	0.4%
brawddeg	406	51.6%	ymadrodd berfol	10	1.3%
cymal	50	6.4%	ymadrodd enwol	46	5.8%
cysylltair	2	0.3%			

Tabl 73: Dosbarth Gramadegol – *Llwyth*

Y categori gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yn *Llwyth* yw 'brawddeg', sydd ymhell ar y blaen o'r categorïau eraill. Er hyn, mae llawer o amrywiaeth o ran categorïau yma, gan gynnwys rhai categorïau anghyffredin, megis 'negydd', 'arddodiad' a 'cysylltair'.

²⁸⁰ Oherwydd mai nifer fychan iawn o enghreifftiau sydd mewn rhai categorïau yn *Wal*, amlygir y pedwar categori gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau mewn *llwyd*, ac nid pump fel yn achos y dramâu eraill.

adferf	6	2.4%
ansoddair	14	5.5%
berf	3	1.2%
berfenw	4	1.6%
brawddeg	203	79.9%
cysylltair	2	0.8%


ebychiad	2	0.8%
enw	8	3.1%
ymadrodd adferfol	1	0.4%
ymadrodd ansoddeiriol	1	0.4%
ymadrodd berfol	3	1.2%
ymadrodd enwol	7	2.8%

Tabl 74: Dosbarth Gramadegol – AGCH

Gwelir bod llai o amrywiaeth o gyfnewid cod yn AGCH o'i gymharu â *Llwyth*, a mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod, eto, yn perthyn i'r categori 'brawddeg'. Mae hyn yn gysylltiedig â'r ffaith mai cyfnewid rhyngfrawddegol yw mwyafrif y cyfnewid cod yn y ddrama hon.


O'r adran uchod, gwelir bod patrymau gramadegol cyfnewid cod yn y dramâu Cymraeg yn dilyn awgrymiadau Gardner-Chloros – hynny yw, bod modd cyfnewid *pob math* o eiriau, mewn theori, ond mai enwau sydd fwyaf tebygol o gael eu cyfnewid (2009, t.31). Yr eitemau sy'n cael eu cyfnewid fwyaf yw: brawddeg (53.9%); enw (11.2%); ansoddair (10.1%); ymadrodd enwol (7.8%) a chymal (3.8%). Mae'r dramâu unigol yn dilyn patrwm tebyg. Gwelir bod modd defnyddio cyfnewid cod sy'n eithaf syml o safbwynt gramadegol, megis *Wal*, nad yw'n cynnwys amrywiaeth eang o gategoriâu Dosbarth Gramadegol. Fodd bynnag, mae *Llwyth* yn cynnwys amrywiaeth eang o gategoriâu gramadegol. Mae'n mynd y tu hwnt i 'content words which can meaningfully stand alone', yr unig eitemau y mae Joshi'n dadlau y gellir eu cyfnewid (1985, t.117), gan gynnwys geiriau megis 'cysylltair' neu 'negydd'. Awgryma hyn na ellir cymhwyso damcaniaeth Joshi i'r Gymraeg.

6.2.6 Maes Semanteg



Ffigur 122: Maes Semanteg – Dramâu Cymraeg

Gwelir bod 395 enghraifft yn perthyn i'r categori 'sgwrs', neu 30.6%. Yna, mae 'amwys' (232 enghraifft; 18%), 'term Saesneg' (182 enghraifft; 14.1%), 'ymadrodd gosod' (88 enghraifft; 6.8%) a 'rheg' (75 enghraifft, 5.8%) yn gategorïau gyda nifer uchel o enghreifftiau.²⁸¹



Ffigur 123: Maes Semanteg – Sundance


'Sgwrs' yw'r categori â'r mwyaf o enghreifftiau (33 enghraifft; 20.1%), gyda 'rheg' yn ail iddo (21 enghraifft; 12.8%). Mae 'busnes' a 'bwyd' yn gysylltiedig ag obsesiwn Sundance â'r archfarchnad Pepco, ac 'iechyd' yn ymwneud â'r termau hynny y mae'n ei glywed fel bachgen wrth i'w fodryb drafod cancr ei

²⁸¹ Am ddiffiniadau o'r categorïau hyn, gweler t.88.

fam. Mae 'dyfynnu' hefyd yn cynnwys nifer o enghreifftiau; mae hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod Sundance yn dueddol o droi at y Saesneg i ddyfynnu neu i ddywarded ffordd arbennig o siarad, yn enwedig o ffilmiau *Western*.


Gwelir enghraifft isod:

Come on you bastyns...
Come on...
Draw you bastyns...
Draw...
 Ffycin *draw...* (Sd 46)




Ffigur 124: Maes Semanteg – *Wal*

'Rheg' yw'r categori â'r mwyaf o enghreifftiau yn *Wal* (18 enghraifft; 20.7%), yna 'rhifo' (13 enghraifft, 14.9%) ac 'amwys' (11 enghraifft; 12.6%). Mae'r ffaith bod 'dyfynnu' yn cynnwys 10 enghraifft (11.5%) yn dyst i duedd y cymeriadau i ddyfynnu eraill, megis hysbysebion yn y siop bapur newydd.



Ffigur 125: Maes Semanteg – *Llwyth*

'Amwys' sydd â'r mwyaf o enghreifftiau yn *Llwyth* (203 enghraifft; 25.8%), gyda 'sgwrs' (179 enghraifft, 22.7%) a 'term Saesneg' (137 enghraifft; 17.4%) yn ail a thrydydd. Mae 'sgwrs' yn amlwg yn dangos dylanwad y cymeriadau sy'n ddi-Gymraeg neu sy'n dysgu'r Gymraeg, megis Gareth a'i ffrindiau. Mae 'rhyw' hefyd yn cynnwys nifer o enghreifftiau, wrth i Aneurin sôn am ei orchestion. Mae hyn yn cyd-fynd â dadl Jon Gower ei bod hi bron yn amhosibl trafod rhyw yn y Gymraeg (Dobson 1997). Fel y dywed Aneurin ei hun, byddai'n dweud stori yn y Gymraeg pe bai'n 'gwbod beth oedd y gair Cymraeg am orgy' (LI 12).



Ffigur 126: Maes Semanteg – AGCH

Mae 'sgwrs' ymhell ar y blaen o'r categorïau eraill (183 enghraifft; 72%), gyda 'term Saesneg' (24 enghraifft; 9.4%) ac 'amwys' (16 enghraifft; 6.3%) â nifer fach iawn o enghreifftiau, sy'n dangos mai cymeriadau uniaith Saesneg sy'n achosi llawer o'r cyfnewid cod yn AGCH.


Gwelir bod cysylltiad rhwng y cyfnewid cod a themâu'r dramâu, megis archfarchnad Pepco yn *Sundance*, neu ryw yn *Llwyth*. Isod, ceir tabl sy'n dangos y categorïau Maes Semanteg sy'n ymddangos ym mhob un o'r dramâu; nifer fechan iawn sydd yma. Diddorol nodi nad yw 'sgwrs' ond yn ymddangos mewn tair o'r dramâu, er mai dyma'r categori gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o ystyried y dramâu gyda'i gilydd. Mae hyn yn dangos cymaint o effaith ar

gyfnewid cod y dramâu y mae'r cymeriadau di-Gymraeg neu'r cymeriadau sy'n dysgu'r Gymraeg yn ei gael, wrth iddynt droi sgwrs y cymeriadau eraill i'r Saesneg.

amwys	232
dyfynnu	39
rheg	75
teledu	8
term Saesneg	182
yfadrodd gosod	88


Tabl 75: Maes Semanteg – Categoriâu Cyffredin

6.2.7 Ysgogiad/Swyddogaeth




Ffigur 127: Ysgogiad/Swyddogaeth – Dramâu Cymraeg

O edrych ar Ysgogiad/Swyddogaeth cyfnewid cod y dramâu Cymraeg, gwelir bod mwyafrif yr enghreifftiau yn perthyn i 'Bwlch geirfaol' (497 enghraifft; 38.5%) neu 'Dyfyniad' (448 enghraifft; 34.7%). Mae 'Creu effaith arbennig' hefyd yn cynnwys nifer uchel o enghreifftiau (322 enghraifft; 24.9%).




Ffigur 128: Ysgogiad/Swyddogaeth – Sundance




Ffigur 129: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Wal*

Mae mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Sundance* ac *Wal* yn perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol' (39.6%; 75.9%). Yn *Sundance*, ceir nifer o enghreifftiau o ddyfynnu hefyd (36.6%).



Ffigur 130: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Llwyth*

Gwelir bod ystod eang o gategoriâu'n cael eu defnyddio yn *Llwyth*, sy'n dangos cymhlethdod y cyfnewid cod yn y ddrama hon. Mae 39.4% o'r enghreifftiau yn perthyn i 'Bwlch geirfaol', 31.9% i 'Creu effaith arbennig' a 24.4% yn perthyn i 'Dyfyniad'.




Ffigur 131: Ysgogiad/Swyddogaeth – *AGCH*

Eto, gwelir bod sgwrs uniaith Saesneg yn cael effaith fawr ar y cyfnewid cod yn *AGCH* gan fod 72.8% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn perthyn i 'Dyfyniad'.

Yn yr adran uchod, gwelir bod nifer uchel o enghreifftiau o ‘Bwlch geirfaol’ a ‘Dyfyniad’ yn y dramâu Cymraeg. Nid oes unrhyw ddrama unigol yn mynd yn erbyn y tueddiad cyffredinol sydd i’w weld wrth ystyried y dramâu Cymraeg gyda’i gilydd. Eto, gwelir mai *Llwyth* sy’n dangos y patrwm mwyaf amrywiol o gyfnewid cod o’r dramâu i gyd, gan gynnwys enghreifftiau sy’n perthyn i naw categori Ysgogiad/Swyddogaeth.


6.2.8 Deialog Cymeriadau

Ni chrëwyd graff ar gyfer *Sundance* gan mai dim ond un cymeriad sydd yn y ddrama hon, er bod *Sundance* yn dyfynnu cymeriadau eraill.



Ffigur 132: Deialog Cymeriadau – *Wal*

Dim ond dau gymeriad sydd yn *Wal*, sef Alji ac Eddy. Gwelir bod yr enghreifftiau o gyfnewid cod wedi eu rhannu’n eithaf cyfartal rhwng Alji ac Eddy, ond bod ychydig mwy (55%) gan Alji. Mae hyn yn ddiddorol oherwydd mai cymeriad Alji yw’r mwyaf awdurdodol o’r ddau.




Ffigur 133: Deialog Cymeriadau – *Llwyth*

Gwelir mai Aneurin sy’n defnyddio cyfnewid cod fwyaf (320 enghraifft; 41% o’r holl gyfnewid cod yn y ddrama). Nid yw hyn yn annisgwyl gan fod Aneurin yn

gymeriad mor ganolog i'r ddrama. Er ei fod yn ymddwyn fel adroddwr ar adegau, gwelwyd eisoes nad oes llawer iawn o gyfnewid cod yn y monologau; yn hytrach, maent yn defnyddio Cymraeg safonol. Dengys hyn fod gwahaniaeth i'w weld rhwng deialog Aneurin a'i fonologau o safbwynt cyfnewid cod. Mae gweld bod Gavin yn cyfnewid cod gymaint (27% o'r holl ddrama) yn fwy annisgwyl oherwydd nad yw'n gymeriad mor ganolog â Dada, Gareth neu Rhys. Fodd bynnag, mae cyfnewid cod yn chwarae rhan bwysig o gymeriadu Gavin, gan ei fod yn rhan o'i dafodiaith, fel y gwelir yn y dyfyniad:

Mae Cymraeg yn weird, nagyw e? Much as I like the 'ti's and 'chi's and all that, mae jyst yn neud pethau'n complicated. It just gets in the way. Nagwyt ti'n meddwl?

(LI 61)




Ffigur 134: Deialog Cymeriadau – AGCH

Mae'n anorfod bod y cymeriad Jay (monolog a deialog) yn defnyddio llawer o gyfnewid cod, gan mai dim ond yn y Saesneg y gall gyfathrebu.²⁸² Er hyn, mae nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod ym monolog Hefin, gan ddangos ei fod yn gwneud defnydd o'r Saesneg yn ei ieithwedd ei hun yn ogystal ag wrth gyfathrebu â chymeriadau di-Gymraeg.


²⁸² Hyd at yr olygfa olaf, lle gwelir ef yn defnyddio ychydig o Gymraeg (AGCH 63).

6.2.9 Nodweddion Gramadegol



Ffigur 135: Nodweddion Gramadegol – Dramâu Cymraeg

O'r graffiau uchod, gwelir nad yw rheolau gramadegol y Gymraeg yn cael eu defnyddio'n gyson wrth gyfnewid cod. Mae modd defnyddio'r fannod Gymraeg gydag enwau Saesneg, gyda 55 enghraifft yn y dramâu Cymraeg. Dim ond un enghraifft sydd o farcio enw'n fenywaidd yn y dramâu Cymraeg, a saith enw wedi'u marcio'n wrywaidd. Dim ond pedair enghraifft o dreiglo sydd yma, a hynny'n dreiglud meddal; nid oes unrhyw enghreifftiau o'r treiglud trwynol na'r llaes. Isod, gwelir y graffiau ar gyfer y dramâu unigol.




Ffigur 136: Nodweddion Gramadegol – *Sundance*

Dim ond un enghraifft sydd yma o farcio enw â chenedl, a hynny'n fenywaidd.

Gweler yr enghraifft isod:

Mi ddo i â *danish* pêsdri i chdi fory... O'r *family friendly*... Uffar o un fawr
(Sd 51)


Gweler bod y treigladd meddal yn 'uffarn o un fawr' yn dilyn 'un' yn dangos mai benywaidd yw'r ymadrodd enwol '*danish* pêsdri'. Ceir enghreifftiau o amrywiaeth treiglo fel rhan o dafodiaith,²⁸³ felly gallai hwn hefyd fod yn nodwedd dafodieithol. Fodd bynnag, penderfynwyd bod yr esiampl uchod yn gymwys i'w chyfrif fel arwydd o enw benywaidd. Dim ond dwy enghraifft sydd o dreiglo, a hynny'n dreigladd meddal. Yn ddiddorol, dim ond un enghraifft sydd o dorri rheol treiglo. Awgryma hyn fod y dramodydd yn llwyddo i osgoi rhoi geiriau Saesneg mewn sefyllfa lle y byddai angen eu treiglo.



Ffigur 137: Nodweddion Gramadegol – *Wal*


Nid oes unrhyw enw Saesneg wedi'i farcio â chenedl yn *Wal*, felly nid oes graff Cenedl wedi'i gynnwys. Mae pedair enghraifft o dorri'r rheol treiglo ('dim'), a deg enghraifft o enw Saesneg yn defnyddio'r fannod Gymraeg.

²⁸³ Er enghraifft, tuedd i beidio â threiglo'r ansoddair 'bach' (Thomas a Gathercole 2005, t.2237); trafodwyd hyn eisoes ar t.144.



Ffigur 138: Nodweddion Gramadegol – *Llwyth*

Mae *Llwyth* yn cynnwys enghreifftiau o ddefnyddio'r fannod Gymraeg ag enwau Saesneg (28 enghraifft), o farcio â chenedl (marciwyd pum enw yn wrywaidd), ac o dreiglo (ceir dwy enghraifft o dreigladd meddal, sef 'holl fuscles y fro' (LI8) a 'Hoffech chi **dd**rink arall, Gavin?' (LI79)). Er hyn, y tueddiad yw osgoi marcio cenedl (70.1%) neu i dorri rheol treiglo (95.2%), sy'n dangos nad yw defnyddio rheolau gramadegol y Gymraeg yn arferol.



Ffigur 139: Nodweddion Gramadegol – AGCH

Yn AGCH, ychydig iawn o enghreifftiau a geir o farcio cenedl enwau (dau yn wrywaidd) a defnydd o'r fannod Gymraeg gydag enwau Saesneg (6 enghraifft). Nid oes unrhyw enghraifft o dreiglo, ond dim ond dwy enghraifft sydd o dorri rheol treiglo – sydd eto'n dangos bod y dramodydd yn fedrus wrth osgoi rhoi

geiriau Saesneg mewn sefyllfa lle y byddai angen eu treiglo. Fodd bynnag, rhaid cofio mai cyfnewid rhyngfrawddegol yw mwyafrif y cyfnewid cod yn y ddrama hon (80.3%). Dim ond geiriau unigol neu ymadroddion byr sy'n gallu cael eu treiglo. O'r herwydd, ychydig iawn o enghreifftiau o'r nodweddion uchod a allai godi yn y testun hwn.

O edrych ar y dramâu Cymraeg, gwelir nad yw hi'n arferol defnyddio rheolau gramadegol y Gymraeg wrth gyfnewid cod, er bod modd gwneud hyn. Yn hytrach, mae'n fwy arferol i osgoi marcio cenedl – dim ond mewn nifer fechan o achosion y mercir cenedl, a hynny'n wrywaidd yn y mwyafrif o achosion. Mae modd defnyddio'r fannod, ond nis defnyddir yn aml. Mae'r treiglo'n fwy diddorol. Dim ond enghreifftiau o'r treigladd meddal sydd yma, sy'n cyd-fynd â thueddiadau Cymraeg llafar, oherwydd bod y treigladd meddal yn cael ei gadw ar lafar yn fwy na'r ddau dreigladd arall (Thomas a Gathercole 2005, t.2237).²⁸⁴ Er nad oes llawer o enghreifftiau o dreiglo i'w gweld, nid oes ychwaith nifer fawr o esiamplau o dorri rheolau treiglo. Yn hytrach, mae'r dramodwyr yn fedrus yn eu gallu i osgoi rhoi geiriau Saesneg mewn sefyllfa lle y byddai disgwyl treiglo yn ôl rheolau treiglo'r Gymraeg. Mae hyn yn arwydd o gyfnewid cod medrus a gofalus. Er hyn, rhaid cofio mai cyfnewid rhyngfrawddegol yw dros hanner yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn y dramâu Cymraeg (55.8%), ac felly mae hyn yn cyfyngu ar yr enghreifftiau o gyfnewid cod y byddai'n bosibl eu marcio â chenedl, eu treiglo neu eu rhagflaenu â'r fannod Gymraeg.

6.3 Casgliadau

O edrych ar y dramâu Cymraeg, gwelir bod sawl patrwm diddorol yn dod i'r amlwg, gan awgrymu bod y dramodwyr dan sylw yn cyfnewid cod mewn ffordd

²⁸⁴ Ceir hefyd erthygl gan John D. Phillips (2008, tt.100–103) sy'n trafod nifer o astudiaethau ar y defnydd neu'r diffyg treiglo yn y Gymraeg.

wahanol i'r nofelwyr. Roedd y gymhareb yn 5.03 – ychydig yn uwch na'r nofelau Cymraeg. Efallai bod hyn yn adlewyrchiad o hynodrwydd y ddrama, gyda'r pwyslais ar y llafar; testun i'w *glywed* yn hytrach na'i *ddarllen* ydyw. Oherwydd bod y pwyslais ar yr elfen lafar, tybid cyn mynd ati i ddadansoddi y byddai gwahaniaeth i'w weld rhwng y ddrama a'r nofel, a'r dramodwyr yn defnyddio arddull fwy llafar sy'n cynnwys mwy o enghreifftiau o gyfnewid cod. Yn ddiddorol, cyfnewid rhyngfrawddegol oedd i'w weld fwyaf yn y ddrama Gymraeg (er, o ystyried dramâu unigol, nid yn *Wal* na *Sundance*) sy'n patrwm gwahanol i'r nofel. Nodwyd eisoes bod hyn yn cael ei effeithio gan y dramâu a ddewiswyd ar gyfer y corpws. Er mwyn cryfhau'r ddamcaniaeth hon, rhaid astudio rhagor o destunau; trafodir y dramâu Ffrangeg a Saesneg yn yr adrannau nesaf. Patrwm symlach o gyfnewid cod sydd i'w weld yn y ddrama o safbwynt gramadegol, ond tybir mai effaith natur clywedol y ddrama sy'n achosi hyn. Fodd bynnag, mae'r patrwm yn fwy cymhleth na'r hyn sy'n cael ei awgrymu gan Joshi (1985), yn arbennig o ystyried *Llwyth*. O edrych ar y nodweddion gramadegol, gwelwyd nad oes tuedd gref i ddefnyddio rheolau gramadegol y Gymraeg ar gyfnewid cod, er bod rhai enghreifftiau o hyn. Eto, tybir bod cysylltiad yma ag arddull lafar y ddrama, er enghraifft bod y treigladau trwynol a llaes yn cael eu hepgor, ond bod enghreifftiau o'r treigladau meddal i'w gweld. Felly, gellid dadlau bod patrymau cyfnewid cod y ddrama'n ceisio adlewyrchu arferion siaradwyr Cymraeg go iawn mewn sawl ffordd.

7: Y Dramâu Ffrangeg

7.1 Crynodeb

***Le Chien* (1987) Jean Marc Dalpé²⁸⁵**

Dyma ddrama gyntaf Dalpé,²⁸⁶ a oedd yn llwyddiant ysgubol ers ei llwyfaniad

cyntaf gan Théâtre de Nouvel-Ontario ym 1987, ac a enillodd wobr y

Gouverneur Général yn 1988 (Ladouceur a Liss 2011, t.74). Dywed Joëlle Roy

– awdures *Xman est back en Huronie*²⁸⁷ – ei bod yn debygol mai Dalpé a

bortreadodd y *diaspora franco-ontarienne* orau (2009, t.220).

Cymeriadau

Jay	25 mlwydd oed. Gadawodd gartref saith mlynedd yn gynharach ar ôl dadlau â'i dad; mae wedi bod yn gweithio fel adeiladwr o amgylch yr UDA a Chanada.
Père	52 mlwydd oed, coedwigwr. Mae'n gweithio o hyd, er nad oes llawer o waith yn yr ardal.
Céline	17 mlwydd oed, merch fabwysiedig teulu Jay, sydd saith mis yn feichiog. Mae hi'n hil-gymysg, a'i mam yn perthyn i un o Genhedloedd Brodorol Canada.
Grand-père	Hen wladychwr yn yr ardal. Bu farw'n 87 mlwydd oed. Cynhaliwyd y cynhebrwng ar y diwrnod y mae Jay'n dychwelyd.
Mère	45 mlwydd oed. Bu'n anhapus yn ei phriodas â thad Jay – dywed ei bod yn 20 mlynedd ers iddi hi a'i gŵr drafod rhywbeth heblaw'r biliau (C17).

Tabl 76: Cymeriadau *Le Chien*

Canolbwynt y ddrama yw dychwelyd Jay, y mab, i'r cartref symudol ar gyrion

pentref yng ngogledd Ontario er mwyn ceisio cymodi â'i dad. Mae golygfeydd

gyda'r fam, Céline a'r taid yn fframio'r cyfarfod rhwng y tad a'r mab. Fel yr

esbonia Fréchette, mae *Le Chien* yn adrodd mwy na hanes teuluol 'mais aussi

d'une culture menacée, une culture bloquée, coupée du monde, que l'on sent

étouffée, désespérée'(1988, t.141).²⁸⁸ Clywir cyfarth ci yn ystod y ddrama –

clymwyd ef y tu allan oherwydd iddo droi'n beryglus yn ddiweddar. Adleisir trais

²⁸⁵ Perfformiwyd gyntaf yn yr un flwyddyn.

²⁸⁶ Namyn gweithiau ar y cyd (Radio Canada a Mathieu 1988).

²⁸⁷ Un o'r nofelau Ffrangeg sy'n cael eu dadansoddi fel rhan o'r ymchwil presennol.

²⁸⁸ "ond hefyd ddiwylliant dan fygythiad, diwylliant caeëdig, heb gysylltiad â'r byd, fel petai wedi'i fygu, yn ddiobaith".

diwedd glo'r ddrama gan olygfa pan yw Jay'n saethu'r ci. Nid yw cyfamod rhwng y tad a'r mab yn bosib, wedi i'r tad gyfaddef iddo dreisio'i ferch fabwysiedig, ac mae Jay yn ei ladd yntau ar ddiwedd y ddrama. Esbonia Fréchette 'il n'a fait qu'accomplir son destin, en répondant à la violence par la violence' (1988, t.143).²⁸⁹

***Moncton Sable* (1997) France Daigle²⁹⁰**

Dyma ddrama gyntaf France Daigle i'r grŵp theatr 'Moncton Sable' (a gymerodd ei enw o'r ddrama maes o law);²⁹¹ daeth yr enw o'r tywod sy'n llenwi'r llwyfan.²⁹²

Ysgrifennodd bum nofel cyn hyn, heb ddefnyddio *chiac* na llawer o ddeialog, ond dechreuodd arbrofi wrth ysgrifennu ar gyfer y theatr. Esboniodd:

Pour moi, le théâtre, c'est pas sérieux [...] c'est un peu pour s'amuser. Alors, je me suis laissée un peu allé, à du chiac et tout ça. Pas majeure, pas de façon majeure, mais un peu, puis j'ai pas mal aimé ça.²⁹³

Dywed fod ysgrifennu *Moncton Sable* 'a un peu brisé la glace',²⁹⁴ ac aeth ymlaen wedyn i ysgrifennu'r nofel *Pas Pire* (1998), y nofel gyntaf o'r gyfres gyda Terry a Carmen sy'n ymddangos yn *Pour Sûr*.²⁹⁵ Ond megis dechrau oedd *Pas Pire* o ran defnyddio'r *chiac*, fel y mae Daigle ei hun yn cyfaddef. Dywed 'j'ai déjà l'impression, presque, de briser un tabou, familiale²⁹⁶ d'abord, et culturel

²⁸⁹ "yr unig beth a gyflawnodd oedd ei dynged, gan ymateb i drais gyda thrais".

²⁹⁰ Perfformiwyd gyntaf ym 1997, heb ei chyhoeddi. Diolch i France Daigle am ddarparu copi o'r ddrama.

²⁹¹ Cyfweiliad personol â France Daigle, 26/05/2016. Yn ddiweddarach, ysgrifennodd hefyd '*Craie*', '*Foin*' a '*Bric-à-Brac*'. Nid ydynt eto wedi'u cyhoeddi.

²⁹² Esbonia Daigle fod llond 2-3 lori o dywod ar y llwyfan (cyfweiliad personol, 26/05/2016), neu 25 tunnell o dywod (Nichols 2009).

²⁹³ "I mi, y theatr, dydi o ddim o ddiffri [...] 'chydig bach o chwarae o gwmpas. Felly, 'nes i adael fy hun fynd dipyn, i *chiac* a hynny i gyd. Ddim byd mawr, ddim mewn ffordd fawr, ond dipyn bach, a nes i fwynhau hynny". Cyfweiliad personol 26/05/2016.

²⁹⁴ "wedi torri'r iâ ychydig". Cyfweiliad personol 26/05/2016.

²⁹⁵ *Pour Sûr* yw'r bedwaredd nofel a nofel olaf y gyfres. Mae hon yn un o'r nofelau Ffrangeg sy'n cael eu dadansoddi yn y traethawd hwn.

²⁹⁶ Nodir bod ei thad, Euclide Daigle, yn olygydd i bapur newydd wythnosol ffrancoffon Moncton, *l'Évangeline*, ac roedd yn gweithio i ddiogelu safon iaith. Dywed France mai *français standard* oedd iaith y cartref (Cyfweiliad personol 26/05/2016). Roedd ei thad yn ei hannog i feistrioli'r iaith Ffrangeg, gan y byddai'r sgil prin hwn yn sicrhau gwaith iddi (Giroux 2004), ac mae hyn yn amlwg wedi rhoi parch mawr i France tuag at yr iaith. Mewn cyfweiliad am ei nofel *Pour Sûr*, dywed nad oedd yn siŵr a oedd ei thad yn 'troi yn ei fedd', ond gobeithiai y byddai'n gwerthfawrogi'r gwaith llafur – o ddeng mlynedd – a oedd y tu ôl i'r nofel (Dienw 2012).

autour, même si je regards ça aujourd’hui, et j’ai la difficulté à trouver vraiment du vrai chiac.²⁹⁷ Yn wir, roedd amser lle na fyddai erioed wedi credu y gallai ysgrifennu mewn *chiac*, ‘variété qui avait eu pour elle l’image d’une langue méprisée et méprisable’ (Boudreau 2004, t.41).²⁹⁸

Cymeriadau²⁹⁹

L’aîné	Y brawd hynaf. Mae’n cael gwersylla ar wahân i weddill y teulu, sy’n awgrymu ei fod yn dipyn hŷn na’i ddwy chwaer.
La petite	Chwaer ieuangaf y teulu. Mae hi’n gymeriad hudolus, gyda’i phresenoldeb yn ysgogi cerddoriaeth ac yn gwneud i ddiemwnt ymddangos yn y tywod.
Terroriste / l’enfant du milieu	Mae hi’n ymgyrchwraig dros yr amgylchedd (e.e. dwrddio twristiaid am adael plastig ar y traeth).
Parent	Rhiant l’aîné, Terroriste, a la petite.

Tabl 77: Cymeriadau *Moncton Sable*

Disgrifir gwaith *Collectif Moncton Sable* fel ‘scenically stunning, wrapping the entire theatre in the material being explored [...] The plays were structured very loosely, organized more in terms of filmic image than by narrative line’ (Nichols 2009). Mae’r ddrama’n destun ôl-fodernaidd, gyda chymeriadau dienw, heb ddatblygiad storïol, ond yn hytrach yn gyfres o olygfeydd sy’n aml yn llawn hiwmor. Gwelir rhiant yn mynd i’r traeth gyda thri phlentyn (l’aîné, Terroriste a la petite) ac yn cyfarfod â sawl cymeriad ymylol. Er enghraifft, ceir tri chymeriad sy’n edrych am halen, deiamwntiaid a chwain,³⁰⁰ a sawl pâr o gymeriadau, megis Rockeur-Rockette, Papa-Fiston a Mère-Fillette.³⁰¹ Ceir hefyd olygfa

²⁹⁷ “Roedd gen i’r teimlad eisoes, bron, o dorri tabŵ, tabŵ teuluol yn y lle cyntaf, a diwylliannol – hyd yn oed os ydw i’n edrych arno heddiw, a’i chael hi’n anodd i weld *chiac* go iawn yno.”
Cyfweliad personol, 26/05/2016.

²⁹⁸ “amrywiaeth a oedd iddi hi’n ddelwedd o iaith ddirmygus a dirmygadwy”.

²⁹⁹ Cyfieithiad o enwau’r cymeriadau: l’aîné – yr hynaf; la petite – y fechan; Terroriste/l’enfant du milieu – terfysgwr/y plentyn canol.

³⁰⁰ Chercheur du diamants, chercheur du sel, chercheur des puces – chwilotwr deiamwntiaid/halen/chwain.

³⁰¹ Defnyddir y ddau bâr Père-Fiston (Tad-Mab) a Mère-Fillette (Mam-Merch) mewn gwrthgyferbyniad â’i gilydd, gyda sgwrs y ddau riant yn cael ei hadlewyrchu yn sgwrs y ddau blentyn.

gyda'r 'quatre comédien.ne.s'³⁰² sy'n trafod pwy sy'n cael rheoli pa elfennau o'r byd. Chwaraeir â'n disgwyliadau mewn sawl ffordd, er enghraifft wrth inni sylweddoli mai breuddwyd cymeriad arall oedd yr olygfa hon gyda'r pedair *comédien.ne.s*. Gwelir hefyd gymeriadau'n ymddwyn fel petaent yn actorion yn y ddrama hon sydd newydd ddod oddi ar y llwyfan (e.e. *Sexée (sexed)* a *Golfeuse* (chwaraewraig golff)).

Mae yma elfennau sy'n adleisio tueddiad Daigle i greu cymeriadau heb rywedd penodol. Drwy ei gwaith, gwelir ymgais i gwestiynu neu i fynd y tu hwnt i rywedd gan ddefnyddio cymeriadau androgynaid (Le François 2005, t.46).

Mae'r awdur wedi trafod ei hymgais i '*écrire au neutre, c'est-à-dire d'un point de vue qui ne soit pas foncièrement féminin ou masculin*' (Daigle 1986, t.37).³⁰³

Dywed 'je trouvais la question du genre embêtant',³⁰⁴ yn enwedig ar ddechrau ei gyrfa, gan dynnu coes wrth ddweud yr hoffai fod yn angloffon er mwyn gallu osgoi marcio cenedl (Boehringer 2004, t.15). Dywed fod rhywedd yn arbennig o flinedig, a bod angen gweithio i osgoi clichés a phethau nodweddiadol yn yr iaith – yn hytrach, mae'n well ganddi adael amwysedd, a pheidio â diffinio pethau'n union (2004, t.16). Yn *Moncton Sable*, er y cyfeirir at rai cymeriadau fel benywaidd neu wrywaidd,³⁰⁵ ceir sawl cymeriad heb fanylion, megis y '*comédien.ne.s*', sy'n dynodi bod modd iddynt fod yn ddynion neu'n fenywod. Gan nad yw *Moncton Sable* wedi'i chyhoeddi, nid oes manylion cyflawn ynglŷn â'r actorion, ond tybir bod cymysgedd o fenywod a dynion yn y cast, er bod rhywedd rhai cymeriadau'n amwys. Gwelir felly fod rhyddid i'r cast arbrofi, gan ddangos amrywiaeth ieithyddol aelodau'r cast.

³⁰² 'pedwar actor / pedair actores'.

³⁰³ "ysgrifennu'n niwtral, hynny yw, o safbwynt nad yw yn y bôn yn fenywaidd neu'n wrywaidd".

³⁰⁴ "Ro'n i'n gweld y cwestiwn o genedl/rhyw yn boen".

³⁰⁵ Er enghraifft, *la petite, l'aîné, Terroriste, Rockeur-Rockette, Père-Fiston, Mère-Fillette*.

***Bullshit* (2001) Marc Prescott³⁰⁶**

Teitl gwreiddiol y ddrama oedd *Bullshit*, ond fe'i llwyfannwyd o dan y teitl 'Poisson' (BS 100). Enillodd wobr le Masque ar gyfer y cynhyrchiad *franco-canadien* gorau (Gaboury-Diallo 2010, t.313). Mae'r ddrama'n cyd-blethu golygfeydd doniol â hanes digwyddiadau erchyll sy'n creu drama abswrdaidd. Lleolir y ddrama ym mhentref dychmygol Sansregret. Mae'n bentref tlawd, a'r pwll glo wedi cau ddegawd ynghynt. Ceir cast bychan o gymeriadau sy'n ymgynnull ym mar *Meetings* yn y *Motor-Hotel*.

Cymeriadau

Coach	Perchennog y <i>Sansregret Motor-Hotel</i> . Maer y pentref. Hoffai ddatblygu twristiaeth Sansregret.
Cat	Gwraig Coach. Mae'n awyddus iawn i gael plant. Cafodd gamesgoriad yn ddiweddar, ond nid yw ei gŵr yn cyd-ymdeimlo â hi.
Gonzo	Disgrifir ef fel 'petit, pouilleux, cheveux longs, casquette à l'envers, bagues' (BS102). ³⁰⁷ Mae'n hoff o adrodd straeon.
Pickle	Pennaeth Heddlu Sansregret ond nid yw'n cael ei barchu. Mae mewn cariad â Cindy, ond nid yw wedi dweud wrthi.
T-Bone	Cyn-chwaraewr hoci proffesiynol a chyn-gariad Cindy. Cred fod ganddo fab dwyflwydd oed gyda hi. Mae'n dychwelyd i'r pentref ar ôl anaf i'w benglin.
Cindy	Trinydd gwallt. Mae'n cael perthynas gyda Coach ac yn awyddus iddo adael ei wraig. Ffugiodd wrth T-Bone iddi gael ei blentyn er mwyn cael arian ganddo.
Daffy	Newyddiadurwr <i>Action News at Six</i> .

Tabl 78: Cymeriadau *Bullshit*

Dychwela T-Bone i'r pentref, ac mae eisiau cyfarfod â'i fab – sy'n golygu bod perygl iddo ddarganfod twyll Cindy. Caiff Cat freuddwyd am ddyn mewn cot hir ddu sy'n lladd plant, a cheisia berswadio Pickle ei fod yn rhagargoel. Defnyddia Cindy hyn wrth honni bod ei mab wedi diflannu, sy'n arwain y cymeriadau i gredu bod llofrudd yn Sansregret. Mae Cat yn cyflawni hunanladdiad ar ôl deffro o hunllef a chanfod ei hun yn gwisgo dillad y llofrudd. Mae Coach yn darganfod y corff cyn ei dorri'n ddarnau a dweud wrth bawb bod y llofrudd wedi lladd Cat.

³⁰⁶ Perfformiwyd gyntaf yn yr un flwyddyn.

³⁰⁷ "Bach, chweiniog, gwallt hir, cap tuag yn ôl, modrwyau".

Mae Gonzo a Pickle yn dadlau, gyda'r ddau'n cyffesu mai nhw yw'r llofrudd. Arweinia hyn at ddamwain gyda gwn Pickle sy'n lladd Cindy. Erbyn yr olygfa olaf, gwelir bod y *Motor-Hotel* yn rhoi teithiau tywys, gyda Gonzo'n adrodd stori cyffesiad a hunanladdiad Cindy, a Coach yn honni 'c'est quand même la meilleure chose qui aurait pu arriver à Sansregret' (BS 219).³⁰⁸

Laurie ou la vie de galerie (2013) Herménégilde Chiasson³⁰⁹

Drama ddigrif sydd yma, gyda Chiasson yn portreadu cymeriadau *acadien* ystrydebol. Disgrifia Bourque y ddrama fel:

un groupe de personnages comiques et risibles dont la vie quotidienne constitue rien de moins qu'une parodie hilarante de la société acadienne actuelle aussi bien que des stéréotypes dont on se sert bien souvent pour la caractériser. (2010, t.228)³¹⁰

Dadleua Des Becquets 'bien qu'il s'agisse certainement d'une pièce identitaire, la posture très ironique de l'auteur crée une incertitude par rapport au message qu'il voulait véhiculer' (2015, t.35).³¹¹ Dywed Bourque fod Chiasson yn ceisio cael yr *Acadiens* i chwerthin am ben eu sefyllfa ieithyddol, efallai gyda'r bwriad o'i fwrw allan (2010, t.228).³¹² Mae'r ddrama wedi cael llwyddiant mawr; dyma'r ddrama *acadien* sydd wedi'i llwyfannu fwyaf, ar wahân i *La Sagouine*.³¹³ Cyfeirir at y ddrama hon fel *Laurie*.

³⁰⁸ "Dyma wir y peth gorau gallai fod wedi digwydd yn Sansregret".

³⁰⁹ Perfformiwyd gyntaf ym 1998.

³¹⁰ "grŵp o gymeriadau doniol a hurt a'u bywyd beunyddiol yn ddim ond parodi ddoniol o gymdeithas *acadien* fodern ynghyd â'r ystrydebau a ddefnyddir yn aml i'w chymeriadu".

³¹¹ "Er ei bod yn sicr yn ddrama am hunaniaeth, mae ymagwedd eironig iawn yr awdur yn creu ansicrwydd ynglŷn â'r neges y mae eisiau ei chyfleu".

³¹² 'Sans doute Chiasson cherche-t-il à amener les Acadiens à rire de leur situation linguistique, dans le but de l'exorciser peut-être' (Bourque 2010, t.228).

³¹³ Heb os, dyma ddrama fwyaf adnabyddus Acadie, sydd wedi'i chreu o gyfres o fonologau gan yr awdures Antonine Maillet, sydd hyd yn oed wedi ysbrydoli parc twristiaeth '*Le Pays de la Sagouine*'. Viola Léger oedd yr unig actores i chwarae'r rôl, a llwyfannwyd hi dros ddwy fil o weithiau ers 1972 (yn y Ffrangeg gwreiddiol a'r cyfieithiad Saesneg) (Sabourin a Lambert 2015).

Cymeriadau

Laurie	Mae Laurie yn gwrthod gweithio. Erys am ei 'bundle' – taliad ariannol swmpus dirgel – ond yn y cyfamser, ceisia gael arian yswiriant. Cafodd ddamwain yn y gwaith, er nad yw ei ddisgrifiad dros-ben-llestri yn argyhoeddi.
Euclide	Cariad merch Laurie. Mae'n adeiladwr. Mae ef yn gweithio yn ystod y gaeaf er mwyn gallu cael tâl diweithdra dros yr haf.
Bénalda	Mam Georgette a gwraig Laurie. Roedd hi'n arfer galw bingo – cred y byddai wedi gallu cael gyrfa lwyddiannus ond nad oedd hi'n gallu galw yn y Saesneg.
Georgette	Cariad Euclide – mae'n gobeithio ei briodi, ond mae'n anobeithio ei fod yn yfed cymaint.


Tabl 79: Cymeriadau *Laurie*

Laurie ac Euclide yw canolbwynt y ddrama hon. Dros yr haf, mae'r ddau yn ddi-waith ac yn treulio'r dyddiau'n yfed cwrw, siarad a chwarae gitâr. Mae Bénalda a Georgette yn gweithio mewn ffatri bysgod. Ceir hefyd ddau gymeriad ymylol. Mewn un olygfa, daw Rebecca o'r cwmni yswiriant i holi am ddamwain Laurie yn y gwaith. Yn ddiweddarach, daw Ella Sincennes (cynhyrchydd i Radio Canada) i geisio cael clip i'w ddefnyddio ar y radio ar gyfer eitem ar y pymthegfed o Awst, sef *fête nationale des Acadiens* – ond yr acen sy'n bwysig, nid yr hyn sy'n cael ei ddweud.³¹⁴ Gwelwn rwystredigaeth Georgette tuag at Euclide. Mae hi eisiau ei briodi, ond mae Euclide am aros i gynilo digon o arian, er nad yw'n gweithio dros yr haf. Mae Bénalda'n rhoi Laurie ac Euclide yn eu lle, gan ddweud bod rhaid i bethau newid a bod angen cyfaddawd ym mhob perthynas, fel y cyfaddawdodd hi â Laurie wrth roi'r gorau i alw bingo.

³¹⁴ Dywed Ella « je fais un reportage pour le national sur les traditions acadiennes et nous cherchons des gens qui ont un accent. Ça n'a pas vraiment d'importance ce que vous allez dire, ce qu'on veut entendre c'est votre accent » (L 54) ["Dwi'n gwneud adroddiad i'r cenedlaethol ar y traddodiadau *acadien* a 'dyn ni'n edrych am bobl sydd ag acen. Does dim llawer o bwys beth dywedwch chi, yr hyn 'dyn ni eisiau ei glywed yw eich acen"]

7.2 Canlyniadau Codio'r Dramâu Ffrangeg

7.2.1 Cymhareb



Ffigur 140: Cymhareb – Dramâu Ffrangeg

O'r graff uchod, gwelir bod cymhareb cyfnewid cod y dramâu Ffrangeg yn 2.73 (902 enghraifft / 330 tudalen).³¹⁵ Mae *Bullshit* yn llawer uwch na hyn gyda 4.88, a *Moncton Sable* yn llawer is, gyda 0.18.

7.2.2 Golygfeydd

Isod, ceir graffiau sy'n dangos cyfnewid cod yn ôl golygfa ar gyfer y dramâu unigol. Nid oes graff ar gyfer *Le Chien* gan ei bod yn ddrama un olygfa.

³¹⁵ Cymhareb y dramâu unigol:


Le Chien – 87 enghraifft / 60 tudalen = 1.45

Moncton Sable – 10 enghraifft / 57 tudalen = 0.18

Bullshit – 576 enghraifft / 118 tudalen = 4.88

Laurie – 229 enghraifft / 95 tudalen = 2.41

dau ddiwylliant gwahanol, sydd o ganlyniad yn galw am gyfieithiad chwareus (2015, t.195).



Ffigur 142: Golygfeydd – *Bullshit*

Gwelir bod amrywiaeth fawr i'w gweld rhwng y nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n ymddangos yng ngolygfeydd *Bullshit*. Ceir tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r tair golygfa â'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod.

Golygfa	Nifer	Crynodeb
Prologue	87	Adrodda Gonzo stori i'r grŵp am ei benblwydd yn ddeg oed, yn meddwi am y tro cyntaf ac yn mynd i dŷ dyn mae'n credu sy'n dad iddo. Mae'n dwyn beic y mab wrth adael. Dychwela adref at fam feddw, sy'n cymryd allweddi'r car ganddo a cheisio dychwelyd y beic. Dyna'r tro olaf iddo'i gweld – bu farw mewn damwain car gan ladd teulu o bedwar. Caiff alwad ffôn gan ei dad – darganfydda nad ei dad oedd y dyn yr aeth i'w gyfarfod – aeth i'r tŷ anghywir. Mae'r criw yn mwynhau'r stori, cyn i Gonzo ddweud “je vous ai eus, hein?” ³¹⁹ ac mae Pickle yn digio wrtho. Esbonia Coach fod teulu Pickle wedi marw mewn damwain car debyg, ond tynnu coes Gonzo y mae.

³¹⁹ “Ges i chi, do?”

Scène 3	73	Gonzo yn adrodd straeon wrth Pickle am ddal pysgodyn hud a dyn o'r enw Bear. Ceisia estyn rhagor o gwrw o'r tu ôl i'r bar, gan ddadlau â Pickle am fynd yn erbyn cyfarwyddiadau Coach – mae Pickle yn tynnu ei wn arno. Rhaid i Coach ei ddistewi. Mae'n amlwg nad yw Coach na Gonzo yn parchu Pickle fel gwas heddlu. Cindy'n cyrraedd – Pickle yn ceisio fflyrtio â hi. Nid yw hi a Gonzo'n cyddynnu. Wedi iddi adael, mae Gonzo'n dechrau dweud stori amdani wrth Pickle.
Scène 4	56	Dychwelwn at y bar wedi i Gonzo orffen y stori am Cindy. Pickle yn holi Gonzo a gafodd ei daro â mellten. Mae T-Bone yn dychwelyd i Sansregret – Pickle a Gonzo'n gwirioni o'i weld. Ni fydd T-Bone yn y <i>playoffs</i> oherwydd anaf pen-glin.

Tabl 80: *Bullshit* – golygfeydd gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod

Mae'n ddiddorol bod y tair golygfa â'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod oll yn ymddangos tua dechrau'r ddrama. Mae hyd yn rhywfaint o ffactor; mae scène 3 gyda'r hiraf yn y ddrama, yn un-ar-ddeg tudalen o hyd. Fodd bynnag, nid hon yw'r olygfa hiraf; mae scène 6 yn ddeuddeg tudalen o hyd. Felly, nid yw hyd golygfa yn sicrhau bod nifer uwch o enghreifftiau o gyfnewid cod.³²⁰ Ond gall fod â wnelo'r ffaith eu bod ar ddechrau'r ddrama â gosod tôn y ddrama. Fel *enfant terrible* theatr *franco-manitobain* (Prokosh 2006), mae'r awdur yn hoff o roi sioc i'w gynulleidfa; gwelir hyn yn themâu'r ddrama abswrdaidd, a'r ffaith iddo alw'r ddrama yn *Bullshit*.³²¹ Drwy daflu'r gynulleidfa'n syth i ganol môr o gyfnewid cod, mae'n ffordd effeithiol o roi sioc iddynt. Cofier mai'r prolog gyda Gonzo yw'r olygfa gyntaf, sy'n llawn cyfnewid cod.

Ceir adeiladwaith arbennig iawn yn y ddrama hon. Mae tri math o olygfa – 'fragments', 'scènes' a 'poisson'.³²² Mae 'scène' yn dangos golygfa gyda'r cymeriadau'n sgwrsio gyda'i gilydd. Mae 'fragment' yn dangos math o fonolog, gydag un cymeriad yn unig yn ymddangos ar y llwyfan, ond yn cyfathrebu ag


³²⁰ Yn Orwig (2015), ni welwyd bod cysylltiad cryf rhwng hyd penodau a'r nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod sydd ynddynt.

³²¹ Er i *Cercle Molière* ei lwyfannu o dan yr enw 'Poisson'.

³²² 'Darnau', 'golygfeydd' a 'pysgodyn'. Ceir hefyd 'prologue' ar ddechrau'r ddrama, sy'n debyg i olygfa arferol – stori gan Gonzo, ond gyda'r cymeriadau eraill yn ymateb tua diwedd yr olygfa.

unigolion nad ydynt yn ymddangos nac yn cael eu clywed ar y llwyfan.³²³ Mae 'poisson' yn dangos golygfa ag un cymeriad yn unig hefyd, gyda chymeriad yn esbonio'i freuddwyd wrth y 'pysgodyn hud' â dau ben sydd ar y wal. Mae'r golygfeydd hyn yn fformiwlâig oherwydd bod y golygfeydd yn ailadrodd yr un llinellau heblaw am fanylion y freuddwyd. Mae'r cymeriad yn dechrau drwy gyfarch y pysgodyn, a theimlo'n ddwl yn gwneud hynny, cyn i'r pysgodyn ei annog i siarad. Edrydd y freuddwyd, cyn digio am na chaiff ymateb gan y pysgodyn ar ddiwedd yr olygfa.

Ceir pymtheg 'scène' ac un 'prologue', chwe golygfa 'poisson' a deuddeg 'fragment'. O'r graff isod, mae'n amlwg mai yn y 'scènes' y mae'r mwyafrif o'r cyfnewid cod yn digwydd (71%).³²⁴



Awgryma hyn fod cysylltiad rhwng y cyfnewid cod a'r ffaith fod y cymeriadau gyda'i gilydd yn yr un olygfa. Gwelwyd bod cyfnewid cod yn gallu perthyn i

³²³ Fragment 1, 4, 8 – Pickle yn gadael neges ffôn ar gyfer gwasanaeth *lonely hearts*.

Fragment 2 – T-Bone yn rhoi cynhadledd i'r wasg ar ôl ei anaf.

Fragment 3 – Cat yn rhoi gwerau yn yr ysgol.

Fragment 5 – Gonzo yn rhoi araith wrth dderbyn gwobr.

Fragment 6 – Gonzo yn ymarfer ar gyfer cyfweliad swydd.

Fragment 7 – Cindy yn esbonio ei pherthynas â T-Bone – cyn-gariad.

Fragment 9 – Gonzo yn recordio'i hun yn dweud stori.

Fragment 10 – Sgwrs ffôn rhwng Coach a Roger Leduc (newyddiadurwr) am *serial killer* yn Sansregret.


Fragment 11 – Cat yn deffro o hunllef; mae hi'n gwisgo dillad y llofrudd.

Fragment 12 – Coach yn darganfod corff Cat. Mae'n edifar iddi ladd ei hun a'r sianel deledu ar fin cyrraedd.

³²⁴ Mae'r 'prologue' wedi ei gyfuno â'r 'scènes' oherwydd bod y cymeriadau oll yn ymddangos yn yr olygfa, yn wahanol i 'fragment' neu 'poisson'.

ieithwedd grŵp arbennig – er enghraifft, dadleua Poplack ‘codeswitching constitutes an intergral part of community discourse norms on 102[n]d Street’ (1981, t.169). Mae Gumperz yn cyfeirio at ‘the ‘we’ code, suitable with kin and close friends’ (1982, t.73) a’r ‘‘they’ code’ sydd i’w ddefnyddio â rhai y tu allan i’r grŵp hwn ac mewn disgwrs fwy ffurfiol. Yn ei astudiaeth o iaith Cymry ifainc, awgryma Musk ‘the frequency of code-alternation may index each group’s bilingual identity’ (2006, t.319). Gwelwyd y grwpiau hynny o unigolion a oedd fwyaf cyfforddus yn y ddwy iaith yn defnyddio’r cyfnewid cod fwyaf, tra bo’r diffyg cyfnewid cod gan y rhai sy’n llai cyfforddus yn y ddwy iaith yn awgrymu mai gwan yw eu hunaniaeth ddwyieithog (2006, t.318). Cysylltir y defnydd o iaith â theori Judith Butler am *performativity*: ‘[t]hese performative acts of identity may also be more or less closely associated with the medium/media in which they are expressed. Thus, the individual’s choice of medium (and the nature of this medium) may constitute a display of identity’ (Musk 2006, t.404). Gallai’r ffaith bod mwy o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y golygfeydd lle mae cymeriadau *Bullshit* yn ymddangos gyda’i gilydd adlewyrchu’r ffenomena hon. Awgryma hyn fod y dramodydd yn creu idiolectau arbennig i’r cymeriadau, gyda rhai’n fwy dwyieithog nag eraill. Fodd bynnag, gwelir hwy’n troi at gyfnewid cod yn y golygfeydd grŵp, sy’n awgrymu fod hunaniaeth ddwyieithog gref gan y grŵp.

Mae strwythur arbennig y ddrama hon hefyd o ddefnydd i ni, gan fod gennym o leiaf ddwy olygfa lle mae pob cymeriad yn ymddangos ar ei ben ei hun – un ‘poisson’ ac un ‘fragment’. Cawn ddarlun cliriach o beth yw idiolect y cymeriadau gwahanol, diolch i’r strwythur hwn, a chawn ddarlun cliriach o rôl ieithwedd yn y cymeriadu. Trafodir hyn yn yr adran ar Ddeialog cymeriadau.








Ffigur 144: Golygfeydd – Laurie

Dim ond pedair golygfa sydd yn *Laurie*, gydag ‘acte 1’ yn cynnwys y nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod. Yn yr olygfa hon mae Laurie ac Euclide yn eistedd ar y *galerie*³²⁵ i yfed, chwarae gitâr a siarad. Trafodant eu strategaethau o safbwynt arian – Laurie yn aros am ei *bundle* ac Euclide yn ‘faire ses stamps’, sef gweithio yn ystod y gaeaf er mwyn hawlio tâl diweithdra dros yr haf.³²⁶ Cyrhaedda Rebecca o’r cwmni yswiriant i holi am ddamwain Laurie. Nid yw Laurie’n ein hargyhoeddi gyda’i stori. Wedi iddi adael, mae Laurie ac Euclide yn trafod eu gobeithion ar gyfer eu bywydau; gyrfa gerddorol yn Nashville i Euclide, dyfodiad ei *bundle* i Laurie. Cyfeddyf Laurie nad oedd nam ar frêcs y lori yn y ddamwain. Trafodant y cymydog, Bobby, sy’n mynd ar eu nerfau wrth dorri’r lawnt – maent yn cynllwynio sut i dorri’r peiriant lladd gwair.

³²⁵ Feranda ar flaen y tŷ.

³²⁶ Mae hwn yn ymadrodd sy’n perthyn i dafodiaith *acadien*, ac nid yw i’w weld mewn nifer o eiriaduron Ffrangeg – diolch am gymorth Karine Turner i ddeall yr ymadrodd.

7.2.3 Adran






O ystyried y pedair drama gyda'i gilydd (Ffigur 145), gwelir bod mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn digwydd fel rhan o'r ddeialog. Wrth gwrs, mae hyn yn ddisgwyliedig, gan fod deialog mor ganolog i'r ddrama. Y tueddiad hwn o ddefnyddio mwyafrif y cyfnewid cod yn y ddeialog sydd i'w weld ym mhob un o'r pedair drama. Yn *Le Chien* (Ffigur 146), mae 21.8% yn ddyfynnu, sef dyfynnu geiriau cymeriadau eraill, megis ffrindiau angloffon Jay.


Fel y nodwyd eisoes am *Bullshit*, mae golygfeydd ('fragment' a 'poisson') lle mae'r cymeriadau'n ymddangos ar eu pen eu hunain. Ond nid monologau yw'r rhain, gan fod y cymeriadau'n cyfathrebu â rhywun – er nad yw'r person y

maent yn cyfathrebu ag ef yn rhan o'r ddrama.³²⁷ O'r herwydd, nid yw'r cymeriad yn torri'r bedwaredd wal gan berfformio'n uniongyrchol i'r gynulleidfa.

7.2.4 Hyd



³²⁷ Ceir enghreifftiau o fonologau mewn rhai o'r dramâu eraill sy'n cael eu hastudio yn y traethawd hwn, lle mae'r cymeriad yn siarad ag ef ei hun neu'n siarad yn uniongyrchol â'r gynulleidfa.



Mae 84.5% o'r cyfnewid cod yn y dramâu Ffrangeg (Ffigur 150) yn gyfnewid mewnfrawddegol, gyda 78% o'r enghreifftiau o hyd un gair. Cyfnewid mewnfrawddegol yw mwyafrif y cyfnewid cod sydd i'w weld mewn tair o'r dramâu (*Le Chien* (74.7%), *Bullshit* (82.5%) a *Laurie* (95.2%)), gyda chyfradd uchel o eiriau unigol. Yn *Moncton Sable*, ceir rhaniad rhwng cyfnewid mewnfrawddegol (50%) a rhyngfrawddegol (50%). Fel y gwelwyd eisoes, dywedodd France Daigle fod arbrofi gyda theatr wedi'i galluogi i lacio'i gafael ar *français standard*.³²⁸ Fodd bynnag, ni ellir honni bod llawer iawn o gyfnewid cod yn bresennol yn y ddrama hon, a phwysleisir hyn gan y ffaith fod y cyfnewid cod ynddi'n ymdebygu i'r cyfnewid cod yn y dramâu Saesneg – testunau nad ydynt yn galw am sgiliau dwyieithog cryf. Dengys hyn mai Ffrangeg, heb ymyrraeth o du'r Saesneg, yw prif iaith y ddrama. Fodd bynnag, gwelir bod llawer o ffurfiau llafar yn y ddrama sy'n dangos ynganiad Ffrangeg *acadien*. Gwelir, er enghraifft, 'j'va(i)s' neu 'je vas' (*je vais*), 'j'm'en a(i)lles' (*je m'en*

³²⁸ Cyfweiliad personol, 26/05/2016.

ailles)³²⁹ ‘*marci*’ (*merci*) ‘*chus*’ (*je suis*) ‘*que’que*’ (*quelque*), i enwi ond rhai. Mae hyn yn dangos fod France Daigle yn dechrau arbrofi gyda deialog a’r ffurfiau llafar sy’n absennol o’i nofelau cynnar. Yn wir, tynnodd ar ymarferion y *Collectif* wrth ysgrifennu’r ddrama: dywed un o’r actorion ‘*elle utilise délibérement nos vrais mots. La surprise des acteurs de voir qu’elle avait vraiment copié leur parler, même après une courte observation*’ (Nolette 2015, t.194).³³⁰

Gadawodd hefyd beth hyblygrwydd yn y gwaith – gweler yr enghreifftiau j’va(i)s’ a ‘j’m’en a(i)lles’, gyda’r cromfachau. Esboniodd France Daigle fod dwy actores, *québécoise* ac *acadienne*; ‘*alors la québécoise aurait dit 'je vais', mais l'acadienne aurait dit 'je vas'*’.³³¹ Defnyddir y cromfachau er mwyn gadael y dewis yn yr ynganiad yn agored, ac i adlewyrchu tafodiaith pa bynnag actores fyddai’n chwarae’r rôl sy’n gwneud defnydd o dafodiaith yr actorion. Yn ddi-os, arweiniodd yr arbrofi hwn yn y theatr at ddefnydd llawnach o *chiac* yn ei gwaith, gan gynnwys cyfnewid cod Ffrangeg-Saesneg, sydd i’w weld ar ei anterth yn ei nofel *Pour Sûr*.

Gwelir mai cyfnewid mewnfrawddegol yw’r rhan helaeth o’r enghreifftiau o gyfnewid cod yn y dramâu Ffrangeg, gyda nifer uchel iawn o’r enghreifftiau o hyd un gair yn unig (78%) (Ffigur 150). Mae’r cymeriadau canolog oll yn ffrancoffon, ac felly nid ydym yn gweld cyfnewid rhyngfrawddegol wrth i sgwrs droi at y Saesneg oherwydd cymeriadau uniaith Saesneg. Dyma pam fod gwahaniaeth i’w weld rhwng y gyfradd o gyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol yn y dramâu. Gwelir, felly, fod cysylltiad clir rhwng cyfnewid

³²⁹ Gwelir yma’r defnydd o’r modd dibynnol presennol, ffurf sy’n parhau ar lafar mewn Ffrangeg *acadien*, yn enwedig yn y berfau avoir, être ac aller (Neumann-Holzschuh 2005, t.128) – er ei fod yn cilio o Ffrangeg Gogledd America (2005, t.125)

³³⁰ “Defnyddiodd hi ein geiriau go iawn ni’n fwriadol. Syndod yr actorion o weld ei bod wedi gwir gopïo eu ffordd o siarad, hyd yn oed ar ôl gwylio am amser byr”

³³¹ “Felly byddai’r *québécoise* wedi dweud ‘je vais’, ond byddai’r *acadienne* wedi dweud ‘je vas’.”
Cyfweiliad personol, 26/05/2016.

cod a'r gwahanol fathau o gymeriadau (o safbwynt ieithyddol) a bortreëdir. Yn ogystal, mae'r ffaith fod cynulleidfa ragdybiedig sawl un o'r dramâu yn gynulleidfa leol yn sicr yn cael effaith ar y testunau. Er enghraifft, *Moncton Sable* oedd drama gyntaf *Collectif Moncton Sable*, grŵp theatr ym Moncton, ac nid yw *Laurie* wedi cael ei pherfformio'r tu allan i Acadie heblaw ambell i berfformiad yn y *Centre National des Arts* yn Ottawa ac yn Winnipeg (Des Becquets 2015, t.94). Cafodd *Le Chien* ei noson agoriadol yn Sudbury, cyn mynd i Montréal a'r *Centre National des Arts* yn Ottawa (Radio Canada a Mathieu 1988), a chrëwyd *Bullshit* ar gyfer *le Cercle Molière* yn Saint-Boniface, Manitoba (BS100). Oherwydd mai cynulleidfa leol fyddai'r gynulleidfa ragdybiedig, mae'n naturiol y byddai'r awduron yn defnyddio ieithwedd sy'n gyfarwydd i'r gynulleidfa honno.

7.2.5 Dosbarth Gramadegol

Isod, edrychwn ar Ddosbarth Gramadegol yr enghreifftiau o gyfnewid cod.

Dangosir y pum categori sydd â'r nifer fwyaf o enghreifftiau mewn llwyd.

acronym	2	0.2%	ebychiad + adferf	3	0.3%
adferf	26	2.9%	enw	386	42.8%
ansoddair	58	6.4%	enw + adferf	1	0.1%
ansoddair + ebychiad	1	0.1%	enw + ebychiad	5	0.6%
berf	47	5.2%	ymadrodd adferfol	3	0.3%
berfenw	20	2.2%	ymadrodd ansoddeiriol	5	0.6%
brawddeg	113	12.5%	ymadrodd berfol	4	0.4%
cymal	2	0.2%	ymadrodd enwol	40	4.4%
ebychiad	186	20.6%			

Tabl 81: Dosbarth Gramadegol – Dramâu Ffrangeg

O'r tabl uchod, gwelir mai 'enw' yw mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod (42.8%).

ansoddair	6	6.9%
berf	2	2.3%
berfenw	2	2.3%
brawddeg	22	25.3%

enw	47	54.0%
ymadrodd adferfol	1	1.1%
ymadrodd enwol	7	8.0%

Tabl 82: Dosbarth Gramadegol – *Le Chien*

Gwelir bod nifer fawr o enghreifftiau yn *Le Chien* sy'n enwau (54%). Ceir hefyd nifer o enghreifftiau o 'brawddeg' (25.3%).

brawddeg	4	40%
cymal	1	10%
ebychiad	4	40%
enw	1	10%

Tabl 83: Dosbarth Gramadegol – *Moncton Sable*

'Ebychiad' a 'brawddeg' sydd â'r mwyaf o enghreifftiau o gyfnwid cod yn *Moncton Sable* (40% yr un).

adferf	11	1.9%
ansoddair	33	5.7%
ansoddair + ebychiad	1	0.2%
berf	25	4.3%
berfenw	2	0.3%
brawddeg	78	13.5%
cymal	1	0.2%
ebychiad	179	31.1%

ebychiad + adferf	3	0.5%
enw	205	35.6%
enw + ebychiad	5	0.9%
ymadrodd adferfol	1	0.2%
ymadrodd ansoddeiriol	5	0.9%
ymadrodd berfol	2	0.3%
ymadrodd enwol	25	4.3%

Tabl 84: Dosbarth Gramadegol – *Bullshit*

Mae nifer uchaf yr enghreifftiau yn *Bullshit* yn enwau (35.6%). Diddorol gweld bod 4.3% o'r enghreifftiau yn ferfau. Mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau sy'n cymryd bôn o air Saesneg gan ychwanegu ôl-ddodiad berfol o'r Ffrangeg, megis 'on gossiperait' (BS 197) a 'je freake' (BS 134). Mae sawl ysgolhaig wedi awgrymu nad oes modd cyfnwid berfau yn y modd hwn, megis Poplack sy'n esbonio '[they] have not been attested in this or any other study of code-switching to my knowledge' (1980, t.586). Dadleua Pfaff (1979) a Haugen (1973 t.536, dyfynnir yn Pfaff 1979, t.298) fod cyfnwid berfau yn gymhleth, oherwydd bod angen dangos person ac amser yn y ferf, ond nid ydynt yn dadlau nad oes modd cyfnwid berfau. O edrych ar y corpws hwn, mae'n

ydddangos bod modd cyfnewid berfau mewn cyfnewid cod Ffrangeg-Saesneg. Nid yw'r corpws hwn yn unigryw yn hun o beth; disgrifir cyfnewid o fewn berfau hefyd gan Bentahila a Davies (1995).

acronym	2	0.9%	ebychiad	3	1.3%
adferf	15	6.6%	enw	133	58.1%
ansoddair	19	8.3%	enw + adferf	1	0.4%
berf	20	8.7%	ymadrodd adferfol	1	0.4%
berfenw	16	7.0%	ymadrodd berfol	2	0.9%
brawddeg	9	3.9%	ymadrodd enwol	8	3.5%


Tabl 85: Dosbarth Gramadegol – *Laurie*

Mae mwyafrif yr enghreifftiau yn *Laurie* yn enwau (58.1%). Eto, gwelir sawl enghraifft o ferfau yn y ddrama hon (8.7%).

Fel y trafodwyd, mae presenoldeb berfau sydd wedi'u creu o fôn Saesneg gydag ôl-ddodiad berfol Ffrangeg yn mynd yn erbyn damcaniaethau rhai ysgolheigion. Awgryma hyn na ellir o reidrwydd ddefnyddio damcaniaethau'n seiliedig ar un pâr iaith i ddisgrifio cyfnewid cod mewn pâr iaith arall. Ceir hefyd dueddiadau sy'n cyd-fynd â damcaniaethau cyfredol yn y maes, er enghraifft mai enwau sydd fwyaf tebygol o gael eu cyfnewid (Gardner-Chloros 2009; Joshi 1985). Mae ebychiadau hefyd yn eitem ramadegol sy'n ymddangos yng nghorpora nifer o ysgolheigion.³³² Mae hyn yn dangos fod sawl math gwahanol o gyfnewid cod, gyda'r patrymau iaith yn wahanol yn dibynnu ar yr ieithoedd sy'n cael eu cyfnewid.


³³² Gweler pennod 1 am drosolwg o astudiaethau eraill o gyfnewid cod.

7.2.6 Maes Semanteg



Ffigur 155: Maes Semanteg – Dramâu Ffrangeg

Gwelir bod amrywiaeth eang iawn o gategoriâu Maes Semanteg yn y dramâu Ffrangeg. Mae 'term Saesneg' ac 'amwys' yn gategoriâu â nifer fawr o enghreifftiau (22%; 16%).³³³ Ceir amrywiaeth fawr o safbwynt Maes Semanteg yn y dramâu Ffrangeg; mae'r enghreifftiau'n perthyn i 45 categori gwahanol. Dengys hyn fod ystod eang o gyfnewid cod yn y dramâu Ffrangeg.




Ffigur 156: Maes Semanteg – *Le Chien*

Mae 20% o'r enghreifftiau o *Le Chien* yn perthyn i 'sgwrs', sef sgwrs uniaith Saesneg. Mae 15% yn perthyn i 'teulu'. Mae hyn oherwydd bod Jay a Céline


³³³ Mae 'amwys' yn air nad yw'n perthyn yn amlwg i unrhyw faes semanteg penodol. Mae 'term Saesneg' yn air unigol sy'n anodd ei gyfieithu neu na fyddai'n cario'n un ystyr/perthyn i'r un cywair yn y Ffrangeg. Gweler esboniad llawn o'r categorïau Maes Semanteg ar t.88.

yn galw eu tad yn 'Pa'. Gwelir bod ystod eang o gategoriâu'n ymddangos yn y ddrama (23 categori) ond dim ond 13 ohonynt sydd â mwy na dwy enghraifft. Gwelir cysylltiad rhwng y cyfnewid cod a themâu'r ddrama – teulu, diwylliant Americanaidd a gwaith. Drama am deulu *franco-ontarien* sydd yma, gyda'r mab yn teithio o amgylch Canada a'r Unol Daleithiau er mwyn cael gwaith. Dyma hefyd y rheswm dros bresenoldeb nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n perthyn i 'sgwrs', sef dyfyniadau gan Jay o sgwrs ei ffrindiau angloffon yn yr Unol Daleithiau.




Ffigur 157: Maes Semanteg – *Moncton Sable*

Mae pedair enghraifft o *Moncton Sable* yn ebychiadau (40%). Ceir sawl enghraifft o 'wow' ac un enghraifft o 'oh my god!'.



Ffigur 158: Maes Semanteg – *Bullshit*

Yn *Bullshit*, mae 'term Saesneg' yn cyfateb i 25% o'r enghreifftiau ac 'amwys' yn cyfateb i 22%, sy'n nodweddiadol o'r ffordd y mae'r cymeriad Gonzo'n cyfnwid cod. Mae 18% o'r enghreifftiau yn perthyn i 'llysenw', sef enwau rhai o'r cymeriadau, megis T-Bone a Pickle.³³⁴ Mae'r defnydd o llysenwau Saesneg ar gymeriadau ffrancoffon yn dangos bod y cymeriadau'n perthyn i ddiwylliant dwyieithog, ac felly'n defnyddio'r iaith Saesneg yn y weithred greadigol o greu llysenw (Orwig 2015, t.80).



Ffigur 159: Maes Semanteg – *Laurie*

³³⁴ Nid yw'r enghreifftiau hynny ar ddechrau llinell sy'n nodi pa gymeriad sy'n siarad yn cael eu cyfrif fel enghreifftiau o gyfnwid cod.

Eto yn *Laurie*, gwelir bod nifer fawr o'r enghreifftiau'n perthyn i 'term Saesneg' (20%), 'tafodiaith' (18%)³³⁵ a 'rhifo' (16%).³³⁶ Mae 16% o'r enghreifftiau'n perthyn i 'Ffrangegeiddio berf Saesneg', sy'n uchel o gofio fod nifer o ysgolheigion yn dadlau nad oes modd cyfnewid berfau. Gwelir hefyd gysylltiad â rhai o themâu *Laurie*, er enghraifft 'cerddoriaeth' a 'gwaith'.

Nid oes unrhyw categorïau Maes Semanteg sy'n ymddangos ym mhob drama.

Yn y tabl isod, dangosir y categorïau sy'n ymddangos mewn tair o'r pedair drama:

<i>Categori</i>	<i>Testunau</i>	<i>Nifer</i>
amwys	C, BS, L	144
busnes	MS, BS, L	19
chwarae â geiriau	MS, BS, L	3
chwaraeon	C, BS, L	20
diod	C, BS, L	32
ebychiad	BS, L, MS	46
Ffrangegeiddio berf Saesneg	C, BS, L	52
Ffrangegeiddio term Saesneg	C, BS, L	13
gwaith	C, BS, L	19
llysenw	C, BS, L	109
modur	C, BS, L	37
rheg	C, BS, L	39
rhifo	C, BS, L	40
sgwrs	MS, BS, L	34
slang	C, BS, L	15
term Saesneg	C, BS, L	196
ymadrodd gosod	C, BS, L	13

Tabl 86: Categorïau Maes Semanteg sy'n ymddangos mewn 3 o 4 drama


O'r data hyn, gellir awgrymu mai dyma'r categorïau sydd fwyaf tebygol o ysgogi cyfnewid cod, er enghraifft 'llysenw', 'rheg', 'modur' a 'diod'. Edrychwn hefyd ar 'busnes', sy'n cynnwys ymadroddion yn ymwneud â'r maes (e.e. 'cashier', 'business man') ond hefyd yn cynnwys enwau busnesau ffuglennol. Mae hyn

³³⁵ Er enghraifft 'bundle' (gwobr ariannol *Laurie*) a *shoppe* (lle mae Benalda a Georgette yn gweithio).

³³⁶ Nodir bod y gair 'bundle', sy'n cael ei ddefnyddio'n aml gan *Laurie* wrth drafod ei obeithion ariannol, hefyd yn perthyn i'r categori 'rhifo' gan ei fod yn ymwneud ag arian.

yn adlewyrchu gofod dwyieithog y cymeriadau, gydag enwau busnes angloffon yn rhan o'u bywyd. Gwelir hefyd fod 'Ffrangegeiddio berf Saesneg' yn ymddangos mewn tri o'r pedwar testun, sef defnyddio ôl-ddodiad berfol Ffrangeg ar fôn Saesneg; trafodwyd eisoes bwysigrwydd y ffaith fod yr enghreifftiau hyn yn ymddangos mewn sawl testun, gan ei fod yn dangos fod creu berfau wrth gyfnewid cod yn arfer eang.


7.2.7 Ysgogiad/Swyddogaeth



Ffigur 160: Ysgogiad/Swyddogaeth – Dramâu Ffrangeg


Gwelir bod wyth categori Ysgogiad/Swyddogaeth yn ymddangos yn y dramâu Ffrangeg. Ar gyfer Ysgogiad/Swyddogaeth, crëwyd rhestr arbennig o gategoriâu penodol, fel y trafodwyd yn y bennod methodoleg.³³⁷ Mae'r rhestr hon yn cynnwys deg categori. Nid oes enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n perthyn i'r categorïau 'Newid cyd-sgwrsiwr' nac 'Er cydbwysedd' yn ymddangos yn y dramâu Ffrangeg. Mae 49.4% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn y dramâu Ffrangeg yn perthyn i'r categori 'Creu effaith arbennig' a 39.4% yn perthyn i'r categori 'Bwlch geirfaol'.

³³⁷ Gweler t.95.



Ffigur 161: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Le Chien*


Yn *Le Chien*, ceir nifer o enghreifftiau'n perthyn i 'Bwlch geirfaol' (57.5%), 'Creu effaith arbennig' (20.7%) a 'Dyfyniad' (20.7%).



Ffigur 162: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Moncton Sable*


'Dyfyniad' yw'r categori gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yn *Moncton Sable*.

Mae 'Dyfyniad' yn cyfeirio at ddyfynnu geiriau cymeriad, gan gynnwys sgwrs cymeriadau angloffon, gan ei fod fel petai'r awdur yn 'dyfynnu' eu geiriau. Ceir hefyd sawl enghraifft o 'ebychiad' (40%), megis 'wow' neu 'oh my god!'.



Ffigur 163: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Bullshit*

Eto, gwelir nifer o enghreifftiau sy'n perthyn i'r categori 'Creu effaith arbennig' (54.7%) a 'Bwlch geirfaol' (34.4%) yn *Bullshit*. Ceir hefyd nifer o enghreifftiau o 'Ebychiad' (12%); eto, gwelir sawl enghraifft o 'wow', a hefyd ebychiadau megis 'geez' neu 'no way' a rhegfeydd.



Ffigur 164: Ysgogiad/Swyddogaeth – Laurie

Gwelir yr un patrwm yn *Laurie*, sef nifer o enghreifftiau yn perthyn i ‘Creu effaith arbennig’ (49.3%) a ‘Bwlch geirfaol’ (46.3%). Er bod nifer weddol uchel o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y ddrama (229 enghraifft), nid oes amrywiaeth fawr o gategorïau Ysgogiad/Swyddogaeth. Awgryma hyn fod y cyfnewid cod yn rhan o ieithwedd y cymeriadau, yn hytrach na chael ei ddefnyddio i ddyfynnu eraill, i gyfeirio neu i greu ymdeimlad o agosrwydd/pellter. Portread o’r ieithwedd *chiac* sydd dan sylw yn y ddrama hon. Gellir ei chymharu â’r nofel *acadien Bloupe* sy’n defnyddio cyfnewid cod ag amrywiaeth fawr o gategorïau Ysgogiad/Swyddogaeth oherwydd ei bod yn gwneud defnydd mwy creadigol ac artistig o’r ieithwedd honno.³³⁸


Fel y nodwyd eisoes, nid oes enghreifftiau o gyfnewid cod sy’n perthyn i’r categori ‘Newid cyd-sgwrsiwr’ yn y dramâu Ffrangeg. Fel y nodwyd eisoes, mae mwyafrif y cymeriadau yn y dramâu yn ffrancoffon. Nid oes cymeriadau angloffon yn *Bullshit* na *Laurie*, a dim ond cymeriadau ymylol angloffon sydd yn *Le Chien* a *Moncton Sable*.³³⁹ Er bod enghreifftiau o sgwrs uniaith Saesneg i’w cael, nid oes sefyllfa’n codi lle mae cymeriad yn newid iaith er mwyn newid cyd-sgwrsiwr. Tybir bod hyn oherwydd ei bod yn sefyllfa benodol iawn, wrth gynnwys rhywun mewn sgwrs, neu eu cau allan. Gwelwyd mai er mwyn creu effaith arbennig neu oherwydd bwlch geirfaol yr oedd y mwyafrif o’r enghreifftiau mewn tair o’r pedair drama – heblaw am *Moncton Sable*. Mae’r ffaith fod

³³⁸ Gweler t.173.

³³⁹ Er enghraifft ffrindiau angloffon Jay *Le Chien* a chymeriadau angloffon dienw *Moncton Sable*.

Moncton Sable yn defnyddio cyfnewid cod at bwrpas gwahanol yn atgyfnerthu'r syniad a awgrymwyd eisoes, sef mai math gwahanol o gyfnewid cod a geir yma.

7.2.8 Deialog Cymeriadau



Ffigur 165: Deialog Cymeriadau – *Le Chien*


Yr unig gymeriadau sy'n ymddangos ar y llwyfan yn *Le Chien* yw Jay, Céline, Mère a Père. Mae'r cymeriadau eraill yn cael eu dyfynnu gan y pedwar cymeriad hyn. Er enghraifft, gwelir Père yn dyfynnu Indien, dyn a ddaeth â mam Céline i'r tŷ ar ôl iddynt fod mewn damwain car:

Père: C't'un homme, un Indien avec une Indienne enceinte. « Got to phone », l'homme y me dit, « shes havin' the baby » (C 59)³⁴⁰

Gan fod y dyfynnu hwn yn elfen sy'n sefyll ar wahân i ddeialog y pedwar cymeriad, cofnodir hwy ar wahân. Mae'r ffaith fod Jay yn defnyddio cymaint mwy o gyfnewid cod na'r cymeriadau eraill yn rhannol oherwydd ei fod mor ganolog i'r ddrama. Defnyddia lawer o eiriau mwy disgwylidig (e.e. 'Pa', rhegfeydd a.y.b.) sydd i'w gweld gan gymeriadau eraill. Fodd bynnag, ceir hefyd gyfnewid cod sy'n nodweddiadol o'r ffaith ei fod wedi treulio cyfnod yn byw a gweithio mewn ardaloedd Saesneg eu hiaith o amgylch Gogledd America, er enghraifft wrth iddo ddyfynnu sgwrs ffrindiau angloffon. Mae'n


³⁴⁰ 'Dyn oedd o, Indiaid gyda merch Indiaidd feichiog "Got to phone" dywedodd y dyn wrtha i "she's havin' the baby"'.

defnyddio geiriau ac ymadroddion yn ei iaith ei hun yn ogystal, megis ‘easy rider’, ‘free spirit’. Mae’n debyg bod Dalpé wedi dewis creu idiolect arbennig i’w gymeriad, gan adlewyrchu’r ffaith iddo fyw oddi cartref.



Ffigur 166: Deialog Cymeriadau – *Moncton Sable*

O’r graff uchod, gwelir mai’r cymeriadau yn *Moncton Sable* â’r nifer fwyaf o enghreifftiau fel rhan o’u deialog yw ‘La petite’ a ‘comédien #2’.³⁴¹



Ffigur 167: Deialog Cymeriadau – *Bullshit*

Yn *Bullshit*, gwelir mai’r cymeriad Gonzo sy’n defnyddio’r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod yn ei ddeialog (315 enghraifft; 55% o’r holl enghreifftiau yn y ddrama). Mae hyn yn ei roi ymhell o flaen cymeriadau eraill y ddrama. Mae hyn oherwydd ei arddull arbennig o gyfnewid cod – mae geiriau Saesneg yn frith drwy ei ddeialog. Gwelir cysylltiad yma gyda’i idiolect a’i gymeriad. Mae’n adrodd llawer o storïau, a nifer ohonynt yn rhai wedi’u creu er mwyn rhoi braw i’r gwrandawr. Gwelir hyn yn y prolog, gyda’r stori am ei fam yn

³⁴¹ Comédien #2 yw’r cymeriad angloffon sy’n ymddangos yn yr olygfa yn yr ysbyty a drafodwyd uchod (gweler t.254).

lladd pedwar aelod o'r un teulu mewn damwain car, neu yn 'fragment 9', gyda Gonzo'n adrodd stori wrth y camera am gael rhyw â merch mewn parti cyn iddo sylweddoli mai ei chwaer ydoedd. Yn y ddau achos, mae'n glir mai hanes 'dychmygol' gan Gonzo sydd dan sylw, yn hytrach na digwyddiadau yn y ddrama ei hun. Gallai'r ffaith fod y cymeriad Gonzo'n hoff o roi ysgytwad â'i straeon fod yn gysylltiedig â'i ddefnydd o gyfnewid cod. Mae'n defnyddio ieithwedd sathredig, sy'n ysgogi agweddau negyddol (Grosjean 1982, tt.146–8) a allai hefyd godi gwrychyn rhai. Mae yma gysylltiad â Marc Prescott ei hun; trafodwyd eisoes ei fod yn hoff o roi sioc i'w gynulleidfa.³⁴²

Fel y soniwyd eisoes, mae adeiladwaith arbennig y ddrama (sef defnyddio tri math o olygfa, rhai gyda'r holl gymeriadau, rhai gyda'r cymeriadau ar eu pennau eu hunain) yn darparu cyfle arbennig i ddangos idiolectau'r cymeriadau gwahanol. Isod, gwelir Tabl 87 a Tabl 88 sy'n dangos pa gymeriad sy'n ymddangos ym mha olygfa, gyda nifer yr enghreifftiau o gyfnewid cod.

	Nifer enghreifftiau	Cymeriad
Poisson 1	18	Cat
Poisson 2	6	Coach
Poisson 3	8	T-Bone
Poisson 4	30	Gonzo
Poisson 5	1	Pickle
Poisson 6	6	Cindy

Tabl 87: Golygfeydd 'poisson'

³⁴² Gweler t.79.


	Nifer enghreifftiau	Cymeriad
Fragment 1	0	Pickle
Fragment 2	1	T-Bone
Fragment 3	0	Cat
Fragment 4	2	Pickle
Fragment 5	8	Gonzo
Fragment 6	13	Gonzo
Fragment 7	8	Cindy
Fragment 8	16	Pickle
Fragment 9	30	Gonzo
Fragment 10	7	Coach
Fragment 11	0	Cat
Fragment 12	8	Coach

Tabl 88: Golygfeydd 'fragment'

Gwelir mai'r golygfeydd gyda Gonzo sy'n defnyddio'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y ddau achos. Ceir gwrthgyferbyniad yn achos y cymeriad Cat – mae hi'n defnyddio 18 enghraifft o gyfnewid cod yn yr olygfa 'poisson', ond nid yw hi'n defnyddio unrhyw enghreifftiau o gyfnewid cod yn 'fragment' 3 nac 11. Fodd bynnag, gellir esbonio hyn. Mae 'fragment' 11 yn olygfa fer iawn – ychydig linellau yn unig – gyda Cat yn deffro o hunllef ac yn darganfod ei bod yn gwisgo dillad y llofrudd. Mae 'fragment' 3 yn ei dangos yn ei swydd fel athrawes ysgol gynradd, yn dysgu'r plant i beidio â dweud celwydd. Mae'r ieithwedd a ddefnyddia yn rhinwedd ei swydd, yn naturiol, yn wahanol iawn i'r ieithwedd a ddefnyddir ganddi'r tu allan i'r gwaith. Gwelir gwahaniaeth yn ieithwedd y cymeriad y tu hwnt i'w rôl fel athrawes yn yr olygfa 'poisson'. Mae'r cymeriad Cat yn amrywio'i hiaith, gan adlewyrchu gallu siaradwyr i amrywio'u hidiolect yn ôl yr angen (George 1990, t.277).

Mae golygfeydd Pickle hefyd yn dangos y duedd hon sydd gan siaradwyr i amrywio'u hiaith yn ôl priodoldeb y sefyllfa. Yn Ffigur 167 uchod, gwelir ei fod yn defnyddio tipyn o gyfnewid cod yn ei ddeialog (68 enghraifft; 12% o'r holl enghreifftiau yn y ddrama). Ond nid yw'n defnyddio unrhyw enghreifftiau yn 'fragment' 1 na 4 – er ei fod yn defnyddio 16 enghraifft yn 'fragment' 8. Pam y

gwahaniaeth hwn? Mae'r tair golygfa yn dangos Pickle yn ffonio gwasanaeth *lonely hearts* – gadewir neges ffôn heb siarad ag unigolyn. Gan nad yw'n adnabod y person y mae'n gadael neges ffôn ar ei gyfer, mae'n defnyddio cywair mwy 'niwtral' – defnyddir sawl enghraifft o dafodiaith *franco-ontarien* (e.e. 'moé' (moi); tsé (tu sais)), ond heb ddefnyddio'r cyfnewid cod sy'n rhan o'i ieithwedd fel y gwelir yng ngweddill y ddrama. Gwelir newid yn 'fragment 8'. Yn y ddwy neges ffôn flaenorol, bu'n ceisio brolio'i hun, megis honni ei fod yn awdur nofelau trwchus. Yn *fragment 8*, mae'n peidio â darllen y neges y mae wedi'i pharatoi, ac yn hytrach yn dweud "Je suis tanné d'être tout' seul. Je suis... J'aimerais tellement... J'aimerais jusse que ce soit différent. Tsé?",³⁴³ cyn adrodd stori hir am ei obeithion am berthynas hapus – sy'n amlwg wedi cael ei ddychmygu gyda Cindy mewn golwg. Wrth i Pickle newid cynnwys y neges – o frolio a cheisio cyfleu personoliaeth gref – mae'r ieithwedd hefyd yn newid, ac mae'n peidio ag osgoi defnyddio cyfnewid cod, sy'n awgrymu bod y cyfnewid cod yn nodwedd o ieithwedd fwy personol ac agos atoch.



Mae Laurie yn defnyddio llawer mwy o gyfnewid cod na'r cymeriadau eraill yn y ddrama *Laurie* – 47% o holl enghreifftiau'r ddrama. Diddorol nodi nad yw'r cymeriadau Rebecca nac Ella yn defnyddio cymaint o gyfnewid cod. Mae'r cymeriad Rebecca yn gweithio i gwmni yswiriant, sy'n ymchwilio i'r ddamwain a

³⁴³ "Dwi 'di syrffedu bod ar fy mhen fy hun. Dwi'n...Hoffwn i gymaint...Dwi jest isio petha' fod yn wahanol. T'mod?"


gafodd Laurie yn y gwaith. Byddai'n naturiol i gymeriad o'r fath ddefnyddio ieithwedd fwy ffurfiol, yn enwedig er mwyn cadw pellter. Mae Ella hefyd yno yn rhinwedd ei swydd fel cynhyrchydd radio, ac mae'n gymeriad *québécois*. Nid yw hi'n perthyn i'r grŵp *acadien* – gwelir hi'n cyfeirio at y feranda nid fel 'galerie' ond fel 'terrasse' (gair nad yw Euclide na Laurie yn ei ddeall) ac yn gofyn am Scotch, Pernod neu Dubonnet,³⁴⁴ yn hytrach na chwrrw. Mae cadw Ffrangeg Ella yn fwy safonol yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhyngddi hi a chymeriadau Laurie ac Euclide. Gellid honni bod hyn yn ystrydebol. Yn sicr mae'n agwedd sy'n cael ei rhannu gan nifer o *acadiens*; mewn astudiaeth o siaradwyr Ffrangeg *acadien* gan Boudreau a Dubois (1994), holwyd "Ydych chi'n credu bod ardal o Ganada lle y siaredir Ffrangeg gwell nag a geir mewn mannau eraill?" Ymateb y mwyafrif oedd mai yn Québec y siaredir y Ffrangeg gorau (1994, t.151). Ond mae Ffrangeg Québec, fel pob iaith, wedi'i chreu o gyweiriau gwahanol ac fel pob amrywiaeth o Ffrangeg, yn llawn geiriau tafodieithol (Verreault 2000). Mae hyn yn cynnwys *joual*, nad yw'n "Ffrangeg da" (Major 1977, t.42), ac sy'n cynnwys geiriau Saesneg. Gwelir, felly, mai ystrydeb yw'r ddelwedd o *québécois* â Ffrangeg perffaith. Fel yr honna Bourque, mae Chiasson yn defnyddio ystrydebau o'r cymeriadau *acadien* (2010, t.228) – ac mae ystrydeb y cymeriad *québécois* yn estyniad o hyn.

7.2.9 Nodweddion Gramadegol

Yma, archwilir arfer nodweddion gramadegol Ffrangeg ar gyfnewid cod


Saesneg, sef defnyddio'r fannod Ffrangeg gydag enwau Saesneg, rhoi cenedl i enwau Saesneg a chytuno ansoddeiriau sy'n deillio o'r Saesneg.

³⁴⁴ Mae Pernod a Dubonnet ill dau yn ddioddydd sy'n dod o Ffrainc, sydd efallai'n awgrymu dyfodiad mwy diweddar ymsefydlwyr Québec i Ganada o'i gymharu ag ymsefydlwyr Acadie.



Ffigur 169: Nodweddion Gramadegol – Dramâu Ffrangeg

O'r graffiau uchod, gwelir bod modd defnyddio'r fannod Ffrangeg ag enw Saesneg, ond mae nifer fawr o enghreifftiau lle y defnyddir enw Saesneg mewn modd nad oes angen rhagflaenu'r enw â'r fannod. Mae hyn yn awgrymu defnydd clyfar o iaith drwy osgoi rhoi enw Saesneg mewn sefyllfa lle byddai rhaid defnyddio'r fannod Ffrangeg. Mae 62.9% o enwau yn cael eu marcio â chenedl yn y dramâu Ffrangeg, 41% yn wrywaidd a 21.9% yn fenywaidd. Mae hyn yn cymharu â thueddiadau *français standard*, lle mae ychydig dros hanner yr enwau'n wrywaidd – gwelir un corpws gyda 59% o enwau gwrywaidd a 41% o enwau benywaidd (Hammond 2016, t.234). Mae hyn yn golygu fod y gyfradd o enwau gwrywaidd o gyfnewid cod ychydig yn uwch yn y dramâu Ffrangeg. Cyfradd fechan iawn o ansoddeiriau sy'n cael eu cytuno, er bod enghreifftiau o hyn.




Ffigur 170: Nodweddion Gramadegol – *Le Chien*

Mae 42.6% o'r enwau yn *Le Chien* wedi'u marcio â chenedl, 24.1% yn wrywaidd, 18.5% yn fenywaidd. Ymdebyga hyn i'r gyfradd sydd i'w gweld yn y Ffrangeg yn gyffredinol. Dim ond chwe ansoddair sy'n ymddangos yn y ddrama, ac nid oes unrhyw un ohonynt wedi'u cytuno.




Ffigur 171: Nodweddion Gramadegol – *Moncton Sable*

Wrth edrych ar gyfnewid cod *Moncton Sable*, dim ond un enw sy'n ymddangos yn y ddrama. Mae wedi'i farcio'n wrywaidd, ac wedi'i ragflaenu gan y fannod Ffrangeg. Nid oes yma enghraifft o ansoddair sy'n deillio o gyfnewid cod.



Ffigur 172: Nodweddion Gramadegol – *Bullshit*

Mae 72.1% o'r enwau yn *Bullshit* wedi'u marcio â chenedl. Mae'r gyfradd o enwau gwrywaidd yma yn uwch na'r gyfradd mewn *français standard* sy'n agosach at 50% (Hammond 2016, t.234). Mae tri ansoddair yn cael eu cytuno'n fenywaidd unigol, ac mae sawl enghraifft o enwau'n cael eu rhagflaenu gan y fannod Ffrangeg.



Ffigur 173: Nodweddion Gramadegol – *Laurie*

Mae mwyafrif yr enwau Saesneg yn *Laurie* wedi'u marcio â chenedl (61.2%), gyda chyfradd eithaf cyfartal o enwau benywaidd a gwrywaidd, sy'n adlewyrchu'r tueddiad yn *français standard* a drafodwyd eisoes. Mae un

ansoddair yn cael ei gytuno, ac mae mwyafrif yr enwau'n cael eu rhagflaenu gan y fannod Ffrangeg.

O'r dramâu Ffrangeg, gwelir bod cenedl yn cael ei ddynodi ar gyfer nifer o'r enwau sy'n deillio o gyfnwid cod. Mae'r gyfradd o enwau benywaidd a gwrywaidd yn amrywio, sy'n awgrymu mai amrywiaeth dafodieithol sydd yma, gydag arferion lleol ond heb reolau cadarn. Dywed France Daigle fod mwy o dueddiad gan *acadiens* i ddefnyddio'r ffurf fenywaidd gydag enwau Saesneg – a bod siaradwyr eraill, megis y *québécois*, yn hawdd eu hadnabod wrth iddynt ddefnyddio cenedl wrywaidd ar gyfer termau a fyddai'n fenywaidd i'r *acadien*.³⁴⁵ Ceir nifer fach o ansoddeiriau Saesneg yn cael eu cytuno, a sawl enghraifft o enwau Saesneg yn cael eu rhagflaenu gan y fannod.

7.3 Casgliadau

Yn yr adran hon ar y dramâu Ffrangeg, gwelwyd bod tueddiadau cyfnwid cod Ffrangeg-Saesneg yn aros yn eithaf cyson. Trafodwyd y cysylltiad rhwng hunaniaeth grŵp ac ieithwedd. Gwelwyd bod y gyfradd o gyfnwid cod a ddefnyddir gan gymeriadau *Bullshit* yn amrywio rhwng sefyllfaoedd, a'r cymeriadau'n defnyddio mwy o gyfnwid cod pan ydynt yn ymddangos mewn golygfa gyda'i gilydd. Mae'r dewis o ieithwedd hefyd yn chwarae rhan flaenllaw yn y cymeriadu, megis y cymeriadau Gonzo (*Bullshit*) neu gymeriadau *Laurie*. Cyfnwid cod mewnfrawddegol a ddefnyddir fwyaf yn y dramâu Ffrangeg. Mae hyn oherwydd sawl rheswm. Yn gyntaf, cymeriadau francoffon yw cymeriadau canolog y pedair drama, gyda chymeriadau angloffon ymylol yn unig, os oes cymeriadau angloffon o gwbl. Yn ogystal, cynulleidfa leol yw cynulleidfa ragdybiedig y dramâu. Mae hyn yn golygu y gall y dramodydd ddefnyddio

³⁴⁵ Cyfweiliad personol, 26/05/2016.

cyfnewid cod sy'n nodweddiadol o ieithwedd leol heb boeni am ddiffyg dealltwriaeth rhan o'r gynulleidfa. Trafodwyd hefyd rai o nodweddion gramadegol cyfnewid cod Ffrangeg-Saesneg, megis y gallu i greu berfau newydd o fôn Saesneg ac ôl-ddodiad berfol Ffrangeg, a'r arfer o roi cenedl i enwau Saesneg, er bod y gyfradd o enwau benywaidd/gwrywaidd yn amrywio, sy'n awgrymu mai tueddiadau tafodieithol sydd i'w gweld yma yn hytrach na rheolau cadarn.

8: Y Dramâu Saesneg

8.1 Crynodeb

***Beautiful Deeds/De beaux gestes* (1996) Marie-Lynn Hammond³⁴⁶**

Mae *Beautiful Deeds/De beaux gestes* (defnyddir yr acronym BD/DBG o hyn ymlaen) yn ddrama a grëwyd gan ddramodydd am ei dwy nain; un yn francoffon a'r llall yn angloffon. Gwelir y ddwy'n ymateb i enedigaeth yr wyres, Marie-Lynn, yn yr olygfa gyntaf, cyn i'r ddrama symud yn ôl mewn amser. Mae'r ddwy'n myfyrio ar eu bywydau a'u priodasau ac yn ymateb i'r newyddion bod eu plant am briodi.³⁴⁷ Yn yr olygfa olaf, mae'r ddwy'n cyfarfod am y tro cyntaf.

Cymeriadau

Corinne	Dynes gref sydd wedi claddu dau ŵr a magu deg o blant. Mae wedi cael bywyd caled. Collodd ei gŵr cyntaf yn ifanc, a gorfu iddi ailbriodi er mwyn gofalu am ei dau fab. Roedd Moïse, ei hail ŵr, yn llawer hŷn na hi. Nid yw'r briodas mor hawdd ag yr oedd hi'n ei obeithio, er ei bod hi'n un hapus ar y cyfan. Mae hi'n poeni am hapusrwydd ei merch, Thérèse, sydd ar fin priodi Barney.
Elise	Mae'n perthyn i ddosbarth uwch Toronto; mae ei theulu'n gyfoethog, a chawn atgofion Elise o deithio Ewrop. Priododd Douglas, tad Barney, ar ôl i'w theulu fynnu, er nad oedd hi'n ei garu. Parodd y briodas ddeng mlynedd. Achosodd sgandal wrth adael ei gŵr am Ted, er ei bod hi'n esgus mai gweddwy yw hi. Bu Ted farw yn ddiweddar mewn damwain; cafodd anaf ar ôl baglu ar risiau mewn bar. Heb ei gŵr, mae hithau heb incwm; ni all hyd yn oed fforddio prynu ffrog newydd ar gyfer priodas ei mab.
Marie-Lynn	Merch Thérèse a Barney. Mae hi'n chwarae rôl y corws yn y ddrama ac yn canu caneuon sydd i'w gweld hwnt ac yma trwy'r ddrama.

Tabl 89: Cymeriadau BD/DBG

³⁴⁶ Nodir gan yr awdur bod fersiwn gyntaf y ddrama hon – a gafodd ei pherfformio gyntaf yn 1994 – yn 'fully bilingual (and more true-to-life)' (BD/DBG 11), gyda Corinne yn siarad Ffrangeg yn unig tan yr olygfa olaf. Crëwyd y fersiwn 'more accessible, with only some phrases as well as a few songs entirely in French' (ibid.) yn ddiweddarach; dyma'r fersiwn gyhoeddedig a ddadansoddir yma.

³⁴⁷ Nodir bod y ddwy fam yn poeni am y briodas oherwydd bod y plant yn dod o gefndiroedd gwahanol. Mae Thérèse yn *franco-ontarienne* Gatholig, tra bo Barney'n angloffon Protestannaidd.

Marriage of Convenience (2001) Ian Rowlands³⁴⁸

Monolog sydd yma gan ddyn; cyfeirir ato fel 'man' yn y nodiadau ar ddechrau'r ddrama, ond gelwir ef yn 'Alex' yn ystod y ddrama. Ef yw'r unig gymeriad sydd ar y llwyfan, er ei fod yn dyfynnu cymeriadau eraill; ceir hefyd ddefnydd o lais sylwebydd (*voiceover*).³⁴⁹ Mae'n cofio'n ôl at ei blentyndod yn y cymoedd. Nid yw Alex yn siarad Cymraeg yn ystod y ddrama – namyn ychydig eiriau – er inni glywed ei fod yn mynychu ysgol Gymraeg. Mae wnelo hyn â'r ffaith nad yw'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Pan fo'i lysdad yn honni 'No bugger speaks Welsh in the Valleys' (MoC 92), ni all Alex ganfod ffordd o ddadlau ag ef, gan esbonio 'I shed my language each night like a linguistic snake, most of my friends did' (ibid.). Dangosir *diglossia* yma, gan fod y Gymraeg yn iaith yr ysgol, tra bo elfennau eraill bywyd yn digwydd yn y Saesneg.

Bu farw tad Alex tra'r oedd yn gweithio fel morwr, ond nid yw'n gwybod dim am yr amgylchiadau. Mae ei fam yn ail-briodi ag Andrew, ond nid yw'r berthynas yn un dda. Prif ddigwyddiad y ddrama yw diwrnod priodas Y Tywysog Charles a Diana Spencer, pan â Alex i de parti gweriniaethol yn hytrach nag i'r parti stryd i ddathlu'r briodas frenhinol. Mae hyn yn digio Andrew. Mae'n credu mai camgymeriad oedd i dad Alex ei anfon i'r ysgol Gymraeg, gan ddweud 'that Welsh school is just an Academy of Fascists' (MoC 92). Mae'r ddrama'n cyrraedd penllanw wrth i Andrew gwffio ag Alex ar ddiwedd y ddrama, sy'n dod â'i berthynas â mam Alex i ben.

Blood (2013) Meg Braem³⁵⁰

Ceir yma ddrama am ddwy efeilles ffrancoffon. Bu farw eu rhieni mewn damwain car sy'n gadael y merched ag anafiadau difrifol. Bu Dr Glass yn dyst

³⁴⁸ Perfformiwyd gyntaf ym 1996.

³⁴⁹ Mae'n debyg bod 'man' a 'voiceover' yn elfennau o'r un cymeriad, sef 'Alex'.

³⁵⁰ Perfformiwyd gyntaf yn 2010.

i'w gwellhad gwyrthiol, ac mae'n eu mabwysiadu, gan arbrofi ar y ddwy. Ceir adlais yng ngwaith Dr Glass o arbrofion Dr Josef Mengele ar efeilliaid yn Auschwitz. Mae Dr Glass yn eu cuddio rhag y byd wrth wneud ei waith ymchwil. Un noson, cyrhaedda Max, myfyriwr o Toronto, yn annisgwyl. Mae wedi bod yn astudio hen gyhoeddiadau Dr Glass (cyn ei ymchwil ar y merched) ac am weithio iddo. Mae'r merched yn ffrancoffon, a'u Saesneg yn frith o eiriau Ffrangeg, er mai Saesneg yw prif iaith y ddrama. Mae nifer o olygfeydd yn agor neu'n cau gyda'r chworydd yn siarad mewn cwpledi, gydag un chwaer yn ateb llinell y llall, fel yr enghraifft isod, sy'n dangos y cysylltiad agos rhwng y ddwy – fel petai'r geiriau wedi'u creu 'perfectly, as if from one mind', fel y dywed Max (Bd 79).

Poubelle: A wall is a wall but cannot pull us apart.
 Angelique: You cannot separate what is joined in the heart.
 Poubelle: *Une nuit brillante illumine le ciel.*
 Angelique: Good night and sleep tight, my little Poubelle. (Bd 34)³⁵¹

Cymeriadau

Poubelle ³⁵²	Poubelle yw'r cymeriad cryfaf o'r ddwy chwaer – dywed Dr Glass ei bod yn hoff o arwain ei chwaer (Bd14). Ceisia berswadio Angelique i ddianc. Caiff ei chosbi'n aml gan Dr Glass.
Angelique	Gelwir hi'n 'Splits' gan ei chwaer oherwydd craith ar ei gwefus. Mae hi'n disgyn mewn cariad â Max.
Dr Glass	Ef oedd meddyg y merched yn yr ysbyty; cyfareddwyd ef o'u gweld yn gwella'n wyrthiol ar ôl cael eu rhoi i orwedd nesaf i'w gilydd. Cred y gallant iacháu ei gilydd, ac arbrofa arnynt i brofi'r ddamcaniaeth ac archwilio natur y cysylltiad rhyngddynt fel efeilliaid. Collodd ei wraig a'i blentyn mewn damwain car debyg i'r un lle yr anafwyd y merched; nid yw'n deall pam i'r chworydd fyw tra bu farw ei deulu ef.

³⁵¹ *Une nuit brillante illumine le ciel* – 'mae noson ddisglair yn goleuo'r awyr'.

³⁵² 'Bin sbwriel' yw ystyr 'Poubelle'. Mae'r '-belle' yn ei wneud yn debyg i enw merch; ystyr 'belle' yw 'prydferth'. Nid yw ystyr y gair yn cael ei drafod yn y ddrama, ond tybir bod ymdrech yma i ddangos y gwrthgyferbyniad rhwng y chworydd, gydag enw angylaidd 'Angelique'. Wrth gwrs, ni fyddai hyn yn eglur i rai nad ydynt yn deall ystyr y gair 'poubelle'.

Max Street	Myfyriwr yn ysgol feddygaeth Prifysgol Toronto. Mae ganddo ddi-ddordeb yng ngwaith Dr Glass, ond mae'n ffeiddio wrth ei greulondeb.
Maman a Papa	Clywir lleisiau rhieni'r chwiorydd ar ddechrau'r ddrama, er nad ydynt yn ymddangos ar y llwyfan: 'these voices are heard and may be pre-recorded' (Bd 2).

Tabl 90: Cymeriadau *Blood*

***Tonypandemonium (2014) Rachel Trezise*³⁵³**

Drama sydd yma am berthynas mam a merch yng Nghwm Rhondda. Mae

Deborah yn alcoholig sy'n dioddef o sirosis; gwelwn ei chariad yn ymweld â

Danielle, ei merch, i ofyn iddi fynd i'w gweld – er nad yw Deborah wedi gofyn

iddo wneud. Dim ond ychydig wythnosau sydd ganddi i fyw. Gwelwn olygfeydd

o dri chyfnod ym mywyd Danielle, gyda'r tair Danielle yn croesi o gyfnod un i un

arall. Nid yw'r cymeriadau'n siarad Cymraeg er bod Danielle yn defnyddio

brawddeg Gymraeg i gyfarch ei hathro.

Cymeriadau

Danielle #1	Naw mlwydd oed. Gwelwn sawl golygfa ohoni'n cael ei hanfon allan i chwarae yn erbyn ei hewyllys er mwyn i'w mam gael y tŷ iddi hi ei hunan – mae'n debyg er mwyn cael cariad draw.
Danielle #2	Pymtheg mlwydd oed. Mae'n dadlau'n ffyrnig â'i mam. Mae'n amlwg bod ei mam yn eiddigeddus ohoni. Mae'n symud i fyw at ei thad.
Danielle #3	Deunaw mlwydd oed. Nid yw wedi siarad â'i mam ers iddi symud i fyw at ei thad. Mae bellach yn gweithio fel artist tatŵ ym Mhontypridd.
Deborah	Alcoholig. Mae ganddi berthynas anodd iawn â'i merch. Mae'n falch o'i gallu i droi pennau dynion. Cafodd ei chamdrin gan ei thad pan oedd yn blentyn, ac mae'n ofni iddo wneud yr un peth i Danielle. Nid yw'n siarad â'i dwy chwaer bellach; mae un mewn ysbyty meddwl ym Mhen-y-Bont-ar-Ogwr, a'r llall yn byw yn Lloegr.
Tommy Simcox	Cariad Deborah. Nid yw eu perthynas yn dda, ac maent yn dadlau'n aml. Hoffai ddychwelyd at ei wraig, ond cafodd ei daflu allan ar ôl iddi ddarganfod ei berthynas â Deborah.
Craig a Leon	Ffrindiau ysgol Danielle. Mae Craig yn dod yn gariad iddi erbyn iddi fod yn ddeunaw.


³⁵³ Perfformiwyd gyntaf 2013.

Jerry	Cyn-wŵr Deborah a thad Danielle. Mae Deborah yn dweud bod ganddo obsesiwn amdani, ac nid yw'n credu y dylai ef a Danielle gael perthynas. Cyhuddodd ef o'i churo a chael gorchymyn atal yn ei erbyn – ond gwraig Tommy a ymosododd arni, nid Jerry. Mae Jerry bellach wedi ailbriodi gyda Margaret, ac nid yw'n or-awyddus i Danielle ddod atynt i fyw.
Mr Morgan	Athro Danielle.

Tabl 91: Cymeriadau *Tonypandemonium*

8.2 Canlyniadau Codio'r Dramâu Saesneg

8.2.1 Cymhareb



Ffigur 174: Cymhareb – Dramâu Saesneg

O'r graff uchod, gwelir mai cymhareb y cyfnewid cod yn y dramâu Saesneg yw 1.44 (372 enghraifft / 259 tudalen).³⁵⁴ Ceir rhaniad clir rhwng y dramâu o Gymru a'r ddwy o Ganada, gyda chymhareb y dramâu o Ganada'n llawer uwch. Nifer fechan iawn o enghreifftiau sy'n ymddangos yn y testunau Cymreig: pump yn *Marriage of Convenience* a dau yn *Tonypandemonium*. Mae'n amlwg bod y gyfradd hon o gyfnewid cod yn isel iawn o'i gymharu â'r testunau eraill. Fodd bynnag, rhaid cofio mai sbectrwm yw cyfnewid cod. Disgrifia Auer 'a continuum of language alternation phenomena' (1999, t.309), gan wahaniaethu rhwng tri

³⁵⁴ Cymhareb y dramâu unigol:

Beautiful Deeds/De beaux gestes – 202 enghraifft / 43 tudalen = 4.70

Marriage of Convenience – 5 enghraifft / 32 tudalen = 0.16

Blood – 163 enghraifft / 111 tudalen = 1.47

Tonypandemonium – 2 enghraifft / 73 tudalen = 0.03

phrif fath o ieithwedd. Mae testunau sy'n defnyddio nifer gymharol fach o enghreifftiau o gyfnewid cod yn rhan o'r sbectrwm, ac yn perthyn i'r pegwn isaf. Rhaid cofio mai testunau ar gyfer cynulleidfa Saesneg yw'r rhain – nid cynulleidfa ddwyieithog, o reidrwydd. Rhaid creu testun sy'n ddealladwy i aelodau o'r gynulleidfa sy'n uniaith Saesneg – ac mae hyn yn arbennig o bwysig mewn drama, lle nad oes cyfle i ailddarllen neu chwilio mewn geiriadur. Yn y bennod ar nofelau Saesneg, trafodwyd ychydig ar y strategaethau y mae awduron yn eu defnyddio er mwyn galluogi darlennydd uniaith Saesneg i ddeall arwyddocâd y geiriau laith₂.³⁵⁵ Roedd y rhain yn cynnwys ailadrodd ymadrodd cyfan neu air allweddol yn y Saesneg, neu roi esboniad nad oedd yn gyfieithiad uniongyrchol fel ymhelaethiad. Yn ddiddorol iawn, prin yw'r defnydd o'r technegau hyn yn y dramâu. Ceir peth ailadrodd:

Corinne: How about some pie? *Tarte au sucre?* There's one just out of the oven.
 Elise: *Tarte au sucre?* Sugar Pie? (BD/DBG 47)

Ceir ymhelaethu hefyd:

Poubelle: *Laissez-moi! Ne me touchez pas!* Who do you think you are? Don't touch me! Don't touch me! (Bd 30)³⁵⁶

Ond drwyddi draw, mae'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn ymddangos heb unrhyw esboniad na chymorth ieithyddol.³⁵⁷ Fel y soniwyd eisoes, mae nifer fawr o'r enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n ymddangos yn y dramâu yn perthyn i eirfa sylfaenol³⁵⁸ – maent yn eiriau y byddai unigolyn sy'n meddu ar ychydig o Gymraeg/Ffrangeg yn gallu eu deall. Gyda'r testunau o Gymru, yn enwedig,

³⁵⁵ Gweler t.195.

³⁵⁶ '*Laissez-moi! Ne me touchez pas!*' – 'Gadewch i mi fynd! Peidiwch â 'nghyffwrdd i!'.

³⁵⁷ Mae un testun, BD/DBG, yn cynnwys cyfieithiad fel troednodyn mewn ambell achos. Nid oes galw am ddarparu cymorth ieithyddol i'r gynulleidfa, felly tybir mai cymorth ieithyddol i'r actorion a'r cyfarwyddwyr sydd yma.

³⁵⁸ Hynny yw, geirfa sy'n debygol o fod yn gyfarwydd i'r rhai sy'n meddu ar lefel sylfaenol o'r laith₂, megis geirfa cyfarch, enwau am fwydydd a.y.b.

cofier mai cymdeithas Cwm Rhondda sy'n cael ei phortreadu, a honno'n gymdeithas Gymreig sy'n defnyddio'r Saesneg.³⁵⁹ Mae'r geiriau Cymraeg hyn yn rhan o gystrawen Saesneg yr ardal. O'r herwydd, mae'r cymeriadau hyn – nad ydynt o reidrwydd yn rhugl eu Cymraeg – yn defnyddio ymadroddion megis 'ych-y-fi', 'crachach', 'bara brith' a 'Bore da'. Maent yn cyfrannu at hunaniaeth y ddrama – o beidio â deall gair arbennig, nid yw aelod o'r gynulleidfa yn colli'r stori, ond mae'n cael ymdeimlad arbennig o ieithwedd a hunaniaeth y Rhondda. Nid yw'r testunau Ffrangeg ychwaith yn darparu llawer o gymorth ieithyddol, er bod nifer yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn uwch yn y testunau hyn. Mae nifer o'r enghreifftiau hyn hefyd yn perthyn i'r ieithwedd a fyddai'n gyfarwydd i rywun sy'n medru ychydig iawn o'r Ffrangeg – megis 'non', 'zut', 'mon Dieu'. Hyd yn oed os yw'r enghraifft yn fwy cymhleth, nid yw'r gwyliwr uniaith yn mynd ar goll. Gellir dyfalu beth yw'r ystyr o'r cyd-destun, megis yr enghraifft isod:

Corinne: But when I touched him, *mon Dieu! Y'était mort! Y'était mort!* Ah, when your mother or your husband dies, it is terrible, yes! But your own child! [*Ç*]a c'est le pire, ça.
(BD/DBG 41)³⁶⁰

Byddai'r ebychiad 'mon Dieu' yn un weddol gyfarwydd, ond efallai y byddai'r brawddegau 'Y'était mort' yn fwy cymhleth. Er nad yw'n cael ei gyfieithu, mae Corinne yn ymhelaethu, gan ddweud ei fod yn beth dychrynlyd i goll'i'ch plentyn. Ceir hefyd enghreifftiau o ddyblygu heb gyfieithu'n union, fel yr enghraifft isod:

³⁵⁹ Mae 12.3% o boblogaeth Rhondda Cynon Taf yn medru'r Gymraeg (Ystadegau'r Boblogaeth a'r Cyfrifiad Llywodraeth Cymru 2012a). Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 (Llywodraeth Cymru 2015), mae 43% o'r rheiny'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol, tra bo 23% yn ei defnyddio'n wythnosol, 30% yn ei defnyddio'n llai aml na hynny, a 5% byth yn ei defnyddio. Felly, er bod siaradwyr Cymraeg yng Nghwm Rhondda, mae 35% yn defnyddio'r iaith yn llai nag wythnosol, sy'n dangos tueddiadau ieithyddol yr ardal.

³⁶⁰ "Mon Dieu" – 'my god'. "Y'était mort!" – 'roedd e wedi marw'. "[*Ç*]a c'est le pire, ça." – 'dyna'r gwaethaf'.

Max: How do you feel, Angelique? Tell me.
Angelique: Fine, better. I feel better. I'm warming up. It was cold there
*pour un moment mais maintenant je me réchauffe. L'air est plus chaud.*³⁶¹ (Bd 90)

Mae hi'n ailadrodd ei bod hi'n cynhesu fel rhan o ddatganiad hwy. Mae'r ffaith ei bod yn llithro i'w mamiaith yn atgyfnerthu'r ffaith nad yw Angelique yn well. Mae hi'n defnyddio'i mamiaith er nad yw Max yn ei deall – gwelir ei bod yn datblygu hypothermia (Bd 91). Nid yw'r wybodaeth sydd yn y geiriau Ffrangeg yn cael ei cholli'n llwyr, ond mae'n blaenoriaethu'r aelodau hynny o'r gynulleidfa sy'n medru'r Ffrangeg (Gordon a Williams 1998; Bohata 2004).³⁶² Fodd bynnag, prif swyddogaeth y cyfnewid cod yw marcio hunaniaeth y cymeriadau; nid yr hyn sy'n cael ei ddweud sy'n bwysig, ond y ffaith ei fod yn cael ei ddweud yn yr iaith².

Yr hyn sy'n esbonio'r rhaniad rhwng y dramâu Cymreig a'r dramâu Canadaidd yw sgiliau ieithyddol y cymeriadau. Mae'r dramâu Canadaidd yn cynnwys cymeriadau ffrancoffon dwyieithog – hynny yw, sy'n siarad y Ffrangeg fel iaith gyntaf.³⁶³ Saesneg yw iaith gyntaf cymeriadau *Marriage of Convenience* a *Tonypandeonium*, ac nid yw'r cymeriadau'n cael eu dangos yn siarad y Gymraeg, namyn ambell air Cymraeg o fewn y Saesneg.³⁶⁴ Dyma sy'n esbonio'r gwahaniaeth yn y testunau felly; mae dwy ddrama yn portreadu cymeriadau dwyieithog, tra bo dwy'n portreadu cymeriadau Cymreig nad ydynt o reidrwydd yn medru'r Gymraeg.

³⁶¹ "It was cold there *am eiliad, ond nawr dwi'n ailgynhesu. Mae'r aer yn fwy cynnes*".


³⁶² Gweler trafodaeth bellach o'r nodwedd hon ym mhennod 10: Theori lenyddol.

³⁶³ Sef Corinne a Marie-Lynn (BD/DBG) ac Angelique a Poubelle (Bd).

³⁶⁴ Fel y nodwyd eisoes, mae Alex *Marriage of Convenience* yn mynychu ysgol Gymraeg, ond nid yw'n cael ei ddangos yn siarad y Gymraeg. Mae'n disgrifio'i ffrind, Jez, sy'n dod o deulu sy'n siarad Cymraeg gartref – er bod disgrifiad gan Alex o'r profiad o siarad Cymraeg gyda hwy, nid yw'r sgyrsiau eu hunain yn ymddangos ar y llwyfan. Yn fwy na hyn, mae'r cymeriadau eraill yn mynegi eu dryswch fod bachgen o deulu di-Gymraeg yng Nghwm Rhondda'n mynychu ysgol Gymraeg, gan honni nad oes neb yn yr ardal yn medru'r Gymraeg. Nid yw'r unigolion gweriniaethol chwaith yn cael eu dangos yn defnyddio'r iaith Gymraeg, megis cyn-aelod o Fyddin Rhyddid Cymru sy'n ymladd dros hawliau'r Gymraeg er nad yw'n ei siarad (MoC 95).

8.2.2 Golygfeydd

Isod ceir graff sy'n dadansoddi'r dramâu yn ôl golygfeydd. Nid oes graff ar gyfer *Marriage of Convenience* gan mai drama un olygfa ydyw. Nid oes graff ychwaith ar gyfer *Tony and the Ant* gan mai dim ond dwy enghraifft o gyfnewid cod sydd yn y ddrama, felly mae'r mwyafrif o'r golygfeydd heb unrhyw gyfnewid cod.




Ffigur 175: Golygfeydd – BD/DBG

Gwelir bod nifer o olygfeydd yn BD/DBG nad ydynt yn cynnwys unrhyw gyfnewid cod – mae'r golygfeydd hyn yn rhai sy'n cynnwys Elise yn unig, cymeriad angloffon. Isod, ceir crynodeb o'r golygfeydd a chanddynt y nifer uchaf o enghreifftiau o gyfnewid cod.

Golygfa	Nifer	Crynodeb
Act 1 Golygfa 6	42	Mae Thérèse yn flin â Corinne, sy'n poeni am ei phriodas â Barney. Mae brawd Thérèse yn briod ag angloffon, ond ef oedd babi'r teulu a ffefryn Corinne. Mae Thérèse yn ei sicrhau y bydd y plant yn siarad Ffrangeg – ni fydd hi'n cael cymaint â deg o blant. Corinne yn derbyn bod sefyllfa Thérèse yn wahanol. Sbwylodd ei mab ieuengaf am fod mwy o amser gyda hi a bod bywyd yn haws i'r teulu yn y cyfnod hwnnw.

Act 2 Golygfa 1	32	Ni wŷr Elise sut y bydd yn ymdopi yn y briodas ar ôl colli Ted – cafodd fywyd hapus iawn gydag ef. Torrodd ei theulu a'i ffrindiau gysylltiad â hi ar ôl iddi adael Douglas. Nid oes ganddi incwm heb Ted. Ceir awgrym mai Elise a achosodd y ddamwain a'i laddodd. Mae Corinne yn poeni am fod ar ei phen ei hun. Cofia'r garwriaeth a gafodd gyda Joe pan oedd Moïse yn yr ysbyty.
Act 2 Golygfa 5	31	Cyfarfod cyntaf Elise a Corinne; ni ddaeth Elise i'r cinio teuluol ddoe ar ôl goryfed. Mae'r ddwy'n wahanol – e.e. Corinne yn beirniadu Elise am yfed cyn cinio – ond darganfyddant bethau sy'n gyffredin iddynt (gwragedd gweddw am yr ail dro, poeni am briodas Thérèse a Barney). Clywir cân gan Marie-Lynn am ei rhieni. Cafodd Corinne ac Elise fywydau caled; ni allodd Elise gael ysgariad gan ei gŵr, er ei bod yn feichiog â mab Ted. Mae ar Corinne ofn beth fydd yn digwydd nawr ei bod yn wraig weddw eto. Ofna farw â phechod marwol ar ei henaidd; ni all fod yn siŵr ai Joe neu Moïse yw tad Cecile – ond ni all edifarhau am un diwrnod o hapusrwydd. Mae'r ddrama'n cloi â Marie-Lynn yn canu cân ddwyieithog am ei hunaniaeth hybrid – 'j'ai la tête anglaise, j'ai le cœur français' (BD/DBG 54). ³⁶⁵

Tabl 92: BD/DBG – golygfeydd gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod



Ffigur 176: Golygfeydd – *Blood*

Gwelir bod amrywiaeth fawr i'w chael o edrych ar gyfnewid cod yn ôl golygfa yn *Blood*: un olygfa â nifer uchel o enghreifftiau o gyfnewid cod; pum golygfa â 11-17 enghraifft; 14 golygfa â llai na 10 enghraifft; a naw golygfa heb unrhyw enghreifftiau o gyfnewid cod. O'r naw golygfa heb gyfnewid cod, mae chwech yn cynnwys Max a/neu Dr Glass yn unig, sef y ddau gymeriad angloffon. Ond


³⁶⁵ "Mae gen i ben Saesneg, mae gen i galon Ffrangeg".

nid yw presenoldeb y merched yn sicrhau'r defnydd o gyfnewid cod, gan fod hefyd olygfeydd gyda'r cymeriadau hyn heb unrhyw enghreifftiau o gyfnewid cod.

Golygfa	Nifer	Crynodeb
12	31	Mae Max yn archwilio Angelique am y tro cyntaf. Mae'n gwrtais iawn â hi – ni ofynnodd neb erioed ganiatâd i'w harchwilio o'r blaen. Esbonia Max ei astudiaethau; mae am ganfod dealltwriaeth wyddonol o gariad. Ceir camddealltwriaeth gan nad yw Max yn medru'r Ffrangeg ac mai ail iaith Angelique yw'r Saesneg; mae hi'n credu bod Max am roi cusan i'w chraith. Gofynna Angelique wrth Max os yw cariad yn air positif neu negyddol. Dychwela Poubelle cyn iddo gael cyfle i'w hateb.
22	17	Â Poubelle i edrych o amgylch y seler y mae wedi'i darganfod. Daw Max i'r ystafell wedi clywed sŵn Angelique yn cuddio'r trapddor. Trafodant yr ymadrodd 'tu me manques' ³⁶⁶ a marwolaeth ei rhieni. Maent yn cusanu – nid yw Angelique yn sylweddoli fod Poubelle yn eu gweld. Pan ddaw i mewn, dywed Angelique na fu neb yno. Mae Poubelle yn amlwg yn ddig wrth ei chwaer am ddweud celwydd, er nad yw'n dweud wrthi.
1	16	Mae'r merched yn cofio'r ddamwain car pan fu farw eu rhieni. Mae'r teulu'n dod o Montréal, ond maent yn gyrru drwy'r <i>praries</i> . ³⁶⁷ Mae'n amlwg bod y ddwy chwaer yn ddibynnol iawn ar ei gilydd, fel y gwelir yn y cwpled 'Don't leave me in this world separate and alone / Blood is thicker than water and stronger than bone' (Bd 8).





Tabl 93: *Blood* – golygfeydd gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod

8.2.3 Adran



³⁶⁶ 'Tu me manques' – 'Dwi'n gweld dy eisiau di', ond yn llythrennol 'you are missing from me' (Bd 83)

³⁶⁷ Mae'r ardal hon yn cynnwys Alberta, Saskatchewan a Manitoba; nid yw'n eglur o'r ddrama ym mha dalaith yn union yr ydym.




Fel y gwelir uchod (Ffigur 177), mae 81.5% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn y dramâu Saesneg yn ymddangos fel rhan o'r ddeialog. Mae'n hyn i'w ddisgwyl gan fod deialog yn elfen mor greiddiol i'r ddrama. Dyma'r tueddiad mewn tair o'r dramâu (BD/DBG 69.8%; *Blood* 98.2%; *Tonypandemonium* 100%).

Gwahaniaethwyd rhwng 'canu' a 'deialog' ar gyfer caneuon BD/DBG. Caneuon gwreiddiol ydynt, ac mae rhai'n uniaith Ffrangeg, rhai'n uniaith Saesneg ac eraill yn gymysgedd o'r ddwy iaith. Ceir llawer o gyfnewid cod yn y caneuon (14.4% o'r enghreifftiau) ac mae 16.3% o'r enghreifftiau'n ddyfynnu, sef dyfynnu cymeriadau eraill. Dim ond y tair actores sy'n ymddangos ar y llwyfan – Marie-Lynn, Corinne ac Elise – ond maent yn dyfynnu cymeriadau eraill, megis eu gwŷr neu eu plant.³⁶⁸ Mae mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Marriage*


³⁶⁸ Ceir nodiadau i'r actorion cyn y dyfyniadau hyn megis 'ELISE alternates between playing her younger self and her mother for the rest of this monologue' (DB/DBG 21) neu 'Corinne as Eddy' (BD/DBG 19). Mae hyn yn dangos nad dyfyniad syml sydd yma, ond bod angen actio er mwyn dangos y gwahaniaeth hwn i'r gynulleidfa.

of Convenience yn ymddangos fel rhan o'r fonolog (60%),³⁶⁹ yn ogystal â dwy enghraifft o ddyfynnu.

8.2.4 Hyd



³⁶⁹ Mae'r enghreifftiau sy'n cael eu defnyddio gan 'Man' a 'Voiceover' ill dau yn cael eu nodi fel 'monolog'.



O edrych ar y dramâu Saesneg (Ffigur 182), gwelir bod rhaniad gweddol gyfartal rhwng cyfnewid mewnfrawddegol (57%) a chyfnewid rhyngfrawddegol (43%). Gwelir mai cyfnewid mewnfrawddegol yw'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn BD/DBG (61.8%), ac mae'r holl enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Marriage of Convenience* yn gyfnewid mewnfrawddegol. O gymhwyso hyn at ddamcaniaeth Lipski, mae'n destun Math I felly, lle mae'r geiriau Cymraeg 'thrown in for flavor' (1982, t.195). Dim ond dwy enghraifft sydd yn *Tonyandemonium*: un enghraifft fewnfrawddegol ac un rhyngfrawddegol. Gwelir bod rhaniad cyfartal rhwng cyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol yn *Blood* (49.7%/50.3%). Mae hyn yn anghyffredin. O gofio bod angen i'r cyfnewid yn y dramâu Saesneg fod yn syml er mwyn i gynulleidfa uniaith Saesneg ei ddeall,³⁷⁰ mae'n syndod bod cymaint o gyfnewid rhyngfrawddegol yn y ddrama hon. Yn rhannol, mae brawddegu'r ddrama'n gyfrifol am hyn. Ceir brawddegau byr – hyd at un gair o hyd, megis 'zut!', 'non' – a hefyd frawddegau hirach sy'n ddyfyniadau o sgysiau. Mae'n ddiddorol bod y ddrama wedi'i

³⁷⁰ Nid oes galw yn unrhyw un o'r dramâu am ddarparu uwchdeitlau, er bod BD/DBG yn cynnwys rhai cyfieithiadau yn y testun na fyddai'n hysbys i aelodau o'r gynulleidfa, ond yn hytrach yn nodiadau ar gyfer yr actorion a'r cyfarwyddwr.

hysgrifennu gan awdur o orllewin Canada, ardal sydd â llai o siaradwyr Ffrangeg o'i chymharu â'r ochr ddwyreiniol.³⁷¹ O edrych ar y map yn Atodiad III,³⁷² gwelir yn amlwg bod y ganran o siaradwyr Ffrangeg yn gostwng wrth symud tua'r gorllewin.

Mae'r enghreifftiau uchod yn dwyn i gof ddamcaniaeth Lipski bod tri math o destun sy'n defnyddio cyfnewid cod. Mae'r cyntaf yn defnyddio ambell air o'r ail iaith yn unig, er mwyn rhoi blas i'r testun. Fel y dywed Lipski, 'the Spanish words that crop up from time to time are mostly common to the lexicon of most Americans and serve as cultural/ethnic markers and not necessarily as part of a well-integrated bilingual grammar' (1982, t.195). Ymhelaetha, 'there is no real L₂ discourse, but merely insertion of individual items for a variety of reasons and effects' (ibid.) Mae Math I yn defnyddio cyfnewid cod rhyngfrawddegol, tra bo Math III yn defnyddio cyfnewid cod mewnfrawddegol sy'n dangos 'the high degree of integration of a bilingual grammar' (ibid.), ieithwedd soffistigedig sy'n golygu bod angen i'r darlennydd gael sgiliau cryf yn y ddwy iaith. Mae Vasatka (2013) a López-Flores (2006) yn dilyn damcaniaeth Lipski. Esbonia Vasatka destunau Math I: 'their level of code-switching was the most basic: texts are mainly monolingual with only a few second language words or short phrases included for "flavor"' (2013, t.17). Mae Math II yn cynnwys cyfnewid rhyngfrawddegol, a Math III yn fwy cymhleth eto, gyda'r cyfnewid cod 'an integral part of communication throughout the entirety of the text' (Vasatka 2013, t.17). Gwelir bod modd cymhwyso'r ddamcaniaeth hon at destunau'r corpws hwn. O edrych ar y dramâu Saesneg, mae'n amlwg bod *Marriage of Convenience* a *Tonyandemonium* yn perthyn i Math I; ychydig iawn o gyfnewid

³⁷¹ Nid yw'n eglur i ba raddau y mae Meg Braem yn medru'r Ffrangeg.

³⁷² Gweler t.435.

cod sydd yn y testunau, ond mae'n sicr yn rhoi blas i'r gynulleidfa o fywyd a hunaniaeth y cymoedd Cymreig.³⁷³ Mae BD/DBG a *Blood* yn perthyn i Math II, gan eu bod yn defnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol yn *unig*. Gwelir bod nifer fawr o enghreifftiau o gyfnewid mewnfrawddegol yn ogystal (BD/DBG 61.8%; *Blood* 49.7%). Mae'r testunau'n cydblethu'r ddau fath o gyfnewid cod. Yn sicr nid ydynt yn perthyn i Math III, gan nad ydynt yn cynnwys gramadeg ddwyieithog soffistigedig, nac yn defnyddio cyfnewid cod fel rhan annatod o'r testun cyfan. Gwelir bod angen ychwanegu manylyn at ddamcaniaeth Lipski wrth ddisgrifio'r testunau hyn: cydblethiad o gyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol sydd yma, dim ond bod y cyfnewid mewnfrawddegol yn gymharol syml – nid yw'n galw am addasiadau gramadegol nac yn golygu bod angen i'r darlennydd fod yn 'compound bilingual' er mwyn dilyn y testun.

8.2.5 Dosbarth Gramadegol

Fel yn yr adrannau blaenorol, dangosir y pum categori Dosbarth Gramadegol sydd â'r nifer fwyaf o enghreifftiau o gyfnewid cod mewn llwyd.

adferf	38	10.2%	enw	49	13.2%
ansoddair	5	1.3%	rhagenw	8	2.2%
arddodiad	1	0.3%	yadrodd adferfol	11	3.0%
berf	2	0.5%	yadrodd ansoddeiriol	6	1.6%
brawddeg	116	31.2%	yadrodd berfol	29	7.8%
cymal	28	7.5%	yadrodd enwol	39	10.5%
ebychiad	40	10.8%			

Tabl 94: Dosbarth Gramadegol – Dramâu Saesneg

³⁷³ Er y nodir un enghraifft yn *Tonypandemonium* fel 'brawddeg', yr enghraifft hon yw 'Bore da Mr Morgan'. Ystyrir hon fel brawddeg gyfan gan y gall enwau pobl berthyn i'r cod Saesneg neu'r cod Cymraeg. Dilynwyd yr un fethodoleg gyda'r holl destunau yn y corpws. Yn amlwg, mae'r enghraifft hon yn perthyn i Gymraeg sylfaenol, ac felly, dadleuir nad yw'n golygu bod *Tonypandemonium* yn perthyn i'r testunau Math II. Atgyfnerthir hyn gan y ffaith mai dim ond dwy enghraifft o gyfnewid cod a geir yn y testun cyfan.

O'r tabl uchod, gwelir bod mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn y dramâu Saesneg yn perthyn i: 'brawddeg' (31.2%); 'enw' (13.2%); 'ebychiad' (10.8%); 'ymadrodd enwol' (10.5%) ac 'adferf' (10.2%).

adferf	3	1.5%	enw	17	8.4%
ansoddair	2	1.0%	rhagenw	2	1.0%
berf	2	1.0%	ymadrodd adferfol	7	3.5%
brawddeg	63	31.2%	ymadrodd ansoddeiriol	6	3.0%
cymal	27	13.4%	ymadrodd berfol	19	9.4%
ebychiad	32	15.8%	ymadrodd enwol	22	10.9%

Tabl 95: Dosbarth Gramadegol – BD/DBG

Yn BD/DBG, mae mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn perthyn i 'brawddeg' (31.2%), 'ebychiad' (15.8%) a 'cymal' (13.4%). Mae'n ddiddorol nad enwau yw mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod.³⁷⁴ Awgryma ysgolheigion mai enwau yw'r eitemau sydd fwyaf tebygol o gael eu cyfnewid (Gardner-Chloros 2009; Joshi 1985). Mae'r ffaith mai 'brawddeg' yw'r categori gyda'r nifer fwyaf o enghreifftiau yn anghyffredin, o gofio mai dim ond 38% o'r cyfnewid cod yn y ddrama a oedd yn rhyngfrawddegol. Dim ond 16 enghraifft sy'n deillio o'r caneuon gwreiddiol sy'n rhan o'r ddrama. Mae'r mwyafrif yn digwydd mewn deialog neu mewn dyfyniadau. Felly, gwelir bod y cyfnewid rhyngfrawddegol yn rhan bwysig o'r testun, gan ei fod yn digwydd yn y ddeialog yn hytrach nag mewn caneuon yn unig.

enw	3	60.0%
ymadrodd enwol	2	40.0%

Tabl 96: Dosbarth Gramadegol – MoC

Gwelir mai enwau neu ymadroddion enwol yw'r holl enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n ymddangos yn *Marriage of Convenience*. Gwedda hyn i'r cyfnewid cod mwy simplistig sydd i'w weld yn y ddrama hon, gan fod enwau ac ymadroddion enwol yn 'grammatically self contained' (Gardner-Chloros 2009,

³⁷⁴ Er bod 10.9% o'r enghreifftiau yn ymadroddion enwol.

t.31). Mae hyn yn naturiol; fel yr esbonia Lipski, '[nouns] represent precisely the type of concept likely to be borrowed [or switched]: a thing or idea for which a ready word may not be found in one language or which, for whatever reason, seems more appropriately expressed in one language than in the other' (1982, t.197). Er enghraifft, ceir cymeriadau'n cyfeirio at 'crachach' (MoC 92). I gynulleidfa Gymreig sy'n gyfarwydd â'r gair, mae'n amlwg ei fod yn cyfeirio at bobl snobyddlyd Cymraeg. Amlygir hyn yng ngweddill y dyfyniad:

'No, they're the crachach from the Welsh school, aren't they. Who the hell do they think they are, eh? This is Wales, why can't they speak the majority language like the rest of us? Bloody annoying.'

(MoC 92-3)

Efallai na fyddai pob aelod di-Gymraeg o'r gynulleidfa'n deall y gair

'crachach',³⁷⁵ ond mae'r agwedd ddirmygus yn amlwg o weddill y dyfyniad.

adferf	35	21.5%	enw	29	17.8%
ansoddair	3	1.8%	rhagenw	6	3.7%
arddodiad	1	0.6%	yadrodd adferfol	4	2.5%
brawddeg	52	31.9%	yadrodd berfol	10	6.1%
cymal	1	0.6%	yadrodd enwol	15	9.2%
ebychiad	7	4.3%			

Tabl 97: Dosbarth Gramadegol – *Blood*

Gwelir bod mwyafrif y cyfnewid cod yn *Blood* yn perthyn i'r categori 'brawddeg' (31.9%) Mae nifer o'r rhain yn frawddegau cymharol syml, megis:

Papa: ARRÊTEZ, LES FILLES! I can't see the road! (Bd 7)

Mae'r efeilliaid yn chwifio'u lluniau o flaen llygaid eu tad, sy'n ceisio gyrru. Hyd yn oed os nad yw'r gwylwr yn deall y geiriau Ffrangeg, mae'n amlwg o'r cyddestun beth sy'n cael ei ddweud. Ceir hefyd enghreifftiau fel yr isod, lle mae'r geiriau Ffrangeg yn ailadrodd y Saesneg:

Poubelle: It wasn't the same thing. I did it for you.
 Angelique: *Pour moi!* (Bd 102)

³⁷⁵ Er mae'n debyg y byddai'r di-Gymraeg o Gwm Rhondda (sef lleoliad y ddrama) yn ei ddeall.

Mae 'adferf' hefyd yn gategori sydd yn cynnwys nifer o enghreifftiau (21.5%), ac mae'n cynnwys geiriau megis 'non', 'peut-être', 'pourquoi'. Maent yn eiriau sy'n perthyn i eirfa sylfaenol, ond mae modd dilyn y ddrama heb eu deall. Mae hyn yn golygu bod blas Ffrengig i'r darn heb eithrio'r aelodau hynny o'r gynulleidfa nad ydynt yn medru'r Ffrangeg.

brawddeg	1	50.0%
ebychiad	1	50.0%

Tabl 98: Dosbarth Gramadegol – *Tonypandemonium*

Ceir dwy enghraifft o gyfnewid cod yn *Tonypandemonium* sy'n perthyn i gategoriâu Dosbarth Gramadegol gwahanol.

Yn yr isadran hon, gwelwyd bod amrywiaeth fawr i'w chael o safbwynt Dosbarth Gramadegol. Gan fod y ddwy ddrama Gymreig yn perthyn i'r testunau Math I, mae'n anorod bod y cyfnewid cod yn symlach na'r ddwy ddrama Ganadaidd. Gwelir bod y cyfnewid cod yn perthyn i gategoriâu Dosbarth Gramadegol cymharol syml, megis enw, ymadrodd enwol neu ebychiad. Mae hyd yn oed y frawddeg sy'n ymddangos yn *Tonypandemonium*, 'Bore da Mr Morgan', yn perthyn i'r eirfa fwyaf sylfaenol yn y Gymraeg, fel cyfarchiad elfennol.³⁷⁶ Mae hyn yn golygu ei bod yn hawdd iawn i gynulleidfa uniaith Saesneg ddilyn y ddrama.

Mae mwy o gyfnewid cod yn y dramâu Canadaidd, ac o edrych ar y Dosbarth Gramadegol, mae'n gyfnewid mwy cymhleth yn ogystal. Mae BD/DBG yn cynnwys deuddeg categori, a *Blood* yn cynnwys unarddeg. Mae'r rhain yn cynnwys categorïau sy'n fwy cymhleth o safbwynt gramadegol, megis ymadrodd adferfol, rhagenw, ac arddodiad. Er hyn, mae'r cyfnewid cod yn ddigon syml fel nad oes angen i'r gynulleidfa fedru'r Ffrangeg er mwyn dilyn y

³⁷⁶ Mae'n perthyn i eirfa ysgol; bydd y cyfarchiad hwn yn cael ei gyd-adrodd yn fformiwlraig wrth i'r athro a'r dosbarth gyfarch ei gilydd.

ddrama, na derbyn cymorth drwy gyfrwng megis uwchdeitlau. Golyga hyn fod blas ffrancoffon cryf i'r cymeriadau yn y ddrama, heb herio sgiliau ieithyddol y gynulleidfa'n ormodol.


O gymharu'r categorïau hyn â gwaith ysgolheigion eraill, gwelir bod ychydig o wahaniaeth. Tybia Auer mai 'a content word (noun, verb, rarely adjective/adverb)' (1999, t.314) yw'r geiriau sydd fwyaf tebygol o gael eu cyfnewid.³⁷⁷ Gwelir nad oes nifer uchel o ferfau'n cael eu cyfnewid yn y dramâu Saesneg (0.5%), sy'n awgrymu patrwm gwahanol o gyfnewid cod. Fodd bynnag, dywed López-Flores '[v]erbs were not among the words used often' (2006, t.158),³⁷⁸ a 10% yn unig o'r enghreifftiau o gorpws Vasatka sy'n ferfau (2013, t.81). Awgryma hyn fod y dramâu Saesneg yn y corpws hwn yn debyg i batrymau cyfnewid cod y mae ysgolheigion eraill wedi'u darganfod, er efallai bod y gyfradd yn amrywio ychydig.³⁷⁹

³⁷⁷ Mewn math o gyfnewid cod mae'n ei alw'n '*insertional*', yn hytrach na chyfnewid '*alternational*'. Mae cyfnewid '*insertional*' yn debyg i gyfnewid mewnfrawddegol, tra bo cyfnewid '*alternational*' yn debyg i gyfnewid rhyngfrawddegol.

³⁷⁸ Er nad yw'n rhoi'r union gyfradd.

³⁷⁹ Dylid nodi nad yw López-Flores na Vasatka yn eithrio geiriau benthg o'u corpora, fel y gwneir yn y corpws hwn, felly nid yw hi'n gymhariaeth berffaith â'r corpws hwn.

8.2.6 Maes Semanteg



Ffigur 187: Maes Semanteg – Dramâu Saesneg

O'r graff uchod, gwelir bod 'sgwrs' yn cynnwys nifer fawr o enghreifftiau yn y dramâu Saesneg (156 enghraifft; 42%). Mae 'sgwrs' yma fymryn yn wahanol i'r hyn ydyw yn y testunau Ffrangeg neu Gymraeg. Yn y testunau hynny, mae 'sgwrs' yn cael ei ddefnyddio er mwyn dynodi sgwrs sy'n uniaith Saesneg. Yma, mae'n *ddarn* o sgwrs sy'n uniaith Ffrangeg³⁸⁰ ond sy'n parhau yn y Saesneg, megis: "*Merci Eddy, vous êtes bien gentil. Sit down, sit down. Écoutez Eddy, I have to tell you something*" (BD/DBG 19).³⁸¹ Mae'n cael ei ddefnyddio fel awgrym o gyfnewid cod metaieithyddol – sef bod y sgwrs gyfan yn y Ffrangeg ond mai geiriau Saesneg y mae'r gynulleidfa'n eu clywed.


Mae yma hefyd nifer o gategoriâu sy'n hawdd eu cynnwys heb ddiethrio cynulleidfa Saesneg (e.e. 'teulu', 'term anwes', 'bwyd') gan y byddai'r rhain yn aml yn dermau adnabyddus i gynulleidfa uniaith Saesneg. Er enghraifft, mae Vasatka (2013) a López-Flores (2006) yn trafod yn arbennig yr enwau am

³⁸⁰ Nid oes enghreifftiau'n perthyn i'r categori hwn yn y dramâu Cymreig, sef *Marriage of Convenience* a *Tonypandemonium*.

³⁸¹ "*Diolch Eddy, dych chi'n garedig iawn. Sit down, sit down. Gwrandewch, Eddy, I have something to tell you*".

Ceir hefyd enghreifftiau o sgwrsiau sy'n uniaith Ffrangeg yn eu cyfanrwydd, megis golygfa agoriadol BD/DBG. Mae Corinne yn siarad ar y ffôn yn uniaith Ffrangeg, tra bo Elise yn cael sgwrs ffôn gyda'i mab am yr un pwnc – genedigaeth Marie-Lynn – yn y Saesneg, sy'n golygu y gall cynulleidfa ddilyn beth sy'n digwydd heb ddeall Ffrangeg. Mae'n olygfa bwysig o ran dangos hunaniaeth ffrancoffon Corinne, gan mai hon yw'r olygfa gyntaf.

fwydydd, aelodau o'r teulu a thermau anwes sy'n bresennol mewn testunau Saesneg sy'n defnyddio Sbaeneg.³⁸² Wrth drafod gwaith Eduardo Rivera ac El Huitlacoche, mae Keller hefyd yn cyfeirio at 'kinship relations' a bwydydd fel rhai o'r meysydd semanteg sy'n cynnwys enghreifftiau o gyfnewid cod (1976, t.141). Mae Poplack yn cyfeirio at 'ethnically specific items' sy'n 'highly culturally specific' (1981, t.173), megis enwau am fwydydd, fel eitemau sy'n cael eu cyfnewid yn aml. Mae hyn oherwydd eu bod yn anodd eu cyfieithu, er bod modd eu hesbonio â brawddeg – megis '*cultantrillo*' (maidenhair fern (an herb used in making rice and beans))' (1981, t.173). Fel rhan o'r astudiaeth honno, gwelwyd 'a full 89 percent of the noun switches with the nonmember³⁸³ are used for ethnically specific items' (1981, t.181), sy'n arwyddocaol iawn. Mae'n dangos bod geirynnau 'ethnically specific' yn fwy tebygol o gael eu cyfnewid, yn enwedig wrth gyfathrebu ag unigolion nad ydynt yn perthyn i'r un grŵp. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol mewn testunau Saesneg sy'n defnyddio cyfnewid cod.



Figur 188: Maes Semanteg – BD/DBG

Gwelir bod 24% o'r enghreifftiau yn BD/DBG yn 'sgwrs' (49 enghraifft). Mae'r enghreifftiau hyn o gyfnewid cod yn deillio o sgwrsiau sy'n digwydd yn y

³⁸² Eto, dylid nodi nad yw geiriau benthyg wedi'u heithrio o gorpora'r astudiaethau hyn.

³⁸³ Hynny yw, ddim yn perthyn i'r grŵp – cymuned o Buerto Rico yn Efrog Newydd.

Ffrangeg,³⁸⁴ boed yn gyfan gwbl (e.e. yn yr olygfa gyntaf, pan yw Corinne ar y ffôn gyda Thérèse) neu'n rhannol, gan ddefnyddio ychydig enghreifftiau o'r Ffrangeg er mwyn awgrymu cyfnewid cod metaieithyddol mwy estynedig.

Gwelir yr enghraifft isod:

“Écoute Thérèse,” j’ai dit, “what about the children? That’s no example for them, a father who never goes to mass. Pis le français? Ils vont-tu parler le français au moins?” (BD/DBG 29)³⁸⁵

Mae Corinne yn defnyddio cymysgedd o'r Ffrangeg a'r Saesneg gyda'i merch, ond mae'n annhebygol mai mewn cymysgedd o ieithoedd y byddai'r awdur yn dychmygu'r sgwrs. Yn wir, roedd fersiwn gynharach o'r ddrama gyda Corinne yn siarad Ffrangeg yn unig tan yr olygfa olaf (BD/DBG 11). Defnyddiwyd y Saesneg yn y fersiwn diweddarach er budd cynulleidfa nad yw o reidrwydd yn medru'r Ffrangeg, ond mae'r pytiau o Ffrangeg yno er mwyn cyfleu mai yn y Ffrangeg y byddai Corinne yn siarad.

Mae 21% yn perthyn i'r categori 'amwys', sef gair nad yw'n perthyn yn arbennig i unrhyw gategori Maes Semanteg. Yma, defnyddir geiriau Ffrangeg yn unswydd er mwyn rhoi arlliw Ffrengig i'r ddrama. Mae 19% o'r enghreifftiau yn ebychiadau. Mae Corinne yn dueddol o ddefnyddio'r Ffrangeg mewn ebychiadau, megis '*ah, misère!*', '*mon Dieu*'. Dyfarnwyd hefyd fod yr ebychiad '*hein*' yn ei marcio fel ffrancoffon, ac felly cyfrir y geirynt fel cyfnewid cod.³⁸⁶


Mae'r geiriau hyn yn gallu bod yn anodd eu cyfieithu – megis '*ah, misère*' (gwae fi!). Yn ogystal, mae siaradwyr yn tueddu i ddweud ebychiadau yn eu hiaith

³⁸⁴ Mae'r actores sy'n actio Corinne yn cyfleu sgwrs rhwng Corinne a chymeriad arall. "*Écoute Thérèse,” j’ai dit [...] Pis le français? Ils vont-tu parler le français au moins?”* – "Gwranda, Thérèse," ddywedais i [...] A'r Ffrangeg? Fyddan nhw'n siarad Ffrangeg o leiaf?"

³⁸⁵ Nodir bod y ffurf cwestiwn 'ils vont-tu' yn nodwedd ar dafodiaith Ffrangeg-Ganadaidd (Lagueux 2005; Pavel 2005).

³⁸⁶ Gwelir bod '*ah, ça arr[ête] jamais, hein*' yn cael ei gyfieithu fel 'it never stops, eh?' (BD/DBG 18), sy'n atgyfnerthu'r ffaith bod gwahaniaeth rhwng 'hein' ac 'eh'. Mae hefyd yn cael ei italeiddio, sy'n awgrymu ei fod yn eirynt Ffrangeg (e.e. BD/DBG 40). Nid yw ychwaith yn ymddangos yn y geiriadur Saesneg, dictionary.com, ond mae'n ymddangos yn y Larousse Ffrangeg.


gyntaf; gwelwyd ym mhennod 1 bod ebychiadau'n ymddangos fel categori dadansoddi cyfnewid cod gan nifer o ysgolheigion. Yn ôl Pavlenko 'studies of bilinguals' language use [...] have long suggested that bilinguals commonly perceive L1 taboo and swearwords as more emotional than L2 swearwords' (2008, t.157). Er y gall hyn olygu bod y geiriau'n rhy drwm eu hystyr ac yn rhy tabŵ i rai siaradwyr, 'L1 swearwords and interjections may also "pop out" uncontrollably in moments of pain or frustration' (2008, tt.158–9). Mae'n naturiol felly, wrth greu'r cymeriad Corinne, y byddai'r awdur yn rhoi geirynnau Ffrangeg iddi yn hytrach na'r geirynnau cyfatebol yn y Saesneg.



Ffigur 189: Maes Semanteg – MoC

Gan fod cyn lleied o enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Marriage of Convenience*, nid oes patrwm arbennig i'w weld yn y graff uchod. Mae dwy o'r enghreifftiau yn 'term Cymraeg', sef 'crachach' a 'cartref'. Maent yn eiriau sy'n cario ystyr ychwanegol yn y Gymraeg na fyddai gan gyfieithiad Saesneg.³⁸⁷

³⁸⁷ Gweler diffiniad o'r categorïau Maes Semanteg ar t.88.



Ffigur 190: Maes Semanteg – *Blood*


Mae mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnwid cod yn *Blood* yn perthyn i'r categori 'sgwrs' (106 enghraifft; 65%). Mae hyn oherwydd bod y chwirydd yn aml yn defnyddio geiriau Ffrangeg ar ddechrau sgwrs, sy'n awgrymu cyfnwid cod metaieithyddol mwy estynedig. Nifer fechan iawn sydd o'r categorïau Maes Semanteg eraill. Ceir 19 enghraifft yn perthyn i 'teulu' (11%), megis 'maman' neu 'sœur' ac 11 enghraifft yn perthyn i 'amwys' (7%). Mae'r enghreifftiau 'amwys' yn cynnwys y geiriau Ffrangeg sy'n frith drwy Saesneg y merched, megis:

These checkups *toujours* (Bd 43)

I love my language. *Nuit*. I love my word for it. *Nuit*. (Bd 52)

Rien, nothing at all. (Bd 86)

Mae'r rhain yn eiriau sy'n marcio'r merched yn glir fel ffrancoffon, ond sy'n ddigon hawdd eu deall gan gynulleidfa sy'n gyfarwydd â geirfa Ffrangeg sylfaenol. Nid ydynt ychwaith yn arbennig i'r Ffrangeg, ac nid ydynt yn anodd eu cyfieithu, felly maent yn perthyn i'r categori 'amwys', nid 'term Ffrangeg'.



Ffigur 191: Maes Semanteg – *Tonypandemonium*

Mae'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Tonypandemonium* yn perthyn i ddau gategori gwahanol. Rydym eisoes wedi crybwyll bod ebychiadau yn hawdd eu cynnwys mewn iaith wahanol heb ddieithrio cynulleidfa uniaith Saesneg.

Nid oes unrhyw gategori Maes Semanteg yn ymddangos ym mhob un o'r pedair drama, ond mae rhai categorïau sy'n ymddangos mewn tair ohonynt. Gweler Tabl 99 isod:


Categori	Pa destunau	Nifer enghreifftiau
bwyd	BD/DBG; MoC; Bd	4
ebychiad	BD/DBG; Bd; T	46
sgwrs	BD/DBG; Bd; T	156

Tabl 99: Categorïau Maes Semanteg sy'n ymddangos mewn 3 o'r 4 drama

Mae'r ffaith nad oes un o'r categorïau Maes Semanteg yn ymddangos ym mhob un o'r dramâu yn dangos bod y testunau'n amrywiol iawn. Er eu bod yn defnyddio cyfnewid cod sy'n portreadu unigolion sy'n deillio o gymdeithasau Cymreig neu Ffrangeg-Ganadaidd, nid ydynt yn defnyddio cyfnewid cod yn yr un ffordd. Fodd bynnag, o'r tabl uchod, mae'n amlwg bod ychydig o orgyffwrdd rhwng rhai o'r testunau. Mae nifer o'r categorïau Maes Semanteg yn cyfeirio at eirfa a fyddai'n gyfarwydd i gynulleidfa heb sgiliau cryf yn y Ffrangeg neu'r Gymraeg, megis 'bwyd' neu 'term anwes', fel y trafodwyd eisoes. Dywed Backus: 'From the literature on codeswitching one gets the impression that very general words are rarely taken from the other language. This has led me to

expect that a high degree of semantic specificity stimulates codeswitching' (2001, t.126). Diffinia 'semantic specificity' fel pa mor anodd yw hi i ganfod gair arall. Mae'n gwahaniaethu rhwng geiriau fel coeden/derwen, menyw/Sue, bwyd mecsicanaidd/burrito (2001, t.129). Mae nifer o enghreifftiau yn y dramâu Saesneg lle mae hyn yn wir; mae'n anodd iawn canfod un gair Saesneg i gyfathrebu ystyr geiriau megis, 'crachach', 'bara brith', 'ah, misère!' neu 'ych-y-fi'. Fel y dywed Backus, 'if it can only be paraphrased with a novel expression, it is maximally specific' (2001, t.127). Ond mae nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod y byddai'n hawdd canfod term Saesneg ar eu cyfer, megis 'pauvre Moïse', 'maman' neu 'bonne nuit'. Gyda'r geiriau hyn, mae'n hawdd eu cyfieithu, ond maent yn benodol iawn eu diwylliant. Maent yn marcio'r siaradwr yn glir fel cymeriad sy'n perthyn i ddiwylliant arall; diwylliant Cymreig neu ffrancoffon. Felly, gwelir bod y testunau'n cyd-blethu cyfnewid cod sy'n deillio o eirfa gyffredinol, a chyfnewid cod sy'n perthyn i'r 'semantic specificity' uchod.


8.2.7 Ysgogiad/Swyddogaeth



Ffigur 192: Ysgogiad/Swyddogaeth – Dramâu Saesneg

Gwelir bod mwyafrif y cyfnewid cod yn y dramâu Saesneg yn perthyn i'r categori 'Creu effaith arbennig' (47.6%). Mae hyn oherwydd bod nifer fawr o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn cael eu defnyddio yn syml er mwyn marcio hunaniaeth y cymeriadau. Nid oes modd chwarae ag iaith yn yr un ffordd ag y byddai testun ar gyfer cynulleidfa ddwyieithog, gan nad yw mwyafrif cynulleidfa

ragdybiedig y dramâu hyn yn medru'r Gymraeg neu'r Ffrangeg i'r fath raddau fel y gallant ddilyn testun sy'n cynnwys cyfnewid cod mwy cymhleth.



Ffigur 193: Ysgogiad/Swyddogaeth – BD/DBG

O'r graff uchod, gwelir bod cyfnewid cod BD/DBG yn cynnwys saith categori Ysgogiad/Swyddogaeth. Mae mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn perthyn i 'Creu effaith arbennig' (44.1%), ond mae hefyd nifer o enghreifftiau'n perthyn i 'Dyfyniad' (35.6%) ac 'Ebychiad' (19.8%). Mae'r holl enghreifftiau 'sgwrs' a welwyd uchod gyda'r Maes Semanteg yn cael eu cyfrif fel Ysgogiad/Swyddogaeth 'Dyfyniad'. Gan fod dewis iaith yn rhan annatod ac anorfod o gymeriadu, mae fel petai'r awdur yn 'dyfynnu' geiriau'r cymeriad, gan fod y cymeriadau'n cael sgwrs yn y Ffrangeg neu'r Gymraeg.³⁸⁸




Ffigur 194: Ysgogiad/Swyddogaeth – MoC

Gwelir bod y cyfnewid cod yn *Marriage of Convenience* yn symlach na BD/DBG. Defnyddir ef i greu effaith arbennig, ond hefyd i gyfeirio at enw llun neu enw bwyd.³⁸⁹

³⁸⁸ Gweler diffiniad o'r categorïau ar t.95.


³⁸⁹ Mae hefyd yn cyfeirio at sawl enw lle sy'n amlwg Gymraeg (e.e. Graig, Glynfach, Penrhiwcoedcae, Crib Goch) ond nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel cyfnewid cod gan eu bod yn enwau priod. Er nad ydynt yn gyfnewid cod, maent yn marcio'r testun fel un Cymreig.



Mae'r cyfnewid cod yn *Blood* yn fwy cymhleth eto, gan gynnwys wyth categori Ysgogiad/Swyddogaeth. Eto, mae mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn perthyn i 'Creu effaith arbennig' (52.8%), gyda 25.8% yn perthyn i 'Dyfyniad' a 12.3% yn perthyn i 'Bwlch geirfaol'. Mae 'Bwlch geirfaol' yn gategori sy'n fwy anghyffredin yn y dramâu Saesneg (5.9%: 22 enghraifft). Yn *Blood*, maent yn cynnwys enghreifftiau o dermau teuluol neu dermau anwes, megis 'maman' neu 'ma bleue',³⁹⁰ ac mae'r gwahaniaeth iaith yn bwysig. Fel y dywed Luc Sante:

The word "boy" could not refer to him; he is *un garçon*. You may think that this is trivial, that "*garçon*" simply means "boy", but that is missing the point. Similarly, *maman* and *papa* are people; "mother" and "father" are notions. (2003, t.141)

Er y byddai'n hawdd cyfieithu'r termau teuluol hyn, ni fyddai'r merched ffrancoffon yn cyfeirio at eu mam fel dim ond 'maman', ac ni fyddai eu tad yn debygol o'u galw'n derm anwes Saesneg yn hytrach na 'ma bleue'. O'r herwydd, 'Bwlch geirfaol' sydd yma.



Ffigur 196: Ysgogiad/Swyddogaeth – *Tonypandemonium*

Mae'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Tonypandemonium* yn perthyn i ddau gategori gwahanol. Trafodwyd eisoes fod *Tonypandemonium* yn perthyn i

³⁹⁰ 'ma bleue' – 'fy nghlais', term anwes y mae'r tad a'r efeilliaid yn ei ddefnyddio.

destunau Math I Lipski, lle defnyddir y Gymraeg mewn testunau Saesneg er mwyn rhoi blas o'r iaith yn unig. Ond gellir cynnig damcaniaeth arall. Yma, mae fel petai'r Gymraeg yn rhan o'r Saesneg, yn dylanwadu ar iaith Cwm Rhondda, er na welir yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad yn rhugl gan un o'r cymeriadau. Fel y dadleua Ian Rowlands, dramodydd *Marriage of*

Convenience:

Maen nhw'n gweud am y cymoedd – ond d'yn nhw? – bod y Gymraeg dal yn cael ei arddel fan hyn, dal yn cael ei siarad fan hyn, ond trwy gyfrwng y Saesneg. (cyfweliad Ian Rowlands: S4C 2016)

Esbonia fod cystrawen ei fam yn Gymraeg, ond 'ar y gystrawen Gymraeg yna, mae'r Saesneg wedi cael ei gosod', gan gyfeirio at ymadroddion megis 'look you, good boy' neu 'how be?', a'r ambell air Cymraeg sydd ganddi (megis 'didoreth'). Mae Cennard Davies (2018) a Ceri W. Lewis (1995, tt.115–8) ill dau yn dadlau bod y Gymraeg wedi gadael ei hôl ar dafodiaith Cwm Rhondda, er nad yw mwyafrif o boblogaeth y Rhondda heddiw'n siarad Cymraeg. Gellir cymhwyso hyn at ieithwedd cymeriadau *Tonypandemonium*: er mai'r Saesneg y mae'r cymeriadau'n ei siarad, ceir yma eiriau Cymraeg ac ymadroddion Saesneg-Gymreig sy'n nodweddiadol o ieithwedd arbennig Cwm Rhondda (e.e. 'mun', 'gul', 'grancha', 'poor dab'³⁹¹). Mae'r ychydig enghreifftiau o gyfnwid cod yn rhan o'r ieithwedd hon.


O'r adran uchod, gwelir eto fod cyfnwid cod yn chwarae rôl allweddol mewn cymeriadu. Oherwydd bod BD/DBG a *Blood* yn portreadu cymeriadau ffrancoffon, mae'r cyfnwid cod sy'n cael ei ddefnyddio yno'n llawer mwy cyfoethog. Mae enghreifftiau o gyfnwid cod a ddefnyddir er mwyn

³⁹¹ Diddorol nodi bod yr ymadrodd 'poor dab' yn ymddangos fel 'pŵr-dab' yn GPC, ond nad yw'n ymddangos mewn nifer o eiriaduron Saesneg, megis y geiriadur Saesneg sy'n cael ei ddefnyddio yn yr ymchwil hwn (dictionary.com). Ymddengys yn yr *Oxford English Dictionary* (2017) gyda dyfyniadau o'r 1700au a'r 1800au – sy'n profi ei fod wedi bod yn rhan o'r iaith Saesneg, ond nad yw ei ddefnydd yn eang mwyach. Er hynny, mae'n parhau i fod yn air tafodieithol Saesneg-Cymreig a Chymraeg.

cymeriadau'n perthyn i'r categori Ysgogiad/Swyddogaeth 'Creu effaith arbennig'; gwelir bod nifer uchel o enghreifftiau'n perthyn i'r categori hwn yn BD/DBG a *Blood*. Yn fwy na hyn, gwelir bod y testunau o Ganada'n defnyddio amrywiaeth ehangach o gategoriâu Ysgogiad/Swyddogaeth, sy'n dangos bod y cyfnewid cod yn chwarae sawl rôl wahanol yn y testunau.

8.2.8 Deialog Cymeriadau

Yn yr adran isod, dadansoddir yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn ôl deialog cymeriadau.³⁹² Nid oes graff cyfunol ar gyfer y dramâu Saesneg gan nad oes modd eu cyfuno mewn ffordd ystyrion. Trown felly at graffiau'r testunau unigol. Nodir bod rhai o'r cymeriadau a nodir ar y graffiau yn rhai nad ydynt yn ymddangos ar y llwyfan. Trafodwyd eisoes fod recordiad o leisiau rhieni'r efeilliaid yn *Blood* yn cael ei chwarae, tra bo cymeriadau BD/DBG yn dyfynnu cymeriadau eraill.³⁹³



Ffigur 197: Deialog Cymeriadau – BD/DBG


Mae'n naturiol mai'r cymeriad yn BD/DBG sy'n defnyddio mwyaf yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn y ddrama hon yw Corinne gan mai hi yw'r cymeriad ffrancoffon mwyaf canolog i'r ddrama. Y cymeriadau ffrancoffon³⁹⁴

³⁹² Gan neilltuo'r enghreifftiau hynny sy'n ymddangos mewn adrannau eraill o'r testun. Mae monolog yn cael ei gynnwys.

³⁹³ Gweler t.296.


³⁹⁴ Corinne, Marie-Lynn, Jean Joseph, Eddy (mab Moïse), Thérèse a Moïse.

sy'n cyfrannu'r mwyafrif o'r enghreifftiau o gyfnewid cod i'r ddrama, ond mae Elise – sy'n angloffon – hefyd yn cyfrannu ambell enghraifft.



Ffigur 198: Deialog Cymeriadau – MoC

Oherwydd mai monolog yw *Marriage of Convenience*, mae'n naturiol mai 'Man' sy'n dweud mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod. Mae un enghraifft gan lais y sylwebydd³⁹⁵, ac un sy'n amwys, wrth ddisgrifio ymateb pobl ym Mlaenllechau neu Flaencwm yn ei glywed yn siarad Cymraeg – 'No, they're the crachach from the Welsh school, aren't they' (MoC 92).



Ffigur 199: Deialog Cymeriadau – *Blood*

Yn naturiol, Angelique a Poubelle sy'n defnyddio mwyafrif y cyfnewid cod yn y ddrama *Blood*. Mae eu tad yn defnyddio tipyn o Ffrangeg, a cheir hefyd un enghraifft gan Max, sy'n angloffon. Diddorol nad oes unrhyw enghreifftiau o'r Ffrangeg yn neialog Dr Glass. Bu rhaid i'r efeilliaid ddysgu'r Saesneg er mwyn

³⁹⁵ Fel y trafodwyd eisoes, tybier bod 'Man' a 'Voiceover' yn elfennau o'r un cymeriad y cyfeirir ato fel 'Alex' yn y testun.

cyfathrebu â'r doctor,³⁹⁶ gan nad yw ef yn medru'r Ffrangeg – ac mae hyn yn amlwg o'r graff hwn. Mae gwahaniaeth mawr i'w weld rhwng Angelique a Poubelle yn y graff uchod, sydd ychydig yn annisgwyl; Poubelle yw'r cymeriad mwyaf gwrthryfelgar – dywed Dr Glass ei bod yn hoff o arwain ei chwaer (Bd 14). O'r herwydd, byddai disgwyl iddi hi ddefnyddio mwy o'r Ffrangeg, yn enwedig o gofio eu bod yn cael cerydd gan Dr Glass am beidio â defnyddio'r Saesneg:

Poubelle: It's nothing, Monsieur...a, *une place pour les legumes*
Glass: ENGLISH! (Bd 103)

Y golygfeydd rhwng Angelique a Max sy'n golygu fod Angelique yn defnyddio mwy o gyfnewid cod na'i chwaer. Yn syml, mae Angelique yn ymddangos mewn mwy o olygfeydd na'i chwaer – ond mae rhywbeth arbennig am y golygfeydd â Max. Defnyddia nifer fawr o eiriau Ffrangeg³⁹⁷ wrth drafod â Max am ddau reswm. Yn un, maent yn trafod geiriau Ffrangeg a phwysigrwydd iaith. Yn ail, gan nad yw Dr Glass yn bresennol, nid oes gorfodaeth i beidio â defnyddio'r Ffrangeg. Mae Poubelle hefyd yn ymddangos mewn golygfeydd heb Dr Glass,³⁹⁸ ond nid yw'n defnyddio cymaint o enghreifftiau o gyfnewid cod â'r cymeriad Angelique. Gwelir felly nad yw'r Ffrangeg yn cael ei defnyddio er mwyn dangos cryfder cymeriad Poubelle yn unig, ond er mwyn dangos perthynas Angelique a Max.

³⁹⁶ Dywed Angelique 'Monsieur made us read books in English so we could learn English words' (Bd 46); dywed Max fod hyn er mwyn i'r Doctor allu cyfathrebu â hwy. Ymateb Angelique yw 'He never learned French' (Bd 46), gan ddangos mai ar y plant ffrancoffon mae'r cyfrifoldeb i ddysgu ail iaith, nid yr oedolyn angloffon sy'n gofalu amdanynt. Trafodir y cysyniad hwn ymhellach ym mhennod 10: Theori lenyddol.

³⁹⁷ Mae 40 o'r enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n rhan o ddeialog Angelique yn digwydd mewn sgysiau rhyngddi hi a Max yn unig (golygfeydd 12, 18 a 22); mae dechrau a diwedd golygfa 22 gyda Poubelle yn ogystal, ond mae hi'n gadael er mwyn mynd i'r seler.


³⁹⁸ Ceir golygfa rhwng Poubelle, Angelique a Max gyda'i gilydd (golygfa 20), a golygfa gyda Poubelle a Max yn unig (golygfa 26).



Ffigur 200: Deialog Cymeriadau – *Tonypandemonium*

Yn *Tonypandemonium* mae Deborah yn defnyddio un enghraifft o gyfnewid cod, a Danielle #1 yn defnyddio'r enghraifft arall. Mae'r ffaith mai'r Danielle naw mlwydd oed yn hytrach na'r Danielle hŷn sy'n defnyddio brawddeg Gymraeg – a hynny wrth ei hathro – yn atgyfnerthu'r ffaith mai prin yw'r Gymraeg y tu hwnt i waliau'r ysgol, fel y gwelwyd eisoes yn achos Alex yn *Marriage of Convenience*.

8.2.9 Nodweddion Gramadegol



O'r graffiau uchod, gwelir bod pob enghraifft o enw laith₂ yn cael ei defnyddio â bannod Saesneg lle disgwylir hynny.³⁹⁹ Nid oes enghreifftiau perthnasol yn *Blood* na *Tony* *pandemonium*.

8.3 Casgliadau

O'r adran uchod, gwelir bod rhaniad rhwng y testunau Cymreig a Ffrengig. Pwysleisiwyd y ffaith mai sbectrwm yw cyfnewid cod (Auer 1999), ac mae'r testunau Cymreig hyn yn sicr yn perthyn i ochr bellaf y sbectrwm, gan fod y nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod ynddynt yn isel iawn. Dyma sy'n cael ei ddangos gan y data presennol, ond tybir y byddai dadansoddi testunau gwahanol yn newid y rhaniad hwn rhwng y testunau Cymreig a Ffrangeg-Ganadaidd. Mae'r testunau Ffrangeg-Ganadaidd yn portreadu cymeriadau dwyieithog, sy'n defnyddio mwy o gyfnewid cod. Gwelwyd eu bod yn defnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol, sy'n nodweddiadol o destunau Math II damcaniaeth Lipski. Ond gwelwyd nifer fawr o enghreifftiau o gyfnewid mewnfrawddegol yn ogystal – er ei fod yn gyfnewid mwy syml na'r cyfnewid sydd i'w weld yn y testunau Math III. Awgrymwyd y dylid ychwanegu'r manylyn hwn at ddamcaniaeth Lipski.

Mae'r testunau Math I yn dangos cymdeithas nad yw'n ddwyieithog – yn arbennig cymdeithas Gymreig lle nad yw mwyafrif y cymeriadau'n medru'r Gymraeg. Er hyn, mae ôl y Gymraeg ar yr ieithwedd, gan awgrymu mai Saesneg Cymreig sydd yma. Yn ogystal, mae nifer fawr o eiriau na ellid eu hystyried fel cyfnewid cod, ond sy'n rhoi blas Cymreig iawn i'r testunau. Ceir nifer o enghreifftiau o enwau priod – er enghraifft enwau llefydd Cymraeg – yn

³⁹⁹ Nid yw hyn yn cyfrif ymadroddion enwol sy'n defnyddio bannod o'r laith₂ gyda'r enw. Mae nifer o enghreifftiau o hyn yn y testunau sy'n defnyddio cyfnewid Saesneg-Ffrangeg (e.e. 'Because of *l'accident*' (Bd 45)).

ogystal â llawer o eiriau benthyg neu dafodiaith, megis ‘mam’,⁴⁰⁰ ‘twp’, ‘mun’, ‘grancha’ neu ‘poor dab’. Mae cydblethu'r ieithweddau hyn yn help i bortredu cymdeithas Gymreig nad yw'n siarad Cymraeg i raddau helaeth.⁴⁰¹

Pwysleisiwyd hefyd fod nifer o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn perthyn i'r ieithwedd honno a ddisgrifir gan Backus (2001) fel ‘semantically specific’ – geiriau sy'n anodd eu cyfieithu. Cyfeiriwyd at awgrym Poplack (1981) bod geiriau ‘ethnically specific’ yn fwy tebygol o gael eu defnyddio wrth gyfathrebu â *nongroup members*; gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol i destunau Saesneg sy'n defnyddio cyfnewid cod. Mae hefyd nifer fawr o enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n perthyn i ieithwedd fwy cyffredinol. Gwneir defnydd eang o eirfa a fyddai'n gyfarwydd i gynulleidfa gydag ychydig o Gymraeg neu Ffrangeg. Mae hon yn ffordd o sicrhau dealltwriaeth y gynulleidfa, yn enwedig o gofio nad oes defnydd o uwchdeitlau, ac ychydig iawn o enghreifftiau o ailadrodd neu aralleirio. Yn hytrach, gwelir sawl enghraifft o'r ystyr yn cael ei ddyblygu yn y Saesneg, heb ailadrodd neu aralleirio'n union.


⁴⁰⁰ Yn amlwg, nid yw ‘mam’ yn unigryw i'r Gymraeg – mae hefyd yn rhan o dafodiaith gogledd Lloegr. Fodd bynnag, gan fod y cymeriadau'n Gymreig, mae'r ffaith eu bod yn defnyddio ‘mam’ yn hytrach na'r gair Saesneg safonol ‘mum’ yn ychwanegu at y portread ieithyddol o'r hunaniaeth hon.

⁴⁰¹ Fel y nodwyd eisoes, mae 12.3% o boblogaeth Rhondda Cynon Taf yn medru'r Gymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011 (Ystadegau'r Boblogaeth a'r Cyfrifiad & Llywodraeth Cymru 2012b). Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 (Llywodraeth Cymru 2015), mae 35% o'r siaradwyr Cymraeg hynny'n defnyddio'r iaith yn llai nag wythnosol, sy'n dangos tueddiadau ieithyddol yr ardal.

9: Trafodaeth

Yn yr adran hon, byddaf yn tynnu'r corpws cyfan at ei gilydd i drafod canlyniadau'r gwaith codio, gan drafod y patrymau yn y corpws yn ogystal â'r isadrannau (e.e. nofelau, testunau Ffrangeg).⁴⁰² Bwriad y bennod hon yw cynnig trosolwg o'r corpws cyfan, a thrafod tueddiadau ehangach cyfnewid cod. Rhaid cofio mai corpws cymharol fychan sydd yma, wedi'i ffurfio o 24 testun.⁴⁰³ O'r herwydd, ni ellir honni ei fod yn wirioneddol gynrychiadol o batrymau cyfnewid cod, ond mae'n gam cyntaf addawol.

9.1 Cymhareb



Figur 204: Cymhareb – Trosolwg o'r Corpws Cyfan

Ceir 11,446 enghraifft o gyfnewid cod yn y corpws cyfan, ar draws 4631

tudalen, sy'n rhoi cymhareb o 2.47.⁴⁰⁴ Wrth edrych ar y graff uchod, mae sawl

⁴⁰² Os bydd sawl graff i'w drafod, byddant yn ymddangos yn y drefn ganlynol: y corpws cyfan yn gyntaf; y dramâu; y nofelau; testunau Cymraeg; testunau Ffrangeg ac yna'r testunau Saesneg.

⁴⁰³ Fel y nodwyd yn y bennod methodoleg, mae'r corpws hwn o faint cymharol â chorpora Montes-Alcalá (2013b; 2015) a Callahan (2004); gweler t.71.

⁴⁰⁴ Cymhareb y corpws cyfan: 11446 enghraifft / 4631 tudalen = 2.47

Cymhareb y dramâu: 2566 enghraifft / 846 tudalen = 3.03

Cymhareb y nofelau: 8880 enghraifft / 3785 tudalen = 2.35

Cymhareb y testunau Cymraeg: 6360 enghraifft / 1415 = 4.49

Cymhareb y testunau Ffrangeg: 4248 enghraifft / 1819 = 2.34

Cymhareb y testunau Saesneg: 838 enghraifft / 1397 = 0.60

Ceir manylion am gymhareb cyfnewid cod testunau unigol yn yr adrannau blaenorol perthnasol.

peth i'w nodi. Yn gyntaf, gwelir bod y dramâu â chymhareb cyfnewid cod uwch na'r nofelau (dramâu 3.03; nofelau 2.35). Mae'r un duedd i'w gweld yn y tair iaith. Wrth edrych yn fanylach ar yr ieithoedd, mae'r gymhareb uchaf i'w gweld yn y testunau Cymraeg, yna'r testunau Ffrangeg, a'r isaf yn y testunau Saesneg; mae hyn yn gyson drwy'r dramâu a'r nofelau. Mae'n ddiddorol nodi mai gwahaniaeth bach sydd i'w weld rhwng y dramâu a'r nofelau yn y Gymraeg (5.03; 4.38) a'r Ffrangeg (2.73; 2.25). Mae'r gwahaniaeth fymryn yn fwy yn y Saesneg (1.44; 0.41). Awgryma hyn fod tueddiadau cyfnewid cod yn aros yn weddol gyson rhwng ffurfiau llenyddol, ac yn fwy cysylltiedig â'r ieithoedd sy'n cael eu cyfnewid. Mae'r bwlch sydd i'w weld rhwng cymhareb y testunau Ffrangeg a'r testunau Cymraeg yn un trawiadol. Nid yw'n syndod fod y testunau Saesneg â chymhareb llawer is na'r testunau Cymraeg a Ffrangeg – mae hynny'n rheidwydd er mwyn sicrhau dealltwriaeth cynulleidfa sy'n debygol o fod yn uniaith Saesneg, neu a chanddynt sgiliau dwyieithog cyfyngedig. Ond mae gan gynulleidfa ragdybiedig y testunau Cymraeg a Ffrangeg ill dwy sgiliau dwyieithog cryf.⁴⁰⁵ Felly pam fod cymaint o fwch i'w weld rhwng cymhareb y testunau Cymraeg a'r testunau Ffrangeg? Yr awgrym yw bod patrwm gwahanol o gyfnewid cod yn bodoli ar gyfer Cymraeg-Saesneg a Ffrangeg-Saesneg; archwilir hyn yn y bennod hon.


Mae'r ffaith bod mwy o gyfnewid cod yn cael ei ddefnyddio yn y dramâu o'i gymharu â'r nofelau ychydig yn annisgwyl. Gan fod y ddrama'n gyfrwng sy'n byw mewn ennyd (*ephemeral*), a'r pwyslais yn amlwg ar yr hyn sydd i'w glywed, mae'n golygu nad oes gan aelodau o'r gynulleidfa gyfle i wirio gair neu i ailddarllen fel y gall darllenydd nofel. Bron na fyddem wedi disgwyl llai o

⁴⁰⁵ Hynny yw, mae'r gynulleidfa ragdybiedig yn hollol rugl yn y ddwy iaith.

gyfnewid cod yn y dramâu oherwydd hyn. Mae hyn yn arbennig o wir am y dramâu Saesneg, o gofio mai sgiliau iaith₂ cyfyngedig fyddai gan lawer o'r gynulleidfa darged. Wrth gwrs, rhaid cofio bod elfen berfformiadol drama yn ychwanegu elfen arall o ystyr, elfen nad yw hi ar gael i destunau ysgrifenedig. Drwy berfformio, ceir cliwiau ynglŷn â'r ystyr, er efallai na fyddai'r gair neu'r frawddeg iaith₂ ei hunan yn ddealladwy i aelod o'r gynulleidfa nad yw'n medru'r iaith₂. Gellir diddwytho ystyr o oslef yr actor, ei osgo, a'r ffordd y mae'r cymeriadau'n ymateb i'w gilydd. Gall fod yr elfen hon yn bwysig i destunau sy'n defnyddio cyfnewid cod. Wrth edrych ar y gymhareb, gwelir mai cymhareb y nofelau Saesneg yw 0.41, a chymhareb y dramâu Saesneg yw 1.44. Fodd bynnag, nid yw'r gymhareb yn rhoi unrhyw fanylion pellach inni am natur a chymhlethdod y cyfnewid cod. Gall fod mai cyfnewid ailadroddus, hawdd ei ddeall sydd yn y dramâu. Rhoi argraff yn unig inni y mae'r gymhareb – ffordd hwylus ydyw o gymharu'r nifer o enghreifftiau o gyfnewid cod mewn testunau sydd o hyd amrywiol.

Mae Ffigur 205 yn dangos cymhareb pob testun, a'r gymhareb ar gyfer y corpws cyfan ar y llinell lwyd (2.47).⁴⁰⁶


⁴⁰⁶ Mae'r testunau wedi'u grwpio fesul iaith. Mae'r drefn fel a ganlyn: dramâu Cymraeg (*Sundance, Wal, Llwyth, A Good Clean Heart*); nofelau Cymraeg (*Dyn yr Eiliad, Martha Jac a Sianco, Lladd Duw, Y Ddyled*), dramâu Ffrangeg (*Le Chien, Moncton Sable, Bullshit, Laurie*), nofelau Ffrangeg (*Volkswagen Blues, Bloupe, Xman, Pour Sûr*), dramâu Saesneg (*Marriage of Convenience, Beautiful Deeds/De beaux gestes, Blood, TonyPandemonium*), nofelau Saesneg (*Bones to Ashes, Submarine, New Tab, Pigeon*).



Ffigur 205: Cymhareb – Pob Testun


Mae'n amlwg fod cymhareb sawl testun yn llawer uwch na'r gymhareb hon (*Lladd Duw* a *Sundance* yn arbennig), a rhai'n llawer is (*Submarine*, *Tonypandemonium*). Mae hyn yn cynrychioli'r amrywiaeth o gyfnewid cod mewn llenyddiaeth sydd ar y farchnad. Fodd bynnag, gwelir bod gan nifer o'r testunau gymhareb rhwng 2 a 5, a chymhareb rhwng 4 a 5 gan saith o'r testun. Nid yw'r rhain oll yn destunau ar gyfer cynulleidfa hollol ddwyieithog, ychwaith – mae BD/DBG yn destun Saesneg. Felly, er bod cymhareb y testunau Saesneg yn is na'r corpws cyfan, nid yw'n wir fod *pob* testun Saesneg â chymhareb is na'r testunau Cymraeg a Ffrangeg. Dengys hyn fod modd defnyddio llawer o gyfnewid cod heb alw am sgiliau iaith₂ gan y gynulleidfa. Hefyd, mae gan sawl testun Cymraeg a Ffrangeg gymhareb isel o gymharu â'r corpws cyfan, sy'n dangos nad yw sgiliau dwyieithog cryf yn golygu y bydd nifer uchel o enghreifftiau o gyfnewid cod yn ymddangos mewn testun.

9.2 Adran



Ffigur 206: Adran – Y Corpws Cyfan





O Ffigur 206 uchod, mae'n amlwg mai yn y ddeialog y mae cyfnewid cod yn cael ei ddefnyddio fwyaf (69.2%). Mae'r tueddiad hwn hefyd i'w weld yn y dramâu (81.7%) a'r nofelau (65.6%) (Ffigur 207 a Ffigur 208). Mae'r pwyslais hwn ar y ddeialog yn awgrymu mai ffenomen lafar yw cyfnewid cod – sydd efallai'n esbonio pam fod cymhareb y dramâu yn uwch na chymhareb y nofelau. Nid oes llawer o wahaniaeth i'w weld rhwng y testunau Ffrangeg a Chymraeg – cyfradd ddigon tebyg sydd i'w gweld ynddynt, gyda'r pwyslais ar y ddeialog a'r naratif.⁴⁰⁷ Gwelir bod y testunau Saesneg yn defnyddio mwy o ddyfynnu na'r testunau Cymraeg a Ffrangeg (8.9%).⁴⁰⁸ Mae hyn yn awgrymu cysylltiad rhwng cyfnewid cod a chymeriadu, gyda'r laith₂ yn y testun Saesneg yn cael ei defnyddio er mwyn dangos hunaniaeth a chysylltiad Cymreig/Ffrengig.




Ffigur 207: Adran – Dramâu

⁴⁰⁷ Trafodwyd eisoes fod monologau'n cael eu defnyddio yn y dramâu Cymraeg ond nid yn y dramâu Ffrangeg, sy'n golygu bod gwahaniaeth yng nghanran yr enghreifftiau sy'n perthyn i 'deialog' yn y ddau achos (gweler graffiau yn Atodiad IV).

⁴⁰⁸ Yn defnyddio mwy o ddyfynnu o ran canran, nid o ran nifer.



9.3 Hyd



Ffigur 212: Hyd – Y Corpws Cyfan


Mae pwyslais amlwg i'w weld ar gyfnewid cod mewnfrawddegol (77.5%). Er mai cyfnewid mewnfrawddegol sydd i'w weld yn y dramâu (60.3%) a'r nofelau (82.5%) (Ffigur 213 a Ffigur 214), mae'r gyfradd yn wahanol. Mae ychydig yn annisgwyl fod 39.7% o'r cyfnewid yn y dramâu yn rhyngfrawddegol, o gymharu â 17.5% yn y nofelau. Wrth edrych ar y dramâu unigol,⁴⁰⁹ gwelir bod dwy ddrama'n defnyddio mwy o gyfnewid rhyngfrawddegol na mewnfrawddegol: AGCH (80.3%), *Llwyth* (54.4%).⁴¹⁰ Maent yn gwneud defnydd o sgysiau sy'n gyfan gwbl yn yr Iaith₂ – mae hyn yn arbennig o wir am AGCH, sy'n cynnwys sawl cymeriad uniaith Saesneg, a hynny'n esbonio pam fod y gyfradd o gyfnewid rhyngfrawddegol mor uchel. Mae cyfradd uchel AGCH o gyfnewid rhyngfrawddegol yn cael rhywfaint o effaith ar y corpws, ond hyd yn oed o'i eithrio o'r data, gwelir bod 35% o gyfnewid y dramâu yn rhyngfrawddegol. Ymddengys fod hyn yn atgyfnerthu dadl Lipski (1982) fod cyfnewid rhyngfrawddegol yn llai cymhleth na chyfnewid mewnfrawddegol.⁴¹¹ O'r


⁴⁰⁹ Gweler penodau 6-8. Gellir hefyd weld y graffiau a'r tablau yn Atodiad IV.

⁴¹⁰ Nodir bod mwyafrif enghreifftiau *Blood* yn gyfnewid rhyngfrawddegol (50.3%), ond mae'n gyfradd eithaf cytbwys.

⁴¹¹ Mae'n cael ei ystyried yn llai cymhleth oherwydd nad yw'r cyfnewid o fewn brawddeg, sy'n gymhleth o safbwynt gramadeg a chystrawen. Ceir trafodaeth ehangach ar ddamcaniaeth Lipski ym mhennod 1.

herwydd, mae'n bosib fod dramodwyr yn ffafrio defnyddio mwy o gyfnewid rhyngfrawddegol na nofelwyr.





Nid oes gwahaniaeth mawr i'w weld rhwng y tair iaith, gyda'r pwyslais ar gyfnewid mewnfrawddegol ym mhob achos (Cymraeg 77.8%; Ffrangeg 78.4%; Saesneg 71.3%). Gan fod sgiliau ieithyddol gwahanol gan gynulleidfa ragdybiedig y testunau Saesneg o'i chymharu â chynulleidfa ragdybiedig y testunau Ffrangeg a Chymraeg, diddorol mai'r un patrwm cyfnewid cod sydd i'w weld o ran hyd.⁴¹²

Wrth edrych ar y testunau unigol,⁴¹³ gwelir bod tri thestun yn defnyddio cyfradd uchel iawn⁴¹⁴ o gyfnewid mewnfrawddegol, sef *Dyn yr Eiliad* (96.1%), *Pour Sûr* (93.1%) a *Laurie* (95.2%).⁴¹⁵ Awgryma hyn fod y cyfnewid cod yn cael ei ddefnyddio gan yr awdur fel rhan o ieithwedd cymeriadau unigol – mae'r ddwy iaith yn cael eu cyd-blethu gan greu un ieithwedd. Gwelir bod nifer o'r testunau yn defnyddio cyfradd eithaf cytbwys o gyfnewid mewnfrawddegol a

⁴¹² Er, wrth gwrs, mae llai o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y testunau Saesneg er bod yr un patrwm i'w weld.

⁴¹³ Gweler penodau 3-8, neu Atodiad IV.

⁴¹⁴ Dros 90% o enghreifftiau'n gyfnewid mewnfrawddegol. Nid yw *Lladd Duw* yn bell o gyrraedd y rhestr uchod, gyda 89.6% o enghreifftiau'n gyfnewid mewnfrawddegol.

⁴¹⁵ Ceir dau destun sy'n defnyddio dim ond cyfnewid mewnfrawddegol – *Marriage of Convenience* a *Submarine* – ond nifer fach o enghreifftiau sydd yn y testunau hyn, felly maent yn perthyn i Math I Lipski, sef testunau sy'n defnyddio cyfnewid cod 'thrown in for flavor' (Lipski 1982, t.195).

rhyngfrawddegol, megis *Bloupe* (46.4% mewnfrawddegol, 53.5% rhyngfrawddegol) a *Blood* (49.7% mewnfrawddegol, 50.3% rhyngfrawddegol). Mae sawl testun yn gwneud defnydd o sgysiau sy'n gyfan gwbl yn yr Iaith₂, fel y trafodwyd eisoes yn achos AGCH a *Llwyth*. Drwy gynnwys sgysiau uniaith Iaith₂, mae'r testunau hyn yn portreadu *cymdeithas* sy'n ddwyieithog, yn hytrach na dangos cyfnewid cod fel nodwedd o ieithwedd cymeriad dwyieithog (gweler Orwig 2015, t.182).

9.4 Dosbarth Gramadegol

Ar gyfer yr adran hon, penderfynwyd cynnwys tablau wedi'u symleiddio, gan ganolbwyntio ar y pum categori Dosbarth Gramadegol gyda mwyafrif yr enghreifftiau. Gellir gweld y tablau cyflawn yn Atodiad IV (t.465).

enw	2919	25.5%
brawddeg	2328	20.3%
ansoddair	1213	10.6%
ymadrodd enwol	1200	10.5%
ebychiad	659	5.8%

Tabl 100: Dosbarth Gramadegol – Y Corpws Cyfan

brawddeg	925	36.0%
enw	580	22.6%
ebychiad	255	9.9%
ansoddair	194	7.6%
ymadrodd enwol	180	7.0%

Tabl 101: Dosbarth Gramadegol – Dramâu

enw	2339	26.3%
brawddeg	1403	15.8%
ymadrodd enwol	1020	11.5%
ansoddair	1019	11.5%
cymal	489	5.5%

Tabl 102: Dosbarth Gramadegol – Nofelau

enw	1591	25.0%
brawddeg	1316	20.7%
ansoddair	856	13.5%
ymadrodd enwol	758	11.9%
cymal	386	6.1%

Tabl 103: Dosbarth Gramadegol –
Testunau Cymraeg

enw	1073	25.3%
brawddeg	823	19.4%
ymadrodd enwol	346	8.1%
ansoddair	331	7.8%
ebychiad	316	7.4%

Tabl 104: Dosbarth Gramadegol –
Testunau Ffrangeg


enw	255	30.4%
brawddeg	189	22.6%
ymadrodd enwol	96	11.5%
cymal	79	9.4%
ebychiad	60	7.2%

Tabl 105: Dosbarth Gramadegol – Testunau Saesneg

Mae'n ddiddorol gweld bod y pum categori â'r ganran uchaf o enghreifftiau'n debyg iawn ym mhob achos. Ceir 'brawddeg', 'enw' ac 'ymadrodd enwol' ym mhob tabl, 'ansoddair' yn ymddangos mewn pum tabl, 'ebychiad' yn ymddangos mewn pedwar tabl a 'cymal' mewn tri. Yr un tueddiadau sydd i'w gweld wrth edrych ar y testunau unigol (gweler Atodiad IV, t.465). Golyga hyn fod cyfnewid cod yn cyfateb i batrwm tebyg, heb newid llawer rhwng ieithoedd neu ffurfiau. Gwelir bod y corpws hwn yn dilyn awgrymiad Gardner-Chloros: '[n]ouns may be the most frequently borrowed – and switched – word-class owing to their grammatically self-contained character, but all grammatical categories are potentially transferable' (2009, t.31). Enwau sydd fwyaf tebygol o gael eu cyfnewid, ond mae amrywiaeth fawr o gategoriâu Dosbarth Gramadegol yn y corpws. Yn sicr, nid yw hyn yn dilyn awgrymiad Joshi na ellir cyfnewid 'closed-class items' megis 'determiners, quantifiers, prepositions, tense morphemes, auxiliaries, complementizers, pronouns, etc.' (1985, t.191). Mae categorïau mwy cymhleth yn cael eu defnyddio mewn nifer o'r testunau – megis berfau,

adferfau ac arddodiad.⁴¹⁶ Patrwm tebyg sydd i'w weld yng nghorpws Callahan (2004, t.48), lle mae mwyafrif yr enghreifftiau yn enwau (39%), ond ceir hefyd enghreifftiau o gysyllteiriau, adferfau a berfau. Yng nghorpws y traethawd presennol, ceir berfau⁴¹⁷ ym mhob iaith a ffurf lenyddol, a'r mwyafrif ohonynt yn y testunau Ffrangeg a'r nofelau. Dengys hyn nad yw'r cyfnewid cod yn y corpws hwn yn dilyn awgrymiad Pfaff (1979), sy'n seiliedig ar gorpws Sbaeneg-Saesneg, na ellir cyfnewid berfau.

9.5 Maes Semanteg



Ffigur 218: Maes Semanteg – Y Corpws Cyfan

'Term Saesneg' yw'r categori Maes Semanteg â'r nifer fwyaf o enghreifftiau yn y corpws (2193 enghraifft; 19.2%). Mae hwn yn air sy'n anodd ei gyfieithu, sy'n dangos mai dyma sy'n gyrru llawer o'r enghreifftiau o gyfnewid cod – manteisio ar nodwedd ieithyddol unigryw yn yr iaith₂. Yr un ffenomen sy'n esbonio 'ymadrodd gosod' (862 esiampl; 7.5%). Mae siaradwyr dwyieithog yn gwneud

⁴¹⁶ Ceir sawl enghraifft o'r arddodiad yn *Martha Jac a Sianco*, nofel nad yw'n defnyddio cyfnewid cod arbennig o arbrofol na chymhleth – yr arddodiad 'ambwti' neu 'bwti' sydd yma, sy'n nodwedd gyffredin o'r dafodiaith leol, er nad yw'r gair wedi ei gofnodi yn GPC.

⁴¹⁷ Wrth ddadansoddi'r cyfnewid cod, gwahaniaethwyd rhwng berfenwau a berfau. Roedd nifer o'r enghreifftiau hyn yn cynnwys cyfnewid o fewn gair, gyda bôn y ferf yn cael ei gymryd o'r iaith₂ gan gymryd ôl-ddodiad berfol o'r iaith₁ (e.e. 'watcho' 'celebrato', 'ciwrio', 'gossiperait', 'checker', 'parké'). Cofnodwyd enghreifftiau o'r fath fel 'Cymreigio/Ffrangegeiddio/Seisnigo berf' er mwyn dangos bod y ferf yn cael ei haddasu.

defnydd o'u dwy iaith am amryw resymau; archwilir pa resymau sy'n sbarduno cyfnewid cod yn yr adran nesaf ar Ysgogiad/Swyddogaeth. Mae 'amwys'⁴¹⁸ yn cynnwys nifer o enghreifftiau (1542 esiamp; 13.5%), a 'sgwrs'⁴¹⁹ (1465 enghraifft; 12.8%). Gwelir bod 'Ffrangegeiddio berf Saesneg' yn cynnwys nifer fawr o enghreifftiau (386 enghraifft; 3.4%), sy'n drawiadol gan mai graff ar gyfer y corpws cyfan sydd yma, ac felly'n cynnwys y testunau Cymraeg a Saesneg. O grwpio 'Cymreigio/Seisnigo/Ffrangegeiddio berf' at ei gilydd, maent yn cyfateb i 5.3% o holl enghreifftiau'r corpws, sy'n dangos bod dros hanner yr enghreifftiau yn 'Ffrangegeiddio berf Saesneg'. Dim ond 1.9% o holl enghreifftiau'r corpws (214 enghraifft) yw 'Cymreigio berf Saesneg'. Awgryma hyn fod berfau'n fwy canolog i gyfnewid cod Ffrangeg na chyfnewid cod Cymraeg.⁴²⁰ Ceir nifer o enghreifftiau hefyd o'r categori 'llysenw' (313 enghraifft; 2.7%), sy'n dangos chwarae â dwyieithrwydd wrth greu llysenwau. Mae meysydd tabŵ i'w gweld yn y graff uchod, megis rhegfeydd (9.5%), cyffuriau (2.2%), a rhyw (1.5%). Awgryma hyn fod cysylltiad rhwng meysydd tabŵ a chyfnewid cod, efallai oherwydd eu bod yn haws eu trafod mewn iaith₂. Noda Callahan gysylltiad rhwng geiriau tabŵ a chyfnewid cod, gan nodi 'it is not unusual for codeswitching to co-occur with taboo words, which are an unmistakable marker of a register associated with an informal style' (2003, t.15). Dadleua Callahan fod cyfnewid cod Sbaeneg-Saesneg yn cael ei lesteirio gan gyweiriau mwy ffurfiol. Ond ai'r geiriau tabŵ sy'n cyd-ddigwydd gyda'r cyfnewid cod, neu ai'r geiriau tabŵ sy'n ysgogi cyfnewid cod? Tybir nad cyd-


⁴¹⁸ Term nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw Faes Semanteg arbennig.

⁴¹⁹ Sef sgwrs uniaith iaith₂.


⁴²⁰ Awgrymir bod y ffaith fod nifer o ferfau sy'n deillio o'r Saesneg yn cael eu cofnodi yn GPC yn cael effaith ar hyn. Yn sicr, wrth ddefnyddio'r GPC i wahaniaethu rhwng cyfnewid cod a geiriau benthg, eithriwyd nifer o ferfau o'r corpws hwn, megis 'dablo', 'ffindio', 'dreifio', 'snogio', 'trafaelio'. Ni ellir dadlau hyn â sicrwydd, gan mai nodiadau bras a gadwyd ar eiriau benthg, yn hytrach na rhestr gynhwysfawr o'r holl enghreifftiau.

ddigwyddiad sydd yma, ond mai'r tabŵ sy'n sbarduno'r cyfnewid cod. Fel y dywed Pavlenko, 'studies of bilinguals' language use [...] have long suggested that bilinguals commonly perceive L1 taboo and swearwords as more emotional than L2 swearwords' (2008, t.157), ac fel yr esbonia un siaradwraig Cantoneg:


When the subject involves cultural taboos such as sex or swear words I prefer to use English (...). I feel less inhibited using L2 about cultural taboos probably because I don't feel the emotional intensity so strongly in L2. (Dewaele 2004, t.96)




Ffigur 219: Maes Semanteg – Dramâu




Ffigur 220: Maes Semanteg – Nofelau



Ffigur 221: Maes Semanteg – Testunau Cymraeg



Ffigur 222: Maes Semanteg – Testunau Ffrangeg



Ffigur 223: Maes Semanteg – Testunau Saesneg

O edrych ar y graffiau ar gyfer y ffurfiau llenyddol a'r tair iaith, daw patrymau gwahanol i'r amlwg. Yn y dramâu (Ffigur 219), mae 22.8% (585 enghraifft) o'r

enghreifftiau yn 'sgwrs', sef sgwrs uniaith iaith₂. Mae hyn yn dangos mai cymeriadau'n newid iaith yn gyfan gwbl – yn hytrach na chyfnewid ambell air neu ymadrodd – sy'n gyfrifol am lawer o'r cyfnewid cod yn y dramâu. Mae 16.7% o'r enghreifftiau yn y dramâu'n perthyn i 'amwys' (429 enghraifft), sef geirfa nad yw'n perthyn i gategori Maes Semanteg penodol. Awgryma hyn nad trafod pwnc arbennig yw'r sbardun ar gyfer cyfnewid cod yn y dramâu. Gwelir bod patrwm o gyfnewid cod mwy cyfyngedig yn y dramâu, gan ei fod yn ffafrio tri chategori ('sgwrs', 'amwys', 'term Saesneg'), tra bo'r nofel yn ffafrio pum categori ('term Saesneg', 'amwys', 'rheg', 'sgwrs', 'ymadrodd gosod').

Mae 20.4% o'r enghreifftiau yn y nofelau'n perthyn i 'term Saesneg' (1815 enghraifft), sef gair sy'n anodd ei gyfieithu. Awgryma hyn mai nodwedd ieithyddol unigryw sy'n gyrru cyfnewid cod yn y nofelau. Gwelir bod 'amwys' eto'n cynnwys nifer fawr o enghreifftiau (1113 enghraifft; 12.5%), fel yn y dramâu. Mae rhegfeydd yn gyfrifol am 11% o'r enghreifftiau o gyfnewid cod yn y nofelau (977 enghraifft). Dim ond 4.5% (115 enghraifft) o'r enghreifftiau yn y ddrama sy'n rhegfeydd. Fodd bynnag, rhaid nodi bod mwyafrif yr enghreifftiau (685 enghraifft) yn deillio o un nofel, sef *Lladd Duw*.

Wrth edrych ar y categorïau Maes Semanteg, gellir cael darlun da o'r amrywiaeth o gyfnewid cod a geir yn y corpws. Mae 80 categori Maes Semanteg yn y corpws cyfan.⁴²¹ Dim ond 41 o'r categorïau hyn sy'n bresennol yn y testunau Saesneg – o gymharu â 70 yn y testunau Cymraeg a 59 yn y testunau Ffrangeg. Awgryma hyn fod y cyfnewid cod yn y testunau Saesneg yn llai cymhleth gan ei fod yn defnyddio llai o amrywiaeth. Mae canran uchel o'r enghreifftiau yn y testunau Saesneg yn perthyn i'r categori 'sgwrs', gyda'r

⁴²¹ Er bod croesgyffwrdd; er enghraifft, nodir 'Cymreigio berf Saesneg' a 'Ffrangegeiddio berf Saesneg' ar wahân, er mai'r un broses sydd dan sylw.

mwyafrif yn deillio o ddau destun, sef *Blood* a *Pigeon*, testunau sy'n darparu cymorth ieithyddol o fewn y testun.⁴²² Mae 'teulu' hefyd yn cynnwys nifer o enghreifftiau (22%). Eto, yn *Blood* a *Pigeon* y ceir llawer o'r enghreifftiau hyn. Mae'r defnydd o deitlau teuluol yn marcio hunaniaeth yn glir heb achosi diffyg dealltwriaeth, gan eu bod yn eiriau cyfarwydd. Maent hefyd yn gysylltiedig â thema ganolog y ddau destun, sef teulu a pherthyn.

O droi at y testunau Cymraeg, gwelir mai'r categorïau â'r nifer fwyaf o enghreifftiau yw 'term Saesneg' (18.5%), 'rheg' (14.9%) a 'sgwrs' (13.6%). Yn y testunau Ffrangeg, mae 'term Saesneg' yn cynnwys 24% o'r holl enghreifftiau ac 'amwys' yn cynnwys 17%. Awgryma hyn nad yw cyfnewid cod Ffrangeg-Saesneg yn cael ei ysgogi gan feysydd penodol; er bod enghreifftiau o hyn yn y corpws, nid ydynt yn cynnwys nifer uchel o enghreifftiau.

9.5.1 Categorïau Maes Semanteg eang eu defnydd

Archwiliwyd hefyd pa gategorïau sy'n ymddangos ym mwyafrif y testunau (Tabl 106).⁴²³ Nid oedd unrhyw gategori yn ymddangos ym mhob testun. Trafodwyd uchod y categorïau Maes Semanteg sy'n cynnwys y nifer fwyaf o enghreifftiau. Yma, archwilir pa gategorïau a oedd yn ymddangos yn y mwyafrif o destunau, er efallai nad oedd nifer uchel o enghreifftiau, er mwyn dangos patrymau cyffredin cyfnewid cod.

⁴²² Maent yn gwneud defnydd o dechnegau fel cyfieithu termau neu ymadroddion allweddol neu ailadrodd (gweler t.195 a t.290). Nid ydym yn sôn yma am gymorth ieithyddol nad yw'n rhan o'r testun ei hun, megis uwchdeitlau neu restr geirfa.

⁴²³ Diffinir mwyafrif yma fel dros hanner y testunau. Ceir 24 testun yn y corpws, sef 12 drama a 12 nofel, ac 8 testun ym mhob iaith.

<i>Categori</i>	<i>Nifer o destunau</i>
Amwys	20
Busnes	13
Bwyd	17
Corff	13
Cyfeiriadaeth	12
Cymreigio / Seisnigo / Ffrangegeiddio berf ⁴²⁴	14
Chwarae â geiriau	13
Chwaraeon	12
Dillad	15
Dyfynnu	18
Ebychiad	15
Iechyd	13
Llysenw	14
Modur	13
Rheg	17
Rhifo	13
Sgwrs	19
Slang	12
Teledu	12
Term cyfreithiol\torcyfraith	12
Term Cymraeg / Ffrangeg / Saesneg ⁴²⁵	17
Ymadrodd gosod	19

Tabl 106: Maes Semanteg – categorïau yn dros hanner y testunau

Gan eu bod yn ymddangos mewn nifer fawr o'r testunau, gellir tybio mai dyma'r categorïau sy'n fwy tebygol o ysgogi cyfnewid cod. Hynny yw, mae cyfnewid cod yn debygol o ddigwydd wrth gyflawni rhai tasgau ieithyddol, megis ebychiadau a rhegfeydd. Gellid hefyd wneud defnydd o'r laith₂ wrth ddyfynnu neu chwarae â geiriau, yn ogystal â defnyddio geiriau neu ymadroddion o'r laith₂. Mae rhai pynciau sy'n fwy tebygol o ysgogi cyfnewid cod, megis y corff, dillad, modur a thechnoleg. Wrth gwrs, rhaid cofio mai corpws cymharol fychan sydd yma, ac efallai y byddai categorïau Maes Semanteg gwahanol yn fwy blaenllaw mewn corpws gwahanol. Fodd bynnag, gwnaed ymdrech i gynnwys

⁴²⁴ Grwpiwyd y tri chategori hyn gyda'i gilydd yma.

⁴²⁵ Grwpiwyd y tri chategori hyn gyda'i gilydd yma.

trawstoriad o destunau, sy'n amrywiol iawn eu pynciau a themâu, felly maent yn cynnig amrywiaeth sylweddol o dueddiadau cyfnewid cod.⁴²⁶

Trown yn awr at y ffurfiau a'r ieithoedd gwahanol.⁴²⁷ Archwilir pa categorïau Maes Semanteg sy'n ymddangos yn y mwyafrif o destunau fesul is-gategori (h.y. dramâu, testunau Cymraeg ayb), er mwyn edrych ar yr arferion cyfnewid cod sydd ar led drwy'r testunau, er nad ydynt efallai'n cynnwys nifer fawr o enghreifftiau. O'r 80 categori Maes Semanteg,⁴²⁸ ceir enghreifftiau o 28 categori yn ymddangos yn dros hanner y nofelau; dim ond saith categori sydd ag enghreifftiau yn dros hanner y dramâu. Gallai hyn awgrymu fod cyfnewid cod yn y dramâu yn fwy amrywiol – gan nad oes nifer o categorïau sy'n gyffredin i sawl drama. Fodd bynnag, mae llawer mwy o enghreifftiau yn y nofelau (8880) o'u cymharu â'r dramâu (2566), felly gallai patrymau Maes Semanteg ehangach ymddangos pe bai cynifer o enghreifftiau yn y dramâu. Mae nifer o'r rhain yn categorïau sydd i'w gweld yn nhabl 106, felly ni thrafodir y rhain mewn manylder.⁴²⁹

Wrth edrych ar y testunau Cymraeg, mae'n ddiddorol gweld fod 'annog' yn ymddangos mewn 6 o 8 testun, sy'n awgrymu y defnyddir cyfnewid cod er mwyn cyflawni'r dasg hon yn y Gymraeg – yn aml wrth ddefnyddio'r ymadrodd 'come on'. Mae 'rhifo' yn ymddangos mewn 6 o 8 testun Cymraeg, sydd eto'n awgrymu mai dyma dasg ieithyddol a gyflawnir yn y Saesneg. Mae hyn hefyd yn wir am y Ffrangeg – mae 'rhifo' yn ymddangos mewn 6 o 8 testun. Mae

⁴²⁶ Ceir trafodaeth yn y bennod methodoleg am y broses o ddewis testunau (t.71). Gweler hefyd drafodaeth ar y testunau yn y bennod methodoleg, a chrynodeb byr o gynnwys y testunau yn adran agoriadol penodau 3-8.

⁴²⁷ Ceir tabl sy'n dangos y rhestr gyflawn o categorïau Maes Semanteg, ac ym mha destunau y maent yn ymddangos, yn Atodiad IV.

⁴²⁸ Mae 80 categori Maes Semanteg yn y corpws hwn. Gweler trafodaeth ehangach, ynghyd â rhestr o'r categorïau ag enghreifftiau, ar t.88.

⁴²⁹ Gellir gweld y categorïau i gyd yn Atodiad IV.


cyfrif yn Saesneg yn hytrach na'r laith₁ yn arfer sydd wedi cael ei drafod gan nifer o ysgolheigion, megis siaradwyr Cymraeg yn troi at y Saesneg (Jones 1993), neu siaradwyr dwyieithog yn troi at iaith eu haddysg (Pavlenko 2015).⁴³⁰ Ceir llawer o gyfeiriadaeth yn y testunau Ffrangeg (5 testun) – boed at lenyddiaeth, at gerddoriaeth neu at athroniaeth. Mae 'teulu' yn ymddangos yn hanner y testunau Saesneg, a 'bwyd' mewn 5 testun Saesneg. Mae hyn yn dangos mai cyfnewid cod cymharol syml sydd yma, gyda geiriau sy'n fwy tebygol o fod yn rhai cyfarwydd. Mae'r rhain yn enghreifftiau o eiriau a ddisgrifir gan Backus (2001) fel 'semantically specific' – geiriau sy'n anodd eu cyfieithu. Fel y noda Lipski wrth drafod testunau Math I, '[these words] serve as cultural/ethnic markers' (1982, t.195). Noda Poplack fod geirynnau fel hyn, sef 'ethnically specific items' (1981, t.173), yn fwy tebygol o gael eu cyfnewid, yn enwedig wrth gyfathrebu ag unigolion nad ydynt yn perthyn i'r un grŵp (1981, t.181), sy'n arbennig o berthnasol i'r testunau Saesneg. Dyma eiriau sy'n hawdd eu defnyddio i farcio hunaniaeth heb orfod poeni'n ormodol am ddealltwriaeth cynulleidfa uniaith Saesneg, fel y trafodwyd eisoes.

Felly, gwelir bod cyfnewid cod yn defnyddio nodwedd ieithyddol unigryw, gan fod defnydd helaeth o 'term Saesneg' i'w weld yn y corpws. Mae sgwrs uniaith laith₂ ('sgwrs') hefyd yn cynnwys nifer uchel o enghreifftiau, yn enwedig yn y dramâu. Ceir hefyd nifer o enghreifftiau sy'n perthyn i feysydd tabŵ, a gwelir bod rhai tasgau ieithyddol yn cael eu cyflawni yn yr laith₂ (e.e. rhifo, annog, rhegi). Hefyd, mae trafod rhai pynciau'n debygol o ysgogi cyfnewid cod (e.e. corff, modur, dillad, technoleg). Gwelir bod cyfnewid ac addasu berfau'n fwy

⁴³⁰ Mae'n ddiddorol bod yr arfer o gyfrif yn y Saesneg yn parhau, er bod nifer o siaradwyr Cymraeg yn mynychu ysgolion Cymraeg ac felly'n derbyn gwersi mathemateg yn y Gymraeg erbyn hyn. Awgrymir bod yr arfer o gyfrif yn y Saesneg wedi dod yn rhan o'r iaith Gymraeg yn y gorfennol, pan oedd addysg yn uniaith Saesneg – ac yn parhau i fod yn rhan o ieithwedd y cenedlaethau iau sydd wedi derbyn addysg Gymraeg.

canolog i gyfnewid cod Ffrangeg-Saesneg nag i Gymraeg-Saesneg. Yn ogystal, mae'r testunau Saesneg yn defnyddio geirfa a fyddai'n gyfarwydd i gynulleidfa heb sgiliau Iaith₂ cryf, gan hwyluso'r defnydd o gyfnewid cod.

9.6 Ysgogiad/Swyddogaeth



Ffigur 224: Ysgogiad/Swyddogaeth – Y Corpws Cyfan

Yr un patrwm sydd i'w weld ym mhob un o'r graffiau Ysgogiad/Swyddogaeth;

'Bwlch geirfaol', 'Creu effaith arbennig' a 'Dyfynnu' yw'r tri chategori â'r nifer

fwyaf o enghreifftiau ym mhob achos, ond bod y gyfradd yn newid. Mae hyn yn

dangos mai dyma'r prif resymau dros gyfnewid cod mewn llenyddiaeth. Yr un

duedd sydd i'w gweld o edrych ar y testunau unigol. Gwelir bod ambell destun




yn dangos amrywiaeth, gan ddefnyddio cyfnewid cod mewn ebychiadau



(*Moncton Sable*, *Bullshit*, BD/DBG), Cyfeirio (MoC) ac

Ailadrodd/egluro/pwyslais (*Wal*, *Lladd Duw*). Dengys hyn mai'r un

Ysgogiad/Swyddogaeth sy'n sbarduno llawer o'r cyfnewid cod yn y corpws hwn,

er bod ychydig o amrywiaeth mewn ambell i destun.





Defnyddir categorïau hefyd gan Montes-Alcalá i ddadansoddi

Ysgogiad/Swyddogaeth cyfnewid cod Sbaeneg-Saesneg llenyddol. Er nad yw ei chategorïau'n cyfateb yn union i rai'r astudiaeth hon, mae'n fuddiol cymharu fy nghanlyniadau ag astudiaethau o bâr iaith gwahanol.

<i>Categoriâu 2013</i>	<i>Categoriâu 2015</i>	<i>Corpws 2013</i>	<i>Corpws 2015</i>
Lexical need	Lexical/cultural need ⁴³¹	24%	40%
Idioms/linguistic routines		17%	
Clarification/elaboration	Clarification/elaboration	30%	21%
Emphatic/stylistic	Stylistic	19%	19%
	Emphasis		12%
Quotes	Quotations	5%	5%
Triggered	Triggered switches	5%	3%

Tabl 107: Canlyniadau Codio Montes-Alcalá (2013b; 2015)

⁴³¹ Mae'r categori hwn yn uno'r categorïau 'lexical need' a 'idioms/linguistic routines' o astudiaeth 2013. Trafodwyd hyn ym mhennod 1 (t.28)

Mae rhai categorïau Montes-Alcalá'n cyfateb yn union i gategorïau'r astudiaeth hon, sef 'Dyfyniad' (*Quotes/Quotations*), 'Cyfnewid enynnol' (*Triggered/Triggered switches*) a 'Bwlch geirfaol' (*Lexical need ac Idioms/linguistic routines / Lexical/cultural need*). Fodd bynnag, mae'r astudiaeth bresennol yn grwpio 'Ailadrodd/egluro/pwyslais' gyda'i gilydd, yn wahanol i Montes-Alcalá. Fel fy nghorpws i, mae mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yng nghorpara Montes-Alcalá yn cyfateb i'r categori 'Bwlch geirfaol'. Mae 'Creu effaith arbennig' yn cynnwys nifer uchel o enghreifftiau o gyfnewid cod yma (33.2%), sy'n ymdebygu i'r categori *Stylistic* yng ngwaith Montes-Alcalá, sydd eto'n dangos patrwm tebyg o gyfnewid cod. Fodd bynnag, ceir nifer uchel o enghreifftiau'n perthyn i'r categorïau *Clarification/elaboration* ac *Emphasis* yn ngwaith Montes-Alcalá, ond cymharol fychan yw'r gyfradd o enghreifftiau sy'n perthyn i'r categori 'Ailadrodd/Egluro/Pwyslais' yn fy astudiaeth i (5.9%) Mae'r categori 'Dyfyniad' yn cynnwys cyfradd uwch o enghreifftiau na hyn (15.3%), ond ychydig iawn o enghreifftiau o ddyfynnu a geir yng nghorpara Montes-Alcalá (5% yn y ddau achos). Ychydig iawn o enghreifftiau o ddyfynnu sydd yng nghorpws Callahan yn ogystal (7%) (2004, t.75). Dengys hyn fod patrwm gwahanol o gyfnewid cod yng nghorpara Sbaeneg-Saesneg Callahan a Montes-Alcalá. Awgrymir y gallai hyn ymwneud â'r defnydd o sgwrs cymeriadau sy'n uniaith laith₂,⁴³² gan mai hyn sy'n gyfrifol am nifer fawr o'r enghreifftiau sy'n perthyn i'r categori 'Dyfyniad' yn fy nghorpws i. Mae'n bosibl nad yw eu corpora yn cynnwys cymaint o sgwrs uniaith laith₂ â'r corpws hwn, ac yn hytrach yn defnyddio cyfnewid cod fel nodwedd o ieithwedd cymeriadau dwyieithog, ond byddai angen bod yn gyfarwydd â thestunau eu

⁴³² Nodir bod Callahan yn defnyddio Fframwaith laith Fatrics Myers-Scotton (gweler t.15), felly mae ei methodoleg yn wahanol ar y pwynt hwn, gan y byddai'r laith Fatrics yn newid ac felly nid yw sgwrs uniaith laith₂ yn enghraifft o gyfnewid cod yn ôl ei methodoleg hi.

corpora hwy er mwyn cadarnhau hyn;⁴³³ byddai hwn yn waith diddorol at y dyfodol ar gyfer ymchwilydd sy'n rhugl ei Sbaeneg.

9.7 Nodweddion Gramadegol

Archwiliwyd sut mae nodweddion gramadegol o'r laith₁ yn cael eu defnyddio ar eiriau o'r laith₂. Y meysydd dadansoddi hyn oedd: Y Fannod; Cenedl; Treiglo; Cytuno Ansoddeiriau. Gwnaed hyn er mwyn dangos integreiddiad y cyfnewid cod, a dangos sut y gellir cymhwyso rheolau gramadegol at gyfnewid cod.

9.7.1 Y Fannod

Mae'r fannod yn nodwedd o ramadeg y tair iaith. Archwilir a oes modd

defnyddio bannod o'r laith₁ gydag enw o'r laith₂; gwneir hyn yn y tair iaith, er ei bod yn debygol bod y fannod yn nodwedd fwy hanfodol yn y Ffrangeg.⁴³⁴ Gellir gweld hyn yn y testunau Saesneg o Ganada – ceir yno nifer o ymadroddion enwol lle mae'r enw yn ymddangos gyda'r fannod Ffrangeg, yn hytrach na defnyddio'r enw'n unig, er enghraifft:


But one night they had *une danse carrée* at the schoolhouse
(BD/DBG 23)
C'est quoi... You know? Un bleu, his – his bruises. (Bd 44)

O'r herwydd, tybir ei bod yn haws osgoi defnyddio'r fannod yn y Gymraeg a'r Saesneg nag yn y Ffrangeg. Cofier mai dim ond bannod bendant sydd i'w chael yn y Gymraeg, tra bo bannod amhendant yn y Ffrangeg a'r Saesneg.⁴³⁵

⁴³³ Mae Callahan yn nodi bod sgysiau uniaith laith₂ yn bresennol yn ei chorpws (2004, tt.108–9). Mae erthyglau Montes-Alcalá (2015; 2013b) yn canolbwyntio ar ddadansoddiad ieithyddol yn hytrach na thrafod cynnwys thematig y testunau, ac felly'n anffodus ni chawn wybodaeth am bresenoldeb neu absenoldeb cymeriadau uniaith laith₂ yn ei chorpws.


⁴³⁴ Gweler y drafodaeth ar t.96.


⁴³⁵ Hynny yw 'a cat', 'un chat', ond 'cath'. Ceir bannod bendant yn y tair iaith, sef 'the cat', 'le chat', 'y gath'. Cofier hefyd fod ffurfiau gwahanol o'r fannod yn y Ffrangeg, sef 'le/la/les' ac 'un/une'. Gweler trafodaeth ehangach o'r fannod ar t.96.



Ffigur 230: Y Fannod – Y Corpws Cyfan


Wrth edrych ar y corpws cyfan, y tueddiad yw defnyddio enw laith₂ heb fannod o'r laith₁, er bod nifer o esiamplau o hyn (40.6%). O'r graffiau isod, gellir gweld bod enghreifftiau o ddefnyddio'r fannod o'r laith₁ gydag enw o'r laith₂, ond bod hyn yn fwy tebygol o ddigwydd yn y testunau Ffrangeg. Bach iawn o wahaniaeth sydd i'w weld rhwng y dramâu a'r nofelau.






9.7.2 Cenedl

Gan nad yw cenedl yn nodwedd o'r iaith Saesneg, y testunau Ffrangeg a Chymraeg a drafodir isod. Yr hyn sydd dan sylw yw'r defnydd o genedl ar enwau sy'n deillio o gyfnewid cod â'r Saesneg.





Wrth edrych ar y dramâu a'r nofelau (Ffigur 237 a Ffigur 238), gwelir bod mwy o enwau'n cael eu marcio â chenedl yn y dramâu (45.7%) na'r nofelau (24.5%). Mae hyn ychydig yn annisgwyl, gan y byddem yn tybio bod nodweddion gramadegol fel hyn yn fwy tebygol o gael eu defnyddio yn y nofel, cyfrwng i'w ddarllen yn hytrach na'i wyllo. Y dramâu Ffrangeg sy'n cynnwys mwyafrif yr enghreifftiau o enwau wedi'u marcio â chenedl (210 enghraifft o 334 enghraifft). O edrych ar Ffigur 239 a Ffigur 240, mae gwahaniaeth sylweddol mewn marcio enw Saesneg â chenedl yn y testunau Ffrangeg (61.8%) a'r testunau Cymraeg

(5.5%). Mae'r gyfradd hon yn gyson rhwng y nofelau a'r dramâu Ffrangeg (61.4%; 62.9%) a'r nofelau a'r dramâu Cymraeg (5.5%; 5.6%). Dengys hyn nad yw ffurf lenyddol benodol yn cael llawer o effaith ar y gyfradd o enwau Saesneg sy'n cael eu marcio â chenedl – y ffaith bod cymaint o enghreifftiau o'r nofelau Cymraeg heb eu marcio â chenedl sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth mawr rhwng y dramâu a'r nofelau. Wrth edrych ar y testunau unigol, mae pob testun Ffrangeg yn cynnwys marcio cenedl – a phob testun namyn *Moncton Sable* yn cynnwys esiamplau gwrywaidd a benywaidd. Mae hyn yn dangos bod cenedl yn cael ei defnyddio â mwy o gysondeb mewn cyfnewid cod Ffrangeg-Saesneg o'i gymharu â Chymraeg-Saesneg. Wrth gwrs, dylid cofio bod ffurf y fannod Ffrengig yn golygu bod dangos cenedl yn anodd ei osgoi.⁴³⁶ Wrth edrych ar yr enwau Saesneg sydd wedi'u marcio a chenedl yn unig, gwelir bod y mwyafrif helaeth yn y testunau Cymraeg yn cael eu trin fel gwrywaidd (92%) tra bo cyfradd eithaf cyfartal yn y testunau Ffrangeg (55% gwrywaidd, 45% benywaidd). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â thueddiadau *français standard*, lle ceir ychydig dros hanner yr enwau'n wrywaidd – ceir un corpws gyda 59% o enwau gwrywaidd a 41% o enwau benywaidd (Hammond 2016, t.234). Wrth edrych ar y testunau Ffrangeg unigol, gwelir bod y gyfradd hon yn amrywio,⁴³⁷ ond mae'r gyfradd yn fwy cyfartal na'r marcio yn y testunau Cymraeg. Fel y nododd Hammond (2016), mae anghymesuredd mewn Cymraeg safonol, gyda llawer mwy o enwau'n wrywaidd na benywaidd. Adlewyrchir hyn yng


⁴³⁶ Hynny yw, un(e) neu le/la. Eto, gweler trafodaeth fanylach ar y fannod t.96.


⁴³⁷ *Bloupe* – 51% gwrywaidd, 49% benywaidd; *Xman* – 73% gwrywaidd, 27% benywaidd; *Pour Sûr* – 34% gwrywaidd, 66% benywaidd; *Bullshit* – 76% gwrywaidd, 24% benywaidd; *Laurie* – 54% gwrywaidd, 46% benywaidd. Un enw gwrywaidd sydd yn *Moncton Sable*, a dim ond 23 o enwau yn *Le Chien* sy'n cael eu marcio â chenedl (13 gwrywaidd, 10 benywaidd); ni theimlwyd bod y nifer hwn yn ddigon uchel er mwyn ei drafod fel canran, gan mai'r tueddiad mwyaf yn y testun hwn oedd osgoi marcio cenedl. Gwelir cyfradd ychydig yn uwch o enwau gwrywaidd yn *Xman* (73%) ac yn *Bullshit* (76%) tra bo *Pour Sûr* yn defnyddio cyfradd ychydig yn uwch o enwau benywaidd (66%).

nghanlyniadau codio'r testunau Cymraeg, gyda 92% o'r enwau sydd wedi'u marcio â chenedl yn wrywaidd. Fodd bynnag, mae'r gyfradd hon yn uchel; nodu Hammond bod 72% o enwau yn y Gymraeg yn wrywaidd (2016, t.237). Er hyn, y tueddiad mwyaf yn y Gymraeg yw osgoi marcio cenedl enw wrth gyfnewid cod.

9.7.3 Treiglo

Nodwedd o'r Gymraeg yw treiglo, felly'r testunau Cymraeg yn unig a drafodir isod. Archwiliwyd a oedd rheolau treiglo'r Gymraeg yn cael eu defnyddio gyda geiriau sy'n dod o gyfnewid cod â'r Saesneg.





Mae'n amlwg o'r graffiau uchod nad yw rheolau treiglo'r Gymraeg yn cael eu defnyddio ar eiriau sy'n deillio o'r Saesneg ag unrhyw gysondeb, gan mai torri'r rheolau treiglo yw'r norm ('dim'; 80.2%). Fodd bynnag, gwelir bod esiamplau yn y testunau o'r tri threiglwr, gyda'r treiglwr meddal ymhell ar y blaen gyda 17.5%. Yn y Gymraeg yn gyffredinol, mae'r treiglwr meddal yn fwy cyffredin a sefydlog na'r treiglwr trwynol a'r treiglwr llaes. Yn gyntaf, mae mwy o enghreifftiau o'r treiglwr meddal gan ei fod yn effeithio ar fwy o llythrennau,⁴³⁸ ac mae mwy o reolau'n ysgogi'r treiglwr meddal. Yn ogystal, tra bo'r treiglwr meddal yn eithaf sefydlog, rydym yn gweld dirywiad o ran y treiglwr trwynol a'r treiglwr llaes. Nid yw hon yn ffenomen newydd, chwaith – er enghraifft, gwelir astudiaeth o 1913 yn dangos fod siaradwyr yng Ngwynedd yn osgoi'r treiglwr llaes (Fynes-Clinton yn: Prys 2016, t.123). Mae'n amlwg mai yn y nofel y mae treiglo cyfnewid cod

⁴³⁸ Mae'r treiglwr yn effeithio ar y llythrennau isod:
 Meddal: P, T, C, B, D, G, LI, Rh, M
 Trwynol: P, T, C, B, D, G
 Llaes: P, T, C

fwyaf tebygol, gyda 21.8% o'r enghreifftiau yn dilyn rheolau treiglo'r Gymraeg.

Awgryma hyn fod ffurf y nofel – testun i'w ddarllen, nid testun i'w berfformio – yn cael effaith ar y gyfradd o dreiglo.

Ceir 71 enghraifft o dreiglo yn y corpws. Nodir pa reolau sy'n achosi treiglo isod:

TREIGLAD MEDDAL		Enghreifftiau
Ansoddair yn rhagflaenu	6	'smocio'r hen fari-jiwana' (DyE257)
Gwrthrych berf	3	'Hoffech chi dd rink arall, Gavin?' (LI79)
Dilyn rhagenw blaen 'dy', 'ei' (g)	17	'Dy folidoclio di' (Sd31)
Dilyn arddodiad	28	'[...]fel parc hamdden i by rffyrts' (Dd173)
Ansoddair yn dilyn 'yn' traethiadol	5	'yn singlers ac yn ddy blers' (MJS103)
Treigladd sangiadol	4	'Oedd 'na fesijis?' (LID42)
TREIGLAD TRWYNOL		
Dilyn rhagenw blaen 'fy'	4	'er fod fy mh ants' (Dd148)
Dilyn arddodiad 'yn'	1	'ym m wt y Land Rover' (Dd129)
TREIGLAD LLAES		
Dilyn cysylltair 'a'	3	'[...]a cho lectif <i>reggae</i> Misty in Roots' (LID311)
	71	


Tabl 108: Rheolau treiglo sy'n cael eu dilyn

Gwelir o'r tabl uchod mai dwy reol sy'n ysgogi'r mwyafrif o enghreifftiau o dreiglo sef dilyn arddodiad, neu ddilyn rhagenw blaen 'dy' neu 'ei' (gwrywaidd).

9.7.4 Cytuno Ansoddeiriau

Dim ond ar gyfer y testunau Ffrangeg y casglwyd y data ar gyfer cytuno ansoddeiriau. Er bod modd cytuno ansoddeiriau yn y Gymraeg yn ogystal, mae tuedd i ddefnyddio'r ffurf gysefin.⁴³⁹ Yn wir, nid oes unrhyw enghreifftiau yn y corpws o gytuno ansoddair Saesneg yn unol â phatrymau cytuno'r Gymraeg.

⁴³⁹ Yn y Gymraeg, mae tuedd i ddefnyddio ffurf gysefin ansoddeiriau yn hytrach na'u cytuno (Thomas 1996, tt.199–203); gweler trafodaeth ehangach ar t.99.



Nodir 'heb ei gytuno' ar gyfer ansoddeiriau sy'n cyfeirio at enwau benywaidd neu luosog, ond nad ydynt wedi'u cytuno. Nodir 'ffurf gysefin' os yw'r ansoddair yn cyfeirio at enw gwrywaidd, neu os oes rheswm orgraffyddol pam na allai'r ansoddair gael ei newid i gytuno ag enw benywaidd/lluosog.

Gwelir ei bod yn fwy arferol cytuno ansoddeiriau yn y nofel. Mae hyn yn sicr yn gysylltiedig â'r gwahaniaeth cyfrwng. O'r herwydd, mae'n debyg y byddai cywirdeb iaith yn fwy o flaenoriaeth i'r nofelwyr, gan ei fod yn destun i'w ddarllen. Yn ogystal, mae'r gwahaniaeth rhwng ansoddeiriau yn fwy orgraffyddol yn hytrach na chlywedol. Er enghraifft, ystyrir yr ansoddair

'*grand(e)(s)*' (mawr).⁴⁴⁰ Gwahaniaeth bach sydd rhwng ynganiad '*grand*' a '*grande*', ac nid yw'r 's' lluosog yn cael ei ynganu. Oherwydd hyn, mae'n bosib fod y ffaith hon yn cael effaith ar y testunau, gyda'r nofel, fel testun i'w ddarllen yn hytrach na thestun i'w berfformio, yn dangos y gwahaniaeth ysgrifenedig yn fwy cyson na'r ddrama.

9.8 Geiriau Poblogaidd

Wedi dod â'r corpws cyfan at ei gilydd, archwiliwyd pa eiriau oedd yn ymddangos dro ar ôl tro. Gwnaed hyn er mwyn gweld a oedd patrwm cyffredin o safbwynt y geiriau sy'n cael eu cyfnewid. Eithriwyd unrhyw enghreifftiau a oedd yn perthyn i'r Maes Semanteg 'sgwrs', gan y byddai hynny'n dangos eu bod yn rhan o sgwrs laith₂ yn hytrach nag yn air mewn cyfnewid cod mwy deinamig.

Mae un gair sy'n cynnwys nifer fawr o enghreifftiau yn y corpws, sef 'fuck'. Ceir sawl amrywiaeth orgraffyddol (fuck, ffyc, ffwc, ffac, fück), a nifer o eiriau sy'n tarddu o'r gair hwn, gan gynnwys 'fucking', 'ffacin', 'ffycin' 'ffwcio' a 'fuckée', i roi llond llaw o enghreifftiau'n unig. O gyfrif pob gair sy'n amrywiaeth ar 'fuck', ceir 842 enghraifft – sy'n cyfrif am 7.4% o'r corpws cyfan. Yn amlwg, mae'r rheg hon yn gyfrifol am nifer fawr o enghreifftiau o gyfnewid cod. Ceir hefyd nifer o enghreifftiau o 'anyway' – neu 'anyways', 'eniwe' 'ennewé' (140 enghraifft), 'so' (125 enghraifft), 'man' (81 enghraifft), 'really' – neu 'rili' (67 enghraifft), a 'well' – neu 'ouelle' (49 enghraifft). Mae'r geiriau hyn yn ymddangos yn y testunau Cymraeg a Ffrangeg, sy'n dangos bod rhai geiriau Saesneg sy'n fwy tebygol o gael eu cyfnewid. Gan fod y geiriau hyn yn ymddangos yn y Gymraeg a'r

⁴⁴⁰ *Grand* – ffurf gysefin. *Grande* – ffurf fenywaidd. *Grands* – lluosog gwrywaidd. *Grandes* – lluosog benywaidd.

Ffrangeg, tybir y gallant ymddangos wrth i ieithoedd eraill gyfnewid cod â'r Saesneg.

9.9 Derbynioldeb

Mae nifer o ysgolheigion yn trafod yr agwedd negyddol tuag at gyfnewid cod (Gardner-Chloros 2009, tt.81–2; Grosjean 2010, tt.52–3; Dewaele a Wei 2014). Fel y noda Grosjean, 'Monolinguals have long had a very negative attitude towards code-switching, which they see as a grammarless mixture of two languages, a jargon or gibberish that is an insult to the monolingual's own rule-governed language' (1982, t.146). Rhennir yr agweddau negyddol hyn gan siaradwyr dwyieithog yn ogystal, gan ddisgrifio cyfnewid fel rhywbeth diog, sy'n codi cywilydd, '[which] destroys the ethnicity of a language' (1982, t.148) – hyd yn oed ymysg siaradwyr sy'n cyfnewid cod eu hunain (Gardner-Chloros 2009, tt.81–2). Tybir bod yr agwedd negyddol hon yn deillio o'r ofn fod cyfnewid cod yn gam cyntaf mewn cymhathiad a fydd yn graddol arwain at yr iaith₂ yn disodli'r iaith₁. Yn wir, yn 1998 dywedodd Herménégilde Chiasson (awdur *Laurie*, a ddadansoddir yn y traethawd hwn)⁴⁴¹ ei fod yn poeni yngylch "[un] glissement progressif du chiac vers l'anglais" (1998 t.86, dyfynnir yn Leclerc 2007).⁴⁴²

Mewn astudiaeth flaenorol (Orwig 2015), awgrymwyd bod y cyfnewid cod yn *Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau* (2006) wedi chwarae rôl ym mhenderfyniad beirniaid Gwobr Goffa Daniel Owen 2005 i beidio â'i gwobrwyo. Yn eu tŷb hwy, roedd yr 'iaith yn broblem fawr', er iddynt gydnabod mai dyma nofel orau'r gystadleuaeth (Pritchard et al. 2005, t.98). Mewn erthygl ddiweddarach, pwysleisiwyd mai 'ar sail ei hiaith wallus – yn cynnwys idiomau Saesneg wedi

⁴⁴¹ Cyhoeddwyd *Laurie* yn 2013.

⁴⁴² "I lithriad graddol *chiac* tuag at y Saesneg".

eu cyfieithu, cam gyfieithu o'r Saesneg ac yn arbennig cystrawen wallus y penderfynwyd na ellid gwobrwyo Llwyd Owen' (Pritchard a Mair 2011). Wrth gwrs, rhaid cofio mai yn seiliedig ar ddrafft anghyhoeddedig y gwnaethpwyd sylwadau'r beirniaid, ond fel y dadleuais mewn erthygl (Orwig 2017), mae'n bosibl bod tuedd i weld enghreifftiau o gyfnewid cod fel *camgymeriad* ar ran yr awdur, yn hytrach nag ymgais i chwarae â dwyieithrwydd.

Er bod agwedd negyddol tuag at gyfnewid cod, nid yw'n cael ei rhannu gan bawb. Wrth ystyried y testunau llenyddol sydd dan sylw yma, mae'r ffaith bod nifer ohonynt wedi cael eu henwebu neu wedi ennill gwobrau yn brawf o agwedd gadarnhaol. Fel y noda Montes-Alcalá (2015, t.266), mae'r ffaith i'r nofel *The Brief and Wonderous Life of Oscar Wao* (2007) (nofel sy'n defnyddio cyfnewid cod) ennill gwobr Pulitzer yn farc o dderbynioldeb cyfnewid cod mewn llenyddiaeth. Isod, dangosir rhai enwebiadau neu wobrau a enillwyd gan destunau a astudir yn y traethawd hwn:

<i>A Good Clean Heart</i>	Enillydd Dramodydd Gorau yn yr Iaith Saesneg, Gwobrau Theatr Cymru 2016. ⁴⁴³
<i>Blood</i>	Rhestr fer Prix Gouverneur Général 2013.
<i>Bullshit</i>	Enillydd <i>le Masque</i> ar gyfer cynhyrchiad <i>franco-canadien</i> gorau 2001.
<i>Dyn yr Eiliad</i>	Rhestr fer Llyfr y Flwyddyn 2003.
<i>Martha Jac a Sianco</i>	Enillydd Llyfr y Flwyddyn 2005.
<i>Lladd Duw</i>	Rhestr fer Llyfr y Flwyddyn 2011 (ac enillydd pleidlais y bobl).
<i>Volkswagen Blues</i>	Enillydd Prix Canada-Belgique 1984. Rhestr fer Prix Gouverneur Général 1984.
<i>Xman est back en Huronie</i>	Rhestr fer Prix Trillium 2011.
<i>Pour Sûr</i>	Enillydd Prix Gouverneur Général 2012. Enillydd Prix Antoinine-Maillet-Acadie Vie 2012. Enillydd Prix Champlain 2012.
<i>Pigeon</i>	Rhestr fer Gwobr Dylan Thomas 2017.

Tabl 109: Gwobrau llenyddol – enillwyr ac enwebiadau⁴⁴⁴

Yn y cyfweiliadau ag awduron, trafodwyd yr agwedd tuag at gyfnewid cod. Ar un llaw, nododd sawl awdur – Llwyd Owen,⁴⁴⁵ France Daigle,⁴⁴⁶ Joëlle Roy⁴⁴⁷ – iddynt dderbyn ymateb cadarnhaol gan nifer o ddarllenwyr a oedd yn falch bod y ffordd y maent yn siarad yn naturiol yn cael ei adlewyrchu mewn llenyddiaeth. Pwysleisiodd Llwyd Owen⁴⁴⁸ fod yr ieithwedd hon yn fwy hygyrch i'r darllenwyr hyn na chywair llenyddol, ffurfiol y Gymraeg, ac felly wedi denu darllenwyr nad ydynt fel arfer yn darllen llenyddiaeth Gymraeg. Ar y llaw arall roedd nifer o'r awduron wedi derbyn ymateb negyddol. Noda France Daigle⁴⁴⁹ fod yna gynulleidfa sydd yn casáu ei nofel oherwydd y fratriaith a'r cyfnewid cod. O fewn y byd llenyddol proffesiynol, nid yw'r ymateb bob tro'n gadarnhaol ychwaith. Nododd Dewi Prysor⁴⁵⁰ fod ei olygydd⁴⁵¹ yn ceisio'i berswadio i gwtogi ar y

⁴⁴³ Nodir mai'r cynhyrchiad cyntaf gan *The Other Room* sydd dan sylw yma. Diddorol nodi mai fel testun iaith Saesneg y disgrifir ef gan y wobr, er bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio yn y cynhyrchiad – yn wir, mae'r olygfa agoriadol yn y Gymraeg, rhywbeth oedd wedi achosi gofid i rai aelodau o'r gynulleidfa a oedd yn uniaith Saesneg yn y lle cyntaf (Cyfweiliad personol ag Alun Saunders, 07/06/2017).

⁴⁴⁴ Trosolwg yn unig o rai o'r gwobrau a enillwyd gan y testunau.

⁴⁴⁵ Cyfweiliad personol 15/04/2016.

⁴⁴⁶ Cyfweiliad personol 26/05/2016.

⁴⁴⁷ Cyfweiliad personol 06/06/2016.

⁴⁴⁸ Cyfweiliad personol 15/04/2016.

⁴⁴⁹ Cyfweiliad personol 26/05/2016.

⁴⁵⁰ Cyfweiliad dros e-bost 20/12/2017.

⁴⁵¹ Alun Jones, Y Lolfa.

defnydd o'r Saesneg ar y dechrau, ond ei fod wedi rhoi'r gorau iddi erbyn hyn. Pan fu Alys Conran⁴⁵² yn ceisio canfod asiant llenyddol, ceisient ei darbwylllo nad oedd marchnad i'r nofel oherwydd y cyfnewid cod ynddi. Fel yn achos Alys Conran, ni dderbyniodd *Bloupe* groeso cynnes tan i'r awdur weithio â'r golygydd Gérald Leblanc (bardd sy'n adnabyddus am ei ddefnydd o *chiac* a chyfnewid cod), felly cafodd gefnogaeth i ddefnyddio cyfnewid cod.⁴⁵³ Tybir bod a wnelo'r agwedd anghadarnhaol hon tuag at gyfnewid cod â sefyllfa ieithyddol leiafrifol; nododd France Daigle fod gweisg *acadien* yn fwy tueddol o hollti blew dros iaith na gweisg *québécois*, sy'n awgrymu bod cysylltiad rhwng sefyllfa leiafrifol y Ffrangeg a'r agwedd tuag at gyfnewid cod.⁴⁵⁴ Yn sicr, mae cael gwasg a golygydd cefnogol yn hwb mawr i awduron – mae Llwyd Owen a Dewi Prysor ill dau yn canmol y Lolfa am gefnogi'u hawduron ac am fod yn fodlon i herio confensiwn. Derbyniodd Dewi Prysor y gwahoddiad i fod yn feirniad Gwobr Goffa Daniel Owen yn 2015 er mwyn cefnogi awduron eraill oedd am herio'r drefn.⁴⁵⁵ Yn ogystal â'r gefnogaeth werthfawr hon, mae gwobrau'n hwb i'r awduron; fel y noda Joëlle Roy, roedd bod ar restr fer yn arwydd o ansawdd y nofel, ac yn profi nad oedd y defnydd o gyfnewid cod wedi'i hatal rhag cyrraedd y nod hwnnw. Dengys hyn fod cyfnewid cod yn dod yn fwy derbyniol, er bod ymwybyddiaeth o'r agweddau negyddol yn parhau. Noda Alys Conran ei bod wedi siarad â nifer o ddarllenwyr a oedd yn credu y byddai'r cyfnewid cod yn digio rhai, er nad oeddent yn bersonol yn teimlo felly – yn wir, nid yw Alys Conran wedi derbyn adborth o'r fath gan ddarllenwyr. Awgryma hyn fod *ymwybyddiaeth* o'r agweddau negyddol yn bodoli o hyd, er efallai nad ydynt yn

⁴⁵² Cyfweliad personol 07/06/2017.

⁴⁵³ Jean Babineau, cyfweliad personol 27/05/2016.

⁴⁵⁴ Mae mwyafrif poblogaeth Québec yn siarad Ffrangeg, ond lleiafrif o boblogaeth New Brunswick sy'n medru'r iaith. Gweler t.59 ac Atodiad III am fanylion pellach am niferoedd siaradwyr Ffrangeg Canada yn ôl talaith.

⁴⁵⁵ Cyfweliad dros e-bost 20/12/2017; ceir hefyd drafodaeth ar *Y Ffenast Gron* (Prysor 2015).

cael eu rhannu gan nifer o ddarllenwyr. Awgrymir mai dyma sydd wrth wraidd ansicrwydd gweisg ac asiantau llenyddol – ofn y gallai cyfnewid cod godi gwrychyn, ac na fyddai testun yn gwerthu. Ond, fel y noda Dewi Prysor, os yw testunau'n boblogaidd gyda darllenwyr, ni fydd gweisg yn gwrthwynebu cyfnewid cod.⁴⁵⁶

9.10 Cymhwyso damcaniaeth Lipski

Yn ôl damcaniaeth Lipski (1982), ceir tri math o destun sy'n defnyddio cyfnewid cod:

Math I	Testun uniaith, gyda rhai geiriau laith ₂ 'thrown in for flavor'.
Math II	Testun sy'n defnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol: mae llinellau/brawddegau cyfan mewn un iaith, a'r cyfnewid yn digwydd ar ffin brawddeg neu gymal.
Math III	Testun sy'n defnyddio cyfnewid mewnfrawddegol, gyda'r ddwy iaith yn ymddangos o fewn yr un frawddeg. Yn ôl Lipski, yn y math hwn o destunau y gwelir 'the high degree of integration of a bilingual grammar'.

Tabl 110: Categorïau Lipski

(Lipski 1982, t.195)

Yn y corpws a drafodwyd yn y traethawd hwn, ceir sawl enghraifft o destun

Math I, sef testun heb nifer fawr o enghreifftiau o gyfnewid cod, ond sy'n

defnyddio ambell air er mwyn rhoi blas o'r laith₂: *Moncton Sable*,

Tonypandemonium, *Marriage of Convenience*, *Submarine*, *New Tab*. Mae nifer

o'r rhain yn destunau Saesneg, ond ceir hefyd destun Ffrangeg, sef *Moncton*

Sable. Yn ôl Lipski, mae Math II yn destun sy'n ffafrio cyfnewid

rhyngfrawddegol, ac felly cedwir yr laith₂ a'r laith₁ ar wahân. Fodd bynnag, mae

nifer o'r testunau a ddadansoddwyd ar gyfer y traethawd hwn yn broblematic yn

hyn o beth. Er enghraifft, mae'r nofelau *Pigeon* a *Bones to Ashes* yn defnyddio

cyfradd isel o gyfnewid rhyngfrawddegol, ond yn sicr nid ydynt yn perthyn i Math

I Lipski gan fod yr enghreifftiau o gyfnewid cod ynddynt yn rhy niferus i gael eu

⁴⁵⁶ Cyfweiliad dros e-bost 20/12/2017.

hystyried fel ‘thrown in for flavor’. Nid ydynt ychwaith yn perthyn i Math III Lipski; ni ellir dadlau eu bod wedi’u creu gyda darllenwyr cwbl rugl mewn golwg gan fod yr awduron yn darparu cymorth ieithyddol yn y testunau hyn. Gwelir hefyd fod dwy ddrama Saesneg – BD/DBG a *Blood* – yn broblematic o safbwynt Math II Lipski oherwydd eu bod yn defnyddio cyfuniad o gyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol, sy’n dangos nad yw cyfnewid mewnfrawddegol yn hollol absennol o destunau Math II. Felly, yn hytrach na dilyn awgrym Lipski, sef bod testunau Math II yn defnyddio cyfnewid rhyngfrawddegol, awgrymaf y gall testunau Math II ddefnyddio *cyfuniad* o gyfnewid rhyngfrawddegol a mewnfrawddegol. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gymhareb y testunau, yn ogystal â’r ddarpariaeth o gymorth ieithyddol i ddarllenwyr nad ydynt yn ddigon rhugl i ddeall y cyfnewid cod.

Wrth edrych ar destunau Math II o safbwynt Maes Semanteg, maent yn ffafrio ‘sgwrs’ a ‘dyfynnu’, er enghraifft, *Volkswagen Blues*, *Bones to Ashes* a *Pigeon*. Gellir rhannu’r testunau Math II yn ddau gategori. Nid oes gwybodaeth hanfodol i’w gael yn yr Iaith₂ yn Math IIa – gall unigolyn heb sgiliau dwyieithog da ddeall y testun. Ond mae Math IIb yn cynnwys gwybodaeth bwysig yn yr Iaith₂, felly mae angen i ddarllenydd neu wylwr feddu ar sgiliau dwyieithog er mwyn dilyn y testun. Gellir yma ystyried testunau sy’n ffafrio cyfnewid rhyngfrawddegol, megis *Llwyth*, AGCH⁴⁵⁷ a *Martha Jac a Sianco*. Mae’r rhain yn dilyn model Lipski o destunau Math II, gan fod y ddwy iaith yn cael eu cadw ar wahân – er bod gwybodaeth o’r ddwy iaith yn hanfodol. Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am bwrpas cyfnewid cod yn y testunau hyn? Mae’n

⁴⁵⁷ Rhaid nodi bod AGCH yn cynnwys defnydd o uwchdeitlau, er mwyn creu drama ddwyieithog. Pan berfformiwyd y ddrama, cafwyd uwchdeitlau Cymraeg ar gyfer deialog Saesneg yn ogystal ag uwchdeitlau Saesneg ar gyfer deialog Gymraeg. Heb y cymorth ieithyddol hwn, ni fyddai modd i unigolyn uniaith ddilyn y ddrama gyfan.

pwysleisio'r ffaith mai ffenomen sy'n perthyn i'r gymdeithas yn hytrach na'r cymeriadau fel unigolion yw'r cyfnewid cod – mae'r awdur fel petai'n dyfynnu cymeriadau sy'n siarad iaith₂, ond yn cadw'r naratif mewn iaith₁ safonol. Ond fe geir hefyd destunau nad ydynt yn dilyn model Lipski o destunau Math II oherwydd eu bod yn defnyddio cyfuniad o gyfnewid rhyngfrawddegol a mewnfrawddegol, megis *Blood, Pigeon* a *Bones to Ashes*. Nid yw'r testunau hyn yn galw ar sgiliau iaith₂ gan y darlennydd, oherwydd darperir cymorth ieithyddol. Mae'r testunau hyn yn dangos cyfnewid cod fel rhan o nodwedd gymdeithasol ac fel rhan o idiolect cymeriadau.

Y math olaf o destun a ddisgrifia Lipski yw Math III. Mae Math III yn defnyddio cyfnewid mewnfrawddegol sy'n cydblethu'r ddwy iaith. Dyma'r math mwyaf cymhleth o gyfnewid cod, a dim ond y darllenwyr mwyaf rhugl a all ei ddeall. Gellir eto wahaniaethu rhwng dau fath o destun Math III wrth drafod nofelau.⁴⁵⁸ Mae'r math cyntaf yn defnyddio cyfnewid mewnfrawddegol, ond yn ei gyfyngu i'r ddeialog. Er enghraifft, defnyddia *Pour Sûr* ganran uchel iawn o gyfnewid mewnfrawddegol (93.1%) gan ei gadw yn y ddeialog (96.2%). Dengys hyn mai nodwedd o'r iaith lafar yw cyfnewid cod yn y testunau hyn. Fel yn achos France Daigle, unwaith iddi ddechrau cynnwys deialog yn ei nofelau, roedd yn rhaid i'r ddeialog honno gynnwys *chiac* a chyfnewid cod – ac fe benderfynodd gadw'r ieithwedd honno yn y ddeialog.⁴⁵⁹ Mae Math IIIb yn defnyddio cyfradd uchel o gyfnewid cod mewnfrawddegol yn y naratif. Dyma'r testunau mwyaf arbrofol, gan fod ynddynt gyfradd uchel iawn o enghreifftiau o gyfnewid cod, a'r cyfnewid cod hwnnw'n mentro i'r naratif.⁴⁶⁰ Awgrymwyd bod nofel gyntaf Llwyd Owen,

⁴⁵⁸ Ni ellir gwahaniaethu rhwng Math IIIa a IIIb yn y ddrama, gan nad oes elfen debyg i'r naratif yn bresennol yn y ddrama.

⁴⁵⁹ Cyfweiliad personol 26/05/2016.

⁴⁶⁰ Disgrifia Torres destunau tebyg, sef *Yo-Yo! Boing* a *Crónicas*, sy'n gwneud defnydd o 'sustained code-switching [...] [which] can only be read by a bilingual audience'. Mae hi'n trafod

Ffawd Cywilydd a Chelwyddau (2006) wedi ysgogi cymaint o drafodaeth am gyfnewid cod mewn llenyddiaeth oherwydd ei fod yn cynnwys cymaint o gyfnewid cod – nodwedd nad oedd yn newydd i lenyddiaeth Cymru – yn y naratif yn hytrach na'i gyfyngu i'r ddeialog yn unig (Orwig 2015, t.99). Oherwydd yr agwedd negyddol sydd tuag at gyfnewid cod, mae'n debyg bod nifer o awduron yn penderfynu cyfyngu eu defnydd o gyfnewid cod i'r ddeialog, gan gadw'r naratif mewn iaith fwy safonol. O'r testunau hynny sy'n defnyddio cyfradd uchel o gyfnewid cod yn y naratif – *Bloupe* (74.2%), *Dyn yr Eiliad* (83%) – maent yn destunau arbrofol sydd wedi'u targedu at ddarllenwyr sy'n meddu ar sgiliau cryf iawn yn y ddwy iaith ac sy'n gyfarwydd â chyfnewid cod.

Felly, wrth roi mwy o bwyslais ar gymhareb y testunau a dealladwyedd y cyfnewid cod, dyma'r categorïau yr wyf yn eu cynnig er mwyn adeiladu ar ddamcaniaeth Lipski:

Math I	Testun gyda nifer fach o esiamplau o gyfnewid cod (cymhareb llai na 1), a'r rheiny'n eiriau neu'n ymadroddion. Rhoi blas o'r iaith ₂ yn unig y mae'r cyfnewid; nid oes angen i'r darlennydd/gwylwr ei ddeall.
Math IIa	Testun gyda chyfradd gymedrol o gyfnewid cod. Gellir cael cyfuniad o gyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol. Nid oes angen i'r darlennydd/gwylwr ddeall y brawddegau hyn – darperir cymorth ieithyddol fel rhan o'r testun.
Math IIb	Testun gyda chyfradd gymedrol o gyfnewid cod. Gellir cael cyfuniad o gyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol. Mae angen i'r darlennydd/gwylwr allu deall yr iaith ₂ er mwyn dilyn y testun. ⁴⁶¹
Math III	Testun sy'n defnyddio cyfnewid mewnfrawddegol. Mae cymhareb y testunau hyn yn llawer uwch. Dim ond y darllenwyr mwyaf rhugl yn y ddwy iaith a all ddeall y testunau hyn. Gellir gwahaniaethu rhwng dau fath o nofel: Math IIIa – Cyfyngir y defnydd o gyfnewid cod i'r ddeialog yn bennaf. Math IIIb – Llawer o gyfnewid cod yn y naratif. Mae'r testunau hyn yn defnyddio'r cyfnewid cod fel rhan annatod o'r nofel, yn hytrach na'i gyfyngu i ddeialog sydd wedi'i fframio gan naratif mewn iaith safonol.

Tabl 111: Datblygu damcaniaeth Lipski

y ffaith mai gweisg academiaidd yn hytrach na gweisg poblogaidd a gyhoeddodd y ddwy nofel dan sylw, gan awgrymu bod mwy o rhwydd hynt i arbrofi gyda gwasg academiaidd (2007, tt.86–7).

⁴⁶¹ Gellid darparu cymorth ieithyddol *nad* yw'n rhan o'r prif destun – e.e. darparu uwchdeitlau ar gyfer drama.

Awgrymir y dylid diffinio 'cyfradd gymedrol' fel cymhareb rhwng 1 a 4, tra bo 'cyfradd uwch' yn gymhareb dros 4. Wrth gwrs, canllaw yn unig yw'r tabl uchod. Gellir mapio rhai o destunau'r corpws ar y model uchod yn hawdd – er enghraifft, mae'n amlwg bod *Submarine* yn perthyn i Math I, *Pigeon* i Math Ila, AGCH i Math IIb, *Pour Sûr* i Math IIIa, a *Dyn yr Eiliad* i Math IIIb. Fodd bynnag, nid yw'r nofel *Bloupe* yn ffitio'n hawdd i'r model uchod. Mae ganddi gymhareb uchel (4.79), ond mae'n defnyddio cyfuniad o gyfnewid mewnfrawddegol (46.5%) a rhyngfrawddegol (53.5%), ac mae mwyafrif y cyfnewid cod yn ymddangos yn y naratif (74.2%). Mae'n debyg y byddai testun o'r fath yn cael ei ddisgrifio fel Math II yn ôl damcaniaeth Lipski. Fodd bynnag, fel y dywedwyd eisoes, mae'r testun hwn yn arbrofol iawn, ac yn sicr yn hygyrch i'r darllenwyr mwyaf rhugl yn unig. O'r herwydd, mae'n debycach i destun Math IIIb, ond yn defnyddio cyfuniad cyfartal o gyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol.

9.11 Casgliadau

Wrth archwilio'r corpws hwn, gwelwyd bod rhai patrymau cyfnewid cod yn gyson drwy'r corpws cyfan. Cyfnewid mewnfrawddegol a oedd yn cael ei ffafrio ym mhob ffurf a phâr iaith, er bod ambell i destun unigol yn mynd yn erbyn y tueddiad hwn. Yr un patrwm oedd i'w weld yn y Dosbarth Gramadegol ym mhob ffurf ac iaith, gydag ychydig o amrywiaeth mewn testunau unigol. Brawddegau, enwau ac ymadroddion enwol oedd mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod. Patrwm sefydlog iawn a oedd i'w weld yn achos Ysgogiad/Swyddogaeth hefyd, gyda 'Bwlch geirfaol', 'Creu effaith arbennig' a 'Dyfynnu' yn cynnwys mwyafrif yr enghreifftiau ym mhob ffurf ac iaith, eto gydag ychydig iawn o amrywiaeth mewn testunau unigol. Wrth edrych ar Adran, gellir gweld y tueddiad i ddefnyddio cyfnewid cod fel nodwedd ar iaith lafar, gan fod nifer helaeth o'r testunau'n cadw cyfnewid cod fel rhan o'r ddeialog.

Wrth edrych ar y nofel a'r ddrama, gwelwyd bod y ffurf yn effeithio ar ambell agwedd ar gyfnewid cod. Roedd treiglo'n fwyaf tebygol o ddigwydd yn y nofel, a'r treigladd meddal a oedd yn digwydd fwyaf aml. Yn y Ffrangeg, roedd cytuno ansoddeiriau hefyd fwyaf tebygol yn y nofel. Awgryma hyn fod rheolau gramadegol o'r iaith¹ yn fwy tebygol o gael eu defnyddio wrth gyfnewid cod mewn nofel (er na welwyd llawer o wahaniaeth yn y defnydd o genedl rhwng y nofel a'r ddrama). O edrych ar y Maes Semanteg, gellid dadlau bod mwy o amrywiaeth mewn cyfnewid cod yn y nofelau, ond efallai bod y gwahaniaeth yn nifer yr enghreifftiau yn y dramâu a'r nofelau yn effeithio ar hyn. Hefyd, gwelwyd bod cymhareb y dramâu'n uwch na chymhareb y nofelau, er bod llai o enghreifftiau o gyfnewid cod yn y dramâu at ei gilydd. Awgrymir fod a wnelo hyn â'r ffaith fod cyfnewid cod yn cael ei drin fel nodwedd o'r iaith lafar yn bennaf, yn arbennig gan fod deialog yn nodwedd hollol greiddiol i'r ddrama, ac mae'r ffaith fod y naratif yn cael ei ysgrifennu mewn iaith fwy safonol ar y cyfan yn cael effaith ar gymhareb y nofelau. Gwelwyd hefyd fod canran uwch o gyfnewid rhyngfrawddegol yn cael ei defnyddio yn y dramâu, sy'n atgyfnerthu dadl Lipski fod cyfnewid rhyngfrawddegol yn fwy syml na chyfnewid mewnfrawddegol.

Gwelwyd bod patrwm gwahanol o gyfnewid cod yn y tair iaith. Roedd y fannod a chenedl enwau yn fwyaf tebygol o gael eu defnyddio mewn testunau Ffrangeg, gyda'r testunau Cymraeg yn fwy tebygol o osgoi defnyddio'r nodweddion hyn. Gallai hyn awgrymu bod cyfnewid cod wedi'i integreiddio'n fwy i'r iaith Ffrangeg, ond gallai hefyd fod yn nodwedd o reolau gramadegol llymach y Ffrangeg yn effeithio ar y cyfnewid cod. Gwelwyd bod berfau'n fwy canolog i gyfnewid cod Ffrangeg-Saesneg na Chymraeg-Saesneg. Mae cymhareb y testunau Saesneg yn is na'r testunau Ffrangeg neu Gymraeg, ond

roedd eithriadau i hyn o fewn testunau unigol. Roedd y testunau Saesneg hefyd yn gwneud mwy o ddefnydd o ddyfynnu na'r testunau eraill, sy'n dangos bod cysylltiad rhwng cymeriadu a'r defnydd o gyfnewid cod. Roedd gwahaniaeth mawr i'w weld rhwng cymhareb cyfnewid cod y tair iaith – a'r gwahaniaeth rhwng y Gymraeg a'r Ffrangeg oedd fwyaf annisgwyl, o gofio fod gan gynulleidfaoedd rhagdybiedig y testunau hyn lefel uchel o ruglder yn y Saesneg.

Trafodwyd derbynioldeb cyfnewid cod, gan ddangos fod yr agwedd tuag at yr ieithwedd hon yn newid, er bod agweddau negyddol yn parhau. Cyflwynwyd argymhellion i adeiladu ar ddamcaniaeth Lipski sy'n gwahaniaethu rhwng tri math o destun lle defnyddir cyfnewid cod. Awgrymwyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gymhareb y testunau, ac i ba raddau y mae angen i'r darllenydd ddeall yr iaith². Awgrymwyd hefyd y dylid gwahaniaethu rhwng nofelau sy'n neilltuo'r defnydd o gyfnewid cod i'r ddeialog, a nofelau sy'n defnyddio cyfradd uchel o gyfnewid cod fel rhan o'r naratif ac felly'n destun mwy arbrofol sy'n defnyddio cyfnewid cod fel rhan annatod o'r testun yn hytrach na fframio deialog sy'n cyfnewid cod â naratif mewn iaith safonol. Dengys hyn fod nifer o ddramâu a nofelau, fel ei gilydd, yn canolbwyntio ar gyfnewid cod fel nodwedd o iaith lafar, ac mai dim ond yn y testunau mwyaf arbrofol y gwelir y cyfnewid cod yn mentro i'r naratif.

10: Theori lenyddol

Bwriad y bennod hon yw ehangu'r drafodaeth a'i hymestyn o'r maes ieithyddol, sef ffocws y penodau blaenorol. Yma, bwriedir dadansoddi'r testunau fel testunau llenyddol yn hytrach na'u defnyddio i lunio corpws ieithyddol. Yn y bennod hon, trafodir y testunau yng ngoleuni theorïau llenyddol, theorïau'n ymwneud ag ôl-drefedigaethedd ac ôl-foderniaeth yn benodol, gan gyffwrdd â strwythuriaeth ac ôl-strwythuriaeth yn ogystal. Bydd hyn yn cysylltu'r drafodaeth ar gyfnewid cod a gafwyd eisoes â thrafodaeth ar nodweddion eraill y testunau, er mwyn dangos pa fath o destunau sy'n defnyddio cyfnewid cod. Nid yw pob testun a astudiwyd ar gyfer y traethawd hwn yn destun ôl-drefedigaethol nac ôl-fodern, ond maent oll yn cynnwys elfennau sy'n berthnasol i'r damcaniaethau hyn.⁴⁶² Rhai o'r theorïau a drafodir yw damcaniaeth Bhabha ynglŷn â'r Trydydd Gofod (1994), strwythuriaeth Sassure (1916), a'r cysyniad o gyferbyniad deuaidd (Said 2003). Rhennir y bennod yn ddwy ran gyda'r gyntaf yn canolbwyntio ar ôl-drefedigaethedd, a'r ail ar ôl-foderniaeth. Yn gyntaf, trafodir pwysigrwydd iaith yn y cyd-destun ôl-drefedigaethol, a sut y mae'r testunau'n defnyddio iaith ac yn adlewyrchu'r pwysigrwydd hwn. Archwilir sut mae'r testunau'n trafod themâu sydd o ddiddordeb i faes ôl-drefedigaethedd, yn ogystal â phwysigrwydd hanes a lleoliad penodol i nifer o'r testunau. Yna, trown at ôl-foderniaeth; dadansoddir yr elfennau ôl-fodern sydd yn y testunau, a'r amryw ffyrdd y mae'r testunau'n chwarae â'r darllenydd. Bydd y drafodaeth hon yn lleoli'r cyfnewid cod o fewn trafodaeth ehangach, felly, a'i fframio mewn cyd-destun ysgolheigaidd mwy llenyddol nag ieithyddol.

⁴⁶² Wrth gwrs, gellir darllen unrhyw destun yn ôl unrhyw theori lenyddol.

Ond cyn troi at y gwaith dadansoddi hwn, pam fod trafod y testunau hyn o Gymru a Chanada yng ngoleuni damcaniaethau ôl-drefedigaethol yn berthnasol? Maent oll yn cynnwys cyfnewid cod, sy'n deillio o'r cysylltiadau trefedigaethol sydd rhwng Prydain a Chymru, a Phrydain a Chanada. Wrth gwrs, mae'r perthnasau hyn yn broblematic, ac yn wahanol iawn i'r hyn a welir mewn gwledydd ôl-drefedigaethol eraill, megis yn y Caribî neu yng ngwledydd Affrica. Mae rhai ysgolheigion, megis Linda Hutcheon (1989), yn gwrthod defnyddio'r term 'ôl-drefedigaethol' i ddisgrifio 'settler colonies' megis Canada (Ashcroft, Griffiths a Tiffin, 2002, t. 194), oherwydd mai dyma ddiwylliant y newydd-ddyfodiaid Ewropeaidd yn hytrach na diwylliant y brodorion. Fel yr esbonia Hutcheon, daeth y 'settler-colonies' hyn yn agos at ddinistrio diwylliannau (a phobl) cynhenid, a honna fod y berthynas Brydeinig â brodorion Canada a'u diwylliant bron yn fwy dinistriol na'r broses drefedigaethol yn India neu gwledydd Affrica (1989, t.156). Teimla Hutcheon fod defnyddio'r term 'ôl-drefedigaethol' i ddisgrifio Canada 'both trivializing of the Third World experience and [an] exaggerated reading of the (white) Canadian' (1989, t.155). Rhaid cofio mai'r Ffrancwyr oedd y grym imperialaidd cyntaf yn y wlad a adwaenir heddiw fel Canada (1989, t.153). Fodd bynnag, mae'r trefedigaethwyr Ffrengig⁴⁶³ yn 'both colonizer and colonized' (Green 2009, t.251) gan iddynt hwythau gael eu trefedigaethu gan Ymerodraeth Prydain yn 1763.

Fel yn achos Canada, mae defnyddio'r term 'ôl-drefedigaethol' i ddisgrifio Cymru yn gymhleth. Fel y dywed Chris Williams, os yw Cymru'n ôl-drefedigaethol, mae wedi bod yn y sefyllfa hon ers yr unfed ganrif ar bymtheg ac mewn ffyrdd annhebyg i gymdeithasau ôl-drefedigaethol mwy diweddar

⁴⁶³ Québec a drafodir yn erthygl Green, ond cofier bod Acadie hefyd yn gyn-drefedigaeth Ffrengig.

(2005, t.7). Mae hyn oherwydd bod Deddfau Uno Harri'r VIII wedi trin Lloegr a Chymru fel un endid, gan ddileu'r gwahaniaeth rhwng y ddwy wlad; o'r herwydd, nid trefedigaeth oedd Cymru wedi hyn, ond estyniad o Loegr (2005, t.5).⁴⁶⁴ Fodd bynnag, rhybuddia'r hanesydd Dai Smith (2005) rhag cymryd yn ganiataol bod 'Welsh distinctiveness' wedi'i ddileu o ganlyniad. Mae'n pwysleisio bod Cymru yn y cyfnod hwn, fel Lloegr, yn jigso o ardaloedd gwahanol, gyda hunaniaeth leol yn rhedeg ochr-yn-ochr â hunaniaethau ehangach a chenedlaethol. Yn ddiweddarach, rhaid cofio bod Cymru – o dan faner Prydain – wedi chwarae rôl yn sefydlu'r Ymerodraeth Brydeinig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ymerodraeth a ddisgrifir gan Williams fel 'the most advanced imperial and commercial state in the world' (2005, t.11). O'r herwydd, gwelir bod ei phrofiad yn wahanol iawn i brofiad trefedigaethau eraill.

Mae'n bosib mai oherwydd hyn y mae rhai ysgolheigion, megis yr hanesydd Dai Smith (2005), yn gyndyn o ddefnyddio'r term 'ôl-drefedigaethol' i ddisgrifio Cymru. Ceir nifer o feirniaid llenyddol sy'n trafod Cymru yn y Saesneg, megis Jane Aaron (2005) a Kirsti Bohata (2004), ond bu'r drafodaeth o syniadaeth ôl-drefedigaethol yn y Gymraeg yn gymharol araf i gydio. Fel y dywed Dylan Foster Evans, 'mae'n deg dweud mai yn gymharol hwyr y mae syniadau ôl-drefedigaethol wedi cyrraedd Cymru, yn enwedig yn y Gymraeg' (2006, t.45), gan nodi bod lwerddon yn cael ei thrafod o'r perspectif hwn ers peth amser. Er hyn, ceir trafodaethau sy'n berthnasol i ôl-drefedigaethedd er nad ydynt yn defnyddio'r term 'ôl-drefedigaethedd'. Er enghraifft, mae syniadaeth sy'n

⁴⁶⁴ Mae Glanmor Williams yn dadlau bod y Deddfau Uno hyn wedi bod yn llwyddiannus oherwydd 'they took cognizance of and gave the seal of official approval to major administrative, legal, social and economic changes that had long taken place or were already far advanced' (1987; dyfynnir yn Smith 2005, tt.26–7). Felly, roedd y newidiadau hyn ar droed mewn cymdeithas *cyn* creu'r mesurau, yn hytrach nag o *ganlyniad* i'r mesurau.

berthnasol i ôl-drefedigaethedd yn greiddiol i waith R.M. Jones; ystyrier y dyfyniad hwn o *Ysbryd y Cwlwm* sy'n trafod llenyddiaeth cenhedloedd lleiafrifol;

[Mae cenhedloedd lleiafrifol] wedi goddef cyfnod o drefedigaethu neu o berthynas ddarostyngedig, ac o'r herwydd mae ganddyn nhw rywbeth i'w ddweud wrth ddynoliaeth yn ei gwendid sy'n wahanol i'r hyn sydd i'w ddweud gan y trefedigaethwyr. (1998, t.11)

Yn sicr, ceir yma drafodaeth sy'n berthnasol i ôl-drefedigaethedd, er fod R.M.

Jones yn gwrthod defnyddio'r term 'ôl-drefedigaethol', gan ddadlau 'fod y sefyllfa drefedigaethol (gyn-ymreolaeth) yn parhau'n ddiwylliannol ac yn seicolegol hyd yn oed mewn gwledydd fel Iwerddon a Chanada Saesneg' (2003: dyfynnir yn Foster Evans 2006, t.47).

Wrth drafod hwyrdyfodiad theori ôl-drefedigaethedd i Gymru, dadleua Simon Brooks fod 'astrusi' theori ôl-drefedigaethol wedi bod yn rhwystr iddi yn y wlad hon, gan fod 'astrusi theoretig yn cael ei ddirfrio a'i watwar' yng Nghymru (2004, t.118). Er hyn, mae rhai ysgolheigion yn ymdrin â thestunau Cymraeg o bersbectif ôl-drefedigaethol. Gweler, er enghraifft, drafodaethau Dylan Foster Evans (2006) ac Angharad Naylor (Naylor 2012; George 2009) o Dafydd ap Gwilym, cyfrol *Rhwng Gwyn a Du* Angharad Price, yn enwedig ei thrafodaeth o bwysigrwydd cyfrwng printiedig (2002, tt.156–8) a gwaith Lisa Sheppard ar lenyddiaeth Gymraeg ddiweddar (2018; 2013; 2016).

Felly, er bod defnyddio'r term 'ôl-drefedigaethol' i ddisgrifio Cymru a Chanada yn gallu bod yn broblematig, mae'n wir eu bod yn rhannu profiadau tebyg fel trefedigaethwyr yn ogystal â gwledydd a drefedigaethwyd. Cofier hefyd fod y Ffrangeg yng Nghanada a'r Gymraeg yng Nghymru yn ieithoedd lleiafrifol sydd mewn cysylltiad agos â'r Saesneg.⁴⁶⁵ Oherwydd y rhesymau hyn, bydd

⁴⁶⁵ Am wybodaeth bellach, gan gynnwys niferoedd siaradwyr, gweler t.59 ac Atodiad III.

cymhariaeth rhyngddynt yn fuddiol gan fod y berthynas â'r term 'ôl-drefedigaethedd' yr un mor gymhleth yn y ddwy wlad.

10.1 Ôl-drefedigaethedd

10.1.1 Iaith ac ôl-drefedigaethedd

Mae iaith yn arbennig o bwysig yn y cyd-destun ôl-drefedigaethol. Esbonia Fanon fod siarad iaith neilltuol yn fwy na defnyddio cystrawen neu forffoleg neilltuol – 'c'est surtout assumer une culture, supporter le poids d'une civilisation' (1995, t.13).⁴⁶⁶ Wrth drefedigaethu, mae gan iaith bŵer. Gall iaith gael ei defnyddio fel arf trefedigaethu wrth israddio'r iaith frodorol, a hynny drwy greu cymdeithas lle mai iaith statws a bywyd cyhoeddus yw iaith y trefedigaethwr (y Saesneg yn achos yr Ymerodraeth Brydeinig). Esbonia Fanon fod pob poblogaeth a drefedigaethwyd – a ddiffinir ganddo fel 'tout peuple au sien duquel a pris naissance un complexe d'infériorité, du fait de la mise au tombeau de l'originalité culturelle locale' (1995, t.14)⁴⁶⁷ – yn gorfod delio ag iaith y trefedigaethwyr. Mae rhuglder yn yr iaith drefedigaethol yn cael effaith ar ddelwedd y bobl a drefedigaethwyd; dadleua Fanon fod dyn du ynysoedd y Caribî yn cael ei weld fel dyn gwynnach po gryfaf ei sgiliau yn yr iaith Ffrangeg; credir bod grym gwareiddiol i iaith y trefedigaethwr (1995, t.14). Ym marn Ngŷgĩ, iaith yw 'the most important vehicle through which that [colonial] power fascinated and held the soul prisoner. The bullet was the means of the physical subjugation. Language was the means of the spiritual subjugation' (1986, t.9). Fel y disgrifia Brooks, crëwyd cymdeithas yng Nghymru a chanddi 'elfen gref o *diglossia*, gyda'r Saesneg yn fynedfa i'r byd modern a'r Gymraeg yn warchodfa'r hen a'r hynafol' (2015, t.46); gwelir yma

⁴⁶⁶ "Uwchlaw popeth, mae'n golygu cymryd arnoch ddiwylliant, ysgwyddo baich gwareiddiad".

⁴⁶⁷ "pob poblogaeth sy'n meddu ar gymhleth israddoldeb (*inferiority complex*), a grëwyd yn eu heneidiau oherwydd rhoi i'w bedd y gwreiddioldeb diwylliannol lleol".

berthynas â dadl Fanon ynglŷn â myth grym gwareiddiol iaith y trefedigaethwyr, ystrydeb drefedigaethol sy'n dibrisio'r iaith frodorol. Wrth gwrs, y mae iaith mewn unrhyw gyd-destun yn rhan annatod o hunaniaeth, gan ei bod yn gyfrwng ar gyfer diwylliant: 'Language is thus inseparable from ourselves as a community of human beings with a specific form and character, a specific history, a specific relationship to the world' (Ngũgĩ wa Thiong'o 1986, t.16). Oherwydd bod hunaniaeth yn fater cymhleth a'r berthynas ag iaith yn broblematig, mae iaith yn magu pwysigrwydd ychwanegol yn y cyd-destun ôl-drefedigaethol.

Mewn diwylliannau sy'n siarad iaith leiafrifol, mae'r iaith honno'n dod yn symbol o hunaniaeth, o berthyn i'r grŵp. Bydd aelodau o grŵp sy'n teimlo bod eu hunaniaeth ddiwylliannol/wleidyddol dan fygythiad yn debygol o hawlio 'the social importance of maintaining or resurrecting "their language"' (Page a Tabouret-Keller, 1985, t. 236). Mae'r ymdeimlad hwn i'w weld yn llenyddiaeth y diwylliannau hynny yn ogystal. Yn sicr, mae honiad Boudreau (2002, t.291) fod gan lenyddiaeth *acadien* obsesiwn ag iaith⁴⁶⁸ yn ymdeimlad cyfarwydd i ddarllenwyr y Gymraeg hefyd, oherwydd bod trafodaeth o iaith a'i phwysigrwydd yn elfen hyd yn oed mewn testunau poblogaidd. Er enghraifft, dadleuir yn y nofel *Y Ddyled* fod 'agwedd y mwyafrif o Gymry di-Gymraeg tuag at yr iaith yn llawer gwaeth nag agwedd unrhyw Sais' gan honni bod 'rhai Cymry uniaith Saesneg yn gweld yr iaith fel bygythiad i'w hunaniaeth genedlaethol' (Dd 20). Ceir trafodaeth ynglŷn â phwysigrwydd iaith wrth greu hunaniaeth yn *Lladd Duw*, gan esbonio bod Jojo a Didi'n parhau i siarad Cymraeg â'i gilydd

⁴⁶⁸ Er bod *surconscience linguistique* [gor-ymwybyddiaeth ieithyddol] (Gauvin 2000) yn nodweddiadol o lenyddiaeth Québec, a llenyddiaeth ffrancoffon yn gyffredinol, noda Boudreau fod llenyddiaeth *acadienne* yn rhagori ar yr obsesiwn hwn ag iaith, a bod y tensiwn hwn rhwng amrywiaethau ieithyddol yn fodur sy'n gyrru ffuglen (2002, tt.290–1).

oherwydd ‘mai’r Gymraeg oedd yr unig gysylltiad oedd ganddynt efo pwy oeddau nhw’ (LID 11). Nofel sy’n dangos yr obsesiwn *acadien* ag iaith yw *Pour Sûr*; dadleua Mousseau mai *chiac* yw prif gymeriad y nofel hon (2012, t.25), ac mae’r nofel yn portreadu agweddau di-rif ar amrywiaethau a sefyllfaoedd ieithyddol. Ceir sawl *fragment* yn trafod rheolau a gramadeg *chiac*, gan gynnwys cyfarfod sy’n efelychu’r *Academie française*. Ond yn wahanol i’r *Academie française*, nid yr *élite* sydd yma, ond sefydliad democrataidd a chyfarfod cyhoeddus (Cormier 2014, t.133). Ceir golygfa o gyfarfod anhrefnus i drafod ffurfioli rheolau *chiac*, gydag unigolyn sy’n rhybuddio os bydd *rîng* (canu) yn cael ei dderbyn, yna buan y bydd pobl yn dweud *j’ai rîngé la dōorbelle*, gan ddweud ‘Je désapprouve totalement qu’on ouvre la porte à *dōorbelle*’ (PS 661).⁴⁶⁹ Drwy’r golygfeydd hyn, mae’r awdur yn dangos abswrdaeth ceisio rheoli a rheoleiddio iaith, gan ddefnyddio hiwmor i leihau tensiwn. Mae hefyd yn dangos bod modd rhoi bri i’r *chiac* yn ogystal â *français standard* – yr unig beth sydd ei angen yw *Academie*.

Yn y penodau blaenorol, dadansoddwyd a thrafodwyd y cyfnewid cod a ddefnyddir yn y testunau dan sylw. Mae’r ieithwedd arbennig hon yn nodwedd sy’n perthyn i gymdeithas sydd wedi profi trefedigaethedd; yn achos Cymru a Chanada, y rheswm y ceir cyfnewid cod Cymraeg-Saesneg a Ffrangeg-Saesneg yw oherwydd bod yr ieithoedd hyn wedi dod i gysylltiad â’i gilydd oherwydd perthynas drefedigaethol â Phrydain. Nid yw’r iaith hon yn ganlyniad i’r berthynas drefedigaethol yn unig; mae hefyd yn ymgais gan yr awduron i drafod hunaniaeth sy’n perthyn i ddwy iaith a dwy gymdeithas. Fel y dadleua Bhabha, wrth inni ganolbwyntio ar fynegi gwahaniaethau diwylliannol, ‘[t]hese

⁴⁶⁹ “Dwi’n gwrthwynebu’n llwyr ein bod ni’n agor y drws i ‘doorbell’.

“in-between” spaces provide the terrain for elaboration strategies of selfhood – singular or communal – that initiate new signs of identity, and innovative sites of collaboration, and contestation, in the act of defining the idea of society itself’ (1994, t.2). Mae’r cyfnewid cod hwn, sy’n ieithwedd hybrid, yn ffordd o geisio mynegi hunaniaeth sy’n esblygu, boed hynny’n hunaniaeth bersonol neu’n hunaniaeth grŵp. Mae’r cymeriadau hefyd yn trafod pa mor hanfodol yw’r ieithwedd hon i’w hunaniaeth – er enghraifft Terry, sy’n pwysleisio ‘commensque le chiac est dēep dans moi’ (PS 114)⁴⁷⁰, ac yn parhau i ddefnyddio ychydig o *chiac* gyda’i blant yn erbyn dymuniadau ei wraig. Trafodwyd eisoes ym mhennod 4 mai Terry yw’r cymeriad sy’n defnyddio mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn *Pour Sûr*, yn arbennig yn y *fragments* lle mae’n trafod ei gefndir.⁴⁷¹ Er bod Terry’n glynu at *chiac*, mae’n sylweddoli bod y gallu i ddefnyddio *français standard* yn bwysig, gan gyfaddef bod y geiriau Saesneg yn Ffrangeg ei fab yn dechrau mynd ar ei nerfau (PS 180). Er ei fod yn gweld pwysigrwydd *français standard*, mae’n dal i gredu bod *chiac* yn rhan o’i hunaniaeth. Gwelir pwysigrwydd *chiac* yn astudiaeth Perrot o siaradwyr Ffrangeg ym Moncton, gyda *chiac* yn gweithredu fel symbol o hunaniaeth, mewn gwrthwynebiad i awdurdod Ffrangeg safonol (2006, t.142). Er bod y testunau hyn yn dangos grym iaith, maent yn dangos nad oes angen ei pharchu hi’n ormodol. Dywed Alys Conran ei bod hi eisiau i’w darllenwyr ddeall eu bod yn gallu torri iaith yn ddarnau a gwneud ‘smonach ohoni fel bod o’n hwyl’.⁴⁷² Mae un o gymeriadau *Pour Sûr* yn gofyn ‘on a-t-y éven le droit de frīgger avec le français comme ça?’ (PS 59).⁴⁷³ Un math o chwarae ag iaith yw’r

⁴⁷⁰ ‘pa mor *deep* ydy’r *chiac* yndda i’.

⁴⁷¹ Gweler t.178.

⁴⁷² Cyfweiliad personol 13/10/2017.

⁴⁷³ “Sgino ni hyd yn oed yr hawl i ffrigio efo Ffrangeg fel’na?”

defnydd o gyfnewid cod. Mae'r defnydd o'r ieithwedd ddadleuol hon yn arwyddocaol – drwy ei defnyddio mewn llenyddiaeth, ceir ymgais gan yr awduron i ddangos bod lle i'r ieithwedd hon o fewn sbectrwm iaith. Yn fwy na defnyddio cyfnewid cod, mae'r testunau hefyd yn dadadeiladu iaith ac yn chwarae ag iaith. Trafodir chwarae ag iaith ymhellach yn yr adran ar ôl-foderniaeth.⁴⁷⁴

10.1.2 Dewis ieithyddol

Adlewyrchir pwysigrwydd ac effaith dewis ieithyddol yn nifer o'r cymeriadau. Yn *Y Ddyled*, dangosa Idris ei hunaniaeth fel siaradwr Cymraeg – iaith a ddysgodd yn yr ysgol. Wrth drafod ei waith, mae'r cymeriad Llwyd yn cyfieithu geiriau 'anodd' ar gyfer Idris,⁴⁷⁵ ac mae Idris yn ymateb wrth ddweud 'ma hynna'n gwneud perfect sense, even without yr unnecessary translations' (Dd 100). Dengys Idris, heb ddigio, nad yw'n croesawu cymorth ieithyddol diangen. Mae hyn yn dangos nad yw Llwyd yn uwch ei statws nag Idris am ei fod yn dod o deulu Cymraeg, er bod Llwyd yn amlwg yn credu bod angen addasu ar gyfer Idris. Nid yw Thomas *New Tab* mor hoff o'i hunaniaeth ffrancoffon; yn hytrach, gwêl fod newid o'r Ffrangeg i'r Saesneg fel prif iaith yn ffordd ymarferol o ailddyfeisio'i hun (NT 13). Nid o ddewis, ond o reidrwydd y mae Jojo a Didi yn *Lladd Duw* yn ailddyfeisio'u hunain, gan guddio'u gwreiddiau Cymraeg – wedi dianc i Lundain o'r cartref plant, ni siaradant yr iaith yn gyhoeddus.⁴⁷⁶ Fodd bynnag, mae'r cysylltiad â'r iaith yn eu bradychu – mae llyfrau Cymraeg yn fflat Jojo, a hynny'n arwain at ddarganfod y brodyr, a'u marwolaeth.

⁴⁷⁴ Gweler t.401.

⁴⁷⁵ Cyfieithir 'dychymyg', 'profiad', a 'cydbwysedd'.

⁴⁷⁶ Mae Jojo'n ceisio defnyddio hyn er mwyn rhybuddio Didi eu bod mewn perygl. Er enghraifft, mae'n siarad Saesneg â Didi ar y ffôn i ddangos ei fod yn dweud celwydd ei fod ar ei ben ei hun (LID68), ac mae'n siarad Cymraeg yng ngŵydd cydnabod, gan obeithio y bydd Didi'n sylwi bod rhywbeth o'i le (LID101).

Caiff nifer o'r cymeriadau eu hamddifadu o wneud dewis ieithyddol drostynt eu hunain. Mae chwirydd y ddrama *Blood* – sydd wedi'u mabwysiadu – yn gorfod dysgu'r Saesneg gan nad yw Doctor Glass yn fodlon dysgu'r Ffrangeg yn ystod y deng mlynedd y mae'n gofalu am y merched.⁴⁷⁷ Nid portread o'r chwirydd yn cael eu hamddifadu o ddewis yn unig sydd yma; mae hefyd yn bortread o sefyllfa siaradwyr iaith leiafrifol, gan ei fod yn nodweddiadol o'r 'dwyieithrwydd anghybwys' (Brooks 2015, t.109) sy'n adnabyddus i nifer o *franco-canadiens* a Chymry. Mae'n rhaid iddynt ddysgu'r Saesneg, ond nid oes rhaid i'r angloffon ddysgu'r Ffrangeg na'r Gymraeg. Gwelir Hefin AGCH – sydd hefyd wedi'i fabwysiadu – yn esbonio'i rwystredigaeth:

See, all my life, everything has been taken this way or that way by other people's decisions and fuck-ups. Moving here, there, what my name is, what fucking language I speak... (AGCH 52)

Mae Hefin yn ceisio dod i delerau â'i hunaniaeth gan nad oedd yn ymwybodol ei fod wedi cael ei fabwysiadu o'r tu allan i Gymru tan ddechrau'r ddrama.

Teimla'i fod wedi'i amddifadu o ddewis pan newidiwyd ei fywyd heb ei ganiatâd, ac mae'r Gymraeg yn rhan o'r benbleth hon. Fodd bynnag, daw i delerau â'r sefyllfa, fel y gwelwn yn yr olygfa olaf, wrth i'w frawd ddod i Gymru i ymweld ag ef. Yn fwy na hyn, dywed Jay, 'rydw i siarad Cymraeg. dysgu innit' (AGCH 63).

Mae hyn yn symbolaidd o'r ffaith bod y ddau frawd nawr yn ceisio deall ei gilydd, ac yn ceisio ailadeiladu eu perthynas. Mae hyn yn cysylltu â theori Bhabha ynglŷn â'r Trydydd Gofod, gan fod y diwylliannau Saesneg a Chymraeg yn cwrdd a chreu Trydydd Gofod. Fel yr esbonia Bhabha, drwy archwilio'r Trydydd Gofod hwn, 'we may elude the politics of polarity and emerge as the other of our selves' (1994, t.39). Yn y Trydydd Gofod, mae lle ar gyfer

⁴⁷⁷ Trafodwyd hyn a'r ffaith nad yw'r ddwy chwaer yn defnyddio cyfradd debyg o gyfnewid cod, er bod y ddwy yn cael eu dwrdio pan ydynt yn siarad Ffrangeg, sy'n enghraifft o ddefnyddio cyfnewid cod er mwyn cymeriadu (t.316).

hunaniaeth sy'n gorwedd rhwng y ddau ddiwylliant; wrth i Jay ddysgu'r Gymraeg ac i Hefin ddod i werthfawrogi ei wreiddiau y tu hwnt i Gymru, gallant groesi i'r Trydydd Gofod hwn er mwyn ailadeiladu eu perthynas a dod i adnabod ei gilydd yn well.

Mae sefyllfa Pigeon ychydig yn amwys. Mae'n colli ei Gymraeg yn dilyn ei gyfnod mewn Sefydliad Troseddwyr Ifainc, ond mae'n aneglur ai o ddewis y mae'n peidio â siarad Cymraeg neu a yw'n colli ei Gymraeg ac felly'n cael ei amddifadu o ddewis ieithyddol. Mewn cyfweliad ag Alys Conran, esboniodd ei bod wedi gweld gwahaniaeth barn rhwng darllenwyr am yr hyn sy'n digwydd i Pigeon. Dywed fod darllenwyr Cymraeg eu hiaith yn dueddol o gredu bod Pigeon yn *gwrthod* siarad Cymraeg, tra bo darllenwyr na fagwyd yn y Gymraeg yn credu mai *methu* siarad Cymraeg y mae Pigeon.⁴⁷⁸ Yn *Marriage of Convenience*, gwelwn effaith dewisiadau ieithyddol rhiant ar blentyn, gyda thad Alex wedi'i anfon i ysgol Gymraeg.⁴⁷⁹ O'r herwydd, mae'n cael ei ddieithrio gan ei gymdeithas y tu allan i'r ysgol, cymdeithas ei fro ddi-Gymraeg yng Nghwm Rhondda. Mae ei lysdad yn credu 'Welsh is a waste of bloody time' (MoC 92). Gwelir bod y Gymraeg yn gwneud Alex yn wahanol, ac yn ddieithr. Mae rhieni Wendy, merch y mae Alex yn ei hoffi, yn esbonio wrtho:

she thinks a lot of you. It's just that you're different to her and she feels uncomfortable with that. You talk about things she doesn't understand [...] It's the Welsh, love. Now don't get me wrong, it's great that you go to Welsh school and all that, I wish I spoke the language myself, but I don't, and neither does Wendy and that makes a world of difference, see. (MoC 107-8)

⁴⁷⁸ Cyfweliad personol, 13/10/2017. Esboniodd fod cyfieithydd y fersiwn Gymraeg (*Pijin* (2016)), Siân Northey, yn credu mai *gwrthod* siarad Cymraeg y mae Pigeon, tra bo Alys Conran (a fagwyd yn ddwyieithog) yn credu mai *methu* siarad Cymraeg y mae. Wrth gwrs, creadigaeth Alys Conran yw'r cymeriad Pigeon. Mae'n amlwg bod amwysedd yn y nofel felly gall y darlennydd benderfynu dros ei hunan pam y mae Pigeon yn peidio â siarad Cymraeg.

⁴⁷⁹ Nodir bod tad Alex wedi marw, felly nid yw yno i gefnogi Alex – ac nid yw llysdad Alex yn gefnogol ohono.

Er bod eu hagwedd yn fwy positif nag agwedd llysdad Alex – sy'n honni 'I'd rather hack my leg off than learn Welsh mun' (MoC 92) – maent yn gweld y Gymraeg fel rhywbeth sy'n gwneud Alex yn annealladwy. Dywed Alex fod ei addysg wedi rhoi'r Gymraeg iddo, 'but not the social context to place it within' (MoC 93). Oherwydd ei fod yn byw mewn cymdeithas ddi-Gymraeg, rhaid 'shed my language like a linguistic snake' (MoC 92). Ond nid yw'n teimlo'n gartrefol yn y gymdeithas Gymraeg ychwaith, ac mae'n eiddigeddu wrth ei ffrind sydd o aelwyd Gymraeg: 'He had an automatic in on the whole Welsh thing' (MoC 93). Er ei fod yn dweud ei fod yn 'baby dragon' (MoC 100), ac yn falch o'i allu i siarad yr iaith, nid yw'r berthynas hon â'r Gymraeg yn un hawdd. Fel y dadleua Ian Rowlands, mae'r rheiny o'r ardal sy'n derbyn addysg Gymraeg yn ddieithriaid, 'othered by our very own', ac ni dderbynnir hwy gan y gymuned Gymraeg ychwaith.⁴⁸⁰ Mae dewis ieithyddol yn cael effaith ar hunaniaeth, gan ddangos bod hunaniaeth yn hyblyg ac yn esblygu. Ceir portread o'r esblygiad hwn yn *Pour Sûr*. Gwrthodir y syniadaeth enynnol, etifeddol o hunaniaeth, gan ganolbwyntio ar berthnasau'n seiliedig ar yr unigolyn a'i ddewis rhydd (Thivierge 2017, t.99). Mae Chico'n cael ei fabwysiadu yn enghraifft dda o hyn. Ceir hefyd ddisgrifiad o rai o'r prif gymeriadau fel rhai 'qui peuvent pas encore se dire Acadiens' (PS 378),⁴⁸¹ sy'n awgrymu er na allant *eto* honni hunaniaeth *acadien*, y gallent yn y dyfodol. Awgryma hyn fod hunaniaeth yn hyblyg ac y gall newid dros amser.

Yn ogystal â phortreadu iaith fel rhywbeth pwerus, mae nifer o'r testunau'n dangos pŵer geiriau. Mewn golygfa o *Moncton Sable*, gwelir pedwar/pedair

⁴⁸⁰ Darlith gyhoeddus 'A Devolutionary Writer', Prifysgol Abertawe, 11 Hydref 2017.

⁴⁸¹ 'na allant *eto* ddisgrifio'u hunain fel *Acadien*'.

actor⁴⁸² yn trafod pwy fydd yn rheoli pwerau (MS 20-3). Mae'r pwerau'n cynnwys rhinweddau,⁴⁸³ goleuni,⁴⁸⁴ llanw a thrai, lliwiau a systemau gwleidyddol. Mae un o'r cymeriadau yn dweud y byddai'n hoffi rheoli geiriau, gan gynnwys llyfrau. Mae hyn yn pwysleisio'r ffaith fod pŵer yn perthyn i eiriau ac i'r gallu i'w rheoli. Mae pwysigrwydd arwyddocâd geiriau i'w weld yn *Bones to Ashes*, pan yw gêm ieithyddol merch fach – am ansoddeiriau fflat a 'crookedy' (BtA 396-8) – yn datguddio gwybodaeth allweddol sy'n arwain at ddatrys yr achos. Nid tan i Temperance a Ryan ddeall yr wybodaeth maes o law y deallant fod y ferch yn enwi'r llofrudd. Dengys hyn fod pŵer i'w gael o allu deall arwyddocâd geiriau.

Pwysleisir gwerth deall geiriau, a gwerth sgiliau dwyieithog, wrth i rai o'r testunau gadw geiriau laith² heb eu cyfieithu.⁴⁸⁵ Er enghraifft, yn y nofel Saesneg *Pigeon*, gwelir lola'n cyfeirio at 'Nain' a 'Taid'⁴⁸⁶ ac yn y ddrama Saesneg BD/DBG, mae'r cymeriad Corinne yn dweud 'ah, misère' neu 'mon Dieu'. Fel yr esbonia Bohata wrth drafod defnydd tebyg o gyfnewid cod:

The refusal to translate is a political act which asserts the validity of the untranslated language and signifies both difference and absence; difference in the sense that the untranslated word acts as a synecdoche for the cultural differences of the linguistic group to which it belongs, and the absence in that the word and therefore the culture is opaque and unknowable to the reader. (2004, t.121)

Drwy adael y geiriau hyn yn y Gymraeg neu'r Ffrangeg, awgrymir bod rhywbeth am y profiad Cymreig/Ffrangeg-Ganadaidd nad yw'n bosibl ei gyfieithu (Ashcroft

⁴⁸² Nodir yr amwysedd hwn yn y testun, sy'n awgrymu y gall y cymeriadau gael eu chwarae gan ddynion neu ferched (gweler t.248).

⁴⁸³ Rhestrir gostyngeiddrwydd, dewrder, haelioni, cyfiawnder, diolchgarwch, symlrwydd, addfwynder, didwylledd a chariad.

⁴⁸⁴ Sef dydd, nos a thrydan.

⁴⁸⁵ Trafodwyd enghreifftiau o dechnegau cyfieithu eisoes; gweler t.195 a t.290.

⁴⁸⁶ Mae'r ddrama *Blood* hefyd yn defnyddio enghreifftiau o gyfnewid cod sy'n enwau ar gyfer aelodau teuluol. Trafodir y ffaith bod hyn yn cyfateb â Bwlch geirfaol ar t.310.

et al. 2002, t.51).⁴⁸⁷ Mae'n marcio'r diwylliant Cymreig/Ffrangeg-Ganadaidd fel Arall i'r darlennydd uniaith Saesneg – ond nid i'r darlennydd sy'n medru'r iaith – a gellir defnyddio'r dechneg hon er mwyn dangos nad oes wir modd deall diwylliant heb hefyd ddeall ei iaith. Gellir hefyd ddefnyddio'r dechneg hon er mwyn gwyrddroi'r hierarchaeth a gafwyd o ganlyniad i drefedigaethedd, nodwedd a archwilir gan Gordon a Williams wrth drafod gwaith yr awdures Maori, Patricia Grace:

[s]he uses Maori language not so much to restrict her novel to a particular and identifiable readership as to privilege one group of readers at the expense of another, in the process attempting to reverse an historical relationship of power (1998, t.87)

Mewn cyfweiliad,⁴⁸⁸ soniodd Alys Conran ei bod ar un adeg wedi dymuno cael paragraff Cymraeg yn *Pigeon* heb roi cymorth i ddarllenwyr uniaith Saesneg, er mwyn dangos bod 'agweddau ar fywyd na chei di ddim os nad wyt ti'n siarad yr iaith' – hynny yw, nad oes modd gwerthfawrogi diwylliant heb fedru ei hiaith. Mae technegau o'r fath yn blaenoriaethu'r darlennydd dwyieithog, ac yn Arallu darlennydd nad yw'n medru'r iaith.

Mae pwysigrwydd enwau priod yn cael ei drafod yn y testunau yn ogystal. Fel yr esbonia Barthes, mae enw – hyd yn oed rhagenw – yn elfen bwysig mewn testun, gan ei fod yn rhywbeth y gall y darlennydd ei ddeall a'i ddehongli er mwyn dychmygu'r cymeriad (1970, t.197).⁴⁸⁹ Defnyddir enwau yn *Wal* er mwyn dangos cysylltiad â'r awdur, gyda'r enwau 'Alji' ac 'Eddy' yn deillio o'r enw 'Aled' (Jones Williams a Ros, 2006, t. 14). Mae'n awgrymu bod y ddau gymeriad yn

⁴⁸⁷ Mae Ashcroft et al. yn nodi 'The idea that language somehow "embodies" culture in this way is a seductive one for post-colonial readers' – ond mae angen gofal â'r cysyniad hwn, gan fod iaith yn rhywbeth sy'n hyblyg ac yn esblygu drwy'r amser (2002, t.52).

⁴⁸⁸ Cyfweiliad personol 13/10/2017.

⁴⁸⁹ 'Dès lors qu'il existe un Nom (fût-ce un pronom) vers quoi affluer et sur quoi se fixer, les sèmes deviennent des prédicats, inducteurs de vérité, et le Nom devient sujet' (Barthes 1970, t.197).

[‘Cyn gynted ag y mae Enw (hyd yn oed rhagenw) i lifo tuag ato a hoelio arno, daw'r sèmes [uned leiaf o ystyr gramadegol] yn briodoleddau, sefydlwyr gwirionedd, a daw'r Enw'n unigolyn'].

deillio o'r awdur, a'u bod yn bâr a fydd gyda'i gilydd yn creu un endid cyflawn.

Mewn testun arall gan Aled Jones Williams, defnyddir enwau priod er mwyn

tynnu sylw at gyd-destun ieithyddol:

Your checkout operator today was:

Anita

Elaine

Pam

Billy

Heather

Fflur

Fflur?

(Sd 34)

Mae ailadrodd 'Fflur' ar ddiwedd y rhestr o enwau Saesneg yn dynodi mai gofod Saesneg yw'r archfarchnad. Mae'r ffaith mai 'Sundance' yw enw'r prif gymeriad hefyd yn arwyddocaol. Mewn atgof o blentyndod Sundance, gwelwn Mr Harkinson,⁴⁹⁰ yn mynd â Sundance i wyllo'r haul yn machlud (sef y 'sundance') ac i gydymdeimlo ag ef ynglŷn â marwolaeth ei fam. Mae Mr Harkinson yn rhoi stetson iddo, gan wybod fod y bachgen yn hoff o *Westerns*. Deallwn mai dyma wraidd enw Sundance, yr atgof hapus hwn pan wisgodd y stetson '*mewn gorfoledd*' (Sd 48). Ond mae yma gysylltiad â marwolaeth, prif thema'r ddrama, oherwydd mai machlud yw '*the sun dancing... As it dies...*' (Sd 48). Gwelir arwyddocâd i'r enw teuluol 'Bloop' yn *Bloupe* (Bp 99): mae'n gysylltiedig â'r gair Saesneg *blooper* neu *bloop*, sef camgymeriad. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol oherwydd 'Pour un peuple dispersé, la vie est un blooper' (Bp 100-1),⁴⁹¹ sy'n pwysleisio 'l'aspect accidentel de la présence du peuple acadien qui aurait dû disparaître' (Richard 1998, t.31).⁴⁹² Ceir trafodaeth bellach o hanes y bobl *acadien* yn y bennod gyntaf.⁴⁹³ Gwelir sut mae deall arwyddocâd a

⁴⁹⁰ 'Y Sais 'nw ddo'th i fyw i fan'cw' (S47) yw'r disgrifiad ohono.

⁴⁹¹ 'I boblogaeth sydd ar wasgar, mae bywyd yn *blooper*'.

⁴⁹² 'agwedd ddamweiniol presenoldeb y bobl *acadien* a ddylai fod wedi diflannu'.

⁴⁹³ Gweler isadran 1.5.1 Canada.

phwysigrwydd enwau priod yn galluogi'r darllenydd i werthfawrogi haenau pellach, cuddiedig o ystyr.

Yn ogystal â phŵer enwau, gwelir arwyddocâd newid enw. Mae gan gymeriad la Grande Sauterelle yn *Volkswagen Blues* enw Montagnaise,⁴⁹⁴ sef Pitsémine, ac enw a roddwyd iddo gan ei frawd yw'r enw Jack Waterman (VB 42). Mae'r enwau hyn yn perthyn i ddiwylliannau gwahanol – Ffrangeg, Motagnaise neu Saesneg. Newidir enwau er mwyn gweddu i'r diwylliant – drwy addasu enw, gellir symud o un gofod ieithyddol/ddiwylliannol i'r llall. Mae rhai unigolion yn newid eu henwau o'u gwirfodd. Yn *Y Ddyled*, gwelir yr awdur 'Llwyd Owen' bellach yn llenyddda yn y Saesneg o dan yr enw 'Floyd Ewens'; esbonia:

Fel rhywun sydd wedi gorfod addasu a newid fy enw ar hyd fy mywyd – un o ganlyniadau tyfu i fyny ym mhrifddinas Cymru, wedi fy amgylchynu gan bobol nad oedden nhw'n gallu siarad Cymraeg – roedd 'Floyd' yn teimlo fel hen ffrind ta beth, gan mai dyna oedd fy llysenw ers cyn cof.
(Dd 9)

Mae'r enw Thomas yn *New Tab* yn perthyn i'r ddwy iaith, gan fod yr orgraff yr un peth yn y Saesneg a'r Ffrangeg ond bod dau ynganiad posibl. Awgrymir hunaniaeth hyblyg y cymeriad gan ei fod yn dewis defnyddio'r iaith Saesneg er mwyn ailddyfeisio'i hun (NT 13). Manteisia Jojo a Didi *Lladd Duw* ar y gallu i newid eu henwau drwy symleiddio'u henwau gwreiddiol (Joseph Griffiths a David Davies) er mwyn cuddio yn Llundain. Ond nid yr unigolyn sy'n newid ei enw ym mhob achos. Yn AGCH, wedi iddo gael ei fabwysiadu, rhieni 'Kevin' sy'n newid ei enw i 'Hefin'.⁴⁹⁵ Mewn golygfa o *Pour Sûr* (PS 502-4), mae Étienne yn gofyn i'w fam beth yw ei enw Saesneg, gan fod bachgen yn yr ysgol

⁴⁹⁴ Un o *First Nations* Canada.

⁴⁹⁵ Mae'n arwyddocaol nad yw Jay yn cael dim trafferth i ynganu 'Hefin', er nad yw'n medru'r Gymraeg. Fel yr esbonia Hefin wrtho, mae llawer o bobl yn dweud 'Heff-in' neu 'Effin', ond mae Jay'n torri ar ei draws gan ddweud 'I get it mate, it's Kevin... With an 'H'. Simple, innit?' (AGCH 26). Dangosir bod gobaith i berthynas y ddau frawd yma, hyd yn oed ar ôl eu hailgyfarfod lletchwith yn gynharach yn yr olygfa – er enghraifft, pan yw Hefin (nad yw'n cofio ei frawd) yn gofyn i Jay pam ei fod yn groenddu (AGCH 24).

yn cael ei enwi'n Antoine yn y dosbarth, ond Tony ar yr iard. Esbonia ei fam, Carmen, nad yw wedi gofyn i bobl angloffon ei galw'n 'Carm', ond bod fersiwn Saesneg o enw'n cael ei ddefnyddio heb ofyn caniatâd. Gwelir bod cael addasiad Saesneg o enw yn brofiad tebyg i Gymry a *franco-canadiens*.

Yn fwy na'r un testun arall, mae *Bloupe* yn dangos grym newid enw.

Trawsffurfir y prif gymeriad, Bloop, ar hyd y nofel.⁴⁹⁶ Dechreua gyda'r enw Itso Snitso Bloop, cyn iddo rannu'n ddau (Bloop I a Bloop II) er mwyn ennill bywoliaeth ac ysgrifennu (Bp 72) yn ogystal â gwneud hwyl am ei ben ei hun (Leclerc 2004, t.299). Wedi iddo ailddarganfod ei hunaniaeth fel ffrancoffon, mae'n cael ei fedyddio â'r enw Céça Bloupe gan Pascal Poirier.⁴⁹⁷ Mae'r enw hwn yn drawsffurfiad o'i enw angloffon Itso Snitso, sy'n deillio o'r ymadrodd Ffrangeg 'C'est ça, n'est pas?'.⁴⁹⁸ Er i'r teulu newid eu henw, nid yw'n newid dim ar eu bywydau; mae bywyd, yn ei holl ansicrwydd, yn mynd yn ei flaen (Bruce 2007, t.30). Ond nid yw'n colli ei hunaniaeth fel 'Itso' wrth ddod yn 'Céça' – mae'n cadw'r ddau enw (Bp179 a 190) (Leclerc 2004, t.299), sy'n awgrymu bod ganddo ddwy hunaniaeth, un fel ffrancoffon ac un fel angloffon. Gall Bloop/Bloupe newid ei enw fel y myn, a chymryd enw sy'n gweddu i'w hunaniaeth ar y pryd (Leclerc 2004, t.310). Mae ystyron amrywiol yr enw 'Bloop/Bloupe' yn gwthio'r darllenydd i ddeall a dehongli, gan ddangos nad oes un gwirionedd sefydlog, ond sawl diffiniad posibl. Mae newid enwau, fel y cyfnewid cod, yn symptom o'r ffaith bod y cymeriadau'n perthyn i ddau ddiwylliant; newidiant ac addasant eu henwau er mwyn symud rhyngddynt.

⁴⁹⁶ Mae hefyd ystyr ychwanegol i enwau'r prif gymeriadau eraill, megis Ara Ella (*Macaw* yw ystyr 'ara'), Dive Bouteille (Potel Cythraul), Tilleul Bleu (Tilleul – gwaglwylf neu *linden*; Bleu – glas, gan iddo gael ei eni'n lliw glas (Bp 136)), sydd hefyd â'r llysenw 'Buissons' (llwyn).

⁴⁹⁷ Pascal Poirier oedd y seneddwr *acadien* cyntaf (1885-1933), ac ysgrifennodd am hanes ac iaith Acadie, gan gynnwys *Le Parler franco-acadien et ses origines* (1928).

⁴⁹⁸ Mae 'c'est ça, n'est pas' yn cyfieithu'n llythrennol fel 'it's so, isn't it so?'

10.1.3 Cymdeithas ôl-drefedigaethol

Yn ogystal ag arddangos ieithwedd ôl-drefedigaethol yn y defnydd o gyfnewid cod, trafodir y berthynas rhwng Cymru/Canada a Phrydain yn y testunau, gan gynnwys trafodaeth am y teulu brenhinol a'r Frenhines, fel pennaeth yr Ymerodraeth Brydeinig. Yn *Pour Sûr*, mae Carmen yn holi'i gŵr a ddylai'r Frenhines ymddiheuro am y *Déportation*,⁴⁹⁹ mae Terry'n chwerthin, ac yn ymateb 'Pour une chose, c'est pas mal vieux, toute ct'histoire-là, pis deuxième chose, c'est pas vraiment de sa faute à yelle, Élizabeth II, si ç'a arrivé' (PS 637).⁵⁰⁰ Dengys hyn fod Terry, fel nifer o *acadiens*, yn edrych at y dyfodol, heb roi gormod o bwyslais ar gael ymddiheuriadau am ddigwyddiadau'r gorffennol. Fodd bynnag, gan fod Carmen yn nodi mai dyma bwnc llosg yn y bar, mae'n dangos nad yw'r hanes hwn yn angof i bawb. Mae hyn yn pwysleisio'r amrywiaeth barn sydd i'w chael ar hanes trefedigaethol, a hynny'n gweddu i natur aml-leisiol *Pour Sûr*. Yn ystod eu sgwrs, cytuna Terry a Carmen y byddai ymddiheuriad y Frenhines yn cael effaith ar boblogaeth angloffon Moncton, a gallai hyn gael effaith ar y boblogaeth ffrancoffon (PS 640). Ond maent yn ansicr a fyddai hynny yn beth da – mae'r *Dérangement* mor gryf yn yr ymwybyddiaeth *acadien*, byddai gorfod ei anghofio yn sgil ymddiheuriad yn newid sylfaenol i'r hunaniaeth honno (PS 640). Diddorol nodi bod amwysedd yma – mae'r cymeriadau'n rhannu barn ac yn trafod, ond nid yw'n arwain at ganlyniad pendant. Gwelir sylwebaeth ar y teulu brenhinol yn *Xman* hefyd; awgryma Xavier wrth Fwrdd yr Amgueddfa y dylent gael arddangosfa'n trafod 'cet attachement, cette fascination pour la famille royale'⁵⁰¹ sy'n arbennig i'r

⁴⁹⁹ *Le Grand Dérangement* yw'r enw arall ar y digwyddiad, pan alltudiwyd nifer o *acadiens*; gweler t.52 am fanylion pellach.

⁵⁰⁰ "Yn un peth, mae hynny'n hen hanes, ac yn ail, dydio ddim wir ei bai hi, Elizabeth II, bod hynny wedi digwydd."

⁵⁰¹ "yr hoffter hwn, yr atyniad hwn at y teulu brenhinol'.

franco-ontariens (X 48).⁵⁰² O ymateb y Bwrdd – tawelwch llethol – mae'n amlwg bod hyn yn broblematic. Mae rhai o aelodau'r Bwrdd yn weriniaethwyr, ac yn dadlau bod deuoliaeth ddiwylliannol yn ddim mwy na chymathiad. Maent felly yn erbyn y syniad o drafod y teulu brenhinol mewn amgueddfa am ddiwylliant *franco-ontarien*. Ond mae'n amlwg bod rhai *franco-ontariens* yn hoff o'r teulu brenhinol, megis mam-gu Xavier, sydd ag 'admiration infinie'⁵⁰³ o'r frenhines Elizabeth II (X 273). Mae hyn yn nodweddiadol o'r gwahaniaeth barn a geir ynglŷn â deuoliaeth ddiwylliannol. Er bod elfennau o ddiwylliant Canada'n deillio o'i pherthynas ôl-drefedigaethol â Phrydain, gwelir y diwylliant angloffon fel bygythiad i'r diwylliant ffrancoffon. Mae'r teulu brenhinol hefyd yn symbol o ddiwylliant Prydeinig yn *Marriage of Convenience*. Ar ddiwrnod priodas Charles a Diana, dewisa Alex fynd i bicnic gweriniaethwyr yn hytrach na'r parti stryd i ddathlu'r briodas. Ond mae aelodau eraill o'r gymdeithas yn mwynhau'r dathlu, gan bwysleisio'r cysylltiadau Cymreig,⁵⁰⁴ a dweud 'makes you proud to be Welsh' (MoC 107). Dangosir bod yr elfennau diwylliannol Prydeinig yn gallu bod yn broblematic, a bod amrywiaeth barn i'w gael; mae rhai cymeriadau'n gwrthod yr elfennau hyn, a chymeriadau eraill yn eu croesawu.

Er na thrafodir y teulu brenhinol yn y testunau Cymraeg, trafodir llawer o elfennau eraill o ôl-drefedigaethedd. Er enghraifft, wrth wrando ar eitem Radio Wales, gyda '[d]au alwr sy'n gwneud dim byd ond sbaddu ein hetifeddiaeth ieithyddol gyda chyfres o honiadau torcalonnus ac anwybodus' (Dd 19-20), mae Llwyd yn cyfeirio at waith Fflur Dafydd; 'sef ein bod ni Gymry wedi cael ein

⁵⁰² Esbonia Xavier nad yw'r *québécois* yn rhannu'r diddordeb hwn, a'i fod hefyd yn wahanol i'r diddordeb sydd gan yr angloffon yn y teulu brenhinol (X48).

⁵⁰³ 'edmygedd di-ben-draw'.

⁵⁰⁴ Trafodir y ffrog a ddyluniwyd gan Gymro a'r aur Cymreig yn y fodrwy.

coloneiddio mor effeithiol gan ein cymdogion nes ein bod ni bellach yn cael ein tramgwyddo gan ein hiaith ein hunain' (Dd 20), yn ogystal â'r ffaith bod 'rhai Cymry uniaith Saesneg yn gweld yr iaith fel bygythiad i'w hunaniaeth genedlaethol' (Dd 20). Mae'r gwahaniaeth barn hwnnw a welwyd yn *Pour Sûr* i'w weld ymysg nifer o gymeriadau *Lladd Duw* hefyd, yn arbennig wrth i un o'r cymeriadau, Ceri, geisio ennyn cefnogaeth ar gyfer deiseb yn erbyn adeiladu fflatiau moethus yn yr ardal. Mae perchennog y siop bapurau newydd yn gwrthod gadael iddi ffotocopïo'r ddeiseb (LID 122-3); cymeriad yn gwrthod arwyddo oherwydd bod y ddeiseb yn uniaith Gymraeg 'er ei fod o'n Gymro Cymraeg' (LID 143); a'r cymeriad Breian Lludw yn gwrthod arwyddo gan ddadlau 'Progres not langwej [...] Susnag ydi iaith y byd. Neuthon ni ddim cwffio Hutlar er mwyn cael Nashonalusm yn fyw yn Grêt Brutan!' (LID 301) ac yn cyhuddo Ceri o fod yn hiliol am geisio atal mewnfudwyr uniaith Saesneg er mwyn amddiffyn yr iaith Gymraeg (LID 302). Fel yn achos France Daigle a'r *acadien*, mae amrywiaeth barn ymysg y Cymry, a hynny'n nodweddiadol o gymdeithas ôl-drefedigaethol, boed hynny'n wahaniaeth barn am ddigwyddiadau hanesyddol, gwleidyddiaeth neu faterion ieithyddol.

Dywed Pechter '*Canada est omnis divisa in partes duo: all Canada is divided into two parts*' (1988, t.291), gan fynd ymlaen i restru'r holl ddeuoliaethau sydd yng Nghnada, gan gynnwys Saesneg/Ffrangeg.⁵⁰⁵ Mae hyn yn ffurf ar gyferbyniad deuaidd (binary opposition): 'the binary logic through which identities of difference are often constructed – Black/White, Self/Other' (Bhabha 1994, t.5). Mae'r syniadaeth hon yn greiddiol i ddamcaniaeth ôl-drefedigaethol. Mae Edward W. Said, un o arloeswyr maes ôl-drefedigaethedd, yn defnyddio'r

⁵⁰⁵ Rhestrir hefyd Dwyrain/Gorllewin, De/Gogledd, Ilwyodraeth *provincial*//federal, rhanbarthoedd diwydiannol/amaethyddol, Saesneg/Ffrangeg (ieithyddol a diwylliannol).

cysyniad o gyferbyniad deuaidd yn ei waith ar Orientalaeth. Disgrifia Said ymagwedd y Gorllewin tuag at y Dwyrain: 'The Oriental is irrational, depraved (fallen), childlike, "different"; thus the European is rational, virtuous, mature, "normal"' (2003, t.40). Cryfhawyd yr ystrydeb hon oherwydd 'the certain knowledge that Europe or the West literally commanded the vastly greater part of the earth's surface' (2003, t.41). Pwysleisia Said fod y daliadau hyn yn weledigaeth wleidyddol, a'i strwythur yn hyrwyddo'r gwahaniaeth rhwng y cyfarwydd ('Europe, the West, "us"') a'r anghyfarwydd ('the Orient, the East, "them"') (2003, t.43). Yn aml fe grëir yr hunaniaeth leiafrifol fel gwrthgyferbyniad i'r hunaniaeth fwyafrifol, gan wahaniaethu rhwng 'hunan' (self) a'r 'arall' (other). Fel yr esbonia Sheppard: 'Yr "hunan" yw'r "hunan" oherwydd nad yr "arall" ydyw, ac yn yr un modd, yr "arall" yw'r "arall" gan nad yw'r un fath â'r "hunan" (2016, t.29). Fel y dywed Paré, 'identity is most often derived from a sense of limitation, a line drawn and projected between a self-recognized community and the multifaceted otherness which it tends to construct around its imagined borders' (2001, t.17). Ceir sawl enghraifft o gyferbyniad deuaidd yn y testunau. Er enghraifft, gwelir cyferbyniad deuaidd rhwng cymeriadau Martha a Judy yn *Martha, Jac a Sianco*, oherwydd bod Martha yn hŷn, yn siarad Cymraeg ac yn wraig ffarm, tra bo Judy yn iau, yn uniaith Saesneg ac yn drefol. Mae'r efeilliaid yn *Blood* yn ffrancoffon, sy'n gwrthgyferbynnu â'r meddyg angloffon sy'n eu cadw'n gaeth. Defnyddir dwy fam-gu BD/DBG i wrthgyferbynnu â'i gilydd, fel angloffon a ffrancoffon, sy'n symbylu hunaniaeth ddeublyg eu hwyres. Yn achos Pigeon, mae'n cael ei greu fel 'Arall' gan fachgen o'r Sefydliad Troseddwyr Ifainc sy'n ei alw'n 'Taffy', term sy'n ddieithr i Pigeon: 'He doesn't feel Welsh. He's just Pigeon' (P 118). Mae arwahanwydd ei hunaniaeth Gymreig yn cael ei greu gan y bachgen arall, yn hytrach na chan

Pigeon ei hun. Fel Arall, mae Pigeon yn teimlo tebygrwydd rhwng ei hunaniaeth ef a hunaniaeth Salim, cyd-ddisgybl yn y gwersi Saesneg gan mai Urdu yw ei iaith gyntaf. Tybia Pigeon fod Salim yn teimlo rhywbeth tebyg iddo ef, yng ngofod Saesneg y Sefydliad Troseddwyr Lfainc, 'like his mouth's been shut up same as his body has' (P 118). Dilëir eu hieithoedd cyntaf yn y gofod hwn – nid oes lle iddynt fel siaradwyr ieithoedd heblaw'r Saesneg. Pwysleisia'r athro 'we need to get your English going' (P 130), a sylweddola Pigeon 'it was just another way of saying he wasn't right' (P 130), nad yw'n ffitio yn y byd Saesneg ei iaith. Pan ddywed yr athro wrtho "You can do better than that" mae Pigeon yn meddwl 'I can in Welsh [...] I can in my own fucking language' (P 131). Mae tebygrwydd rhwng Pigeon a Salim; crëir eu cyfeillgarwch oherwydd eu bod yn rhannu profiadau ôl-drefedigaethol fel dau fachgen a chanddynt hunaniaeth leiafrifol mewn gofod Saesneg.

Ceir hefyd gyferbyniad deuaidd nad yw'n ddibynol ar iaith. Yn *Laurie*, gwelir y *québécois* fel Arall, a hynny'n cael ei bwysleisio yn sgil y gamddealltwriaeth rhwng y cymeriad *québécois*, Ella, a'r cymeriadau *acadien*, Laurie ac Euclide. Mae geirfa *québécois* yn ddieithr iddynt, megis 'touselou' (hwyl fawr) y mae Euclide yn ei glywed fel 'tourne les roues' (L 68-9).⁵⁰⁶ Mae'n debyg y gwelir yr hunaniaeth *québécois* fel Arall oherwydd bod daliadau gwleidyddol ymwahanwr Québec yn achosi tyndra â phoblogaethau ffrancoffon o'r tu allan i Québec.⁵⁰⁷ Mae geirfa o Ffrainc hefyd yn ddieithr iddynt, megis 'con':

⁵⁰⁶ Trafodwyd enghreifftiau pellach lle mae'r cymeriad Ella yn cael ei dangos fel Arall (t.279), er enghraifft yn gwrthod cwrw ond yn gofyn am ddioddydd mwy soffistigedig sy'n anghyfarwydd i Laurie ac Euclide (L59).

⁵⁰⁷ Ceir trafodaeth bellach ar yn isadran 1.5.1 Canada.

un con, Euclide. J'ai entendu ça à la télé. Un con, Euclide, ç'a d'air
que ça existe juste en France mais watch ben ça que dans une
couple d'années, ça sera rendu par icitte (L 47)⁵⁰⁸

Dangosir bod Ffrainc hefyd yn Arall, sy'n pwysleisio'r ffaith nad yw rhannu iaith
o reidrwydd yn gyfystyr â rhannu hunaniaeth.⁵⁰⁹ Mae'r testunau o Gymru hefyd
yn gwneud defnydd o gyferbyniad deuaidd, megis y nofel Saesneg *Submarine*,
lle ceir gwrthgyferbyniad deuaidd sy'n nodweddiadol o'r ymgiprys sydd rhwng
Abertawe a Chaerdydd mewn golygfa rhwng Ollie a'i dad:

'How's your knowledge of Welsh devolution, Oi?
'Is that about how people from Cardiff are closer to apes?' [...] [Dad]
hates Cardiff too. (Sb 115)

Yn y ddwy enghraifft uchod, defnyddir hiwmor gyda'r cyferbyniad deuaidd er
mwyn lleihau tensiwn. Mae'r hiwmor hwn hefyd yn manteisio ar
anefydlogrwydd ieithyddol, nodwedd sy'n gysylltiedig â damcaniaeth
Sassure.⁵¹⁰ Wrth edrych ar y gymuned *franco-ontarien*, mae'r nofel Xman yn
dangos deuoliaeth o fewn y gymuned hon. Cyn i'r amgueddfa agor, mae Xavier
yn darganfod dogfen o gyfarfod am gyfuno amgueddfa *francophonie* Huronie ag
eraill yn yr ardal – ac mae'r holl staff a fydd yn gyfrifol am yr amgueddfeydd yn
uniaith Saesneg (X 252-3). Dangosir rhai cymeriadau'n ceisio difrio'r llywydd,
M. Desrochers, am ei ymddygiad, ond mae'r portread yn ysgogi cydymdeimlad
y darlennydd; mae'n 71 mlwydd oed, ac mae arno eisiau ymddeol wedi pum
mlynedd o geisio – a methu – canfod ymgeisydd am ei swydd (X 277). Mewn
cyfweliad, dywedodd Joëlle Roy⁵¹¹ nad oedd hi eisiau dangos cymeriadau fel da
neu ddrwg, ond dangos nad dyn drwg oedd Desrochers ac nad oedd ef ar fai.

⁵⁰⁸ "Con, Euclide. Glywes i hynny ar y teli. Con, Euclide, mae i'w weld yn bodoli jyst yn Ffrainc, ond watsia di, mewn cwprwl o flynyddoedd, fydd o fan hyn hefyd."

[Mae 'con' yn air tafodieithol yn Ffrainc sy'n golygu 'twpsyn', ond sydd hefyd yn reg.]

⁵⁰⁹ Er mai o Ffrainc y daeth yr *Acadiens* yn wreiddiol, collasant gysylltiad â'u mamwlad (gweler t.52) sy'n golygu bod yr hunaniaeth *acadien* yn wahanol i'r hunaniaeth Ffrengig.

⁵¹⁰ Ceir trafodaeth bellach o ddamcaniaeth Sassure yn ddiweddarach yn y bennod hon (t.395).

⁵¹¹ Cyfweliad personol 06/06/2016.

Roedd hyn yn fwy nodweddiadol o fywyd go iawn meddai, gyda chymeriadau nad oeddent yn dda neu ddrwg, ond eu bod mewn sefyllfaoedd anodd.

10.1.4 Hanes ac ôl-drefedigaethedd

Mae hanes yn elfen bwysig o unrhyw hunaniaeth genedlaethol, ond mewn cyd-destun ôl-drefedigaethol mae deall ac ailddehongli digwyddiadau hanesyddol yn magu pwysigrwydd ychwanegol. Rhaid deall y gorffennol trefedigaethol er mwyn gallu deall y gymdeithas gyfoes. Mae nifer o'r testunau a astudir yn y traethawd hwn yn dangos bod deall a pherchnogi hanes yn rhan allweddol o adeiladu hunaniaeth mewn cyd-destun ôl-drefedigaethol. Yr hyn sy'n allweddol yw peidio â derbyn ffeithiau hanesyddol fel gwirionedd oesol, ond cwestiynu digwyddiadau hanesyddol. Fel yr esbonia Bhabha, 'the intervention of the Third Space [...] challenges our sense of historical identity of culture as a homogenizing, unifying force, authenticated by the originary Past, kept alive in the National tradition of the People' (1994, t.37). I Bhabha, nid pwrpas y Trydydd Gofod yw ceisio olrhain dau wreiddyn y Trydydd hwn,⁵¹² ond mae'n caniatáu i safbwyntiau eraill ddod i'r fei, ac yn ein gwthio i gwestiynu hanes fel cysyniad sefydlog (Rutherford 1990, t.211). Mae *Volkswagen Blues*, nofel sy'n trafod digwyddiadau hanesyddol a'u goblygiadau, yn ceisio'n hannog i edrych ar hanes cyfandir Gogledd America o ogwydd arall (Sanaker 2010, t.1066), gyda'r prif gymeriad yn edrych am ei frawd gan ddilyn ôl-troed y Ffrancwyr cyntaf i deithio i Ogledd America.⁵¹³ Cawn lawer o drafodaethau am ddigwyddiadau

⁵¹² Yn wir, nid oes modd gwneud hyn, gan fod diwylliannau yn gorgyffwrdd ac yn gwrthdweud ei gilydd: 'So it follows that no culture is full unto itself, no culture is plainly plenitudinous, not only because there are other cultures which contradict its authority, but also because its own symbol-forming activity, its own interpellation in the process of representation, language, signification and meaning-making, always underscores the claim to an originary, holistic, organic identity' (Rutherford 1990, t.210).

⁵¹³ Awgrymir bod dewis Volkswagen fel cerbyd y prif gymeriadau'n arwyddocaol. Ystyr 'volkswagen' yw 'car y bobl' neu 'car y werin', sy'n magu arwyddocâd arbennig gan fod Pitsémine a Jack yn dysgu am ddigwyddiadau yn hanes y *franco-canadiens*.

hanesyddol, yn enwedig yn ymwneud â brodorion America, gyda la Grande Sauterelle yn ceisio dygymod â'i hunaniaeth hil-gymysg.⁵¹⁴ Drwy archwilio digwyddiadau sydd ynghlwm â sefydlu Gogledd America, mae'r awdur yn ceisio annog y darlennydd i ddeall gorffennol Québec fel trefedigaethwr a threfedigaethedig. Yn *Xman*, mae'r prif gymeriad yn gyfrifol am brosiect amgueddfa *francophonie* yn ei ardal enedigol. Trafodwyd eisoes fod Xavier yn darganfod cyn i'r amgueddfa agor y bydd y prosiect yn cael ei drosglwyddo i dîm angloffon (X 253). Ar ddiwedd y penwythnos agoriadol, gedy Xavier lythyr ymddiswyddo yn y swyddfa cyn gadael (X 282). Mae hyn yn symbolaidd, gan ei fod yn pasio'r cyfrifoldeb am hanes ffrancoffon i ddwylo rhai sydd y tu allan i'r grŵp. Ar ddiwedd y nofel gwelwn Xavier yn ystyried dechrau gŵyl ddiwylliannol yn Huronie (X 286). Yn y rôl hon, bydd yn gyfrifol am ddiwylliant o hyd, ond fel crëwr yn hytrach na gwarchodwr; bydd mewn rôl weithredol, yn edrych at y dyfodol yn hytrach nag am yn ôl.

Gwelir pwysigrwydd ailddehongli hanes o'r persbectif Cymreig yn y ddrama *Llwyth*. Mae Aneurin yn ailystyried hanes Cymru o berspectif *queer*, gan honni bod y Gododdin ac Iolo Morganwg yn hoyw (LI 16-22). Fel yr esbonia James, 'drwy'r chwarae yma, mae Aneurin yn gofyn cwestiynau pwysig ynglŷn â dilysrwydd ein 'hanes cenedlaethol [heteronormadol]' (2014, t.81). Drwy ailddehongli hanes, a thrwy gynnwys elfennau eraill o ddiwylliant Cymraeg megis Eisteddfod a chôr, mae *Llwyth* yn ceisio dangos bod hunaniaeth yn mynd y tu hwnt i 'binary distinctions that demand the determination of straight or gay,

⁵¹⁴ Fel y trafodwyd eisoes, enw la Grande Sauterelle yn yr iaith Montagnais yw Pitsémine (VB 42). Mae hi'n hil gymysg Cawcasaid ac Innu/Montagnais. Dywed wrth Jack nad yw 'ni une Indienne ni une Blanche, qu'elle était quelque chose entre les deux et que, finalement, elle n'était rien du tout' (VB 246) ['nid yn Indiaidd na'n Wyn, roedd hi'n rhywbeth rhwng y ddau ac, yn y diwedd, 'doedd hi'n ddim byd']. Ymateb Jack yw ei fod yn credu ei bod hi'n rhywbeth newydd, rhywbeth na welwyd erioed o'r blaen (VB 247). Mae hyn yn pwysleisio nad yw diwylliant yn rhywbeth 'pur', ond yn hytrach yn rhywbeth sy'n newid ac yn hybrid (Shek 1991, t.127).

Welsh or English' (Greer 2012, t.98). Dywed Greer, 'to be queer and Welsh[...]seems to involve a continual process of negotiation' (2012, t.93), gan nad yw'r geiriau'n ffitio.⁵¹⁵ Er enghraifft, yn y ddrama mae Gavin yn beirniadu'r gair 'gwr[y]wgydiwr' a'i gyfieithu fel 'man-gripper', sydd yn ôl Gavin yn gwneud iddo swnio fel JCB (LI 63). Fodd bynnag, dadleua Mihangel Morgan mai cam-ddealltwriaeth o'r Gymraeg sydd yma. Noda mai 'cydio' yn yr ystyr o gyfathrach rywiol yw gwraidd gwrywgydiwr. Mae'r gair yn ymddangos yng nghyfieithiad William Salesbury o'r Beibl (1547), ac yn llawer mwy hyddeall na'r frawddeg 'much more cumbersome', chwedl Morgan, sy'n ymddangos ym Meibl King James; 'men that abuse themselves with mankind' (2016, t.68). Yn wir, pwysleisia Morgan fod 'difficulties [in] finding an accomodating queer place in any language'(2016, t.68). Er bod termau Saesneg fel 'gay' a 'queer' yn dermau positif heddiw, ni chroesawyd hwy yn y lle cyntaf oherwydd eu cynodiadau negyddol (2016, t.68). Yn ei erthygl, mae Morgan yn annog y defnydd o dermau Cymraeg – nifer ohonynt yn hen dermau – gan bwysleisio, '[t]he language has the resources. The users of the language need to avail themselves of them and stop seeing English as a sort of default language of the world'(2016, t.68). Er bod tuedd i droi at dermau Saesneg, mae'n debyg oherwydd eu bod yn fwy adnabyddus na nifer o'r termau cyfatebol Cymraeg, mae lle yn y Gymraeg ar gyfer hunaniaethau *queer* – neu 'cadi', i ddefnyddio term Morgan (2016, t.69). Ceir awgrym o'r lle hwn yn y Gymraeg yn *Llwyth*; honna Gavin fod y ffaith bod rhaid i enwau Cymraeg fod yn ramadegol fenywaidd neu wrywaidd yn 'sexist' (LI 62), ond esbonia Dada wrtho fod rhai'n gallu bod yn fenywaidd ac yn wrywaidd. Ymateb Gavin yw 'Really? [...] Mae

⁵¹⁵ Profodd Dafydd James annigonedd geiriau i fynegi rhywioldeb wrth 'ddod allan' i'w rieni (James 2014, t.78).

Cymraeg yn queer?' (LI 62). Unwaith eto, gwelir arwyddocâd a phŵer gallu gwir ddeall iaith.⁵¹⁶

Mae *Bloupe* hefyd yn ailddehongli hanes drwy ysgrifennu Moncton fel 'Monckton'. Drwy wneud hyn, mae'n amlygu'r ffaith bod y ddinas wedi cael ei henwi ar ôl Robert Monckton, un o'r rhai a fu'n gyfrifol am y *Grand Dérangement* (Leclerc 2004, t.290).⁵¹⁷ Mae'r testunau hyn yn annog y darllenydd i archwilio ac ailddehongli hanes. Mae'r weithred allweddol hon o bwys i ddamcaniaeth Bhabha ynglŷn a'r Trydydd Gofod:

It is that Third Space, though unrepresentable in itself, which constitutes the discursive conditions of enunciation that ensure that the meaning and symbols of culture have no primordial unity or fixity; that even the same signs can be appropriated, translated, rehistoricized and read anew. (1994, t.37)

Er nad oes '*primordial* unity or fixity', fel y dadleua Bhabha, mae modd cael mathau eraill o undod – megis undod sy'n bodoli o fewn grŵp cymdeithasol penodol, neu o fewn cyfnod neilltuol. Mae'r Trydydd Gofod yn caniatáu inni ailddehongli hanes, ei ailddiffinio ac i ystyried nad oes y fath beth â gwirionedd sefydlog. Fel yr esbonia Sheppard:

Mae'r Trydydd Gofod yn herio'r sicrwydd a'r cyflawnrwydd sydd eu hangen ar yr 'hunan' er mwyn ei ddiffinio'i hun; mae'r gofod yn pwysleisio aralledd yn yr ystyr ei fod yn ymwrthod â'r cysyniad o gyflawnrwydd, ac yn awgrymu yn hytrach fod hunaniaeth yn gyfuniad o wahanol ddylanwadau. (2018, t.27)

Drwy ddangos i'r darllenydd nad yw hanes yn sefydlog nac unffurf, mae'n gwthio'r darllenydd i ailddehongli ei hunaniaeth yng ngoleuni hyn.

⁵¹⁶ Dylid hefyd nodi ei bod yn arwyddocaol bod Aneurin am gyflwyno cerdd ar gyfer cystadleuaeth y Goron – testun a fydd yn cael ei feirniadu. Awgryma hyn ei fod eisiau profi bod ei hunaniaeth fel dyn hoyw yn perthyn i ddiwylliant llenyddol Cymreig, er ei fod yn cydnabod 'S'o fe'n mynd i ennill, Gavin. They wouldn't dare' (LI 107). Er hyn, efallai bod ei enw – Aneurin, fel bardd y Gododdin – yn awgrymu nad yw Aneurin angen cymeradwyaeth eraill er mwyn perthyn i'r diwylliant llenyddol Cymreig hwn.

⁵¹⁷ Camgymeriad gweinyddol yn 1855 oedd gollwng y 'k' o'r enw (Soucoup 1997 yn Leclerc 2004, t.290).

10.1.5 Lle a chyfeiriadaeth – creu bydysawd penodol i'r testunau

Yn ogystal â hanes, mae'r cysyniad o le yn greiddiol i nifer o'r testunau, gyda'r testunau'n mapio ar ardaloedd, strydoedd ac adeiladau go iawn.⁵¹⁸ Ceir rhai enghreifftiau o hyn yn y dyfyniadau isod:

Pan gyrhaeddodd e'r tŷ eto roedd e wedi gwneud cylch o'r ddinas. Trwy Riverside i Canton, lan i'r caeau yn Pontcanna, lawr Cathedral Road, torri drwy'r parc ac allan ar bwys y Coleg Cerdd a Drama. [...] Lan trwy adeiladau'r brifysgol, dros bont y rheilffordd, lan y strydoedd cyfarwydd, Cathays Terrace, heibio'r Flora [...] (DyE 190)

We cabbied to the corner of Mont-Royal and St-Laurent and tipped the driver all we had left. (NT 106)

Mi ga'th Gwen blentyn, crwt bach. Na'th hi'n dda fyd. Paso'n Sister a chwbl, o be alle Jac ddeall o'r papur bro. A'th hi i fyw yn Mason's Row. (MJS 106-7)

I ddarllenwyd sy'n adnabod yr ardal, mae cyfeiriadaeth o'r fath yn lleoli'r testun o fewn ardaloedd pendant, cyfarwydd.⁵¹⁹ Ategir at y lleoli pendant hwn wrth ddefnyddio tafodiaith, nodwedd a drafodwyd eisoes, yn ogystal â'r defnydd o gyfnewid cod. Mae defnyddio cyfnewid cod yn gysylltiedig â'r disgrifiad o le penodol gan fod yr ieithwedd arbennig honno'n nodweddiadol o ardaloedd penodol, megis Caerdydd a Moncton. Disgrifia Pierre Nepveu ddinasoedd bychain yng Nghanada (gan gynnwys Moncton), sy'n gorwedd ar y ffin rhwng y byd ffrancoffon a'r gofod Americanaidd go iawn neu fytholegol, fel rhai sydd ar yr 'extrême frontière'⁵²⁰ (1998, dyfynnir yn Boucher 2013, t.60). Yr hyn sy'n gyffredin yw bod y dinasoedd hyn yn ofod lle mae'r iaith Gymraeg/Ffrangeg mewn sefyllfa leiafrifol. Sylwer bod Caerdydd a Moncton yn ddinasoedd

⁵¹⁸ Nid yw hyn yn wir am *bob* testun a astudiwyd; mae *Wal* a *Sundance* yn digwydd mewn man amhenodol. Mae *Blood* yn digwydd rywle yn y Praries (ardal sy'n cynnwys taleithiau Alberta, Saskatchewan a Manitoba), ond ni cheir manylion penodol, dim ond bod y ffermdy 70 milltir o unrhyw dŷ arall (Bd19).

⁵¹⁹ Trafodwyd hefyd fod y nofel Saesneg *Bones to Ashes* yn defnyddio enwau priod Ffrengig ar gyfer sefydliadau llywodraethol a lleoliadau er mwyn rhoi blas Ffrengig i'r testun (t.208). Mae'r enghreifftiau hyn o gyfnewid cod yn enghraifft arall o sut y gall awdur roi darlun i'w ddarllenwyr o leoliad penodol.

⁵²⁰ 'Y ffin eithaf'. Daw'r term o deitl casgliad o gerddi'r bardd *acadien* Gérald Leblanc.

cymharol fach;⁵²¹ er mai profiad dinesig sydd yma, fel y noda Herménégilde Chiasson,⁵²² ‘notre expérience de l’urbanité reste tout de même assez diluée’ (2006, t.225).⁵²³ Mae nifer o’r testunau’n rhai dinesig, sy’n brofiad diweddar i’r boblogaeth *franco-canadien* (Hotte 2014) ac i’r boblogaeth Gymraeg yn ogystal; gweler Gwynn ap Gwilym yn dadlau ar ddiwedd y 1970au ‘Na wnaeth y ddinas fawr ddim cyfraniad i’r bywyd llenyddol Cymraeg’ (1979, t.260). Er bod y profiad dinesig hwn yn fwy newydd ac yn wanhaedig, mae’r ddinas yn ysgogi gwahaniaeth barn.⁵²⁴ Gall fod yn brofiad negyddol, lle mae’r hunaniaeth leiafrifol mewn perygl yn y ddinas; ‘une position géographique fragile’⁵²⁵ fel Moncton, wedi’i ddal rhwng Québec anghefnogol a’r UDA bygythiol (Perrot 2006, t.143). Fodd bynnag, gall fod yn brofiad positif, gan ei fod yn ‘grochan amlddiwylliannol’ fel Caerdydd Llwyd Owen (Owen 2015, t.117). Yma, mae cymeriadau o sawl cefndir diwylliannol a sawl cenedl yn dod i gysylltiad â’i gilydd, sy’n dangos y ddinas fel gofod ag ynddo le i bob hunaniaeth, gan gynnwys hunaniaethau lleiafrifol megis hunaniaeth Gymraeg. Wrth ddangos y gofod dinesig mewn golau cadarnhaol, gyda’r profiad newydd hwn yn rhoi lle i’r hunaniaeth ieithyddol leiafrifol, dengys yr awduron fod modd i’r hunaniaethau hyn esblygu o fewn y gofod dinesig newydd. Fel y dadleua Sheppard wrth drafod Caerdydd, mae’n ‘ddinas lle y gall yr hunaniaeth Gymraeg esblygu a chael ei hail-ddychmygu ar gyfer lleoliad ac oes newydd.’ (2013, t.111). Mae’r esblygiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn y cyfnewid cod, gyda’r chwarae ieithyddol yn ceisio mynegi hunaniaeth sy’n newid.

⁵²¹ O’u cymharu â Montréal, er enghraifft, lleoliad y nofel *New Tab*.

⁵²² Sef awdur *Laurie*, drama Ffrangeg sy’n rhan o gorpws y traethawd hwn.

⁵²³ ‘mae ein profiad o ddinas yn dal i fod yn eithaf gwanhaedig’.

⁵²⁴ Trafodir y ddwy agwedd hon ar y ddinas yn Orwig (2015, tt.185–9).

⁵²⁵ ‘safle ddaearyddol fregus’.

Gwelwyd esblygiad yn nhriniaeth France Daigle o le ers ei gweithiau cynnar. Er bod Acadie yn gefndir i'w gweithiau cynnar,⁵²⁶ ni chafodd ei enwi'n benodol tan *la Vraie Vie* (1993), sef ei seithfed nofel (Boudreau 2004). Nid oedd lleoli'r testun yn bwysig ar ddechrau'i gyfa gan fod France Daigle yn awdur â'i bryd ar ffurf yn bennaf (Moyes a Leclerc 2013, t.104). Ond fersiwn arbennig o Moncton a geir yn *Pour Sûr*. Mae prosiect y *lofts* – adeilad sy'n cynnwys fflatiau lle mae cartref Terry a Carmen, gerddi lle mae'r cymdogion yn cydweithio i dyfu llysiau, a'r busnesau lleol sy'n rhan o'r adeilad – yn ffuglennol. Yn wir, mae'r adeilad a fu'n ysbrydoliaeth i Daigle wedi'i ddymchwel (Leclerc 2006, t.156). Yn ogystal, mae'r mwyafrif angloffon (a'r gwrthdaro rhyngddynt a'r lleiafrif ffrancoffon) yn absennol o'r nofel i raddau helaeth (Cormier 2014, t.112; Brun del Re 2012, t.48). Iwtopia ieithyddol a diwylliannol yw Moncton France Daigle (Leclerc 2006, t.156). Ymdebyga hyn i elfen yng ngwaith Llwyd Owen, sydd wedi lleoli nifer o'i nofelau⁵²⁷ yn nhref ddychmygol Gerddi Hwyan – tref mewn Cymru debyg iawn i'r Gymru gyfoes, ond lle nad yw'r Gymraeg yn iaith leiafrifol. Esboniodd yr awdur mai ei ddymuniad oedd ysgrifennu nofel hollol Gymraeg, ac i wneud hynny roedd yn teimlo bod angen 'creu rhyw fath o iwtopia bach fel Cwnderi llenyddol, lle o'dd pawb yn siarad Cymraeg.'⁵²⁸ Awgryma hyn nad yw hi'n realistig, o leiaf yn y cyd-destun cyfoes, i gael gofod dinesig Cymreig neu *acadien* â chanran uchel iawn o siaradwyr Cymraeg neu Ffrangeg.

Nid yw pob testun a astudiwyd ar gyfer y traethawd yn ddinesig. Mae nifer o'r testunau wedi'u lleoli mewn ardaloedd diwydiannol, megis *Tonypandemonium* a *Marriage of Convenience* yng Nghwm Rhondda. Mae ardal Dowlais hefyd yn

⁵²⁶ Ceir elfennau yn ei thestunau sy'n dynodi Acadie a Moncton i'r rhai sy'n gyfarwydd â hwy (Boudreau 2004).

⁵²⁷ *Mr Blaid* (2009), *Heulfan* (2012), *Taffia* (2016), *Pyrth Uffern* (2018).

⁵²⁸ Cyfweiliad personol 15/04/2016.

greiddiol i *Dyn yr Eiliad*, gan i Daniel a Davies gael eu magu yno cyn symud i Gaerdydd. Er bod y testunau hyn yn portreadu profiad sy'n wahanol i'r profiad dinesig, nid yw'r ardaloedd diwydiannol hyn yn annhebyg i'r dinasoedd o ran canran nifer y siaradwyr,⁵²⁹ ac maent hwythau'n profi twf o ran nifer y siaradwyr. Ceir hefyd destunau sydd wedi'u lleoli yng nghefn gwlad. Mae *Martha, Jac a Sianco* yn bortread o deulu amaethyddol yng Ngheredigion, a *Lladd Duw* yn dangos bywyd mewn tref fechan yng Ngogledd Cymru. Wrth gwrs, nid yw'r cysyniad o le yn bwysig i bob testun, megis *Beautiful Deeds*, *AGCH* a *Blood*. Bron y gallai'r testunau hyn ddigwydd mewn unrhyw leoliad. Mae sawl testun yn digwydd mewn lleoliad amwys, megis *Moncton Sable*, *Wal*, a *Sundance*; er bod rhai awgrymiadau ynglŷn â lleoliad yn y testunau, megis tafodiaith leol neu gyfeirio at lefydd, mae'r gofod ar y llwyfan yn amhenodol ac amwys. Dywed Aled Jones Williams, 'mae fy naearyddiaeth i'n gysáct iawn' oherwydd tafodiaith Caernarfon (Jones Williams a Ros 2006, t.11) ond er hyn, 'eithriad yw lleoliad daearyddol penodol yn ei ddramâu' (Evans 2013, t.137). Mae testunau eraill yn defnyddio lleoliad haniaethol – hynny yw, cysyniad o leoliad heb fod yn lleoliad penodol, megis *Le Chien* neu *Bullshit*, sy'n digwydd mewn trefi bychain anhysbys yng ngogledd Ontario.⁵³⁰ Mae *Pigeon* hefyd yn defnyddio'r dechneg hon – fel rhywun sy'n adnabod yr ardal, mae'n amlwg bod Bethesda yn ysbrydoliaeth i'r awdur, ond ni chaiff y dref ei henwi, ac mae manylion wedi'u

⁵²⁹ 12.3% yn y Rhondda Cynon Taf, 8.9% yn Merthyr Tydfil, 11.1% Caerdydd (canran yn seiliedig ar siart StatsCymru (Ystadegau'r Boblogaeth a'r Cyfrifiad Llywodraeth Cymru 2012a)). Am ystadegau pellach am ganran siaradwyr yn ôl ardal, gweler t.59 a t.63, yn ogystal ag Atodiad II ac Atodiad III.

⁵³⁰ Ni enwir y dref yn *Le Chien*, ac mae Sansregret *Bullshit* yn dref ddychmygol, er bod disgrifiad hir ohoni ar ddechrau'r ddrama (BS 103).

newid, er enghraifft mae'r dref ar lan y môr.⁵³¹ Golyga'r dechneg hon y gall hyd yn oed y darllenwyr sy'n gyfarwydd â'r ardal deimlo ar goll.

Mae *Bloupe* yn llawn cyfeiriadaeth at Moncton na fyddai ond yn adnabyddus i'r rhai sy'n gyfarwydd iawn â'r ddinas eisoes. Ymddangosant heb eglurhad nac unrhyw fanylu; gweler yr enghreifftiau a'r esboniadau isod (Leclerc 2004, t.293):

Rivière de mud, rivière brune (Bp 48)⁵³²

Mae'r afon Peticodiac, sy'n rhedeg drwy Moncton, yn afon fwdlyd (oherwydd dylanwad y llanw).

Good side of the Mud Silt CoR River (Bp 162)

Parti gwleidyddol yn New Brunswick yw'r CoR, sydd o blaid hawliau *acadiens*; mae'r afon Peticodiac yn gwahanu'r ardaloedd angloffon a ffrancoffon.

Chanson kachotesque (Bp 185)⁵³³

Bar ar gampws Université de Moncton oedd y Kacho (1972-1996); disgrifia Leclerc ef fel Mecca 'counter-culture' *acadien*.

Ni fyddai'r gyfeiriadaeth hon ychwaith yn adnabyddus i *franco-canadiens*

eraill⁵³⁴ – arwydd fod y nofel am bortreadu bydysawd penodol ar gyfer

cynulleidfa benodol (Boudreau 1997, t.136). Mae'r gyfeiriadaeth annelwig hon

yn ychwanegu at brofiad darllen *Bloupe*. Heb adnabod y byd diwylliannol

acadien, bydd llawer o'r gyfeiriadaeth yn amhosibl ei deall. Wrth ddefnyddio'r

dechneg hon, bydd darlennydd o'r tu allan i'r byd *acadien* yn cael ei Arallu.

Oherwydd bod 'étudier le langage des autres' (Bp 49)⁵³⁵ yn hollol angenrheidiol

i Bloop, mae'n gorfodi hyn ar ei ddarllenwyr ymylol yn ei dro (Leclerc 2004,

t.294). Yn debyg i'r nofelau sy'n blaenoriaethu darllenwyr dwyieithog wrth

ddefnyddio geiriau iaith₂, mae *Bloupe* yn blaenoriaethu darllenwyr *acadien* drwy

⁵³¹ Dywedodd Alys Conran ei bod yn fwriadol wedi peidio ag enwi Bethesda. Creodd dref oedd yn gyfuniad o'r Bethesda go iawn (capel tebyg i gapel Jerusalem ac enwau strydoedd) a'r ffuglennol (enwau strydoedd dychmygol). Cyfweliad personol 13/10/2017.

⁵³² 'Afon o fwd, afon frown'.

⁵³³ 'cân kacho-aid'.

⁵³⁴ Noda Leclerc fod athrawon o ardaloedd eraill o Ganada a oedd yn dysgu llenyddiaeth *acadien* yn ei chael yn anodd deall y gyfeiriadaeth yn y nofel, a hyd yn oed deall yr ieithwedd (2005, t.282).

⁵³⁵ "Astudio iaith eraill".

ddefnyddio cyfeiriadaeth ddiwylliannol benodol. Ceir enghraifft debyg yng ngolygfa agoriadol *Marriage of Convenience*:

There were nights spent on the Whiterock reading omens in the disappearing clouds. Sardis Road, as dead as The Beatles beneath me, and the neon G of Graig corkscrewing out of the cwm towards Beddau, The Lamb and Flag and beyond. (MoC 85)

Dim ond rhywun sy'n gyfarwydd â'r ardal a fyddai'n ymwybodol bod Whiterock a Graig yn cyfeirio at Graigwen, ardal o Bontypridd, mai Sardis Road yw stadiwm Clwb Rygbi Pontypridd,⁵³⁶ ac mai tafarn ym mhentref Y Beddau yw *The Lamb and Flag*, nid nepell o Bontypridd. Unwaith eto, gwelir sut mae'r gyfeiriadaeth hon yn lleoli'r testun ac yn ategu at brofiad darlennydd sy'n gyfarwydd â'r lleoliad tra'n Arallu darlennydd sy'n anghyfarwydd â'r ardal. Mae'n gwthio'r darlennydd i ddehongli'r gyfeiriadaeth er mwyn gwir werthfawrogi'r testun, yn ogystal â blaenoriaethu darlennydd lleol – fel y defnydd o gyfnewid cod.

Ategir i benodolrwydd bydysawd y testunau gyda chyfeiriadaeth ddiwylliannol, sy'n nodwedd amlwg drwy'r testunau: cyfeirir at gerddoriaeth, celf, llenyddiaeth, athroniaeth, ffilmiau, bwydydd, rhaglenni teledu, enwau enwogion, enwau ceir neu feiciau modur ymysg eraill. Mae llawer iawn o'r gyfeiriadaeth hon yn Saesneg ei hiaith – boed yn Brydeinig neu'n Americanaidd – ond mae llawer ohoni'n rhyngwladol, er enghraifft Daniel yn cyfeirio at *Llythyrau o'r Isfyd* Dostoiefsci (DyE 103) neu chwaer lola yn gwrandao ar gerddoriaeth Norwyeg ac *Yiddish* (P 50). Mae'r defnydd o enwau brandiau'n ategu i'r gyfeiriadaeth ddiwylliannol – dyma'r cynnyrch sy'n gyfarwydd i'r gymdeithas honno.⁵³⁷ Bydd rhai'n gyfarwydd ar draws y byd, ond mae eraill yn llai adnabyddus ar lefel

⁵³⁶ Yn ogystal ag enw stryd yng nghanol y dref.

⁵³⁷ Ceir 'risla'/'rizzla' yn hytrach na phapur sigarét (LID 214; MJS 7), sigarét 'Lucky Strike' (Dd 190) a 'Marlborough Red' (Bp 39), siop goffi Tim Hortons (X 23) a chwrw Moosehead (L 20). Nodir nad yw enwau brandiau'n cael eu cyfrif fel cyfnewid cod yn y corpws gan eu bod yn enwau priod.

ryngwladol, megis cwrw *Sleeman Cream* a *Moose Dry* (PS 192) neu bowdwr golchi *Tide* (PS 365). Gall fod angen i'r darlennydd ddeall beth yw'r cynnyrch sy'n cael ei drafod, megis pan ofynna Étienne i'w dad a fyddai bwyta *Tide* yn eu gwenwyno, heb y cyd-destun mai powdwr golchi ydyw (PS 365). Fel y cyfnewid cod a'r gyfeiriadaeth at leoedd penodol, mae'n ategu i benodolrwydd y testun, gan ei leoli o fewn cymdeithas arbennig.

10.2 Ôl-foderniaeth

Yn yr adran nesaf, trown i drafod y testunau yng ngoleuni theori ôl-foderniaeth, gan ganolbwyntio ar rai o nodweddion ôl-fodern y testunau.

10.2.1 Diffyg llinyn storiol a chronoleg

Mae nifer o'r testunau hyn yn destunau ôl-fodern, heb llinyn storiol na chronoleg.

Nofel sydd heb llinyn storiol penodol yw *Bloupe*. Trafodwyd eisoes fod y prif gymeriad wedi newid ei enw ar ôl cael ei fedyddio, ond nid yw'r bedydd yn newid dim (Bp177). Fel y dywed Masson, 'Bloupe est un facteur maladroit et lunaire, et il demeurera un facteur maladroit et lunaire'⁵³⁸ – oherwydd bod gan y cymeriadau gyn lleied o reolaeth dros eu byd, mae'n amhosibl iddynt ysgogi unrhyw fath o blot (1997, t.131). Ceir arwyddocâd ychwanegol i'r enw 'Bloop' gan ei fod yn gysylltiedig â'r *brain loops* obsesiynol y mae'r cymeriad (a'r nofel) yn mynd yn sownd ynddynt.⁵³⁹ Mae'n nodweddiadol o ddiffyg rheolaeth y cymeriadau ar y byd o'u cwmpas (Boudreau 1999, tt.84–5), efallai oherwydd eu diffyg meistrolaeth dros yr ieithoedd⁵⁴⁰ maluriedig a ddefnyddir yn y nofel (Boudreau 2000, tt.172–3).

⁵³⁸ 'Mae Bloupe yn bostmon trwsgwl a phenchwiban, a phery i fod yn bostmon trwsgwl a phenchwiban'.

⁵³⁹ Megis 'il ne voulait pas looper éternellement cet épisode dans sa brain' (Bp 174) ['nid oedd eisiau *loop*-io'n dragwyddol y digwyddiad hwnnw yn ei frên'].

⁵⁴⁰ Mae ieithwedd *Bloupe* yn gymysgedd o'r Ffrangeg, y Saesneg, *acadien* a *chiac*, fel y noda Boudreau (2000, t.172).

Mae rhai testunau – megis *Wal* a *Sundance* – yn digwydd mewn lleoliad ac amser amhenodol. Â rhai testunau gam ymhellach gan chwarae ag amser sydd felly'n chwarae â'r darlennydd. Gall testun chwarae â'r gorffennol drwy gydb lethu hanes gwir a ffuglennol, ond gall hefyd chwarae â'r presennol drwy chwalu 'the linear coherence of narrative by warping the sense of significant time, *kairos*, or the dull passing of ordinary time, *chronos*' (Lewis 2005, t.114). Nofel o'r fath yw *Bloupe*. Mae'r ysgrifennu'n 'baroque, fragmentaire et non-linéaire' (Richard 2016, tt.133–4).⁵⁴¹ Disgrifia Masson y nofel fel 'l'expansion du moi littéraire',⁵⁴² heb gronoleg na phlot, sydd weithiau'n diflasu'r darlennydd (1998, t.43). Mae'r gronoleg yn cael ei thanseilio gan yr awdur (Richard 1998, t.29), megis yr enghraifft isod:

Deux jours avant la fête à Ara. Dix minutes trop tôt. Tilleul debout si tôt.
Il a été à la toilette. Dive aussi. Ara est si collante.
Presque deux mois après. (Bp 184)⁵⁴³

Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd – os nad yn amhosibl – i ddilyn y plot (Vaillancourt 2007, t.81) oherwydd bod trefn amser weithiau'n 'cahotique' (Longeran 2008, t.28).⁵⁴⁴

Ceir ymdeimlad estron tebyg yn *Pour Sûr* yn ogystal. Nid nofel draddodiadol mohoni, ond nofel sydd â strwythur penodol a chaeth. Ffurfir y nofel o gyfres o *fragments*; cred France Daigle eu bod yn gweddu'n well i'n cyfnod ni nag arddull hirfaith yn null Proust (Boehringer 2004, t.21). Chwaraeir â darlennydd y nofel hon hefyd gan fod math o gronoleg yma, ond dywed yr awdur ei fod yn gronoleg ffals nad yw'n bwysig, sy'n tanlinellu rôl hap/ffawd (Boehringer 2004,

⁵⁴¹ "baróc, tameidiog, ac anunionlun".

⁵⁴² "truth yr hunan llenyddol".

⁵⁴³ "Ddeuddydd cyn penblwydd Ara. Ddeng munud yn gynharach. Tilleul wedi codi mor gynnar. Mae wedi bod i'r tŷ bach. Dive hefyd. Mae Ara mor ludiog. Bron i ddeufis yn ddiweddarach."

⁵⁴⁴ 'tryblithiog'.

t.22). Gellir gweld y ffug-gronoleg hon yn y nofel gan fod sgysiau'n cael eu rhannu rhwng sawl *fragment*. Er enghraifft, mae sgwrs am golur rhwng Terry a Carmen wedi'i rhannu rhwng tri *fragment*,⁵⁴⁵ ond mewn sgwrs â Zed (PS 602-3) dywed Terry fod y sgwrs hon wedi digwydd y bore hwnnw. Ceir ffurf debyg ar gronoleg ffals yn *Dyn yr Eiliad*, sef ymdeimlad o ryw fath o gronoleg, ond hwnnw wedi'i aflonyddu; nid yw'r stori'n 'dilyn llinyn amseryddol gronolegol' (Crockett 2003/4, t.70). Mae'r nofel yn symud rhwng presennol Daniel, yr 'awdur',⁵⁴⁶ y gorffennol agos wedi marwolaeth Davies, a'r gorffennol pell(ach) yn yr atgofion o gyfeillgarwch Daniel a Davies, o'u plentyndod hyd at farwolaeth Davies. Mae'r tri amser hwn yn gweu ynghyd wrth i Daniel geisio deall eu perthynas a chofio'i ffrind. Wrth aflonyddu amser, mae Owen Martell yn gwyrddroi disgwyliadau'r darlennydd gan wthio'r darlennydd i rôl weithredol wrth iddo/i orfod darllen yn ofalus er mwyn deall y gronoleg arbennig a ddefnyddir yn y testunau hyn.

10.2.2 Chwarae ag iaith

Mae'r defnydd o gyfnwid cod yn y testunau dan sylw yn rhan o ddiddordeb yr awduron mewn ieithoedd, a chwarae ag iaith yn nodwedd arall sy'n perthyn i'r diddordeb ieithyddol hwn. Mae'n pwysleisio'r ffaith mai rhywbeth ansefydlog a goddrychol yw iaith damcaniaeth greiddiol i ôl-foderniaeth. Ceir enghreifftiau o chwarae â geiriau yn *Pour Sûr*, megis y cymeriad y mae Terry'n ei greu i'w blant – Souricette ('comme dans Souris 7, rīght' (PS 10)⁵⁴⁷), llygoden sy'n gweithio mewn labordy. Ceir hefyd enghreifftiau o gymeriadau'n camglywed geiriau, megis cwsmer sy'n siarad Ffrangeg fel ail iaith yn camynganu 'plus vieux' (hŷn)

⁵⁴⁵ 290.87.2 (PS 125-6), 380.107.1 (PS 164-5) a 1370.94.4 (PS 589-590).

⁵⁴⁶ Ychydig wedi angladd Davies, mae'n debyg.

⁵⁴⁷ "Fel yn 'llygoden saith', ie?" Ceir yma chwarae ar eiriau: ystyr 'Souricette' yw 'llygoden fach', ond mae Terry'n chwarae â sŵn y gair: 'souris' yw llygoden, a 'sept' yw saith.

fel 'pluvieux' (glawog) (PS 351) neu Chico, mab mabwysiedig Zed, yn camddeall 'bénévole' (gwirfoddolwr) ac yn dweud wrth ei dad bod dyn o'r enw Benny Vole wedi galw (PS 505). Dangosir y gofod sy'n bodoli rhwng geiriau a'u hystyr. Dyma ddamcaniaeth sy'n greiddiol i theori strwythurol Saussure, sef mai cysylltiad mympwyol sydd rhwng gair a'r cysyniad neu'r hyn y mae'n ei ddisgrifio. Yn ôl theori Saussure, 'nid 'enw' a 'pheth' a unir mewn gair ond 'delwedd' a 'chysyniad' (Aaron 1992, t.66) – hynny yw, nid oes perthynas naturiol rhwng y gair 'ci' a'r anifail, dim ond cytundeb ymysg siaradwyr mai dyma'r ystyr. Fel yr esbonia Culler '*Lod, tet, or bloop would serve equally well [to signify 'dog'] if they were accepted by members of my speech community*' (1985, t.19).

Ceir enghreifftiau tebyg o dorri geiriau i lawr yn *Pigeon* megis Pigeon yn dweud 'anna lice it' (P 12) yn hytrach nag 'analyse'. Mae ei lyschwaer Cher, sydd o Loegr, yn ei gywiro: "Snot anna lice, stewpit, it's analyse" (P 13). Mae'r 'camgymeriadau' yn ei Saesneg hithau, fel 'snot' (it's not) a 'stewpit' (stupid), yn tanseilio ei hawdurdod. Dangosir nad diffyg gallu ieithyddol fel siaradwr ail iaith yw 'camgymeriad' Pigeon, ond nodwedd sy'n perthyn i bob siaradwr ym mhob iaith. Mae hyn yn ffordd o roi sylwebaeth ar iaith yn ogystal ag ychwanegu hiwmor. Ceir hefyd ddadadeiladu iaith safonol er mwyn dangos tafodiaith, sy'n creu ieithwedd arbennig ar gyfer cymeriad. Mae creu ieithwedd yn rhan allweddol o gymeriadu, fel y dadleua John Yorke: '[g]rammar, vocabulary, syntax, rhythm, sentence length, jargon or slang – when combined in a particular way, they all allow us to understand who a person is' (2014, t.151). Trafodwyd eisoes rôl cyfnewid cod mewn idiolect cymeriadau, megis Idris yn Y

Ddyled.⁵⁴⁸ Ceir enghreifftiau uniaith hefyd, megis y defnydd o ffurfiau llafar yn y ddrama *Moncton Sable*,⁵⁴⁹ a chywair anffurfiol ieithwedd y cymeriad Jay yn AGCH.⁵⁵⁰ Wrth gwrs, nid yw hon yn nodwedd newydd mewn llenyddiaeth; nodir defnydd Kate Roberts o '[wedd] ar y cywair llenyddol llafar safonol (sy'n gogwyddo ychydig at dafodiaith) yn ei sgysiau mewn nofelau' (Jones 1985, t.150). Mae acenion yn cael eu hysgrifennu yn ffonetig, megis Mrs Gelataio yn *Pigeon*, a'i hacen Eidalaid gref (e.e. "these aterrrible plastic atracksuits" (P 85)), ffrind tad Oliver ("Ow-er you, boy bach? [...] Yew getting old, mush. 'Ow-zoo lady-wife?" (Sb 129)) neu fardd sydd wedi dysgu Ffrangeg yn *Pour Sûr* ('Je ne connaisse passe ce poète. « Alléze dire à la Honte que je meurse d'amour pour elle... » C'este beau, n'est-ce passe?" (PS 513)).⁵⁵¹ Mae'r enghreifftiau hyn oll yn dangos sut mae'r awdur yn chwarae ag iaith, gan geisio efelychu nodweddion o iaith lafar ar bapur. Mae'r chwarae hwn yn dangos hyblygrwydd iaith, yn ogystal â phwysleisio fod ystyr yn ansefydlog, a bod angen ailystyried ac ailddiffinio er mwyn cael gwir ddealltwriaeth.

Gellir chwarae ag iaith er mwyn portreadu idiolect cymeriad arbennig fel yn achos Debs yn *Tonypandemonium*. Defnyddir malapropriaethau, sef 'to [inadvertently] replace one word with another which is similar in sound but has a different meaning' (Culpeper 2001, t.37), er enghraifft 'substance' (yn hytrach na 'sustenance') (T 7), 'the discovery position' (the recovery position) (T 26), 'imploring me' (provoking me) (T 32) a 'stop your mingeing' (stop your moaning)

⁵⁴⁸ Gweler t.138.

⁵⁴⁹ Gweler t.263.

⁵⁵⁰ Gweler t.227.

⁵⁵¹ Mae'r cymeriad yn dyfynnu cerdd gan y bardd Ffrengig Valery Larbaud. Dyma eiriau'r cymeriad mewn Ffrangeg safonol: "Je ne connais pas ce poète. «Allez dire à la Honte que je meurs d'amour pour elle...» C'est beau, n'est pas?". Gweler ei fod yn dueddol o ynganu cytseiniaid olaf gair, yn groes i reolau'r Ffrangeg, a'r defnydd o acen ar y ferf 'aller' yn dangos ei gamynganiad.

(T 73). Mae'r ffaith ei bod yn cael ei chywiro gan ei merch yn ffordd o ddangos y tensiwn sy'n nodweddiadol o'u perthynas, ac yn ychwanegu hiwmor i'r ddrama. Mae nifer o'r testunau hefyd yn chwarae â chyfieithu. Er enghraifft, yn *Bones to Ashes*:

“L'air conditionné est brisé.”

On Hippo's tongue the word for broken came out “breezy.” Hardly.
(BtA 100)

Mae'r cyfieithiad hwn yn helpu darlennydd uniaith Saesneg i ddeall y dyfyniad,⁵⁵² ond mae hefyd yn cyflwyno elfen o hiwmor. Yn *Moncton Sable*, gwelir arwydd lle nad yw'r Saesneg a'r Ffrangeg yn cyfateb (“gone to lunch / chu malade et j'me gouverne” (MS 34)),⁵⁵³ a fyddai'n amlwg i gynulleidfa ddwyieithog. Ceir awgrym yn *Bloupe* bod y cwmni 'Taxi Co. Maine' yn defnyddio'r enw er mwyn cuddio busnes cyffuriau fel busnes tacsï (Bp 105), gan guddio'r gair *toxicomane*, sef rhywun sy'n gaeth i gyffuriau. Mae Llwyd Owen hefyd yn hoff o chwarae â chyfieithiadau,⁵⁵⁴ a bathir llith o dermau Cymraeg sy'n dibynnu ar gyfieithu er mwyn eu deall, megis 'paffwyr' (boxer shorts), 'perlysiâu' (cannabis – 'herb'), a 'colomennod calchaid' (ecstasi – enw math neilltuol yw 'doves').⁵⁵⁵ Gan fod y termau hyn yn dibynnu ar wybodaeth y darlennydd o'r ddwy iaith, maent yn chwarae â dwyieithrwydd y darlennydd mewn ffordd soffistigedig iawn. Fel yr esbonia Bhabha, mae'r Trydydd Gofod yn cynnig lle i aildehongli: 'the same signs can be appropriated, translated, rehistoricized and read anew' (1994, t.37). Daw'r Gymraeg a'r Saesneg at ei gilydd wrth i'r awdur chwarae â chyfieithu. Mewn nifer o achosion, rhaid medru'r Gymraeg a'r Saesneg er

⁵⁵² Mae'n dangos y Ffrangeg, ond yn rhoi cymorth i'r darlennydd uniaith Saesneg ei ddeall. Gweler trafodaeth bellach o'r dechneg hon (t.195 a t.290).

⁵⁵³ “gone to lunch / dwi'n sâl a dwi'n edrych ar ôl fy hun”. Gweler trafodaeth o enghreifftiau pellach o chwarae â chyfieithu yn *Moncton Sable* ar t.254.

⁵⁵⁴ Ceir trafodaeth o'r nodwedd hon yn *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau* yn Orwig (2015, tt.115–7).

⁵⁵⁵ Ceir hefyd lawer o fathu termau Cymraeg heb ddibyniaeth ar y Saesneg, megis 'Gwynfryn' a 'gorymdeithbowdwr' (cocaine) a 'drewgi crisalog' (cannabis cryf).

mwyn deall arwyddocâd a hiwmor yr enghreifftiau hyn; rhaid deall y ddwy iaith er mwyn cael mynediad i'r Trydydd Gofod hwn a grëir gan yr awdur.

Dadleua Bruce mai yn *Bloupe* y mae Babineau yn chwalu'r cod ysgrifenedig i'r eithaf (2007, t.35), ac yn wir, mae Babineau yn torri'r iaith yn ddarnau mân (Boudreau 1997, t.134). Ceir enghreifftiau o hyn ar draws y nofel, ond mae enghraifft arbennig wrth i Bloop ysgrifennu cais am swydd:

J'étais driver et chipper man pour Forest's Tree and Weed Control à Rosemel.
Ma fourremation a été dirigée plutôt vers ou contre les humanités.
Les arts statuels, la lit térature francçoise et angloise, la langoustique, listoire, enfin tous les do maines qui concernet la transmission automatique, manuelle et vie sue elle, o râle et é kri te des idées, des sang tit ments, de l'x sis tance des jams. Ce ci di, hé pansions que mon estanding en Temps que hujet berlingouin est con cer né, h'est haddiquat. Alright, là? So baillez moi une job. O.K? Au plus sacrant.
(Bp 72-3)⁵⁵⁶

Mae'r defnydd o *chiac* yn y frawddeg agoriadol uchod fel 'tache d'huile'⁵⁵⁷ neu ddolur llygad ar y cais, ys dywed Bruce (2007, t.36). Mae'r awdur yn gwyrddroi disgwyliadau ieithyddol cais am swydd drwy chwarae â chywair ffurfiol, iaith lafar, a geiriau Saesneg. Mae'n ychwanegu llythrennau diangen ('berlingouin' – bilingue (Boudreau 1999, t.83)) ac yn dadadeiladu geiriau ('o râle et é kri te' – orale et écrite; 'sang tit ments' – sentiments). Dangosir ieithwedd weinyddol yn cael ei cham-drin (Boudreau 1999, t.83) gan fod yr ieithwedd hon yn gymorth i'r sefydliadau swyddogol sy'n ymwrthod â Bloop a'i ieithwedd *chiac* (Bruce 2007, t.36).

⁵⁵⁶ Mae'n anochel y bydd peth o'r chwarae â geiriau'n cael ei golli wrth gyfieithu, ond rhoddir brasamcan o'r dadadeiladu iaith a'r chwarae â geiriau sydd gan Babineau yma: 'Roeddwn yn driver a chipper man i Forest's Tree and Weed Control yn Rosmel. Roedd fy hyffwrchiant yn anelu at neu yn erbyn y dyniaethau. Celf ddelweddol, llen nyddiaeth ffrenkig a seisneg, iaithyddiaith, hns, wel pob ma es sy'n ymwneud â transmission awtomatig, manual a gwe le dol, lla far ac ys gri fen ed ig o syniadau, o dei mla dau o fo dol aeth dun. Wedi de ud hynny, tybiwch fod fy enw da fel dinesydd dwyieithog yhn yh cwe stiwn, mhae'n ddigonol. lawn fel'na? So rhowch job i fi, iawn? Er mwyn Duw.'

⁵⁵⁷ *Ink blot* fyddai'r cyfieithiad Saesneg.

Mae chwarae ag iaith yn nodwedd greiddiol yng ngwaith Aled Jones Williams, fel y gwelir yn *Sundance* a *Wal*. Dywed Nic Ros, '[b]ardd yw Sundance sy'n ymfalchïo mewn geiriau sy'n fodd iddo greu'i realiti'i hun' (2002, t.17). Mae'n chwarae â geiriau drwy gysylltu geiriau a chanddynt sŵn tebyg, megis yr enghraifft isod:

Williams, Margaret... Ar ôl cystudd hir wedi ei ddioddef ag urddas...
Cystudd.
Clustog.
Pen mam yn fach ar y glustog.
Clustfeinio.
Wrth y drws.
Y docdor yn sibrwd mor dawel ag eda yn dŵad o rîl.
Cystudd.
Clustog.
Clustfeinio.
Cansan.
Cnebrwn. (Sd 44)

Drwy gysylltu'r geiriau hyn, mae'n ein harwain at gyfres o atgofion sy'n gysylltiedig â marwolaeth ei fam. Mae ei gynildeb yma yn ein galluogi i werthfawrogi galar dwys y cymeriad. Gan mai monolog yw *Sundance*, mae'r dechneg hon yn galluogi'r dramodydd i symud y testun at bwnc arall heb iddo deimlo'n anghysylltiedig. Yn *Wal*, gwelwn fod y chwarae yn mynd ymhellach wrth chwarae â synau, megis yr isod:

EDDY: Be sy rhwng geni a marw?
ALJI: A!
EDDY: A?
ALJI: A.
EDDY: A.
ALJI: A.
EDDY: O!
ALJI: Naci... A...
EDDY: A!
ALJI: (YN GWEIDDI A THAFLU EI HUN AR Y WAL)
A!
MUDANDOD. (W 102)

Dangosir bod ystyr geiriau'n lluosog ac yn annibynadwy, sydd eto'n cysylltu â theori strwythurol. Mae yma gysylltiad â damcaniaeth Sussure (1916), sy'n

dadlau mai perthynas ansefydlog sydd rhwng gair ac ystyr. Mae'r chwarae hwn ag iaith yn *Wal* yn dangos bod angen dehongli, deall, ac ailddehongli, ac nad yw ystyr yn rhywbeth statig. Mae'r chwarae hwn ag iaith a welir yn y testunau yn pwysleisio ansefydlogrwydd iaith, gan roi bri ar sgiliau dehongli'r darllenydd – gan gynnwys sgiliau dwyieithog mewn sawl achos.

10.2.3 Efen aml-leisiol

Nodwedd arall sy'n perthyn i ôl-foderniaeth sy'n bresennol mewn nifer o'r testunau a astudir yma yw'r elfen aml-leisiol. Ymdebyga i'r polyffoni a geir yn nofelau Dostoevsky yn ôl Bakhtin; 'a plurality of independent and unmerged voices and consciousnesses, a genuine polyphony of fully valid voices' (1984, t.6). Yn hytrach na chreu testun sy'n creu teimlad o undod, gydag un gwirionedd, crëir testun sy'n pwysleisio'i natur ddernynnol (*fragmentary*) – elfen ôl-strwythurol, gan ei bod yn dangos sawl gwirionedd, dehongliad neu ymagwedd. Ceir elfen aml-leisiol yn *Pour Sûr*, sydd wedi'i adeiladu o nifer o *fragments*, a'r adeiladwaith wedi'i seilio ar y rhif 12. Ceir 12 pennod sy'n cynnwys 144 *fragment* yr un, ac mae'r *fragments* oll yn perthyn i un o 144 thema. Mae'r hoffter hwn o strwythur yn nodweddiadol o *oeuvre* yr awdur, gyda'i 'impression de fragmentation extrême' (Boudreau 2002, t.294).⁵⁵⁸ Wrth ddarllen gweithiau Daigle, dywed Ricouart 'one is struck by their complex structure which forces the reader to participate actively in the reconstruction of the text' (2001, t.261). Ceir cydbwysedd rhwng y darnau *esoteric* a'r 'fragments that comprise a dialogue-driven plot skilfully crafted jumping between a variety of narrators' (Tribinevicius 2013). Mae rhai darnau'n canolbwyntio ar fywyd Carmen a Terry, a'r darnau *esoteric* yn cynnwys 'dyfyniadau' o destunau megis papurau newydd, geiriaduron (gan gynnwys *Fictionnaire*, sef geiriadur ffug),

⁵⁵⁸ "yr argraff o chwalu eithafol".

rhestrau o eiriau ac enwau, cofnodion gemau *Scrabble*, cerddi, a hafaliadau mathemategol. Ceir hefyd gyfres o fonologau neu sgysiau gan gymeriadau anhysbys. Nid oes plot fel y cyfryw, ond mae'r ffocws yn sicr ar iaith, gyda phwyslais ar deulu Terry a Carmen. Mae hon yn ffordd o ddangos datblygiad ieithyddol plant, a phwysigrwydd iaith yn y cyd-destun *acadien*. Mewn cyfweiliad â'r awdur,⁵⁵⁹ esboniodd ei bod wedi ystyried creu llyfr ar-lein.⁵⁶⁰ Esboniodd y byddai dau ddewis i'r darlennydd ym mhob rhan o'r nofel, felly gallai pob un ei ddarllen yn ôl y dewisiadau y byddai'n ei wneud wrth fynd rhagddo. Gwelir bod y nofel yn ymdebygu i 'hypertext', fel y'i disgrifir gan Delaney a Landow: 'a variable structure, composed of blocks of text (or what Roland Barthes terms *lexias*) and the electronic links that join them' (1991, dyfynnir yn Allen 2000, t.200). Byddai hyn yn gwneud y profiad darllen yn unigryw, a gallai'r darlennydd ailddarllen y nofel mewn ffordd wahanol. Dyma'r egwyddor sy'n gorwedd y tu ôl i ffurf *Pour Sûr* er mai nofel wedi'i chyhoeddi yw hi yn hytrach na nofel ar-lein.

Mae adeiladwaith *Bloupe* hefyd yn nodweddiadol iawn o ôl-foderniaeth.

Disgrifir hi fel 'un texte resolutement brouillon' (Leclerc 2005, t.287),⁵⁶¹ ac fel y dywed Masson, nid oes modd darllen y nofel hon fel nofel draddodiadol:

C'est du texte: brut, heurté, inventif, savant, espiègle, indécis, jamais chagrin mais vraiment mélancolique. Il témoigne pourtant d'une conscience littéraire acadienne. (1998, t.44)⁵⁶²

Oherwydd nad yw hi'n nofel draddodiadol, mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar y darlennydd. Gwneir hyn mewn sawl ffordd; rhaid gweithio er mwyn ceisio dilyn y nofel, dadansoddi'r gyfeiriadaeth, a deall pa gymeriad sy'n siarad. Er bod gwahaniaeth mawr rhwng strwythur manwl *Pour Sûr* ac anhrefn *Bloupe*, mae'r

⁵⁵⁹ Cyfweiliad personol 26/05/2016.

⁵⁶⁰ Dywedodd ei bod wedi meddwl am greu hyn ar ôl darllen damcaniaeth Umberto Eco ar godau ieithyddol gwahanol.

⁵⁶¹ 'A resolutely muddled/draught text'.

⁵⁶² "Testun ydyw: amrwd, herciog, creadigol, hyddysg, drygionus, amhendant, byth yn alarus ond wir yn felancaidd. Fodd bynnag, mae'n dyst i ymwybyddiaeth lenyddol *acadien*."

ddau yn galw ar y darllenydd i weithio i ddeall y testun, yn hytrach na darllen y testun fel nofel draddodiadol. Mae Barthes yn gwahaniaethu rhwng testunau *lisible* (darllenadwy), sef nofel fwy traddodiadol, lle mae'r darllenwr mewn rôl oddefol, a'r testun yn arwain y darllenydd at *un* gwirionedd sy'n cael ei greu gan *un* llais, a thestunau *scriptible* (ysgrifenedwy), gyda'r darllenydd mewn rôl weithredol yn ailadeiladu ac ail greu'r testun (1970, tt.9–12). Daw'r darllenydd yn gyd-awdur, oherwydd yn ei rôl weithredol 'it is he or she who is responsible for activating [the text's] meanings' (Nicol 2009, t.44).

Gwneir defnydd o lais y prif gymeriad fel adroddwr mewn nifer o'r testunau, ond mae rhai testunau'n defnyddio arddull aml-leisiol. Mewn ambell nofel, defnyddir y dechneg o amrywio llais yr adroddwr, gan symud rhwng y trydydd person a'r person cyntaf, yn aml heb rybudd. Dyma ffordd arall o wthio'r darllenydd i rôl weithredol, gan fod angen darllen yn ofalus er mwyn deall pa lais sy'n cael ei ddefnyddio, yn enwedig gan y gall fod yn annelwig ar adegau. Mae *Xman* a *Dyn yr Eiliad* yn symud rhwng llais y prif gymeriad yn y person cyntaf a safbwynt adroddwr sy'n adrodd yn y trydydd person,⁵⁶³ heb batrwm penodol i'r symud.⁵⁶⁴ Mae defnydd y trydydd person yn *Bloupe* yn ychwanegu at 'aspect fantasmagorique'⁵⁶⁵ y nofel (Masson 1997, t.129), a chan ei fod yn symud rhwng y person cyntaf a'r trydydd yn ddisymwth, rhaid darllen yn ofalus i ddeall pwy sy'n siarad (Longeran 2008, t.28). Noda Richard fod y drafft cyhoeddiedig o'r nofel yn defnyddio llawer mwy o'r person cyntaf na'r drafft anghyhoeddiedig (2011-2012, t.206). Mae'n debyg y gwnaed hyn oherwydd fod y person cyntaf yn creu teimlad o agosatrywydd rhwng y darllenydd a'r prif gymeriad (Culpeper

⁵⁶³ Gyda'r prif gymeriad fel canolbwynt.

⁵⁶⁴ Hynny yw, penodau neu adrannau penodol yn y llais cyntaf neu'r trydydd person.

⁵⁶⁵ 'nodwedd *fantasmagorical*.

2001, tt.146–7). Yn *Xman*, defnyddir y trydydd person i roi safbwynt mwy datgysylltiedig o'i gymharu â naratif personol Xavier. Er enghraifft, pan ddargenfydd Xavier y ddogfen sy'n dweud y bydd yr amgueddfa'n cael ei throsglwyddo i dîm gwahanol, mae ei ymateb ef yn y person cyntaf, ond mae'r naratif yn symud i'r trydydd person er mwyn esbonio cynnwys y ddogfen (X 252). Gellir symud o'r trydydd person i'r person cyntaf os ydys am roi gogwydd mwy personol i'r testun, megis pan yw'r prif gymeriad yn datgan y byddai'n prynu car i'w gariad petai'n ennill y loteri (X 235-6). Nododd yr awdur⁵⁶⁶ mai un o'r ychydig ganllawiau ysgrifennu a oedd ganddi oedd mai yn llais Xavier yn unig y gellid defnyddio cyfnewid cod, ac nid yn y trydydd person. Awgrymodd y cyhoeddwr y gallai ysgrifennu'r nofel gyfan yn y person cyntaf, ond roedd hi am ddefnyddio'r trydydd person er mwyn gallu siarad *am* Xavier gan ei fod yn rhan bwysig o'r stori. Gwelir sut y mae amrywio rhwng y person cyntaf a'r trydydd person yn galluogi awdur i amrywio rhwng safbwyntiau yn y naratif.

Dywed Daniel Williams mai 'sylfaen ffurf drawiadol *Dyn yr Eiliad* yw'r ffordd y mae'n symud o lais cymeriad yn siarad yn y person cyntaf i lais adroddwr confensiynol y nofel reolaidd glasurol sy'n siarad yn y trydydd person' (2005, t.23). Defnyddir y dechneg hon i atgyfnerthu prif thema'r nofel. Mae Daniel, y prif gymeriad, yn ysgrifennu'r nofel er mwyn ceisio datrys marwolaeth ei ffrind, Davies, ac er mwyn coffáu ei ffrind. Ceir nifer o awgrymiadau bod Daniel a Davies yn 'deillio o'r un cnewyllyn personoliaethol' (Evans 2010, t.143). Nodir bod Daniel a Davies wedi '[tyfu] i fyny gyda'i gilydd, tyfu *mewn* i'w gilydd, bron' (DyE 32). Trafodwyd eisoes bwysigrwydd enwau priod yn y testunau, ac mae enwau *Dyn yr Eiliad* yn arwyddocaol. Cyfeirir at un prif gymeriad (Daniel) gyda'i

⁵⁶⁶ Cyfweliad personol 06/06/2016.

enw bedydd, a phrif gymeriad arall (Davies) gyda'i gyfenw, sy'n awgrymu eu bod yn ffurfio un endid (Evans 2012, t.78).⁵⁶⁷ Gellid dadlau bod Davies yn chwarae rhan yn ysgrifennu Daniel, ac mai Davies sy'n berchen ar y llais sy'n adrodd yn y trydydd person (Evans 2012, t.70). Mae cyd-ysgrifennu Davies yn cael ei awgrymu mewn un olygfa, pan â Daniel drwy bapurau a dyddiaduron Davies:

Roeddwn i wedi dychmygu hefyd, mewn pwl o paranoia llenyddol, y byddwn i'n dod wyneb yn wyneb â llyfr oedd yn dechrau gyda'r union un brawddegau ag yr ydw i wedi'u defnyddio ar ddechrau'r nodiadau hyn, ac y byddai'r brawddegau cyntaf yn parhau nes eu bod nhw'n baragraffau ac yna'n dudalennau cyfain, ac y byddwn i'n gweld fy holl ysgrifeniadau i, a fy holl deimladau a syniadau wedi cael eu rhagweld, a'u rhag-fynegi, a'u rhag-ysgrifennu gan Davies... Ond doeddwn i ddim hyd yn oed wedi dechrau ysgrifennu'r nodiadau hyn ar y pryd, felly roedd hynny'n nonsensical. (DyE 289-290)

Wrth ddarllen cerddi Davies, mae Daniel yn gweld ei ymdrech i beidio â bod yn blentynnaidd, ond 'yn ei ymdrechion i wrth-ddweud y bachgendod oedd yn ei gaethiwo er gwaetha'i hun, doedd e byth yn fwy bachgennaidd' (DyE 291). Yr eironi yw y gellid dadlau rhywbeth cyffelyb am Daniel yn ogystal; mae'n ysgrifennu am Davies er mwyn ceisio diffinio'i hun nawr bod ei gyfaill wedi marw. Ond mae'n diffinio'i hun yn nhermau cholled Davies, sy'n golygu bod Davies yr un mor greiddiol i'w hunaniaeth yn farw ag ydoedd yn fyw. Ni all Daniel dorri'n rhydd rhag ei ddylanwad. Tua diwedd y nofel, sylweddola nad oes modd iddo gadw ei hun allan o'r stori, ac mae'n 'amau'n gryf bod Davies wedi gweld cydlifiad y ddau [ohonynt] reit o'r dechre' (DyE 312), gyda Dan yn adrodd stori Davies, eu stori hwy. Defnyddir yr amrywiaeth rhwng naratif yn y

⁵⁶⁷ Cawn wybod mai Robert Geraint Davies yw enw llawn Davies (DyE 146) ac mai Thomas yw cyfenw Daniel (DyE 28), ond fel 'Davies' a 'Daniel' neu 'Dan' y cyfeirir atynt yn y nofel. Er mai Robert oedd yw cyntaf Davies, dim ond ei fam (DyE 161) a thad Daniel (DyE 27) sy'n defnyddio'r enw hwnnw.

trydydd person a'r person cyntaf er mwyn dangos y cymhlethdod ym mherthynas y cymeriadau.

Hyd yn oed mewn testunau nad ydynt yn ôl-fodern, defnyddir technegau aml-leisiol eraill. Mae nifer o'r dramâu yn cyd-blethu monologau a deialogau er mwyn creu syniad o bolyffoni – ond yn amlwg, mae hyn yn wahanol iawn i'r technegau y gellir eu defnyddio mewn nofelau. Cyfres o fonologau gan y ddwy famgu sydd yn BD/DBG – sy'n dangos y ddwy hunaniaeth (ffrancoffon ac angloffon) sy'n perthyn i'r wyres – ond ceir deialog rhyngddynt yn yr olygfa olaf. Yn *Llwyth*, mae'r ddeialog a'r monologau wedi'u cyd-blethu yn dynn iawn, ac yn llifo i'w gilydd, er nad yw monologau Aneurin yn cael eu clywed gan y cymeriadau eraill.⁵⁶⁸ Yn *Tonypandemonium*, cyflwynir tri chymeriad sy'n fersiwn o'r un ferch ar oedrannau gwahanol, gyda Danielle yn naw mlwydd oed, pymtheg mlwydd oed a deunaw mlwydd oed, a'r tair yn siarad gyda'i gilydd, sy'n chwalu realaeth y ddrama. Mae AGCH yn cyd-blethu monologau a deialogau, gyda chymeriad Hefin yn defnyddio'r Gymraeg yn ei fonologau, ond mae'r holl ddeialog gyda Jay yn digwydd yn y Saesneg gan nad yw'n medru'r Gymraeg.⁵⁶⁹ Nodir hefyd mai dim ond dau actor sydd ar y llwyfan yn AGCH, ond mae ambell linell o ddeialog cymeriadau eraill wedi'u gweu i mewn i'r ddrama.⁵⁷⁰ Defnyddir cyfuniad o fonologau a deialogau yn *Bullshit* hefyd, er enghraifft gyda'r cymeriadau'n cyflwyno monologau tebyg wrth ddatgelu eu breuddwydion wrth y pysgodyn. Wrth gwrs, nid yw'r cyfuniad hwn o fonolog a deialog yn anghonfensiynol mewn dramâu, ond mae'n rhoi elfen aml-leisiol i'r testunau. Wrth ddefnyddio'r dechneg hon, gellir dangos y cymeriadau ar wahân

⁵⁶⁸ Trafodir enghraifft ar t.227.

⁵⁶⁹ Trafodwyd eisoes yn y bennod hon bod yr olygfa olaf yn dangos bod Jay'n dysgu Cymraeg.

⁵⁷⁰ Er enghraifft Reann (mam fiolegol Jay a Hefin) a Ros (mam fabwysiadu Hefin). Gweler enghraifft o hyn (a'r rheolau fformatio yn y ddrama) ar t.226.

cyn iddynt gyfarfod mewn deialog, sy'n caniatáu'r darllenydd i weld sawl ochr iddynt. Gellir gweld deinameg grŵp yn amlwg pan ydynt mewn deialog (Waters 2010, t.124), a gellir gweld cymeriadau'n amrywio iaith dan ddylanwad eu cydsiaradwyr.⁵⁷¹ Trafodwyd eisoes fod y gyfran o gyfnewid cod yn amrywio, gyda chyfradd uwch mewn golygfeydd lle mae'r cymeriadau mewn deialog o'i gymharu â monologau,⁵⁷² gyda'r cymeriadau'n cael eu dangos yn amrywio'u ieithwedd yn ôl y sefyllfa.⁵⁷³

Elfen debyg i'r elfennau aml-leisiol hyn yw cydblethu elfennau gwahanol o fewn fframwaith testun rhyddiaith mwy traddodiadol. Defnyddir caneuon mewn rhai o'r dramâu, fel canu 'Bonkers' Dizze Rascal ar y karaoke yn AGCH (gan gynnwys cyfieithiad Cymraeg) a chaneuon gwreiddiol yr awdures yn BD/DBG. Gwelir cyfryngau gwahanol yn cael eu defnyddio ar y llwyfan, megis y ffilm *High Plains Drifter* ar y teledu yn *Sundance*,⁵⁷⁴ neu'r negeseuon Facebook sy'n cael eu taflunio ar gefnlen AGCH. Mae'r nofelau hefyd yn defnyddio elfennau gwahanol, megis *Volkswagen Blues* sy'n cynnwys mapiau a diagramau y cyfeirir atynt yn y naratif, neu'r holiaduron golff yn *Pour Sûr*. Mae *Bloupe* yn troi confensiwn llenyddol ar ei ben gan gynnwys geiriau ar wasgar neu wedi'u hysgrifennu'n fertigol. Mae hefyd yn cynnwys darluniau o ffurflenni, derbynebaw tacsî, a brasluniau o bob math. Mae hon yn ffordd ychwanegol i'r nofel ddangos bod iaith yn 'matériaux concret et difficile à maîtriser' (Leclerc 2004, t.299).⁵⁷⁵ Mae hefyd yn ffordd arall i'r nofelau wthio ffiniau'r genre, 'er mwyn dangos nad

⁵⁷¹ Trafodwyd theori ymgymhwysio iaith (Giles et al. 1991) ar t.86.

⁵⁷² Gweler t.276.

⁵⁷³ Gweler t.275.

⁵⁷⁴ Gwelir bod obsesiwn Sundance â ffilmiau *Western* yn effeithio ar ei ieithwedd, gyda'r nodwedd hon yn gyfrifol am nifer o'r enghreifftiau o gyfnewid cod t.234.

⁵⁷⁵ 'deunydd diriaethol ac anodd ei feistrioli'.

yw hunaniaethau cymhleth eu cymeriadau yn gweddu i'r fframweithiau pegynol sydd eisoes yn bodoli' (Sheppard 2018, t.131).

10.2.4 Chwarae â'r darlennydd

Un o'r prif wahaniaethau rhwng testunau ôl-fodern a thestunau modernaidd yw chwarae a'r darlennydd; '[modernist fiction] nearly always 'played fair' in the relationship of the text to a (historically) possible world' (Butler 2002, t.70). Mae rhai o'r nofelau a astudiwyd yn y traethawd hwn yn chwarae â realiti, a rhai eraill yn cynnwys elfennau o swrealaeth. Yn *Dyn yr Eiliad*, chwaraeir â chonfensiwn *noir*. Mae'r broliant ar siaced y nofel yn arwain y darlennydd i feddwl mai *thriller* yw *Dyn yr Eiliad* (Evans 2010, t.148).⁵⁷⁶ Gwelir elfennau o'r genre hon yn y testun, megis yr olygfa (DyE 170-2) pan yw Anna a Daniel fel petaent yn 'ffoi rhag hofrennydd' (Evans 2010, t.148), yn ogystal â sicrwydd Daniel bod marwolaeth Davies yn un amheus. Fodd bynnag, nid *thriller* a geir yma, ond 'ymdrech [...] gan ddau unigolyn i greu realiti o'r newydd wedi marw eu ffrind' (D. Williams 2005, t.23). Wrth '[b]arodio a gwyrddroi confensiynau'r nofel realaidd' (D. Williams 2005, t.24), gwelir bod y nofel yn defnyddio elfennau ôl-fodern. Mae *Bullshit* hefyd yn chwarae â disgwyliaidau'r gynulleidfa drwy osod disgwyliaidau am *thriller*, oherwydd cred y cymeriadau bod *serial killer* yn y cyffiniau. Nid oes llofrudd, ac ni fu llofruddiaeth – breuddwydiodd Cat am lofrudd, a defnyddiodd Cindy'r stori er mwyn cuddio'r ffaith ei bod wedi dweud celwydd wrth T-Bone ynglŷn â chael ei blentyn. Ond mae breuddwyd Cat yn llithro i 'realiti' y ddrama, ac mae hi'n deffro yn nillad y llofrudd. Mae'n lladd ei hun, yn credu mai hi yw'r llofrudd, ac mae ei gŵr yn defnyddio'r stori am lofrudd (yn ogystal â thorri'r corff yn ddarnau) i guddio'r hunanladdiad. O ganlyniad,

⁵⁷⁶ Er yr ymddengys bod y broliant yn gam-arweiniol, wrth ei ddarllen ar ôl gorffen y nofel, gwelir ei fod yn grynodeb perffaith o'r plot.

mae tref Sansregret yn denu nifer o dwristiaid. Ceir elfen swreal hefyd mewn golygfeydd gyda'r cymeriadau'n adrodd eu breuddwydion wrth bysgodyn. Fel y dywed Lavoie, 'Marc Prescott semble plus à l'aise dans le monologue halluciné que dans le dialogue traditionnel' (2001, t.90).⁵⁷⁷ Dadleua Sheppard yn ei hastudiaeth o ffuglen Gymreig fod 'rhai awduron yn trawsffurfio ac yn ailddiffinio [...] ffurfiau llenyddol, disgysiau, a lleoliadau penodol er mwyn dangos nad yw hunaniaethau cymhleth eu cymeriadau yn gweddu i'r fframweithiau pegynol sydd eisoes yn bodoli' (2018, t.131). Mae'r ffurfiau llenyddol hybrid hyn, sy'n gwrthod perthyn i un genre'n unig, yn 'ofodau lle y dadadeiladir aralredd y prif gymeriadau' (Sheppard 2018, t.66), sy'n perthyn i ddamcaniaeth Bhabha, fod y Trydydd Gofod yn ein galluogi '[to] elude the politics of polarity and emerge as the other of ourselves'(1994, t.39). Mae'r ffurfiau hybrid hyn yn cynnig lle i '[f]ynegi hunaniaethau cymhleth, amlhaenog eu cymeriadau' (Sheppard 2018, t.66).

Defnyddir elfennau swreal yn *Dyn yr Eiliad*, er enghraifft yn yr olygfa pan yw Daniel yn gyrru'n ôl i Gaerdydd, ac yn credu bod y car y tu ôl iddo wedi'i gysylltu â'i gar ef. Wrth iddo edrych yn y drych a methu gweld wyneb gyrrwr y car, cred mai ef ei hun sy'n gyrru'r car hwnnw, 'fel petai mewn rhyw fydysawd cyfochrog' (DyE 30). Mae marwolaeth Davies hefyd yn swreal, gyda Daniel yn sicr nad yw Davies wedi marw mewn damwain gyffredin, gan anghytuno â barn Anna a chanfyddiad yr heddlu. Mae Daniel yn dod i'r canlyniad bod 'Davies wedi gyrru ar hyd yr hewl gan lwyr fwriadu lladd ei hun', ond ei fod wedi cael damwain (DyE 174). Mae'r peth yn swreal, ac mae Daniel yn chwerthin, ac yn gweld 'y cyfan yn un jôc fawr' yn ei feddwdod (DyE 174). Mae *Le Chien* hefyd yn

⁵⁷⁷ "ymddengys fod Marc Prescott yn fwy cartrefol yn y monolog *hallucinated* na'r ddeialog draddodiadol".

defnyddio elfennau swreal. Mae'r pum cymeriad ar y llwyfan drwy gydol y ddrama, ond Jay a'i dad yw'r unig gymeriadau sydd ym mhresennol y darn. Mae'r fam a'r chwaer wedi gadael a bu farw'r tad-cu'r diwrnod blaenorol – ond maent yn siarad â Jay. Nodir y cyfarwyddyd llwyfan *Temps*⁵⁷⁸ (yn hytrach na'r *Pause*⁵⁷⁹ arferol, sydd hefyd yn y testun) cyn iddynt siarad. Awgryma hyn 'rupture dans le continuum temporel'⁵⁸⁰ sy'n arwydd eu bod yn absennol o 'realiti' y ddrama (Burns 2007, t.147). Dywed O'Neill-Karch ei bod wedi dod i gredu bod yr holl ddrama yn digwydd yn nychymyg Jay (2003, dyfynnir yn Cipcigan 2007, t.160); ceir awgrym nad yw Jay wir wedi llofruddio'i dad gan nad yw'r tad yn cwmpo er i Jay ei saethu dair gwaith cyn i'r tad-cu (marw) gymryd y gwn o ddwylo Jay (C 61-2). Os yw popeth yn digwydd yn nychymyg Jay, mae'r anghysonderau hyn yn gwneud synnwyr (O'Neill-Karch yn Dolbec 2007, t.86).

Ceir cymeriadau swreal yn y nofel *Bloupe*. Enghraifft dda o hyn yw'r cymeriad Dive Bouteille, merch y prif gymeriad. Er ei bod yn ymddwyn fel merch arferol, potel wydr yw ei chorff. Mae'r cymeriadau eraill yn ymddwyn fel na phetai'r botel-ferch yn anghyffredin, megis mewn golygfa â'i brawd Tilleul sy'n ei chynghori i eistedd ar wymon neu dywod y traeth rhag gwneud niwed i wydr y botel (Bp 175-6). Ceir neges yn y botel; diffiniad o'r gair 'Acadia':

ACADIA. 1. A former name for a French colony of eastern Canada, that included Nova Scotia and New Brunswick. 2. A parish in southern Louisiana settled by Acadian exiles. (Bp 135)

Mae'r diffiniad hwn yn dangos Acadia (y cyfieithiad Saesneg o *Acadie*) fel term hanesyddol neu ymylol yn hytrach na chyfeirio at hunaniaeth gyfoes *acadien*.

Dengys y trosiad hwn sut y gall diffiniad eraill o ddiwylliant gael effaith ar yr hunaniaeth bersonol. Mae'r disgrifiad o Dive fel potel nad yw'n

⁵⁷⁸ 'Amser'.

⁵⁷⁹ 'Saib'.

⁵⁸⁰ 'rhwyg yn y continwmm amser'.

'hermétiquement fermée' (Bp 123)⁵⁸¹ hefyd yn drosiad pwerus (Leclerc 2004, t.298). Mae cynnwys y botel yn agored i ddylanwad y byd tu allan, gyda'r gwin yn suro neu'n troi'n bersawr am yn ail (Bp 123). Gwelir dylanwad y byd tu allan ar bersonoliaeth ddynol Dive yn ogystal, gyda'r gymdeithas angloffon yn cael effaith arni, sydd i'w weld wrth iddi wrthod newid ei henw teuluol i 'Bloupe' gyda gweddill y teulu a'i dymuniad i fynychu ysgol Saesneg (Bp 174).

Nodwedd swreal arall sy'n chwarae â disgwyliadau'r darlennydd ymhellach yw'r defnydd o dechnegau sy'n atgoffa'r darlennydd ei b/fod yn darllen testun ffuglennol. Dyma lenyddiaeth a ddisgrifir fel *metafiction*, gan ein hatgoffa'n gyson ein bod yn darllen ffuglen yn hytrach nac ein darbwyllo ein bod yn cael cip ar realiti (Nicol 2002, t.7; 2009, t.35). Er enghraifft, yn *Bullshit*, mae Gonzo'n atgoffa Pickle 'c'est ta réplique, man' (BS 179),⁵⁸² a cheir troednodiadau lle mae'r awdur yn gwneud hwyl am ben y confensiwn ysgrifennu neu'n tynnu coes, megis yr enghreifftiau isod sy'n rhoi sylwadau ar gyfarwyddiadau llwyfan:

Soudain, il regarde à sa gauche [troednodyn] Non. L'autre gauche!
[...]

Il regarde de nouveau à sa droite [troednodyn] C'est ça. Bravo. T'as tout compris.

[...]

Il ajuste sa cravate, se lève et sort, côté jardin [troednodyn] Non! L'autre...
Ah! Pis sors donc du côté que tu veux. (BS 166)⁵⁸³

Yn *Bloupe*, ceir sylwebaeth gan yr awdur/Bloop,⁵⁸⁴ megis pan yw'n ymddiheuro am yr holl newidiadau amser yn y testun, gan ddweud nad oes ganddo amser i roi trefn ar yr ysgrifennu (Bp 107). Mae'n rhoi sylwebaeth ar y weithred o ysgrifennu, ond mae hefyd yn atgoffa'r darlennydd ei fod yn darllen gwaith

⁵⁸¹ 'Aerglos' neu '*hermetically sealed*'.

⁵⁸² "Dy lein di ydi hi, man".

⁵⁸³ "Yn sydyn, edrycha i'w chwith [troednodyn] Na, y chwith arall! [...] Mae'n edrych eto i'w dde [troednodyn] Dyna fo. Bravo. Ti wedi'i dallt hi. [...] Mae'n sythu ei grafat, codi ac yn gadael y llwyfan, ochr yr ardd [troednodyn] Na! Y llall... O! Cer allan pa bynnag ochr t'isio."

⁵⁸⁴ Nid yw'n amlwg pa lais sy'n siarad.

ffuglennol. Mae hyn eto'n gwthio'r darllenydd i rôl weithredol, gan bwysleisio pwysigrwydd cwestiynu a dehongli.

10.2.5 Cyd-blethu gwirionedd a ffuglen

Dyfais ôl-fodern a ddefnyddir yn *Pour Sûr* ac *Y Ddyled* yw creu cymeriad o'u hawduron, dyfais a ddisgrifir fel *frame-breaking* (Nicol 2009, t.37). Mae hyn yn wahanol i *Dyn yr Eiliad* neu *Bloupe*, sy'n cyfeirio at gymeriad fel awdur, ond nid yw'r cymeriad hwn yn ymdebygu i wir awdur y nofel. Mae *Y Ddyled* yn hanes am Llwyd Owen, yr awdur, sydd wedi cyhoeddi tair nofel Gymraeg,⁵⁸⁵ cyn troi at gyhoeddi yn y Saesneg o dan yr enw 'Floyd Ewens'. Enw ei wraig yw Lisa (fel gwraig y Llwyd Owen go iawn), ac mae nifer o awduron Cymru hefyd yn ymddangos yn y nofel, megis Jon Gower, Fflur Dafydd ac Owen Martell. Mae'r nofel yn defnyddio'r cyfuniad hwn o wirionedd a ffuglen, gyda'r epigraff ar ddechrau'r nofel yn datgan ei bod 'yn seiliedig ar storïau gwir' (Dd 6). Yn y bennod olaf, gwelir Llwyd yn dweud wrth Jon Gower eu bod nhw ym mhennod olaf ei nofel newydd 'ar hyn o bryd' (Dd 277), sydd eto'n gwanhau'r ffin rhwng realiti a ffuglen. Mae *Pour Sûr* yn mynd â'r ddyfais ymhellach. Mae'r awdures France Daigle yn ymddangos yn y testun mewn sawl cyfarfod â chymeriadau gwahanol sy'n cyfeirio ati fel eu creawdwr. Er bod hyn yn torri ar 'realiti' y testun, dylid nodi bod y golygfeydd yn eithaf confensiynol gan eu bod yn dangos dau gymeriad yn cyfarfod am baned, yn hytrach na gwyrddroi realiti'r testun ymhellach. Mewn un olygfa, mae'n cyfarfod â Josse, sy'n ei chyhuddo o daenu straeon bod busnesau Terry a Carmen mewn trafferthion. Dywed nad yw hyn yn deg gan mai o'u herwydd hwy y mae pobl yn hoffi ei llyfrau: 'C'est zeux qui te font vivre!' (PS 652).⁵⁸⁶ Mae'n wir fod Terry a Carmen yn gymeriadau

⁵⁸⁵ Sef *Ffawd*, *Cywilydd a Chelwyddau* (2006), *Ffydd Gobaith Cariad* (2007) ac *Yr Ergyd Olaf* (2007).

⁵⁸⁶ "Nhw sy'n gwneud i ti fyw!"

poblogaidd yng ngwaith Daigle; disgrifir hwy fel ei ‘personnages fétiches’ (Leblanc a Brown 2003, t.154),⁵⁸⁷ a dywed yr awdur bod darllenwyr yn ymateb yn dda i Terry a Carmen, a’i bod hithau wedi canfod ysgafnder gyda nhw (Boehringer 2004, t.15). Ond mae’r naratif yn *Pour Sûr* yn atgoffa’r darllenydd mai’r awdur sy’n ‘faire vivre’ y cymeriadau – gan gynnwys Terry, Carmen a Josse (PS 652). Fodd bynnag, nid yw’r awdur mewn rheolaeth lawn o’r cymeriadau, fel y darn hwn o ddiwedd yr olygfa:

[FD] – Tu ne penseras pus comme ça quante tu seras enceinte.
[Josse] – Dis-moi pas que tu vas me faire ça!
[FD] – Non, pas moi. Lui. (PS 653)⁵⁸⁸

Mae’r olygfa hon yn chwarae â’r confensiwn, nid yn unig o ddangos yr awdur mewn golygfa â’i chymeriadau, ond drwy ddangos fod ganddynt ‘fywydau’ sydd y tu hwnt i’w rheolaeth – oherwydd ei chariad y byddai Josse yn beichiogi, nid oherwydd penderfyniad yr awdur. Mae’r cymeriadau’n cael eu portreadu fel endidau sy’n annibynnol ar yr awdur, megis cymeriad ‘Anonyme #2’, sy’n ddig wrth yr awdur am beidio â rhoi enw na chenedl iddo/i (PS 511-2), Sylvia sy’n dweud nad yw’n hoff o’r awdur yn gwneud hwyl am ben grefydd (PS 545-7), neu’r olygfa pan yw France yn cyfarfod â Claudia mewn ardal nad yw hi’n ei hadnabod ac felly na all fod wedi’i chreu (PS 418). Mae hyn yn chwarae â ffurf y nofel drwy gydblethu elfennau o’r byd ‘go iawn’ a’r ffuglennol. Er bod elfennau swreal yn y nofel, mae yma ryw fath o ddilyniant sy’n ymdebygu i blot – ceir digwyddiadau ym mywyd teulu Terry a Carmen sy’n creu math o linyn storïol, er na ellir dweud bod plot fel y cyfryw.

Yn ogystal â chynnwys yr awdur fel cymeriad, chwelir y ffin rhwng ffuglen a realiti yn *Y Ddyled* a *Pour Sûr* drwy gyfeirio at weithiau eraill gan yr awduron.

⁵⁸⁷ ‘hoff gymeriadau’ neu ‘gymeriadau lwcus’.

⁵⁸⁸ “Fyddi di ddim yn meddwl felly pan fyddi di’n feichiog” “Deud wrtha’i nad wyt ti am neud hynny i fi!” “Na, ddim fi. Fo. [Bernie, cariad Josse]”.

Mae'r *Ddyled* yn cyfeirio at elfennau o *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau* (2006), nofel gyntaf Llwyd Owen. Mae un o gymeriadau ymylol y nofel honno (Doc, hanner brawd y prif gymeriad, Luc Swan) wedi crwydro i dudalennau *Y Ddyled*, yn rhinwedd ei swydd fel deliwr cyffuriau. Ceir hefyd gyfeiriadaeth at groesffordd arbennig (Dd 242-3), lle bu farw Winston a Whitey, a chyfeiriadaeth at Emlyn a Beca sy'n ymddangos yn *Un Ddinas Dau Fyd* (2011), dilyniant *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau*. Yn *Pour Sûr*, ceir sawl *fragment* sy'n cyfeirio at weithiau Daigle, gan gynnwys ffeithiau nad oedd hi wedi'u cynnwys yn y nofel *1953: chronique d'une naissance annoncée* (1995), megis:

Aucune mention du décès du compositeur russe Sergei Prokofiev le même jour que Staline, soit le 5 mars 1953, dans *1953. Chronique d'une naissance annoncée* de la romancière acadienne France Daigle. (PS 670)⁵⁸⁹

Drwy gynnwys cyfeiriadaeth at weithiau llenyddol nad ydynt o reidrwydd yn bodoli yn yr un bydysawd â'r nofel dan sylw, tynnir sylw at y ffaith mai gwaith ffuglennol yw'r nofel yn hytrach na cheisio creu ymdeimlad o realaeth fel a geir mewn nofelau clasurol.

10.2.6 Adroddwr annibynadwy

Mae nifer o'r testunau'n dangos fod yr adroddwyr yn annibynadwy. Er enghraifft, mewn golygfa yn *Bullshit*, mae Gonzo'n adrodd stori (erchyll) am barti (BS 202-3). Dim ond ar ddiwedd yr olygfa y gwelir ei fod yn ymarfer adrodd wrth gamera, ac mae'n dweud 'C'est pas convaincant, *big*. Ç'a besoin de travail' (BS 203).⁵⁹⁰ Ffuglen bur yw'r stori, sy'n gwyrddroi confensiwn yr ymson: 'By convention [...] what the character says in a soliloquy is to be taken as sincere, at least within the limits of his own self-knowledge' (Hussey 1982;

⁵⁸⁹ "Dim sôn am farwolaeth y cyfansoddwr Rwsiaidd Sergei Prokofiev yr un diwrnod â Stalin, sef 5 Mawrth 1953 yn *1953. Chronique d'une naissance annoncée* gan yr awdures acadienne France Daigle."

⁵⁹⁰ "Dydy o ddim yn argyhoeddi, *big*. Mae angen gwaith."

dyfynnir yn Culpeper 2001, tt.169–170). Ceir golygfa debyg fel prolog i'r ddrama, lle datgelir mai celwydd yw stori Gonzo am alcoholiaeth ei fam (BS 105-110). Yn yr un modd, mae prif gymeriad *Submarine*, Oliver, yn dangos i'r darlennydd na ddylid ymddiried ynddo gan ei fod yn hawlio bod yr un stori am gam-drin ei gefnder yn wir ac yn gelwydd ar adegau gwahanol (Sb 62-9). Mae'r cymeriadau'n dangos inni mai realiti wedi'i ffugio sydd yma, ac na ddylem ymddiried ynddynt. Wrth gwrs, ni all cymeriad-adroddwr fod yn annibynadwy drwy gydol yr amser; fel y dywed David Lodge, 'that only tells us what we know already, namely that a novel is a work of fiction'(1992, t.155). Rhaid i'r darlennydd gael rhyw obaith o wybod sut i wahaniaethu rhwng y 'gwir' a'r gau yn y nofel, fel yn y byd go iawn (1992, t.155). Yn *Y Ddyled*, rhaid i'r darlennydd weithio'n galed er mwyn ceisio darganfod y 'gwir' yn y nofel. Drwy'r nofel, 'daw'n gynyddol amlwg mai creu a chyflwyno fersiwn ohono'i hunan y mae [Llwyd], a'i fod yn adroddwr person cyntaf nad oes modd dibynnu arno'(Williams 2015, t.85). Mae'r nofel yn trafod sawl dyled, a sawl brad. Mae'n amlwg nad yw Llwyd nac Idris yn ymddiried yn ei gilydd. Ceir ansicrwydd ynglŷn â chymeriad Idris, ac mae'n amlwg bod ei iechyd meddyliol a'i iechyd corfforol yn fregus. Ar ddau achlysur, gofynna Idris i Llwyd a yw'n gweld Daf o hyd, ond tua diwedd y nofel, cawn wybod bod Daf wedi marw o ganlyniad i'r ecstasi a brynodd y tri yn Amsterdam. Er bod cymeriad Llwyd yn ceisio cyfiawnhau ei benderfyniadau wrth y darlennydd, mae'n amlwg o'r ffordd y mae'n delio ag Idris a Casi nad Idris yw dihiryn y nofel hon.

Yn *Dyn yr Eiliad*, dangosir i'r darlennydd nad yw Daniel yn adroddwr dibynadwy. Fel sy'n nodweddiadol o lenyddiaeth ôl-fodern, er bod gwirionedd yn cael ei fynegi gyda 'ffeithiau' i'w gefnogi, mae adroddwr yn creu'r gwirionedd hwnnw ac yn dewis y ffeithiau hynny (B. Foley 1986 yn Hutcheon 1992, t.239). Dywed yr

adroddwr fod Daniel wedi bod yn rhoi ‘fersiwn ddiogel, sanitised hyn yn oed’ o’i berthynas â Davies ac Anna, gan ddweud ‘Sgwn i faint o hanes y byd sydd wedi cael ei ysgrifennu allan o fodolaeth fel hyn’ (DyE 67). Amlygir y ffaith na ddylid ymddiried yn yr adroddwr i fod yn ddiuedd, ac y dylai’r darllenydd gwestiynu’r hyn sy’n cael ei ddweud. Mae Daniel yn gwthio’r darllenydd i gwestiynu popeth yn y testun. Mewn golygfa arall er enghraifft, mae Daniel a Davies yn cyfarfod â dyn mewn tafarn sy’n honni ei fod yn focsiwr enwog a gollodd yr ornest am deitl y byd dair gwaith. Er bod Daniel yn gwybod ar unwaith bod y dyn yn dweud celwydd, mae Davies yn ymddiried yn y dyn, ac yn cael ei siomi o ganfod mai celwydd yw’r hanes (DyE 226). Dyma nodwedd sy’n rhan bwysig o ddamcaniaeth ôl-strwythurol; fel yr esbonia Spivak, rhaid ystyried bod rhywbeth yn cael ei adael allan wrth greu naratif, gan holi drosodd a throsodd ‘What is it that is left out? Can we know what is left out?’ (dyfynnir yn Byrne 1998, t.55). Dadleua Patricia Waugh fod metaffuglen yn ffordd o amlygu i’r darllenydd bod bywyd go iawn, fel nofelau, wedi’i greu o fewn ‘ffrâm’; ni all y darllenydd wybod lle mae un ffrâm yn gorffen ac un arall yn dechrau (2002, tt.244–5). Dangosir bod angen cwestiynu popeth – o ddigwyddiadau hanesyddol i’r testun llenyddol sy’n cael ei ddarllen.

10.3 Casgliad

Yn y bennod hon, ehangwyd yr astudiaeth o drafod y cyfnewid cod yn y testunau fel ffenomen ieithyddol yn unig i’w drafod o safbwynt theori lenyddol. Trafodwyd pwysigrwydd arbennig iaith yn y cyd-destun ôl-drefedigaethol, gan ddadlau bod yr awduron yn defnyddio cyfnewid cod yn eu llenyddiaeth er mwyn dangos bod lle i’r ieithwedd hon o fewn sbectrw m ieithyddol. Defnyddir yr ieithwedd hon er mwyn mynegi hunaniaeth sy’n esblygu, gan bwysleisio ei bod yn rhan hanfodol o hunaniaeth sawl cymeriad. Mae’r cyfnewid cod yn

nodweddiadol o'r Trydydd Gofod y mae'r cymeriadau'n perthyn iddo. Mae'r gofod hwn yn caniatáu iddynt dorri'n rhydd o'r cyferbyniad deuaidd ac archwilio syniadau newydd, ac mae'r cyfnewid cod yn ffordd iddynt geisio mynegi hunaniaeth sy'n esblygu a newid. Gwelir bod y ddwy iaith yn caniatáu'r cymeriadau i symud rhwng gofodau gwahanol, a'r newid yn enwau priod yn adlewyrchu'r gallu hwn i symud o un gofod i'r llall.

Mae'r enwau hyn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd deall a dehongli iaith, wrth i'r darllenydd ddatgelu haenau pellach, cuddiedig o ystyr, a hynny'n gwthio'r darllenydd i rôl weithredol. Oherwydd bod y darllenydd mewn rôl weithredol, gwelir bod nifer o'r testunau'n cyfateb i ddisgrifiad Barthes o destunau *scriptible*, gan greu cyd-awdur o'r darllenydd wrth iddo orfod gweithio i ailadeiladu'r testun. Yn ogystal â phwysleisio ansefydlogrwydd iaith, defnyddir nodweddion ôl-fodern eraill megis cronoleg ansicr, strwythur neilltuol, nodweddion amlgyfrwng a ffurfiau hybrid. Ceir ambell destun metaffuglennol sy'n chwalu'r ffin rhwng ffuglen a gwirionedd, gan amlygu bod angen i'r darllenydd gwestiynu popeth.

Trafodwyd ymgais yr awduron i greu bydysawd llenyddol penodol. Yn ieithyddol, mae'r defnydd o gyfnewid cod yn chwarae rhan greiddiol yn hyn o beth, yn ogystal â'r defnydd o dafodiaith. Ceir hefyd lawer o gyfeiriadaeth ddiwylliannol, a hynny eto'n gwthio'r darllenydd i ddehongli'r testun. Lleolir nifer o'r testunau mewn bydysawd sydd wedi'i fapio ar leoliadau go iawn, gyda chyfeiriadaeth sy'n blaenoriaethu darllenwyr sy'n gyfarwydd â'r lleoliadau hyn, ac ar adegau'n arallu darllenwyr sy'n anghyfarwydd â hwy.

Rhoddir bri arbennig ar sgiliau dwyieithog darllenydd, gyda nifer o'r testunau'n chwarae â dwy iaith yn y fath fodd fel na all darllenydd uniaith gael mynediad cyflawn i'r testun. Gwelwyd y gellir blaenoriaethu darllenydd dwyieithog hyd yn

oed mewn testunau Saesneg, lle na fyddai mwyafrif y darllenwyr yn medru'r iaith². O ddeall a dehongli drosto'i hun, gall darllenydd ddatgelu haenau pellach, cuddiedig o ystyr. Yn yr un ffordd, gwthir y darllenydd i gwestiynu hanes wrth i sawl testun ailddehongli digwyddiadau hanesyddol. Dangosir nad rhywbeth i'w dderbyn fel un gwirionedd sefydlog yw hanes, ond naratif wedi'i greu. Rhaid cwestiynu er mwyn gallu deall y cyd-destun hanesyddol, yn arbennig yn y cyd-destun ôl-drefedigaethol. Eto, gwobrwyir darllenydd am ddehongli iaith, gan guddio cyfeiriadaeth hanesyddol yn y testun.

Yn fwy na dim, mae'r testunau hyn yn pwysleisio nad un gwirionedd sydd, ond amrywiaeth eang o ymagweddau, sy'n berthnasol i ddamcaniaethau ôl-fodern ac ôl-drefedigaethol. Defnyddir arddulliau sy'n cyflwyno amryw o leisiau gwahanol, megis adeiladwaith cywrain neu chwaledig, a chyd-blethu elfennau aml-leisiol er mwyn cyflwyno ystod eang o leisiau i'r darllenydd. Chwaraeir â'r darllenydd, gan ei wthio i ddehongli a chwestiynu popeth – hyd yn oed y testun ei hun, yn enwedig mewn testunau a chanddynt adroddwr annibynadwy.

Ymgais hyn oll yw dangos i'r darllenydd pa mor bwysig yw'r gallu i gwestiynu, i ddehongli ac i ailddehongli drosto ei hun.

Diwedd glo

Yn y traethawd hwn, mae darganfyddiadau'r gwaith codio wedi dangos nifer o batrymau gwahanol cyfnewid cod, gan adeiladu ar ddamcaniaethau ysgolheigion eraill. Gwelwyd nad yw damcaniaeth Joshi (1985) mai dim ond 'open-class items' y gellir eu cyfnewid yn dal dŵr ym mhob iaith. Yn hytrach, profwyd bod Gardner-Chloros (2009) yn gywir yn ei damcaniaeth bod modd cyfnewid pob math o eiriau, er mai enwau sydd fwyaf tebygol o gael eu cyfnewid. Yn ogystal, gwelwyd bod mwyafrif yr enghreifftiau o gyfnewid cod yn y corpws yn perthyn i bum Dosbarth Gramadegol, sef 'ansoddair', 'brawddeg', 'enw', 'ebychiad' ac 'ymadrodd enwol', gyda phatrwm tebyg yn ymddangos ym mhob testun. Awgryma hyn fod patrwm tebyg o gyfnewid cod yn bodoli yn y Ffrangeg, y Gymraeg a'r Saesneg, er bod ychydig o amrywiaeth rhwng testunau unigol. Gwelwyd patrwm penodol o gyfnewid cod yn ymddangos yn y Maes Semanteg yn ogystal, gyda rhai meysydd yn cynnwys nifer fawr o enghreifftiau (e.e. term Saesneg) neu'n ymddangos mewn nifer o destunau (e.e. rhifo). Wrth edrych ar Ysgogiad/Swyddogaeth, gwelwyd bod yn y corpws nifer fawr o enghreifftiau o'r categorïau 'Bwlch geirfaol', 'Creu effaith arbennig' a 'Dyfynnu'; fe'u ceir ym mwyafrif y testunau unigol hefyd. Awgryma hyn oll fod patrwm tebyg o gyfnewid cod yn bodoli yn y Gymraeg, y Ffrangeg a'r Saesneg, er bod ychydig o amrywio rhwng y testunau unigol.

Wrth archwilio canlyniadau'r gwaith codio, gwelwyd gwahaniaeth yn y data rhwng y dramâu a'r nofelau. Roedd defnyddio nodweddion gramadegol o'r iaith₁ yn yr iaith₂ – cytuno ansoddeiriau, treiglo a defnyddio'r fannod – fwyaf tebygol yn y nofel, sy'n awgrymu bod arddel y rheolau hyn yn fwy tebygol mewn ffurf sydd i'w *ddarllen* yn hytrach na'i *berfformio*. Gwelwyd bod cymhareb y dramâu yn gyffredinol uwch na chymhareb sawl nofel; gan fod mwyafrif yr

enghreiffiau o gyfnewid cod yn ymddangos o fewn deialog, awgrymwyd bod a wnelo hyn â'r ffaith fod deialog yn elfen hollol ganolog i'r ddrama yn wahanol i'r nofel. Wrth droi at yr ieithoedd gwahanol, gwelwyd bod cymhareb y testunau Cymraeg yn uwch na'r testunau Ffrangeg, a oedd eto'n uwch na'r testunau Saesneg. Awgrymwyd bod gan y gymhareb berthynas â'r pâr iaith yn hytrach na'r ffurf lenyddol, gan fod y gymhareb yn aros yn weddol gyson rhwng ffurfiau. Roedd y gyfradd o gyfnewid mewnfrawddegol a rhyngfrawddegol yn debyg ym mhob pâr iaith, gyda'r pwyslais ar gyfnewid mewnfrawddegol – er bod peth amrywiaeth o fewn testunau unigol eto. Defnyddiwyd math arbennig o gyfnewid cod yn y testunau Saesneg, cyfnewid a fyddai'n hawdd i gynulleidfa nad oedd yn rhugl yn yr iaith² ei ddilyn, a defnyddiwyd technegau i hybu dealltwriaeth darllenwyr/gwylwyr yn ogystal â thermau cyfarwydd. Mae'r termau cyfarwydd hyn, megis termau teuluol, yn cyfateb i ddamcaniaethau Backus (2001) a Poplack (1981) o gyfnewid cod wrth ddefnyddio termau *semantically specific*. Wrth edrych ar y defnydd o nodweddion gramadegol, roedd marcio cenedl wrth gyfnewid cod yn fwy arferol yn y Ffrangeg, tra'r duedd yn y Gymraeg oedd osgoi nodi cenedl enw sy'n deillio o gyfnewid cod.

Wrth archwilio'r testunau, dadleuwyd bod sawl patrwm gwahanol o gyfnewid cod ar gael i awdur eu defnyddio, a hynny am wahanol resymau. Gellir defnyddio cyfnewid cod er mwyn portreadu ieithwedd unigolyn, neu ei ddefnyddio i bortreadu cymdeithas ddwyieithog, gan gynnwys cymeriadau uniaith iaith². Gellir arbrofi wrth ddefnyddio cyfnewid cod fel rhan o'r naratif, neu ei gadw'n arbennig fel nodwedd o'r ddeialog – a hyd yn oed ar gyfer deialog un cymeriad yn benodol. Dengys hyn y potensial sydd ar gyfer arbrofi â dwyieithrwydd wrth lenyddu; gallai hyn fod o ddiddordeb neilltuol i awduron dwyieithog heddiw.

Awgrymwyd gwelliannau i fodel Lipski (1982) sy'n gwahaniaethu rhwng tri math gwahanol o destunau sy'n defnyddio cyfnewid cod, gan awgrymu bod amrywiaeth o fewn y tri math hwn. Mae testunau Math I yn defnyddio cyfradd isel o gyfnewid cod er mwyn rhoi blas i ddarllenydd o'r iaith₂, ond nid oes angen ei ddeall er mwyn dilyn y stori. Dangoswyd bod modd i destunau Math II ddefnyddio cyfuniad o gyfnewid rhyngfrawddegol a mewnfrawddegol, yn wahanol i ddamcaniaeth Lipski, gan awgrymu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gymhareb testunau a'r angen i ddeall y cyfnewid cod. Mae testunau Math IIa yn defnyddio cyfradd uwch o gyfnewid cod na Math I, ond eto nid oes angen deall y cyfnewid cod gan y darperir cymorth ieithyddol fel rhan o'r testun. Mae testunau Math IIb yn defnyddio cyfnewid cod tebyg, ond ni ddarperir cymorth ieithyddol, felly mae rhaid i'r darllenydd ddeall y ddwy iaith. Yna, ceir testunau Math III; mae'r rhain yn defnyddio cyfradd uchel o gyfnewid mewnfrawddegol, sy'n gyfnewid cod cymhleth iawn. Dim ond y darllenwyr mwyaf rhugl yn y ddwy iaith sy'n gallu dilyn testunau o'r fath. Awgrymwyd y gellir dosrannu ymhellach, gan wahaniaethu rhwng Math IIIa, sy'n neilltuo'r cyfnewid cod ar gyfer y ddeialog yn unig, a Math IIIb, lle ceir cyfradd uchel o'r cyfnewid cod yn ymddangos yn y naratif; mae'n rhan annatod o'r testun yn hytrach na nodwedd o ddeialog cymeriadau sy'n cael ei fframio gan naratif mewn iaith₁ safonol. Trafodwyd hefyd yr agwedd tuag at gyfnewid cod, sy'n dangos ei fod yn dod yn fwy derbyniol, er bod agweddau negyddol yn bresennol o hyd.

Wrth osod cyfnewid cod yng nghyd-destun theori lenyddol, dangoswyd bod nifer o'r testunau yn chwarae â'r darllenydd, gan amlygu pwysigrwydd deall a dehongli drosoch eich hun. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y cyd-destun ôl-drefedigaethol yng Nghymru a Chanada. Rhaid cwestiynu'r cyd-destun hanesyddol er mwyn deall y gymdeithas gyfoes, yn enwedig mewn cymdeithas

Ile ceir iaith leiafrifol. Yn y gymdeithas gyfoes hon, mae hunaniaethau'n newid ac yn esblygu, a defnyddir y cyfnewid cod yn y testunau er mwyn adlewyrchu hyn. Rhoddir bri ar y darllenydd sy'n gweithio i ganfod ystyr, wrth ddefnyddio'r ieithwedd neilltuol a'r gyfeiriadaeth benodol y mae angen i'r darllenydd eu dehongli, gan arallu darllenwyr sy'n anghyfarwydd â hwy.

Wrth gwrs, corpws o 24 testun yn unig a geir yma. Er ei fod yn gorpws o faint cyfatebol i astudiaethau ysgolheigion eraill, yn amlwg nid oes modd i gorpws o'r maint hwn fod yn gynrychiadol o holl dueddiadau llenyddiaeth greadigol Cymru a Chanada. Ond dangosodd y drafodaeth fod potensial mawr i ddadansoddi testunau llenyddol o'r safbwynt ieithyddol, a gellir defnyddio'r fethodoleg hon ymhellach mewn astudiaethau eraill o gyfnewid cod llenyddol. Gellir adeiladu corpora sy'n fwy o faint, gan gynnwys ffurfiau llenyddol eraill (e.e. cerddi, straeon byrion), yn ogystal ag astudio parau iaith gwahanol. Awgrymir y gellir archwilio'r cysylltiad rhwng rhywedd ac oedran awduron a'u defnydd o gyfnewid cod, gan fod ysgolheigion yn awgrymu cysylltiad rhwng y ddwy nodwedd hyn a'r defnydd o gyfnewid cod (Bentahila a Davies 1995; Gardner-Chloros 2009, tt.82–3). Er y sicrhawyd bod cymysgedd o destunau gan awduron benywaidd a gwrywaidd yn y corpws presennol, ni theimlir bod y corpws fel y mae yn cynnig trawstoriad digon cytbwys er mwyn dadansoddi cyfnewid cod yn ôl rhywedd awdur. At y dyfodol, awgrymir y dylid creu corpws mwy a chynnwys testunau gan fenywod a dynion sy'n defnyddio patrymau cyfnewid cod gwahanol (e.e. cyfradd uchel yn y naratif, cyfran o gyfnewid mewnfrawddegol/rhyngfrawddegol tebyg). Er fy mod wedi trafod rhai enghreifftiau o dueddiadau cyfnewid cod mewn iaith lafar yn yr astudiaeth hon, nid oedd yma gyfle i gymharu corpws o iaith lafar â'r corpws llenyddol. Yn ddi-os, byddai trafodaeth o'r math hwn yn un buddiol er mwyn cael dealltwriaeth well o gyfnewid cod llenyddol.

Gobeithio bod y traethawd hwn yn profi pa mor fuddiol yw cymharu cyfnewid cod ar lefel ryngwladol gan fod cymhariaeth o'r fath yn fodd o daflu goleuni ychwanegol ar ein dealltwriaeth o'r ieithwedd arbennig hon. Gellir gweld bod rhai patrymau o gyfnewid cod yn gyson rhwng parau iaith gwahanol, ond mae'r gwahaniaethau a welir rhyngddynt yn fwy trawiadol, gan ddangos patrymau o gyfnewid sy'n unigryw i bâr iaith penodol, megis y tueddiad i osgoi dynodi cenedl ar enwau wrth gyfnewid cod yn y Gymraeg, yn wahanol i'r Ffrangeg. Wrth gynnwys testunau Saesneg, dangosir y gwahanol batrymau cyfnewid cod wrth ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd gyda lefelau gwahanol o ruglder yn y ddwy iaith. Wrth i'r ymchwil hwn bontio astudiaeth ieithyddol ac astudiaeth lenyddol, mae'n fodd inni edrych ar lenyddiaeth greadigol o'r newydd.


Atodiad I: Terminoleg

<i>Acadien</i>	Pobl neu iaith ardal <i>Acadie</i> , sef cymuned ffrancoffon gyntaf Canada. Nid oes ffiniau clir i <i>Acadie</i> , ond ceir poblogaeth <i>acadien</i> yn New Brunswick, Nova Scotia, Prince Edward Island a rhan o Newfoundland a Labrador.
Benthyca / Benthyciad <i>borrowing</i>	Gair neu idiom o iaith arall yn wreiddiol sydd bellach yn cael ei ddefnyddio gan ystod eang o'r boblogaeth. Er enghraifft, yn y Gymraeg, ceir 'cyrten', 'dôl' (yn yr ystyr o daliad di-weithdra), 'ffeindio', 'landlord', 'persgripsiwn', 'sidêt' a 'stesion', i enwi ond llond llaw.
Bwlch Geirfaol <i>lexical gap</i>	Term sy'n bodoli yn iaith ₂ ond nid yn iaith ₁ . Gall fod ar gyfer cysyniad nad yw'n bodoli yn iaith ₁ (e.e. technoleg newydd), neu air sy'n unigryw i'w hieithoedd brodorol (e.e. <i>hiraeth</i> ; <i>sous-vide</i>). Gall hefyd fod yn air sy'n gallu cael ei gyfieithu, ond bod gwahaniaeth ystyr – er enghraifft, mae'r gair yn yr iaith ₂ yn perthyn i gywair iaith gwahanol i'r cyfieithiad iaith ₁ .
<i>Chiac</i>	Tafodiaith ffrancoffon ardal Moncton, New Brunswick, sy'n gwneud defnydd helaeth o eiriau Saesneg. Ceir hefyd dafodiaith Ffrangeg <i>acadien</i> nad yw'n defnyddio cymaint o gyfnewid cod.
Cod <i>code</i>	Term i ddisgrifio ffordd o gyfathrebu; gall olygu iaith, tafodiaith, arddull neu gywair iaith. Yn yr ymchwil hwn, defnyddir 'cod' i olygu ieithoedd gwahanol (y Gymraeg, y Saesneg a'r Ffrangeg yn benodol).
Cyferbyniad deuaidd <i>Binary opposition</i>	Pâr o dermau sy'n perthyn, ond bod ganddynt ystyron cyferbyniol. Mae'r cysyniad hwn yn greiddiol i ddamcaniaethau ôl-drefedigaethol, er enghraifft gwaith Edward W. Said ar Orientalaeth (2003) (e.e. 'Europe, the West, "us" / 'the Orient, the East, "them"' (2003, t.43).
Cyfnewid cod <i>code switching</i>	Y ffenomen o ddefnyddio dwy iaith yn yr un disgwrs. Defnyddir sawl term gwahanol yn aml er mwyn disgrifio'r ffenomen hon (e.e. cod groesi, cymysgu cod, trosi). Defnyddir y term 'cyfnewid cod' yn unig yn yr ymchwil hwn.
Cyfnewid metaieithyddol <i>Metalinguistic switching</i>	Awgrym mewn testun uniaith bod y cymeriadau'n siarad iaith wahanol. Er enghraifft, gellir nodi 'she said in French', neu ddefnyddio eirynnau o'r iaith ₂ er mwyn awgrymu bod y sgwrs gyfan yn digwydd yn yr iaith ₂ ond bod yr awdur yn ei gofnodi yn y Saesneg.
Cyfnewid mewnfrawddegol <i>Intrasentential switching</i>	Cyfnewid sy'n digwydd o fewn brawddeg. Mae'r iaith ₁ a'r iaith ₂ yn ymddangos yn yr un frawddeg.
Cyfnewid rhyngfrawddegol <i>Intersentential switching</i>	Testun sy'n defnyddio cyfnewid cod, ond gan gadw'r iaith ₁ a'r iaith ₂ mewn brawddegau ar wahân.

Gair (geiriau) benthyg <i>Loanword(s)</i>	Gair sy'n rhan o'r iaith ₁ , ond sydd â'i wreiddiau yn yr iaith ₂ . Er enghraifft, yn y Gymraeg, ceir geiriau megis 'ffesant', 'cwpwrdd' a 'sbio'. Yn aml, byddant wedi'u hintegreiddio i'r iaith frodorol, ond nid bob amser; hynny yw, gall y geiriau gael eu haddasu, neu beidio â chael eu haddasu.
iaith ₁ <i>Language₁, L₁</i>	Yr iaith frodorol, neu'r iaith gyntaf (i'r awdur, y siaradwr neu'r darlennydd).
iaith ₂ <i>Language₂, L₂</i>	Yr ail iaith (i'r awdur, y siaradwr neu'r darlennydd).
Idiolect <i>Idiolect</i>	Nodweddion arbennig ffordd unigolyn o siarad (yn wahanol i dafodiaith (<i>dialect</i>) sydd yn arbennig i grŵp o bobl neu ardal arbennig).
<i>joual</i>	Tafodiaith ffrancoffon Québec.
Maes (Meysydd) Dadansoddi <i>Analytical Field(s)</i>	Defnyddir un-ar-ddeg maes dadansoddi ar gyfer yr ymchwil hwn (Golygfa/Pennod, Adran, Hyd, Dosbarth Gramadegol, Maes Semanteg, Ysgogiad/Swyddogaeth, Deialog Cymeriadau, Y Fannod, Cenedl, Treiglo, Cytuno Ansoddeiriau) yn ogystal â chyfrifo cymhareb (nifer yr enghreifftiau wedi'i rannu â nifer y tudalennau).

Atodiad II: Mapiau o Gymru


Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul AGEHI, 2011



Ffigur 247: Cyfran poblogaeth Cymru sy'n medru'r Gymraeg

(Llywodraeth Cymru 2013)


Canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl yn ôl ardal awdurdod lleol



Ffigur 248: Canran siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl awdurdod lleol


(Llywodraeth Cymru 2015)

Atodiad III: Mapiau o Ganada




Ffigur 249: Taleithiau Canada

(E Pluribus Anthony 2006)



Ffigur 250: Canran o boblogaeth Canada sy'n medru'r Ffrangeg a'r Saesneg


(Statistics Canada 2012b)









Ffigur 251: Canran o boblogaeth Canada a'u mamiaith (Saesneg/Ffrangeg)

(Statistics Canada 2012a)


Atodiad IV: Canlyniadau'r Codio Cymhareb









Golygfeydd/Pennod




Ffigur 259: Golygfeydd – *Llywth*




Ffigur 260: Golygfeydd – *AGCH*




Ffigur 261: Golygfeydd – *Moncton Sable*






Ffigur 262: Golygfeydd – *Bullshit*




Ffigur 263: Golygfeydd – *Laurie*




Ffigur 264: Golygfeydd – *BD/DBG*







Ffigur 268: Penodau – Ladd Duw




Ffigur 269: Penodau – Y Ddyled




Ffigur 270: Penodau – Volkswagen Blues




Ffigur 271: Penodau – Bloupe




Ffigur 272: Penodau – Xman




Ffigur 273: Penodau – Pour Sûr



Ffigur 274: Penodau – Bones to Ashes



Ffigur 275: Penodau – *Submarine*




Ffigur 276: Penodau – *Pigeon*


Adran



Ffigur 277: Adran – *Sundance*




Ffigur 278: Adran – *Wal*




Ffigur 279: Adran – *Llwyth*




Ffigur 280: Adran – *AGCH*




Ffigur 281: Adran – *Dramâu Cymraeg*



Ffigur 282: Adran – *Le Chien*




Ffigur 283: Adran – *Moncton Sable*




Ffigur 284: Adran – *Bullshit*



Ffigur 285: Adran – *Laurie*




Ffigur 286: Adran – *Dramâu Ffrangeg*




Ffigur 287: Adran – *BD/DBG*









Ffigur 288: Adran – *MoC*




Ffigur 289: Adran – *Blood*








Ffigur 302: Adran – *Bones to Ashes*




Ffigur 303: Adran – *Submarine*







Ffigur 304: Adran – *New Tab*





Ffigur 305: Adran – *Pigeon*




Ffigur 306: Adran – *Nofelau Saesneg*






Hyd

- un gair 64 (39%)
- ▒ llai na brawddeg 33 (20.1%)
- brawddeg 25 (15.2%)
- mwy na brawddeg 42 (25.6%)




Ffigur 313: Hyd – Sundance

- un gair 41 (47.1%)
- ▒ llai na brawddeg 25 (28.7%)
- brawddeg 14 (16.1%)
- mwy na brawddeg 7 (8%)




Ffigur 314: Hyd – Wal

- un gair 212 (26.9%)
- ▒ llai na brawddeg 147 (18.7%)
- brawddeg 196 (24.9%)
- mwy na brawddeg 232 (29.5%)




Ffigur 315: Hyd – Llwyth

- un gair 39 (15.4%)
- ▒ llai na brawddeg 11 (4.3%)
- brawddeg 76 (29.9%)
- mwy na brawddeg 128 (50.4%)




Ffigur 316: Hyd – AGCH



- un gair 356 (27.6%)
- ▒ llai na brawddeg 216 (16.7%)
- brawddeg 311 (24.1%)
- mwy na brawddeg 409 (31.7%)


Ffigur 317: Hyd – Dramâu Cymraeg

- un gair 57 (65.5%)
- ▒ llai na brawddeg 8 (9.2%)
- brawddeg 16 (18.4%)
- mwy na brawddeg 6 (6.9%)




Ffigur 318: Hyd – *Le Chien*

- un gair 4 (40%)
- ▒ llai na brawddeg 1 (10%)
- brawddeg 4 (40%)
- mwy na brawddeg 1 (10%)




Ffigur 319: Hyd – *Moncton Sable*

- un gair 437 (75.9%)
- ▒ llai na brawddeg 38 (6.6%)
- brawddeg 56 (9.7%)
- mwy na brawddeg 45 (7.8%)




Ffigur 320: Hyd – *Bullshit*

- un gair 206 (90%)
- ▒ llai na brawddeg 12 (5.2%)
- brawddeg 10 (4.4%)
- mwy na brawddeg 1 (0.4%)




Ffigur 321: Hyd – *Laurie*



- un gair 704 (78%)
- ▒ llai na brawddeg 59 (6.5%)
- brawddeg 86 (9.5%)
- mwy na brawddeg 53 (5.9%)


Ffigur 322: Hyd – *Dramâu Ffrangeg*

- un gair 34 (16.8%)
- ▒ llai na brawddeg 91 (45%)
- brawddeg 39 (19.3%)
- mwy na brawddeg 38 (18.8%)




Ffigur 323: Hyd – BD/DBG

- un gair 3 (60%)
- ▒ llai na brawddeg 2 (40%)




Ffigur 324: Hyd – MoC

- un gair 54 (33.1%)
- ▒ llai na brawddeg 27 (16.6%)
- brawddeg 62 (38%)
- mwy na brawddeg 20 (12.3%)




Ffigur 325: Hyd – Blood

- un gair 1 (50%)
- ▒ brawddeg 1 (50%)




Ffigur 326: Hyd – Tonypandemonium




- un gair 92 (24.7%)
- ▒ llai na brawddeg 120 (32.3%)
- brawddeg 102 (27.4%)
- mwy na brawddeg 58 (15.6%)


Ffigur 327: Hyd – Dramâu Saesneg




Ffigur 328: Hyd – *Dyn yr Eiliad*




Ffigur 329: Hyd – *Martha Jac a Sianco*



Ffigur 330: Hyd – *Lladd Duw*




Ffigur 331: Hyd – *Y Ddyled*




Ffigur 332: Hyd – *Nofelau Cymraeg*

- un gair 67 (24%)
- ▒ llai na brawddeg 135 (48.4%)
- brawddeg 27 (9.7%)
- mwy na brawddeg 50 (17.9%)




Ffigur 333: Hyd – Volkswagen Blues

- un gair 255 (30.9%)
- ▒ llai na brawddeg 128 (15.5%)
- brawddeg 231 (28%)
- mwy na brawddeg 210 (25.5%)




Ffigur 334: Hyd – Bloupe

- un gair 275 (51.9%)
- ▒ llai na brawddeg 111 (20.9%)
